# Yr ‘Hen Dri Ohonom’: Gwrywdod, y Personol a’r Cyhoeddus yn y Cyfeillgarwch Rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards

**Cyflwynir y traethawd hwn ar gyfer gradd Doethur mewn Athroniaeth**

**Prifysgol Caerdydd, 2014**

**Manon Jones**

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Diolchiadau** | **i** |
| **Crynodeb** | **ii** |
| **Y datganiad a'r gosodiadau wrth gyflwyno'r traethawd** | **iv** |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Pennod 1:** 'Yr ydych wedi bod yn rhy swil, dylech ymhysbysebu tipyn': Datgelu cymeriadau'r cyfeillion yng nghynnwys eu gohebiaeth. | **20** |
| **Pennod 2:** 'Hen ddyddiau'r Bala sydd yn fy meddwl wrth ysgrifennu pob sill ': Plethu profiadau cyhoeddus a phersonol. | **78** |
| **Pennod 3:** 'Mae'm calon yn brifo drosoch': Yr ymlyniad emosiynol mewn cyfnodau heriol. | **141** |
| **Pennod 4**: 'A hwythau bob amser mor "fond" och cwmpeini': Rhwydweithiau teuluol ehangach. | **197** |
| **Casgliad** | **261** |
| **Llyfryddiaeth** | **277** |

# DIOLCHIADAU

Hoffwn ddiolch yn fawr i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru am eu cymorth yn darparu copiau o’r ohebiaeth a’r llawysgrifau a drafodir yng nghorff y traethawd hwn. Yn yr un modd, hoffwn gydnabod y cymorth a dderbyniais gan staff Archifdy Sir Feirionnydd.

Gwerthfawrogaf garedigrwydd Prys Edwards yn caniatau i mi lungopio dogfennau allweddol o gasgliad papurau O.M. Edwards gan hwyluso’n fawr y gwaith ymchwil hwn ar ffurf astudiaeth ran amser.

Diolch yn fawr i’m rhieni a’m brodyr am eu hanogaeth, eu cymorth a’u gofal yn ystod y pum mlynedd y bum yn gweithio i gwblhau’r traethawd hwn.

Hoffwn gydnabod dylanwad yr Athro Emeritws John Gwynfor Jones yn meithrin ynof ddiddordeb gwirioneddol mewn hanes Cymru ac am ei ofal ar hyd fy ngyrfa academaidd.

Yn olaf, diolchaf o waelod calon i’r Athro Bill Jones am ei gefnogaeth, ei gyfeillgarwch a’i gyngor doeth nid yn unig yn ystod y cyfnodau bum yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Caerdydd, ond ar hyd y deuddeng mlynedd ddiwethaf.

# CRYNODEB

Ffocws y traethawd hwn yw'r berthynas rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards. Roeddent oll yn ddynion cyhoeddus amlwg yn eu dydd, ond roedd cwlwm cyfeillgarwch ar lefel bersonol wedi'i hen sefydlu rhyngddynt yn ystod cyfnod bachgendod. Ystyried natur, a mesur dyfnder yr ymlyniad hwn a wneir yn yr astudiaeth hon gan gyfeirio at gyfeillgarwch Daniel a David Lloyd George yn ogystal er mwyn cyfoethogi'r ddadl, a chynnig gwrthgyferbyniad.

Cynigir mewnwelediad dynol i gymeriadau a phrofiadau Daniel, Ellis, Edwards a Lloyd George wrth ystyried eu dealltwriaeth hwy o bersonoliaethau'i gilydd a'r modd yr oeddent yn cyflwyno eu hunain i'w cyfeillion yn eu gohebiaeth. Ymhellach, cyfrenir at y feirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân o safbwynt cyfeillion gwrywaidd. Dengys y modd y bu i Daniel, Ellis ac Edwards rannu profiadau cyhoeddus a phersonol gyda'i gilydd ar hyd taith bywyd. Plethwyd eu profiadau wrth iddynt groesi trothwyon academaidd a gyrfaol ynghyd â phriodi a sefydlu teulu.

Canolbwynt yr astudiaeth hon yw mesur a chloriannu dyfnder y rhwym a fodolai rhwng Daniel, Ellis ac Edwards, ynghyd â Daniel a Lloyd George. Dadleuir bod ymlyniad hynod ddwfn rhyngddynt a adlewyrchir yn y modd y byddent yn troi at ei gilydd am gynhaliaeth mewn cyfnodau heriol. Mae'r datganiadau emosiynol, y gofal gwirioneddol a'r syniad o alar a cholled pan ddaw'r cyfeillgarwch i ben yn cyflwyno gwedd newydd ar y cysyniadau o wrywdod a chyfeillgarwch rhwng dynion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed.

Gosodir y perthynasau rhwng y dynion dan sylw yn eu cyd-destun gan ystyried y modd roedd rhywdweithiau teuluol ehangach wedi eu sefydlu o ganlyniad i'w cyfeillgarwch, er i raddau amrywiol. Dyma arddangos lefel y cysylltiad rhwng Daniel, ei gyfeillion a'u

teuluoedd sy'n cyfoethogi'n dealltwriaeth o'r ymlyniad rhyngddynt a gwmpasai brofiadau personol a chyhoeddus.

## CYFLWYNIAD

> Nid hawdd yw mesur y dylanwad a gafodd Tom Ellis ar Owen Edwards. Yr oedd meddwl Owen yn nyddiau ei ieuenctid yn fwy agored i argraff personoliaeth gref na meddwl bachgen yn gyffredin. Anturiaeth a rhyfeddod oedd bywyd iddo; ei drychineb yn niwedd ei ddyddiau oedd fod Rhamant wedi hel ei godrau; yr oedd merched cerdd wedi eu gostwng, a cheiliog y rhedyn wedi myned yn faich. Y mae gwrthgyferbyniad anghyffredin rhwng tawedogrwydd a phellter ei flynyddoedd olaf â sioncrwydd siriol ymddiriedus hanner swil ei ieuenctid. Siomiant a dadrith a wnaeth hyn o dro arno, ond ymhell cyn i hynny ddigwydd, argraffwyd arno bersonoliaeth gadarn Tom Ellis. Yn wir, nid gormod fyddai dywedyd mai Tom Ellis a ddylanwadodd fwyaf arno o neb yn ei oes; oherwydd, er iddo gyfarfod â gwŷr mwyaf blaenllaw a grymus ei genhedlaeth yn Rhydychen, yr oedd y clai tyner yn barod wedi dechrau caledu. Un o'r profion hynotaf o ddylanwad Tom Ellis oedd llaw-ysgrif Owen Edwards...
>
> Yr oedd Tom Ellis yn rhan o'r bywyd mewnol a greodd iddo'i hunan, ac efallai na bu neb arall byth wedyn ond D.R. Daniel, dros ei drothwy.[1]
>
> Cyn belled ag y gallaf farnu, cafodd Tom Ellis a D.R. Daniel fyned yn nes i gysegr santeiddiolaf Owen na neb arall; cyn hir tynnodd y llen ar draws y fynedfa, ac ni allodd neb ond cyfeillion cynnar – y gwŷr ifainc a fu'n annwyl ganddo yn y Bala ac Aberystwyth a Rhydychen – ei weled yn union fel yr oedd, cyn i'r byd godi ei furiau tywyll o'i amgylch.[2]

Dyma ddadansoddiad W.J. Gruffydd o berthynas yr addysgwr nodedig, O.M. Edwards (1858-1920) a'i gyfeillion ysgol yn y Bala; yr Aelod

[1] W.J. Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant* (Aberystwyth, 1937), tt. 75-76.
[2] Ibid., t. 87.

Seneddol, Thomas Edward (Tom) Ellis (1859-1899) a'r undebwr, David Robert (D.R.) Daniel (1859-1931).[3] Mae sawl hanesydd wedi cydnabod y cyfeillgarwch hwn, ond prin iawn yw'r ymdrech i ddadansoddi dyfnder y cwlwm a natur y berthynas rhwng y dynion hyn. Bu i'r tri ddatblygu gyrfaoedd ac amlygu eu hunain ym mywyd cyhoeddus Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eto i gyd, roedd eu cyfeillgarwch wedi ei hen sefydlu yn ystod cyfnod eu hieuenctid a pharhaodd ar hyd eu hoes. Yn wir, ceir awgrym o ddibyniaeth gwirioneddol rhyngddynt yn y dyfyniadau uchod sydd yn crisialu holl fwriad yr astudiaeth hon o gyflwyno dyfnder yr ymrwymiad rhwng y tri gŵr hwn.

Ffocysir ar y berthynas rhwng Daniel, Ellis ac Edwards o safbwynt D.R. Daniel yn bennaf, a hynny am sawl rheswm. Mae'r doreth o lythyrau a llawysgrifau, yn cwmpasu cyfnod o tua hanner canrif, a adawodd ar ei ôl yn cynnig rhoi mewnwelediad hynod fanwl i'w berthynas gyda'i gyfeillion ysgol.[4] O ganlyniad, mae'r ffynonellau a'r dystiolaeth hyn yn ein galluogi i ystyried profiadau'r dynion hyn mewn manylder a chynnig trywyddau newydd i'r hanesyddiaeth ar wrywdod a chyfeillion gwrywaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Er y ganwyd Daniel a'i gyfeillion i werinwyr cyffredin, roeddent yn ddynion addysgiedig a oedd yn ysgrifennu'n gyson at ei gilydd, ac am ei gilydd. Mae casgliad papurau D.R. Daniel felly yn darparu cyfle euraidd i ddilyn taith eu bywydau wrth iddynt dderbyn addysg a dechrau gyrfa, priodi a magu teulu; a mesur dyfnder eu cyfeillgarwch ar hyd y cyfnod. Mae posibilrwydd bod eu cyfeillgarwch yn adlewyrchu'r berthynas rhwng dynion eraill yn ystod yr un cyfnod, gan gynnwys rhai na adawsant dystiolaeth ysgrifenedig. Yn wir, atgyfnerthir y syniad bod yr astudiaeth hon yn cynnig themâu oedd yn gyffredin i ddynion y tu hwnt i'r triawd penodol hwn wrth ystyried perthynas D.R. Daniel a David Lloyd George (1863-1945), Prif Weinidog Prydain. Mae papurau Daniel yn cynnwys casgliad sylweddol o lythyrau oddi wrth, ac ysgrifau am, Lloyd George. Sefydlwyd eu cyfeillgarwch pan

[3] Am fanylion bywgraffyddol a gwybodaeth lyfryddol ar y tri gŵr hwn, gweler pennod gyntaf y traethawd hwn.
[4] Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC), Casgliad D.R. Daniel.

yn oedolion ac ni oroesodd y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyfeirir at y berthynas felly i gynnig gwrthgyferbyniad yn ogystal â chyfoethogiad i'r drafodaeth ynghylch cyfeillgarwch Daniel, Ellis ac Edwards, a'r cyfeillgarwch rhwng dynion yn gyffredinol. Yn olaf, mae ystyried y berthynas rhwng y tri chyfaill o safbwynt D.R. Daniel yn ein galluogi i ystyried pwy oedd y gŵr hwn a beth oedd ei gyfraniad i fywyd Cymru. Roedd yn gyfaill i rai o arweinwyr amlycaf ei ddydd, yn Rhyddfrydwr amlwg ac yn arweinydd undebol yn ystod anghydfod Chwarel y Penrhyn,[5] ac eto i gyd prin iawn yw'r gweithiau sydd wedi ystyried y gŵr hwn.

Bwriedir y bydd yr astudiaeth hon yn gwneud cyfraniad i'r hanesyddiaeth ehangach ar sawl cyfrif. Yn gyntaf, mae'n cynnig gwedd newydd a llawer mwy personol ar enwogion Cymreig a oedd yn hynod ddylanwadol yn eu dydd. Wrth ystyried eu llythyrau, ceir mewnwelediad i bersonoliaeth a chymeriad Daniel a'i gyfeillion – eu cryfderau a'u gwendidau, eu llawenydd a'u tristwch – ynghyd â'r dylanwadau arnynt a'r hyn yr oeddent yn rhoi gwerth arno. Yn bwysicach, bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at y drafodaeth sydd eisoes yn bodoli ynghylch y cysyniad o sfferau ar wahân.[6] Roedd Daniel yn gyfaill ysgol i Tom Ellis ac O.M. Edwards. Roedd perthynas organig wedi ei meithrin rhyngddynt ymhell cyn iddynt lunio gyrfaoedd ac ennill enwogrwydd, ac mae astudio eu gohebiaeth felly yn datgelu'r modd yr oedd eu profiadau personol a chyhoeddus yn naturiol wedi eu plethu i'w gilydd. Ond yn fwy na hyn, mae'r trafodaethau rhyngddynt yn ystod cyfnodau heriol yn darparu'r cyfle i fesur dyfnder y cwlwm cyfeillgarwch oedd rhwng Daniel a'i ffrindiau ac esbonio pam eu bod yn teimlo'r angen i rannu profiadau mor ddwys gyda'i gilydd. Yn wir, mae cyfoeth y deunydd sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru[7] hefyd yn ein galluogi i ehangu'r drafodaeth a gwreiddio'r dynion hyn, a'u cyfeillgarwch, yn gadarn yn eu cyd-destun. Dadleuir bod y cyfeillgarwch rhwng Daniel, Ellis ac Edwards, a

---

[5] Am wybodaeth bellach, gweler trafodaethau pennod gyntaf ac ail bennod y traethawd hwn ar yrfa D.R. Daniel ynghyd â Jean Lindsay, *The Great Strike: A History of the Penrhyn Quarry Dispute of 1900 – 1903* (Newton Abbot, 1987).

[6] Am drafodaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân, gweler t. 6 o'r cyflwyniad hwn.

[7] Mae'r casgliadau hyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnwys Casgliad Thomas Edward Ellis, Casgliad T.I. Ellis, Papurau O.M. Edwards, Papurau William George a Llawysgrifau Lloyd George, yn ogystal â Chasgliad D.R. Daniel.

rhwng Daniel a Lloyd George am gyfnod, wedi lledaenu i gynnwys eu gwragedd a'u teuluoedd gan blethu eu profiadau ymhellach a chynnig gwedd newydd ar gysylltiadau a rhwydweithiau teuluol ehangach.

Cynigir bod y math hwn o astudiaeth yn amserol gan fod y blynyddoedd diwethaf wedi gweld cyhoeddi nifer fawr o fywgraffiadau sylweddol a hynod fanwl yn cyflwyno cewri hanes Cymru i'r darllenwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith Robin Chapman ar Saunders Lewis, Huw Pryce ar J. Edward Lloyd, Allan James ar John Morris-Jones ac Alan Llwyd ar R. Williams Parry.[8] Maent yn cyfoethogi'r hanesyddiaeth Gymreig yn sylweddol gan ddadansoddi llafur a chyfraniad arweinwyr Cymreig at hanes y genedl. Manylion gyrfaol a chronolegol a geir yn bennaf yn y llyfrau hyn – maent yn ymdrin â'u cyfraniad at ddiwylliant a gwleidyddiaeth Gymreig. Ond, ceir ymdrech yn ogystal i gyflwyno eu cymeriadau fel unigolion a rhywfaint ar eu bywyd teuluol i'r darllenydd gan greu darlun mwy cytbwys o'r gwrthrych. Gwelir felly bod yr hanesyddiaeth Gymreig yn gyffredinol wedi dechrau dilyn trywydd llawer mwy personol wrth ystyried bywydau arweinwyr Cymreig.[9] Gellir awgrymu, o ganlyniad, mai'r cam naturiol nesaf yw cynnig dadansoddiad o'r berthynas a oedd yn bodoli rhwng rhai o'r arweinwyr dylanwadol hyn ar lefel broffesiynol a phersonol.[10] Yng nghyd-destun y traethawd hwn, mae J. Graham Jones wedi dechrau gwneud hyn mewn erthyglau ar D. Lloyd George a D.R. Daniel a D. Lloyd George a Tom Ellis; ac wrth ystyried cyfeillgarwch Tom Ellis gyda'r gwleidyddion

---

[8] T. Robin Chapman, *Un Bywyd o Blith Nifer: Cofiant Saunders Lewis* (Llandysul, 2006); Huw Pryce, *J.E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Caerdydd, 2011); Allan James, *John Morris-Jones* (Caerdydd, 2011) & Alan Llwyd, *Bob: Cofiant R. Williams Parry, 1884-1956* (Llandysul, 2013).

[9]Yn wir, cydnabyddir gwerth gohebiaeth fel ffynhonnell hanesyddol mewn llyfrau diweddar, gyda Robin Chapman yn cyfeirio'n gyson at y llythyrau rhwng Saunders Lewis a'i wraig a rhyngddo ef a D.J. Williams a Kate Roberts yn Chapman, *Un Bywyd o Blith Nifer*. Ymhellach, ceir awgrym o bwysigrwydd gohebiaeth O.M. Edwards a'i gyfaill agos John Morris-Jones yng ngwaith Allan James, *John Morris-Jones*.

[10]Am drafodaeth o'r cyfeillgarwch rhwng O.M. Edwards a John Morris-Jones a'r modd yr oedd yn pontio'r cyhoeddus a'r personol, gweler Manon Jones, 'Annwyl Gyfaill…': Yr ohebiaeth rhwng John Morris-Jones ac O.M. Edwards', *Y Traethodydd*, CLXIX, 709 (Ebrill 2014), tt.114-139.

Arthur Acland, J. Herbert Lewis a Syr Robert Hudson.[11] Er hyn, mae bwlch amlwg i'w weld yn yr hanesyddiaeth Gymreig gan na cheir astudiaethau'n canolbwyntio'n benodol ar ddadansoddi'n fanwl y berthynas rhwng cyfeillion. Dyma gyfraniad yr astudiaeth hon felly - i ystyried natur a dyfnder emosiynol y cyfeillgarwch rhwng rhai dynion yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed, gan ffocysu ar yr ohebiaeth bersonol rhwng D.R. Daniel a'i ddau gyfaill ysgol.

Ymhellach, mae'r hanesyddiaeth Gymreig wedi dechrau cydnabod pwysigrwydd yr ohebiaeth rhwng arweinwyr cenedlaethol fel ffynonellau gwerthfawr i dderbyn mewnwelediad i'w profiadau gyrfaol a phersonol, yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. Ceir dau gasgliad cyhoeddedig, er enghraifft, yn cynnwys y llythyrau rhwng Saunders Lewis a Kate Roberts, a'r ddau hyn â D.J. Williams.[12] Gwerth y llythyrau hyn yw darparu dealltwriaeth glir o'r datblygiadau llenyddol a gwleidyddol yn ystod yr ugeinfed ganrif ynghyd â chyfeiriadau at ddigwyddiadau yn eu bywydau personol. Gwelir y modd yr oeddent yn plethu i'w gilydd a'r modd y bu i gydweithio cyhoeddus arwain at gyfeillgarwch personol.

Yn wir, mae gwaith eisoes wedi ei wneud yn cyhoeddi'r ohebiaeth yn ymwneud â pherthnasau personol Tom Ellis, O.M. Edwards a David Lloyd George. Casgliad o lythyrau oddi wrth Tom Ellis at ei ddarpar wraig, Miss Annie J. Davies yw *Y Golau Gwan*. Mae cynnwys y llythyrau yn sicr yn ymdrin rhywfaint â bywyd cyhoeddus Tom Ellis, ond, llythyrau serch yw'r rhain sydd yn rhoi gwedd newydd a gwerthfawr ar Ellis fel dyn mewn cariad yn hytrach na'r gwleidydd Rhyddfrydol a gariodd obeithion Cymru ar ei

[11] J. Graham Jones, 'David Lloyd George and D.R. Daniel,' *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 70 (2009), tt. 107-131; Idem., 'David Lloyd George and Thomas Edward Ellis', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 34 (2006), tt. 253-291; Idem., 'Sir Arthur Acland and Thomas Edward Ellis: Parliamentary Colleagues', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 14:4 (2005), tt. 356-375; Idem., 'Sir J. Herbert Lewis and Thomas Edward Ellis: Poltical Friends', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 15:1 (2006), tt. 70-87 & Idem., 'Sir Robert Hudson and Thomas Edward Ellis: Servants of the Liberal Party', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 15:4 (2009), tt. 435-451.

[12] Dafydd Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923-1983* (Aberystwyth, 1992) & Emyr Hywel (gol.), *Annwyl D.J.: Llythyrau D.J., Saunders a Kate* (Talybont, 2007).

ysgwyddau.[13] Ceir mewnwelediad personol unwaith yn rhagor i berthynas O.M. Edwards a'i wraig, Elin, mewn cyfrol o'u llythyrau a olygwyd gan Hazel Walfod Davies. Datgela gwpl ifanc yn canlyn ei gilydd ac yna'n briod gan gyflwyno newyddion teuluol, newyddion lleol i Lanuwchllyn a'u hiraeth am ei gilydd.[14] Ymhellach, ceir cyfeiriadau gwleidyddol, ynghyd â thrafodaethau teuluol, yn llythyrau Lloyd George at ei wraig yn y gyfrol *Lloyd George Family Letters 1885-1936* a'i fywyd carwrol cudd yw prif thema *My Darling Pussy: The Letters of Lloyd George and Frances Stephenson*.[15] Mae'r gweithiau hyn felly yn hynod bwysig er mwyn cyflwyno'r dynion tu ôl i'r ffigurau cenedlaethol gan roi awgrym o'r modd yr oedd profiadau cyhoeddus a phersonol yn cyd-gysylltu. Adeiladu ar y gweithiau hyn a wna'r astudiaeth hon. Maent wedi cynnig mewnwelediad ffres a dynol i gymeriadau'r dynion hyn, ond ffocws y traethawd hwn yw amlygu a dadansoddi ymhellach y cysyniad o bontio profiadau personol a chyhoeddus, nid o safbwynt cyplau priod, ond o safbwynt ehangach cyfeillion gwrywaidd.

Bwriada'r astudiaeth hon gyfrannu'n sylweddol at drafodaethau yn ymwneud â'r cysyniad o sfferau ar wahân sef yr awgrym bod ffin bendant wedi bodoli rhwng y bywyd cyhoeddus a'r bywyd personol. Cysylltir y fenyw gyda'r byd personol ble y byddai'n rhedeg y cartref ac yn byw bywyd o fewn y cylchoedd teuluol a'r gymdogaeth. Y gŵr oedd yn ymwneud â'r byd cyhoeddus, o fewn y byd gwaith mewn diwydiant, amaeth neu wleidyddiaeth, ac fel aelod o fudiad, tim chwaraeon neu wrth fynychu clwb neu dafarn. Mae Leonore Davidoff a Catherine Hall yn disgrifio'r ffin hwn rhwng y ddau fyd yn *'the common-sense distinction between the realm of morality and emotion and that of rational activity, particularly conceived as*

---

[13] Mari Ellis (gol.), *Y Golau Gwan: Llythyrau Tom Ellis A.S. at Annie Davies* (Caernarfon, 1999).
[14] Hazel Walford Davies (gol.), *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards 1887-1920* (Llandysul, 1991).
[15] Kenneth O. Morgan (gol.), *Lloyd George Family Letters, 1885-1936* (Caerdydd & Rhydychen, 1973) & A.J.P. Taylor (gol.), *My Darling Pussy: The Letters of Lloyd George and Frances Stephenson 1913-41* (Llundain, 1975).

*market forces.'*[16] Cysylltir y cysyniad hwn yn bennaf gyda'r cyfnod diwydiannol a dylanwad dosbarth a syniadau efengylaidd ar swyddogaethau gender a'r disgwyliadau gwahanol oedd gan gymdeithas o ddynion a menywod. Awgrymir felly bod dynion yn symud yn rhwydd rhwng y ddau fyd, ond bod y byd personol wedi mynd fwyfwy yn guddiedig wrth i fusnes a diwydiant symud o'r cartref, er bod Davidoff a Hall yn derbyn nad oedd i'r sfferau hyn ffiniau pendant na fyddai'n newid. Byddai rhwydweithiau personol yn cael eu llunio er mwyn sicrhau cynnydd cyhoeddus.[17] Dyma gysyniad ddaeth yn fwyfwy amlwg yn y 1980au wrth i haneswyr ddechrau astudio hanes menywod a dynion mewn mwy o fanylder. Yn aml, byddai dynion cyhoeddus yn cael eu hystyried fel y 'norm', ac yn dominyddu llyfrau hanes, a phrofiadau menywod yn y cartref yn cael eu derbyn fel 'yr arall', wedi eu hanwybyddu mewn nifer o astudiaethau. Yn wir, wrth ystyried y defnydd o'r termau *'public'* a *'private'*, dywed Davidoff eu bod yn:

> *...categories of relationship posed as opposite and mutually exclusive terms. Such a formulation inevitably connotes hierarchy; one condition is evaluated more positively than the other. Within the dualism, people are limited by a falsely universal position.*[18]

Pwysleisia bwysigrwydd ystyried y cyd-destun a'r cyfnodau penodol felly er mwyn cael dealltwriaeth lawn o brofiadau pobl a graddau dylanwad y ffiniau hyn ar eu bywydau.[19]

Mae'r cysyniad o sfferau ar wahân wedi parhau i raddau e.e. dadl Jennifer Baltzer-Lovato o'r modd y byddai ysmygu yn cadarnhau y bwlch rhwng y rhywiau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan y byddai dynion yn llunio grwpiau ysmygu a'r tybaco yn cynnal y cyfeillgarwch rhyngddynt. Ni

---

[16] Leonore Davidoff & Catherine Hall, *Family Fortunes: Men and Women of the English Middle Class 1780-1850* (Llundain ac Efrog Newydd, 2002), t. 13.
[17] Ibid.
[18] Leonore Davidoff 'Gender and the "Great Divide": Public and Private in British Gender History', *Journal of Women's History*, 15:1 (Gwanwyn, 2003), t. 12.
[19] Ibid., t. 22.

fyddai menywod yn rhan o'r sefyllfa gymdeithasol hon.[20] Ymhellach, mae astudiaeth Michael Roper o brofiadau rheolwyr busnes ers 1945 yn disgrifio'r dyn yn ennill bywoliaeth ac yn gwneud cynnydd gyrfaol yn y sffêr cyhoeddus, a'r wraig adref yn gofalu am eu plant ac yn annog a chefnogi ei gŵr.[21] Yn wir, cred David Jackson, yn ystod y 1950au, nad oedd dynion eisiau estyn cymorth yn y cartref gan y byddent yn ofni cael eu hystyried yn euog o *'unmanliness'*.[22] Ceir rhai enghreifftiau o fewn yr hanesyddiaeth Gymreig sydd yn atgyfnerthu'r syniad o fydoedd ar wahân. Er enghraifft, wrth ystyried cymunedau Gwyddelig De Cymru, disgrifia Paul O'Leary'r modd o gadw'r bydoedd cyhoeddus a phersonol, ac felly profiadau gwrywaidd a benywaidd, ar wahân. Roedd gallu'r dyn i gynnal ei wraig a'i deulu er mwyn sicrhau bod y wraig yn medru rhedeg y cartref yn hanfodol ar gyfer sicrhau parchusrwydd.[23] Byddai gwraig briod yn mynd allan i weithio ynddo'i hun yn lleihau'r lefel o barchusrwydd y byddai'r dyn, a'r teulu, yn ei dderbyn. Ni ellir gwadu dylanwad y cysyniad hwn felly. Yn wir, nid bwriad y gwaith hwn yw datgan nad oedd unrhyw ddisgwyliadau cymdeithasol ar Daniel, Ellis ac Edwards, na chwaith bod pob elfen o'u bywydau'n cael eu rhannu gyda'i gilydd. Yn hytrach, dengys nad oedd ffin bendant rhwng eu profiadau personol a chyhoeddus a bod y dynion hyn yn gwahodd ei gilydd i rannu profiadau yn y ddau sffêr.

Ar hyd y blynyddoedd, mae'r ddamcaniaeth o sfferau ar wahân wedi cael ei chwestiynu gyda'r hanesydd dylanwadol ar wrywdod, John Tosh, yn dadlau bod angen ystyried profiadau'r ddau ryw ochr yn ochr â'i gilydd. Yn ogystal, dylid ystyried y modd roedd dynion yn symud yn effeithiol rhwng tair elfen o gymdeithas – y cartref, gwaith a'r byd hamdden - a'r cydbwysedd rhyngddynt yng nghyd-destun eu dosbarth cymdeithasol er

[20] Jennifer Baltzer-Lovato, 'Walls of Smoke: Gender, Boundaries, and Tobacco in the Sensation Decade', *Nineteenth Century Gender Studies*, 9:1 (Gwanwyn 2013), http://www.ncgsjournal.com/.

[21] Michael Roper, *Masculinity and the British Organization Man Since 1945* (Rhydychen, 1994).

[22] David Jackson, *Unmasking Masculinity: A Critical Autobiography* (Llundain, 1990), t. 49.

[23] Paul O'Leary, 'Networking Respectability: Class, Gender and Ethnicity Among the Irish in South Wales, 1845-1914', *Immigrants & Minorities*, 23:2-3 (2005), tt. 263-264.

mwyn llunio hunaniaeth gwrywaidd.[24] Parhau wna'r ffocws, er hyn, ar y modd mae dynion a menywod yn rhyngweithio o fewn yr elfennau gwahanol o gymdeithas neu'r ddadl bod menywod wedi amlygu eu hunain o fewn bywyd cyhoeddus a dynion wedi chwarae rhan yn y cartref.[25] Mae Jane Rendall yn ei herthygl 'Women and the Public Sphere', er enghraifft, wedi cwestiynu'r syniad o gategareiddio'r rhannau 'cyhoeddus' yr oedd menywod yn amlygu eu hunain ynddynt gan fod cymaint o gymunedau gwahanol y gellir eu hystyried, megis y swffragetiaid, Crynwyr benywaidd, gweddwon, a defnydd y menywod o'u pleidlais.[26] Ceir enghreifftiau o fewn hanes Cymru hefyd ble mae'r awgrym o fwlch rhwng dau fyd wedi cael ei feirniadu. Er enghraifft, mae llyfr Ryland Wallace ar fudiad menywod dros yr hawl i bleidleisio yn cyflwyno'r modd y byddai menywod yn ymddangos yn y byd cyhoeddus er mwyn mynnu eu hawliau.[27] Yn yr un modd, mae Rosemary Jones yn ystyried sut roedd hel clecs yn gyhoeddus am fywydau personol menywod yn fodd o gadw safonau moesol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[28]

Dyma gyflwyno pwnc cymhleth felly. Nid oes modd cyffredinoli ynghylch profiadau pobl yng nghyd-destun y cysyniad o sfferau ar wahân gan i rai symud yn fwy naturiol rhwng y bydoedd cyhoeddus a phersonol ac eraill dderbyn bod bwlch rhwng y profiadau hyn. Sut felly y gall yr ohebiaeth rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion ysgol gyfrannu at y pwnc dadleuol hwn? Yn gyntaf, y cyfeillgarwch rhwng dynion yw ffocws y gwaith, ac nid y berthynas rhwng dynion a merched. Gan gofio y bu i Daniel feithrin cyfeillgarwch mewn modd naturiol gyda'i gyfeillion ysgol, mae eu papurau personol yn cynnig mewnwelediad i berthynas wirioneddol a oedd yn

---

24 John Tosh, 'What Should Historians Do With Masculinity?', *History Workshop Journal,* 38 (Hydref 1994), tt. 179-201.

25 Gweler Angela V. John (gol.), *Our Mothers' Land: Chapters in Welsh Women's History* (Caerdydd, 1991) & Ryland Wallace, *The Women's Suffrage Movement in Wales 1866-1928* (Caerdydd, 2009) sydd yn arddangos y modd y chwaraeodd menywod rolau cyhoeddus yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Trafodir rôl y gŵr yn y cartref ym mhedwaredd bennod y traethawd hwn.

26 Jane Rendall, 'Women and the Public Sphere', *Gender & History,* 11:3 (Tachwedd 1999), tt. 475-488.

27 Wallace, *The Women's Suffrage Movement in Wales.*

28 Rosemary Jones, ''Separate Spheres?': Women, Language and Respectability in Victorian Wales' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *The Welsh Language and its Social Domains* (Caerdydd, 2000), tt. 177-213.

cynnwys profiadau personol a chyhoeddus ond heb fod dylanwad y naill o reidrwydd yn gryfach na'r llall. Ymhellach, mae'r modd y mae llythyrau wedi goroesi rhyngddynt hwy ac aelodau benywaidd o deuluoedd ei gilydd, ac yn wir rhwng eu gwragedd, yn cyfoethogi'r darlun o brofiadau'r ddau ryw yng nghyd-destun eu cyfeillgarwch. Wrth gwrs, astudiaeth raddfa fechan a geir yma. Er hyn, gan ystyried perthynas D.R. Daniel a Lloyd George, ceir pedwar gŵr gwahanol iawn eu natur yma a rhywfaint o amrywiaeth rhwng perthynasau ei ffrindiau gyda Daniel, a chyfraniad eu gwragedd i'w cyfeillgarwch. O ganlyniad felly mae astudio'r llythyrau hyn yn rhoi'r cyfle i ni bwyso a mesur i raddau natur y cyfeillgarwch rhwng y dynion, a rôl y menywod o fewn y perthnasau hyn, yng nghyd-destun y ddadl ynghylch sfferau ar wahân.

Gan ddadlau nad oedd ffiniau cadarn ac amlwg rhwng profiadau cyhoeddus a phersonol y dynion hyn, mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu at yr hanesyddiaeth ar wrywdod sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg ers y 1980au fel ymateb i'r gwaith ar hanes menywod. Cysylltir yr angen am y fath ymchwil gydag erthygl hynod ddylanwadol John Tosh ble y cwestiyna'r syniad o ddyn Fictorianaidd fel cynrychiolaeth ddiwylliannol o ddyn hunan-reoledig, moesol, annibynnol a gweithgar. Pwysleisia Tosh bwysigrwydd astudio dynion yn y cartref, eu gwaith ac o fewn sefydliadau gwrywaidd a'r angen am ystyriaeth o sut yr oedd dynion yn symud rhwng y dair elfen hon er mwyn deall profiadau dynion.[29] Mae ymateb Paul O'Leary i'r erthygl hon yn amlinellu'r modd mae'r hanesyddiaeth yng Nghymru wedi datblygu o fewn y meysydd mae Tosh wedi eu hamlinellu. Noda bod ymddygiad dynion o fewn yr hanesyddiaeth wedi ei ystyried fel 'norm' i fesur hunaniaethau (o ran hil, gender, dosbarth) eraill yn ei erbyn. O ganlyniad, ni cheir llawer o ystyriaeth o brofiadau dynion eu hunain. Mae astudio hanes gender felly yn fodd o ail-ystyried y gorffennol.[30] Dileu'r ffiniau rhwng y cyhoeddus a'r personol yw pwyslais O'Leary wrth geisio cyflwyno hanes dynion mewn modd llawer mwy cyflawn a chynhwysfawr. Yn fwy

[29] John Tosh, 'What Should Historians Do With Masculinity?', tt. 179-201.
[30] Paul O' Leary, 'Masculine Histories: Gender and the Social History of Modern Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 22:2 (Rhagfyr 2004), tt. 252-277.

diweddar, mae John Tosh wedi cwestiynu pa mor addas yw'r cysyniad o wrywdod a ddiffiniwyd yn y 1980au. Eto i gyd, mae'r angen am gorff o weithiau hanesyddol yn trafod profiadau dynion yn parhau.[31]

Yn eu llyfr *Manful Assertions,* pwysleisia Michael Roper a John Tosh bwysigrwydd ystyried gwrywdod fel mater oedd yn newid ac yn ymddangos mewn cyflyrau gwahanol e.e. wrth ddatblygu o syniadau mwy moesol ac efengylaidd y ddeunawfed ganrif i barch at gryfder corfforol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae gan wrywdod hanes felly, ac mae ystyried profiadau dynion ochr yn ochr gyda menywod, ac ymhob elfen o'u bywydau, yn hanfodol.[32] Yn wir, yn ôl Sallie Westwood:

> *Masculinity, like the state, exists in a plurality of forms. There is no fixed set of attributes that can be labelled masculinity. Instead, masculinity is theorized… as unstable and multiple, as decentred and subject to changing contexts, in a constant play of reproduction and innovation*.[33]

Yn fwy diweddar mae'r haneswyr sydd wedi cyfrannu at *What is Masculinity?* wedi beirniadu'r defnydd o'r term 'gwrywdod.' Mae'r drafodaeth ar ddiffiniadau'n eang yn y llyfr hwn, â'r ystyriaethau o brofiadau dynion yn amrywiol gan gynnwys eu rôl fel tadau, perthnasau hoyw a phrofiadau milwyr.[34] Amhosibl felly yw darparu diffiniad pendant o wrywdod a chyffredinoli am brofiadau dynion. Yn wir, mae Karen Harvey ac Alexandra Shepard wedi nodi'r modd y mae gwrywdod wedi datblygu ac esblygu ar draws cyfnodau.[35] Fel y dywed Shepard mae'r term gwrywdod

---

[31] John Tosh, 'The History of Masculinity: An Outdated Concept?' yn John H. Arnold & Sean Brady (goln.), *What is Masculinity? Historical Dynamics from Antiquity to the Contemporary World* (Llundain, 2013), tt. 31-32.

[32] Michael Roper & John Tosh (goln.), *Manful Assertions: Masculinities in Britain since 1800* (Llundain, 1991), tt. 3-4.

[33] Sallie Westwood, ''Feckless Fathers': Masculinities and the British State' yn Máirtín Mac an Ghaill (gol.), *Understanding Masculinities: Social Relations and Cultural Arenas* (Philadelphia, 1996), t. 24.

[34] Arnold & Brady, *What is Masculinity?*

[35] Karen Harvey, 'The History of Masculinity, circa 1650-1800', *Journal of British Studies*, 44:2 (Ebrill 2005), tt. 296-311 & Alexandra Shepard, 'From Anxious Patriarchs to Refined Gentlemen? Manhood in Britain, circa 1500-1700', *Journal of British Studies,* 44:2 (Ebrill 2005), tt. 281-295.

yn peri problemau*, 'it is currently deployed very loosely to refer to several different things ranging from a set of cultural attributes associated with normative notions of maleness to the subjective experience of male identity.'*[36] Dyma ddangos unwaith yn rhagor pa mor amserol yw'r math o astudiaeth y mae'r traethawd hwn yn ei gynnig.

Ym mha fodd felly y gall y traethawd hwn gyfrannu at y drafodaeth ynghylch gwrywdod? Mae'r ffaith bod cannoedd ar gannoedd o lythyrau rhwng D.R. Daniel, O.M. Edwards a Tom Ellis wedi goroesi o gyfnod ysgol hyd at gyfnod oedolion yn hanfodol yma.[37] Bydd yr astudiaeth hon yn arddangos y deinamig rhwng y cyfeillion ar adegau gwahanol ar hyd taith bywyd; y modd yr oedd y tri gŵr yn ymateb i heriau proffesiynol a phersonol a'r modd yr oeddent yn mwynhau llwyddiannau cyhoeddus a phreifat. Cyfoethogir y drafodaeth ymhellach gan ystyried perthynas D.R. Daniel a Lloyd George yn ogystal. Ymhellach, ystyrir y rhan a chwaraeodd y ffrindiau ym mywydau ei gilydd yn ystod cyfnodau allweddol ar hyd taith bywyd a'r lefel o ddibyniaeth a fodolai rhyngddynt fel cyfeillion, nid fel unigolion. Yn bwysicach fyth, mae'r modd y mae'r dynion hyn yn mynegi'r ddibyniaeth hon, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg wrth drafod materion sensitif, yn hanfodol wrth gyflwyno trywydd newydd i'r hanesyddiaeth ar wrywdod.

Yn ddiweddar, mae twf wedi bod yn yr ystyriaeth o rwydweithiau a chysylltiadau teuluol ehangach. Yn ei hastudiaeth o'r perthnasau rhwng menywod gweddw yn ystod cyfnod yr hen fyd yng Ngroeg, mae Claire Taylor yn crisialu gwerth ystyried rhwydweithiau o'r fath:

> *First, they allow us to cut across polarities of status and focus on groups otherwise marginalised without viewing them as the 'other'…*

[36] Shepard, 'From Anxious Patriarchs to Refined Gentlemen?', t. 288.
[37] Llythyrau rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis yn bennaf yw'r rhain.

> *Second, examining social networks is useful because by doing so it is possible to transverse the line that is usually drawn between public and private. Social relationships are both personal and private, in that individual likes and dislikes, preferences and desires, form an important part of how social life is experienced, but these relationships are also firmly situated within a wider social discourse and in many contexts are projected on to a public stage. Cutting across notions of public and private is particularly important when considering the role of women within the ancient city, because all too often women have been associated with the family and the 'private', whereas men have been equated with the political and the 'public'.*[38]

Dyma ddyfyniad sydd yn ysbrydoli elfen arall o'r gwaith hwn. Wrth wreiddio Daniel a'i gyfeillion, a'u cyfeillgarwch, yn ddwfn yn eu teuluoedd trafodir lefel y rhwydweithiau rhyngddynt ac ystyrir i ba raddau roedd uned deuluol ehangach yn eu rhwymo hwy oll at ei gilydd boed mewn cyd-destun cyhoeddus neu bersonol.

Gan gofio bod yr ohebiaeth rhwng Daniel a'i gyfeillion ysgol, yn ogystal â Lloyd George, yn ganolbwynt i'r astudiaeth hon, ystyriwyd y defnydd o iaith yn y llythyrau rhyngddynt. Fel yr awgrymir yn ail bennod yr astudiaeth hon, mae'r arddull ysgrifennu a'r defnydd o iaith yn y llythyrau rhwng y cyfeillion ysgol yn adlewyrchu taith bywyd. Mae symlrwydd yr arddull a'r gystrawen yn yr ohebiaeth gynharaf rhwng Daniel ac Ellis yn arddangos eu hanaeddfedrwydd a'u hieuenctid a'r modd y mae Daniel, Ellis ac Edwards yn defnyddio'r Saesneg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol yn y Bala yn adlewyrchu eu profiadau addysgol.

Wedi tyfu'n ddynion, byddai'r tri yn gohebu â'i gilydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Datgelir yn y drydedd bennod y byddent yn aml yn troi i'r Gymraeg, eu mamiaith, i fynegi eu hunain mewn sefyllfaoedd emosiynol

---

[38] Claire Taylor,'Women's Social Networks and Female Friendship in the Ancient Greek City', *Gender & History*, 23:3 (Tachwedd 2011), tt. 703-704.

dwys e.e. yn dilyn colli plentyn neu gyfaill. Mae rhai elfennau o'u profiadau cyhoeddus yn cael eu hystyried trwy gyfrwng y Saesneg yn yr ohebiaeth, ond ar adegau eraill mae themâu tebyg yn cael eu trafod yn y Gymraeg. Felly, gor-symleiddio'r sefyllfa fyddai awgrymu bod materion cyhoeddus yn cael eu cyflwyno yn y Saesneg yn unig a'r materion personol yn cael eu trafod yn y Gymraeg yn y llythyrau hyn. Ni cheir patrwm digon pendant na chyson rhwng y casgliadau o lythyrau i ddylanwadu ar ddadleuon y traethawd hwn a gwarantu lle mwy arwyddocaol i'r defnydd o iaith yng nghyd-destun astudiaeth o natur y berthynas rhwng Daniel a'i gyfeillion ysgol. Er hyn, gan gofio pwysigrwydd creiddiol llythyru i'r math hwn o astudiaeth, dyma awgrymu trywydd hanesyddiaethol i'w ddilyn yn y dyfodol wrth ystyried yr ohebiaeth rhwng Cymry amlwg mewn unrhyw gyfnod.

Fel y trafodwyd eisoes, craidd y gwaith hwn yw casgliad cyfoethog llythyrau a phapurau D.R. Daniel sydd wedi eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.[39] Cynhwysa'r casgliad cyffredinol ohebiaeth bersonol at Daniel oddi wrth O.M. Edwards, chwiorydd Tom Ellis ac aelodau o deuluoedd Edwards. Ymhellach, mae'n cynnwys enghreifftiau o lythyrau rhwng D.R. Daniel a'i wraig, ei fam, Peredur ei fab, ac aelodau eraill o'r teulu agos sydd yn rhoi'r cyfle i osod y gŵr hwn, a'i gyfeillgarwch gydag Ellis ac Edwards, yng nghyd-destun ehangach ei fywyd teuluol. Yn ogystal â hyn, ceir llu o ysgrifau gan D.R. Daniel ar ddigwyddiadau a chymeriadau ei gyfnod, gan gynnwys coffadwriaethau a phortreadau sy'n cynnig mewnwelediad arbennig i gymeriad O.M. Edwards o safbwynt cyfaill agos. Cyfoethogir hyn gan ddyddiaduron Daniel ar draws hanner canrif sydd yn rhoi'r cyfle i ni fesur rhan ei gyfeillion yn ei brofiadau o ddydd i ddydd.

Yn ogystal ag adran o bapurau yn ymwneud â swydd Daniel, rhennir gweddill y casgliad yn ddwy ran yn cynnwys papurau a llythyrau helaeth iawn yn ymwneud â Tom Ellis a chyfres o bapurau a gohebiaeth rhwng

[39] Gweler LlGC Casgliad D.R. Daniel.

Daniel a Lloyd George a'i deulu. Yn wir, mae'r ohebiaeth rhwng Ellis a Daniel a oedd yn ei feddiant yn cynnwys dros 400 o lythyrau (gan gynnwys rhai gan wraig Tom Ellis) sydd yn gasgliad aruthrol er mwyn ein cynorthwyo i ddeall eu perthynas mewn mwy o fanylder. Ymhellach, mae'r adran ar Lloyd George yn cynnwys llythyrau rhwng ei wraig ef a gwraig Daniel, yn ogystal â'i blant a'r teulu Daniel sydd eto'n rhoi'r cyfle i ni gyfoethogi ac ehangu ar y drafodaeth hon sydd yn ffocysu ar gyfeillgarwch Daniel, Ellis ac Edwards.

Yn wir, mae haneswyr eisoes wedi cydnabod pwysigrwydd casgliad papurau a llythyrau Daniel fel ffynhonnell ar gyfer ymchwilio i fywyd a gwaith Tom Ellis a David Lloyd George. Yn y rhagair i gyfrol gyntaf cofiant T.I. Ellis i'w dad, dywed Ellis am y nodiadau yr oedd Daniel wedi eu paratoi a'r llythyrau yr oedd wedi eu cadw, 'Deuthum i mewn i lafur un yr oedd fy nhad fel Jonathan iddo' ac yn ôl Neville Masterman, bu i Daniel gadw pob darn o ysgrifennu a anfonwyd ato gan Tom Ellis.[40] Yn yr un modd, mae John Grigg, arbenigwr ar fywyd a gyrfa Lloyd George, wedi canmol bywgraffiad anghyhoeddedig D.R. Daniel i'w ffrind a oedd yn Ganghellor ar y pryd. Ystyrir y ffynhonnell yn *'vital'* i astudiaethau o'r gŵr enwog a dylanwadol hwn. Cred Grigg bod Daniel yn ysgrifennu yn *'diffusely, but with close personal knowledge and often with keen psychological insight'* a chred bod y wybodaeth a'r farn a gynigir mor ddefnyddiol y dylid cyhoeddi'r llawysgrif.[41] Ceir awgrym felly o bwysigrwydd D.R. Daniel fel croniclwr bywydau a gwaith ei ffrindiau enwog a gwerth y ffynonellau i adnabod y cewri hyn yn well o safbwynt cyfaill. Dyma gadarnhau felly gyfoeth casgliad papurau D.R. Daniel wrth ystyried profiadau'r dynion hyn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed.

Er mwyn datblygu'r astudiaeth hon ymhellach a sicrhau trafodaeth gyflawn o'r perthnasau rhwng Daniel, Ellis ac Edwards (yn ogystal â chyfeillgarwch

---

[40] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I* (Lerpwl, 1944), 'Rhagair' & Neville Masterman, *The Forerunner* (Abertawe, 1976), t.34 ac mae Kenneth O. Morgan yn dyfynnu o'i gasgliad yn ei *Wales in British Politics 1866-1922* (Caerdydd, 1963).
[41] John Grigg, *The Young Lloyd George* (Llundain, 1973), t. 302.

Daniel a Lloyd George), ystyrir yr ohebiaeth a'r dogfennau yn eu casgliadau hwy yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae Papurau O.M. Edwards, er enghraifft, yn cynnwys llythyrau ato gan D.R. Daniel a Tom Ellis yn ogystal â llythyrau ato gan wraig a theulu Ellis. Ymhellach, mae'r casgliad yn cynnwys nifer o'i ddyddiaduron sydd yn cynnig tystiolaeth werthfawr er mwyn ystyried cyfeiriadau at ei gyfeillion.[42] Yn yr un modd, mae Casgliad Thomas Edward Ellis yn cynnwys llythyrau ato gan O.M. Edwards a D.R. Daniel yn ogystal â llythyrau ato gan frawd Edwards.[43] O ran ehangu'r drafodaeth ymhellach, mae llythyrau Daniel ac Edwards at weddw Ellis wedi eu cynnwys yng nghasgliad papurau ei mab, T.I. Ellis ac mae casgliad William George a chasgliad Brynawelon o bapurau teuluol Lloyd George yn cynnwys gohebiaeth at Lloyd George oddi wrth Daniel yn ogystal â llythyr at Mrs Lloyd George gan fab D.R. Daniel.[44]

Gan gofio mai diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd oes aur y wasg Gymraeg, manteisir ar y defnydd o erthyglau cyhoeddedig ar y gwŷr hyn er mwyn cyfoethogi'r astudiaeth ohonynt. Mae coffadwriaethau O.M. Edwards i Tom Ellis yn ei gylchgronau *Cymru* a *Cymru'r Plant*, yn ogystal â choffadwriaeth D.R. Daniel i O.M. Edwards yn *Cymru* yn ddeunydd hynod werthfawr i ddatgelu mewnwelediad i berthynas y tri, a'r modd y bu iddynt gyflwyno'r berthynas hon i'r cyhoedd yn y cyfnodolion hyn.

Er hyn, mae rhai problemau yn codi gan gofio'r treigl amser ers ysgrifennu'r llythyrau hyn. Ni ddisgwylir bod pob llythyr wedi cael ei gadw, nac wedi goroesi, ac yn sicr mae bylchau yn y casgliadau. Tra cheir dros bedwar cant o lythyrau rhwng Ellis a Daniel, nid oes llythyr wedi goroesi rhwng D.R. Daniel ac O.M. Edwards yn dilyn 1910 er y ceir cyfeiriad at o leiaf un ers hynny pan ysgrifennodd Daniel i gydymdeimlo gydag Edwards ar farwolaeth ei wraig yn 1919.[45] Ymellach, at 1906 yn unig y ceir llythyrau gan Lloyd George at Daniel a phrin iawn yw'r ohebiaeth sydd wedi goroesi

[42] LLGC Papurau O.M. Edwards.
[43] LlGC Casgliad Thomas Edward Ellis.
[44] LLGC Papurau T.I. Ellis, LlGC Papurau William George & LlGC Llawysgrifau Lloyd George (Casgliad Brynawelon).
[45] Cyfeirir at y llythyr hwn yn LlGC Papurau O.M. Edwards CJ2/2/37, D.R. Daniel at Ifan ab Owen Edwards, 7 Gorffennaf 1920.

oddi wrth Daniel at Lloyd George. Gwelir gwerth cynnwys dyddiaduron, llyfrau nodiadau, cofiannau a choffadwriaethau Daniel felly er mwyn llenwi'r bylchau yn yr ohebiaeth a sicrhau mewnwelediad i'r modd y bu i'r perthnasau hyn newid yn hwyrach yn ei fywyd. Serch y bylchau sydd yn yr ohebiaeth, mae'r llythyrau sydd wedi goroesi rhwng y gwŷr dan sylw a Daniel yn cynnig digon o fanylion i ddarparu mewnwelediad newydd i'r berthynas rhyngddo a'i ddau gyfaill ysgol, yn ogystal â Lloyd George, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed.

Cyflwynir y traethawd hwn ar ffurf pedair pennod estynedig. Teimlir bod y strwythur hon yn addas gan fod cymaint o gyd-blethu rhwng y themâu a'r cysyniadau a gyflwynir ac felly mae penodau estynedig yn hanfodol er mwyn creu darlun clir yn ei gyfanrwydd. Man cychwyn yr astudiaeth yw ystyried pwy oedd D.R. Daniel a'i gyfeillion gyda'r nôd o ddod i adnabod yr unigolion cyn ystyried y berthynas rhyngddynt. Cyflwyna'r bennod gyntaf gymeriadau'r tri chyfaill ysgol, yn ogystal â Lloyd George, fel y maent yn ymddangos yn yr ohebiaeth rhyngddynt a'r modd y mae eu cyfeillion yn dewis eu cyflwyno mewn dyddiaduron, llawysgrifau a gweithiau cyhoeddedig. Ymhellach, gosodir Daniel, Ellis ac Edwards yng nghyd-destun Cymru eu hoes, yn ogystal â'u hardal leol, gan ystyried beth fyddai'r dylanwadau cymdeithasol fyddai wedi effeithio arnynt a helpu llunio a llywio eu cymeriadau, eu gyrfaoedd a'u cyfeillgarwch. Credir bydd ystyried y dylanwadau ehangach arnynt fel triawd yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o'u cyfraniad fel unigolion i hanes Cymru. Y cam naturiol nesaf yw ystyried y modd yr oedd y cyfeillgarwch rhwng y dynion yn pontio eu profiadau o'r bywyd cyhoeddus a phersonol. Dyma yw craidd dadl yr ail bennod sydd yn amlinellu'r modd y bu i D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards rannu profiadau ar hyd taith bywyd gan gynnal eu cyfeillgarwch wrth brofi datblygiadau proffesiynol a phersonol, boed yn lwyddiant academaidd neu'n sefydlu teulu. Yn yr un modd, cyfoethogir y drafodaeth gan ystyried y daeth Lloyd George yn gyfaill agos i D.R. Daniel pan yn oedolyn wrth feithrin cyfeillgarwch yn seiliedig ar rannu credoau gwleidyddol a ymledodd i gynnwys profiadau personol.

Ond, prif fwriad y traethawd hwn yw ystyried beth oedd y rhwym a fodolai rhwng Daniel a'i ffrindiau oedd yn peri iddynt ddewis rhannu eu profiadau cyhoeddus a phersonol gyda'i gilydd. Cwestiynau creiddiol i'r astudiaeth hon felly yw beth oedd dyfnder y cwlwm cyfeillgarwch a fodolai rhwng D.R. Daniel a'i ffrindiau a beth oedd lefel y cysylltiad emosiynol rhyngddynt? Dyma themâu'r drydedd bennod sy'n dadlau pan fo Daniel, Ellis ac Edwards (yn ogystal â Lloyd George) yn wynebu heriau bywyd, byddent yn troi at ei gilydd am gysur a chynhaliaeth. Yn yr un modd, ystyrir y modd y daeth y cyfeillgarwch i ben ac effaith emosiynol hyn ar Daniel – ei alar ddirdynnol ar farwolaethau Ellis ac Edwards a dyfnder ei siom yn ymddygiad Lloyd George yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn olaf, er mwyn creu darlun cyflawn o brofiadau'r dynion hyn a natur y ddibyniaeth ar lefel bersonol, mae'r bedwaredd bennod yn ystyried rôl eu teuluoedd yn y cyfeillgarwch rhwng Daniel a'i ffrindiau. Dadleuir bod rhwydweithiau ehangach wedi eu sefydlu yn cynnwys rhieni, brodyr a chwiorydd, gwragedd a phlant – er i raddau amrywiol. Dyma brofi felly nid yn unig ddyfnder y ddibyniaeth rhyngddynt ond hefyd bod y bydoedd cyhoeddus a phersonol wedi eu cyd-blethu i'r fath raddau y gellir trafod rhwydweithiau neu unedau ehangach a oedd yn cwmpasu teuluoedd Daniel a theuluoedd ei ffrindiau. Wrth gyflwyno asesiad mor fanwl o'r berthynas rhwng unigolion penodol, bwriedir y bydd y traethawd hwn yn datgelu trywyddau ffres a newydd y gellir eu dilyn er mwyn ehangu ar yr hanesyddiaeth yn ymwneud â gwrywdod, y sfferau cyhoeddus a phersonol a chyfeillgarwch yn hanes Cymru.

Er mwyn amddiffyn naws y llythyrau a'r llawysgrifau, cedwir at orgraff wreiddiol y ffynonellau wrth ddyfynnu ohonynt yn y traethawd hwn.[46] Ymhellach, er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder, wrth gyfeirio at lythyrau oddi wrth neu at wragedd y cyfeillion defnyddir eu henwau priod yn y troednodiadau. Gwneir hyn hyd yn oed os yw'r ohebiaeth cyn eu priodasau neu, yn achos Annie Ellis yn ystod ei hail briodas pan yr adwaenid hi fel

[46] Er mwyn sicrhau bod y testun yn ddealladwy wrth deipio, mae'r llythrennau 'dd' a 'ch' yn cael eu defnyddio a chyflwynir y teitl 'Mr' a 'Mrs' yn y modd hwn yn y traethawd. Ymhellach, tanlinellir gair yn ei gyfanrwydd os yw'n ymddangos ei fod wedi ei danlinellu'n rhannol yn y testun.

Mrs Hughes Griffiths.[47] Os oes ansicrwydd ynghylch rhai dyddiadau, neu os ydynt yn ymddangos fel pe baent wedi eu hychwanegu'n dilyn anfon y llythyrau, maent yn ymddangos mewn cromfachau yn y troednodiadau. Ymhellach, defnyddir 'rhywedd' a 'gender' fel termau yn yr hanesyddiaeth ehangach. Unwaith yn rhagor, er mwyn sicrhau cysondeb, defnyddir 'gender' yng nghynnwys y traethawd hwn.

[47] Er mwyn sicrhau eglurder, cyfeirir at chwiorydd D.R. Daniel, Tom Ellis a D. Lloyd George, yn ogystal â merched O.M. Edwards a D. Lloyd George, wrth eu cyfenwau cyn priodi.

## PENNOD 1

### ‘Yr ydych wedi bod yn rhy swil, dylech ymhysbysebu tipyn’: Datgelu cymeriadau’r cyfeillion yng nghynnwys eu gohebiaeth.

Prif werth casgliadau llythyrau D.R. Daniel a’i gyfeillion ysgol yng nghyd-destun y traethawd hwn yw eu cyfraniad at yr hanesyddiaeth ehangach ar y cysyniad o sfferau ar wahân ac, wrth esbonio’r lefel o ddibyniaeth rhyngddynt, wrywdod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y cyfeillgarwch rhyngddynt wedi ei feithrin yn gwbl naturiol yn ystod dyddiau plentyndod a’r berthynas yn un cadarn ymhell cyn iddynt amlygu eu hunain ym mywyd cyhoeddus Cymru. Adlewyrchir hyn yn yr hanesyddiaeth ar y gwŷr hyn gyda G. Arthur Jones yn nodi, ‘Fe gryfhaodd y cyfeillgarwch rhwng y tri yng nghwrs y blynyddoedd ac arferent anfon llythyrau at ei gilydd yn rheolaidd.’[48] Nodweddiadol ydyw dyfyniadau megis, ‘cafodd [Ellis] gwmni dau fachgen, David Daniel ac Owen Edwards, a oedd yn gymdogion iddo, a bu’r tri yn gyfeillion agos ar hyd eu hoes’ a *‘he* [Tom Ellis] *enjoyed the rich companionship of an array of distinguished contemporaries, among them D.R. Daniel (to be a lifelong and intimate friend), O.M. Edwards and John Puleston Jones.’*[49] Adeiladwyd y berthynas rhwng y tri ar y seiliau cadarn o edmygedd o’i gilydd, gyda’i gwreiddiau’n ddwfn yn eu dyddiau ysgol.

Yn ogystal â rhoi mewnwelediad i’r berthynas rhwng Daniel, Ellis ac Edwards, mae’r ffynonellau yn cynnig cymwynas arall. Dyma lythyrau personol rhwng rhai o gewri Cymru eu dydd o gyfnod ieuenctid, wedi eu llunio er mwyn rhannu newyddion a phrofiadau, boed yn gyhoeddus neu’n bersonol. Nid oedd yn fwriad o reidrwydd y byddai cynnwys y llythyrau hyn fyth yn dod i sylw’r cyhoedd ac felly disgwylir gweld gonestrwydd a

[48] G. Arthur Jones, *Bywyd a Gwaith Owen Morgan Edwards* (Aberystwyth, 1958), t. 17.
[49] Wyn Jones, *Thomas Edward Ellis 1859-1899* (Caerdydd, 1986) t. 12 & J. Graham Jones, ‘The Political Baptism of Thomas Edward Ellis’, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 12:4 (1997), t. 367. Dyma gyfeiriad at y Parch John Puleston Jones (1862-1925), cyd-ddisgybl i’r tri yn Ysgol Ramadeg y Bala a fynychodd brifysgolion Glasgow a Rhydychen gydag Edwards. Roedd yn bregethwr enwog gyda’r Methodistiaid Calfinaidd.

diffuantrwydd ar eu tudalennau. Ynghyd â Lloyd George, ceir nifer helaeth o weithiau cyhoeddedig yn amlinellu hanes gyrfaoedd Tom Ellis ac O.M. Edwards. Ynddynt, ystyrir beth oedd eu cyfraniad at fywyd Cymru a rhywfaint am yr hyn oedd yn eu sbarduno i lwyddo yn eu gyrfaoedd cyhoeddus. Ceir awgrym o bersonoliaeth y dynion hyn yn ogystal e.e. swildod Edwards, anwyldeb Ellis a hunanoldeb Lloyd George. Ond, prin iawn yw'r dadansoddiad o gymeriadau'r gwŷr hyn – pwy yn union oedd yr addysgwr, yr Aelod Seneddol a'r Prif Weinidog ar lefel ddynol? Yn yr un modd, does braidd ddim gweithiau cyhoeddedig ar D.R. Daniel, ac eto i gyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yn gyfeillgar gyda dynion amlycaf ei ddydd ac yn arweinydd undebol. Cyn ystyried gwerth ehangach y llythyrau hyn felly, trafodir beth maent yn ei ddatgelu am gymeriadau a phersonoliaethau'r dynion dan sylw. Ystyrir y modd y mae rhai o ffigurau mwyaf blaenllaw hanes Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dewis mynegi eu hunain i'w ffrindiau, a'r modd mae dealltwriaeth D.R. Daniel a'i gyfeillion o'i gilydd yn cael ei ddatgelu yn eu gohebiaeth. Bwriedir adnabod cymeriadau'r dynion fel unigolion cyn ystyried eu cyfeillgarwch mewn manylder yn y penodau sydd i ddilyn.

Yn dilyn cyflwyno'r unigolion ar lefel mwy dynol, ystyrir pwysigrwydd cyd-destun eu cyfnod a dylanwad Cymru diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Daniel, Ellis ac Edwards. Gan y down i adnabod y cymeriadau'n gyntaf, cawn fewnwelediad llawer dwysach i'r modd y bu i'r gymdeithas Gymreig, a'r cyd-destun lleol, effeithio ar yr unigolion hyn ar lefel mwy personol. Dyma gyfnod pan yw Anghydffurfiaeth ar ei hanterth yng Nghymru a gwelwyd newidiadau arwyddocaol yn addysgol ac yn wleidyddol gyda'r werin yn darganfod ei llais wrth frwydro am ddatgysylltiad a hawliau i denantiaid. Ymhellach, cafodd y cyfeillion eu magu yn ardal y Bala ble roedd rhai o ddynion amlycaf Cymru eu cyfnod yn byw. Mynychodd D.R. Daniel Goleg yr Annibynwyr yn y Bala ble roedd Michael D. Jones yn brifathro ac aeth Edwards i goleg y Methodistiaid gyda Lewis Edwards yn brifathro arno. Dyma gefndir cenedlaethol a lleol a oedd yn gyffredin i Daniel, Ellis ac Edwards a byddent wedi rhannu'r profiadau hyn ochr yn ochr gyda'i gilydd wrth dyfu'n ddynion. Pwrpas y bennod hon

felly yw ystyried gwreiddiau D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards cyn dadansoddi eu perthynas mewn manylder, gan ystyried eu cymeriadau fel unigolion a dylanwad eu cyfnod a'u hardal arnynt wrth lunio eu gyrfaoedd, eu gweledigaeth a'u perthynas. Cloir y bennod drwy ystyried personoliaeth Lloyd George, sydd yn gymeriad llawer mwy ffiniol yn yr astudiaeth hon o'i gymharu gyda Daniel, Ellis ac Edwards. Daeth i adnabod Daniel pan oeddent yn oedolion ac, er iddo fod yn agored i'r un dylanwadau â'r tri chyfaill ysgol, ni fyddai wedi profi'r dylanwadau hyn ochr yn ochr gyda Daniel yng nghyfnod ieuenctid. Ystyrir perthynas Lloyd George a D.R. Daniel er mwyn cyfoethogi, neu gynnig cyferbyniad, i berthynas Daniel, Ellis ac Edwards. Eto i gyd, cyn ystyried y cyfeillgarwch hwn mewn mwy o fanylder, dylid ystyried Lloyd George fel unigolyn yn gyntaf.

**D.R. Daniel**

Ystyriwyd Daniel yn ddylanwadol o fewn Cymru Fydd,[50] y mudiad Rhyddfrydol Cymreig a oedd yn amlwg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma awgrym o'i ddylanwad fel unigolyn a nid fel cyfaill i ddynion pwerus yn unig. Disgrifia J. Arthur Price, cyfoeswr iddo, Daniel fel *'one of the most interesting thinkers and politicians of the Young Wales party, for he has been a labour leader in one of the greatest industrial conflicts of our time, and remains an idealist.'*[51] Cyfeiria Emyr Price ato fel *'more radical and nationalistically inclined'* a chred Neville Masterman bod Daniel, fel Lloyd George, yn '*talkative, witty and entertaining in a manner which was not usual among the serious sons of North Wales.'*[52] Ond cyfeiriadau yw'r rhain, ac awgrymiadau o gyfraniad D.R. Daniel i fywyd Cymru. Yn 1887, daeth yn Is-drefnydd yr Undeb Dirwestol yng Ngogledd Cymru ac yn 1896, yn Ysgrifennydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru a chynrychiolodd y chwarelwyr yn ystod y protestiadau enwog yn Chwarel y

[50] Am wybodaeth bellach am y mudiad, gweler William George, *Cymru Fydd: Hanes y Mudiad Cenedlaethol Cyntaf* (Lerpwl, 1945) & Dewi Rowland Hughes, *Cymru Fydd 1886-1896* (Caerdydd, 2006).
[51] J. Arthur Price, 'Thomas E. Ellis, MP' yn J.Vyrnwy Morgan (gol.), *Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era* (Llundain, 1908), t. 377.
[52] Emyr Price, *David Lloyd George* (Caerdydd, 2006), t. 99 & Masterman, *The Forerunner*, t. 33.

Penrhyn.[53] Rhwng 1895 a 1901, roedd yn Henadur ar Gyngor Sirol Caernarfon ac yn hwyrach yn ei yrfa, symudodd i Lundain ac ymuno gyda'r gwasaneth sifil gan wasanaethu fel Ysgrifennydd y Comisiwn Brenhinol ar Erydiad y Tir ac Ysgrifennydd Cynorthwyol y Comisiwn ar Eglwys Gymreig. Ar hyd ei fywyd, cyfrannodd erthyglau i gylchgronau amlwg megis *Cymru.* Cyhoeddodd K.W. Jones-Roberts erthygl fywgraffyddol ar D.R. Daniel yn 1965 a cheir ychydig dros dwy dudalen ar Daniel yn *The North Wales Quarrymen 1874-1922* gan R. Merfyn Jones.[54] Dyma'r cyfeiriadau mwyaf estynedig arno yn yr hanesyddiaeth Gymreig. Gyda chyn lleied o weithiau yn delio gyda bywyd cyhoeddus Daniel, nid yw'n syndod na cheir unrhyw drafodaethau penodol ar ei brofiadau personol chwaith. Yn 1887, priododd â Sarah Jones, merch Siop Isa Llandderfel, a ganwyd Peredur, eu mab, yn 1889. Ceir dadansoddiad pellach o'u perthynas fel teulu yn y penodau sydd i ddilyn.

Cred yr hanesydd K.W. Jones-Roberts mai gyda'i gyfraniad fel arweinydd undebol yn ystod streic Chwarel y Penrhyn am yr ail dro yn 1900-1903 y daeth Daniel agosaf at wneud ei farc ar hanes Cymru, *'In all this turmoil, D.R. Daniel was the storm centre, and it was at this period of his life that he came nearest to the heroic image.'*[55] Er hyn, ni chafodd le amlwg yn yr hanesyddiaeth Gymreig. Gan gofio pwysigrwydd ei gasgliadau o bapurau yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, cwestiwn allweddol i'w ystyried felly yw beth oedd natur cymeriad D.R. Daniel?

Wrth iddo ymgeisio am swyddi a llunio trywydd gyrfaol iddo'i hun, gallai D.R. Daniel ddibynnu ar gefnogaeth ei gyfeillion i ysgrifennu geirda ar ei ran. Dyma dystio eu parodrwydd i'w gefnogi'n yrfaol, ond hefyd y modd y

---

[53] Dilynodd y streic hwn anghydfod arall yn Chwarel y Penrhyn rhwng 1896 a 1897. Yn Ebrill 1900, gwrthododd rheolwr y chwarel ganiatau i dâl aelodaeth undebol y gweithwyr gael ei gasglu ar safle'r chwarel. Gwaharddwyd rhai o'r dynion o'r gwaith yn dilyn hyn ac yn Nhachwedd 1900, aeth 3,000 o weithwyr ar streic. Er i rai ddychwelyd i'w swyddi yn 1901, parhaodd y streic tan 1903. Am fanylion pellach, gweler Lindsay, *The Great Strike.*

[54] K.W. Jones-Roberts, 'D.R. Daniel, 1859-1931', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 5:1 (1965), tt. 57-77 & R. Merfyn Jones, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd, 1981), tt. 201-204.

[55] Jones-Roberts, 'D.R. Daniel', t. 67. Cytuna R. Merfyn Jones mai yn ystod ei gyfnod gydag undeb y chwarelwyr daeth Daniel *'as close as he ever did actually to affect the course of significant events.'* Gweler R. Merfyn Jones, *The North Wales Quarrymen,* t. 204.

gwelsant ei ddoniau proffesiynol. Ysgrifennodd O.M. Edwards ar ei ran wrth iddo ymgeisio am swydd Cofrestrydd Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor yn 1892 gan nodi bod Daniel wedi darllen yn eang a bod ei gyd-ddisgyblion yn Ysgol Ramadeg y Bala wedi ei ystyried yn *'the soul of neatness and method, and as the literary king of the school'* a bod pobl a'i hadwaenai o'r farn ei fod '*the soul of brightness and enthusiasm'.* Datgana Edwards bod ganddo ddiddordeb gwirioneddol mewn addysg ac y byddai'n gweithio'n galed pe byddai'n derbyn y swydd gan nad oedd yn un i osgoi dyletswydd, ac y byddai'n cael pleser o wneud y coleg yn boblogaidd ac yn bwerus yn y wlad.[56] Wrth gwrs, dyma gyfaill ysgol oedd yn ceisio gwneud yr hyn a fedrai i sicrhau apwyntiad Daniel i'r swydd ac felly mae disgwyl y byddai natur cadarnhaol i'r cynnwys. Ond, mae'r llythyr hwn hefyd yn datgelu cryfderau Daniel yn academaidd ac yn bersonol fel ag y gwelai Edwards hwynt. Yn wir, ysgrifennodd Tom Ellis ar ei ran pan yn ymgeisio am ei swydd fel Trefnydd Undeb y Chwarelwyr yn 1895 gan ddatgan ei fod wedi bod yn astudio pynciau gweithfaol a gwladol ar hyd ei fywyd ac felly roedd ei farn yn 'aeddfed, sicr, ac yn seiliedig ar reswm a gwybodaeth.' O ganlyniad, cydymdeimlai gydag 'anghenion a dyheadau gwerin ei wlad' ac roedd Ellis yn sicr y byddai Daniel yn gwneud '[t]refnydd gweithgar, doeth, call, dylanwadol.'[57] Ni dderbyniodd D.R. Daniel addysg brifysgol, yn wahanol i Edwards ac Ellis, ond mae'r uchod yn awgrymu eu bod yn ei ystyried yn ddyn deallus a oedd yn deall materion cyfoes a'r sefyllfa wleidyddol yr oeddent yn ei hwynebu. Yn wir, cefnogodd Lloyd George ei gais ar gyfer y swydd undebol hon gan bwysleisio ei ddawn fel llenor gan ei fod yn siarad ac yn ysgrifennu'n 'eithriadol' yn y ddwy iaith ac yn 'hen gynnefin a threfnu'. Ymhellach, ysgrifennodd, 'Uwchlaw pobpeth ymae ei galon gyda'r gorthrymedig ymhob man. Dyna'r dull o ddyn i chwi yn sicr.'[58] Felly yn seiliedig ar dystiolaeth ei gyfeillion, creir darlun o Daniel fel dyn deallus gyda diddordeb mewn addysg a materion cyfoes a oedd yn deall ac yn cydymdeimlo gydag anghenion y bobl. Roedd yn drefnydd ac yn

[56] LlGC Daniel 2448, Geirda oddi wrth O.M. Edwards, 4 Ionawr 1892.
[57] LlGC Daniel 456, Tom Ellis at D.R. Daniel, 6 Rhagfyr 1895.
[58] LlGC Daniel 2835, D. Lloyd George at Ysgrifennydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, 15 Rhagfyr 1895.

llenor talentog ac yn ddyn dibynadwy yn ôl ei gyfeillion. Yn wir, rhestrir ei ddoniau niferus mewn coffadwriaeth iddo gan T. Huws Davies:[59]

> *…[he had] unique oratorical powers of a very personal and unconventional character, a strange electric physical quality, great charm of manner and personality, a remarkable intuitive power of discovering fundamental principles in a riot of ephemeral issues, an intimate acquaintance from adolescent years with the mental processes of politicians and the vocabulary of their profession, a profound and unflagging interest in the problems of politics and their ultimate implication, and an amazing reserve of knowledge acquired during many years of wide and consistent study*.[60]

Ymhellach, datgela'r casgliadau o lythyrau rhwng y cyfeillion rywfaint am bersonoliaeth D.R. Daniel yn ogystal â'i allu academaidd. Yn dilyn ei farwolaeth yn 1931, ysgrifennodd chwaer Tom Ellis at ei weddw gan ei ddisgrifio fel *'a rare character, & one whom we all deeply loved & respected, unique & noble-minded, his humour irresistible, & his "agos atto-chi" made everybody his friend'*.[61] Hoffter amlwg a geir yma. Atgyfnerthir y syniad chwareus yn natur D.R. Daniel gyda geiriau Elin Davies wrth ysgrifennu at ei darpar-ŵr, O.M. Edwards, yn disgrifio gweld mab bach D.R. Daniel a'r ffaith bod ei dad yn dysgu 'pob tricie iddo er nag ydyw ond blwydd a hanner' a brawd yng nghyfraith Daniel yn dweud, *'He always helps to make music and bring good cheer wherever he goes'*.[62] Gellir awgrymu mai gŵr direidus oedd Daniel, ond, mae coffadwriaeth T. Huws Davies hefyd yn disgrifio ei natur a'i gymeriad fel '*absolutely honest and sincere intellectually, and morally he knew no fear.*'[63] Y tu hwnt felly

---

[59] Roedd Thomas Huws Davies (1882-1940) yn was sifil a chanddo ddiddordeb mawr mewn diwylliant a gwleidyddiaeth Gymreig. Cydweithiodd gyda D.R. Daniel yn ei rôl fel Ysgrifennydd Comisiwn yr Eglwys. Paratodd nifer o erthyglau ac roedd yn olygydd ar y *Welsh Outlook.*
[60] T. Huws Davies, 'David R. Daniel', *Welsh Outlook,* 18:11 (Tachwedd 1931), t. 282.
[61] LlGC Daniel 2449, Winifred Ellis at Sarah Daniel, 21 Medi 1931.
[62] Elin Edwards at O.M. Edwards, 30 Hydref 1890 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards,* t. 137 & LlGC Daniel 2420, M.O. Evans at Sarah Daniel, 12 Chwefror 1930.
[63] Huws Davies, 'David R. Daniel', t. 284.

i'r 'agos atto-chi' yr oedd yn ddyn moesol a chadarn. Yn wir, dyma rywbeth sy'n cael ei atgyfnerthu mewn llythyr oddi wrth Tom Ellis yn dilyn gadael cartref am y brifysgol. Dyfynnodd lythyr ato ef gan Archesgob Manning yn trafod ei ddosbarth ysgol Sul. Disgrifia Manning y ffaith ei fod wedi clywed bod dyn o'r enw R. Jenkins Cablyd yn gwrthod siarad â Chymry eraill ers cyrraedd y brifysgol a bod y syniad o fawredd wedi mynd i'w ben. Ymateb Manning oedd 'Credaf am D.R Daniel TynyBryn na wnai anrhydedd y byd altero fawr arno, achos mae ynddo stoc o ddynoliaeth.'[64] Roedd Daniel yn gymeriad hoffus, ond hefyd yn ddyn cadarn ac egwyddorol felly yn ôl y dystiolaeth.

Daw swildod cymeriad Daniel i'r golwg yn yr ohebiaeth hefyd. Wedi marwolaeth Tom Ellis, ystyriodd ymgeisio am swydd Cofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Anogodd O.M. Edwards ef ond pan ddarganfuwyd y byddai brawd yng nghyfraith Ellis, J.H. Davies,[65] yn ymgeisio, ymateb Edwards oedd mai Davies fyddai'n haeddu'r swydd. Teimlai Edwards yn gryf nad oedd ei gyfaill wedi cyflawni ei botensial yn ei yrfa, 'Ni wna ddim drwg i chwi geisio, - os hynny fydd, - a cholli. Yr ydych wedi bod yn rhy swil, dylech ymhysbysebu tipyn.'[66] Ymhellach, wrth i Lloyd George ymuno gyda'r Cyfrin Gyngor, cred Daniel efallai ei fod ef wedi ymneilltuo o'u cyfeillgarwch gan yr oedd yn cyfaddef nad oedd yn ymwthgar i gymdeithas rhywun a oedd â llawer o alw arno. Bu i Lloyd George ddweud wrth wraig Daniel ei fod yn cadw'n rhy gudd wrtho.[67] Er ei ddoniau felly, ceir yr awgrym bod swildod Daniel wedi ei atal rhag gwneud cynnydd proffesiynol. Cadarnheir hyn yn ymateb D.R. Daniel i'r cyfeiriad ato fel awdur gan Ifan ab Owen Edwards a oedd am iddo ysgrifennu erthygl am ei dad wedi ei farwolaeth yn 1920:

> Ychydig ryfeddol yw fy syniad o honof fy hunan fel ysgrifenydd wedi bod ar hyd fy oes; pe yn wahanol buaswn wedi helpu mwy

[64] LlGC Daniel 179, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.
[65] Roedd John Humphrey Davies (1871-1926) yn fargyfreithiwr gyda diddordeb yn niwylliant Cymru. Daeth yn Gofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1905 ac yn brifathro ar y brifysgol honno yn 1919.
[66] LlGC Daniel 1038, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 10 Ebrill 1905.
[67] LlGC Daniel 2914, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol I, tt. 5-6.

> lawer ar eich tad. Bychan iawn fu nifer yr ysgrifau anfonais iddo ond y mae'n rhaid i mi yn awr geisio gwneud rhywbeth or natur a nodwch am mai mab fy hen gyfaill sydd yn gofyn hyn i mi.[68]

Creir darlun o ŵr talentog a deallus a oedd gyda'r potensial i lwyddo mewn bywyd. Roedd yn annwyl ac yn ddireidus, ond ceir yr awgrym ei fod yn hynod o swil ac ansicr ohono'i hun.

Mae haneswyr wedi ystyried pam nad yw Daniel yn enw adnabyddus yn hanes Cymru. Awgryma K.W. Jones-Roberts mai dyma ddyn talentog a ddewisiodd osgoi enwogrwydd:

> *In short, he was an observer of life – at any rate in the later years – rather than an active participant in the hurly-burly of the forum and the market-place. We know from several sources that he was retiring, that he lacked self-confidence and that he shunned the lime-light.*[69]

Ceir awgrym yn ogystal o'i anobaith llwyr yn dilyn marwolaeth Ellis:

> Yr oedd greddf yr artist, a theimladrwydd, yn gryf ynddo; gwelsai obeithion llachar cyfnod y deffro yn yr wythdegau, cawsai gyfran yng nghyfrinachau cyfaill ei febyd fel yr esgynnai hwnnw o ddinodedd drwy amlygrwydd nes ennill ohono edmygedd a serch cenedl gyfan; bu marw Thomas Ellis yn ergyd ofnadwy i David Daniel, a thybiaf iddo golli ei angor o'r herwydd.[70]

Cytuna Neville Masterman mai siom o ganlyniad i farwolaeth Tom Ellis, diffyg cefnogaeth i genedlaetholdeb Michael D. Jones[71] a'r ffaith y bu i bobl ymosod ar ei ymddygiad ef yn ystod anghydfod chwarelwyr y Penrhyn yn

[68] LlGC Papurau O.M. Edwards CJ2/2/37, D.R. Daniel at Ifan ab Owen Edwards, 7 Gorffennaf 1920.
[69] Jones-Roberts, 'D.R. Daniel', tt. 76-77.
[70] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II* (Lerpwl, 1948), t. 87.
[71] Trafodir cenedlaetholdeb Michael D. Jones yn hwyrach yn y bennod hon wrth ystyried dylanwad eu bro enedigol ar Daniel, Ellis ac Edwards.

bennaf achosodd i Daniel beidio â datblygu gyrfa gyhoeddus. O ganlyniad, rhoddodd y gorau i chwarae rhan amlwg mewn materion Cymreig.[72] Yn wir, mewn llythyr at K.W. Jones-Roberts, nododd Masterman ei fod yn ystyried Daniel i fod yn '*genius manqué'* ac felly yn berson nad oedd wedi gwireddu'r disgwyliadau ohono na'i amcanion ei hun.[73] Mae hyn yn gyson gyda'r hyn sydd wedi ei ddatgelu uchod ynghylch swildod D.R. Daniel. Wrth golli ffydd yn y sefyllfa wleidyddol a chenedlaethol ac heb yr hyder i wthio ei hun i'r amlwg o fewn cymdeithas, mae'n gwneud synnwyr y bu i Daniel bellhau o'r bywyd cyhoeddus. Mae barn ei gyfoedion amdano yn cadarnhau hyn. Awgryma J. Glyn Davies[74] bod Daniel yn ddyn 'galluocach na T.E. Ellis, ond a rhyw walch ynddo a barlysodd gweithrediad ei dalentau. Gwnaeth Tom Ellis yn well ar hanner gallu David Daniel.'[75] Yn yr un modd, dywed T. Huws Davies fod Daniel yn ŵr a oedd yn ysgrifennu yn barhaus ond ei fod yn hynod hunan-feirniadol ac, o ganlyniad, ni rannodd ei waith. Cred Huws Davies bod gwaith anorffenedig Daniel yn brawf, pan y cai ei gyhoeddi, bod Daniel yn un o'r tri neu bedwar llenor rhyddiaith gorau o'i genhedlaeth.[76] Nododd hefyd bod Syr Henry Jones[77] wedi bwrw hyder Daniel wrth awgrymu ei fod ef, a Lloyd George, yn dadlau'n ddryslyd ac afler.[78]

Ond er y cydymdeimlad hwn gan ei gyfoedion, mae'r gwas sifil Thomas Jones (1870-1955) wedi dehongli'r diffyg hyder i wthio'i hun yn y byd cyhoeddus mewn modd hynod negyddol:

> *Daniel belonged to the class described by the early Russian novelists as 'superfluous men', by French novelists as 'cut out of cloth which*

[72] Masterman, *The Forerunner*, t. 33.

[73] Archifdy Sir Feirionnydd (ASF) Z/DCS/252, Neville Masterman at K.W. Jones-Roberts, 6 Chwefror 1966.

[74] Roedd John Glyn Davies (1870-1953) yn ysgolhaig Celtaidd ac yn lyfrgellydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth cyn darlithio ym Mhrifysgol Lerpwl rhwng 1907 a 1936.

[75] Dyfynnir o lythyr oddi wrth J. Glyn Davies at E. Morgan Humphreys yn J. Graham Jones, 'A Biography for Thomas Edward Ellis (1859-1899)', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 16:1 (2010), t. 50.

[76] Huws Davies, 'David R. Daniel', t. 283.

[77] Roedd Syr Henry Jones (1852-1922) yn athronydd ac yn ddarlithydd ym mrifysgolion Aberystwyth, Bangor, St Andrews a Glasgow. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn materion cymdeithasol.

[78] Huws Davies, 'David R. Daniel', t. 283.

*has no thickness' of whom we have examples in Wales – brilliant talkers, full of good impulses, devoid of will-power, content to puff rings of smoke from* cigarettes enchantées. *With them to do a thing and to say they had done it was the same. They were poets of sorts. In his charming futility, Daniel was in complete contrast to the energetic friends of his youth, Tom Ellis and David Lloyd-George, whose early lives he recorded.*[79]

Yn ddiddorol, mae gwraig T. Huws Davies, a gyflwynodd goffad mor gadarnhaol am Daniel, o'r farn:

*…that he lacked moral courage and that he "never did a good day's work in his life." – whether that was true in his Penrhyn strike days I don't know but it certainly was when I knew him. When I first heard of him, while he was with the Coast Erosion people, it was as someone very charming, very interesting etc* <u>*for whom jobs must be found.*</u> *When Tommy took him in on the W.C.C.* [Comisiwn Eglwys Gymreig] *that was entirely the attitude – here was a place where he could be "fitted in" – not where any one would expect him to do much…*

*Any way he was a delightful and most interesting person and I suggest that part of the answer to your question as to why he left less mark is this lack of personal drive and energy.* [80]

Ymhellach, mae T.I. Ellis wedi gwerthfawrogi a chydnabod y dalent oedd gan Daniel fel llenor. Ond, yr oedd o'r farn nad oedd Daniel yn ddigon hunan-ddisgybledig i gwblhau'r dasg allweddol o ysgrifennu cofiant i Tom Ellis.[81]

Mae'r hanesyddiaeth a'r deunydd gwreiddiol yn datgelu sawl elfen i bersonoliaeth D.R. Daniel – ei fod yn ddyn hoffus, annwyl a chwaraeus.

[79] Thomas Jones, *Welsh Broth* (Llundain, 1951), tt. 38-39.
[80] ASF Z/DCS/245, Alice Huws Davies at K.W. Jones Roberts, 25 Tachwedd (1966).
[81] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis, Cofiant II,* t. 87.

Ceir awgrym hefyd ohono fel gŵr swil ac ansicr iawn ohono'i hun. Er ei dalent academaidd a'i allu naturiol, nid yw'n enw adnabyddus yn hanes Cymru. Awgryma O.M. Edwards nad oedd wedi gwthio ei hun yn ddigonol ac mae rhai haneswyr o'r farn mai siom oedd yn gyfrifol amdano'n cadw o olwg y cyhoedd, yn enwedig ar ôl marwolaeth Tom Ellis. Cytuna ei gyfoedion ei fod yn ddyn hynod alluog ond nad oedd ganddo'r hyder i amlygu ei hun o fewn cymdeithas. Eto i gyd, mae rhai haneswyr wedi dewis dehongli'r ansicrwydd hwn mewn modd gwahanol ac o'r farn nad oedd wedi gweithredu ar yr hyn yr oedd yn ddigon parod i'w drafod gydag eraill, nad oedd ganddo'r bwriad i wneud cynnydd ac nad oedd Daniel yn ddigon disgybledig.

**Tom Ellis**

Cyfeirir at Daniel yn bennaf oll yn yr hanesyddiaeth Gymreig fel *'close friend'* neu *'confidant'* wrth drafod ei berthynas gyda Tom Ellis.[82] Cred Neville Masterman bod gan eu cyfeillgarwch *'a closeness and intimacy about it which was quite out of the ordinary.'*[83] Yn dilyn cyfnod yn astudio yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Choleg Newydd, Rhydychen, daeth Tom Ellis yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Feirionnydd yn 1886. Arweiniodd ymgyrchoedd i ddatblygu addysg yng Nghymru a sefydlu Prifysgol Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol. Ymhellach, cefnogodd ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys Loegr a'r syniad o Reolaeth Cartref. Yn 1892, daeth yn is-chwip y Blaid Ryddfrydol, ac yn brif chwip yn 1894. Daeth yn arweinydd hynod ddylanwadol ac enillodd galon y genedl. Bu farw yn 1899 yn 40 oed, blwyddyn ar ôl priodi ac wyth mis cyn geni ei unig blentyn, Thomas Iorwerth.[84]

[82] W. Gareth Evans '"Organise the training of Welsh Teachers and Liberalise their Education": Tom Ellis and the Reform of Teaching', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 19:4 (Rhagfyr 1999), t. 714 & H.G. Williams, 'Arthur Acland, Tom Ellis and Welsh Education: A Study in the Politics of Idealism', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 17:3 (Mehefin 1995), t. 401.
[83] Masterman, *The Forerunner*, t. 34.
[84] Am fanylion bywgraffyddol pellach, gweler Kenneth O. Morgan, 'Ellis, Thomas Edward' yn H.C.G. Matthew & Brian Harrison (goln.), *Oxford Dictionary of National Biography: From the Earliest Times to the Year 2000,* 18 (Rhydychen & Efrog Newydd, 2004), tt. 256-257.

Gan fod cymaint o haneswyr yn cydnabod rôl Daniel fel cyfaill i Tom Ellis ac yr awgrymir bod ei farwolaeth wedi cael effaith anferthol ar Daniel, dyma gyfle i ystyried personoliaeth Ellis. Mae haneswyr wedi cynnig rhai sylwadau ar ei gymeriad. Yn ôl T.I. Ellis, roedd ei dad yn 'un o'r eneidiau prinion hynny sy'n bur o galon. Nid oedd ynddo na gwenwyn na malais.'[85] Cred Frank Price Jones bod Tom Ellis yn 'anwylyn ei genedl' gan iddo ymgorffori ei dyheadau dyfnaf hi ac ef oedd y cyntaf i ddatgan y dyheadau hyn ar lawr senedd Prydain.[86] Roedd yn berson ymroddgar a ddaeth â gobaith i'w genedl felly. Pwysleisir ei aberth gan iddo farw'n ddyn ifanc yn dilyn blynyddoedd o orweithio, 'Ni charodd undyn erioed ei wlad yn ddwysach ac ni roes neb mohono'i hunan yn fwy hael er ei mwyn.'[87] Delwedd gadarnhaol o Tom Ellis a greir yn yr hanesyddiaeth felly, gydag Wyn Griffith o'r farn:

> *Not only had he no enemies : he inspired in all who had dealings with him a feeling of friendship that broke through all distinctions of class and creed. His integrity and devotion to duty, his gift of accommodating himself to his company without sacrifice of principle, his mixture of wordly wisdom and loyalty to his ideals, and what can only be called his "downright goodness" were something rare in the world of politics.*[88]

Dyma awgrym o ddyn arbennig iawn felly. Ond pa fath ŵr a ddatgelir yn y casgliadau o bapurau a welir yn y Llyfrgell Genedlaethol?

Mae llythyr Tom Ellis at yr Arglwydd Aberdâr wrth iddo geisio am le yng Ngholeg Iesu, Rhydychen yn arddangos dyn ifanc oedd wedi ymrwymo i sicrhau ei gynnydd academaidd gydag addewid i weithio'n galed er mwyn cyrraedd Rhydychen a derbyn addysg brifysgol. Datgana ei fod wedi bod yn

---

[85] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis, Cofiant II*, t. 298.
[86] Frank Price Jones, 'Tom Ellis 1859-99', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1960), t. 63.
[87] Wyn Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 88.
[88] Wyn Griffith, *Thomas Edward Ellis 1859-1899* (Llandybie, 1959), t. 39.

*'working as hard as health will allow me in order to try for an Exhibition.'* Noda bod ei rieni yn ffermwyr gonest oedd eisiau addysgu eu plant i'r safon orau posibl o fewn yr hyn fedrant fforddio ond roeddent wedi cael blynyddoedd *'comparatively unproductive'* ar y tir.[89] Dyma ddyn oedd wedi ffocysu ar sicrhau ei fod yn cyrraedd ei amcanion ei hun ac fel y dywed Daniel mewn coffâd iddo, 'Nid heb drafferth y dringodd i'w safle.'[90] Gweithiodd yn hynod o galed i gyrraedd ei nod. Yn sicr, dyma ŵr penderfynol, ond dyma ddyn oedd hefyd yn cael ei edmygu am ei onestrwydd a'i ddiffuantrwydd.

Yn ei angladd, dywedodd Lloyd George, 'Ond nid am yr hyn a wnaeth Thomas Ellis y mae y genedl mewn galar, ond am yr hyn ydoedd ef ei hun. Yr ydym wedi colli dyn cyflawn.'[91] Mae caredigrwydd Ellis yn cael ei adlewyrchu yn y modd yr oedd yn ymateb i newyddion da ei gyfeillion gyda llawenydd a brwdfrydedd. Pan lwyddodd Edwards yn ei arholiadau yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1883, ysgrifennodd i'w longyfarch gan ei fod yn aelod o'i enwad ac o'r un coleg, ond yn fwy na dim, *'because it is the success of an old and valued friend.'*[92] Ymhellach, ar enedigaeth merch i Daniel yn 1898, ysgrifennodd Ellis ato gan ddweud, 'Hawddamor i'r llances fach!'[93] Mae'r agwedd gefnogol hon, a'r hoffter o eraill, ar ran Ellis yn gyson gyda'i berthynas gydag aelodau o'i deulu ei hun. Ar ei ddyweddïad gydag Annie Davies ysgrifennodd Jennie, chwaer Tom Ellis, at ei darpar chwaer yng nghyfraith i ddymuno pob hapusrwydd iddynt gan ddweud, *'Tom has always been a very good brother & son & I feel sure he will be a good kind tender husband such as you deserve to have.'*[94] Ymhellach, yn 1898, blwyddyn cyn ei farwolaeth, anfonodd Ellis arian at ei fam fel cyfraniad at gar newydd. Dywedai yr hoffai ad-dalu ychydig o'r 'holl garedigrwydd a thynerwch a gofal a chariad roisoch i mi am bellach 39 o flynyddoedd.' Diolchai iddi gan ddweud wrth iddo deithio trwy fywyd yr

---

89 LlGC Ellis 4815(a), Tom Ellis at yr Arglwydd Aberdâr, 13 Mehefin 1879.
90 D.R. Daniel, 'Adgof', yn R. Evans (gol.), *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion: Er Cof* (Y Bala, 1909), t. 18.
91 *Y Goleuad*, 19 Ebrill 1899, t.4.
92 LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/1/76, Tom Ellis at O.M. Edwards, (1883).
93 LlGC Daniel 474, Tom Ellis at D.R. Daniel, 3 Hydref 1897.
94 LlGC Ellis 4748, Jennie Ellis at Annie Ellis, 19 Awst 1897.

oedd yn sylwi 'yr hyn oll ydych chwi a nhad am chwiorydd wedi fod i mi.'[95] Dyma atgyfnerthu cynnwys yr hanesyddiaeth felly. Roedd Ellis yn gymeriad addfwyn oedd yn arddangos ei gefnogaeth a'i hoffter o'i gyfeillion a'i deulu. Yng ngeiriau Daniel, 'Nid oedd rhith na geudeb ynddo – yr oedd ei gymeriad yn drwyadl hollol – yn dryloew i'r gwaelod a'r un peth oedd o'r golwg ag ar y wyneb.'[96]

Ond, roedd Ellis yn ddyn gonest a oedd yn ei chael yn anodd dygymod ar adegau pan nad oedd ei fywyd personol wedi datblygu yn yr un modd â'i gyfeillion. Wrth i Daniel ddod yn dad ac Edwards yn ŵr priod, ymatebodd Ellis gan ddweud, 'O! y newidiadau! Owen yn wr, a minau yn wir a adawyd fy hunan.'[97] Awgryma hwn bod Ellis yn wleidydd llwyddiannus ac enwog, ond roedd yn sensitif i'r hyn yr oedd arno ei eisiau yn ei fywyd personol ac yn agored iawn yn y modd yr oedd yn trafod ei deimladau. Ymhellach, gellir awgrymu bod rhai yn gweld ei gymeriad hoffus yn wendid i raddau. Wrth ysgrifennu at ei wraig yn trafod y ffaith y bu i gydweithwyr gwleidyddol brynu'r bridles ar ei dŷ i Tom Ellis, dywedodd Lloyd George, *'Tom Ellis did it* [derbyn cymorth ariannol] *and was their doormat.'*[98] Cred eraill nad oedd gan Ellis gymeriad ddigon cryf i ddatblygu ymhellach yn y byd gwleidyddol. O ganlyniad, bu farw cyn iddo wynebu siom gyrfaol a chyn i Lloyd George bellhau ei yrfa y tu hwnt i lwyddiannau Ellis.[99]

Yng nghyd-destun ei berthynas gyda Daniel, gellir ystyried Tom Ellis yn arweinydd a oedd yn tywys ac arwain ei gyfaill. Mae ansicrwydd Daniel wrth wneud penderfyniadau heb drafod gydag Ellis yn cael ei adlewyrchu yn y cyfnod yn dilyn ei wneud yn Henadur yng Nghaenarfon yn 1895 – rôl yr oedd Lloyd George ac A.H.D. Acland[100] wedi helpu i'w sicrhau iddo.[101] Ysgrifennodd at Tom Ellis yn disgrifio'r modd y derbyniodd yr anrhydedd

---

95 LlGC Ellis 3200, Tom Ellis at Elizabeth Ellis, 15 Chwefror 1898.
96 Daniel, 'Adgof', t. 18.
97 LlGC Daniel 377, Tom Ellis at D.R. Daniel, 10 Gorffennaf (1891).
98 J. Graham Jones, 'David Lloyd George and Thomas Edward Ellis', t. 283.
99 Ibid., tt. 282-293.
100 Roedd A.H.D. Acland yn gyfaill agos at Tom Ellis ac yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Rotherham. Rhwng 1892 ac 1895 roedd yn Is-lywydd y Cyngor Addysg.
101 LlGC Ellis 3308, D.R. Daniel at Tom Ellis, heb ddyddiad.

newydd. Nid ymatebodd Ellis yn syth, ac ysgrifennodd Daniel, 'Y mae eich distawrwydd maith wedi fy ngwneud yn lled anesmwyth. Ofnaf weithiau y tybiwch fy mod wedi gwneud camgymeriad fföl gydar 'henaduriaeth. Teimlwn ar Y pryd awydd angerddol i ymgynghori a chwi – fel ar bopeth pwysig.'[102] Gwelwn ansicrwydd a diffyg hyder llwyr yma ar ran Daniel, a'i ddibyniaeth ar Tom Ellis. Rhyddhad felly fyddai derbyn llythyr Ellis yn pwysleisio mai *'Compliment uchel'* ydoedd ac roedd yn iawn i'w dderbyn.[103] Ar adeg arall, ysgrifennodd Daniel at Tom Ellis yn nodi ei fod yn ystyried mynd i America i lunio gyrfa iddo'i hun fel newyddiadurwr.[104] Ar dderbyn gair yn ôl o'r Unol Daleithiau gan T.J. Griffith, perchennog *Y Drych*, mae'n dyfynnu geiriau Griffith yn ei ohebiaeth gydag Ellis er mwyn gofyn ei farn.[105] Pan oedd yn awyddus i barhau gyda'i waith fel newyddiadurwr gydag *Y Drych*, cynghorodd Tom Ellis:

> *Talk plainly to him* [Griffiths] *about your future position, your readiness to undertake a responsible position, and your resolve to devote your best energies to the paper. Tell him that your constant travelling had not given you a chance to show what you can do editorially, and ask him to give you a commission to send a weekly article from Wales to the Drych, and press upon him to tell you whether you can rely upon finding a place in the office on your return.*[106]

Dyma ddangos cryfder cymeriad Tom Ellis, sicrwydd ei farn a'i deyrngarwch i'w ffrindiau. Mae'r ddadl hon yn gyson gyda natur ei berthynas gydag O.M. Edwards. Pan oedd hwnnw wedi ei siomi gyda'i ganlyniadau academaidd, anogodd Ellis ef i ymgeisio am ysgoloriaeth i Rydychen.[107]

---

[102] LlGC Ellis 3309, D.R. Daniel at Tom Ellis, prynhawn Gwener.
[103] LlGC Daniel 442, Tom Ellis at D.R. Daniel, 30 Mawrth.
[104] LlGC Daniel 93, D.R. Daniel at Tom Ellis, dydd Llun.
[105] LlGC Daniel 94, D.R. Daniel at Tom Ellis, 31 Ionawr (1884).
[106] LlGC Daniel 300, Tom Ellis at D.R. Daniel, 17 Medi 1885.
[107] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/2/31, Tom Ellis at O.M. Edwards, 29 Mawrth 1884. Trafodir rôl Tom Ellis yn tywys ei gyfeillion ymhellach yn ail bennod yr astudiaeth hon.

Ceir awgrym felly bod Tom Ellis yn ddyn arbennig oedd yn benderfynol o sicrhau ei lwyddiant ei hun trwy waith caled. Yr oedd hefyd yn gyfaill gwirioneddol i'w ffrindiau gan ddathlu eu hapusrwydd gyda hwy ac arwain a chefnogi Daniel wrth iddo gymryd penderfyniadau pwysig, nodwedd sydd i'w berthynas gydag O.M. Edwards hefyd. Gwerthfawrogai gariad a dylanwad ei deulu ac roedd yn hoff iawn o'i rieni a'i chwiorydd. Ond, roedd hefyd yn onest yn ei siom nad oedd wedi priodi yn iau a chred Lloyd George bod eraill wedi cymryd mantais ohono.

**O.M. Edwards**

Fel ag y trafodwyd yn y cyflwyniad i'r bennod hon, sefydlwyd triawd o gyfeillion cadarn pan y bu i O.M. Edwards ymuno gyda Tom Ellis a D.R. Daniel yn Ysgol Ramadeg y Bala yn 1874. Fel Tom Ellis, astudiodd yn Aberystwyth a Rhydychen, yn ogystal ag ym Mhrifysgol Glasgow. Yn 1889, daeth yn Gymrawd Hanes yng Nholeg Lincoln, Rhydychen ac yn ystod y cyfnod hwn, sefydlodd nifer o gylchgronau, gan gynnwys y misolion hynod ddylanwadol, *Cymru* a *Cymru'r Plant*. Ymhellach, golygodd glasuron Cymraeg a Chymreig, megis gwaith Dafydd ap Gwilym a'r *Mabinogion*, a pharatodd lyfrau ar hanes Cymru; y cyhoeddiadau rhain oll yn fforddiadwy ar gyfer y Cymry cyffredin. Daeth yn Aelod Seneddol dros Feirionnydd am flwyddyn yn dilyn marwolaeth Tom Ellis, ond, addysgu'r werin oedd ei amcan, ac 'i godi'r hen wlad yn ei hôl' oedd ei arwyddair. Yn 1907, daeth yn Brif Arolygydd Ysgolion cyntaf Adran Addysg Cymru gan greu naws mwy cadarnhaol o fewn yr ysgolion a rhoddi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a chwricwlwm Cymreig. Priododd ag Elin Davies o Lanuwchllyn yn 1891 a chawsant dri o blant – Owen ab Owen, Ifan ab Owen ac Haf Owen.[108]

Yn gyffredinol, mae haneswyr yn tueddu canolbwyntio ar ddadansoddi gwaith Edwards a'i gyfraniad i hanes Cymru. Er hyn, ceir rhai cyfeiriadau at

[108] Am fanylion bywgraffyddol pellach, gweler Gareth Elwyn Jones, 'Edwards, Sir Owen Morgan' yn Matthew & Harrison, *Oxford Dictionary of National Biography,* 17, tt. 957-958.

ei gymeriad yn ogystal. Pwysleisia J.E. Caerwyn Williams ymrwymiad llwyr Edwards i'w waith dros Gymru gan iddo aberthu dyrchafiad academig, ei gysur, ei hamdden, ei seibiant, ei iechyd a'i fywyd.[109] Ymhellach, disgrifia Jac L. Williams y modd yr oedd ei *'humble, gentle and inspiring personality permeated his writings.*'[110] Ond, mae haneswyr hefyd wedi ceisio cloriannu ychydig ar ei bersonoliaeth. Disgrifia R. Gerallt Jones ŵr 'swil, pell braidd yn ei ymwneud â phobl… nad oedd yn ei chael hi'n hawdd i gymysgu, i sefydlu perthynas foddhaol â phobl eraill ar lefel arwynebol.'[111] Yn ogystal, mae Hazel Walford Davies wedi ystyried bywyd personol O.M. Edwards gan ddangos y tensiynau a fodolai rhwng ei ymrwymiad llwyr i'w waith a'i weledigaeth dros Gymru a'i briodas a'i fywyd teuluol a'r modd y bu i'w esgeuluso arwain at hunan-laddiad ei wraig yn 1919.[112]

Mae gweithiau ysgrifenedig D.R. Daniel yn ehangu ar y trafodaethau hyn gan ddarparu mewnwelediad defnyddiol iawn i bersonoliaeth O.M. Edwards. Disgrifia Daniel gyfarfod Edwards am y tro cyntaf mewn modd hynod fanwl:

> Yn y lawnt neu ar y rhodfa (bryd hynny) drwyr clwt glaswellt prydferth pan arolygid ni yn rhès gan y prifathraw y gwelaf ef; yn fachgen main, main hir oi oedran gallwn feddwl a thuedd i grymu yn ei wegil ynddo ar ddwy fraich yn glynu megys ar hyd ochrau ei gorff a thuedd barhaus yn y dwylaw i fynd i bocedau ei drowsus pechod anfaddeuol yn ngolwg i prifathraw… Yr oedd y daliad yma oi freichiau yn ei wneud or tu ol i edrych yn wargam braidd ai ben yn ei blu megys. Gwallt du fel y fran, a llygaid tywyllion iawn. Gwyneb gwelw gyda thon felynaidd ysgafn hollol ddiwrid a thonen ledraidd ond ystwyth iawn ir croen. Gwyneb bychan prydferth odiaeth im tyb i a direidi yn chwareu o bob cwr o hono yn enwedig or llygaid

[109] J.E. Caerwyn Williams, 'Gweledigaeth O.M. Edwards', *Taliesin,* 4 ((Nadolig 1962)), t. 7.
[110] Jac L. Williams, *Owen Morgan Edwards 1858-1920* (Aberystwyth, 1959), t. 61.
[111] R. Gerallt Jones, *Owen M. Edwards* (Llandybie, 1962), t. 14.
[112] Hazel Davies, 'Divisions: The Private and Public Lives of O.M. Edwards', *Planet,* 76 (Awst/Medi 1989), tt. 76-81.

> chwerthingar, ond rhyw ddireidi gwahanol i ddim oeddwn wedi ei weled yn yr un or bechgyn eraill.[113]

Dyma ddisgrifio Edwards fel bachgen swil ac ansicr ohono'i hun, ond direidus gyda synnwyr digrifwch yn ogystal. Ceir awgrym o ba mor unigryw oedd personoliaeth Edwards i D.R. Daniel a Tom Ellis, 'Yr oedd ei ddychymyg mor fyw ei feddwl mor farddonol yr oedd i ni fel yfed nectar er na fedrem bryd hynny ddadansoddi ei allu ai fedr.' I Daniel, roedd y cyfnod ysgol 'fel un o freuddwydion melusaf fy oes. Un or mannau y bum agosaf erioed i wynfyd.'[114] Atgyfnerthir y syniad o gymeriad swynol a breuddwydiwr allan o'r cyffredin yng nghymhariaeth Daniel o alluoedd Tom Ellis ac O.M. Edwards gan fod Ellis yn ddisgybl o 'alluoedd disglaer' a weithiai ac a ymdrechai'n galed iawn tra yr oedd Edwards yn ymddangos fel 'pe bai yn dysgu heb na thrafferth nag ymdrech eithr wrth chwareu a hedeg o flodyn i flodyn prydferth ar lwyni llen gan gasglu mel iw gwch o bob blodeun'.[115] Yn wir, mae'r dyfyniad hardd isod o eiddo Daniel ar farwoleth Edwards yn crisialu pa mor unigryw oedd y cymeriad hwn:

> …ar lawer cyfrif yr oedd y cymeriad gydar mwyaf hoffus a swynol y doethum erioed i gyffyrddiad ag ef meddai rhyw nodweddion cyfriniol yn ei natur sydd yn anhawdd iawn eu nodi allan, nai dadansoddi. Yr oedd fel pe bai newydd ddod o wlad y tylwyth teg ac yn ofni ac arswydo at ffyrdd trystfawr y byd hwn, bob amser er pan ei hadnabyddais gyntaf erioed. Gwr swil llednais iawn ydoedd.[116]

Nodwyd eisoes yr ystyrir O.M. Edwards i fod yn ŵr hynod swil na fedrai gymysgu'n rhwydd gydag eraill. Daw hyn i'r amlwg yn y disgrifiadau sydd yn bodoli am y triawd o ffrindiau ysgol. Wrth drefnu cyfarfod yn ystod gwyliau, cred Daniel nad oedd O.M. Edwards yn un hawdd ei ddal. Ni fyddai byth am fynd i'w weld ef nac Ellis yn eu cartrefi yn Nhynybryn a

113 LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 3.
114 Ibid., t. 6.
115 Ibid., t. 19.
116 LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards (1920).

Chynlas. Nododd Daniel bod y ‘swildod rhyfedd’ ynddo yn ei atal rhag torri trwy blisgyn cymdeithas er ei fod yn swynol iawn i’r rhai hynny oedd yn ei gwrdd.[117] O ganlyniad i’r ansicrwydd hwn, awgryma O.M. Edwards bod Tom Ellis wedi ei amddiffyn ef a Daniel tra yn yr ysgol ac os felly mae hynny’n atgyfnerthu cryfder ei gymeriad yntau. Nododd Edwards gan fod Ellis yn gwybod mwy na hwy, yn brif fachgen ac ‘yn naturiol yn fwy dewr ac eofn’, byddai’n eu hamddiffyn, yn siarad Saesneg drostynt gan mai’r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf a’u cynorthwyo gyda’u syms.[118] Ar achlysur arall, disgrifa Edwards ei swildod ei hun, ac ansicrwydd Daniel yn ogystal:

> Gellir dweyd yn ddiragrith nad oedd tri bachgen mor wylaidd a ni trwy Gymru ac am ddau o honynt nad oedd dau mor ofnus. Nid wyf yn meddwl fod bod ar y ddaear mor ofnus a mi os nad oes rhyw euog fuandroed yn rhywle. Ofnwn bawb a phob peth Ac yr oedd hyn yn afresymol, o herwydd nid wyf yn cofio i neb wneud cam a mi erioed na dweyd gair garw wrthyf. Byddai arnaf ofn Philips yn yr ysgol ofn Mrs Jones yn y ty; a rhyw haner ofn Ellis ambell waith pan fyddem ein tri - "Y tri studiwrs" fel ein gelwid gan ein cydysgolheigion gyda dirmyg ysgol! - wedi dechrau trin pynciau llenyddol ar fin y llyn neu yn mynwent Llanycil… Llawer ddyfalasom beth fyddai'n dyfodol. Ond pwy fedrasai brophwydo yn 1874 a dangos ein tri llwybr i ni."![119]

Dyma fewnwelediad i ddeinamig y berthynas rhwng y tri. Mae O.M. Edwards yn tynnu sylw at ofal Ellis drosto ef a Daniel yn ystod y dyddiau cynnar a’r tri yn cyd-freuddwydio. Mae hyn yn cydfynd â dadansoddiad W.J. Gruffydd o’r cyfeillgarwch rhwng y tri o safbwynt Edwards gan fod ‘Tom Ellis yn rhan o’r bywyd mewnol a greodd iddo’i hunan, ac efallai na bu neb arall byth wedyn ond D.R. Daniel, dros ei drothwy.’[120]

---

[117] LlGC Daniel 553, ‘Gwaled Atgo’, t. 25.
[118] LlGC Daniel 1a, ‘Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis’: Cyfrol I (dechreuwyd 26 Rhagfyr 1903), t. 63. Llythyr cyhoeddedig oddi wrth O.M. Edwards at ei frawd wedi ei ludo yn y llyfr nodiadau.
[119] Ibid., t. 64. Mae Daniel yn dyfynnu o lythyr oddi wrth O.M. Edwards.
[120] Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant*, tt. 75-76.

Yn wir, ar farwolaeth Edwards, ceir dadansoddiad pellach o'i swildod a'i berthynas gyda Tom Ellis. Wrth i Daniel drafod cymeriad Edwards gyda J.H. Davies ac Edward Edwards,[121] daethpwyd i'r casgliad nad oedd ganddo gyfaill agos pan ddaeth i oedran gŵr, 'un lled ddistaw a secretive am ei bethau oedd'. Nid oedd Edward Edwards ond yn gwybod ychydig iawn o hanes ei frawd ei hun. Casglwyd bod Tom Ellis yn hoff iawn o Edwards ac yn ei edmygu'n fawr, er y credid bod Ellis yn 'cydio mwy yn O. nag y gwnai O ynddo ef.'[122] Mae'r awgrym nad oedd Edwards wedi gwneud ffrindiau agos pan yn oedolyn yn gwneud ei gyfeillgarwch gydag Ellis a Daniel yn fwyfwy pwysig felly.

Gwelir effaith negyddol swildod cymdeithasol O.M. Edwards wrth ystyried barn Lloyd George amdano. Mae'r modd y cafodd ei apwyntio yn Brif Arolygydd Ysgolion yn 1907 yn arddangos yr agwedd hon orau. Ar 27 Ionawr 1907, ysgrifennodd D.R. Daniel yn ei ddyddiadur ei fod wedi cael te gyda D. Lloyd George gan drafod yr adran addysg newydd. Argymhellodd Daniel Edwards dros ŵr o'r enw HJ a theimlai bod Lloyd George yn gwrando arno'n fwy ar y diwrnod hwnnw.[123] Awgryma hyn bod Daniel wedi cael sawl trafodaeth gyda Lloyd George yn ceisio gwthio enw ei hen gyfaill am y swydd. Ceir mwy o fanylion yn yr hyn ysgrifennodd Daniel yn ei lyfr nodiadau yn dilyn marwolaeth Edwards:

> Byddaf yn meddwl mai fy hunan a Llew Williams[124] roddodd y swydd hon i Owen. Nid oedd yn ffafr George roedd yn amlwg i mi. … mae'n debyg i mi ddangos gogwydd at fy hen gyfaill hynaf a chofiaf yn dda ei olwg hanner sarrug ai sylwadau a wnaeth am anghymdeithasgarwch & Owen. Eithr aeth HJ i raddau or maes a phwysodd Llew Wms hefyd fel hen gydymaith OM yn Rhydychen

---

[121] Daeth Edward Edwards (1865-1933), brawd iau i O.M. Edwards, yn Athro Hanes yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth rhwng 1896 ac 1930.
[122] LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards.
[123] LlGC Daniel 530, Dyddiadur D.R. Daniel 1907, 27 Ionawr 1907.
[124] Roedd W. Llewelyn Williams (1867-1922) yn ryddfrydwr radical, yn newyddiadurwr, bargyfreithiwr ac yn Aelod Seneddol dros Sir Gaerfyddin rhwng 1906 a 1918.

> Ei rinweddau a gwneis innau a fedrwn. Rhyngom ein dau (dyna fy marn) cafodd Owen y swydd. [125]

Perodd swildod O.M. Edwards i Lloyd George ei ystyried yn ddyn anghymdeithasol gan ei fod ef a'i wraig wedi bod yn Rhydychen sawl gwaith a galw ar Syr John Rhŷs[126] ac heb dderbyn gwahoddiad am baned hyd yn oed gydag O.M. Edwards a'i wraig.[127] Yn wir, parhaodd drwgdybiaeth Lloyd George o O.M. Edwards ar ôl iddo dderbyn swydd y prif arolygwr gyda Daniel yn ei ddisgrifio yn gweld llun o Edwards ar y silff ben tân pan yn ei gartref gan ddatgan, ''Pe buasai OME.' meddai' Cymaint ai lun buasai yn ddyn mawr". Nid ydyw erioed wedi cael syniad uchel am Owen.' Roedd Lloyd George yn ei ystyried yn 'un rhyfedd' ac 'nid oedd edmygedd iw glywed yn ei adroddiad.'[128] Yn wir, nid oedd Lloyd George yn hapus gyda'i benderfyniad gan ddatgan wrth Daniel bod Edwards, 'yn 'Rhy wan' neu 'Dim digon cry'... gyda phwyslais, ac edrychiad llym i fyw fy llygad i.'[129]

Ymhellach, awgryma Daniel hefyd bod O.M. Edwards bron yn genfigennus o boblogrwydd Tom Ellis gan fod y seneddwr yn fwy amlwg i'r cyhoedd na'r llenor. Ymddengys i Edwards deimlo hyn, er nad yn ormodol, 'Eithr gwr call ydoedd ef.' Yn wir, nid oedd camgymeriad mwy ym marn Daniel nag Edwards yn mynd i'r Senedd yn dilyn marwolaeth Ellis gan iddo wneud y golled ar ôl Ellis yn fwy amlwg am nad oedd yn gymwys. Roedd Ellis hefyd wedi troi ei law at lenyddiaeth trwy olygu gwaith Morgan Llwyd, ond heb fiwsig Edwards yn ôl Daniel, 'Dau ŵr digymar yn eu lle, a phob un yn ei le ei hun.'[130] Gwelir ar farwolaeth Edwards felly, y modd yr adwaenai Daniel pob elfen o bersonoliaeth eu gyfeillion – a bod O.M. Edwards yn dioddef o swildod ac ansicrwydd a arweiniodd at fesur o genfigen o bosibl.

---

[125] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', tt. 47-48.
[126] Roedd Syr John Rhŷs (1840-1915) yn ysgolhaig Celtaidd ac yn brifathro ar Goleg Iesu, Rhydychen.
[127] LlGC Daniel 2913, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol II, t. 134.
[128] Ibid., tt. 133-134.
[129] Ibid., t. 135.
[130] LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards.

Ehangir ar gynnwys yr hanesyddiaeth bresennol ynghylch personoliaeth O.M. Edwards yn nadansoddiad Daniel o'i gymeriad, ac yn y llythyrau rhyngddynt. Dyma fachgen unigryw a oedd yn denu sylw yn yr ysgol am ei ymddangosiad a'i ddychymyg byw. Ond, roedd hefyd yn hynod swil ac yn ansicr ohono'i hun. Yn sgil hyn, cawn fewnwelediad i ddeinamig y berthynas rhwng y tri chyfaill ysgol gyda chryfder cymeriad Tom Ellis yn dod i'r amlwg wrth iddo amddiffyn ei ddau gyfaill ansicr. Yn wir, mae arweinyddiaeth Ellis o fewn y berthynas yn ei amlygu ei hun yn y trafodaethau yn y penodau sydd i ddod. Dengys ystyriaeth Lloyd George o bersonoliaeth Edwards effaith negyddol ei swildod gan fod Daniel a W. Llewelyn Williams, cyfaill i O.M. Edwards ers ei ddyddiau yn Rhydychen, wedi gorfod pwyso arno i apwyntio Edwards yn Brif Arolygydd Ysgolion – penderfyniad nad oedd yn gwbl hapus yn ei gylch. Ymhellach, ceir awgrym cryf nad oedd Edwards wedi gwneud ffrindiau agos pan yn oedolyn sydd yn gwneud ei gyfeillgarwch gydag Ellis a Daniel yn hynod werthfawr.

**Gosod y cyfeillion yn eu cyd-destun**

Trafodwyd cyfraniad Daniel a'i gyfeillion i fywyd cyhoeddus Cymru ynghyd â'u cymeriadau tra gwahanol. Ond, er mwyn deall eu hamcanion personol a'r hyn oedd yn eu hysbrydoli yn eu gwaith cyhoeddus, rhaid ystyried sut le oedd Cymru yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rydym bellach wedi derbyn mewnwelediad i'w personoliaethau, ond beth oedd y dylanwadau cymdeithasol a fyddai wedi cyfrannu nid yn unig at feithrin eu cymeriadau ond a fyddai wedi llywio eu penderfyniadau personol, gyrfaol a chyhoeddus? Gan gofio cyfeillgarwch cynnar Daniel, Ellis ac Edwards, gellir ystyried bod y dylanwadau cyffredin hyn wedi cyfrannu at ddyfnhau y cysylltiad rhyngddynt yn ogystal. Gan ein bod wedi dod i adnabod y cymeriadau ar ddechrau'r bennod hon, dyma gyfle i bwyso a mesur y modd y bu i'r gymdeithas Gymreig, a'r cyd-destun lleol, effeithio ar y cyfeillion hyn ar lefel mwy personol.

*Y wasg*

Ystyrir y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn oes aur y wasg yng Nghymru gyda sawl papur newydd a misolyn yn cael eu cyhoeddi trwy gyfrwng y Gymraeg.[131] I gyd-fynd â'r diddordeb newydd mewn gwleidyddiaeth, disgrifia Gwyn A. Williams *'An ocean of pamphlet literature, newspapers... magazines and critical quarterlies, by no means always religious, flooded over Wales.'*[132] Credir mai *Yr Amserau* oedd y papur newydd Cymraeg cyntaf i lwyddo ar ôl 1855.[133] Ond *Y Faner,* a sefydlwyd gan Thomas Gee[134] yn 1857, yn ôl Ieuan Wyn Jones oedd y papur newydd mwyaf llwyddiannus a gyhoeddwyd yn y Gymraeg erioed.[135] Dywed T. Gwynn Jones yn ei fywgraffiad iddo bod dylanwad Gee ar y papur hwn yn amlwg o'r cychwyn ym mhob elfen ohono gan gynnwys 'y lle blaen a roddid i newyddion crefyddol a mudiadau Ymneilltuol, ei gefnogaeth gref i ryddid crefydd ac addysg, a'i ofal am groniclo pob cynnydd mewn medr, gwybod a darganfod.'[136] Defnyddiodd Gee y wasg yn effeithiol felly er mwyn lledaenu syniadaeth radical. Yn wir, yn 1859, blwyddyn geni Daniel ac Ellis, prynodd Gee bapur newydd *Yr Amserau* gan ffurfio *Baner ac Amserau Cymru.*[137] Bu i'r papur hwn chwarae rhan enfawr yn ymgyrchoedd Rhyddfrydol y dydd gan gynnwys Rhyfel y Degwm, datgysylltu'r eglwys a'r frwydr dros ddeddfwriaeth tir. Gellir awgrymu bod Thomas Gee ei hun wedi cael dylanwad uniongyrchol ar Tom Ellis gan eu bod yn llythyru gyda'i gilydd yn trafod materion gwleidyddol Cymreig.[138] Nododd Ellis ei werthfawrogiad o ddylanwad Gee gan ddiolch iddo am ei *'personal kindness and touching courtesy to younger men like myself'* a'i fod yn ddiolchgar bod Gee wedi byw yn ddigon hir i weld *'the slow ripening of the*

[131] Am drafodaeth o natur y wasg yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gweler Aled Jones, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Caerdydd, 1993).
[132] Gwyn A. Williams, *When Was Wales?* (Llundain, 1985), t. 215.
[133] Gweler Philip Henry Jones, '*Yr Amserau:* The First Decade 1843-52' yn Laurel Brake, Aled Jones and Lionel Madden (goln.), *Investigating Victorian Journalism* (Llundain, 1990), tt. 85-103.
[134] Roedd Thomas Gee (1815-1898) yn gyhoeddwr a golygydd hynod o ddylanwadol a arweiniodd sawl ymgyrch Ryddfrydol yn y wasg Gymraeg.
[135] Ieuan Wyn Jones, *Y Llinyn Arian: Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee (1815-1898)* (Dinbych, 1998), t. 85.
[136] T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), t. 167.
[137] Am fwy o fanylion am *Y Faner* a chylchgronau eraill, gweler Ibid., tt. 146-168.
[138] Gweler LlGC Ellis 666-677, LlGC Ellis 3403-3411 & LlGC Daniel 1154, Thomas Gee at Tom Ellis, rhwng 1886 a 1898.

*harvest which you have so largely helped to sow'*.[139] Yn wir, roedd Gee yn bresennol ym mhriodas Tom Ellis ac, ynghyd ag Ellis Jones Griffiths,[140] ef lofnododd y gofrestr yn dilyn y seremoni.[141] Misoedd cyn ei farwolaeth ei hun, cyflwynodd Ellis deyrnged iddo yn *Baner ac Amserau Cymru*:

> ...Ni wariodd ef un diwrnod, un awr, mewn oferedd. Ni roddwyd erioed yn nhir Cymru un a garodd ac a wasanaethodd ei genedl gyda chariad mor drylwyr â Thomas Gee – fel argraffydd, cyhoeddwr, newyddiadurwr, pregethwr, prifathro'r Ysgol Sabothol, gwleidyddwr, diwygiwr cymdeithasol, dirwestwr... Yn bersonol sylweddolaf heddiw, yn fwy dwys a diolchgar nag erioed, y ddyled sydd arnaf iddo am ei ddysgeidiaeth, ei esiampl, ei gyngor, ei gymorth parod ym mhob argyfwng, ei gyfeillgarwch di-ŵyro.[142]

Ond, yn fwy na dylanwad y gŵr a'r papur newydd hwn, daeth y wasg i chwarae rhan allweddol yng ngyrfaoedd Daniel a'i gyfeillion hefyd. Ysgrifennodd Tom Ellis at D.R. Daniel ar ddechrau ei yrfa seneddol yn 1886. Pwysleisia bwysigrwydd y wasg fel modd o rannu syniadau, *'The most feasible plan which I now see is by an understanding to utilise, in season and out of season, week after week, the Welsh press for the discussion of advanced ideas'*.[143] Yn rhinwedd eu swyddi, bu i D.R. Daniel, Tom Ellis a Lloyd George ddefnyddio'r wasg Gymraeg a Chymreig er mwyn dylanwadu ar bobl Cymru. Yn wir, defnyddiodd Daniel ei ddawn ysgrifennu fel 'Demos' i annog pobl i bleidleisio dros Lloyd George yn etholiad 1890. Ond, wrth gwrs, O.M. Edwards luniodd yrfa iddo'i hun wrth olygu a chyhoeddi cylchgronau a llyfrau rhad ar gyfer pobl Cymru. Amlinellodd ef yn gwbl glir yn rhifyn cyntaf ei fisolyn, *Cymru*, mai ei fwriad oedd i sicrhau dealltwriaeth y bobl o'u hanes er mwyn creu

---

[139] LlGC Ellis 3994, Tom Ellis at Thomas Gee, 20 Hydref 1892.

[140] Roedd Ellis Jones Griffiths (1860-1926) yn fargyfreithiwr ac yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Sir Fôn.

[141] Ysgrifennodd Thomas Gee at Ellis i gadarnhau ei fod am deithio i Aberystwyth i'w briodas yn LlGC Ellis 677, Thomas Gee at Tom Ellis, 17 Mai 1898. Noda Mari Ellis bod Gee wedi arwyddo y gofrestr ym mhriodas Tom Ellis. Gweler Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 186.

[142] T .I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II*, tt. 288-289.

[143] LlGC Daniel 302, Tom Ellis at D.R. Daniel, 17 Chwefror (1886).

ymdeimlad o Gymreictod ynddynt. Cred mai ei gyfnod ef oedd cyfnod addysg yng Nghymru ac o ganlyniad, 'trwy "godi'r hen wlad yn ei hol" y rhoddir cryfder i gymeriad Cymro, purdeb i'w enaid, dysg i'w athrylith, a dedwyddwch i'w fywyd.'[144] Deffro gwerin Cymru oedd ei amcan – a'r modd yr oedd yn bwriadu meithrin ymdeimlad o Gymreictod yn y bobl a'u haddysgu am hanes Cymru oedd trwy gyhoeddi. Yn wir, nododd O.M. Edwards mewn llythyr at Daniel ei fod am greu 'chwyldroad' yn y modd yr oedd llyfrau'n cael eu hargraffu yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn ddeniadol er mwyn annog pobl i'w prynu.[145]

*Anghydffurfiaeth*

Yn ogystal â dylanwad y wasg yn eu cyfnod, chwaraeodd Anghydffurfiaeth ran amlwg ym mywyd cannoedd ar filoedd o bobl yng Nghymru – gan gynnwys Daniel a'i gyfeillion.[146] Ar 30 Mawrth 1851, nodwyd mai cyfanswm y presenoldebau mewn addoldai yng Nghymru oedd 976,490 gydag 80% o'r presenoldebau ar y diwrnod hwnnw yn y capeli a 20% yn yr eglwysi.[147] Yn wir, ganwyd Daniel, Ellis ac Edwards yn ystod cyfnod diwygiad crefyddol 1859 a disgrifia Daniel fod ei dad wedi troi at grefydd am y tro cyntaf yn ystod y diwygiad hwn ac o ganlyniad i bregethu Dafydd Morgan (a deithiodd ar draws Cymru yn pregethu ac yn lledu'r ymdeimlad o ddiwygiad).[148] Yn ôl rhestr y Parch Joseph Evans, Ystadegydd y Cyfundeb Methodistaidd, cafwyd 62,844 o gymunwyr yn y cyfarfodydd misol yn 1857; erbyn 1861, roedd 100,568.[149] Dyma gynnydd o draean mewn pedair blynedd ac awgrym cryf felly o ddylanwad crefydd ar gymdeithas Cymru cyfnod Daniel. Yn wir, cafwyd diwygiad crefyddol olaf Cymru yn ystod cyfnod bywyd Daniel ac Edwards, yn 1904-1905. Disgrifir fel:

---

144 O.M. Edwards, 'Rhagymadrodd', yn ei (gol.), *Cymru,* 1 (1891).

145 LlGC Daniel 1002, O.M. Edwards at D.R. Daniel, heb ddyddiad.

146 Ceir sawl astudiaeth ar anghydffurfiaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, yn arbennig R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristionogaeth a Diwylliant yng Nghymru 1890-1914* (Abertawe, 1981- 1982).

147 John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t. 411. Mae John Davies yn cydnabod y problemau a geir yn dehongli'r ffigurau hyn ar tt. 411-412.

148 LlGC Daniel 559, 'Fy Mam: Jane Daniel Tyn y Bryn 1817-1903' (1912), t. 61.

149 J.J. Morgan, *Hanes Dafydd Morgan Ysbyty a Diwygiad 59* (Yr Wyddgrug, 1906), t. 606.

> *…largely a young people's revival: there was an emphasis on prayer and on the beauty of congregational singing; there was to be no formalism in church services and short addresses instead of long sermons; and the overall theological emphasis was on the love of God and a total commitment to Christ.*[150]

Yn ddiddorol, nid yw crefydd, na thrafodaeth ar grefydd yn cael sylw amlwg yn y llythyrau rhwng y ffrindiau. Ond, ceir cyfeiriadau ynddynt, a'u papurau, sy'n awgrymu y bu i Gristnogaeth, ac Anghydffurfiaeth yn benodol, gael dylanwad mawr ar fywydau Tom Ellis ac O.M. Edwards. Dywed Daniel am Ellis, 'Ni soniai fawr amdani, ond yr oedd yn mhob gewyn, pob gweithred, a phob amcan o'i eiddo.'[151] Roedd ei grefydd wedi ei gwreiddio yn ddwfn yn ei ieuenctid. Yn y rhagarweiniad i'w ddyddiadur yn 1876, pan roedd yn 16 oed, ysgrifennodd am ei fwriad i ddarllen rhan o'r Beibl a gweddio ar Dduw bob dydd a gwneud yr hyn a fedrai dros Ei deyrnas ac i ledu'r Gair ar y ddaear.[152] Credai bod crefydd yn hanfodol i gymdeithas. Yn dilyn darllen *Social Christianity*, credodd bod gwers i Gymru yn ogystal wrth iddo ddatgan 'fel crefydd Iesu nid i achub eneidiau, ond hefyd i achub <u>cymdeithas</u> a chenedl. Mae eisiau adfywiad ar grefydd yng Nghymru – a dyma fydd ei gwrs os daw – puro, gwella, a iachau <u>cymdeithas</u> Cymru yn ei holl <u>environments.</u>'[153] Ond, teyrnged Robert Evans, hanner brawd D.R. Daniel, i Tom Ellis ar ddiwrnod ei angladd sydd yn arddangos dyfnder crefydd Tom Ellis ar ei amlycaf:

> Yr oedd yn gwybod yr Ysgrythur Lân er yn fachgen... Cawsom ei weled ddegau, ïe, ugeiniau o weithiau yn cymeryd rhan mewn cyfarfod gweddi; a gweddiwr heb ei fath ydoedd. Yr oeddym yn gorfod teimlo fod y weddi yn codi o rywle neu oddiar rywbeth oedd yn sylfaen gadarn i'w holl ddymuniadau. Yr oedd yn weddiwr teimladwy – byddai y dagrau yn llifo i lawr ei ruddiau bob amser braidd. Medrai dywallt ei galon gerbron Duw mewn modd

---

[150] D. Gareth Evans, *A History of Wales 1815-1906* (Caerdydd, 1989), t. 239.
[151] R Evans, *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion*, t. 18.
[152] LlGC Daniel 6b, Dyddiadur Tom Ellis 1876, 'Memorandum'.
[153] LlGC Daniel 369, Tom Ellis at D.R. Daniel, 27 Awst 1890.

> anghyffredin. Yr oedd yn meddu ar ddynoliaeth dda, ac yr oedd yna le *noble* i'r Ysbryd Mawr weithio ar hono, ac fe ddarfu.[154]

Ymhellach, yn 1880 cafodd O.M. Edwards ei dderbyn yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.[155] Yn dilyn ei farwolaeth yn 1920, ysgrifennodd Richard Morris am ddawn Edwards fel pregethwr:

> Nis gall y rhai sydd yn ei gofio yn y pulpud lai na gofidio ddarfod iddo roi i fyny bregethu mor gynnar. Ni pheidiodd, pa fodd bynnag, ag ystyried ei hunan yn bregethwr; gwell oedd ganddo i'r diwedd gael ei alw yn bregethwr nag yn flaenor; ac ymddengys ei fod, ym mlynyddau diweddaf ei oes yn edrych ymlaen at adeg pryd y gallai deimlo yn rhydd i ail-ymaflyd yn y gorchwyl o bregethu. Nis gellir, bellach, ond dyfalu pa fath bregethwr a fuasai efe pe buasai wedi cael byw i sylweddoli y disgwyliad hwn… Ond, i'r rhai a'i clywodd, erys Owen Edwards yn eu hatgof fel un o'r pregethwyr mwyaf swynol a glywsant erioed...[156]

Er na fu i Edwards bregethu o ganol y 1880au ymlaen, cred Daniel y bu iddo ganiatau i'w enw barhau i ymddangos o dan restr y gweinidogion yn nyddiadur yr enwad rhag ofn y byddai'n cael yr awydd i wneud eto.[157] Eto i gyd, mae dadansoddiad Daniel o grefydd Edwards yn awgrymu nad oedd yn rhannu dwysder cred Tom Ellis. Roedd Daniel o'r farn ei fod yn anodd iawn esbonio crefydd Edwards gan ei fod yn aml yn 'gellweirus ar un olwg ar y pen hwn.' Cred Daniel bod O.M. Edwards yn Gristion yn bennaf oherwydd mai dyna oedd crefydd y Cymry.[158] Cenedlgarwch Edwards, o bosibl, oedd craidd ei gred. Beth bynnag ei sylfeini, parhaodd eu crefydd i chwarae rhan

---

154 R. Evans, *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion*, t. 96.

155 Mae rhywfaint o'i nodiadau a'i ddyddiaduron fel pregethwr wedi goroesi ac i'w gweld yn LlGC Papurau O.M. Edwards AD2. Am wybodaeth bellach am ei gyfnod yn hyfforddi yng Ngholeg y Bala ac yn cael ei dderbyn yn bregethwr, gweler penodau 11 a 12 yn W.J. Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant,* tt.125-168.

156 Richard Morris, 'Syr Owen Edwards yn ei Gysylltiadau Crefyddol' yn Ifan ab Owen Edwards (gol.), *Cymru,* 60 (1921), t. 33.

157 D.R. Daniel, 'O Waled Atgo V', yn Ifan ab Owen Edwards, *Cymru,* 60, t. 163.

158 LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 45. Yn wir, mae W.J. Gruffydd wedi awgrymu nad o'i wirfodd yr aeth O.M. Edwards i bregethu. Gweler W.J. Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant,* tt. 126-127.

uniongyrchol ac ymarferol ym mywydau Ellis ac Edwards ar hyd eu hoes. Yn ôl G. Arthur Jones, roedd O.M. Edwards yn mynd i Gapel Glanaber bob bore Sul i ofalu am ei ddosbarth a 'ni bu blaenor ffyddlonach nag ef.'[159] Yn yr un modd, noda T.I. Ellis bod ei dad wedi dod yn flaenor yng Nghapel Cefnddwysarn yn 1895.[160]

Dysgwn ychydig mwy am safbwynt crefyddol Daniel yn llyfr R. Merfyn Jones ar chwarelwyr Gogledd Cymru. Awgryma iddo fod yn ddyn crefyddol ond bod ei feddwl radical ymchwilgar wedi achosi iddo gwestiynu ei gredoau cynharach. Ei ymateb i ddiwygiad crefyddol 1904-1905 oedd *'thinking much of this revival. They seem to be in a different plane from my own'*, a symudodd at fudiadau moesol a phositifistaidd yn Llundain.[161] Cred Daniel bod Lloyd George yn agosach i'w safbwynt crefyddol ei hun na'r un o'i gyfeillion mynwesol. Er bod Lloyd George ar ddechrau ei yrfa wedi ymddangos ei fod yn brwydro dros achos Anghydffurfiaeth, dywed Daniel ei fod yn fwy rhydd o draddodiadau crefyddol Cymru a disgrifiai ef fel gwrthryfelwr. Eto, i gyd yr oedd wedi cadw cefnogaeth yr anghydffurfwyr yng Nghymru heb gael ei gwestiynu am ei grefydd ei hun.[162] Gellir awgrymu bod Anghydffurfiaeth wedi dylanwadu ar Daniel a Lloyd George oherwydd roedd y ddau yn rhan o'r ymgyrch ddatgysylltu er mwyn dileu dylanwad Eglwys Loegr ar Gymru. Er nad oedden nhw yn grefyddwr pybyr, chwaraeodd crefydd ran bwysig yn eu bywydau fel rhan annatod o fywyd a chymdeithas Gymreig. Yn wir, cafodd clywed Lloyd George yn cyfeirio at ddatgysylltu, ac felly cydraddoldeb crefyddol, fel 'petty sectarian squabble' yn hwyrach yn ei yrfa effaith negyddol ar Daniel. Ystyriodd a oedd meddwl ei gyfaill wedi colli ei gydbwysedd pan awgrymodd y byddai'r Rhyfel Byd Cyntaf yn arwain at nef a daear newydd.[163]

---

159 Arthur Jones, *Bywyd a Gwaith Owen Morgan Edwards*, t. 86.
160 T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II*, t. 264.
161 R. Merfyn Jones, *The North Wales Quarrymen*, t. 202. Am ragor o fanylion ynghylch ymateb D.R. Daniel i Ddiwygiad 1904-1905, gweler LlGC Daniel 592, 'Deffroadau Crefydd Eu Nodweddion au Canlyniadau'.
162 LlGC Daniel 2912, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol I, tt. 4-5.
163 LlGC Daniel 2914, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol III, t. 39.

Gydag awgrym bod crefydd, am ba reswm bynnag, wedi chwarae rhan mor bwysig yn llunio cymeriad Tom Ellis, ac O.M. Edwards, a'r ffaith yr ymddengys bod Daniel wedi cefnu ar grefydd, pam felly nad oes trafodaeth ohoni yn eu llythyrau? Amhosibl yw dod i gasgliad pendant. Eto i gyd, gellir awgrymu nad oes trafodaeth ar grefydd Ellis ac Edwards gan ei fod yn rhywbeth mor naturiol, roeddent yn cymryd yn ganiataol nad oedd angen ei thrafod. Yn yr un modd, efallai nad oedd Daniel yn teimlo'n gyfforddus yn trafod ei ddiffyg crefydd gyda chyfeillion oedd mor amlwg o dan ddylanwad Cristongaeth. Hyd yn oed mewn cyfnod o alar, ni cheir dadansoddiad manwl o'u cred. Yn hytrach, ceir cyfeiriadau ati sy'n awgrymu dyfnder dylanwad Anghydffurfiaeth arnynt. Ar farwolaeth Ellis, ysgrifennodd Edwards at Daniel, 'Yn tydi ffyrdd Rhagluniaeth yn dywyll?'[164] Ymhellach, ar farwolaeth Edwards, awgryma Daniel ddylanwad crefydd fel rhan o'i fagwraeth pan ystyriodd a oedd Ellis ac Edwards gyda'i gilydd yn y nefoedd yn chwarae fel pan yn blant, 'Mi obeithiaf fod yr hyn ddysgwyd i mi yn blentyn yn wir. pe dim ond i gael cwrdd am dau hen gyfaill yma.'[165] Dyma atgyfnerthu dylanwad anochel Anghydffurfiaeth ar y cyfeillion fel elfen mor gref o gymdeithas Cymru cyfnod D.R. Daniel.

*Addysg a diwylliant*

Ymhellach, gwelwyd datblygiadau yn y byd addysg yn ystod oes Daniel a'i ffrindiau gyda phobl gyffredin Cymru yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Adlewyrchir hyn ym mhrofiadau Tom Ellis ac O.M. Edwards gyda'r ddau yn mynychu Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth (a sefydlwyd yn 1872) a Phrifysgol Rhydychen, gydag Edwards hefyd yn mynychu Prifysgol Glasgow. Parhau wnaeth y datblygiadau yn dilyn eu cyfnod hwy mewn addysg. Cafwyd deddfwriaethau addysg yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cynnwys Deddfau Addysg 1889, 1896 a Deddf Balfour 1902.[166] O ganlyniad roedd yn rhaid i blant fynychu ysgolion a derbyn addysg rad ac am ddim ac o'r 1890au cafwyd sefydliadau megis

[164] LlGC Daniel 1016, O.M. Edwards at D.R. Daniel, nos Sadwrn.
[165] LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards, nodiadau o dan y dyddiad 18 Mai 1920.
[166] Am amlinelliad o hanes addysg yng Nghymru, gweler Jac L. Williams & Gwilym Rees Hughes, *The History of Education in Wales* (Abertawe, 1978).

prifysgol, llyfrgell ac amgueddfa genedlaethol i gyfoethogi'r ysbryd addysgol hwn yng Nghymru. Ond, yn fwy na hyn, gellir awgrymu bod bwriad gan bobl Cymru i sicrhau addysg i'w plant. Mae tystiolaeth Thomas Ellis, tad Tom Ellis, o flaen Pwyllgor yr Arglwydd Aberdâr[167] ar 2 Tachwedd 1880 yn datgelu pwysigrwydd addysg i sicrhau cyfleoedd i bobl gyffredin Cymru. Pan ofynnwyd iddo, cytunodd bod pobl ifanc Cymru yn teimlo '*a good deal of desire'* am addysg uwch ac wrth drafod y ffaith bod ei fab yn Rhydychen ar y pryd, dywedodd, *'I determined when I had a son that he should not go through the world as I had to.'*[168] Cytuna Daniel gyda'r bwriad hwn o sicrhau addysg yn ei ddisgrifiad o rieni Ellis a'r trigolion lleol nad oedden nhw wedi cael manteision addysg ac a oedd yn benderfynol o sicrhau nad oedd eu plant yn profi'r un diffyg â hwythau.[169] Cawn ein hatgoffa o sefyllfa ariannol teulu Cynlas, ac felly pa mor benderfynol oedd y rhieni i sicrhau addysg i'w mab, pan ofynnwyd i Thomas Ellis am ei ymateb wrth i Tom Ellis fynd i Rydychen:

> *...I had no intention of giving him any more educn, as my circumstances wd hardly permit it. I reasoned with him that I could not let him go, as I had four other children, daughters, younger than he, and that I should be doing wrong to them if I let him go to Oxford. I told him that as he wanted to go to Oxford, and as he would expect me to give him some assistance if he was started in any business, if he preferred having any little money that might fall to his portion and using it for the purposes of education he would have it, but I could not help him in any matter of business, and he chose to have the money at the time.*[170]

---

[167] Gweler pennod 4 yn J. Gwynn Williams, *The University Movement in Wales* (Prydain Fawr, 1993), tt. 63-88 & John Davies, *Hanes Cymru*, tt. 431-432 am wybodaeth am Bwyllgor Aberdâr.
[168] LlGC Daniel 9, Tystiolaeth Thomas Ellis, Cynlas gerbron Pwyllgor yr Arglwydd Aberdar, 2 Tachwedd 1980, t. 1.
[169] LlGC Daniel 1a, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis': Cyfrol I, t. 6.
[170] LlGC Daniel 9, Tystiolaeth Thomas Ellis, Cynlas gerbron Pwyllgor yr Arglwydd Aberdar, t. 3.

Pan ofynnwyd i Thomas Ellis a oedd yn gwybod am unrhyw ffermwyr mewn sefyllfa tebyg a oedd wedi gwneud yr un aberth ar gyfer addysg eu plant, dywed *'I know of a good many who wd have done it if their circumstances wd have allowed it but their circumstances wd not.'* [171]

Mae dylanwad y brwdfrydedd hyn dros addysg yng Nghymru yn ystod oes Daniel i'w weld yng nghynnwys y trafodaethau rhwng y cyfeillion. Efallai mai llythyr Tom Ellis at O.M. Edwards yn ystod cyfnod ei salwch yn yr Aifft yn 1890 sydd yn cynnig y mwyaf o wybodaeth i ni am effaith y cyfleoedd newydd a ddaeth yn sgil addysg wrth iddo ddatgan bod angen prifysgol i Gymru er mwyn bod yn rhydd o ddylanwad Llundain ac i Gymry ifainc fynd i Rydychen a Chaergrawnt gyda gradd o'u prifysgol eu hunain ac amlygu eu hunain yno gan atal rhagfarn y Saeson at y Cymry.[172] Roedd addysg yn graidd i weledigaeth Tom Ellis felly. Addysg fyddai'n sicrhau cynnydd y werin a pharch cenhedloedd eraill. Dyma rywbeth y cydnabu Daniel oedd yn gyffredin yn syniadaeth ei ffrindiau. Yn 1899, ac Edwards yn Aelod Seneddol, ysgrifennodd Daniel bod proffwydoliaeth Edwards ac Ellis yn un, gan y byddai gwell system addysg yn arwain at 'Cymru Fydd i estyn yn mlaen yn ddiorphwys tuag at y goreu mewn llenyddiaeth a gwleid-ddysg gan gadw yn wastadol ei llygad ar ei llwybr a'i chymwynaswyr yn yr amseroedd a fu.'[173] O ganlyniad i'r profiadau addysgol yr oedd Ellis ac Edwards wedi eu derbyn, roeddent yn rhoi gwerth mawr ar addysg a sicrhau prifysgol i Gymru yn rhan o'u gweledigaeth.[174]

Daeth O.M. Edwards yn Brif Arolygydd Ysgolion yng Nghymru yn 1907, ond adlewyrchir y brwdfrydedd yma dros addysg yn ei weithiau cyhoeddedig hefyd. Mewn llythyr dyddiedig 12 Chwefror 1890, gofynnodd Tom Ellis a oedd O.M. Edwards wedi ystyried pwysigrwydd ysgrifennu llawlyfrau ar gyfer yr ysgolion newydd, a datganai mai Cymry Rhydychen

---

[171] Ibid., t. 3.
[172] LlGC Ellis 2765, Tom Ellis at O.M. Edwards, 12 Chwefror 1890.
[173] LlGC Daniel 2742, Cyfrol o doriadau papur newydd parthed T.E. Ellis, O.M. Edwards ac eraill.
[174] Trafodir y modd y bu Ellis, Edwards, a Daniel i raddau, gydweithio i ddatblygu'r system addysg yng Nghymru yn ail bennod yr astudiaeth hon.

oedd y dynion ddylai ymgymryd â'r gwaith.[175] Dywed Edwards y bu iddo baratoi'r ddwy gyfrol *Hanes Cymru* gan i reolwyr arholiadau lleol Rhydychen dderbyn Cymraeg fel testun arholi ar yr amod y byddai'n cyhoeddi fel llyfr y casgliad o erthyglau ar hanes Cymru a ymddangosodd yn ei fisolyn *Cymru*. Bwriadwyd eu defnyddio mewn Ysgolion Canolraddol, cyfarfodydd llenyddol ar hanes Cymru ac ar aelwydydd Cymru.[176] Yn yr un modd, bwriad *Ystraeon o Hanes Cymru* (a ymddangosodd yn wreiddiol mewn ffurf ddwyieithog) oedd i alluogi plentyn i ddysgu ei iaith drwy gymharu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn y modd disgwyliedig gan y llywodraeth.[177] Mae'r llyfrau hyn felly yn ymateb uniongyrchol ar ran Edwards i'r newidiadau a ddaeth yn sgil deddfwriaethau addysgol. Yr un bwriad oedd i'r misolyn *Wales*: addysgu gwerin di-Gymraeg Cymru, *'It would be difficult to find a people so susceptible of education, and we should make students, not only at our University Colleges, but at every fire-side in Wales.*'[178]

Yn yr un modd, gellir awgrymu bod y datblygiadau hyn mewn addysg wedi arwain at newidiadau diwylliannol yn ystod cyfnod Daniel pan ddaeth to ifanc o ysgolheigion i'r amlwg gyda'u bryd ar godi safonau.[179] Cymdeithas Dafydd ap Gwilym, Rhydychen, a sefydlwyd yn 1886, sydd yn adlewyrchu'r syniad o fudiad ysgolheigaidd Cymraeg orau. Roedd y sylfaenwyr yn cynnwys, ynghŷd ag O.M. Edwards, John Morris-Jones (Athro Cymraeg amlwg), D. Lleufer Thomas (gwleidydd), Edward Anwyl (ysgolhaig ar Astudiaethau Celtaidd) a J. Puleston Jones (gweinidog a chyfaill ysgol Daniel, Ellis ac Edwards). Roeddent oll yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Rhydychen ar y pryd, ac yn llywydd arnynt oedd John Rhŷs, prifathro Coleg Iesu.[180] Gyda rhai o aelodau cynnar y gymdeithas y dechreuwyd trafod sefydlogi'r orgraff Gymraeg. Cyhoeddwyd eu

[175] LlGC Ellis 2765, Tom Ellis at O.M. Edwards, 12 Chwefror 1890.
[176] O.M.Edwards, *Hanes Cymru I Hyd 1063* (Caernarfon, 1911), t. 3.
[177] O.M. Edwards, *Ystraeon o Hanes Cymru* (Wrecsam, 1918), t. 3.
[178] Idem.,'A New Path', yn ei (gol.), *Wales*, 1 (1894), t. 2.
[179] Gweler bedwaredd bennod Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation* (Rhydychen, 1981), tt. 90-122.
[180] Gweler D. Ellis Evans & R. Brynley Jones (goln.), *Cofio'r Dafydd: Cymdeithas Dafydd ap Gwilym 1886-1986* (Abertawe, 1987).

penderfyniadau yn 1888 ac fe'u labelwyd, gyda dirmyg, yn 'Gymraeg Rhydychen'. Er hyn, gyda rhai newidiadau, fe'u derbyniwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ym 1893.[181] Datblygodd ysgolheictod Cymreig gyda John Morris-Jones yn dod yn Athro Cymraeg cyntaf Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, yn feirniad eisteddfodol ac yn gyfrifol am gyflwyno rheolau gramadeg a chynghannedd.[182] Dylanwadol oedd Syr John Rhŷs fel Athro Astudiaethau Celtaidd ac yn 1911 ac 1913 cyhoeddodd cyfoeswr i Ellis ac Edwards yn Aberystwyth a Rhydychen, John Edward Lloyd, y gwaith ysgolheigaidd cyntaf ar hanes Cymru gydag'r ddwy gyfrol arloesol *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest.*[183] Ymhellach, gwelwyd dadeni llenyddol ar droad yr ugeinfed ganrif drwy lenorion megis T. Gwynn Jones a enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1902 gyda'i gerdd 'Ymadawiad Arthur'.[184]

Wrth drafod y syniad o ddeffroad addysgol, diwylliannol a gwleidyddol y bobl gyffredin yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhaid ystyried y cysyniad o'r 'werin' a oedd mor amlwg yng ngweithiau O.M. Edwards a'i gyfoeswyr. Cred Prys Morgan mai ymateb i greisis addysgol a chymdeithasol yr 1830au a'r 1840au oedd John Morris-Jones, O.M. Edwards, Crwys Williams a W.J. Gruffydd wrth bortreadu'r 'werin'.[185] Hybwyd syniad cadarnhaol o'r 'werin' (anghydffurfwyr deallus Rhyddfrydol, siaradwyr Cymraeg yn byw ar y tir) fel ymateb i'r ddelwedd o Gymry a oedd allan o reolaeth ac yn ddiddysg. Erbyn 1900, gwelai O.M. Edwards berygl – doedd ysgolion Sul ddim yn datblygu, yr oedd llai o lyfrau Cymraeg, llai o bobl yn siarad Cymraeg a'r dosbarth canol yn dechrau troi cefn ar y werin.[186] O ganlyniad, datblygodd Edwards ac eraill y cysyniad o'r 'werin' fel y disgrifir uchod. Roedd ganddo ffydd ddiddiwedd

---

[181] T.H. Parry-Williams, *John Rhŷs 1840 – 1915* (Caerdydd, 1954), t. 55.
[182] Am drafodaeth o fywyd a gwaith John Morris-Jones, gweler Allan James, *John Morris-Jones.*
[183] Gweler John Edward Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest I & II* (Llundain, 1911 & 1913).
[184] Am wybodaeth am fywyd a gyrfa T. Gwynn Jones, gweler W. Beynon Davies, *Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1970).
[185] Prys Morgan, 'The *Gwerin* of Wales – Myth and Reality' yn Ian Hume a W.T.R. Pryce (goln.), *The Welsh and their Country* (Llandysul, 1986), t. 135.
[186] Ibid., t. 139.

yng ngalluoedd naturiol y Cymry cyffredin, 'Y mae meddwl gwerin Cymru yn uwch, yn goethach, ac yn gryfach na meddwl gwerin rhannau gweithfaol a masnachol Lloegr.'[187] Er hyn, mae Emlyn Sherrington wedi beirniadu 'gwerin' O.M. Edwards am fod yn gyfyng ac yn rhagfarnllyd o'r dosbarthiadau diwydiannol gan ei fod yn ffocysu ar lunio delwedd wledig o'r Cymry.[188] Yng ngeiriau Gwyn A. Williams:

> *The* gwerin *was a cultivated, educated, often self-educated, responsible, self-disciplined, respectable but on the whole genially poor or perhaps small-propertied people, straddling groups perceived as classes in other less fortunate societies. Welsh-speaking, Nonconformist... That this image departed rather dramatically from the reality, even of rural Wales, hardly needs saying... [It was] Not as remote from reality as it would seem- it would hardly have been effective if it had been.*[189]

Er nad oedd y 'werin' yn gwbl gyson gyda realiti, roedd i'r disgrifiad rhywfaint o sail gwirioneddol. Dyma ddychwelyd at brofiadau cynnar O.M. Edwards, ac felly Daniel ac Ellis, yn ardal wledig a diwylliedig y Bala a'u dylanwad ar y ddelwedd o'r 'werin' a bortreadwyd mor glir gan Edwards. Yn wir, bu i Edwards ddatgan wrth Daniel ar ddechrau ei yrfa gyhoeddi mai eu dyddiau hwy yn y Bala oedd yn ei feddwl wrth iddo ysgrifennu 'pob sill.'[190]

Yn ogystal â'u crefydd a'u haddysg, bu i brofiadau Daniel a'i ffrindiau fel plant i amaethwyr a thyddynwyr cyffredin ddylanwadu arnynt. Pan aeth Ellis i Rydychen, cred Daniel nad oedd unlle mwy gwahanol 'ir byd ymneillduol gwerinol Cymreig yn yr hwn ei magwyd ac ei dysgwyd hyd ei ddyfodiad i Rydychen.'[191] Ymhellach, cydnabydda Ellis eu magwraeth syml

---

[187] O.M. Edwards, 'Meddyliau am Addysg Cymru', yn ei (gol.), *Cymru,* 18 (1900), t. 19.
[188] Gweler Emlyn Sherrington,'O.M. Edwards, Culture and the Industrial Classes', *Llafur,* 6:1 (1992), tt. 28-41.
[189] Gwyn A. Williams, *When Was Wales?*, tt. 237-238.
[190] LlGC Daniel 1011, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 19 Hydref 1891.
[191] LlGC Daniel 1b, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis': Cyfrol II (dechreuwyd 26 Rhagfyr 1903), t. 25.

mewn llythyr at O.M. Edwards yn dilyn ei salwch difrifol yn yr Aifft yn 1890, 'Yr wyf yn cael rhywbeth i'w fwyta heblaw llaeth a photes... mae meibion tyddynwyr Cymru fel chwi a minnau wedi hen ddysgu dygymod ar fwyd llaeth a photes.'[192] Mae'n bwysig cofio'r rhannu cefndir hwn wrth ystyried gyrfaoedd y dynion hyn yn y dyfodol. Yn sicr, erbyn eu marwolaethau roeddent wedi gadael y bywyd gwerinol hwn y tu ôl iddynt. Eto i gyd, llywiodd eu profiadau cynnar eu gyrfaoedd cyhoeddus yn y dyfodol a gosod sylfeini cadarn i'w cyfeillgarwch hir-dymor.

*Pwnc y tir a gwleidyddiaeth*

Yn ôl Ieuan Wyn Jones, dim ond 10.2% o'r tir yng Nghymru oedd yn eiddo i'r sawl oedd yn ei drin ac yr oedd yr ymgyrch yn erbyn y tirfeddianwyr wedi dechrau yn 1840au gyda'r *Cronicl* a'r *Amserau* fel papurau newydd yn arwain y frwydr.[193] Pan roddodd Tom Ellis, yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol, dystiolaeth o flaen comisiwn y tir yn 1893, dywedodd:

> *I am the son of a tenant farmer. I have been three times returned to represent my native country in Parliament. I have been a fairly diligent student of the rural economy of Wales. From my boyhood I have had a strong and deepening conviction that the system under which the land of Wales is cultivated requires drastic modification and reform.*[194]

Yn ei araith disgrifia pa mor ansicr oedd bywydau tenantiaid a chyfeiriodd at brofiadau ei deulu ei hun gan ddisgrifio'r modd y bu i bedwar ewythr a pherthnasau iddo golli eu ffermydd am wrthod pleidleisio dros ymgeisydd Torïaidd yn etholiad 1859, blwyddyn ei eni ef a Daniel. Yn yr un modd, disgrifia ddigwyddiad yn Chwefror 1867 (pan yr oedd o ddeutu wyth oed) pan y bu i un o gŵn ei dad redeg ar ôl ysgyfarnog ar dir Rhiwlas (roedd Cynlas yn rhan o'r ystad hwn), ond heb ei ddal. Bu'n rhaid i'w dad fynd â'i

---

[192] LlGC Ellis 2765, Tom Ellis at O.M. Edwards, 12 Chwefror 1890.

[193] Ieuan Wyn Jones, *Y Llinyn Arian*, t. 144.

**[194]** Tom Ellis, 'Notes of the Evidence Tendered to the Royal Commission on Land in Wales and Monmouth in 1893' yn Britain' yn Annie Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by Thomas E. Ellis* (Wrecsam, 1912), t. 253.

ddau gi i ystad y Rhiwlas y bore wedyn a saethwyd y ddau. Yn dilyn hyn clywyd sïon bod Thomas Ellis, ei dad, am golli'r fferm ac ar 27 Medi, derbyniwyd rhybudd i adael Cynlas oherwydd trosedd honedig y ci a'r cyhuddiad bod ei dad yn dinistrio ysgyfarnogod ar ei fferm. Disgrifia Ellis effaith hyn ar y teulu:

> *Weeks of dread anxiety followed with sickness and death in the family. After much negotiation, the farm was offered to my father at an increased rental of £10. His capital and 12 years' hard labour were sunk in the farm. His children were very young. He was attached to his home. The offer was an ultimatum. It had to be accepted. During the 26 years which have elapsed, every penny of the £260 enhanced rent has been paid. My father has forgiven, and wishes to forget it all. But these things cannot be forgotten. On the same day, Mr. William Roberts, of Fedw Arian, received notice to quit, because one of his sons was said to be a poacher. This farm could not be retained, except by an increase of the rent and the exile of the son for ever from his home.*[195]

Wrth gyflwyno tystiolaeth, disgrifia'r swm yr oedd ei dad wedi ei wario ar y fferm fel tenant a'r ffaith bod y gwariant i wella'r fferm yn ogystal â'r rhent, y degwm, trethi a *rates* yn sefydlu 'hawl y tenant'.[196] Yn seiliedig ar ei gefndir teuluol, yr un cefndir â Daniel ac Edwards, aeth Ellis ati i frwydro dros hawliau i'r tenantiaid a deddf tir i Gymru.

Mae gwreiddio'r dynion hyn yn nghyd-destun Cymru eu cyfnod felly'n hanfodol i ddeall yr hyn oedd yn eu hysgogi i lunio gyrfaoedd cyhoeddus a'r rhannu cefndir yn cyfoethogi'r dadansoddiad o'u cyfeillgarwch yn y traethawd hwn. Adlewyrchir ei fagwraeth Anghydffurfiol fel mab i denant yn addewidion etholiadol Tom Ellis yn 1886 gan iddo ymgyrchu ar sail datgysylltiad yr eglwys, gwella'r system addysg, deddfwriaeth i amddiffyn y

[195] Ibid., tt. 259-260.
[196] Ibid., t. 265.

tenantiaid yn ogystal â hunan-reolaeth. Yn ei lythyr at yr etholwyr, ysgrifennodd:

> Y mae yn amser i'r Senedd wrandaw ar lais Cymru. Y mae yn hawlio Dadgysylltiad Eglwys Loegr yng Nghymru, a defnyddiad y gwaddoliadau er budd y genedl yn gyffredinol.
>
> Y mae yn deisyf am berffeithiad yn ei chyfundrefn addysg – y tlawd fel y cyfoethog i gael cyfleusderau cyffelyb i fanteisio ar holl adnoddau addysgawl y genedl.
>
> Y mae yn hawlio diwygiad trwyadl yn Neddfau y Tir, er sicrhau sefydlogrwydd cartref, ardrethau teg, a diogelwch ffrwythau llafur y gweithiwr, yr amaethwr, a'r masnachwr.
>
> Y mae yn hawlio Ymreolaeth, fel y byddo rheoleiddiad y fasnach feddwol, y trethi, swyddau cyhoeddus, a moddion ymddadblygiad cenedlaethol yn nwylaw y Cymry.[197]

Yn wir, yn ei lythyr yn diolch i'w etholwyr am ei ethol, tynnodd sylw at ddigwyddiadau 1859 a gafodd effaith mor ddifrifol ar ei ewyrthod drwy iddynt beidio pleidleisio dros ymgeisydd Torïaidd, 'Yr wyf yn dymuno diolch o galon i werin Meirion am fy ngalluogi i enill buddugoliaeth Gymreig. Y mae'r had a hauwyd yn 1859 wedi dwyn ffrwyth 1886.'[198] Dyma ddylanwad uniongyrchol ei gefndir ef a'i gyfeillion, a phrofiad ei deulu, ar Tom Ellis.

Roedd gyrfa wleidyddol Tom Ellis hefyd yn cydfynd â sawl datblygiad yn mywyd Cymru. Yn 1832, 1867 a 1884 diwygiwyd yr etholfraint, a gyda datblygiad y wasg a phapurau dylanwadol megis *Baner ac Amserau Cymru*, daeth pobl gyffredin yn rhan mwy amlwg o'r broses wleidyddol. Ehangwyd

[197] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I*, tt. 208-209.
[198] LlGC Daniel 1a, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis': Cyfrol I, tt. 66.

ar y nifer o gynrychiolwyr oedd gan Gymru yn Senedd Prydain a'r nifer oedd yn cael pleidleisio. Erbyn 1884, roedd gweithwyr a ffermwyr cyffredin yn cael y cyfle i bleidleisio. Gyda thwf y wasg, daeth y blaid Ryddfrydol i ddominyddu gwleidyddiaeth Cymru.[199] Yn 1885, blwyddyn cyn ethol Ellis, enillodd y Rhyddfrydwyr 30 sedd allan o'r 34 oedd i Gymru yn y Senedd.[200] O ganlyniad, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd to newydd o wleidyddion Rhyddfrydol Cymreig wedi dod i'r amlwg a ffurfio mudiad Cymru Fydd gyda'r amcan o '[d]dwyn unoliaeth a grym i fywyd Cymru, ac ennill hawl Seneddol iddi i fynegi'r bywyd hwnnw yn ei ffordd ei hun, ynglŷn â'i materion ei hun.'[201] Amcanion y gymdeithas hon, a ddiffiniwyd yn 1888 oedd:

1. Sicrhau i Gymru senedd genedlaethol i ymdrin yn ddi-rwystr a materion Cymreig h.y. Hunan Lywodraeth i Gymru.

2. I gynorthwyo sicrhau dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin, Gymru hollol gynrychioliadol a fydd yn y cyfamser yn hyrwyddo gwelliannau Cymreig yn unol â'r dyheadu cenedlaethol.

3. I drefnu'r etholwyr Cymreig yn etholaethau Lloegr, i sicrhau ei cofrestru, a chael ymrwymiadau gan ymgeiswyr yn ystod etholiadau, o blaid diwygiadau Cymreig.[202]

Am bron i ddegawd, daeth Cymru Fydd i ddominyddu gwasg a gwleidyddiaeth Cymru gyda Tom Ellis a Lloyd George yn arweinwyr blaenllaw.[203] Yn wir roedd D.R. Daniel hefyd yn aelod o'r mudiad ac O.M. Edwards yn gyd-olygydd *Cymru Fydd*, cylchgrawn y mudiad, am flwyddyn cyn sefydlu *Cymru* yn 1891. Ond collodd y mudiad ddylanwad yn dilyn

---

[199] Am drafodaeth o Ryddfrydiaeth yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gweler pennod 2 yn Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation* (Rhydychen, 1982), tt. 26-58.

[200] John Davies, *Hanes Cymru*, tt. 410-411.

[201] William George, *Cymru Fydd*, t. 10.

[202] Emyr W. Williams, 'Tom Ellis a Mudiad Cymru Fydd 1886-90', *Taliesin*, 59 (Mai 1987), tt. 92-93.

[203] Am drafodaeth fanwl o strwythur a dylanwad Cymru Fydd, gweler Dewi Rowland Hughes, *Cymru Fydd*.

cyfarfod enwog yng Nghasnewydd yn 1896 pan fethwyd ag uno Cymru Fydd gyda Chynghreiriau Rhyddfrydol y De a'r Gogledd.[204] Er hyn, dyma enghraifft arall o'r ysbryd o ddeffro ac ail-ddarganfod sy'n dod i'r amlwg wrth ystyried cyfnod Daniel a'i ffrindiau.

Mae ystyried cyd-destun Cymru eu cyfnod yn cyfoethogi'r drafodaeth hon ar gyfeillgarwch D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards, ac i raddau Lloyd George. Cawsant eu geni yng nghyfnod euraidd y wasg Gymreig gyda dylanwad arwyddocaol Anghydffurfiaeth yn amlwg ym mhrofiadau'r tri, er i raddau gwahanol. Ymhellach, profodd Tom Ellis ac O.M. Edwards yn benodol y cyfleoedd newydd a ddaeth yn sgil diwygiadau o fewn addysg, gan hybu newidiadau pellach yn eu gyrfaoedd pan yn oedolion. Gwelir dylanwad y newidiadau o fewn y byd gwleidyddol ar y cyfeillion gydag Ellis yn dod i frwydro dros hawliau tenantiaid a hwy i gyd yn aelodau o fudiad Cymru Fydd. Dyma wreiddio profiadau a gyrfaoedd Daniel, Ellis ac Edwards yn gadarn yn nghyd-destun Cymru eu dydd gan gryfhau ein dealltwriaeth o'u dylanwad fel arweinwyr ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond, dylid nodi hefyd bwysigrwydd y rhannu profiadau cyffredin wrth ddechrau dadansoddi eu perthynas. Ni ellir dadlau bod y dylanwadau a restrir uchod yn unigryw iddynt hwy, ond byddent wedi eu profi gyda'i gilydd yng nghyfnod ieuenctid pan fyddent yn llunio eu gwerthoedd a'u syniadau am y byd o'u hamgylch. Yr un oedd eu profiad o'r werin a bywyd tenantiaid, addysg a chrefydd – er fod eu hymateb i'r dylanwadau hyn yn wahanol. Byddai'r rhannu profiad hwn mewn cyfnod mor bwysig wedi dyfnhau'r rhwym rhyngddynt. Daw hyn i'r amlwg unwaith yn rhagor wrth ystyried dylanwad eu milltir sgwâr arnynt.

Nid yw'n fwriad dadlau mae eu cefndir Cymreig oedd yr unig ddylanwad ar Daniel, Ellis ac Edwards. Ceir tystiolaeth i awgrymu dylanwad athronwyr gwleidyddol a chymdeithasol eu dydd arnynt yn ogystal. Er enghraifft, dywed Wyn Jones bod dylanwad Daniel ar Tom Ellis a'i gefnogaeth ef i

---

[204] Am wybodaeth bellach, gweler J. Graham Jones, 'Lloyd George, Cymru Fydd and the Newport Meeting of January 1896', *Cylchgrawn Llyfrgell Gendlaethol Cymru,* 29 (Gaeaf 1995), tt. 435-453.

achos cenedlaetholdeb Cymreig yn atgyfnerthu dylanwad gwaith Mazzini arno.[205] Dywed Daniel ei hun bod Joseph Mazzini wedi cael dylanwad mawr ar ei gyfaill, ac effaith hynny oedd bod Tom Ellis yn 'pwysleisio mwy ar ddyledswyddau na hawliau.'[206] Ymhellach, cred Daniel y cafodd Renan cymaint o ddylanwad â neb ar O.M. Edwards a bod eu dull o ysgrifennu yn hynod o debyg.[207] Yn wir, ar farwolaeth mab Edwards, dyfynnodd Daniel o weithiau Renan a Mazzini er mwyn dod â chysur iddo.[208] Yn ogystal â hyn, disgrifia Neville Masterman y ffaith bod Tom Ellis wedu darllen gwaith Matthew Arnold a John Ruskin *'with far more zeal than he did... the traditional fathers of English Liberalism'* a chysyllta Emlyn Sherrington ddehongliad Edwards o'r werin a bygythiad y dosbarthiadau diwydiannol gyda syniadau William Morris a John Ruskin a'r syniad Almaenaidd o'r *Volk*.[209] Yn wir, cofiai Daniel fynd am dro gydag Edwards ac Ellis tra roedd Ellis yn y brifysgol yn Aberystwyth gan drafod gweithiau John Ruskin.[210] Enghreifftiau yn unig a geir uchod o ddylanwadau y tu hwnt i'r gymdeithas Gymreig.[211] Anodd iawn yw mesur y graddau y byddai Daniel, Ellis ac Edwards wedi trafod gweithiau'r athronwyr hyn. Ni ellir chwaith gloriannu dyfnder eu dylanwad uniongyrchol arnynt fel triawd o ffrindiau gan y byddent wedi astudio'r gweithiau hyn yn annibynnol ar ei gilydd i raddau, yn dilyn eu cyfnod yn y Bala. Ond mae'r cyfeiriadau hyn yn profi nad oedd profiadau'r dynion hyn yn gul ac wedi eu ffocysu ar Gymru'n unig.

---

205 Wyn Jones, *Thomas Edward Ellis*, t.19. Roedd Giuseppe Mazzini (1805-1872) yn wleidydd Eidalaidd a frwydrodd i uno'i wlad.

206 Daniel, 'Adgofion', t. 18.

207 LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards & LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 25. Roedd Ernest Renan (1823-1992) yn athronydd Ffrengig.

208 LLGC Papurau O.M. Edwards AG1/11/102, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 19 Mawrth 1897.

209 Masterman, *The Forerunner*, t.42 & Sherrington, 'O.M. Edwards, Culture and the Industrial Classes', tt. 28-41. Roedd John Ruskin (1819-1900) yn athronydd cymdeithasol o Loegr a William Morris (1834-1896) yn fardd, awdur ac athronydd cymdeithasol o Loegr.

210 LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards & LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 25.

211 Yn wir, gellir ystyried dylanwadau pellach ar y tri chyfaill ysgol, gan gynnwys dylanwad cenedlaetholdeb y Gwyddelod Charles Stuart Parnell a Michael Davitt ar wleidyddiaeth Tom Ellis. Am enghreifftiau o drafodaethau pellach ar hyn, gweler Masterman, *The Forerunner,* tt. 122-123 & J. Graham Jones, 'Michael Davitt, David Lloyd George and T.E. Ellis: The Welsh Experience, 1886', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 18:3 (Mehefin 1997), tt. 450-482.

Yn yr un modd, ni ellir anwybyddu'r ffaith y ganwyd Daniel, Ellis ac Edwards yn y cyfnod pan oedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn ei hanterth. Yn wir, mae Aled Jones a Bill Jones wedi arddangos y modd yr oedd syniadau ymerodraethol ac imperialaidd yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd yn y wasg Gymreig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed.[212] Daw syniadaeth Tom Ellis ac O.M. Edwards i'r amlwg wrth iddynt ystyried Cymru o fewn yr Ynysoedd Prydeinig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn 1889, mewn araith ym Manceinion, dywedodd Ellis:

> *But in the making of Britain, its love of freedom and institutions of freedom are more important to the world than its material well-being... A great nation likewise owes its pre-eminence to blending with races and to impact with peoples possessing temperaments and energies and qualities different from those which are dominant in itself... Britain owes much of its greatness, of its value and interest to the world, to the Celtic elements within its borders.*[213]

Yn yr un modd, mae'r erthygl 'Yr Ymylwe Geltaidd' yn amlinellu syniadau Edwards ar Brydeindod. Canmolai Fictoria, ei phoblogrwydd a'r ffaith na wnâi unrhyw beth heb ganiatâd y bobl. Credai fod y Cymry'n deyrngarol ac yn fodlon brwydro drosti.[214] Ymhellach, credai fod gan y Cymry ran bwysig i'w chwarae yn yr ymerodraeth. Gyda gwell addysg yng Nghymru hoffai weld bechgyn Cymru yn mynd allan fel cenhadon a llywodraethwyr gan y credai mai o rannau mwyaf gwladgarol yr ymerodraeth y deuai'r meddylwyr mwyaf dylanwadol.[215] Dyma arddangos deuoliaeth hunaniaeth Tom Ellis ac O.M. Edwards. Roeddent yn hynod falch o'u Cymreictod ac wedi ymroi eu hunain i sicrhau cynnydd eu gwlad. Eto i gyd, gwnaed hyn mewn cyd-destun Prydeinig. Gwelsant Gymru fel rhan unigryw ac allweddol o'r

---

[212] Gweler Aled Jones & Bill Jones, 'Empire and the Welsh Press' yn Simon J. Potter (gol.), *Newspapers & Empire in Ireland & Britain* (Dulyn, 2004), tt. 75-91.
[213] Tom Ellis, 'The Influence of the Celt in the Making of Britain' yn Annie Ellis, *Speeches and Addresses,* tt. 89-90.
[214] O.M. Edwards, 'Yr Ymylwe Geltaidd' yn ei *Cymru,* 18, tt. 197-198
[215] Ibid., t. 201.

ymerodraeth ehangach. Unwaith yn rhagor, dyma brofi nad oedd y dylanwadau ar Ellis ac Edwards yn gul ac yn ffocysu ar Gymru yn unig.

**Mawrion y Bala**

Nid yn unig y gellir disgwyl i ddylanwadau'r werin, Anghydffurfiaeth a gwleidyddiaeth eu dydd effeithio'n uniongyrchol ar Daniel, Ellis ac Edwards, rhaid ystyried dylanwad eu bro arnynt yn ogystal. Ceir cyfeiriadau yn yr hanesyddiaeth at ddylanwad ardal Cenfddwysarn a Llanuwchllyn arnynt. Yr oedd Tom Ellis wedi datgan wrth ei wraig ychydig cyn ei farwolaeth, '*You have not yet probed the depth of my love for Cefnddwysarn'* ac mae W.J. Gruffydd o'r farn 'Yn Llanuwchllyn y bu Owen Edwards byw ar hyd ei oes, er bod ei gorff yn aml ymhell oddi yno.'[216] Dadansoddir pwysigrwydd y rhannu cefndir a bro i feithrin y berthynas rhwng Daniel, Ellis ac Edwards yn y penodau sydd i ddod. Daeth y tri yn gyfeillion tra yn yr ysgol yn y Bala – tref â hanes cyfoethog a lle amlwg yn niwylliant Cymru.[217] Yma, felly, ystyrir dylanwad rhai o fawrion y genedl oedd yn byw yn ardal y Bala arnynt tra roedd y tri'n ifanc. Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith i Tom Ellis gyflwyno ei gyfrol o weithiau Morgan Llwyd er cof am Lewis Edwards a Michael D. Jones, y ddau yn byw yn y Bala yn ystod cyfnod eu hieuenctid, gan ddweud, 'I goffadwriaeth y Parch. Lewis Edwards, M.A., D.D. a'r Parch. Michael D. Jones o barch i'w cariad pur at Gymru a'u llafur dros ei phlant y cyflwynir y cyfrolau hyn gan y golygydd.'[218]

Ceir awgrym o ddylanwad Michael D. Jones, prifathro Coleg yr Annibynwyr, cenedlaetholwr unigryw ac un o'r prif arweinwyr i sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia dros Daniel a'i gyfeillion yn yr hanesyddiaeth.[219]

[216] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I* , t.20 & W.J. Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant*, t. 7.

[217] Byddai'r tri yn treulio amser ym Mynwent Llanycil ble y disgrifia O.M. Edwards rai o ddynion amlycaf yr ardal, gan gynnwys Charles o'r Bala, Dr Parry, Ioan Pedr a John Evans, yn gorwedd o dan eu traed. Gweler LlGC Papurau O.M. Edwards AD1/5, Dyddiadur O.M. Edwards 1878, 30 Ionawr 1878.

[218] Thomas E. Ellis (gol.), *Gweithiau Morgan Llwyd* (Llundain, 1899), Cyflwyniad.

[219] Am ragor o wybodaeth am fywyd a gyrfa Michael D. Jones, gweler Dafydd Tudur, 'The Life, Thought and Work of Michael Daniel Jones (1822–1898)' (thesis PhD

Cred John Davies bod Ellis yn 'aelod seneddol o Gymru a ystyriai ei hun yn ddisgybl i Michael D. Jones' a dywed E.G. Millward mai, 'Michael D. Jones, yn anad neb, a greodd yr O.M. Edwards a adwaenwn ni heddiw.'[220] Yr oedd Daniel yn cydnabod hyn wrth ddweud y bu i Michael D. Jones gael '[d]ylanwad mawr arno [O.M. Edwards]' a 'Ni ddaeth neb i weled nod amcan gwleidddysg yr hen wron o Fodiwan [cartref Michael D. Jones] yn gliriach nag efe [Tom Ellis] na neb parotach i roddi ei le iddo fel gweledydd ym mywyd Cymru.'[221] Noda hefyd ddylanwad y gŵr hwn dros ei deulu ef wrth ddisgrifio ei fam a'i 'hen gyfeillgarwch ai hedmygedd o'r gweinidog y Parch M.D. Jones.'[222]

Mae llythyrau Michael D. Jones at y tri ffrind ysgol yn awgrymu bod cyfeillgarwch wedi bodoli rhyngddynt wrth iddo eu cyfarch, 'Gymrawd Hoff' a 'Gyvaill Hoff.'[223] Gweler rhywfaint o anogaeth yn llythyrau Michael D. Jones yn ogystal. Dywed y credai ei hun yn ddigon o Galfin i gredu bod etholedigaeth yn awgrymu mai O.M. Edwards fyddai'n ysgrifennu hanes Cymru yn ei gyfanrwydd.[224] Ymhellach, ysgrifennodd at Ellis ar 2 Tachwedd 1886, ac yntau newydd ei ethol yn Aelod Seneddol, gan ddweud ei fod wedi darllen am ei hanes, 'Pan y deuwch i'r cylch hyn, y mae arnav eisiau eich gweled. Mae yna baratoi yn Meirion ar eich cyver, ac ni wiw i chi veddwl y cewch dawelwch yr etholiad nesav.'[225] Gan i D.R. Daniel fynychu Coleg yr Annibynwyr yn y Bala yn dilyn gadael yr ysgol ramadeg, byddai Michael D. Jones fel prifathro wedi cael dylanwad uniongyrchol arno ef yno. Awgrymiadau yn unig a geir yn y llythyrau hyn o ddylanwad Michael D. Jones. Eto i gyd, yn 1910, dros ddeng mlynedd ar ôl

---

anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru [Bangor], 2006) & E. Wyn James & Bill Jones (goln.), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst, 2009).

[220] John Davies, *Hanes Cymru,* t. 437 & E.G. Millward, 'Gwaith Cynnar O.M. Edwards' yn ei *Cenedl o Bobl Ddewrion* (Llandysul, 1991), t. 166.

[221] Daniel, 'O Waled Atgo V', t. 164 a LlGC Daniel 1b, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis': Cyfrol II, t. 20.

[222] LlGC Daniel 559, 'Fy Mam', t. 87.

[223] Gweler LlGC Ellis 1164 a 1165, Michael D. Jones at Tom Ellis, 2 Tachwedd 1886 a 20 Ionawr 1893; LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/3/149, AG1/4/32 a AG1/6/14, Michael D. Jones at O.M. Edwards, 14 Ebrill 1888, 29 Mai 1889 a 4 Mawrth 1892 & LlGC Daniel 1633 a 1634, Michael D. Jones at O.M. Edwards, 4 Medi 1888 a 30 Ionawr 1889.

[224] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/3/149, Michael D. Jones at O.M. Edwards, 14 Ebrill 1888.

[225] LlGC Ellis 1164, Michael D. Jones at Tom Ellis, 2 Tachwedd 1886.

ei farwolaeth ac O.M. Edwards yn wynebu sylwadau negyddol yn dilyn ei adroddiad fel Prif Arolygydd Ysgolion, ysgrifennodd Edwards at Daniel, 'Yr un yw'r amcan ag amcan tri bachgen ieuanc fyddai yn y Bala gynt, - ac yn cael curo'u cefnau ym Modiwan yn unig.' [226] Dyma ddyfyniad hynod ddadlennol gan ei fod yn arddangos nid yn unig ddylanwad hir dymor Michael D. Jones dros yrfa a gwaith O.M. Edwards, ond ei ddylanwad dros Daniel, Ellis ac Edwards fel triawd o gyfeillion a oedd yn rhannu'r un amcanion ag ef. Dychwelwn felly at y ffaith y bu i'r tri brofi dylanwadau holl bwysig a hir-dymor ochr yn ochr â'i gilydd yng nghyfnod eu hieuenctid.

Roedd O.M. Edwards a Tom Ellis yn agored eu hedmygedd o Michael D. Jones yn ogystal. Mewn llythyr at fywgraffyddwr Jones, E. Pan Jones, yn dilyn ei farwolaeth, ysgrifennodd Edwards:

> Cefais yn ei gwmni beth na chefais yn yr un ysgol nag yn yr un coleg y bûm ynddynt erioed, - serch goleuedig at hanes ac iaith Cymru… Peth newydd i mi oedd gweld gŵr dysgedig yn ymfalchio yn ei Gymreigrwydd, a gweled Athro yn siarad Cymraeg… dysgodd fi i ymhoffi mewn hanes Cymru, agorodd fy llygaid i weled gogoniant y rhai fu yn ymdrechu dros Gymru.[227]

Adlewyrchir y dylanwad hwn ar Ellis yn ei deyrnged i Jones yn ei angladd ar 2 Rhagfyr 1898. Dywedodd:

> ...yr oedd yn Gymro arbennig, nid nodweddiadol: a diolch byth i'r Brenin Mawr am anfon i Gymru arweinydd fel efe. Nid myned gyda'r llif a wnâi, ond nofio yn ei herbyn. Yr oedd yn dderwen gref. Creodd gymeriadau cryfion. Breuddwydiodd freuddwydion: a da ydyw os oes digon wedi aros ar ôl i wneud ei freuddwydion, yng

[226] LlGC Daniel 1041, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 11 Tachwedd 1910.
[227] E.G. Millward, 'O.M. Edwards a Michael D. Jones' yn ei *Cenedl o Bobl Ddewrion*, tt. 164-165.

ngoleuni Duw, yn rheol ac yn nerth i fywyd cymdeithasol a chyhoeddus yng Nghymru.[228]

Ynghyd â Michael D. Jones, cyflwynodd Ellis ei gyfrol o weithiau Morgan Llwyd i Lewis Edwards. Ef oedd sylfaenydd a phrifathro coleg y Methodistiaid Calfiniaidd yn y Bala rhwng 1837 a 1887.[229] Awgryma T.I. Ellis efallai i Lewis Edwards ddylanwadu'n uniongyrchol ar yrfa academaidd Tom Ellis wrth drafod gyda'i dad y posibilrwydd o'i anfon i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth gan mai mab Edwards oedd y prifathro yno.[230] Ceir cyfeiriadau yn nyddiaduron Ellis ei fod wedi astudio gweithiau Lewis Edwards, benthyg llyfrau ganddo, cael ei gataceiddo ganddo ef a'i fab a chael cinio gydag ef yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr ifanc yn Aberystwyth.[231] Yn sicr, mae'r modd y bu i Ellis gyflwyno ei gyfrol iddo yn awgrymu ei ddylanwad drosto. Ymhellach, mynychodd O.M. Edwards Goleg y Bala rhwng 1875 a 1877 ble roedd Lewis Edwards yn darlithio ar ddiwinyddiaeth. Yn ôl Daniel, 'Cafodd felly hufen oes feddylgar yr Hen Ddoctor (bu fyw ddeng mlynedd ar ol hyn)… Yr oedd yn hoff iawn o'i athrawon, a soniai lawer am eu darlithiau, ac edmygai Dr. Edwards yn fawr, er fod ganddo dipyn o arswyd ei dawelwch pendefigaidd ac urddasol.'[232]

Yn ei nodiadau ar fywyd O.M. Edwards, nododd Daniel mai trueni oedd na fedrai gofio mwy o sylwadau Edwards am yr 'Hen Ddoctor ardderchog'. Disgrifa Daniel ef fel 'Brenin urddasol ac 'offeriad' puraidd i Bala a chawr meddylwyr Cymru.' Byddai O.M. Edwards yn cymryd nodiadau manwl o'i ddarlithoedd gan drafod rhywfaint ar farn Lewis Edwards gyda Daniel.[233] I gadarnhau'r cysylltiad rhwng y tri gŵr â Lewis Edwards, dylid nodi mai Dr

---

[228] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II* , tt. 289-290.
[229] Gweler D. Densil Morgan, *Lewis Edwards* (Caerdydd, 2009) & Thomas Charles Edwards, *Bywyd a Llythyrau y Parchedig Lewis Edwards D.D.* (Lerpwl, 1901) am fanylion am ei fywyd a'i yrfa.
[230] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I* , t. 46.
[231] LlGC Daniel 6a, Dyddiadur Tom Ellis 1875, 29 Mawrth 1875, 2 Gorffennaf 1875 a 8 Gorffennaf 1875 & LlGC Daniel 6b, Dyddiadur Tom Ellis, 14 Ebrill 1876, 23 Mehefin 1876, 26 Mehefin 1876 a 28 Mehefin 1876 & LlGC Daniel 6c, Dyddiadur Tom Ellis 1878, 2 Ionawr 1878, 10 Ionawr 1878 a 11 Ionawr 1878.
[232] D.R. Daniel, 'O Waled Atgo III' yn Ifan ab Owen Edwards, *Cymru,* 60, t. 117.
[233] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', tt. 22-23.

Edwards a Michael D. Jones a wasanaethodd yn angladd tad Daniel yn Hydref 1871.[234] Ymhellach, disgrifia mewn llyfr nodiadau y modd yr aeth yntau a'i fam ar ddiwedd y 1870au i wrando ar William Rees (Gwilym Hiraethog) yn darlithio yng Ngholeg yr Annibynwyr yn y Bala. Yno roedd y Parch R. Thomas D.D. (Ap Vychan) ynghyd â Lewis Edwards a oedd i gadeirio:

> ...yn dal, syth, urddasol a hardd. Un or dynion mwyaf brenhinol ei osgedd a welais i erioed yn fy oes... Yn sicr dyma un o brif gewri y Cymry [ac yn ddiddadl un o feddylwyr mawr y byd] Ysgolhaig, llenor, beirniad a diwynydd, creawdwr cyfnod newydd yn myd meddwl ei genedl. Yr hwn geisiodd ddysgu iddi arafwch meddylgar, symledd a gwir ddoethineb sylfaenedig ar ddiwylliant lleted ar byd llenyddol yn ei oes ef.[235]

Mae edmygedd Daniel o Lewis Edwards felly yn gyson gydag hoffter ei gyfeillion ohono. Er nad oes llythyrau wedi goroesi i ddadansoddi perthynas Lewis Edwards gyda Daniel, Ellis ac Edwards ymhellach, ceir digon o dystiolaeth uchod i awrgrymu ei ddylanwad drostynt.

Thomas Charles Edwards, mab Lewis Edwards, oedd prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth tra roedd Tom Ellis ac O.M. Edwards yn fyfyrwyr yno. Mae rhai o'i lythyrau at Edwards wedi goroesi. Cyfeiria at ei gyn-ddisgybl fel '*Mr Edwards'* ac, er na ellir awgrymu bod perthynas agos rhyngddynt, yn sicr gwelir balchder yn llwyddiant O.M. Edwards yn cael mynediad i Rydychen gan ennill gwobr Brackenbury. Sonia Thomas Charles Edwards nad oedd sôn am brifysgol Aberystwyth yn y manylion a gyhoeddwyd am y wobr ond teimla'n sicr y byddai O.M. Edwards yn cywiro hyn.[236] Wedi cael ei ethol yn gymrawd yn Ngholeg Lincoln, ysgrifennodd Thomas Charles Edwards, *'You cannot succeed more than I*

[234] LlGC Daniel 559, 'Fy Mam', t. 64.
[235] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', nodiadau ychwanegol yng nghefn y llyfr nodiadau o dan y teitl '"Y Tri Wyr Hyn": Un or Pethau Mwyaf Tarawiadol Welais Erioed.'
[236] LlGC Papurau O.M. Edwards AG2/2/1, Thomas Charles Edwards at O.M. Edwards, 1 Hydref 1884.

*desire you, and all the old students of Aberystwyth to succeed'*.[237] Dyma awgrym o falchder Thomas Charles Edwards ar ran y brifysgol, yn hytrach nag ar lefel bersonol. Ond, ceir awgrym o berthynas agosach rhyngddo ef a Tom Ellis, un o fyfyrwyr cyntaf y brifysgol.[238] Yn wir, cred Daniel bod Thomas Charles Edwards wedi cael dylanwad uniongyrchol ar benderfyniad Ellis i fynd i Aberystwyth.[239] Ceir tystiolaeth yn ei lythyrau at Ellis ei fod wedi annog ei ddisgybl, yn ystod ei gyfnod yn Aberystwyth ac wedi hynny. Yn 1880, ysgrifennodd ato'n dweud ei fod yn falch o glywed am ei gynnydd ac yn dymuno llwyddiant iddo yn ei arholiadau. Roedd hefyd wedi paratoi geirda iddo ar ddiwedd ei gyfnod yn Aberystwyth wrth iddo ymgeisio am le ym Mhrifysol Rhydychen.[240] Ymhellach, yn dilyn ei araith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin fel Aelod Seneddol, ysgrifennodd Edwards at Ellis yn 1887 gan ofyn iddo godi cwestiwn am y coleg yn y Senedd. Dywedodd '*Allow me to congratulate you on your able maiden speech. I could not but rejoice in your success.'*[241] Yn wir, ceir awgrym hefyd o gydweithio rhwng y ddau er mwyn codi arian ar gyfer y brifysgol.[242] Ond llythyr Thomas Charles Edwards at Tom Ellis o'r Swistir ar ôl iddo gael ei benodi'n is- chwip sydd yn arddangos ei gefnogaeth i'w gyn-ddisgybl orau:

> *You can never advance higher in honour and usefulness than I wish you to climb. I say this because I always believed and still believe that, while ambition is legitimate, you are governed by higher motives than the desire for reputation and wordly success. I place you always in the number of those more choice and refined spirits that seek their country's good more than their own. There is after all a radical difference between the two classes of men,- a difference*

[237] LlGC Papurau O.M. Edwards AG2/2/3, Thomas Charles Edwards at O.M. Edwards, 15 Chwefror 1889.
[238] Gweler cyfeiriadau at Thomas Charles Edwards a chyfnod Tom Ellis yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn LlGC Daniel 6a-6c, Dyddiaduron Tom Ellis 1875, 1876 a 1878. Mae Wyn Jones hefyd yn cyfeirio at ddylanwad Thomas Charles Edwards ar Tom Ellis yn ei *Thomas Edward Ellis*, t. 14.
[239] LlGC Daniel 1a, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis': Cyfrol I, t. 77.
[240] LlGC Ellis 504, Thomas Charles Edwards at Tom Ellis, 4 Mehefin 1880.
[241] LlGC Ellis 3375, Thomas Charles Edwards at Tom Ellis, 7 Mawrth 1887.
[242] Gweler LlGC Daniel 65 a 66, Thomas Charles Edwards at Tom Ellis, 25 Gorffennaf 1885 a 16 Medi 1885 & LlGC Ellis 3375, Thomas Charles Edwards at Tom Ellis, 7 Mawrth 1887.

> *indeed which the latter class of men will not understand and never perceive.*[243]

Dyma eiriau arbennig sydd yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o gymeriad Tom Ellis ymhellach. Gwelir bod Thomas Charles Edwards wedi adnabod y potensial yn Ellis ac yn hynod falch o dystio i'w lwyddiant ac yn gwerthfawrogi ei bersonoliaeth annwyl. Yn wir, gellir awgrymu mai Lewis a Thomas Charles Edwards, wedi cyfarfod ag Ellis yn fachgen ifanc yn ardal y Bala, a'i anogodd i fynychu'r brifysgol yn Aberystwyth a dilyn gyrfa academaidd.[244]

Fel ag wrth ystyried dylanwad Cymru eu dydd arnynt, rhaid cofio dylanwad arweinwyr Cymreig amlwg eu dydd a oedd yn byw o fewn eu milltir sgwâr yn ystod dyddiau eu hieuenctid ar Daniel, Ellis ac Edwards. Disgrifia'r tri ddylanwad amlwg Michael D. Jones arnynt, gydag Edwards yn cyfeirio at hyn mewn llythyr at Daniel dros ddeng mlynedd ar ôl marwolaeth Jones. Ymhellach, ceir awgrym o ddylanwad Lewis Edwards dros Tom Ellis ac O.M. Edwards ac anogaeth ei fab yntau i Ellis yn benodol yn dilyn ei ddyddiau yn y brifysgol yn Aberystwyth. Unwaith yn rhagor, gwelir pwysigrwydd gwreiddio Daniel, Edwards ac Ellis yn eu cyd-destun er mwyn deall eu cyfeillgarwch. Roeddent wedi rhannu profiadau o gyfnod ieuenctid ac wedi dod o dan ddylanwad, er i raddau gwahanol o bosibl, rhai o gewri eu cenedl yn ardal y Bala mewn cyfnod pan fyddent yn llunio eu dealltwriaeth bersonol o Gymru eu dydd ochr yn ochr â'i gilydd. Dyma sylfeini eu cymeriadau a'u cyfeillgarwch felly.

### David Lloyd George

Er taw ffocws yr astudiaeth hon yw dadansoddi'r cyfeillgarwch a fodolai rhwng D.R. Daniel a'i ddau gyfaill ysgol, cyfeirir at yr ohebiaeth rhwng

[243] LlGC Ellis 505, Thomas Charles Edwards at Tom Ellis, 19 Awst 1892.

[244] Ni cheir tystiolaeth i awgrymu bod Thomas Charles Edwards wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar D.R. Daniel. Er hyn, mae'n nodi ei farwolaeth ar 22 Mawrth 1900 yn ei ddyddiadur ac yn disgrifio teithio i Aberystwyth ar gyfer ei angladd. Gweler LlGC Daniel 520, Dyddiadur D.R. Daniel 1900, 22 Mawrth 1900 a 27 Mawrth 1900.

Daniel a Lloyd George er mwyn cyfoethogi'r drafodaeth, a chynnig gwrthgyferbyniad lle bo'n briodol. Troir felly i ystyried yr hyn sydd yn cael ei ddatgelu am ei bersonoliaeth ef yn yr ohebiaeth. Mewn un llythyr, cydnabu Lloyd George bwysigrwydd ei gyfeillgarwch gyda D.R. Daniel wrth droi ato i ganfasio cefnogaeth ar ei ran yn etholiad 1890 fel un o'i *'very intimate & reliable friends.'*[245] Mae cyfeiriadau at D.R. Daniel mewn gweithiau hanesyddol ar Lloyd George yn cynnwys, *'at one time a close associate of Lloyd George',* '*he had few friends bound to him in a deep firm sense with hoops of steel; in earlier years D.R. Daniel'* ac 'ei gyfaill D.R. Daniel'.[246] Daeth Lloyd George yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Gaernarfon yn 1890 gan ddod yn un o arweinwyr amlycaf y mudiad Cymru Fydd a brwydro dros faterion Cymreig megis datgysylltu eglwysig a deddfwriaeth tir. Cafodd ei ystyried yn radicalwr Cymreig. Ond, yn hwyrach yn ei yrfa, daeth yn aelod o'r llywodraeth fel Llywydd y Bwrdd Masnach, ac yn 1908 fel Canghellor y Trysorlys a'i bolisiau yn cynnwys pensiynau'r henoed, 'Cyllid y Bobl', diwygio Tŷ'r Arglwyddi ac yswiriant cenedlaethol. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth yn Weinidog Arfau, ond cyrhaeddodd brig ei yrfa yn 1916, pan ddaeth yn Brif Weinidog Prydain. Collodd bŵer yn 1922, a ni ddychwelodd i le amlwg o fewn y llywodraeth weddill ei oes.[247] Priododd â Margaret Owen yn 1888 a chawsant bump o blant. Dechreuodd berthynas hir-dymor gyda Frances Stevenson ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf gan ei phriodi yn 1943, ddwy flynedd ar ôl marwolaeth ei wraig gyntaf.[248]

Ceir awgrymiadau cryf o gymeriad penderfynol a hunanol David Lloyd George. Cred Ian Packer a Don Crieger ei fod wedi ei sbwylio gan ei fam, ei nain a'i ewythr, yn ogystal â'i frawd a'i chwaer, a bod hyn wedi golygu ei fod yn or-hyderus, yn mynnu sylw ac yn credu ei fod yn arbennig a

---

[245] LlGC Daniel 2753, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 17 Gorffennaf 1888.
[246] W.R.P. George, *Lloyd George: Backbencher* (Llandysul, 1983), t. 123; Thomas Jones, *Lloyd George* (Llundain, 1951), t. 280 & Cyril Parry, *David Lloyd George* (Dinbych, 1984), t. 24.
[247] Am fanylion pellach am y cyfnod hwn, gweler John Campbell, *Lloyd George: The Goat in the Wilderness, 1922 – 1931*(Llundain, 1977).
[248] Am fanylion bywgraffyddol pellach, gweler Kenneth O. Morgan, 'George, David Lloyd' yn Matthew & Harrison, *Oxford Dictionary of National Biography,* 21, tt. 890-912.

dawnus.[249] Yn wir, mae Packer hefyd o'r farn bod Lloyd George wedi defnyddio materion Cymreig er mwyn sicrhau cynnydd gyrfaol a chyrraedd y Cabinet. Roedd ei agwedd at Gymru yn dibynnu ar fuddioldeb ei materion i'w yrfa.[250] Ymhellach, dywed Thomas Jones:

> *He could be petulant and on occasion ruthless. Delicate understandings might prove evanescent, bargains fragile, and criticisms of or opposition to him easily be made to wear the guise of disloyalty. Like other men in high places he took credit where none was due, used men, and parted without tears. Sometimes, but not often, he went too far and had the grace to retreat.*[251]

Er hyn, dyma ddyn arbennig iawn a gododd ei hun o dlodi cymharol a bywyd cefn gwlad, heb addysg brifysgol, i ddod yn Brif Weinidog Prydain ar adeg dyngedfenol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Fel y dywed ei ail wraig amdano, *'[there was something] which distinguished him from all other men I had ever met – from all whom I ever did meet thereafter – a magnetism which made my heart leap and swept aside my judgment, producing an excitement which seemed to permeate my entire being.*[252] Yn wir, cytuna Kenneth O. Morgan nad oedd unrhyw un wedi denu cymaint o eithafiaeth, *'No British political leader was more idolised or more venerated during periods of his lifetime. None has caused more fierce controversy amongst historians and commentators since his demise.'*[253] Dyma gymeriad cymhleth sydd yn gwneud dealltwriaeth Daniel ohono, fel cyfaill agos ato, yn fwy gwerthfawr. Gallwn ddysgu mwy am gymeriad Daniel yn ogystal wrth ystyried ei gyfeillgarwch gyda Lloyd George.

Disgrifia Daniel y modd y bu iddo gyfarfod â Lloyd George am y tro cyntaf y tu allan i orsaf heddlu Porthmadog. Gan gofio cefndir tlawd Lloyd

---

[249] Ian Packer, *Lloyd George* (Basingstoke, 1998), t.5 & Don M. Crieger, *Bounder from Wales: Lloyd George's Career Before the First World War* (Columbia & Llundain, 1976), t. 9.
[250] Ian Packer, *Lloyd George*, t. 10.
[251] Thomas Jones, *Lloyd George*, t. 280.
[252] Frances Stevenson, *The Years that are Past* (Llundain, 1967), t. 42.
[253] Kenneth O. Morgan, *Lloyd George* (Llundain, 1974), t. 5.

George, noda Daniel ei fod yn gwisgo dillad syml gan gynnwys pâr o *'leggins y Volunteeres'*. Yr oedd eisoes wedi clywed amdano gan Michael D. Jones a'i fod yntau, yn 1885 neu 1886, o'r farn bod ''Lloyd 'Jorj' y'i gelwir yn siaradwr rhagorol a defnydd aelod seneddol campus ynddo'. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, disgrifia Daniel fynd adref at ei wraig a dweud bod rhywbeth arbennig am Lloyd George nad oedd i'w weld yng ngwŷr ifainc eraill y cyfnod gan, 'Edrychai yn gyflymach ei feddwl ai osgo yn fwy mentrus (daring) ei olygiadau a gwrolach ei edrychiad (er mai gwênu fynychaf yr oedd) nar un o honynt.'[254] Ceir awgrym o'i bersonoliaeth gref o'r cychwyn felly.

Mae'r modd y mae Daniel a Lloyd George yn cyfarch ei gilydd yn dangos datblygiad eu cyfeillgarwch yn un agos. I ddechrau, byddai Daniel yn ysgrifennu ato gan gyfeirio'r llythyr at 'Mr George' gan ddatblygu yna i 'Dear George' i 'Gyfaill Hoff' wrth i'w cyfeillgarwch ddod yn un gwirioneddol yn hytrach na phroffesiynol.[255] Yn ddiddorol, ar ddechrau eu perthynas, Daniel oedd aelod hŷn y cyfeillgarwch ac ef a ddylanwadol ar ac a arweiniodd Lloyd George, yn debyg iawn i ddylanwad Ellis arno ef. Gwelir nid yn unig ddealltwriaeth Daniel o'r sefyllfa wleidyddol, ond ei hyder yn ogystal wrth iddo gyflawni'r rôl o gynorthwyo a chefnogi Lloyd George. Mae taith Lloyd George i'r Senedd yn cael ei hamlinellu yn nghynnwys ei lythyrau at D.R. Daniel. Ar ddiwedd Rhagfyr 1887, ysgrifennodd ato yn disgrifio bod pwyllgor gweithiol bwrdeistrefi Caernarfon yn cyfarfod er mwyn trafod ethol ymgeisydd seneddol Rhyddfrydol. Ceir awgrym yn y llythyr bod Daniel wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ac wedi ei annog i sefyll yn yr etholiad o'r cychwyn.[256] Yn wir, yn ôl Emyr Price, Daniel a Plennydd (Trefnydd Undeb y Dirwestwyr) a ddechreuodd yrfa Lloyd George gan roddi llwyfannau dirwest iddo a'i helpu i ennill ymgesiyddiaeth seneddol bwrdeistrefi Arfon 1888.[257] Heb os nac oni

---

[254] LlGC Daniel 2912, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol I, tt. 1-3.
[255] Gweler casgliad llythyrau D.R. Daniel at D. Lloyd George yn LlGC Papurau William George.
[256] LlGC Daniel 2746, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 27 Rhagfyr 1887.
[257] Emyr Price, *Prentisiaeth Wleidyddol Lloyd George a Phwllheli* (Pwllheli, 1979), t. 5.

bai, y llythyr isod sydd yn datgelu pwysigrwydd Daniel yn nyddiau cynnar gyrfa wleidyddol David Lloyd George:

> *Now, you have done your part, in urging me on to this. I had my grave misgivings & but for the pressure & advice of such friends as you upon whom I relied, would never have given any countenance to so serious a move – that is serious for me & mine. You told me that my Country required this service at my hands & with such an inane candidate as H.O. as our only resort your argument may have been a good one. But this is what I am driving at. Are you prepared to help me in the drag after helping me into it? This is what I mean. Have you any friends or acquaintances at Caernarvon, Bangor or Conway whom you might by writing to, influence? What about the Rev. M.O. Evans* [brawd yng nghyfraith Daniel]? *Could not M.D.J. (Bala) do something? Can't you get Plenydd to see, or write to, his friends? There is another great service which you might render, if so inclined. Would you not write a spirited letter to either the Herald or Genedl favouring my candidature? You know my qualifications. You know I am a Welsh Nationalist of the Ellis type. Have more or less thoroughly studied the church, land & temperance questions…*
>
> *I am conscious that I am trespassing too much upon friendship in asking of you these favours, but I know that your enthusiasm for advanced Nationalism is such that you are prepared to make greater sacrifices of time & trouble.*[258]

Dyma lythyr sydd yn datgelu llawer am gymeriadau'r ddau ŵr yn ystod cyfnod cynnar eu cyfeillgarwch. Ysgrifennai Lloyd George at ei ffrind yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd yn dilyn derbyn cefnogaeth i'w enwebiad fel ymgeisydd seneddol nesaf y Rhyddfrydwyr gan fwrdeistrefi de sir Gaernarfon yn 1888.[259] Y mae ei fwriad i lwyddo yn amlwg yn ei eiriau, ond gwelir hefyd ei ffydd yn D.R. Daniel. Er y disgrifiadau o ddyn swil ac

[258] LlGC Daniel 2751, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 5 Gorffennaf 1888.
[259] Cafodd ei ethol mewn is-etholiad yn 1890.

ansicr, daw i'r amlwg yn y geiriau hyn ei fod yn ŵr talentog a galluog a oedd yn effeithiol wrth gefnogi ei gyfaill. Efallai nad oedd o reidrwydd am wthio ei hun yn ei yrfa gyhoeddus, ond hybodd fuddiannau ei ffrind yn llwyddiannus. Gwnaeth Daniel hyn wrth ysgrifennu i'r wasg yn clodfori Lloyd George. Cyfeiria Emyr Price at y gwaith hwn ar ran D.R. Daniel a Tudwal Davies yn y wasg dros Lloyd George fel, 'ymgyrch ymfflamychol, a ymylai ar y deifiol'.[260] Ymateb Lloyd George oedd canmol ei gyfaill i'r cymylau. Mewn un llythyr datganodd fod llythyr 'Demos' (ffug-enw Daniel) yn yr *Herald* yn *'truly masterly… It is eloquently written & the points are well put.'*[261]

Ysgrifennodd D.R. Daniel bedair cyfrol am Lloyd George yn cynnig mewnwelediad manwl a phersonol i'w gymeriad.[262] Yn 1912, ymddangosodd Lloyd George o flaen pwyllgor seneddol mewn ymateb i sgandal Marconi, pan y cyhuddwyd aelodau o'r llywodraeth o wneud elw wrth fuddsoddi yn y cwmni gan wybod bod y llywodraeth ar fin cynnig cytundeb gwerthfawr iddo.[263] Ysgrifennodd Daniel yn ei lyfr nodiadau o dan ddyddiad 2 Ebrill 1913 bod ei gyfaill wedi dod trwy'r 'arholiad yn fedrus iawn. gydar symlder yr ymddiried a'r dull "wynebu agored" y geill ei arfer mor effeithiol nes creu argraff ryfedd.' Ceir argraff felly o ddawn areithio a dadlau Lloyd George ynghyd ag amddiffyniad Daniel o'i gyfaill, a'i deyrngarwch iddo, gan iddo ddatgan nad oedd erioed wedi gweld trachwant am arian yn Lloyd George a'r ffaith y bu iddo ymddiried mewn dyn a wnaeth ei gamarwain. O ganlyniad, yn ôl Daniel, roedd ei gyfaill wedi cael ei erlid yn ffyrnig gan ei elynion.[264] Awgryma Daniel bod diffuantrwydd yng nghymeriad Lloyd George. Rhaid ystyried y lefel o deyrngarwch y byddai Daniel wedi ei arddangos at ei gyfaill er hyn gan mai barn Ian Packer, er enghraifft, am sgandal Marconi yw *'The scandal did not reveal that Lloyd George was corrupt. But it did show he had little regard for*

[260] Emyr Price, *Prentisiaeth Wleidyddol Lloyd George a Phwllheli*, t. 17.
[261] LlGC Daniel 2752, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 10 Gorffennaf 1888.
[262] Nodwyd yng nghyflwyniad y traethawd hwn bod yr hanesydd John Grigg o'r farn bod y cyfrolau hyn yn rhai hynod werthfawr i ddeall personoliaeth a gyrfa D. Lloyd George.
[263] Am wybodaeth am yr achos, gweler Thomas Jones, *Lloyd George*, tt. 41-45 a Martin Pugh, *Lloyd George* (Singapore, 1988), tt. 59-61.
[264] LlGC Daniel 556, 'Adgofion Cymmysg am Bersonau a Phethau' (1913-1916).

*caution or the rules of conventional political morality in his personal life.'*[265] Ar ddod yn aelod o'r Cyfrin Gyngor, disgrifia Daniel bod Lloyd George wedi dweud 'Cofiwch chwi ddod yma yn union yr un fath a chynt ac os gwelwch ynof fi ryw arwyddion fy mod mewn un modd yn ymgodi byddwch y cyntaf i ddweud wrthyf.' Mae Daniel yn cydnabod bod ei gymeriad wedi newid wrth dderbyn mwy o gyfrifoldebau, ond na ddywedodd Daniel wrtho.[266]

Yn wir, mae haneswyr wedi cydnabod mor benderfynol y gallai Lloyd George fod. Dywed J. Graham Jones, '*Yet it is clear from the diary entries that the twenty-two year old Lloyd George was fully absorbed in his personal ambition to succeed and to achieve recognition from others.*'[267] Ymhellach, dyfynnir yn gyson o'i lythyr at ei ddarpar wraig, *'My supreme idea is to get on. To this idea, I shall sacrifice everything, except, I trust, honesty. I am prepared to thrust even love itself under the wheels of my Juggernaut.'*[268] Wrth ddisgrifio dod yn Ganghellor, dywedodd Lloyd George, ''Na' meddai 'chefais i erioed law yn cael ei hestyn ataf oddifry a llais yn dyweud 'Dring i fyny yma.' Cydnebu iddo dderbyn cymorth gan '[g]annoedd o gyfeillion selog a ffyddlon…ond erioed law oddi fynu yn estyngiedig ataf.' Yn wir, cred Daniel mai Lloyd George oedd yr enghraifft orau o un yn ennill safle trwy 'rym ei fraich ai benderfyniad ei hun.'[269] Ond, mae agwedd Daniel at Lloyd George fel gwleidydd yn newid a disgrifia ochr negyddol cymeriad penderfynol ei ffrind. Erbyn 1917, gyda Lloyd George bellach yn Brif Weinidog ac yn gorfod amddiffyn araith a wnaeth ym Mharis, ysgrifennodd Daniel, *'I say the Welsh polecat will turn in his skin and bite the slow ponderous Saxon as usual.'* Dyna a wnaeth Lloyd George. Ymatebodd i gwestiwn gan Asquith yn y Senedd *'in a furious blaze*

---

[265] Ian Packer, *Lloyd George*, t. 35.
[266] LlGC Daniel 2914,'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol III, t. 5.
[267] J. Graham Jones, 'Lloyd George's Diary for 1885', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 69 (2008), t. 41.
[268] R. Emyr Price, 'Lloyd George a Rhyfel y Degwm yn Llŷn ac Eifionydd 1886-8', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 39 (1978), t. 150 & Emyr Price, 'Lloyd George and Merioneth Politics, 1885, 1886 – A Failure to Effect a Breakthrough', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 7:3 (1975), t. 292.
[269] LlGC Daniel 2912, D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol I, t. 16.

*of Celtic preaching'* gan argyhoeddi'r Senedd nad oedd unrhyw beth i boeni yn ei gylch wrth ystyried rhan Prydain yn y Rhyfel Byd Cyntaf. [270]

Wrth i yrfa Lloyd George ddatblygu, gwelir bod Daniel yn colli ei ffydd ynddo gan ddisgrifio clywed i Lloyd George ddweud nad oedd amser ganddo am gyfeillgarwch, dim ond rhai gwleidyddol. Cytunai Daniel nad oedd ganddo *'genius for friendship'* 'Ceffyl yn methu gorwedd' ydyw ef. bob amser ar ei draed yn barod i ryw ymdrech neu gilydd.'[271] Ar achlysur arall, ysgrifennodd Daniel ei fod yn tybio bod cyfeillion i Lloyd George fel *'chessmen'* iddo a:

> …theimlaf weithiau y byddai yn ddistaw bach bron yn barod i gydnabod fod gwirionedd yn y gydmariaeth. Eithir rhaid ir neb fyn ei fesur ai bwyso fod wedi cael cyfleustra iw adnabod yn iawn ar yr oriau goreu ar ei feddwl ai deimlad. Mae amgylchiadau y byd dyrus yma yn ein gwthio i gilfachau anhyfryd![272]

Cyfeirio y mae Daniel at effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar ei ffrind gan ddatgan bod elfennau o garedigrwydd yn ei natur ond ei fod hefyd yn gwneud y mwyaf o'i gysylltiadau er mwyn cyrraedd y brig. Gellir awgrymu felly bod Lloyd George wedi bod yn gyfaill gwirioneddol i Daniel tra parhaodd y cyfeillgarwch, ond yr oedd yn berson a ymatebai i'w amcanion ei hun. O ganlyniad, gwelwn ynddo gymeriad penderfynol iawn gyda dawn siarad cyhoeddus. Dyma un rheswm pam fod dadansoddi'r ohebiaeth rhwng D.R. Daniel a Lloyd George yn werthfawr iawn er mwyn gwrthgyferbynu eu perthynas gyda chyfeillgarwch Daniel â Tom Ellis ac O.M. Edwards. Er bod Ellis ac Edwards wedi arddangos bod elfennau penderfynol i'w cymeriadau hwythau, nid oedd hwn wedi bygwth eu cyfeillgarwch. Nid oedd Daniel chwaith wedi dod i golli ei ffydd ynddynt. Parhodd eu cyfeillgarwch hyd fawrolaeth – er y bu i Edwards ymbellhau rhywfaint wedi tyfu'n oedolyn.

---

[270] LlGC Daniel 539, Dyddiadur D.R. Daniel 1917, 19 Tachwedd 1917.
[271] LlGC Daniel 2914, D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol III, tt. 7-8.
[272] Ibid., t. 71.

Mae'r bywgraffiadau y mae plant Lloyd George wedi eu hysgrifennu yn atgyfnerthu'r ddadl ynghylch ei bersonoliaeth benderfynol a diddorol yw'r modd yr oeddent yn ystyried cymeriad eu tad. Ym marn Olwen, '*Did he have double standards of morality? I suppose in a sense he did, for as we grew up his attitude was rather 'Do as I say, not do as I do.'*' Er, roedd hi'n cydnabod bod ei thad yn aml yn ymddwyn fel hyn allan o gonsyrn am ei blant.[273] Richard Lloyd George oedd yn fwyaf negyddol am ei dad. Yn wir, bu iddynt anghydweld am nifer o bethau, yn bennaf godineb[274] Lloyd George a'r modd y bu iddo drin ei wraig, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei eiriau ymosodol. Dywed:

> *As a child he had his fill of affection, which was a fine thing for him; it gave him a remarkable self-confidence most of the years of his life; it endowed him with a sense of compassion and of tolerance. But he was, in a sense, 'spoiled' – he himself admitted this; and this made him selfish, self-indulgent and unconsciously cruel – all his life he alternated cruelty with tender-heartedness, generosity with meanness.*[275]

I D.R. Daniel, fel i nifer fawr eraill, roedd dadansoddi cymeriad Lloyd George yn orchwyl cymhleth. Gwerthfawrogai Daniel ei dalentau fel areithiwr a gwleidydd a chydweithiant er mwyn gwireddu eu bwriadau dros Gymru. Roedd Lloyd George yn ŵr penderfynol a sicrhaodd hyn iddo gyrraedd y brig. Tra'n gyfeillion, roeddent yn agos. Ond, gweler teyrngarwch a ffydd Daniel yn ei gyfaill yn lleihau wrth iddo wneud cynnydd gyrfaol a dod i ben wrth iddynt anghydweld am y Rhyfel Byd Cyntaf. Teimlai Daniel ei fod yn defnyddio ei gyfeillion a'i fod wedi colli pob syniad o foesoldeb. Mae hyn yn cyd-fynd gyda rhai o'r disgrifiadau a geir gan ei blant am bersonoliaeth Lloyd George. O ran agwedd Lloyd George at gyfeillgarwch, *'He does not understand what friendship means,'*

---

[273] Olwen Carey Evans, *Lloyd George was my Father* (Llandysul, 1985), t. 71.

[274] Trafodir priodas D. Lloyd George a Margaret Lloyd George mewn ychydig mwy o fanylder ym mhedwaredd bennod yr astudiaeth hon.

[275] Richard Lloyd George, *Lloyd George* (Llundain, 1960), tt. 30-31.

*summed up F.S. Oliver* [awdur gwleidyddol]*; 'I neither love nor trust him; nor, mark you, do I hate or distrust him.'*[276]

Mae'r bennod hon yn cyflwyno mewnwelediadau i gymeriadau a phersonoliaethau D.R. Daniel, Ellis ac Edwards gan ehangu ar y cyfeiriadau sydd eisoes yn bodoli atynt yn yr hanesyddiaeth Gymreig. Dyma gyflwyniad pwysig i'r dynion hyn sydd yn ganolbwynt i'r astudiaeth ehangach hon. Mae cynnwys y ffynonellau yn cyflwyno D.R. Daniel fel gŵr galluog a deallus a oedd yn annwyl i nifer o bobl ac yn gadarn iawn ei farn. Ond roedd hefyd yn ddyn swil a oedd yn hynod hunanfeirniadol ac ni wnaeth wireddu ei botensial yn y byd cyhoeddus, o ganlyniad i ddiffyg ffocws a disgyblaeth o bosibl. Fel bachgen, roedd Tom Ellis yn benderfynol o weithio'n galed er mwyn sicrhau ei gynnydd academaidd a phroffesiynol. Yr oedd yn ddyn annwyl, yn cefnogi ac yn tywys Daniel ac Edwards, ac yn deyrngar i'w deulu a'i ffrindiau. Ymhellach, cyflwyna Daniel O.M. Edwards fel bachgen ifanc unigryw gyda dychymyg arbennig a oedd yn ei swyno ef a Tom Ellis. Roedd yn naturiol ddeallus ond yn hynod o swil ac yn ei ddarganfod yn anodd i wneud ffrindiau pan yn oedolyn.

Dengys hefyd bwysigrwydd gwreiddio Daniel, Ellis ac Edwards yng Nghymru eu cyfnod er mwyn deall nid yn unig eu cyfraniad i fywyd Cymru ond y dylanwadau arnynt hwy fel unigolion ac fel ffrindiau wrth iddynt dyfu'n ddynion gyda'i gilydd. Gwelir pwysigrwydd y wasg Gymreig i ledu syniadau radical y dydd, a'r modd y daeth yn fodd o rannu eu syniadau hwythau wedi tyfu'n oedolion. Ymhellach, daw dylanwad Anghydffurfiaeth ar y tri i'r amlwg – er i raddau gwahanol - fel rhan annatod o gymdeithas Cymru. Roedd y tri yn rhan o'r datblygiadau addysgol, gwleidyddol a diwylliannol a welwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn yr un modd, ceir awgrym cryf o bwysigrwydd eu magwraeth yn y Bala, gan i'r tri, er i raddau gwahanol, gael eu dylanwadu gan fawrion eu cenedl – Michael D. Jones, Lewis Edwards a Thomas Charles Edwards - tra'n ifanc. Nid oedd

[276] Thomas Jones, *Lloyd George*, t. 280.

y dylanwadau cenedlaethol a lleol hyn yn unigryw i Daniel, Ellis ac Edwards. Ond, bu iddynt eu profi gyda’i gilydd yn ystod cyfnod ieuenctid pan fyddent wedi llunio eu cymeriadau a’u cyfeillgarwch.

Mae David Lloyd George yn ymddangos yn ŵr penderfynol iawn ym mhapurau Daniel, gyda dawn areithio aruthrol. I ddechrau, gwerthfawrogodd Daniel ddoniau ei gyfaill, ond wrth i’w yrfa ddatblygu, daeth Daniel i amau a oedd Lloyd George mewn gwirionedd yn medru gwerthfawrogi ei gyfeillion ac awgryma nad oedd modd ymddiried ynddo mewn gwirionedd. Dyma’r cyfle cyntaf felly i wrthgyferbynu cyfeillgarwch Daniel a’i gyfeillion ysgol â’i gyfeillgarwch gyda David Lloyd George. Collodd Daniel ei ffydd yn Lloyd George a daeth eu cyfeillgarwch ei ben – parhaodd ei hoffter o Ellis ac Edwards hyd eu marwolaeth. Dyma gwblhau’r cyflwyniad i bersonoliaeth y dynion blaenllaw sydd yn ganolbwynt i’r gwaith hwn. Gan adnabod eu cryfderau a’u gwendidau a’r hyn ddylanwadodd arnynt wrth iddynt lunio eu cymeriadau, down i ddeall natur Daniel, Ellis, Edwards, a Lloyd George i raddau, yn well fel unigolion. Dyma osod y sylfeini ar gyfer yr astudiaeth hon gan wreiddio’r unigolion yn gadarn yn eu cyd-destun cyn ystyried natur y cyfeillgarwch a’r ymlyniad rhwng Daniel a’i gyfeillion.

# PENNOD 2

## ‘Hen ddyddiau’r Bala sydd yn fy meddwl wrth ysgrifennu pob sill ’: Plethu profiadau cyhoeddus a phersonol.

Mae’r cysyniad o sfferau ar wahân, a’r feirniadaeth ohono wedi eu sefydlu bellach. Fel yr amlinellwyd yng nghyflwyniad y gwaith hwn, yn draddodiadol ystyriwyd bywydau cyhoeddus dynion i fodoli yn gwbl ar wahân i’w bywydau yn y cartref. Cyflwynwyd y byd gwaith, cyfreithiol, gwleidyddol a chwaraeon fel sffêr unigryw wrywaidd, tra mai byd y fenyw oedd y cartref. Er hyn, mae gweithiau hanesyddol diweddar wedi beirniadu a chwestiynu’r syniad o fydoedd ar wahân – yn enwedig wrth i hanes cymdeithasol a diwylliannol ddisodli’r hanes traddodiadol a’r *grand narratives.* Cyfeiriwyd yn y cyflwyniad at y modd y mae John Tosh a Paul O’Leary wedi amlinellu’r angen am astudiaethau o hanes dynion gan bwysleisio pwysigrwydd ystyried profiadau dynion y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn nghyd-destun y teulu, y byd gwaith a mudiadau gwrywaidd a’r modd yr oedd dynion yn teithio’n hwylus rhyngddynt. Mae’r ddau wedi nodi yn ogystal bod lle i fynd ymhellach na’r dair elfen hyn ac ystyried profiadau ehangach dynion er mwyn dileu’r ffiniau pendant awgrymedig rhwng y cyhoeddus a’r personol. Mae gweithiau John Tosh megis *A Man’s Place*, er enghraifft, yn ystyried rôl y dyn fel pennaeth y teulu, yn dad ac yn ŵr, yn ogystal ag yn y byd cyhoeddus o fewn clybiau a chymdeithasau. Dadleua Tosh bwysigrwydd peidio gor-gyffredinoli am brofiadau dynion gan y bu i rai ohonynt gofleidio bywyd yn y cartref, ac eraill ei osgoi.[277] Mae ei waith yn awgrymu trywyddau astudio diddorol wrth ystyried profiadau ehangach dynion er mwyn sicrhau darlun cyflawn o’u bywydau.[278] Yn yr un modd, mae haneswyr fel Ryland Wallace a Jane Rendall wedi arddangos yn glir bod menywod wedi profi bywyd cyhoeddus,

---

[277] John Tosh, *A Man’s Place: Masculinity and the Middle-Class Home in Victorian England* (Llundain, 2007).

[278] Dylid ystyried erthygl ddylanwadol John Tosh, ‘What Should Historians do with Masculinity?’ a drafodwyd yng nghyflwyniad yr astudiaeth hon yn ogystal. Ynddi, pwysleisia bwysigrwydd ystyried profiadau dynion yn y gweithle, y cartref a chymdeithasau gwrywaidd.

yn enwedig yn y sffêr gwleidyddol, gan feirniadu unwaith yn rhagor y ffin ddychmygol rhwng y cyhoeddus a'r personol.[279]

Gwerth casgliad llythyrau D.R. Daniel a'i gyfeillion yw arddangos y modd yr oedd bydoedd cyhoeddus a phersonol y dynion hyn yn cydblethu wrth iddynt deithio trwy fywyd gyda'i gilydd. Mae haneswyr eisoes wedi trafod y modd yr oedd menywod yn profi'r bydoedd cyhoeddus a rôl dynion yn y cartref. Yma, dadleuir nad oedd ffiniau cadarn a phendant rhwng profiadau cyfeillion gwrywaidd o'r bydoedd cyhoeddus a phersonol. Gellir awgrymu bod yr ohebiaeth yn dangos bod y cyfeillion yn symud gyda rhywfaint o rwyddineb rhwng bydoedd personol a chyhoeddus ei gilydd wrth iddynt rannu amrywiaeth o brofiadau academaidd, gyrfaol, personol a theuluol. Arddangos beth mae hyn oll yn ei ddatgelu am berthnasau Daniel gyda Tom Ellis ac O.M. Edwards yw ffocws y bennod hon.

Bydd y bennod hon yn astudio taith bywyd Daniel a'r modd yr oedd ei gyfeillgarwch gyda Tom Ellis ac O.M. Edwards, ac am gyfnod Lloyd George, yn ffurfio rhan hynod bwysig o'r daith honno, a phrofiadau personol a chyhoeddus y dynion yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys eu gohebiaeth. Dechreuir trwy ystyried y modd y daeth D.R. Daniel yn gyfeillgar gyda Tom Ellis a phwysigrwydd yr ardal leol er mwyn meithrin y berthynas hon. Dyma astudio cryfder seiliau'r cyfeillgarwch rhyngddynt sydd yn graidd i ddeall pwysigrwydd cynnal y berthynas, a rhannu profiadau, wrth iddynt ddilyn trywyddau gyrfaol gwahanol. Ymhellach, astudir beth oedd effaith cyflwyno trydydd aelod i'r cyfeillgarwch pan y bu i O.M. Edwards ymuno gyda hwy yn Ysgol Ramadeg y Bala. Ffurfiwyd perthynas Daniel gydag Ellis ac Edwards felly ymhell cyn dechrau gyrfaoedd academaidd a phroffesiynol, a chyn profi'r bydoedd cyhoeddus fel oedolion. Bydd y bennod hon yn dangos y modd y datblygodd y cyfeillgarwch rhwng Daniel, Ellis ac Edwards wedi i Tom Ellis ac O.M. Edwards adael ardal y Bala i fynd i'r brifysgol. Ystyrir nid yn unig y graddau y byddent yn rhannu eu profiadau personol a chyhoeddus, ond

---

[279] Wallace, *The Women's Suffrage Movement in Wales* & Jane Rendall (gol.), *Equal or Different : Women's Politics 1800-1914* (Rhydychen, 1987).

hefyd y modd y gwnaethant ymroi i gynnal perthynas gyda'i gilydd yn dilyn y cyfnod cynnar yn y Bala.

Ymhellach, mae haneswyr diweddar wedi troi i ystyried y modd o ddiffinio gwrywdod. Mae cyfraniad cynnwys y llythyrau hyn at drafodaeth ynghylch natur gwrywdod yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y bennod nesaf. Eto i gyd, mae lle i drafod yma yr hyn roedd D.R. Daniel a'i gyfeillion yn ei ystyried yn bwysig er mwyn cyflawni'r disgwyliadau ohonynt, fel dynion. Mae'n werth ystyried y term *'manliness'* yn y cyd-destun hwn. Gellir gwahaniaethu rhwng dau derm o fewn y cysyniad o wrywdod felly gan y dadleuir, *'Whereas manliness was treated essentially as a social attainment in the gift of one's peers, masculinity is an expression of personal authenticity, in which being true to oneself counts for much more than conforming to the expectations of others.'*[280] Wrth ystyried pwysigrwydd croesi trothwyon mewn bywyd, y term '*manliness'* sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r gair 'gwrywdod' a'r cysyniad o'r hyn oedd yn ddisgwyliedig gan ddynion.

Mae Stephanie Ward yn ei herthygl, 'Drifting into Manhood and Womanhood' yn pwysleisio pwysigrwydd priodi i gylch bywyd ac fel trothwy i fywyd fel oedolyn yn ne Cymru a gogledd-ddwyrain Lloegr yn ystod y 1930au. Roedd priodi yn atgyfnerthu syniadau o wrywdod a'r modd o ddarparu a chynnal teulu. Trafoda effaith diweithdra ar y penderfyniad i briodi a oedd felly'n bygwth trefn draddodiadol bywyd ac yn atal dynion ifainc rhag croesi'r trothwy hwn.[281] Yn ogystal, mae Mark Rothery a Henry French wedi golygu casgliad o lythyrau dynion dosbarth uwch sy'n datgelu'r modd yr oeddent yn llunio eu hunaniaeth gwrywaidd elitaidd yn Lloegr c.1660-1900. Mae'r llythyrau hyn wedi eu rhannu'n gyfnodau

[280] John Tosh, *Manliness and Masculinities in Nineteenth Century Britain* (Efrog Newydd, 2005), tt. 2-3.
[281] Stephanie Ward, 'Drifting into Manhood and Womanhood: Courtship, Marriage and Gender Amongst Young Adults in South Wales and the North-East of England in the 1930s', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 26:4 (Rhagfyr 2013), tt. 623-648.

pwysig gan gynnwys cyfnod ysgol, prifysgol, teithio, carwriaeth a phriodi yn ogystal â sefydlu gyrfa.[282] Maent o'r farn:

> *The formation of masculine identities in landed gentry men was a continual and lifelong process from childhood to adulthood, one that never reached a conclusion. Social status was not merely inherited by gentry men at birth, it was dependent on the attainment of manliness learnt and practiced through family, education, travel, relationships, and their working lives…. The construction of masculinity was practised, negotiated, contested and constantly managed by the male individual and by a wide range of institutions, relatives and associates, and it was experienced in a variety of contexts at different points in the life cycle, contextual shifts which, themselves, altered definitions of acceptable masculinity. Some men rested easy and confident in their manly achievements at various points in their lives, whilst others endlessly struggled to attain what they, and others, considered to be manly.*[283]

Mae'r cysyniadau o drothwy a'r cerrig milltir roedd dynion dosbarth canol yn disgwyl eu croesi yn gysyniad hynod ddiddorol yng nghyd-destun y bennod hon. Wrth ystyried y modd y bu i brofiadau personol a chyhoeddus Daniel a'i gyfeillion gael eu plethu ar hyd taith bywyd, mae digwyddiadau pwysig yn cael eu hystyried – a'r gwerth roeddent yn ei roi ar basio trothwyon penodol. Yn dilyn yr astudiaeth o berthynas gynnar Daniel, Ellis ac Edwards tra yn yr ysgol, troir i ystyried pwysigrwydd cariadon, gyrfaoedd, priodi a chael teulu iddynt, a'r modd y bu i'r berthynas rhwng Daniel a'i ffrindiau gael ei chynnal wrth iddynt sicrhau eu bod yn rhan o brofiadau newydd ei gilydd. Er mwyn cyfoethogi'r drafodaeth hon, trafodir y cyfeillgarwch rhwng Daniel a Lloyd George gan ddangos bod meithrin perthynas ar sail diddordebau gwleidyddol a chyhoeddus tra'n oedolion wedi arwain at agosatrwydd lefel bersonol yn ogystal.

---

[282] Mark Rothery & Henry French (goln.), *Making Men: The Formation of Elite Male Identities in England, c. 1660-1900* (Basingstoke, 2012).
[283] Ibid., t. 175.

**Gwreiddio'r cyfeillgarwch mewn plentyndod**

Cred Neville Masterman bod i gyfeillgarwch D.R. Daniel a Tom Ellis *'a closeness and intimacy about it which was quite out of the ordinary'* a chred T.I. Ellis eu bod wedi darganfod 'hanner fy enaid i' yn ei gilydd, rhywbeth a oedd yn 'gweddnewid bywyd yn llwyr ac yn ei gyfoethogi i'r eithaf.'[284] Craidd y cyfeillgarwch oedd y ffaith mai hwn oedd eu cyfeillgarwch cyntaf a'u bod wedi rhannu profiadau o'u cyfnod cynharaf. Dyma, o bosibl, esbonio'r cwlwm oedd yn eu clymu a'r rhesymau pam y bu iddynt wneud pob ymdrech i gynnal eu perthynas ar hyd eu bywydau. Wrth weithio ar ddrafft o gofiant i Tom Ellis, mae Daniel wedi disgrifio'r tro cyntaf iddynt gyfarfod mewn manylder. Disgrifia ei weld yn cerdded ar draws y cae gyda'i dad yn ddwy neu dair oed mewn ffrog ac yn gwisgo gwasgod ei dad gyda'i ddwylo yn ei bocedi. Ni siaradodd y ddau gyda'i gilydd ond:

> Cofiaf yn awr yr edrychiad anibynol oedd ar ei wyneb. Ni chrychodd gwên ef a chredaf nad ydwyf yn darllen teimlad oedran i fynwes plentyn pan ddywedaf mai yr argraph a adawodd ar ein meddwl oedd mai nid un hawdd i nesu ato ydoedd. Pa un ai y wasgod – yr hon am tarawodd yn fawr – a greai y syniad o annibyniaeth hunan-ddigonol yn y gwr bach ar y pryd, nis gwn, ond cawsom ddod i adnabod ein gilydd yn ddigon da cyn hir i mi ddeall mai hollol wahanol iw agwedd y tro hwn oedd y galon a lechai o dani. Yr oedd ei wyneb yn grwn hollol wedi ei amgylchu gan glwstwr o fodrwyau main gwallt goleu goch.[285]

Diddorol yw'r ffaith y bu'r digwyddiad hwn, gyda'r ddau mor ifanc a dal yn gwisgo pais, aros yn y cof mor fyw. Mae manylder y disgrifiad yn datgelu yn syml hyd a phwysigrwydd y berthynas.

---

[284] Masterman, *The Forerunner*, t. 34 & T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I*, t. 120.
[285] LlGC Daniel 1a, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis': Cyfrol I, t. 35.

Mae cynnwys y llythyrau rhwng Ellis a Daniel yn datgelu pwysigrwydd yr ardal leol i'w perthynas gan gofio eu bod wedi eu magu ar ffermydd cyfagos. Mewn llythyr tra roeddent yn eu harddegau cynnar, ysgrifennodd Tom Ellis at D.R. Daniel yn disgrifio'r mannau y byddent yn cyfarfod a'r caeau gwahanol yn ardal Cefnddwysarn:

> *After all the vows and promise-making yesterday, I found it simply impossible to meet you today either at the time honoured and chivalrous "Lleddard Terfyn", or at the top of "Cae Llechwedd" or "Cae Ffynon", or any other "Cae" by which Jack, the South Sea Islander knows that blooming field of his…When are you going to write to the most Reverend Bow-ibus, the express reader-ibus of Cae Rhys-ibus that we might go up Arran-ibus with that donkey-ibus.*[286]

Mae'r ymgais i ddefnyddio Lladin a welir yn y llythyr yn dangos y modd yr oedd eu profiadau addysgol yn datblygu. Yn wir, yng Nghae Rhys yr oedd O.M. Edwards yn byw ac ar yr Aran[287] y byddai'r tri yn treulio llawer o'u hamser yn trafod eu syniadau am Gymru. Mae cyfeiriadau at bwysigrwydd yr ardal leol i feithrin y berthynas rhwng Daniel ac Ellis i'w gweld mewn llythyrau rhyngddynt fel oedolion yn ogystal. Wrth deithio'r cyfandir ar ddiwedd yr 1880au a'r 1890au ac ehangu ar ei orwelion, crwydrai meddwl Tom Ellis tuag at ei gefndir gyda Daniel. Ysgrifennodd:

> *Thoughts of you, of your views, of our million talks and walks are ever present to me, comfort me in dejection, strengthen and decide me in doubt, and rise like a never-ending vista of blue hills before my eyes, whenever my thoughts roam over the sweet, strange Past, and indeed whenever my eyes strain to the dark, anxious, struggling Future. Thoughts of Cynlas, of Tynybryn, of Llidiard Terfyn, of Cefnddwysarn, of the Grammar School, of Llanycil and Row-Wen, of*

---

[286] LlGC Daniel 172, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.

[287] Byddai D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards yn treulio llawer o'u hamser yn dringo mynydd yr Aran yn trafod materion Cymreig. Roedd O.M. Edwards yn benodol yn hoff o'r Aran. Yr oedd wedi dweud unwaith 'rwy i yn meddwl bob amser pe buaswn i ryw dro yn newid fy nghrefydd mai'r Aran addolwn i' a gwelai Daniel gyamint o baganiaeth Geltaidd oedd yn enaid Edwards. Gweler LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 36.

> *Garthgoch, of Friday evenings at Llan, of Sunday afternoons at Cynlas, of partings in the 'Gotel' especially the one before you sailed for America…The death of dear Kate and of your father-in-law have also sanctified and mellowed our common Past...*[288]

Tra mewn sefyllfa newydd, ac ansicr o bosibl, rhestra'r lleoliadau oedd mor bwysig iddynt ac i lunio eu perthynas. Sonnir yn ogystal am rannu colled yn dilyn marwolaeth Kate, chwaer Tom Ellis, yn 1888 a thad yng nghyfraith Daniel – y ddau yn gymeriadau lleol. Mae'r cefndir hwn felly yn holl bwysig wrth ddadansoddi eu perthynas. Gwreiddiau Tom Ellis oedd gwreiddiau D.R. Daniel. Beth bynnag oedd y datblygiadau gyrfaol ac academaidd a wynebodd y ddau, parhau wnaeth y ddibyniaeth bersonol. Yn dilyn derbyn llythyr gan D.R. Daniel, ac Ellis yn ddifrifol wael yn yr Aifft, ymatebodd Tom Ellis bod ei gynnwys wedi cyfeirio ei feddwl at yr 'adegau mwyaf hafaidd yn ein bywyd' a'i fod 'fel adolygiad i'm bywyd' sydd yn atgyfnerthu'r ffaith bod profiadau eu plentyndod yn un.[289]

Ymhellach, byddai'r tri chyfaill ysgol yn treulio amser ym mynwent Llanycil, gyda Daniel ac Edwards yn parhau i wneud hyn yn dilyn ymadawiad Ellis i'r brifysgol. Gwelir pwysigrwydd yr ardal leol iddynt hwythau gyda disgrifiad O.M. Edwards, *'At night I went with D R Daniel to the Llanycil churchyard. I shall never forget the scene. It was dusk. The broad expance of Llyn Tegid lay before us, while the Aran, dear old Aran towered in the distance'.*[290] Yn wir, rhoddai O.M. Edwards le arbennig i'r mynyddoedd yn ei syniadau o Gymru a Chymreictod. Credai bod y mynyddoedd wedi llunio hanes a chymeriad y Cymry ac fe'u gwelai fel man cychwyn astudio hanes ei genedl.[291] Nid oes syndod felly ei fod yn rhoi cymaint o bwyslais ar yr ardal a'r mynyddoedd lleol wrth iddo feithrin

---

[288] LlGC Daniel 348, Tom Ellis at D.R. Daniel, 25 Awst 1888.
[289] LlGC Daniel 363, Tom Ellis at D.R. Daniel, 18 Chwefror 1890.
[290] LlGC Papurau O.M. Edwards AD1/5, Dyddiadur O.M. Edwards 1878, 30 Ionawr 1878.
[291] Am drafodaeth bellach o le'r mynyddoedd yn syniadau Edwards am hanes Cymru, gweler Manon Jones, 'Owen Morgan Edwards: Hanesydd Cymreig', *Y Traethodydd*, CLXV, 695 (Hydref 2010), tt. 215-216. Ymhellach, am ystyriaeth o rôl mynyddoedd yn hanes Cymru, gweler Neil Evans, ''When Men and Mountains Meet'': Historians' Explanations of the History of Wales, 1890-1970', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 22:2 (Rhagfyr 2004), tt. 222-251.

cyfeillgarwch yn ystod dyddiau ei ieuenctid. Parhaodd yr Aran, a'r mynyddoedd o'i amgylch yn gefndir i drafodaethau pan yn oedolion gyda chyfeiriadau cyson at yr angen am sgwrs neu ymgom rhwng Edwards, Ellis a Daniel, *'Y mae Ellis yn dod i'r mynyddoedd yma yfory, os na ddaeth rhywbeth nas gwn am dano, a dywed y dewch chwithau hefo fo.'*[292] Ymhellach, ysgrifennodd Ellis at Edwards, *'I intend going up Arran the first clear day, and cannot think of going up without you… Daniel is in capital spirits and wants to see you very much.'*[293]

Ni cheir dyddiadau penodol i lythyrau cynharaf D.R. Daniel a Tom Ellis, ond maent yn ffocysu ar fywyd o ddydd i ddydd – gyda phethau hynod gyffredin yn cael eu trafod. Mewn un llythyr, ysgrifennodd Ellis, 'a chefais frachdan a thaten a thwmplen or llys a fuon yn ei hel y noswaith hono.'[294] Ar achlysur arall, disgrifiodd gael dwy frechdan haidd a the, gwylio'r gweithwyr ar y fferm yn casglu'r gwair ac yna 'yr oeddwn yn edrych ar y moch yn bentyrau ar y buarth wedi hynny yr oeddwn yn edrych ar un iar ar cywion yr oedd dau yn paphio'.[295] Sylwer ar symlder yr arddull yn adlewyrchu oedran y ddau fachgen. Chwaraea natur ran yn y llythyrau cynnar hyn yn ogystal gydag Ellis yn disgrifio dal aderyn du yn y coed gyda bachgen o'r enw Jac Cwm a mynd ag ef adref at 'Jane bach'. Yna disgrifia'i hun yn cael ei de a gosod bwgan yn yr ardd.[296] Digon di-nod yw cynnwys y llythyrau, ond y mae'n bwysig nodi'r ffaith bod Tom Ellis yn teimlo'r angen i drafod gweithgareddau'r dydd gyda'i ffrind. O'r cychwyn cyntaf, mae yna gyfathrebu cyson yn bodoli – a pharhaodd hyn ar hyd eu hoes.

Wrth aeddfedu a datblygu, gwelir Tom Ellis yn troi i'r Saesneg wrth ohebu gyda D.R. Daniel pan yn 14 oed. Ceir yr argraff o arddangos aeddfedrwydd yn ogystal, gydag Ellis yn cyfeirio un llythyr at *'My very dear David'* ac yn cloi gydag *'With kind regards, Thomas E Ellis Cynlas.'*[297] Antur yw

[292] LlGC Daniel 1004, O.M. Edwards at D.R. Daniel, nos Iau.
[293] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/1/76, Tom Ellis at O.M. Edwards, (1883).
[294] LlGC Daniel 154, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.
[295] LlGC Daniel 157, Tom Ellis at D.R. Daniel, 'ar ol te'.
[296] LlGC Daniel 155, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.
[297] LlGC Daniel 165, Tom Ellis at D.R. Daniel, Awst 1873.

cynnwys y llythyrau hyn a brwdfrydedd dros ddarganfod a dysgu.[298] Cyfeiria Ellis lythyr arall at '*David (HM Stanley)'* gan drafod ei fod wedi bod yn aros yng nghae Cynlas Bach am ddwy awr ond nid oedd Daniel wedi dod i'w gyfarfod. Mae'r llythyr hefyd yn cynnwys symbolau cudd rhyngddynt ar ffurf croes, calon ac angor.[299] Mewn llythyr at Ellis oddi wrth Daniel, eto a hwy yn 14 oed, trafodir taith i'r Bermo a'r hwyl yr oeddent i'w gael yno. Gobeithiai fedru gweld Corsygedol ble y dihangodd Siarl II yn ystod cyfnod y chwyldro, Dyffryn, Porthmadog a'i mynyddoedd, Ynys Enlli a nifer o bethau eraill y gallent eu mwynhau.[300] Gwelwn felly'r berthynas yn datblygu ac aeddfedu wrth symud o faterion dyddiol ar y fferm, megis beth gafodd Ellis i'w ginio, i antur yn y Bermo. Dyma'r chwilfrydedd a'r angerdd at ddysgu yn cael eu deffro ac roedd y ddau ohonynt yn rhannu'r un brwdfrydedd. Yn yr un modd, mae'r defnydd o'r Saesneg yn y llythyrau a chyfeiriadau at hanes Siarl II, yn arwydd o ddatblygiad pellach yn eu bywydau wrth iddynt fynychu'r ysgol a derbyn addysg cyfrwng Saesneg. Mae'r awydd am ddysg a'r ymgais i ymddangos yn aeddfed, hefyd yn dod i'r amlwg yn y llythyrau hyn gyda Tom Ellis yn cyfeirio at gwestiynau yr oedd wedi eu paratoi ar gyfer Daniel ar athroniaeth naturiol.[301]

Atgyfnerthir yr agosatrwydd hwn rhwng Daniel ac Ellis tra'n blant yn nyddiaduron D.R. Daniel. Dro ar ôl tro y mae'r geiriau *'At Cynlas'* i'w gweld yn ei ddyddiadur ar gyfer y flwyddyn 1873, pan oedd y ddau fachgen yn 14 oed. Byddai eu gweithgareddau yn cynnwys *'TE Ellis heare sick to day. Good sceanary by the Telescope', 'At Cynlas playing paper Hunt*' a *'TE Ellis heare to day in her tea had a fine sport making fire.'* Yng nghefn y dyddiadur ceir marciau cystadleuaeth bwa a saeth rhwng Daniel, Ellis a bachgen o'r enw John Jones.[302] Yr un yw'r thema o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn 1876, ceir mwy o ffocws ar lythyru gyda Tom Ellis yn ogystal â threulio amser yn cerdded gydag ef yn ystod gwyliau'r brifysgol. Mae

[298] Mae'r syniad o rannu antur yn gyson gyda'r modd byddai Ellis yn cyfeirio rhai llythyrau cynnar at Daniel fel '[c]ydfapiwr' neu 'gydpostman.' Gweler LlGC Daniel 154-167, Tom Ellis at D.R. Daniel. Daw'r llythyrau dyddiedig o 1873 gyda'r bechgyn yn 14 oed.
[299] LlGC Daniel 163, Tom Ellis at D.R. Daniel, 12 Awst 1873.
[300] LlGC Daniel 165, Tom Ellis at D.R. Daniel, Awst 1873.
[301] LlGC Daniel 167, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.
[302] Gweler LlGC Daniel 509, Dyddiadur D.R. Daniel 1873.

dyfyniadau o'r fath yn cynnwys, *'Had a letter from T.E.E.', 'Posted a letter for T.E. Ellis'* a *Went for a walk with T.E. Ellis.'*[303] Mae hyn yn gyson gyda chynnwys dyddiaduron Tom Ellis sydd wedi goroesi o 1875, 1876 ac 1878. Mae cyfeiriadau at gerdded gyda Daniel a threulio amser gyda'i gilydd yn eu cartrefi ac yn yr ardal leol yn hynod amlwg yn ystod y cyfnodau roedd Ellis adref o'r brifysgol yn Aberystwyth. Ymhellach, ceir sawl cyfeiriad at Ellis yn dychwelyd adref o'r brifysgol ac yn ymweld â Daniel ar yr un diwrnod, neu yn ysgrifennu llythyr ato yn syth ar ôl dychwelyd i Aberystwyth.[304]

Mae'r llythyrau hyn, a'r cyfeiriadau a welir yn y dyddiaduron, yn cynnig mewnwelediad i ddyddiau cynharaf perthynas D.R. Daniel a Tom Ellis. Dangosant seiliau cyfeillgarwch hynod agos. Roeddent wedi adnabod ei gilydd ers yn blant ac wedi eu magu gyda'i gilydd. Roeddent wedi crwydro yr un caeau, rhannu anturiaethau ac angerdd am ddysg. Ond, yn bwysicach, mae'r cyfeiriadau hyn yn egin esboniad o'r cyfeillgarwch cryf rhwng y ddau sydd yn dod i'r amlwg yn y trafodaethau sydd i ddod. Mae seiliau dwfn eu cyfeillgarwch yn esbonio'r modd y bu iddynt blethu'r profiadau cyhoeddus a phersonol gan eu bod wedi hen arfer rhannu â'i gilydd ers dyddiau cynharaf eu perthynas.

Wedi cyrraedd Ysgol Ramadeg y Bala, daeth D.R. Daniel a Tom Ellis i adnabod eu cyd-ddisgybl, O.M. Edwards, gan ffurfio cyfeillgarwch dwfn gydag yntau. Beth oedd effaith cyflwyno trydydd person i'r berthynas agos iawn a fodolai rhwng Daniel ac Ellis felly? Mae astudio'r ohebiaeth rhyngddynt yn gyfle i ddadansoddi deinamig y triawd gan ystyried a oedd arweinydd i'r grŵp, a oedd cenfigen wrth ychwanegu aelod i'r grŵp neu a oedd y tri yn gyfartal ymhob ffordd?

Prin yw'r llythyrau cynnar sydd wedi goroesi oddi wrth O.M. Edwards at D.R. Daniel ond mae'r themâu ynddynt yn gyffredin â'r llythyrau rhwng Daniel ac Ellis tra roeddent hwythau yn eu harddegau cynnar. Trafoda

[303] Gweler LlGC Daniel 510, Dyddiadur D.R. Daniel 1876.
[304] Gweler Daniel 6a-6c, Dyddiaduron Tom Ellis 1875, 1876 ac 1878.

Edwards ei frwdfrydedd dros gael gweld casgliad o lyfrau gŵr lleol, llyfrau y cred y byddai'n werthfawr i Daniel gael eu gweld yn ogystal.[305] Rhestrau a thrafodaethau o lyfrau yw cynnwys y llythyrau eraill yn ogystal ag adroddiad o fath ar gynnydd addysgol Edwards yn ei law ei hun.[306] Am un llyfr dywed, *'I want the book so very bad; would nt it be a jolly thing to direct a parcel to Bridge Cottage* [ble roedd Edwards yn aros tra yn y Bala]. *Oh the bliss of opening it together.'*[307] Fel yn y llythyrau rhwng Ellis a Daniel, gwelir rhannu diddordeb ac anogaeth i ddatblygu yn addysgol; y syniad o rannu profiadau a dyhead am ddatblygu'r meddwl.

Mae'r cyfeiriadau at O.M. Edwards yn nyddiaduron Daniel hefyd yn gyson gyda'r math o gyfeiriadau a geir at Ellis. Ar ôl gadael yr ysgol, dychwelodd Edwards i'r Bala i astudio yng ngholeg y Methodistiaid rhwng 1875 ac 1877 ac felly ceir llu o gyfeiriadau ato yn ystod y cyfnod hwn e.e. *'Call for a walk with O.E… Tea. To O. Edwards for a walk to Llanycil churchyard', 'To Owen Edwards Lessons Supper bed,' 'Went for a walk with O.E'* a *'Saw Owen Edwards.'* Cyfeiriadau byrion a syml. Ond, mae eu cysondeb, fel ag y gwelir yn y cyfeiriadau at Ellis, yn nyddiaduron ieuenctid Daniel yn awgrymu pwysigrwydd y ddau i'w fywyd dyddiol yn ystod y cyfnodau pan oeddent gyda'i gilydd. Yr un yw'r cyfeiriadau yn nyddiaduron O.M. Edwards rhwng 1874 a 1878. Mewn cyfeiriad cynnar at Daniel ac Ellis, disgrifia Edwards ei fod wedi ei gloi mewn ganddynt am ddwy awr a hanner yn adrodd straeon, yn bennaf o *Arabian Nights* a thrafod llyfrau yr hoffent eu prynu. Cyfeiriadau at fynd i gerdded gyda'i gilydd yn bennaf a geir, ar adegau gan osgoi gwersi. Ceir un cyfeiriad at Daniel yn cael ei daro am ddefnyddio het bachgen fel drwm, a hwnnw ar ben y bachgen, ac ystyria Edwards Daniel i fod '*always uniformly funny.*'[308] Mae'r cyfeiriadau at O.M. Edwards yn nyddiaduron Tom Ellis yn gyson gyda hyn a cheir sawl

---

[305] LlGC Daniel 989, O.M. Edwards at D.R. Daniel, dydd Llun (27 Rhagfyr 1874).
[306] Gweler LlGC Daniel 988, 989, 990 & 991, O.M. Edwards at D.R. Daniel, rhwng o ddeutu 1875 a 1877.
[307] LlGC Daniel 991, O.M. Edwards at D.R. Daniel, Mehefin 1877.
[308] LlGC Papurau O.M. Edwards AD1/3, Dyddiadur O.M. Edwards 1877, 8 Chwefror & LlGC AD1/5, Dyddiadur O.M. Edwards 1878, 17 Ionawr 1878.

disgrifiad o'r ddau, ac ar adegau'r tri, yn treulio amser gyda'i gilydd tra roedd Ellis adref o'r brifysgol yn Aberystwyth.[309]

Ceir yr argraff bod D.R. Daniel wedi croesawu O.M. Edwards i ymuno yn y cyfeillgarwch yr oedd eisoes wedi ei feithrin gyda Tom Ellis. Yn ffodus, y mae wedi cofnodi y modd y daeth i gwrdd ag O.M. Edwards, cyfaill ysgol yr oedd Tom Ellis wedi siarad yn uchel iawn amdano ac yr oedd Daniel wedi bod yn eiddgar i'w gyfarfod. Yn ôl disgrifiad Daniel, roedd y wên ar wyneb Tom Ellis a'i frwdfrydedd yn arddangos bod Ellis wedi:

> …gwneud darganfyddiad mawr a deuai allan yn llawnder o gyfoeth a mwynhad i ni ein dau beth bynnag. Yr oedd yn ei le. Ni ddaeth ef na minnau byth mwyach ar draws un tebyg ir bachgen newydd yma. Ffawd fawr oes ydyw taro ar un fel neu gyffelyb hwn…[310]

Awgrymir bod gan Daniel bob ffydd ym marn Ellis, a'i fod yn edrych ymlaen yn fawr at gael cyfarfod Edwards oblegid hynny. Roedd y ddau yn agored iawn i dderbyn Edwards yn gyfaill agos atynt felly. Mae geiriau Daniel yn gyson gyda disgrifiad O.M. Edwards o'r tro cyntaf y bu iddo gyfarfod â Tom Ellis, 'Yr oedd rhywbeth yn ddeniadol ryfeddol ynddo, rhyw frwdfrydedd plentynaidd agorodd bob peth yn fy nghalon i iddo ar unwaith… ni fum erioed yn fwy hapus, - yr oeddwn wedi cael cyfaill wrth fodd fy nghalon.'[311] Darganfod cyfeillion o'r un anian tra'n ifanc, a rhannu profiadau o ganlyniad i hynny, oedd seiliau'r berthynas deirffordd hon. Dychwelwn felly at ddadansoddiad W.J. Gruffydd o berthynas y tri o safbwynt O.M. Edwards, 'Yr oedd Tom Ellis yn rhan o'r bywyd mewnol a greodd iddo'i hunan, ac efallai na bu neb arall byth wedyn ond D.R. Daniel, dros ei drothwy.'[312]

Gall dadansoddi'r modd y sefydlwyd y berthynas hon yn ystod cyfnod ieuenctid Daniel, Ellis ac Edwards gyfoethogi'r hyn mae gweithiau

---

[309] Gweler LlGC Daniel 6b, Dyddiadur Tom Ellis 1876, Awst a Medi 1876 yn benodol.
[310] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 2.
[311] O.M. Edwards, 'Adgofion' yn ei (gol.), *Cymru,* 16 (1899), t. 246.
[312] W.J. Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant,* tt. 75-76.

ehangach yn ei amlinellu ynghylch sefydlu cyfeillgarwch rhwng bechgyn a meithrin cysyniadau o wrywdod a sfferau ar wahân. Ceir sawl astudiaeth cymdeithasegol sydd yn trafod pwysigrwydd addysg ac ysgol i feithrin syniadau ynghylch gwrywdod a rolau disgwyliedig merched a bechgyn, yn y pynciau y byddent yn eu hastudio ac ymddygiad nodweddiadol a disgwyliedig tra yn yr ysgol.[313] Mae Michael Roper wedi trafod bod y syniadau o '*manliness*' yn cael eu meithrin mewn ysgolion cyhoeddus, y *Boy Scouts* a'r *Boys Brigade* ac felly i ffwrdd o'r cartref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma bwysigrwydd sefydliadau i feithrin hunaniaeth a chyfeillgarwch gwrywaidd felly. Yn wir, cred Roper bod 40% o ieuenctid Prydain yn perthyn i fudiad yn 1914.[314] Mae John Tosh o'r farn bod sawl ffordd i fechgyn ifainc ddylanwadu ar ei gilydd. Byddai'r dosbarthiadau gweithiol yn gwneud hyn ar y strydoedd a'r dosbarthiadau canol ac uwch yn yr ysgolion preswyl ble y byddai defodau i'w derbyn i grwpiau yn eu paratoi ar gyfer '*Christian public duty and the inner discipline to fulfil it*.' Byddai tadau eisiau meithrin annibyniaeth yn eu meibion, i ffwrdd o'u mamau, gyda phwyslais ar ddatblygu yn athletaidd ac yn foesol. Ehangiad ar hyn oedd bywyd prifysgol.[315] Mae rhain oll yn drafodaethau gwerthfawr ar ddylanwad sefydliadau a mudiadau ar fechgyn ifainc. Yn sgil hyn, ceir awgrym, yn gyffredinol, mai yn y sefyllfaoedd hyn y byddai bechgyn wedi dod i adnabod ei gilydd a ffurfio cyfeillgarwch.

Ond, datgela cyfeillgarwch Daniel, Ellis ac Edwards berthynas llawer mwy naturiol a ddatblygodd drwy rannu magwraeth a diddordebau. Mae'r disgrifiad o gyffro D.R. Daniel a Tom Ellis wrth iddynt ddod i adnabod O.M. Edwards ynddo'i hun yn awgrymu eu bod fel pe baent wedi cael eu

313 Gweler Wayne Martino & Maria Pallota-Chiarolli, *So What's a Boy?: Addressing Issues of Masculinity and Schooling* (Maidenhead & Philadelphia, 2003); R.W. Connell, *The Men and the Boys* (Caergrawnt, 2000) & Christian Haywood & Máirtín Mac an Ghaill, 'School Masculinities' yn Máirtín Mac an Ghaill, *Understanding Masculinities*, tt.50-60.

314 Michael Roper, 'Between Manliness and Masculinity: The "War Generation" and the Psychology of Fear in Britain, 1914-1950', *Journal of British Studies*, 44:2 (2005), t. 347. Am drafodaeth debyg ynghylch dylanwad ysgolion a mudiadau ieuenctid wrth lunio hunaniaeth wrywaidd, gweler George L. Mosse, *The Image of Man: The Creation of Modern Masculinity* (Rhydychen & Efrog Newydd, 1996), tt. 134-137.

315 John Tosh, 'The Making of Masculinities: The Middle Class in Late Nineteenth-Century Britain' yn Angela V. John & Claire Eustance (goln.), *The Men's Share: Masculinities, Male Support and Women's Suffrage in Britain, 1890-1920* (Llundain & Efrog Newydd, 1997), tt. 47-49.

hatynnu at ei gilydd. Daethant yn gyfeillion trwy ddewis, ac yn syml oherwydd eu bod eisiau bod yn gyfeillion, sydd eto'n arddangos bod seiliau cadarn i berthynas y tri. Yn wir, noda D.R. Daniel mai am ddau dymor yn unig yr oedd Edwards yn Ysgol Ramadeg y Bala ac, o ganlyniad i salwch, am dymor yn unig yr oedd ef a Daniel yno gyda'i gilydd.[316] Er hyn, dywed, 'Felly collais Owen am yspaid yn lled fuan wedi i mi ddod iw adnabod ond nid cynt nag yr oedd sail cyfeillgarwch oes wedi ei dodi i lawr.'[317] Treuliasant gyfnod arbennig iawn gyda'i gilydd yn yr ysgol a achosodd i Daniel ac Ellis agor eu calonnau i Edwards, ac roedd seiliau dwfn y berthynas honno yn cael eu cydnabod gan Daniel.

**Dylanwad addysg**

Wrth ystyried y modd y ffurfir hunaniaeth gwrywaidd, yn lled aml mae trafodaethau am ddosbarth yn codi yn y gweithiau hanesyddol a chymdeithasegol cyfoes. Mae Simon Gunn a Rachel Bell wedi astudio'r dosbarthiadau canol yn Lloegr gan nodi, wrth geisio diffinio'r gwpiau hyn, bod strwythurau cymdeithasol unigryw gan Gymru, Yr Alban ac Iwerddon. Dyma gymhlethu'r cysyniad yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, ond gellir dadlau bod y syniad o haen rhwng y dosbarthiadau uchelwrol a'r dosbarthiadau gweithiol yn gyson yng Nghymru a Lloegr. Wrth ddisgrifio rhai aelodau o'r dosbarthiadau gweithiol yn cyrraedd y dosbarthiadau canol yn Lloegr erbyn 1911, nodir *'For the individuals involved it was not just a matter of having a new job title: with this change in work came the development of a new culture and a new way of life.'*[318] Dyma ddyfyniad diddorol yng nghyd-destun profiadau D.R. Daniel a'i gyfeillion wrth ystyried y newid mewn diwylliant wrth wneud cynnydd gyrfaol. Ganwyd Daniel, Ellis ac Edwards i deuluoedd ffermwyr tenant a ni cheir unrhyw drafodaeth yn yr ohebiaeth am y syniad o godi o'r dosbarth hwn.[319] Parhaodd y tri yn falch iawn o'u cefndir a'u gwreiddiau gydag agwedd

---

[316] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 5.
[317] Ibid., t. 12.
[318] Simon Gunn and Rachel Bell, *Middle Classes: Their Rise and Sprawl* (Llundain, 2002), t. 22.
[319] Gweler pennod gyntaf y traethawd hwn am drafodaeth o ddylanwad Anghydffurfiaeth a phrofiadau'r tenantiaid ar Daniel a'i gyfeillion.

gadarnhaol Edwards at allu gwerin Cymru ac ymgyrchoedd gwleidyddol Tom Ellis yn dystiolaeth o hyn. Eto i gyd, wrth drafod llunio gwrywdod dosbarth canol mewn ysgolion cyhoeddus rhwng 1929 a 1950, dywed y gymdeithasegwraig Christine Heward, *'They* [tadau] *wanted their sons to enter occupations with a high, secure income and a respected position in the community, thus ensuring their future among the middle classes. The professions were their desired goal, entailing prolonged study and examination success.'*[320] Dyma ddyfyniad hynod werthfawr wrth ystyried y cerrig milltir yr oedd y tri chyfaill, a Lloyd George, yn ystyried yn bwysig. Nid bwriad y bennod hon yw dadlau bod y dynion hyn â'u bryd ar symud dosbarth, na chwaith bod syniad o ddosbarth yn bwysig i'w hunaniaeth. Er hyn, gellir dadlau gyda sicrwydd bod y pedwar am sicrhau eu cynnydd eu hunain o fewn y byd cyhoeddus. Mae bwriad Tom Ellis a'i dad iddo dderbyn addysg yn Rhydychen er enghraifft yn brawf o hyn.

Yn dilyn cyfnod yn yr ysgol gyda D.R. Daniel yn y Bala, ble roeddent yn rhannu cartref, aeth Tom Ellis yn un ar bymtheg oed i'r brifysgol newydd yn Aberystwyth (1875-1879). Yna, aeth ymlaen i Brifysgol Rhydychen (1880-1884).[321] Dadleuir felly bwysigrwydd addysg i'r triawd o ffrindiau ysgol er mwyn sicrhau eu cynnydd eu hunain gan ddatblygu'r cysyniad o bwysigrwydd croesi trothwyon wrth feithrin gwrywdod. Eto i gyd, effaith her y byd newydd hwn ar y cyfeillgarwch rhwng Tom Ellis a Daniel, ac ar y triawd gydag Edwards, sydd yn bwysig yng nghyd-destun y gwaith hwn. Roedd Tom Ellis yn troi mewn cylchoedd newydd, yn datblygu ei feddwl ac yn ehangu ei orwelion. Am y tro cyntaf, roedd daearyddiaeth wedi dod rhwng Daniel ac Ellis oherwydd o'r funud yr aeth Tom Ellis i'r brifysgol, ni fu i'r dynion hyn fyw yn barhaol yn agos at ei gilydd eto. Beth felly oedd effaith hyn ar y berthynas a'r deinamig rhyngddynt hwy, a chydag O.M. Edwards?

---

[320] Christine Heward, 'Masclinities and Families' yn Mártín Mac an Na Ghaill, *Understanding Masculinities*, tt. 38-39.

[321] Yn wir, dilynodd O.M. Edwards bron yr union lwybr â Tom Ellis gan fynychu Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth rhwng 1880 ac 1883, Prifysgol Glasgow rhwng 1883 ac 1884 a Phrifysgol Rhydychen rhwng 1884 ac 1887.

Wedi i Tom Ellis symud i Aberystwyth, dechreuodd gohebiaeth gyson a di-dor rhyngddo a D.R. Daniel a barhaodd tan ei farwolaeth yn 1899. Mae cysondeb y llythyrau rhyngddynt yn arddangos ymroddiad y ddau i gynnal y berthynas. Wedi gadael Ysgol Ramadeg y Bala, aeth D.R. Daniel i astudio yng Ngholeg yr Annibynwyr yn y Bala. Mae'n aneglur pam nad aeth ef, fel Ellis ac yn ddiweddarach Edwards, ymlaen i astudio ar lefel prifysgol. Awgryma K.W. Jones-Roberts efallai bod hyn o ganlyniad i ddiffyg arian neu'r angen iddo aros adref i gynorthwyo ei fam weddw ar y fferm.[322] Gellir awgrymu, er hyn, bod Daniel wedi profi bywyd prifysgol trwy gynnwys llythyrau Tom Ellis. Pan oedd Ellis yn ddifrifol wael yn yr Aifft yn 1890, ysgrifennodd Daniel ato gan nodi:

> Gadewch i mi ddiolch i chwi pan yr ydych yna yn nistawrwydd tragwyddol anialwch Thebes am eich gwasanaeth i mi. Am agor bydoedd o flaen fy meddwl. Bydoedd maen wir nad ydwf wedi gallu archwilio ond ychydig arnynt… Rwyn teimlo er na fum erioed yno i mi ddeall beth ydoedd diwylliant Rhydychain. Cefais dipyn o ddafnau or gawod sydd yn disgyn ar weirgloddiau y ddinas hono yn ystod y 4 blynedd neu 5 y buoch chwi yno.[323]

Wrth i Tom Ellis ddechrau llunio gyrfa iddo'i hun a derbyn llwyddiannau yn y byd academaidd cyhoeddus, parhaodd ei gysylltiad a'i gyfeillgarwch gyda D.R. Daniel. Yn hytrach na thrafod profiadau cyffredin a hanesion lleol yn unig, sicrhaodd Ellis bod Daniel yn dod yn rhan o'r bywyd newydd hwn. Nid oedd y ffaith nad aeth D.R. Daniel i brifysgol i astudio yn ei rwystro rhag cael mynediad at fywyd newydd Tom Ellis ac roedd yn fwriad gan Ellis i bontio'i fywyd academaidd gyda'i fywyd personol a oedd wedi ei sefydlu yn yr ardal leol. Mae hyn yn cynnig trywydd newydd sydd yn mynd y tu hwnt i'r ystyriaeth o sefydliadau fel ysgolion a mudiadau ieuenctid i feithrin cyfeillgarwch, ac yn datblygu syniad John Tosh o astudio'r byd gwaith a chwmnïaeth gwrywaidd er mwyn meithrin perthynas rhwng

[322] Jones-Roberts, 'D.R. Daniel', t. 75.
[323] LlGC Daniel 115, D.R. Daniel at Tom Ellis, 5 Chwefror 1890.

dynion.[324] Roedd y berthynas bersonol hon wedi ei hen sefydlu cyn i Ellis gyrraedd y sefyllfaoedd hyn, a sicrhaodd fynediad i Daniel i'r bydoedd newydd.

Roedd Daniel felly yn dysgu am fywyd prifysgol trwy ei gyfeillgarwch gydag Ellis, ac Ellis yn gymorth i ddatblygu cymeriad Daniel ac ehangu ei orwelion. Yn ystod ei gyfnod yn Aberystwyth, nodweddiadol oedd llythyr yn cynnwys y geiriau:

> *I shall be very glad to see you and tell you about the "Varsity blokes (students), their varsity slangs and their customs &c. How is it getting on about TynyBryn and Cefnddwysarn. Would you like for me to bring anything to you, books or any thing.*[325]

Dyma gwmpasu sawl elfen o fywyd prifysgol mewn ychydig eiriau. Ymhellach, roedd llenyddiaeth yn ganolbwynt i nifer fawr o lythyrau Ellis at Daniel yn ystod ei gyfnod prifysgol. Gwelir bod Ellis yn ei weld yn gydradd ag ef o ran gallu, gan ofyn ei farn yn hytrach na thraethu iddo, *'I will make no comments on the book, but let you decide – if you want any more information about it, then send as soon as you can, and I will endeavour to supply you with the information.'*[326] Parha y rhannu hyn yn ystod ei gyfnod yn Rhydychen yn ogystal. Ceir disgrifiadau o Tom Ellis yn darllen gwaith Matthew Arnold[327] ac yn annog Daniel i brynu *The Graphic* a oedd yn cynnwys erthygl am y nofelydd George Elliot.[328] Ar achlysur gwahanol, trafoda bapur ar bregeth Jowett[329] ar ieuenctid gan obeithio y byddent yn medru ei ddarllen gyda'i gilydd rhyw ddydd.[330] Yn yr un modd, tra yn Aberystwyth, cynigia, *'The Register of the College is out and if you want me*

---

[324] Tosh, 'What Should Historians Do With Masculinity?'.
[325] LlGC Daniel 178, Tom Ellis at D.R. Daniel, (8 Mawrth 1875).
[326] LlGC Daniel 196, Tom Ellis at D.R. Daniel, (1876).
[327] Roedd Matthew Arnold (1822-1888) yn fardd, addysgydd ac yn awdur ar faterion cymdeithasol.
[328] LlGC Daniel 203, Tom Ellis at D.R. Daniel, (24 Ionawr 1881) & LlGC Daniel 240, Tom Ellis at D.R. Daniel, 26 Ionawr 1883.
[329] Roedd Benjamin Jowett (1817-1893) yn ddiwinydd, tiwtor a Meistr Coleg Balliol, Rhydychen. Dyma'r coleg fynychodd O.M. Edwards fel myfyriwr.
[330] LlGC Daniel 212, Tom Ellis at D.R. Daniel, 2 Chwefror 1882.

*to bring you anything in the way writing books or discount books, I shall be only too glad to bring them for you.'*[331] Gellir awgrymu felly, nid yn unig bod Tom Ellis yn ystyried Daniel yn gydradd iddo er ei ddiffyg addysg prifysgol, bod Ellis yn annog datblygiad meddwl Daniel wrth rannu'r gweithiau y byddai yntau wedi eu hastudio gydag ef. Yn wir, ar un adeg, anfonodd Ellis gopi o draethawd Cymraeg at Daniel gyda'r marciau arno a phapurau Mathemateg a Lladin iddo eu hystyried.[332] Ymhellach wedi iddo gael ei ethol yn aelod o Gymdeithas Traethodau Coleg Newydd Rhydychen, ysgrifennodd at D.R. Daniel gan ddweud, *'Think of a subject for me, will you?'* a phan mae'n dewis ysgrifennu traethawd ar etifeddeg, ysgrifennodd, *'Send me any facts or thoughts on the subject.'*[333]

Mae llythyrau O.M. Edwards at Daniel yn cefnogi'r syniad hwn ei fod ef, fel Ellis, yn parchu barn a deallusrwydd Daniel. Nid oes hanner cymaint o enghreifftiau a llythyrau i ategu hyn, ond yn sicr mae'r un thema yn amlwg yn yr ohebiaeth ganddo yntau at Daniel. Pan gyrhaeddodd Tom Ellis Rydychen, er enghraifft, anfonodd gopi o'r *Oxford Magazine* at fachgen o'r enw Bob Parry a oedd i'w rannu gydag O.M. Edwards a byddai yntau'n anfon y copi ymlaen at D.R. Daniel.[334] Mae O.M. Edwards yn crisialu'r rhannu profiadau hwn mewn llythyr at Daniel o Lundain yn disgrifio ei atgasedd o'r ddinas, *'But as we have "climbed many a hill thegither" in our thirst for knowledge I thought you would not object to a short epistle'.*[335] Ceir yr argraff bod Edwards, fel Ellis, wedi sicrhau bod Daniel yn ehangu ei feddwl gyda hwy. Ysgrifennodd Edwards at Daniel o Rydychen, *'Just a word to say where Ellis and I were thinking of you last evening, - in a Socialist meeting, hearing William Morris and Dr Aveling.[336] We had a chat with them afterwards. You wd have been delighted with Aveling'.*[337] O ran y

---

[331] LlGC Daniel 196, Tom Ellis at D.R. Daniel, (1876).
[332] LlGC Daniel 185, Tom Ellis at D.R. Daniel, 6 Ionawr 1875.
[333] LlGC Daniel 226, Tom Ellis at D.R. Daniel, (31 Hydref 1882) & LlGC Daniel 227, Tom Ellis at D.R. Daniel, 12 Tachwedd 1882.
[334] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/1/105, Tom Ellis at O.M. Edwards, heb ddyddiad.
[335] LlGC Daniel 992, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 3 Tachwedd 1883.
[336] Roedd Dr Edward Aveling (1849-1898) yn fiolegydd a oedd yn cefnogi damcaniaeth Darwain a sosialaeth. Cyfrannodd at sefydlu'r Blaid Lafur Annibynnol.
[337] LlGC Daniel 995, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 26 Chwefror 1885. Ni cheir trafodaethau penodol ynghylch sosialaeth yn y llythyrau rhwng Daniel, Ellis ac Edwards.

parch at allu ei gilydd felly, roedd y berthynas rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards wedi parhau yn gyson yn dilyn eu cyfnod ysgol. Gan gofio'r farn bod Ellis wedi llwyddo ar hanner gallu Daniel, dadleuir felly bod Tom Ellis ac O.M. Edwards wedi ehangu gorwelion D.R. Daniel tra roeddent yn y brifysgol yn hytrach na'i addysgu.[338]

Dychwelwn at yr awgrym a wnaed eisoes ynghylch pwysigrwydd addysg i Daniel, Ellis ac Edwards fel carreg filltir hanfodol i sicrhau eu cynnydd, a'r gred y byddai addysg yn sicrhau gyrfa a bod dynion yn cyrraedd safle o barch mewn cymdeithas. Trafoda Ellis ddiddordeb Daniel mewn mynychu Prifysgol Aberystwyth yn eu gohebiaeth.[339] Tra'n fyfyriwr yno ei hun, ysgrifennodd '*It is not very hard to come to the college. You could come if you study. There are little boys there, some one or two smaller than you.*'[340] Ymchwiliodd Ellis yn fanwl iawn i'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig o Daniel pe bai'n ymgeisio am le yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac ysgrifennodd ato yn ei annog i astudio mathemateg a Lladin a dweud y byddai'n pasio'r prawf mynediad yn rhwydd pe bai'n astudio mathemateg a gramadeg Saesneg.[341] Yn wir, mae llythyrau cynnar Tom Ellis at O.M. Edwards yn arddangos anogaeth lwyr gan Ellis i'w yrfa academaidd yntau. Mewn cyfnod o ansicrwydd, trodd Edwards at Ellis pan gafodd ei siomi gyda'i berfformiad yn arholiadau Llundain yn 1883. Pasiodd yr arholiad heb anrhydedd er y teimlai y bu iddo gyflwyno gwaith gorau ei fywyd:

> *I thought of waiting till the result of my examination should be out, that I might give you an account of my London Course, but when that result came I had not the heart to write anything about it. But I am going to tell you now what I think of the London degree and the training for it, and for fear you may think that my failure has in the*

---

Am ystyriaeth o agwedd O.M. Edwards at y dosbarth gweithiol, gweler Sherrington, 'O.M. Edwards, Culture and the Industrial Classes', tt.28-41. Yn ogystal, am wybodaeth bellach am ddiddordeb Tom Ellis ac O.M. Edwards mewn sosialaeth, gweler Martin Wright, 'Wales and Socialism: Political Culture and National Identity' (thesis PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Caerdydd, 2011), yn benodol tt. 209-214.

[338] Gweler J. Graham Jones, 'A Biography for Thomas Edward Ellis', t. 50.

[339] LlGC Daniel 174, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.

[340] LlGC Daniel 186, Tom Ellis at D.R. Daniel, Ionawr 1875.

[341] LlGC Daniel 188, Tom Ellis at D.R. Daniel, 11 Chwefror 1875.

> *least embittered me, I may tell you that I have written exactly the same opinion to friends of mine before the result of the examination was published…*
>
> *I thought I had never written anything better than my answers to some of the questions, and I was very bitterly disappointed at learning that I had no honours whatever…*[342]

Ymateb Ellis i siom Edwards oedd ysgrifennu am y *'shameful proceeding of your Philosophy Exam, and to ask you to dispel any momentary despondency which might hang about your soul.'* Roedd yn falch o weld canlyniadau Edwards yn nosbarth Nichol[343] yng Nglasgow ac yn sicr ei fod yn *'pot-sure'* am y Brackenbury [ysgoloriaeth i Rydychen].[344] Mae'r dyfyniadau hyn yn awgrymu ei fod yn deall cymeriad ei gyfaill, a'r swildod y cyfeiriwyd ato yn y bennod gyntaf, i'r dim. Gwyddai y byddai methiant mewn arholiad wedi niweidio ei hyder ac mae'n ei annog i barhau gyda'i waith. Mae'n arwain ei hen gyfaill yn ystod cyfnod anodd o fewn y byd academaidd. Yn wir, ar ddod yn Aelod Seneddol yn dilyn marwolaeth Ellis, ysgrifennodd Edwards, 'Teimlwn ei law ar fy ysgwydd, megis yn yr amser gynt.'[345]

Yn yr un modd, roedd clywed am lwyddiant academaidd Edwards yn dod â phleser a balchder i Tom Ellis. Ysgrifennodd ato i'w longyfarch ar ganlyniad ei arholiadau yn Aberystwyth a'i annog i fynd i Rydychen i astudio gan ofyn am fanylion penodol ynglyn â'i leoliad o fewn y dosbarth yn dilyn pasio ei arholiadau '*Matric*'.[346] Yn wir, er mwyn sicrhau lle i Edwards yn Rhydychen, cysylltodd Tom Ellis gyda thiwtor hanes ar ei

---

[342] LlGC Daniel 993, O.M. Edwards at Tom Ellis, 26 Rhagfyr 1883.
[343] Roedd John Nichol (1833-1894) yn ddarlithydd a thiwtor Saesneg ym Mhrifysgol Glasgow rhwng 1862 ac 1889.
[344] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/2/31,Tom Ellis at O.M. Edwards, 29 Mawrth 1884.
[345] O.M. Edwards, 'Adgofion', t. 246. Am fanylion pellach am yrfa Edwards fel Aelod Seneddol, gweler trafodaethau trydedd bennod yr astudiaeth hon & J. Graham Jones, 'The Littérateur as Politician: Owen M. Edwards M.P.', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 17:4 (Rhagfyr 1995), tt. 571-589.
[346] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/1/76, O.M. Edwards at Tom Ellis, (1883) & LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/3/1, Tom Ellis at O.M. Edwards, (1885).

ran.[347] Cynigiodd gymorth i lywio gyrfa Edwards mewn modd ymarferol yn ogystal â chynnig anogaeth a chefnogaeth emosiynol yn ystod cyfnodau anodd. Gwelwyd balchder llwyr yn llythyrau Ellis hefyd wrth iddo ysgrifennu at Daniel yn 1886 i'w hysbysu fod Edwards *'scored a good point at Oxford'* gan ennill gwobr Stanhope am draethawd Hanes.[348] Atgyfnerthir y pleser hwn flynyddoedd yn ddiweddarach yn y modd y trafodai Tom Ellis lwyddiant academaidd O.M. Edwards a'i frodyr yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol mewn araith ar addysg yn Nhŷ'r Cyffredin:

> *Almost within sight of my own home there is a farmer farming about 30 acres. His eldest boy, who at 12 could not speak English, succeeded ultimately in getting a Brakenbury Scholarship at Balliol and a Fellowship, having taken three University prizes in three successive years, whilst a brother of this lad, inspired by the example thus set him, went to the local Grammar School, took degrees in London with honours, and is now going in for Moral Science at Cambridge, while the third brother is at the local Grammar School exhibiting equal promise and ability.*[349]

Cadarnhaodd D.R. Daniel y gred hon am edmygedd Ellis o berthynas a llwyddiannau Edwards a'i frodyr[350] ym mhrifysgolion amlycaf y deyrnas, 'Ni flinai Ellis son am y peth rhyfedd hwn.'[351] Dyma arddangos nid yn unig gymeriad addfwyn a chefnogol Ellis, ond y gwerth a roddwyd ar dderbyn addysg brifysgol fel trothwy i sicrhau cynnydd yn y bydoedd academaidd a chyhoeddus.

Mae cyfnod Tom Ellis ac O.M. Edwards yn y brifysgol yn datgelu llawer am y deinamig rhwng y tri chyfaill ysgol. Er nad aeth Daniel i brifysgol, mae Ellis ac Edwards yn rhannu eu profiadau gydag ef gan sicrhau ei fod yn

---

[347] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/2/31, Tom Ellis at O.M. Edwards, 29 Mawrth 1884.
[348] LlGC Daniel 317, Tom Ellis at D.R. Daniel, 6 Mai 1886.
[349] Tom Ellis, 'Education (Wales) Bill' yn Annie Ellis, *Speeches and Addresses*, t. 223.
[350] Mae Tom Ellis yn trafod llwyddiannau O.M. Edwards a'i ddau frawd ieuengaf yma – Edward Edwards a drafodwyd eisoes ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon a John Morgan Edwards (g.1868) a ddaeth yn brifathro Ysgol Ramadeg Treffynnon.
[351] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 29.

ehangu rhywfaint ar ei orwelion. Ymhellach, cadarnheir y syniad bod Tom Ellis yn rhoi arweiniad i'w gyfeillion. Ef aeth i ffwrdd i'r brifysgol yn gyntaf ac ef agorodd lygaid y ddau arall i fywyd prifysgol. Wrth bontio ei gyfeillgarwch personol gyda'i fywyd academaidd, arweiniodd ei ddau gyfaill i brofiadau addysgol a'u hannog i ddilyn trywyddau newydd eu hunain. Dengys y gefnogaeth a'r anogaeth i'w gilydd eu bod yn croesawu'r cyfle i rannu eu profiadau.

Gwelwn y pwyslais a roddwyd ar bwysigrwydd addysg er mwyn gwneud cynnydd yn y byd, rhywbeth sydd yn cael ei atgyfnerthu yn llythyr Tom Ellis at yr Arglwydd Aberdâr yn y bennod flaenorol. Roedd Ellis yn annog ei gyfeillion i ddilyn gyrfa brifysgol er mwyn sicrhau eu datblygiad meddyliol, ond hefyd roedd yn fodd o wneud cynnydd ariannol a gyrfaol. Dyma gyfle i ystyried addysg fel carreg filltir i ddynion ifainc wrth iddynt ddod yn oedolion. Adlewyrchir y gwerth a roddwyd ar gynnydd academaidd yn y balchder a deimlai Tom Ellis am lwyddiannau O.M. Edwards a'i frodyr.

Ni ddylid ystyried y berthynas rhwng y tri gŵr hyn yn rhywbeth statig. Roedd Ellis yn rhoi arweiniad i Edwards, ac eto yn edmygwr mawr o'i lwyddiannau ef a'i frodyr. Roedd Edwards yn dibynnu ar anogaeth Ellis ac eto yn gwthio Daniel a'i frodyr ei hun i lwyddo. Byddai meddwl Daniel yn cael ei ehangu trwy brofiadau prifysgol ei gyfeillion, ond roedden nhw'n ei ystyried yn gydradd gyda hwy.

## Carwriaeth

Yn ystod eu harddegau a'u hugeiniau cynnar y bu i Ellis a Daniel ddechrau dangos diddordeb mewn merched ifainc am y tro cyntaf. Sefydlasant math o glwb gyda'u ffrindiau lleol yn ardal Cefnddwysarn o'r enw'r *Hill & Vale* yn ystod yr 1880au cynnar.[352] Tra roedd i ffwrdd yn y brifysgol, byddai Daniel

[352] Ni cheir unrhyw awgrym bod O.M. Edwards, a oedd yn byw yn Llanuwchllyn, yn rhan o'r grŵp hwn yng Nghefnddwysarn. Dechreuodd ganlyn Elin Davies yn 1887, ond ni cheir trafodaeth o'u perthynas yn ei lythyrau at Daniel ac Ellis. O bosibl, roedd hyn o ganlyniad i

yn adrodd yn ôl i Ellis ar yr hyn a wnai'r bechgyn lleol a'r diweddaraf gyda merched yr ardal hefyd. Yn wir, mewn un llythyr, anfonodd Daniel fraslun o gyplau at Ellis a defnyddio llysenwau iddo fod yn ymwybodol o'r merched gwahanol.[353] Dyma arddangos y modd y bu i Daniel ddarparu dolen gydag ardal enedigol Tom Ellis gan iddo addo anfon '*full reporsts about H&V hence forth.*'[354] Roedd yn bwysig i Ellis dderbyn gwybodaeth am yr hyn oedd yn mynd ymlaen, *'Simply cruel of you to keep me utterly unposted in the doing of the old world of H & V.'* [355] Cyfeiriadau yn bennaf a geir yn y llythyrau rhwng y ddau ond mae datblygiad elfennau personol eu perthynas wrth i Ellis wneud cynnydd academaidd yn arddangos y modd yr oedd eu bywydau wedi eu gwau i'w gilydd. Yn ystod yr un cyfnod, dechreuodd Daniel olygu, ac ysgrifennu gyda llaw, newyddiadur o'r enw 'Y *Club*' a oedd yn trafod newyddion lleol yn ymwneud ag oddeutu 40 o aelodau a oedd yn cyfarfod yn gyson. Cynhwysa'r drydedd rhifyn lythyr o Rydychen gan Tom Ellis yn canmol y rhifynnau ac yn nodi ei fod gyda hwy mewn ysbryd, er ei fod yn absennol o'r cyfarfodydd tra yn y brifysgol.[356] Deallir mwy am 'y Clwb' yng nghofiant byr R. Evans i Tom Ellis. Byddai'r ffrindiau o'r ardal yn cyfarfod yn nhŷ Miss Margaret Jones, Cefnddwysarn 'a'i orchwyl penaf oedd trin a thrafod helyntion lleol a phersonol mewn hwyl a digrifwch diniwed... Cynullai Y Clwb bob nos y byddai moddion yn y Capel, ac amlach, a cheid yno holl newyddion yr ardal a phellebron am y digwyddiadau hynotaf.'[357]

Mae cynnwys y llythyrau'n awgrymu i'r *Hill & Vale* ddod i ben oddeutu 1883 wrth i'r bobl leol ddarganfod trafodaethau bechgyn ifainc yr ardal am y merched. Awgrymodd Ellis mai *'sad mistake'* oedd yr *Hill & Vale* pe byddai cynnwys trafodaethau'r bechgyn ifainc wedi brifo'r merched a'u penteuluoedd.[358] Er hyn, mae Ellis hefyd yn dechrau ystyried os oedd

swildod O.M. Edwards a'i fod yn ddyn preifat. Yn ogystal, nid oedd wedi cadw mewn cysylltiad mor agos gyda'i ffrindiau ar ôl gadael ardal y Bala yn 1880.

353 LlGC Daniel 87, D.R. Daniel at Tom Ellis, nos Fawrth.

354 LlGC Daniel 99, D.R. Daniel at Tom Ellis, bore Mawrth.

355 LlGC Daniel 284, Tom Ellis at D.R. Daniel, (25 Mai 1883).

356 LlGC Daniel 2451, 'Y Club, Newyddiadur Anghyoedd': Cyfrol 1: Rhifynnau 3 a 4 (Ionawr a Chwefror 1882).

357 R. Evans, *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion*, t. 25.

358 LlGC Daniel 239, Tom Ellis at D.R. Daniel, nos Lun (23 Ionawr 1883).

rhywun yn Swyddfa'r Post lleol yn darllen y llythyrau rhyngddo ef a Daniel gan iddo ysgrifennu, *'I made out all the hieroglyphics with a little care. I have very strong suspicions letter had been tampered with'* gan eu bod wedi creu sïon yn yr ardal. Ar ben y llythyr ychwanegodd, '*SEAL YOUR LETTERS*'.[359] Mae'r frawddeg hon yn adlais o'r llythyrau cynnar rhwng Daniel ac Ellis ble roeddent yn ystyried anturiaethau i ehangu eu gorwelion gyda thripiau gwahanol a'r llyfrau yr oeddent am eu darllen. Wrth dyfu'n ddynion, roedd y syniad o antur yn parhau, ond mewn ffordd ychydig yn fwy direidus wrth ddatblygu eu bywydau carwriaethol. Mae'r llythyr dilynol felly'n cynnwys y geiriau, '*May I request of you to communicate with me, if this letter will have been opened, or tampered with, before it reaches your hand. If anything of that nature happens it will add another link to considerable evidence I have on the subject.*'[360] Yn hwyrach, ysgrifennodd Ellis, *'Try the dodge of opening this – assume you are postmaster or postmaster's daughter, and see if you could be detected.'*[361]

Yn ystod yr 1880au cynnar daeth Daniel yn gyfeillgar gyda'i ddarpar wraig, Sarah Jones ac erbyn iddo fynd i America am gyfnod yn 1885, roeddent mewn perthynas ddifrifol gyda'i gilydd.[362] Gellir awgrymu bod Tom Ellis wedi chwarae rhan ym mywyd carwrol D.R. Daniel. Wrth geisio trefnu cyfarfod yn y Bala, ysgrifennodd Sarah at D.R. Daniel yn gofyn iddo wneud esgus, *'couldnt you pretend that you wanted to Post a letter for Ellis.'*[363] Yn wir, mewn llythyr cynnar yn eu perthynas, ysgrifennodd Sarah at D.R. Daniel gan greu'r syniad bod Ellis a Daniel yn ceisio canlyn merched o fewn yr un grŵp. Ysgrifennai:

> *After leaving your Angelic presence, we had a "council of war" to arrange manoeuvers for this* <u>*evening*</u> *(Thursday) we purpose having or rather spending a jolly evening with Wednesday's Corps + Major*

[359] LlGC Daniel 236, Tom Ellis at D.R. Daniel, (16 Ionawr 1883).
[360] LlGC Daniel 237, Tom Ellis at D.R. Daniel, 18 Ionawr 1883.
[361] LlGC Daniel 277, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.
[362] Roedd Sarah Jones yn ferch i berchenog Siop Isa Llandderfel. Am y llythyr cyntaf rhyngddynt sydd wedi ei ddyddio, gweler LlGC Daniel 2421, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 1883.
[363] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, bore Gwener.

> *T.E. Ellis of the 9th Brynbwlan[364] Regiment, unless elsewhere engaged with one of her Majesty's (Feemale) subjects, the skirmish to commence about 8 pm by Tynddol Lladderfel.*[365]

Ar achlysur arall disgrifia'r modd yr oedd hi a merch o'r enw Mary yn cofio am noson pan aeth Ellis, Daniel a bachgen o'r enw W.D. i'r dafarn ble roedd hi'n gweithio gan wneud sŵn gyda photel '*ginger beer*'[366] neu disgrifia Ellis, Daniel a Tom, Tynycoed yn mynd i'r Bryn i *'keep a row after. Many a bit of fun you had by coming down to Llan.'*[367] Dyma'r cyfnod pan y byddai Ellis i ffwrdd yn Rhydychen ac yn rhannu ei brofiadau addysgol gyda Daniel. Eto i gyd, pan ddychwelai i Gefnddwysarn byddai'r ddau yn treulio amser yng nghwmni merched lleol. Yn sgil hyn, a chynnwys yr ohebiaeth rhyngddynt, daeth Ellis yn rhan o brofiadau newydd i Daniel wrth iddo yntau ddechrau canlyn ei ddarpar wraig.

O'r cychwyn cyntaf, datblygodd math o gyfeillgarwch rhwng Tom Ellis a Sarah Jones oherwydd eu bod yn dod o'r un ardal, ond yn benodol oherwydd eu hagosatrwydd at D.R. Daniel. Tra roedd D.R. Daniel yn America,[368] ysgrifennodd Tom Ellis ato yn trafod rhai o'r merched lleol, gan gynnwys disgrifiad o M.N. (Sarah siwr o fod), gyda'r geiriau ei bod yn '*ripening into womanhood, and her attachment to you is deepening into true and faithful love.*'[369] Ymhellach, byddai Tom Ellis yn treulio rhywfaint o amser yn ei chwmni tra roedd ei gyfaill i ffwrdd. Ar un achlysur, ysgrifennodd Sarah at D.R. Daniel yn disgrifio trip i fyny'r mynydd gyda grŵp o ferched, a Tom Ellis fel yr unig ddyn.[370] Ar achlysur arall,

---

[364] Brynbwlan oedd cartref ewythr Tom Ellis.
[365] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 1.30am.
[366] O bosibl, mae'r dewis hwn o ddiod yn adlewyrchu eu cefnogaeth i'r ymgyrch ddirwestol.
[367] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 23 Mehefin a nos Sadwrn 4ydd 1885.
[368] Aeth D.R. Daniel i America am rai misoedd yn 1885 i weithio fel newyddiadurwr i'r papur newydd *Y Drych*. Ysgrifennodd at Sarah o fwrdd ei long ar 23 Mai 1885 a cheir llythyrau ati ganddo o Utica, Efrog Newydd; Fairhaven, Vermont; Granville, Efrog Newydd; Chicago, Illinois; sawl lleoliad yn Wisconsin; Ipswich, Dakota; Minneapolis, Minnesota. Teithiodd rhywfaint felly yn rhinwedd ei swydd cyn dychwelyd i Gymru. Mae'r llythyr olaf at Sarah o America yn ddyddiedig 26 Hydref 1885. Gweler LlGC Daniel 2021, D.R. Daniel at Sarah Daniel am y llythyrau anfonodd Daniel at ei gariad tra yn America.
[369] LlGC Daniel 300, Tom Ellis at D.R. Daniel, 17 Medi 1885.
[370] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 24 Awst 1885.

ysgrifennodd at Daniel yn disgrifio mynd i gyfarfod dirwest gyda Tom Ellis a Daniel yn ymateb ei fod yn medru ei dychmygu yn aros wrth y giat ar gyfer Ellis, a hwythau'n cerdded gyda'i gilydd yn sgwrsio. Yn yr un llythyr, mae D.R. Daniel yn rhoi mewnwelediad i'w berthynas gyda Tom Ellis:

> *Indeed, what he told you about, his going out to the fields when he came home, and not finding me any where filled me with hiraeth... Tom has received my letter long ere this: it was not exactly the* <u>*short*</u> *note that he expected though not a very lengthy one either. Yet it will be in some hayshed or barn that Tom and myself shall put things right by and bye, if I am spared to come home. I am sorry to hear that he does not look so well as usual may be that the level plains of Cheshire*[371] *will suit him better…*
>
> *Tom Ellis I see with his usual generosity spoke some kind words of me there* [mewn cyfarfod lleol]. *Now I am sure Sall that* <u>*you*</u> *did not put up your hand. Ha. Ha. Ha, Now is not that true*?[372]

Dyma ddyfyniad hynod ddiddorol gan ei fod yn datgelu'r ffaith bod Tom Ellis wedi rhannu ei hiraeth am ei ffrind gyda chariad Daniel a bod D.R. Daniel yn cydnabod bod hyn yn codi hiraeth arno ef. Ceir awgrym hefyd bod perthynas D.R. Daniel a Sarah Jones yn parhau yn gudd am y tro gan nad oedd hithau wedi cytuno gyda geiriau caredig Tom Ellis am ei chariad. Does dim amheuaeth felly na fyddai Sarah yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf o'r agosatrwydd rhwng Daniel ac Ellis ac mae'r dyfyniadau uchod yn awgrymu ei bod wedi derbyn eu cyfeillgarwch. Mae'n ymddangos felly nad oedd Daniel yn medru dechrau perthynas ddifrifol gyda menyw heb fod Tom Ellis yn dod i'w hadnabod yn well hefyd. Roedd Ellis wedi cael mynediad i brofiadau ei gyfaill wrth i Daniel groesi trothwy newydd yn ei fywyd carwriaethol. Unwaith yn rhagor, gwelir pwysigrwydd rhannu profiadau i gynnal y cyfeillgarwch. Adlewyrchir hyn yn yr ymddiriedaeth

[371] Yn dilyn ei gyfnod yn y brifysgol, treuliodd Ellis amser yn gweithio fel ysgrifennydd personol i'r Aelod Seneddol Rhyddfrydol, John Brunner a gynrychiolai etholaeth Northwich, Sir Gaer.
[372] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 26 Awst 1885.

lwyr yr oedd gan Daniel yn Ellis wrth iddo dreulio amser gyda'i gariad ac yntau yn America. Wrth ymateb i ddisgrifiad Sarah o drip i Bont Menai, ysgrifennodd:

> *There was no one in the world I think I would have preferred you going with him than Tom Ellis; for I dont think him capable of anything mean. I am so glad that he was attentive to you. That of course helped you to enjoy the day. You would have been lonely since J. Owen did not come… You say that Tom was the only one that sympathized with you. Yes Tom I always think is of a very sympathetic nature. The description filled me with a kind of longing…*
>
> *And believe me to be with the very very best of love and ten thousand loving kisses the same "Old boy" David your DR.*[373]

Daeth bywyd carwriaethol D.R. Daniel yn destun trafod i chwiorydd iau Tom Ellis gydag yntau yn dweud i'w chwaer, Kate, ysgrifennu ato'n disgrifio Daniel yn gadael i ddwy ferch gerdded adref heb eu hebrwng er mwyn iddo yntau gerdded un arall, Sarah o bosibl, adref i Landderfel.[374] Roedd ganddynt ddiddordeb mawr yn ei berthynas gyda Sarah Jones. Roedd merched Cynlas a Miss Davies Tynycoed wedi gofyn i ffrind iddi tra roedd Daniel i ffwrdd pam ei bod yn edrych mor welw ac isel ei hysbryd. Ymateb ei ffrind oedd, '*she told them that I didnt, only that mourning made me look pale, what gossips they are, they are trying their best to find something to say about me but it goes in through one year and out through the other*.'[375] Mewn llythyr arall yr oedd Daniel wedi nodi ei fod yn falch nad aeth brawd Sarah i Gynlas oherwydd, '*Most likely he would have been put under a rather rigourous cross examination as to your whereabouts at the time*.'[376] Roedd datblygiad ym mywyd carwriaethol Daniel felly yn cael ei ystyried yn destun trafodaeth i deulu Tom Ellis, er nad oedd ef na Sarah yn ei

---

[373] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 29 Awst 1885.
[374] LlGC Daniel 283, Tom Ellis at D.R. Daniel, dydd Sul (20 Ebrill 1884).
[375] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 20 Mehefin 1885.
[376] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 11 Mehefin 1885.

werthfawrogi o reidrwydd. Mae hyn yn gyson gyda diddordeb hanner brawd Daniel yn y berthynas. Yr oedd wedi gweld Sarah yn y capel gyda'i wraig a'i fab[377] ac y bu iddi hi ysgrifennu at Daniel, '*Your Brother gave me such a sly look 2 or three times and I kept looking at the little boy all the time.*'[378]

Yn wir, ceir cyfeiriadau at fywyd carwriaethol chwiorydd Tom Ellis hefyd yn y llythyrau rhwng Daniel a'i ddarpar wraig. Ar un achlysur, disgrifia Sarah ei bod wedi bod yn siarad gyda dyn o'r enw W.C. oedd am drefnu cwrdd ac roedd am i Jennie Ellis fynd er mwyn iddo gael syniad o sut un oedd hi mewn cwmni. Swyddogaeth Daniel oedd gofyn iddi, er nid oedd i roi gormod o fanylion i Jennie Ellis am eu bwriadau ynghylch W.C.[379] Tra yn America, ysgrifennodd Sarah at D.R. Daniel gan nodi ei bod wedi clywed bod Mary Ellen, chwaer arall i Ellis, wedi dyweddio â gŵr o'r Drenewydd. Ysgrifennodd, *'I do hope that its true about the poor girl, she wants someone very much, she is now on a visit to Mold, and Kate at Ffestiniog.'*[380] Dyma felly blethu teulu Cynlas a datblygiad carwriaethol Daniel, a'i ddiddordeb yntau ym mherthnasau'r chwiorydd, sydd yn cryfhau'r ddolen rhyngddo ef ac Ellis.

Gan gofio y bu i Daniel briodi yn 1887, un ar ddeg o flynyddoedd o flaen Ellis, mae'r cyfeiriadau at y merched lleol oedd yn dal llygaid Ellis tra roedd yn fyfyriwr yn cynnig gwedd newydd ar ei fywyd personol yn ystod y cyfnod hwn. Ceir cyfeiriad cyson at ddiddordeb Ellis mewn merch leol o'r enw *'Pretty Jane'* – merch yr oedd yn llythyru gyda hi.[381] Ceir cyfeiriad bod *'Jane Bryn in giggly mood'* ac, ar adeg arall teimlai Ellis ei bod hi'n flin gydag ef am iddo ef a'r bechgyn eraill droi yn ôl yn lle cwrdd â'r merched un noson yn ystod gwyliau ac roedd hi wedi ymestyn ei gwyliau er mwyn treulio amser gydaf ef.[382] Yn y llythyrau hyn, ceir awgrym o gymeriad Tom Ellis fel dyn ifanc oedd yn swil o flaen y merched:

---

[377] Meredydd Evans oedd enw nai D.R. Daniel. Bu farw yn 4 oed yn 1886.
[378] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 20 Mehefin 1885.
[379] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, heb ddyddiad.
[380] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 30 Medi 1885.
[381] LlGC Daniel 103, D.R. Daniel at Tom Ellis, noswaith Fawrth.
[382] LlGC Daniel 234, Tom Ellis at D.R. Daniel, (12 Ionawr 1883) & LlGC Daniel 266, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad.

> *…the sweet face of P.J. [Pretty Jane] herself which dumbfounded me, but there I found myself, unable to gain my composure by a hearty squeeze of the hand because I was on the pony, and involuntarily asking silly questions about one thing and another. A bright blush – indeed heavy flush – on P.J.'s face did not help to cool me.*[383]

Yn sicr, cafodd *'Pretty Jane'* gryn effaith ar Tom Ellis. Ymhellach, roedd Dydd San Ffolant yn gyfle iddo ddatgan ei ddiddordeb mewn merched. Awgrymir mewn llythyr i Ellis dderbyn cerdyn Ffolant gan ferch o'r *Hill & Vale*, gan drio ei throi yn ei erbyn gan fod un o'r dynion eraill yn hoff ohoni.[384] Yn 1884, disgrifia Ellis anfon cyfres o gardiau at ferched y '*Valers'*, *'Last Saturday sent a series of Valentines to S.S., M.N., K., and P.J. … See them if you can, and let me know what Valers think.'*[385] Ar adegau, roedd merched Rhydychen hefyd yn rhan o'r drafodaeth wrth i Tom Ellis ysgrifennu at Daniel yn disgrifio ras y cychod rhwng Rhydychen a Chaergrawnt, ble roedd y merched yn cael eu disgrifio fel, *'exquisitely lovely, H&V would compare very favourably with many of them taken altogether.'*[386]

Mae'r trafodaethau ynghylch y datblygiadau ym mywyd carwrol D.R. Daniel a Tom Ellis ond yn cryfhau'r feirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân. Ochr yn ochr gyda thrafodaethau academaidd yn ystod cyfnod prifysgol Tom Ellis, roedd disgrifiadau o ferched prydferth a gwybodaeth am bobl ifainc ardal Cefnddwysarn, yr *Hill & Vale*. Ymhellach, wrth i Daniel ddatblygu perthynas gyda Sarah Jones, daeth Tom Ellis i feithrin cyfeillgarwch agosach gyda hi yn ogystal. Ceir yr argraff o'r cychwyn cyntaf bod darpar wraig D.R. Daniel yn deall pwysigrwydd ei gyfeillgarwch gyda Tom Ellis iddo. Ymhellach, rhannai Ellis ei deimladau am ferched yr hoffai yntau gyda Daniel. Roedd dau fyd – yr academaidd a'r carwriaethol -

---

[383] LlGC Daniel 287, Tom Ellis at D.R. Daniel, nos Sadwrn (Medi 1884).
[384] LlGC Daniel 248, Tom Ellis at D.R. Daniel, (25 Chwefror 1883).
[385] LlGC Daniel 281, Tom Ellis at D.R. Daniel, (14 Chwefror 1884).
[386] LlGC Daniel 262, Tom Ellis at D.R. Daniel, (13 Mai 1883).

wedi eu plethu ac heb ffin bendant rhyngddynt. Diddorol yw nodi, er mai Tom Ellis oedd yn arwain D.R. Daniel o fewn y byd academaidd, Daniel oedd y cyntaf o'r ddau i gael perthynas ddifrifol gyda menyw a arweiniodd at briodas. Bu i Daniel gyrraedd y carreg filltir hon yn gyntaf, rhywbeth a drafodir mewn mwy o fanylder yn hwyrach yn y bennod hon. Ni ellir gor-symleiddio'r syniad bod Ellis wedi tywys Daniel felly. Roedd bywyd personol Daniel wedi datblygu llawer cynt nag un Ellis. Er hyn, wrth rannu rhywfaint ar ei brofiadau newydd, cynhaliodd a dyfnhaodd ei gyfeillgarwch gydag Ellis.

**Llunio gyrfa**

Gellir awgrymu bod sicrhau gwaith neu yrfa yn hanfodol er mwyn ennill parch o fewn cymdeithas a darparu'r cyfle i briodi gan groesi trothwy arall wrth lunio gwrywdod. Ymhellach, dadleua John Tosh bod y newidiadau cymdeithasol a welwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sgil diwydiannu yn golygu bod dynion wedi gorfod ymateb i gymdeithas newydd gan gadarnhau bod gwrywdod yn gysyniad sydd yn newid ac yn datblygu. Cred fod mwy o bwysau ar y dyn fel darparwr ar gyfer ei deulu wrth iddo symud o'r byd amaethyddol a oedd yn seiliedig ar weithio o fewn y cartref. Un elfen o wrywdod a ddatblygwyd yn y cyfnod hwn oedd, *'an increasing self-consciousness about occupation (or "calling") and a corresponding elaboration of the work ethic… This exclusive male responsibility for the family income led to the characteristically Victorian valorization of work as both moral duty and personal fulfilment.'*[387] Mae Catherine Hall yn cydfynd â hyn. Yn ei herthygl, 'Private Persons Versus Public Someones', mae hi'n pwysleisio'r ffaith bod dynion dosbarth canol am y tro cyntaf wedi dod yn rhan o'r byd gwleidyddol erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ehangwyd yr etholfraint. O ganlyniad, byddent yn sefydlu clybiau gwleidyddol a chymdeithasol mewn mannau megis tafarndai ble nad oedd mynediad i

[387] Yr ail elfen yw'r pwyslais ar y sffêr domestaidd a'r ymlyniad i'r cartref. Gweler John Tosh, 'Masculinities in an Industrializing Society: Britain, 1800-1914', *Journal of British Studies*, 44:2 (Ebrill 2005), tt. 332-333.

fenywod gan gadarnhau'r bwlch rhwng y personol a'r cyhoeddus.[388] Dyma awgrym cryf nid yn unig o bwysigrwydd cynnydd gyrfaol i sicrhau datblygiad y byd cyhoeddus ond, yn fwy na hyn, bod rhannu'r profiadau cyhoeddus gyda dynion eraill a derbyn eu cefnogaeth yn hynod bwysig wrth ddatblygu hunaniaeth wrywaidd. Mae Tosh hefyd yn cydfynd â hyn, '*Winning recognition from one's fellows is critical to socially valid masculinity, which partly explains why male bonding continues to be such an important feature of men's adult lives, notably at the workplace or in leisure activities.*'[389]

Dyma gyfle i ystyried pwysigrwydd gyrfa i ddatblygu hunaniaeth wrywaidd yng nghyd-destun cyfeillgarwch D.R. Daniel a'i gyfeillion gan mai'r garreg filltir nesaf iddynt ei chyrraedd wrth dyfu'n ddynion oedd sicrhau gyrfa. Ymhellach, ystyrir beth oedd effaith hyn ar y cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards. Fel ag y trafodwyd eisoes, tra yn y brifysgol gwnaethpwyd pob ymdrech i gynnal y cyfeillgarwch rhwng Ellis a Daniel, a sicrhawyd parhad eu cyfeillgarwch gydag O.M. Edwards, trwy lythyru. Roedd eu gohebiaeth yn parhau i fod yn fodd o sicrhau rhan y cyfeillion ym mywydau academaidd a phersonol ei gilydd pan yn oedolion. Troir felly i edrych ar y modd y mae eu cynnydd gyrfaol yn cael ei adlewyrchu yng nghynnwys y llythyrau a'r rhan y byddai Daniel a'i gyfeillion wedi chwarae yn mhrofiadau ei gilydd o'r byd proffesiynol.

Pan gyrhaeddodd Tom Ellis Dŷ'r Cyffredin yn 1886, ysgrifennodd at Daniel gan ddweud, '*Made my maiden speech last night. House was jaded and wearied, but I got on quite as well as I expected for the start.*'[390] Wrth ddiolch i Daniel am ei longyfarchiadau yn dilyn gofyn ei gwestiwn cyntaf yn y Senedd, datganodd Ellis ei fod wedi ceisio tynnu'r Ysgrifennydd Cartref ar ddioddefaint gwerin Cymru a'r presenoldeb yn yr eglwysi (gan gofio dyma gyfnod yr ymgyrch dros ddatgysylltu) ond yr oedd hwnnw wedi

---

[388] Catherine Hall, 'Private Persons Versus Public Someones: Class, Gender and Politics in England, 1780-1850', yn Carolyn Steadman, Cathy Unwin & Valerie Walkerdine (gol.), *Language, Gender and Childhood* (Llundain, 1985), tt. 10-33.
[389] Tosh, 'The Making of Masculinities', t. 40.
[390] LlGC Daniel 338, Tom Ellis at D.R. Daniel, (4 Chwefror 1887).

osgoi'r ddau gwestiwn.[391] Gwelir bod Tom Ellis yn sicrhau bod D.R. Daniel yn rhan o'i yrfa seneddol. Wrth iddo ymgyrchu yn Lerpwl yn ystod etholiad 1886, ysgrifennodd Daniel ato i'w longyfarch yn dilyn darllen ei hanes yn y *Daily Post* a chanmol y ffaith y bu iddo siarad Cymraeg gan, ym marn Daniel, roedd angen ennill cefnogaeth y Cymry Cymraeg cyn troi at y Cymry di-Gymraeg.[392] Awgryma hyn fod gan Daniel gryn ddealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a bod Ellis yn gwerthfawrogi ei farn a'i gyngor. Pan gafodd ei ethol, parhaodd Daniel i ddilyn gyrfa Ellis yn y papurau. Roedd yn ymwybodol mewn un llythyr mai diwygio cymdeithasol oedd y pwnc oedd yn cael ei drafod ar draws y wlad ac ar adeg arall ymfalchiodd yn y ffaith bod Ellis, fel is-chwip, yn cael mwyafrifon campus yn Nhŷ'r Cyffredin.[393] Datganodd ei falchder eto tra bod Ellis yn y swydd honno ei fod yn cael mwyafrifon mawr gyda'r pleidleisiau cyllidol a oedd yn lwyddiant personol iddo.[394] Ond, ymateb Daniel ac Edwards i lwyddiant Tom Ellis wrth iddo ddod yn is-chwip sydd yn arddangos cefnogaeth y cyfeillion personol i lwyddiannau gyrfaol cyhoeddus orau wrth i Daniel ddatgan bod y wlad i gyd yn hapus am ei gynnydd, heb un llais negyddol yn dod i'r amlwg. Mae'r geiriau hyn yn adlais o eiriau O.M. Edwards a ysgrifennodd at Ellis gan ddatgan 'Y mae pobl o bob cred a phlaid yn dweyd nas gellid gwell. Y mae gwaith mwy eto o'ch blaen, a gwn y cewch nerth i'w gyflawni.'[395] Dyma gynnig cefnogaeth i gyfaill, heb unrhyw bosibilrwydd o fudd personol na phroffesiynol, na chwaith arddangos cenfigen ar ei lwyddiant yn y maes hwn. Roedd y cyfeillion wedi dewis llwybrau a thrywyddau gyrfaol gwahanol, ond roedd eu llwyddiant a'u datblygiad yn parhau i blethu eu profiadau a'u bywydau.

Mae'r fath ddatganiadau o falchder yn llwyddiant gyrfaol cyfaill yn awgrymu eu bod yn rhoi gwerth ar sicrhau llwyddiant proffesiynol.

[391] LlGC Daniel 321, Tom Ellis at D.R. Daniel, nos Lun (4 Medi 1886).
[392] LlGC Daniel 97, D.R. Daniel at Tom Ellis, dydd Gwener.
[393] LlGC Daniel 100, D.R. Daniel at Tom Ellis, dydd Mercher & LlGC Ellis 3303, D.R. Daniel at Tom Ellis, 24 Gorffennaf 1894.
[394] LlGC Ellis 3299, D.R. Daniel at Tom Ellis, 3 Gorffennaf 1894.
[395] LlGC Ellis 3296, D.R. Daniel at Tom Ellis, 9 Mawrth 1894 & LlGC Ellis 3370, O.M. Edwards at Tom Ellis, 17 Mawrth 1894. Derbyniodd Daniel y newyddion fod Ellis wedi derbyn y swydd ar ffurf telegram, 'Second Whipship offered and accepted', LlGC Daniel 52, Tom Ellis at D.R. Daniel, (1892).

Ysgrifennodd O.M. Edwards at D.R. Daniel yn 1889 gan nodi ei fod wedi cael ei ethol yn gymrawd yng Ngholeg Lincoln, Rhydychen ac yn diwtor mewn sawl coleg arall. Dyma lwyddiant gyrfaol a swydd gwerth rhwng £300 a £400 y flwyddyn o ran cyflog.[396] Awgryma'r modd y bu iddo drafod telerau'r swydd gyda Daniel bwysigrwydd ariannol cynnydd gyrfaol iddo. Dychwelwn at y drafodaeth hon yn hwyrach yn y bennod gan fod sicrhau'r swydd hon wedi golygu bod Edwards gam yn nes at fedru croesi trothwy arall a phriodi ei gariad, Elin Davies. Yn hwyrach, yn 1907, daeth O.M. Edwards yn Brif Arolygydd Ysgolion. Ysgrifennodd Daniel ato bryd hynny i'w longyfarch gan ddatgan ei fod yn '[l]awenydd digymysg' darllen am ei benodiad. Yn wir, ochr yn ochr gyda'r llongyfarchiadau ar lwyddiant cyhoeddus Edwards, anogai Daniel ef i symud yn agos ato yn Ne Llundain er mwyn cyfarfod yn gyson i drafod yr 'hen amserau'.[397] Dyma falchder ar lwyddiant yn y byd proffesiynol, cyhoeddus ond gobaith i gael dychwelyd yn rheolaidd at y cyfeillgarwch creiddiol hwn.

Gwelir y balchder mwyaf yng ngyrfa Edwards yn ymateb Ellis a Daniel i'w lwyddiant wrth gyhoeddi cylchgronau a chlasuron Cymraeg fforddadwy i'r cyhoedd. Mae *Cymru,*[398] cylchgrawn dylanwadol ac enwog O.M. Edwards, yn destun sy'n ymddangos yn yr ohebiaeth rhwng y tri. Ar un achlysur, gofynnodd Ellis i Daniel os oedd wedi derbyn copi o *Cymru* ac mae yn ei gwestiynu ynglyn â chylchrediad y misolyn.[399] Fel y disgwylir, gwelwyd brwdfrydedd Daniel wrth ddatgan cystal oedd y cylchgrawn, pa mor felys oedd erthygl benodol ar y Tŷ Coch a chydnabyddai bod erthygl ar y Diwygiad yn Ffrainc yn seiliedig ar draethawd Gwobr Arnold O.M. Edwards.[400] Wrth gwrs, dyma gefnogaeth gyrfaol i Edwards, ond hefyd gwybodaeth fanwl o'i waith cyhoeddedig a phrifysgol. Yn wir, gellir yn

---

[396] LlGC Daniel 1001, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 14 Chwefror 1889.

[397] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/28/75, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 14 Chwefror 1907.

[398] Sefydlodd O.M. Edwards *Cymru* yn 1891 ac fe'i golygodd tan ei farwolaeth yn 1920. Bu i'w fab barhau gyda'r olygyddiaeth yn dilyn hynny. Rhoddodd gyfle i nifer o Gymry cyffredin a nodedig gyfrannu i'r misolyn hwn, gan gynnwys D.R. Daniel. Am fwy o wybodaeth, gweler D. Tecwyn Lloyd, 'Nodyn ar y Cymru Coch', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 10:1 (Rhagfyr 1966), tt. 27-28.

[399] LlGC Daniel 382, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad & LlGC Daniel 384, Tom Ellis at D.R. Daniel, 24 Awst 1891.

[400] LlGC Daniel 118, D.R. Daniel at Tom Ellis, 23 Ionawr 1892.

ogystal awgrymu bod diddordeb Ellis a Daniel yng nghylchgrawn Edwards yn ymestyn y tu hwnt i gefnogaeth o'u cyfaill personol. Ar gopi o'i lyfr, *Er Mwyn Iesu*, yng nghasgliad papurau D.R. Daniel, nododd Daniel ar y clawr, 'Daeth y gyfrol hon allan yr wythnos yr ymwelodd Tom ai briod a mi yn medi 1898. Cofiaf yn dda y mwynhad aiddgar gyda pha yr edrychai drwyddi fel popeth ysgrifenai ein hen gyfaill OE yr oedd i Tom fel manna.'[401] Serch y ddadl mai Ellis oedd yn arwain Daniel ac Edwards o ran datblygu'n academaidd, dyma awgrym cryf o ddylanwad syniadaeth O.M. ar ei gyfeillion. Rhaid cydnabod bod sicrhau cynnydd gyrfaol wedi bod yn bwysig i Edwards a'i ffrindiau, ond mae bwriad Edwards i wasanaethu ei wlad yn glir a chynnwys yr ohebiaeth bersonol yn datgelu gwerthfawrogiad ei gyfeillion ohono. Gellir awgrymu, yn fwy arwyddocaol na hyn, mai'r rheswm dros y brwdfrydedd hwn dros yrfa gyhoeddi Edwards, a *Cymru*'n benodol, oedd y ffaith bod O.M. Edwards yn rhoi ar bapur y syniadau yr oedd y tri yn eu rhannu, gan wneud cynnwys eu trafodaethau preifat yn fater cyhoeddus. Yn wir, datganodd Edwards mewn llythyr at Daniel, 'Peth rhyfedd, ond hyn sydd wir, - hen ddyddiau'r Bala sydd yn fy meddwl wrth ysgrifennu pob sill ysgrifennaf.'[402] Roedd Ellis a Daniel felly yn ysbrydoli Edwards i ysgrifennu ac roedd dyheadau a syniadaeth personol i'r tri yn cael eu gwireddu yng ngyrfa broffesiynol a chyhoeddus Edwards.

Dyma gyfle hefyd i gyflwyno Lloyd George i drafodaeth y bennod hon. Ffurfiwyd y berthynas rhyngddo ef a D.R. Daniel pan roedd y ddau yn oedolion, ond eto mae'r trafodaethau a welir yn y llythyrau rhyngddynt yn gyson gyda'r trafodaethu gyrfaol yn yr ohebiaeth rhwng Daniel a'i gyfeillion ysgol. Ystyrir yma, ac yn y penodau sydd i ddod, a oedd Daniel wedi medru cyrraedd lefel o agosatrwydd gyda chyfaill gwrywaidd pan yn oedolyn ac a oedd y cyfeillgarwch hwn yn cwmpasu'r bydoedd cyhoeddus a phersonol. Roedd eu cyfeillgarwch pan yn blant yn greiddiol i'w berthynas gydag Ellis ac Edwards, ond rhannai Daniel frwdfrydedd a syniadaeth gwleidyddol gyda Lloyd George, a dyma oedd sail eu cyfeillgarwch agos hwy. Mae trafodaeth o'r fath felly yn ehangu a chyfoethogi ychydig ar y

[401] LlGC Daniel 2461, Nodyn ar glawr *Er Mwyn Iesu* gan O.M. Edwards.
[402] LlGC Daniel 1011, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 19 Hydref 1891.

feirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân gan ddangos bod dynion yn medru sefydlu cyfeillgarwch agos, a rhannu profiadau cyhoeddus a phersonol, pan yn oedolion.

Mae casgliadau o lythyrau sydd wedi eu cyhoeddi yn atgyfnerthu'r modd yr oedd dynion yn medru ffurfio cyfeillgarwch agos pan yn oedolion yn seiliedig ar rannu profiadau a diddordebau. Ceir adlais o hyn yn y modd y disgrifia'r bardd Vernon Watkins ei berthynas gyda Dylan Thomas wrth gyflwyno casgliad o lythyrau Thomas ato. Dywedodd, *'We became close friends almost immediately, from an affinity which I think we both recognized at once. That affinity was particularly clear when we talked about poetry or read it aloud; yet our approach to it and our way of working presented a complete contrast.'*[403] Dod i adnabod ei gilydd tra'n oedolion wnaeth y beirdd Eingl-Gymreig R.S. Thomas a Raymond Garlick hefyd. Mae'r ohebiaeth rhyngddynt eto yn dangos sefydlu cyfeillgarwch yn seiliedig ar rannu diddordeb ac angerdd, fel Thomas a Watkins, a Daniel a Lloyd George. Roedd Thomas a Garlick yn trafod syniadau am gerddi, roeddent eu dau o blaid yr iaith Gymraeg ac yn teimlo rhwystredigaeth nad oedd y Cymry yn gwneud mwy drosti. Ceir anogaeth i'w gilydd yn eu gwaith, ac yn naturiol, mewn cyfnod o lythyru o bron i hanner canrif, gwelir cyfeiriadau at wragedd a phlant yn y cynnwys.[404] Datblygodd adnabyddiaeth broffesiynol i fod yn gyfeillgarwch personol. Er enghraifft, pan fu farw gwraig Thomas, ysgriennodd at ei gyfaill:

> *I have the sad news that Elsi passed away from this world last Sunday, March 10th. She had not enjoyed good health for the last 20 years, but was obviously deteriorating over this last period. She was of great courage and rarely complained. Mercifully the end came quickly and she died peacefully.*[405]

---

[403] Vernon Watkins (gol.), *Dylan Thomas: Letters to Vernon Watkins* (Llundain, 1957), t. 13.
[404] Gweler Jason Walford Davies (gol.), *R.S. Thomas: Letters to Raymond Garlick 1951-1999* (Llandysul, 2009).
[405] R.S. Thomas at Raymond Garlick, 16 Mawrth 1991 yn Ibid., t. 142 (llythyr 137).

Ni welir ymateb Garlick gan mai casgliad o lythyrau unffordd yw'r casgliad hwn, ond ysgrifennodd Thomas ato'n diolch am y cynnig o wely gan ddweud y byddai'n manteisio ar y cynnig hwnnw pe bai yn y cyffiniau.[406]

Yr un yw'r ddadl wrth ystyried yr ohebiaeth rhwng llenorion Cymraeg eu hiaith. Dau werinwr diwylliedig heb addysg ffurfiol oedd Carneddog a Gwallter Llyfni. Mae eu gohebiaeth yn parhau am 5 mlynedd, ac unwaith yn rhagor yn seiliedig ar rannu angerdd - pan yn oedolion – dros lenyddiaeth werinol Gymraeg, gwahanol i wŷr y prifysgolion megis John Morris-Jones. Ceir enghreifftiau cyson o gydweithio, gan gynnwys trafod y gyfol *Cerddi Eryri* gan Carneddog a thrafodaethau ar lenorion eu dydd. Unwaith yn rhagor, ceir cyfeiriadau at fywyd dyddiol megis teulu Carneddog a'i waith fel ffermwr, yn ogystal â chonsyrn am iechyd y ddau.[407] Byddent yn ceisio trefnu cwrdd i drafod eu gwaith, a cheir awgrym o gwlwm agos gyda geiriau megis, 'Cofia fi'n gynnes at y wraig a Hywel, ac os gweli'r Fodryb islaw'r Bont cofia fi ati. Am danat ti 'Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.''[408] Roedd y cysylltiad diddordeb wedi datblygu i rannu profiadau personol, ac mae hyn yn gyson gyda phrofiad D.R. Daniel a Lloyd George. Rhannu diddordebau a rhannu'r un bwriad mewn bywyd oedd sylfeini'r perthnasau hyn.

Mae'r casgliadau *Annwyl Saunders*, *Annwyl Kate*, sy'n gosod y llythyrau rhwng Saunders Lewis a Kate Roberts mewn cronoleg, ac *Annwyl DJ.*., sydd yn ychwanegu'r ohebiaeth rhwng y ddau a D.J. Williams, gyda'r amlycaf yn yr iaith Gymraeg.[409] Ceir disgrifiadau defnyddiol iawn er mwyn deall yn glir y datblygiadau llenyddol a gwleidyddol a welwyd yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Unwaith yn rhagor, fel ag y disgwylir wrth drafod dros hanner canrif o lythyru, ceir cyfeiriadau at salwch, profedigaeth a phriodasau gan atgyfnerthu'r modd yr arweiniodd y rhannu cyhoeddus at rannu profiadau personol yn ogystal.

---

[406] R.S. Thomas at Raymond Garlick, 20 Mawrth 1991 yn Ibid., t. 143 (llythyr 138).
[407] Gweler Bleddyn Owen Huws (gol.), *Diflanedig Fyd: Gohebiaeth Carneddog a Gwallter Llyfni, 1926-1932* (Barddas, 2010).
[408] Gwallter at Carneddog, 18 Ionawr 1929 yn Ibid., t. 52 (llythyr 26).
[409] Gweler Ifans, *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* & Hywel, *Annwyl D.J.*.

Fel Tom Ellis, sicrhaodd David Lloyd Goerge ei fod yn rhannu'r datblygiadau yn ei yrfa seneddol gyda D.R. Daniel yn ogystal. Yn ei ddyddiadur yn 1908, trafoda Daniel Lloyd George yn cyflwyno ei araith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin fel Canghellor y Trysorlys a oedd yn *'well received.'*[410]Aeth D.R. Daniel i'r galeri cyhoeddus er mwyn medru tystio i ddigwyddiad gyrfaol hynod o bwysig i'w gyfaill. Cawsant de tawel yn dilyn hyn a chael sgwrs hir a chyfrinachol ynglyn â'r sefyllfa wleidyddol a'r ffaith nad oedd wedi gweld Asquith[411] eto.[412] Ceir enghreifftiau o nodiadau yn nyddiadur D.R. Daniel yn disgrifio cael '*a long talk on the political situation &c*' a cherdded a thrafod comisiwn yr eglwys.[413] Derbyniodd docynnau arbennig er mwyn mynd i'r galeri i wylio dadl ar ddiweithdra, mynychodd gyfarfodydd swffragetiaid gan helpu i dynnu dwy oddi ar y llwyfan wrth i Lloyd George areithio a gwyliodd y Canghellor yn cyflwyno ei *'great Insurance scheme.'*[414] Yn ogystal, treuliodd amser gyda Lloyd George yn trin a thrafod creisis cyfansoddiadol 1910[415] a'i frwydr yn erbyn Tŷ'r Arglwyddi.[416] Roedd Daniel felly yn rhan o'r digwyddiadau amlycaf yng ngyrfa David Lloyd George yn dilyn ei ethol i'r Senedd. Wrth i yrfa gyhoeddus Lloyd George ddatblygu o'r cyfnod cynnar ac yntau'n gyfreithiwr yng Nghriccieth i ganolbwynt pŵer gwleidyddol Prydain, rhoddodd gyfle i'w gyfaill brofi'r newidiadau hyn gydag ef. Yn yr un modd ag yr oedd Daniel wedi profi bywyd Rhydychen a gwleidyddiaeth Rhyddfrydol trwy ei gyfeillgarwch gyda Tom Ellis, daeth i brofi rhai o ddigwyddiadau gwleidyddol amlycaf y cyfnod fel cyfaill personol i Ganghellor y Trysorlys.

---

410 LlGC Daniel 532, Dyddiadur D.R. Daniel 1908, 10 Ebrill 1908 a 14 Ebrill 1908.

411 Roedd Herbert Henry Asquith (1852-1928) yn Brif Weinidog Rhyddfrydol rhwng 1908 ac 1916.

412 LlGC Daniel 532, Dyddiadur D.R. Daniel 1908, 14 Ebrill 1908.

413 LlGC Daniel 530, Dyddiadur D.R. Daniel 1907, 23 Mehefin 1907 & LlGC Daniel 529, Dyddiadur D.R. Daniel 1906, 4 Hydref 1906.

414 LlGC Daniel 532, Dyddiadur D.R. Daniel 1908, 26 Hydref 1908 a 5 Rhagfyr 1908 & LlGC Daniel 535, Dyddiadur D.R. Daniel 1911, 4 Mai 1911.

415 Dyma gyfeiriad at y gwrthdaro rhwng y llywodraeth a Thŷ'r Arglwyddi pan wrthodwyd pasio cyllideb Lloyd George yn 1909. Parhaodd y creisis am ddwy flynedd ac yn 1911, pasiwyd deddf yn lleihau dylanwad a phŵer yr Arglwyddi dros Dŷ'r Cyffredin.

416 J. Graham Jones, 'David Lloyd George and D.R. Daniel', tt. 125-126.

Fel y gwelwyd yn y bennod gyntaf, roedd Daniel yn medru dibynnu ar ei gyfeillion agos am gymorth ymarferol wrth ymgeisio am swyddi. Yn 1891, penderfynodd ymgeisio am swydd Cofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Bangor a gwelwyd cyd-weithio rhyngddo ef, Edwards ac Ellis ar lunio strategaeth i sicrhau llwyddiant. Ceir sawl llythyr ble mae Tom Ellis yn amlinellu beth ddylai D.R. Daniel ei wneud er mwyn sicrhau cefnogaeth. Dywedodd wrtho i gael gafael ar restr o lywodraethwyr ac annog ei ffrindiau i gysylltu gydag arweinwyr adnabyddus megis Thomas Gee, Michael D. Jones a W.J. Parry am gymorth.[417] Byddai Ellis yn siarad gyda nifer o Gymry nodedig eraill ar ei ran tra gofynnodd i Daniel i ofyn i O.M. Edwards siarad gyda Syr John Rhŷs ar ei ran.[418] Ymhellach, mae Ellis yn cytuno i ysgrifennu geirda a gofyn i Acland i wneud hynny, ac er y bu iddo wrthod gan nad oedd yn teimlo yr adwaenai Daniel yn ddigonol, cytunodd yntau i siarad ar ei ran gyda Syr Henry Reichel, prifathro'r coleg.[419] Dyma gyfeillion ysgol Daniel yn manteisio ar y cysylltiadau a wnaethant hwy yn rhinwedd eu gyrfaoedd cyhoeddus er mwyn ceisio sicrhau ei gynnydd gyrfaol yntau. Mae Daniel yn nodi hefyd ei fod wedi cael addewid gan Edward Edwards, Cae Rhys, brawd O.M. y gwna yr hyn a fedrai ac yr oedd wedi ysgrifennu at Edwards ei hun i geisio cefnogaeth.[420] Ysgrifennodd O.M. lythyr geirda ar ei ran ac addawodd i wneud ei orau dros Daniel a siarad gyda John Rhŷs ac eraill y byddai'n eu cwrdd.[421] Ond ni chafodd Daniel y swydd.

Gwelwyd y defnydd o'r rhwydweithio hwn unwaith eto pan ddaeth swydd Cofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn wag yn 1905. Yn wir, O.M. Edwards ysgrifennodd at Daniel yn ei hysbysu o farwolaeth y cofrestrydd gan ddweud wrtho pe dymuna ymgeisio, i anfon gair ato.[422] Erbyn hyn roedd Tom Ellis wedi marw, ond roedd O.M. Edwards yn parhau

[417] LlGC Daniel 387, Tom Ellis at D.R. Daniel, 12 Rhagfyr 1891.
[418] LlGC Daniel 388, Tom Ellis at D.R. Daniel, 17 Rhagfyr 1891 & LlGC Daniel 389, Tom Ellis at D.R. Daniel, 20 Rhagfyr 1891.
[419] LlGC Daniel 391, Tom Ellis at D.R. Daniel, prynhawn Sul & LlGC Daniel 392, Tom Ellis at D.R. Daniel, 1 Chwefror 1892.
[420] LlGC Daniel 117, D.R. Daniel at Tom Ellis, 19 Rhagfyr 1891.
[421] LlGC Daniel 1008, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 4 Ionawr 1891.
[422] LlGC Daniel 1036, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 13 Mawrth 1905.

i gefnogi D.R. Daniel. Argymhellodd y dylai Daniel ofyn barn arweinwyr nodedig eraill gan roi enw ei frawd ei hun ar y rhestr unwaith eto.[423] Pan ddaeth i'r amlwg bod J.H. Davies (brawd yng nghyfraith Ellis) hefyd yn bwriadu ymgeisio am y swydd, gofynnodd Daniel farn Edwards ynglŷn ag a ddylai dynnu ei enw yn ôl o ganlyniad.[424] Ymateb gonest Edwards oedd mai Davies ddylai gael y swydd a dyma arwain at y dyfyniad amlwg o'r bennod gyntaf, 'Yr ydych wedi bod yn rhy swil, dylech ymhysbysebu tipyn.'[425] Dyma arddangos unwaith yn rhagor bwysigrwydd sicrhau cynnydd gyrfaol, ond, yn bwysicach fyth, gweler y defnydd o ddylanwad proffesiynol i gefnogi cyfaill personol.

Roedd ei gyfeillion hefyd yn gysylltiedig gyda'r swyddi y bu i Daniel eu derbyn. Tom Ellis ysgrifennodd ato yn 1887 yn nodi bod yr undeb dirwestol yn chwilio am *lieutenant*. Ei brif ddyletswyddau fyddai golygu'r 'Golofn Ddirwest' yn *Y Genedl* ac annerch cyfarfodydd. Byddai'r cyflog rhwng £80 a £90 y flwyddyn. Gofynnodd i Daniel a fyddai yn hoffi'r swydd gan y byddai'n brofiad da iddo gael gwaith ysgrifenyddol ac wedi ei leoli yn agos i chwareli Sir Gaernarfon felly byddai'n medru dysgu llawer.[426] O ganlyniad i fwriad ei gyfaill i ymgeisio, ysgrifennodd Ellis ar ei ran at Plennydd, trefnydd yr undeb dirwestol, a dweud y byddai'n hapus iawn i'w helpu mewn unrhyw fodd.[427] Yn ei dro, manteisiodd Daniel ar ei gysylltiadau personol er budd gyrfaol. Yn dilyn ei swydd gyda'r undeb dirwestol, daeth D.R. Daniel yn Drefnydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru yn 1896. Gofynnodd i Tom Ellis ysgrifennu ar sut yr oedd yn credu bod Daniel wedi perfformio yn rhinwedd ei swydd gyda'r undeb dirwestol. Roedd y llythyr yn cynnwys y geiriau:

> *You have thus infused a feeling of robustness into Welsh temperance work which it formerly lacked, and I do not hesitatate to say that much of the overwhelming strength of temperance candidates at*

[423] LlGC Daniel 1037, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 25 Mawrth 1905.
[424] LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/2/4, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 3 Ebrill 1905.
[425] LlGC Daniel 1038, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 10 Ebrill 1905.
[426] LlGC Daniel 335, Tom Ellis at D.R. Daniel, 18 Ionawr 1887.
[427] LlGC Daniel 336, Tom Ellis at D.R. Daniel, 22 Ionawr 1887.

> *Welsh Parliamentary elections is due to your able advocacy, your high personal character and the increasing respect in which you are held by young men and the most influential leaders of Welsh opinion.*[428]

Gwelwn felly edmygedd Ellis o ddoniau ei gyfaill yng nghyd-destun ei yrfa, a'i anogaeth i sicrhau ei gynnydd. Eto, wrth ymgeisio i fod yn Drefnydd Undeb y Chwarelwyr, mae Ellis yn annog Daniel i wneud popeth y medrai i sicrhau'r swydd, yn yr un modd ag y byddai yntau yn gwneud yr hyn a allai i'w helpu.[429]

Yn y bennod flaenorol, trafodwyd y modd y bu i Lloyd George ddibynnu ar gymorth Daniel wrth iddo sefydlu ei yrfa wleidyddol. Ond, wrth i'w yrfa ddatblygu, nid anghofiodd yntau am ei hen gyfaill a manteisiodd ar ei ddylanwad proffesiynol er mwyn sicrhau cynnydd Daniel. Gwelwn eto felly bwysigrwydd ystyried nad oedd y perthnasau hyn yn bethau statig. Gan ddibynnu ar bwy oedd yn y sefyllfa briodol, byddai Daniel a'i gyfeillion yn tywys ei gilydd ar adegau gwahanol. Cadarnha J. Graham Jones bod Daniel wedi derbyn swydd fel Trefnydd Undeb y Chwarelwyr o ganlyniad i ddylanwad ei ffrindiau yn sir Gaernarfon pan ddaeth yn *'something of a national figure'* yn 1897 gyda'r streic enwog.[430] Ymhellach, yn ôl J. Graham Jones, o ganlyniad i'w gyfeillgarwch gydag William Jones[431] a Lloyd George y daeth Daniel yn Henadur ar Gyngor Sir Gaernarfon. Yn ddiweddarach, eto o ganlyniad i ddylanwad William Jones a Lloyd George, apwyntiwyd Daniel i Gomisiwn Erydiad Tir ac yna i Gomisiwn Recordiau Cyhoeddus.[432] Ysgrifennodd Lloyd George at Daniel yn 1895 gan esbonio ei fod yn sefydlu comisiwn brenhinol i archwilio erydiad y môr ar y tir a bod angen ysgrifennydd cynorthwyol arno, swydd gwerth £200 y flwyddyn gyda chostau teithio.[433] Fel y gwyddom, derbyniodd Daniel y swydd hon.

---

[428] LlGC Daniel 431, Tom Ellis at D.R. Daniel, 10 Gorffennaf 1894.
[429] LlGC Daniel 452, Tom Ellis at D.R. Daniel, 3 Rhagfyr 1895.
[430] J. Graham Jones, 'David Lloyd George and D.R. Daniel', tt. 119-120.
[431] William Jones (1859-1915) oedd Aelod Seneddol Rhyddfrydol Arfon rhwng 1895 a 1915.
[432] J. Graham Jones, 'David Lloyd George and D.R. Daniel', tt. 119-120.
[433] LlGC Daniel 2802, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 11 Mehefin 1906.

Ymhellach, yn 1907, nodwyd bod Lloyd George wedi cynnig swydd i Daniel yn Swyddfa'r Cyfrifiad.[434] Dair blynedd yn ddiweddarach, ceir cofnod bod Lloyd George wedi cynnig swydd Ysgrifennydd Cynorthwyol Comisiwn Recordiau iddo. Nododd D.R. Daniel fod hyn bedair blynedd i'r diwrnod pan gafodd ei apwyntio i'w gomisiwn presennol.[435] Roedd cynnig cymorth gyrfaol i Daniel yn beth hir dymor i Lloyd George.

Bodolai perthynas ddwyffordd rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis yng nghyd-destun eu profiadau proffesiynol. Byddai Ellis yn sicrhau mynediad i Daniel i'w brofiadau newydd yn y byd gwleidyddol a chefnogodd Daniel wrth iddo yntau geisio datblygu gyrfa. Yn ogystal, awgryma haneswyr bod llythyru gyda Daniel wedi sicrhau bod Ellis yn ymwybodol o ddatblygiadau yng Nghymru.[436] Yn 1886, anfonodd Ellis at Daniel gan nodi bod William Campbell, ysgrifennydd personol i Parnell[437] am ofyn cwestiwn ar y newidiadau posibl yn Swyddfa Bost y Bala, ac felly mae Ellis yn gofyn i Daniel ddarparu'r manylion cywir er mwyn cryfhau dadl Campbell.[438] Ar fater arall, canmolodd Ellis, ar ei ran ef a Lloyd George, ateb yr oedd Daniel wedi ei gyflwyno i Acland. Gorffennodd y llythyr gyda'r geiriau, 'Private. Mae'n debyg y daw y Land Commission i'ch Sir eto. Gwnewch bob paratoad.'[439] Eto, dyma rôl D.R. Daniel yn darparu gwybodaeth ac yn creu cyswllt rhwng y sefyllfa yng Nghymru a Tom Ellis yn Nhŷ'r Cyffredin. Dros aeaf 1893 ac 1894, cafodd Daniel y dasg o ymchwilio i beth a olygwyd wrth ddisgrifio Ysgol Plasgwyn yn *'inefficient'* a bod yr adran addysg eisiau ysgol newydd.[440] O ganlyniad, paratowyd memorandwm yn seiliedig ar ei lythyr a gofynnodd Ellis iddo i barhau i ymchwilio er mwyn creu rhestr o bechodau'r ysgol er mwyn ei gyhoeddi pe byddai angen.[441] Ar adeg arall,

[434] LlGC Daniel 530, Dyddiadur D.R. Daniel 1907, 27 Ionawr 1907.
[435] LlGC Daniel 534, Dyddiadur D.R. Daniel 1910, 6 Gorffennaf 1910.
[436] Masterman, *The Forerunner*, t. 49 & J. Graham Jones, 'Michael Davitt, David Lloyd George and T.E. Ellis', t. 473 & J. Graham Jones 'The Political Baptism of Thomas Edward Ellis', t. 367.
[437] Roedd Parnell (1846-1891) yn genedlaetholwr Gwyddelig nodedig a sefydlodd y Blaid Seneddol Wyddelig ac yn Aelod Seneddol dros Meath.
[438] LlGC Daniel 303, Tom Ellis at D.R. Daniel, dydd Mawrth (23 Chwefror 1886).
[439] LlGC Daniel 419, Tom Ellis at D.R. Daniel, 16 Tachwedd.
[440] LlGC Daniel 420, Tom Ellis at D.R. Daniel, 2 Rhagfyr 1893.
[441] LlGC Daniel 423, Tom Ellis at D.R. Daniel, 29 Ionawr 1894.

disgrifia ysgrifennu at Michael Davitt[442] a chael ateb cynnes nôl a gofynnodd i Daniel am farn y bobl – a oedd '*increasing rigour in the Welsh land movement.*'[443]

Ymhellach, roedd Tom Ellis yn ymddiried yn D.R. Daniel i drosglwyddo ei neges wleidyddol yng Nghymru drwy chwarae rhan ymarferol yn ei ymgyrchoedd cynnar. Ym Medi 1886, ac Ellis newydd ddod yn Aelod Seneddol, gofynnodd i Daniel baratoi pedair darlith ar Reolaeth Cartref a fyddai'n boblogaidd mewn arddull gyda chyfeiriadau penodol at Gymru gan y byddai Ellis yn hoffi i Daniel eu cyflwno mewn rhannau o Sir Feirionnydd ac efallai rhai rhannau o Sir Ddinbych.[444] Mae'n rhaid bod Daniel wedi codi rhai amheuon ynglyn â gwneud hyn gan i lythyr nesaf Ellis ddatgan na ddylai Daniel deimlo ei fod yn gwthio ei hun i'r amlwg ac felly byddai Ellis yn trefnu sawl cyfarfod yn ardal Corwen i'r ddau annerch gyda'i gilydd.[445] Awgrymir bod Ellis wedi gofyn iddo ar sawl achlysur i siarad ar ei ran. Ar adegau eraill, gofynnodd Tom Ellis i D.R. Daniel a fedrai fynd gydag ef i gyfarfodydd, a rhoi cymorth iddo yn nes at etholiad.[446] Dyma felly berthynas gyd-weithio Daniel ac Ellis yn dod i'r amlwg wrth i Daniel ddarparu gwybodaeth angenrheidiol i hwyluso gwaith Tom Ellis fel Aelod Seneddol a sicrhau cynnydd o ran diddordebau Cymreig yn y Senedd. Dyma egin trafodaeth a ddatblygir ymhellach yn hwyrach yn y bennod hon – bod Daniel, Ellis ac Edwards wedi cydweithio gyda'i gilydd pan yn oedolion i hybu materion Cymreig.

Ond yn bwysicach, dengys eu gohebiaeth bod Tom Ellis, O.M. Edwards a Lloyd George wedi gwahodd D.R. Daniel i rannu yn eu profiadau cyhoeddus. Daeth i brofi eu llwyddiannau gyrfaol gan arddangos balchder llwyr yng nghyflawniadau ei gyfeillion personol. Yn wir, roedd y

[442] Roedd Michael Davitt (1846-1906) yn genedlaetholwr Gwyddelig ac Aelod Seneddol am gyfnod. Sefydlodd Gynghrair Tirol Cenedlaethol Iwerddon ac ymgyrchodd dros ddiwygiadau cymdeithasol a Rheolaeth Gartref.
[443] LlGC Daniel 310, Tom Ellis at D.R. Daniel, 5 Mawrth (1886).
[444] LlGC Daniel 323, Tom Ellis at D.R. Daniel, 24 Medi 1886.
[445] LlGC Daniel 325, Tom Ellis at D.R. Daniel, 1 Hydref 1886.
[446] LlGC Daniel 398, Tom Ellis at D.R. Daniel, (26 Mehefin 1892) & LlGC Daniel 342, Tom Ellis at D.R. Daniel, (26 Medi 1887).

cysylltiadau hyn yn fuddiol yn yrfaol i Daniel gan ei fod yn medru manteisio ar safle ei gyfeillion er mwyn sicrhau ei gynnydd ei hun. Yn yr un modd, roedd Daniel yn medru darparu gwybodaeth am y sefyllfa wleidyddol yng Nghymru er mwyn hwyluso gwaith seneddol Tom Ellis. Roedd y cyfeillgarwch personol yn effeithiol er mwyn gweld datblygiad yn y byd cyhoeddus, a'r ffrindiau'n rhoi gwerth ar estyn cymorth i'w gilydd. Yn wir, mae ystyried perthynas D.R. Daniel a Lloyd George yn cyfoethogi'r drafodaeth hon. Nid cyfeillion ysgol yn cefnogi ei gilydd wrth lunio gyrfaoedd oedden nhw, ond dau ŵr oedd yn rhannu'r un syniadau gwleidyddol. Arweiniodd eu cyd-weithio cyhoeddus at gyfeillgarwch personol.

**Cydweithio proffesiynol**

Gellir awgrymu yn ogystal bod y cyfeillion personol hyn wedi cydweithio mewn modd ymarferol er mwyn sicrhau cynnydd mewn materion Cymreig. Daeth cydweithio i'r amlwg rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis o ganlyniad i anghydfod rhwng y gweithwyr a pherchenog Chwarel y Penrhyn. Disgrifia Bentley Gilbert y modd y bu i Daniel ddibynnu ar gysylltiadau Tom Ellis wrth iddo sicrhau cefnogaeth y *Daily Chronicle* i'r gweithwyr i godi arian ar eu cyfer. Bu i Lloyd George a Tom Ellis ac eraill areithio o blaid y gweithwyr yn Nhŷ'r Cyffredin yn ogystal, a thrafododd Lloyd George y mater wrth deithio Cymru'n areithio.[447] Yn ôl Neville Masterman, daeth y cydweithio i'r amlwg gan fod Ellis wedi medru cynghori chwarelwyr y Penrhyn trwy ei gyfeillgarwch gyda Daniel yn ystod y streic mawr yn 1896.[448] Yn sicr, mae cynnwys eu llythyrau yn arddangos sut y daeth eu cyfeillgarwch yn hynod ddefnyddiol er mwyn arwain chwarelwyr y Penrhyn yn erbyn eu meistr yn ystod cyfnod helbulus. Unwaith yn rhagor, gwelwyd Tom Ellis yn arwain Daniel wrth iddo'i gynghori yn ei rôl fel Trefnydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru er mwyn sicrhau buddgoliaeth ehangach i weithwyr Cymru. Yn 1896, ysgrifennodd D.R. Daniel at Tom

[447] Bentley Brinkerhoff Gilbert, *David Lloyd George: A Political Life* (Llundain, 1987), t. 174.
[448] Masterman, *The Forerunner*, t. 237. Mae Wyn Jones hefyd yn cyfeirio at gydweithio rhwng Daniel ac Ellis er lles chwarelwyr Gogledd Cymru yn ei *Thomas Edward Ellis*, t. 92.

Ellis yn gwerthfawrogi cynnwys araith ganddo ac yn dweud ei fod yn gobeithio cael cyngor Ellis cyn cyfarfod holl bwysig gydag Arglwydd Penrhyn ac y gwyddai y byddai Ellis yn mynd ato i'w helpu pe bai angen *'to give me what help you can to steer the craft through the rapids. It will be a very grave crisis'*.[449] Yn wir, dywed Ellis nad oedd yn bwriadu mynd ar wyliau tramor yn bennaf oherwydd sefyllfa Daniel a'r ornest hon.[450]

Pan ddarganfu fod Daniel yn gyfrifol am ohebu ar ran yr undeb, nododd Ellis, '*I gather that it means War'* gan awgrymu bod angen trafod y modd gorau o'i gyhoeddi a chynghorodd i beidio cyhoeddi i'r wasg leol cyn gwasg Llundain a Lerpwl.[451] Ymhellach, anogodd Daniel i ddweud wrth ei gydweithiwr, W.H. Williams, i 'ddal fel y graig' wrth yr hyn a gytunwyd yn Llundain fel telerau i ddiweddu'r ddadl, sef sicrhau bod 71 dyn a ddiswyddwyd yn dychwelyd i'w swyddi a bod yn rhaid i Arglwydd Penrhyn addo trafod gyda'r undeb a swyddogion cyfrifol yn y dyfodol.[452] Ar achlysur arall, anfonodd lythyr hir yn rhoddi cyngor manwl i Daniel ar sut i eirio addunedau ar gyfer trafodaethau'r undeb gydag Arglwydd y Penrhyn, a chynnig adduned ychwanegol yn ogystal. Cynhwysai ei gyfeillion seneddol yn y trafodaethau hyn hefyd wrth iddo ofyn am gymorth A.H.D. Acland.[453] Pan ddaeth y streic i ben, balchder ac edmygedd llwyr sydd yng ngheiriau Tom Ellis, *'You have acted with admirable rightness all along'* a:

> Nis gallaf wahanu W.H.W. a chwithe ond eich llongyfarch eich dau o'm calon ar eich dewrder, eich tawelwch, eich craffder, eich ymddiried ardderchog y naill yn y llall. Yr ydych wedi ymladd brwydr fawr, wedi cynorthwyo i roddi dynoliaeth Gymreig ar uwch level nag y bu erioed, wedi arwain y chwarelwyr fel na arweiniwyd hwy erioed o'r blaen, ac wedi enill buddugoliaeth gwir sylweddol.

---

449 LlGC Ellis 3312, D.R. Daniel at Tom Ellis, 7 Awst 1896.
450 LlGC Daniel 462, Tom Ellis at D.R. Daniel, 29 Awst 1896.
451 LlGC Daniel 465, Tom Ellis at D.R. Daniel, dydd Sul.
452 LlGC Daniel 464, Tom Ellis at D.R. Daniel, 14 Rhagfyr 1896.
453 LlGC Daniel 468, Tom Ellis at D.R. Daniel, 11 Chwefror 1897.

> Yr wyf o galon yn eich llongyfarch chwi a W.H. Williams, a'r dynion sydd wedi dal fel craig wrth eich cefn. [454]

Wedi marwolaeth Ellis, wynebodd Daniel streic arall yn y Penrhyn yn 1900-1903.[455] Gwelir cyfraniad Lloyd George bryd hyn wrth sicrhau cyfarfod iddo gyda golygydd y *Daily News* gan fod y papur wedi addo cydweithio gyda nhw ar ran y gweithwyr.[456] Croesawodd Daniel i aros gydag ef tra roedd y Senedd yn cyfarfod a'i annog i ddod i gysylltiad gyda'r Aelod Seneddol priodol yr oedd yn ddyletswydd arno i ofyn cwestiwn yn Nhŷ'r Cyffredin ar ran chwarelwyr y Penrhyn.[457] Yn wir, mewn llythyr at ei mam yng nghyfraith, disgrifia Sarah Daniel y cydweithio o ran helpu'r chwarelwyr, 'Ddoe bu Mr Lloyd George a Mr John Burns, M.P. yma yn treulio diwrnod y maent i gyd yn rhoi help mawr i weithwyr Bethesda.'[458] Ymhellach, dychwelodd Lloyd George o'r Swistir ym Medi 1900 er mwyn ymddangos gyda Daniel a William Abraham[459] o flaen Cyngres yr Undebau Llafur ar ran gweithwyr y Penrhyn.[460] Dyma gadarnhau felly'r gefnogaeth ymarferol a ddarparodd Ellis a Lloyd George i Daniel a'r modd yr oedd hyn yn fuddiol i weithwyr Cymru. Ymhellach, dyma enghraifft arall o rannu profiadau ar ran Daniel a'i gyfeillion a oedd yn cyd-blethu'r cyhoeddus a'r personol ac yn dyfnhau'r cwlwm cyfeillgarwch a fodolai rhyngddynt.

Mae H.G. Williams wedi tynnu sylw at elfen o gydweithio rhwng y tri chyfaill ysgol, D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards, yn ogystal. Yn ei erthygl, 'Arthur Acland, Tom Ellis and Welsh Education: A Study in the Politics of Idealism', disgrifia'r berthynas o gyd-weithio rhwng Tom Ellis ac Arthur Acland yn datblygu'r system addysg yng Nghymru. Yn dilyn

---

[454] LlGC Daniel 471, Tom Ellis at D.R. Daniel, 31 Mawrth 1897 & LlGC Daniel 472, Tom Ellis at D.R. Daniel, 20 Awst 1897.
[455] Am drafodaeth o'r streic, gweler Lindsay, *The Great Strike*.
[456] LlGC Daniel 2798, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 10 Hydref 1902.
[457] LlGC Daniel 2799, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 11 Chwefror 1903.
[458] LlGC Daniel 2421, Sarah Daniel at Jane Daniel, dydd Sadwrn 1897.
[459] Roedd William Abraham (1842-1922) neu 'Mabon' yn undebwr llafur amlwg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn Aelod Seneddol dros y Rhondda.
[460] Gilbert, *David Lloyd George: A Political Life,* t. 229.

gwyliau ar y cyfandir gydag Ellis, Daniel a Herbert Lewis,[461] ysgrifennodd Acland at y Prif Weinidog Gladstone yn cynnig enw O.M. Edwards i baratoi adroddiad ar yr angen am brifysgol yng Nghymru:

> *The idea that Acland should write to Gladstone almost certainly emerged during that trip, for Ellis, Daniel, and O.M. Edwards had been intimate friends since childhood. Ellis had already brought Edwards to Acland's attention in the earliest years of their own friendship for, as noted earlier, Ellis and Acland had him in mind as a collaborator on their projected book in 1888, while Acland had also engaged in previous correspondence with Edwards on a number of questions relating to intermediate schools*.[462]

Wrth ofyn i O.M. Edwards baratoi adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru, defnyddiodd Ellis wybodaeth a gwaith ei hen gyfaill er mwyn hyrwyddo ei gynlluniau addysgol yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol. Trwy'r cysylltiad hwn, daeth Edwards i ohebu gydag A.H.D. Acland. Yn 1892, ysgrifenna Acland yn gofyn am gyngor Edwards ynglŷn â'r hyn y medrir ei wneud dros yr ysgolion canolradd.[463] Ymhellach, ysgrifennodd Tom Ellis at Edwards yn ystod ei wyliau yn Salzburg gyda D.R. Daniel, yn dweud, 'Mae Acland yn llawn cydymdeimlad a'n cwyn ynghylch barbareidd-dra addysg Saesonig i blant Cymru.' Gofynna am femorandwm gan Edwards yn disgrifio'r system ac yn cynnig awgrymiadau ar sut i'w gwella a theimlai'n ffyddiog y byddai eu gobeithion yn cael eu gwireddu'n fuan.[464] Dyma'r tri bachgen a rannodd freuddwydion yn y Bala yn derbyn y cyfle i'w gwireddu o ganlyniad i'w cynnydd academaidd a phroffesiynol. Ymhellach, ysgrifennodd Acland at Edwards yn Nhachwedd yr un flwyddyn yn gofyn ei farn ynglŷn â'r mater o gael prifysgol i Gymru ac yn gofyn iddo i ysgrifennu adroddiad. Dywed '*I gather in strict confidence from T. Ellis*

---

[461] Roedd J. Herbert Lewis (1858-1933) yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Fflint ac yna cynrychiolodd Brifysgol Cymru. Roedd yn ffrindiau mawr gyda Tom Ellis a D. Lloyd George.
[462] H.G. Williams, 'Arthur Acland, Tom Ellis and Welsh Education', tt. 401-402.
[463] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/6/16, Arthur Acland at O.M. Edwards, 10 Mawrth 1892.
[464] LlGC Ellis 2766, Tom Ellis at O.M. Edwards, marc post 28 Medi 1892.

*that you would like to do it and I feel confident that you would do it well.'*[465] Dyma felly gyflwyno Edwards i gyd-weithiwr seneddol i Ellis fel arbenigwr ar sefyllfa addysg yng Nghymru a rhywun y gellid ymddiried ynddo. Pan fo angen cynhyrchu dogfen mor dyngedfennol i ddyfodol Cymru, troi at O.M. Edwards wnaeth Ellis. Yn wir, mae cynnwys yr adroddiad hwn yn thema sydd yn codi mewn llythyrau rhwng Ellis ac Edwards hefyd. Cymerodd Ellis gryn ddiddordeb yn yr adroddiad gan ysgrifennu nodyn yn dweud bod ei angen ar Acland cyn gynted â phosibl ac y dylai Edwards gynnwys trafodaethau ar arholiadau, cymrawdoliaethau a dysgu estynedig.[466] Mae R. Evans yn cydnabod amcan Tom Ellis o sicrhau prifysgol i Gymru ac 'ar ei gais ef yn ddiameu yr apwyntiwyd Mr Owen M. Edwards, M.A. gan Mr Acland yn 1892 i wneyd adroddiad ar waith y Colegau Cymreig gyda golwg ar hyny.'[467] Dyma gyd-weithio a sefydlu rhwydwaith broffesiynol y tu hwnt i'r cyfeillgarwch gwreiddiol er mwyn sicrhau dyfodol a datblygiad addysg yng Nghymru. Dychwelwn felly at eiriau H.G. Williams,*'There can be little doubt that the 'Welsh' changes of Acland's Codes owed a great deal to Ellis and O.M. Edwards and, more indirectly, to Daniel.'*[468]

Yn wir, o ganlyniad i'w gyfeillgarwch gyda Tom Ellis, ffurfiodd D.R. Daniel gyfeillgarwch parhaol gydag Acland hefyd. Cydweithiodd Daniel gydag ef gan gasglu gwybodaeth iddo ar gyflwr addysg yn Sir Gaernarfon wrth iddo deithio gogledd Cymru yn rhinwedd ei swydd gyda'r undeb dirwestol.[469] Yn 1916, ddwy flynedd ar bymtheg ar ôl marwolaeth Ellis, anfonodd gwraig Acland gerdyn Nadolig at Daniel gyda llun dyn gyda sawl plentyn a gwraig o'i amgylch a'r geiriau *"When a man marries his trouble begins."* gyda Mrs Acland yn croesi'r gair *'marries'* ac yn ychwanegu *'is a grandpére.'* Dyma hi'n cydnabod digwyddiad hynod o bwysig ym mywyd personol D.R. Daniel wrth iddo ddod yn daid am y tro cyntaf. Yn ddiddorol, mae hi'n cyfeirio'r cerdyn *'To the Prophet! From A.S. Acland with best Christmas wishes'* gan ddychwelyd i'r cyfeiriadau cynnar at D.R. Daniel fel

---

[465] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/6/82, Arthur Acland at O.M. Edwards, 9 Tachwedd 1892.
[466] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/7/31, Tom Ellis at O.M. Edwards, 18 Ebrill 1893.
[467] R. Evans, 'Byr-Hanes' yn ei,*Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion*, t. 65.
[468] H.G. Williams, 'Arthur Acland, Tom Ellis and Welsh Education', t. 407
[469] J. Graham Jones, 'Sir Arthur Acland and Thomas Edward Ellis', t. 359.

proffwyd.[470] Mae Daniel yn nodi ar y cerdyn ei fod wedi ymweld â nhw ar 11 Rhagfyr 1916, y diwrnod ar ôl dod yn daid a disgrifia lawenydd Mrs Acland ar glywed y newydd.[471] Dyma eto berthynas o gydweithio a ddatblygodd yn gyfeillgarwch personol yn sgil y rhwydwaith proffesiynol. Cyfeillgarwch hir dymor ydoedd a oedd yn parhau'n weddol agos ddwy flynedd ar bymtheg ar ôl marwolaeth Tom Ellis.

Unwaith yn rhagor dychwelwn at y syniad o rannu er mwyn cynnal a dyfnhau perthynas Daniel a'i gyfeillion. Fel ag yr oedd D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards yn rhannu eu brwdfrydedd dros ddysg tra'n ifanc, roeddent yn rhannu profiadau gyrfaol tra'n oedolion. Datblygodd eu perthynas hwy o'r personol i gwmpasu'r cyhoeddus gan sicrhau cydweithio rhyngddynt er lles gweithwyr Chwarel y Penrhyn a ieuenctid Cymru drwy'r system addysg. Ymhellach, mae cyfraniad Lloyd George wrth gefnogi Daniel yn ystod ail streic Chwarel y Penrhyn yn egin trafodaeth ynghylch y modd yr oedd cydweithio rhwng dynion yn medru arwain at gyfeillgarwch personol. Yn wir, beth bynnag eu sylfeini, profodd y cyfeillgarwch personol rhwng Daniel a'i dri chyfaill yn fuddiol i'r chwarelwyr a dyfodol addysg yn Nghymru wrth iddynt gyd-weithio ar lefel broffesiynol.

### Pryder gyrfaol

Er eu balchder yn llwyddiannau gyrfaol ei gilydd a'r cydweithio a fodolai rhwng y cyfeillion, pryder a gofid gyrfaol mewn gwirionedd sy'n arddangos gliriaf y pontio rhwng y bydoedd proffesiynol a phersonol-emosiynol. Pan roedd Daniel, Ellis ac Edwards yn wynebu heriau cyhoeddus neu ymosodiadau o du cydweithwyr, ystyrir yma a fyddai'r dynion hyn wedi troi at ei gilydd am gysur, a beth oedd lefel y gefnogaeth y byddent wedi ei

[470] Ceir sawl cyfeirad at D.R. Daniel fel proffwyd, yn enwedig yn ystod dyddiau cynharaf ei gyfeillgarwch gyda Lloyd George. Yn wir, mae Daniel yn cydnabod y rôl hwn pan wrthryfelodd Lloyd George a thri Aelod Seneddol Rhyddfrydol Cymreig arall yn erbyn y llywodraeth yn 1894. Nododd eu bod wedi ei wahodd i ddod yn fardd ar y mudiad newydd, ond ei fod wedi glynu at ei swydd fel proffwyd wrth ragweld methiant eu cynllun. Gweler LlGC Ellis 3300, D.R. Daniel at Tom Ellis, 9 Gorffennaf 1894.

[471] LlGC Daniel 2415, Alice Acland at D.R. Daniel, Nadolig 1916. Gweler hefyd LlGC Daniel 602-608, Alice Acland at D.R. Daniel, rhwng 4 Tachwedd 1898 a 1904 am sawl cyfeiriad ato fel 'proffwyd.'

dderbyn. Pan wynebodd Tom Ellis ddiffyg cefnogaeth gan ei blaid, ysgrifennodd Daniel ato gan gyfleu ei rwystredigaeth ei hun ynghylch y system wleidyddol a disgrifio cyd-Aelodau Seneddol Ellis fel ‘Philistiaid mor gulfarn a diddychymyg’. Ni edmyga Daniel yr un ohonynt a theimlodd na fyddent yn gwrando’n rhwydd ‘ar un sydd yn gweled ffeithiau mor glir ag y gwnewch chwi’. Roedd Daniel o’r farn nad oedd y bobl hyn yn adnabod Cymru – ei chrefydd na’i gwleidyddiaeth.[472] Dyma gysur felly gan Daniel mewn cyfnod anodd o ran gyrfa wrth iddo bwysleisio cryfderau Tom Ellis, a diffygion ei gyd-wleidyddion.

Yn yr un modd, tra yn ei swydd gydag undeb y dirwestwyr, wynebodd Daniel gyfnod anodd pan yr oedd awgrym y byddai’n rhaid iddo symud i Aberystwyth a cheir yr argraff ei fod yn cael ei drin yn annheg. Ysgrifennodd at Tom Ellis gan ddatgan:

> Nid wyf wedi clywed dim pellach nac wedi dweud dim deallaf fod P[lenydd]. neu ei deulu wedi bod yn rhoi ar ddeall i rai fy mod i yn myned ymaith. chwi <u>gofiwch</u> fod hyn yn cail ei daenu ganddynt <u>wythnosau</u> cyn y llythyr ac hefyd yn bellach fod y mab yn siwr i wneud y gwaith. Mae Sir Wilfrid yn dyfod ir Deheudir hwyrach y bydd P. yno wrth gwrs a ar ol i cysgod rhyw swell felly hwyrach fod yn well ysgrifenu “private” ar ei lythyr ef – os tybiwch fod yn well cael ymgynghoriad ni bydd ond eisiau i chwi anfon gair a deuaf i Feirionydd neu ryw fan arall ich cwrdd.[473]

Mewn llythyr arall wedi ei labelu gyda ‘Llosgwch hwn’, disgrifiodd Daniel fod ‘y tro diweddaf yma in heiddo wedi fy nolurio Tom yn fawr, disgwylir i mi <u>symud</u> i A’ystwyth dyweder heb unrhyw gyfnewidiad yn y cyflog a byw mewn lle y bydd y gost yn llawer ychwaneg nag ydyw mewn man fel hyn.’ Gofynnai i Tom Ellis am gyngor beth i’w wneud a phoenai yn fawr nad oedd Ellis yn Llundain i dderbyn ei lythyr.[474] Roedd Daniel yn dyheu am

[472] LlGC Daniel 120, D.R. Daniel at Tom Ellis, 9 Hydref 1894.
[473] LlGC Daniel 119, D.R. Daniel at Tom Ellis, 5 Hydref 1894.
[474] LlGC Daniel 123, D.R. Daniel at Tom Ellis, 19 Rhagfyr 1894.

farn Ellis a, gan gofio ei natur ansicr, yn dibynnu ar ei arweiniad unwaith eto yn y sefyllfa anodd hon. Cydymdeimlad llwyr a gafodd gan Ellis a nododd, 'Bawaidd ydyw ymddygiad yr U.K.A. [*United Kingdom Alliance* – undeb y dirwestwyr] attoch eleni' a '*They have behaved badly in the end.*'[475] Ond yn fwy na chydymdeimlad teimladwy, cynigiodd Tom Ellis bwyntiau clir i'w gyfaill am yr hyn y dylai wneud am y sefyllfa. Roedd o'r farn pe bai un arolygwr yn cael ei apwyntio gan y mudiad, dylai Daniel fod yn barod i symud i Aberystwyth, er cred Ellis bod Daniel yn gywir i bwysleisio bod angen dau arolygwr gydag un yn y gogledd ac un yn y de. Anogodd Daniel i fod yn bendant o ran cyflog gan ei fod wedi eu gwasanaethu'n ffyddlon a doeth. Cred Ellis pe baent yn fodlon cynnig cyflog teg i un arolygwr, dylai dderbyn y swydd a dewis symud i Aberystwyth.[476] Dyma gyngor ymarferol a phroffesiynol felly, ond ar lefel bersonol.

Yn 1910, wynebodd O.M. Edwards ymateb negyddol i'w adroddiad ar gyflwr ysgolion Cymru pan ddywedodd na fyddai addysg plant yn ddiddorol tra roedd gofynion yr arholiadau mor gaeth.[477] Trodd at Daniel, bellach ei gyfaill hynaf, am gysur. Anfonodd gopi o'r adroddiad ato gan ysgrifennu:

> Y mae'n wir, <u>bob gair</u>. Bum ymhob ysgol ganolraddol yng Nghymru. Ond drwy ystormydd y rhaid i rywun gerdded os ceidw at y gwir…
>
> Yr wyf am dreio cael aml ymgom â chwi yn y gaeaf, os medraf eich dal. Onid oes <u>deugain mlynedd</u> er pan welais chwi gyntaf! Eto bechgyn ifainc ydym.[478]

Y mae bron i ddeugain mlynedd o gyfeillgarwch yn cael ei adlewyrchu yn ymateb Daniel. Er nad oedd llythyru cyson rhyngddynt a'u bod heb weld llawer ar ei gilydd wyneb yn wyneb, adwaenai Daniel gymeriad nerfus ei

---

[475] LlGC Daniel 439, Tom Ellis at D.R. Daniel, Sul & LlGC Daniel 452, Tom Ellis at D.R. Daniel, 3 Rhagfyr 1895.
[476] LlGC Daniel 397, Tom Ellis at D.R. Daniel, nos Lun.
[477] LlGC Daniel 1041, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 11 Tachwedd 1910.
[478] LlGC Daniel 1040, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 24 Hydref 1910.

gyfaill ac ysgrifennodd ato gan gyfleu geiriau llawn anogaeth. Cred Daniel bod Edwards wedi datgan 'gwir oedd eisiau ei ddweud ers talwm' gan y teimlai ef nad oedd unrhyw wreiddioldeb yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru, gan mai dilyn arweinyddiaeth Lloegr a wnaed yn bennaf. Anogodd Edwards i 'sefyll tân' gan y byddai tynnu'r adroddiad hwn yn ei ôl yn gosod cynsail i'r awdurdodau fynnu yr un peth yn y dyfodol. Cloia'r llythyr gyda'r geiriau, 'Yn fyr hyd y gwelaf fi y Cwestiwn yw – pa un gaiff fyw y Bwrdd Canolog ynte y Bwrdd Addysg Cymreig 'One of us must die' chwedl y crwt bach yn y darlun a gwn yn ei law yn gwylio ei golliwog.'[479] Nid yn unig y mae Daniel yn cytuno'n llwyr gyda'r hyn yr oedd O.M. Edwards wedi ei ysgrifennu, y mae'n ei annog i frwydro hyd y diwedd i amddiffyn y cynnwys a herio'r rhai a safai yn ei erbyn. Roedd gyrfa gyhoeddus Edwards yn ei swydd fel arolygwr yn adlewyrchu dyheadau personol Daniel, Ellis ac yntau. Atgyfnerthir hyn yng ngeiriau Edwards wrth iddo ddiolch i Daniel am ei gefnogaeth, gyda'r hiraeth am Tom Ellis, dros ddegawd ar ôl ei farwolaeth yn ei amlygu ei hun:

> Yr un yw'r amcan ag amcan tri bachgen ieuanc fyddai yn y Bala gynt, - ac yn cael curo'u cefnau ym Modiwan yn unig. Hoffwn yn fawr gael ambell ysgwrs a chwi. Byddaf yn barod i ddymuno weithiau, "O for an hour of Tom Ellis." Ond chwarae teg iddynt, y mae Lloyd George a Herbert Lewis wedi rhoi eu holl allu o du y werin ym materion addysg.[480]

Mewn cyfnodau o bryder ac ansicrwydd gyrfaol, troi at ei gilydd wnaeth y cyfeillion cynnar a phwysigrwydd eu gwreiddiau yn ardal y Bala yn hanfodol i'r cwlwm agosatrwydd rhyngddynt.

Datblygir y ddadl hon ymhellach yn y bennod nesaf wrth ystyried y ddibyniaeth emosiynol rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards – ac am gyfnod rhwng Daniel a Lloyd George. Pan wynebwyd heriau yn y byd

---

[479] LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/2/6, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 8 Tachwedd 1910.
[480] LlGC Daniel 1041, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 11 Tachwedd 1910.

cyhoeddus, y cyfeillion personol oedd yn darparu cefnogaeth a sicrwydd i'w gilydd. Roedd y ddau fyd wedi eu plethu ac nid oedd ffiniau cadarn rhwng eu profiadau personol a chyhoeddus. Ond yn fwy na hyn, mae'r dyfyniad uchod yn arddangos dibyniaeth Edwards ar Daniel a'i hiraeth am Ellis wrth wynebu prawf gyrfaol – mae hyn yn awgrymu perthynas emosiynol llawer dwysach.

**Priodi a sefydlu teulu**

Dychwelwn at y syniad o groesi trothwyon. Wrth ystyried y modd roedd profiadau'r dynion hyn wedi eu plethu wrth iddynt gyrraedd cerrig milltir pwysicaf bywyd, mae trafod lle priodi a theulu yn eu bywydau yn holl bwysig. Yng ngeiriau Joanne Bailey:

> *Many of the accounts of medieval, early modern and Victorian masculinities consider fatherhood because it was part of the process of achieving 'full' or 'patriarchal' manhood. A consequence of marriage, an institution which conveyed privileges to men as heads of household and marked male maturity and economic independence, fatherhood is thus one of a constellation of markers of authority.*[481]

Dadleua Sean Brady nad oedd perthynas gorfforol rhwng dynion yn cael ei thrafod yng nghyfnodau Fictoria ac Edward er mwyn amddiffyn y syniadau a fodolai ynghylch gwrywdod. Mae'n pwysleisio'r cysyniad o ŵr priod yn cynnal ei deulu felly. Dadleua bod ffocws ar fywyd y cartref ('*domesticity*'), '*Central to these studies is the examination of fatherhood. Emphasis was placed in public discourse on an ideal of the uxorious husband and the authoritative father as the basis for the stability of society.*'[482] Mae John Tosh hefyd o'r farn, '*In late Victorian Britain the sanctification of home was alive and well across a wide swathe of society. To live in domesticity*

---

[481] Joanne Bailey, 'Masculinity and Fatherhood in England c. 1760-1830' yn Arnold & Brady, *What is Masculinity,* tt, 167-168.

[482] Sean Brady, *Masculinity and Male Homosexuality in Britain, 1861-1913* (Basingstoke, 2009), t. 1.

*continued to be a compelling aspiration for men on the margins of 'respectable' society who were anxious to better their social status*.'[483] Ymhellach, cydnabyddai Tosh y modd yr ystyriwyd bod yn hoyw yn fygythiad i wrywdod a rôl dynion yn atgenhedlu.[484] Gwelir felly'r pwyslais a roddwyd ar briodi a dechrau teulu a'r modd yr oeddent yn cael eu hystyried yn gerrig milltir hanfodol ar gyfer dynion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er bod rhai dynion dosbarth uwch yn rhoi mwy o bwyslais ar eu gyrfaoedd.

Dylid cofio bod y cartref yn un o'r dair agwedd mae Tosh wedi eu cyflwyno wrth feithrin gwrywdod ac mae ei lyfr, *A Man's Place,* yn pwysleisio pwysigrwydd ei gartref i ddyn, *'Thus* establishing *a household creates the conditions for private life, but it has also long been a crucial stage in winning social recognition as an adult, fully masculine person'.*[485] Mae Tosh o'r farn bod y byd domestaidd yn hanfodol i wrywdod – bod sefydlu cartref, ei amddiffyn, darparu ar ei gyfer, ei reoli a hyfforddi meibion i ddod yn ddynion yn sicrhau bod dyn yn ennill cydnabyddiaeth gan ei gyfoedion. Cyflwyna hefyd y syniad o *domesticity – 'It denotes not just a pattern of residence or a web of obligations, but a profound attachment: a state of mind as well as a physical orientation.'*[486] Mae'r cysyniad hwn yn atgyfnerthu'r syniad o fydoedd ar wahân gan ei fod yn cynnig modd i ddynion ddianc o'r byd gwaith a chyhoeddus. Ond, ni ddylid cyffredinoli ynghylch profiadau dynion e.e. byddai tensiwn rhwng y byd domestaidd â phrofiadau dynion mewn cymdeithasau gwrywaidd ac anturiaethau tramor.[487] Yn yr un modd, mae pennod olaf *A Man's Place* yn delio gyda'r cyfnod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan fo rhai dynion wedi troi eu cefnau ar y syniad o *domesticity,* yn mwynhau rhyddid ac yn priodi yn hwyrach neu'n osgoi priodi'n gyfan gwbl.[488] Ni fedrwn gyffredinoli ynghylch profiadau dynion, ond yn sicr mae gweithiau haneswyr yn

---

[483] Tosh 'The Making of Masculinities', tt. 41-42.
[484] Ibid., t. 49.
[485] Idem., *A Man's Place,* tt. 2-3.
[486] Ibid., t. 4.
[487] Ibid., t. 6.
[488] Ibid., tt. 170-194.

awgrymu bod bywyd cysurus yn y cartref yn uchelgais i nifer fawr o ddynion yng nghyfnod D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards.

Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, ystyrir yma beth oedd teimladau D.R. Daniel a'i gyfeillion at briodi a chael plant. O ran Daniel, Ellis ac Edwards, yn dilyn degawdau o gyfeillgarwch, disgwylir y byddai ffocws y dynion hyn wedi newid ychydig ac y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y llythyrau rhyngddynt. Ond yma, yn bwysicach fyth, astudir beth oedd effaith y newidiadau enfawr hyn yn eu bywydau personol ar y cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel a'i ffrindiau.

Yn wir, mae'r llythyrau rhwng O.M. Edwards at ei ddarpar wraig, Elin, yn datgelu pwysigrwydd priodi a'r angen i fedru darparu ar gyfer gwraig sy'n gyson gyda'r hyn a ddisgrifir yn yr hanesyddiaeth. Ysgrifennodd O.M. Edwards at Elin yn 1888, dair blynedd cyn priodi, 'Yr wyf yn meddwl y dylai pob geneth feddwl dau beth am un gynygio fod yn briod iddi, - a ydyw yn un y medr ei hoffi, ac a ydyw yn un fedr roddi cartref cysurus iddi.' Credai y byddai modd iddynt dynnu ymlaen yn iawn, ond am yr ail fater, ysgrifennodd:

> Am y peth arall, - sef pa fath gartref a gewch, - ni fedraf ddweyd etto, er fy mod yn meddwl unwaith y buaswn mewn sefyllfa i wybod ym mhell cyn hyn. Buasai'n well gennyf beidio priodi heb sicrwydd am wneyd o leiaf ddau cant o bunnau yn y flwyddyn yn glir, a sicrwydd y gwnawn hynny o leiaf yn y dyfodol. Efallai y gwnaf hynny eleni, - nid wyf yn gwybod etto. Cyn diwedd y term, yr wyf yn gobeithio y bydd gennyf amcan gyfrif go lew. Gwyddoch mai o f'anfodd yr arhosais ymma, gwrthodais leoedd dedwydd yng Nghymru lle y buaswn yn cael £300 yn gysurus yrwan. A dymma ddywedant, - "Rhaid i chwi fodloni ar lai na hynny yn Rhydychen am ychydig, ond mi ddowch i gael llawer mwy".[489]

[489] O.M. Edwards at Elin Edwards, 3 Hydref 1888 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*, t. 67.

Yn sicr mae cynnwys y llythyrau yn cadarnhau bod O.M. Edwards yn gweld priodi yn drothwy i fyd oedolyn. Mae'r llythyrau rhwng y cwpl yn datgelu bod O.M. Edwards wedi trafod gyda mam Elin na wyddai pryd y gallai briodi ei merch er ei fod yn sicr o'i deimladau tuag ati. Awgryma sawl rheswm dros eisiau ei phriodi hi gan gynnwys ei bod o deulu parchus, yn Gymraes, yn Fethodist ac o Lanuwchllyn. Roedd ei rhinweddau a'i ffaeleddau yn ei gwneud yn bwrpasol iddo ac yr oedd yn arw iawn amdani.[490] Roedd ôl meddwl y tu ôl i fwriad O.M. Edwards i briodi gan ei fod wedi ystyried y rhinweddau oedd gan Elin oedd yn ei gwneud yn addas fel gwraig iddo ac yr oedd eisiau sicrhau ei fod yn medru darparu ar ei chyfer. Nid oedd rhuthro i briodi yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar ei yrfa, ac felly roedd hyn yn ystyriaeth hefyd. Ysgrifennodd ati fisoedd yn ddiweddarach gan ddweud ei fod wedi ei wneud yn gymrawd yn Ngholeg Lincoln, Rhydychen, ond na chai briodi am gyfnod penodol o amser (yn dibynnu os oedd cymrawdwyr eraill yn priodi). Byddai'r gymrodoriaeth a gwaith dysgu ychwanegol yn rhoi cyfle iddo i wneud llawer o arian. Yn y llythyr hwn, roedd yn gofyn i Elin benderfynu os oedd hi am aros amdano cyn priodi.[491] O'r diwedd, cawsant ganiatad i briodi, a gwnaed hynny yn 1891 ar ôl llythyru ers 1887.

Ceir nodyn yn nyddiadur Lloyd George ar 30 Awst 1887 yn awgrymu ei fod yntau hefyd yn ystyried ei sefyllfa cyn priodi. Disgrifia'r modd y teimlai ef a'i ddarpar wraig yr awydd i briodi'n syth ond y byddent siwr o fod yn gorfod aros tan y gwanwyn dilynol, '*I shd. however like to be in a position to ask the old folks consent* now. *One very good reason for postponement is that there is no available house for one's residence – except Cefniwrch wh[ich] neither of us cares for.*'[492] Yr oedd ei rhieni hi wedi ceisio eu hannog i ail feddwl ac aros iddynt werthu stoc o'u fferm er mwyn rhoi arian iddynt.[493] Yn wir, gellir dweud bod cyfeillion D.R. Daniel wedi ystyried y mater o sefydlu cartref yn un pwysig yn ogystal, gydag O.M. Edwards yn

490 Ibid., tt. 68-69.
491 O.M. Edwards at Elin Edwards, 13 Chwefror 1889 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*, tt. 81-83.
492 Dyddiadur D. Lloyd George 1887, 30 Awst 1887 yn Kenneth O. Morgan, *Lloyd George Family Letters*, tt. 19-20.
493 Ibid., 1 Tachwedd 1887, t. 21.

ymweld â'i hen *landlady* er mwyn chwilio am gartref yn Rhydychen iddo ef ac Elin.[494] Ymhellach, mewn llythyr at ei ddarpar wraig yntau yn 1898, disgrifia Tom Ellis Lloyd George yn mynd gydag ef i chwilio am gartref priodasol iddynt, *'He liked it immensely'*.[495] Cymerodd Ellis ddiddordeb mawr ym manylion ei briodas ei hun e.e. sut i addurno'r pafiliwn ac ef wnaeth oruchwylio newidiadau i'w tŷ ar Stryd Cowley.[496] Dyma arddangos bwysigrwydd bywyd priodasol i'r dynion hyn gan atgyfnerthu'r modd yr oedd priodi yn cael ei ystyried yn garreg filltir iddynt. Er hyn, effaith priodi ar y berthynas rhwng y cyfeillion gwrywaidd yw ffocws yr adran hon.

Mae ymateb Daniel a'i gyfeillion i briodi a dechrau teulu yn arddangos dyfnder y cyfeillgarwch rhyngddynt a'r syniad gwirioneddol eu bod yn rhan o brofiadau ei gilydd. Pan ddywedodd Daniel ei fod am briodi yn 1887, gofynnodd i'w gyfaill hynaf, Tom Ellis fod yn was priodas iddo. Ymatebodd Ellis yn llawen i gais ei gyfaill:

> *Your letter took my breath away and it haunts me every minute. What sometimes flitted through my mind has become a reality with terrible suddenness. I cannot write at any length today to discuss the new situation...*
>
> *It is very kind of you and yours to ask me to perform the function of 'best man'. I shall be proud to do so if I can arrange it.*[497]

Bron na ellir teimlo siom a phryder Ellis ei fod yn colli ffrind i fywyd priodasol. Ceir yr argraff bod y newid ym mywyd personol Daniel wedi cael effaith fawr iawn ar Tom Ellis, er ei falchder o gael ei ddewis fel gwas priodas. Ond, yn fwy na hyn, ceir awgrym o ddibyniaeth ar ran Daniel gan ei fod yn gofyn cyngor Ellis ar y fath bethau megis ble y dylid priodi – yn y Llan neu yn Llundain, gydag Ellis yn argymell y dylid gwneud yn y Llan, er

[494] Dyddiadur D. Lloyd George 1891, 3 Chwefror 1891 yn Kenneth O. Morgan, *Lloyd George Family Letters*, t. 41 & O.M. Edwards at Elin Edwards, 16 Mai 1891 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*, t. 173.
[495] Tom Ellis at Annie Ellis, 22 Ebrill 1898 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 167.
[496] Tom Ellis at Annie Ellis, 11 Mai 1898 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, tt. 170-171.
[497] LlGC Daniel 336, Tom Ellis at D.R. Daniel, 22 Ionawr 1887.

efallai na fyddai'n medru cyrraedd er mwyn gwasanaethu fel gwas priodas.[498] Gwelir yn y llythyr hwn yn sicr, y tensiwn rhwng gwaith Tom Ellis a'i deyrngarwch i'w gyfeillion. O bosibl, roedd Daniel yn ystyried priodi yn Llundain er mwyn sicrhau presenoldeb Ellis. Dyma agosatrwydd ac arweiniad ar lefel bersonol sydd yn adlais o'r arweiniad gyrfaol a dderbyniodd Daniel gan Ellis hefyd. Nid oedd D.R. Daniel eisiau croesi'r trothwy i fywyd priodasol heb i Tom Ellis fod yno. Yn anffodus, derbyniodd Daniel delegram gan Tom Ellis yn dweud na allai adael ei waith er mwyn bod yn was priodas iddo gan fod argyfwng wedi codi.[499] Yn dilyn y briodas, ysgrifennodd:

> *Don't dream for a moment that there is a jot or little or the shade of a shadow of a little of interruption to a friendship which to me is near to life itself…*
>
> *I have been unable even to sally to the Strand in search of a little momento of the great turning point in life which you have passed. I think of you and of your lassie-wife over and over again everyday. I am delighted to find that you have already settled down, with every prospect of that calm and quiet happiness of which we have often talked and dreamt*.[500]

Unwaith eto, gwelir effaith priodas ei ffrind gorau ar Tom Ellis a phwysigrwydd eu cyfeillgarwch iddo. Ceir gonestrwydd yn ogystal wrth i Ellis drafod yn agored eu dyheuadau ar gyfer bywyd priodasol hapus. Mae'r dyfyniad hwn felly yn awgrymu bod y ddau wedi bod yn gobeithio am yr hapusrwydd hwn ar hyd y blynyddoedd. Gan fod Daniel mor awyddus i sicrhau bod Ellis yn bresennol yn ei briodas, ac Ellis yn ymateb mor emosiynol i'r digwyddiad, gwelir eto bod Daniel wedi sicrhau bod ei gyfaill agosaf yn rhan o brofiad oedd mor bwysig iddo.

---

[498] LlGC Daniel 337, Tom Ellis at D.R. Daniel, 28 Ionawr 1887.
[499] LlGC Daniel 49, Tom Ellis at D.R. Daniel, 16 Chwefror 1887.
[500] LlGC Daniel 340, Tom Ellis at D.R. Daniel, dydd Gwener (15 Mawrth 1887).

Mewn llythyr at D.R. Daniel yn dilyn ei briodas ag Elin yn 1891, mae O.M. Edwards yn tynnu sylw at y newid yn ei sefyllfa bersonol, ac at y ffaith bod Daniel yn dad bellach, yn y modd y mae'n cloi llythyr, 'Ein cofion goreu ein dau atoch "fel teulu",- peth rhyfedd ydyw meddwl am gyfarch ein gilydd fel hyn ynte!'[501] Mae cydnabod y teulu mewn cyfarchiad fel hyn yn gyson gyda nifer o'r llythyrau eraill rhyngddynt.[502] Dangosir felly ddatblygiad perthynas Daniel ac Edwards o gyfeillion ysgol yn trafod eu gwaith academaidd i fod yn ddynion priod yn trafod eu gyrfaoedd cyhoeddus. Ond, pan briododd O.M. Edwards, unwaith yn rhagor ceir awgrym o anhapusrwydd Ellis gan ei fod yn parhau yn ddi-briod. Ni phriododd tan 1898, y flwyddyn cyn ei farwolaeth, pan yr oedd yn 39 oed. Mewn llythyr at D.R. Daniel, pwysleisia fod ei ffrindiau wedi priodi o'i flaen ef, gydag O.M. Edwards yn ei wahodd i'w briodas, 'O! y newidiadau! Owen yn wr, a minau yn wir a adawyd fy hunan.'[503] Yn ddiweddarach, ychwanegodd Ellis ôl nodyn at lythyr yn dweud, 'Chwiliaf am wraig ar unwaith!!!'[504] Gwelir eto felly effaith newidiadau ym mywydau personol y cyfeillion ar gynnwys eu gohebiaeth ac effaith y digwyddiadau hyn ar sefyllfa emosiynol Tom Ellis. Mae hyn yn atgyfnerthu hefyd y syniad yr oedd Tom Ellis yn teimlo rheidrwydd i ddarganfod gwraig a phriodi.

Yn ystod dyddiau cynnar perthynas D.R. Daniel gyda Lloyd George yn ogystal, gwelir newidiadau amlwg ym mywydau personol y ddau ŵr gyda Lloyd George yn priodi ei wraig, Margaret, a D.R. Daniel yn dod yn dad i fachgen o'r enw Peredur. Cyn ei briodas yn Ionawr 1888, ysgrifennodd Lloyd George at Daniel, 'Yr ydwyf ar gychwyn i wlad bell – gwell hefyd disgwyliaf.'[505] Yn yr un modd, mae Daniel yn dymuno'n dda i Lloyd George ar ei fis mêl yn Llundain. Ei ymateb ef oedd, 'Diolch am eich llythyr dderbyniwyd yn Llundain ac am ei ddymuniadau da. Sightseeing frustrated the good intention [o ymateb i lythyr Daniel]'.[506] Hyd yn oed yn ystod y

---

501 LlGC Daniel 1011, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 19 Hydref 1891.
502 Er enghraifft, LlGC Daniel 1008, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 4 Ionawr 1891 & LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/21/28, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 11 Chwefror 1903.
503 LlGC Daniel 377, Tom Ellis at D.R. Daniel, 10 Gorffennaf (1891).
504 LlGC Daniel 415, Tom Ellis at D.R. Daniel, (9 Awst 1893).
505 LlGC Daniel 2747, D. Lloyd George at D.R. Daniel, (Ionawr 1888).
506 LlGC Daniel 2748, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 6 Chwefror 1888.

gwyliau pwysig hyn, roedd Lloyd George yn parhau i lythyru gyda D.R. Daniel gan drafod materion yn cynnwys *Udgorn Rhyddid*, papur newydd radical a sefydlwyd gan Lloyd George yn 1888 ac a olygwyd gan D.R. Daniel. Yn wir, nodir yn ail gyfrol bywgraffiad Daniel i Lloyd George bod Lloyd George wedi closio at Daniel a'i wraig ar ôl clywed eu bod yn briod (yn wreiddiol roedd wedi meddwl mai brawd a chwaer oedden nhw). Roedd Lloyd George wedi awgrymu iddynt ei fod yn bwriadu priodi ac felly roedd eu sefyllfaoedd yn debyg.[507] Roedd Daniel a Lloyd George mewn lle i sefydlu cyfeillgarwch cadarn nid yn unig oherwydd eu gyrfaoedd ond o ganlyniad i'w sefyllfa bersonol debyg yn ogystal. Yn yr un modd, tynnir sylw at enedigaeth mab Daniel wrth i Lloyd George gloi llythyr gyda'r geiriau, 'Cofion cynes attoch chwi a Mrs & master Daniel.'[508] Roedd y ddau wedi meithrin perthynas agos yn sgil eu cydweithio ac roedd honno wedi dod yn un bersonol a chlos. Yn wir, roedd y ffaith bod y ddau wedi priodi yn ystod yr un cyfnod wedi dyfnhau y cwlwm cyfeillgarwch hwn gan eu bod yn croesi cerrig milltir bywyd gyda'i gilydd - boed yn yrfaol neu'n bersonol.

Ar ôl cyfnod hir yn ddyn sengl, priododd Tom Ellis gyda Miss Annie Davies yn 1898. Roedd Daniel wedi ei gyffroi ar dderbyn y newyddion gydag Ellis yn ymateb i'w lythyr gyda'r geiriau, 'Gwn yn dda nad oes un galon yn fwy cywir a llawn o ddymuniadau da i mi na'r eiddoch chwi. Yr wyf yn gwybod y bydd fy llances a chwithe yn hoff o'ch gilydd.'[509] Yr oedd yn fwriad gan Ellis i Daniel a'i wraig fod yn rhan o fywydau ei gilydd felly.[510] Gobeithiai'n fawr y byddai Peredur, mab Daniel, yn mynychu ei briodas, 'A ydych am ddod a Pheredur gyda chwi? Deuwch os oes modd.'[511] Parhau wna'r awgrym o gysylltiad teuluol gan y bu i Ellis atgyfnerthu'r syniad yr hoffai weld mab D.R. Daniel, Peredur, yn bresennol yn y briodas,

---

[507] LlGC Daniel 2913, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol II, t. 2.
[508] LlGC Daniel 2757, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 10 Mawrth 1890.
[509] LlGC Daniel 472, Tom Ellis at D.R. Daniel, 20 Awst 1897.
[510] Diddorol, er hyn, yw nodi mai Dr Isambard Owen oedd yn was priodas iddo, ac nid Daniel. Ni wyddwn pam. O bosibl roedd hyn oherwydd swildod Daniel - roedd hwn yn ddigwyddiad amlwg iawn yn y wasg ac roedd Daniel newydd golli ei ferch.
[511] LlGC Daniel 483, Tom Ellis at D.R. Daniel, 15 Mai 1898.

*'D. Daniel is here – he is jolly. I hope his little boy Peredur who was in the Abbey on Saturday will come to the wedding.'*[512]

Ganwyd Peredur, mab D.R. Daniel, yn 1889. Mae balchder Daniel ar gael dod yn dad, a chyrraedd trothwy arall mewn bywyd, yn cael ei adlewyrchu yn ei lythyr at ei fam:

> Cawsom anrheg o <u>hogyn</u> braf yma neithiwr neu yn hytrach 2 or gloch boreu heddyw… Y mae y gwron yn gallu gwaeddi yn galonog… Gallwch feddwl fod yma falchder dros ben. Y mae pawb yn llongyfarch yn galonog iawn a llawer o hwyl ar gorn y digwyddiad...[513]

Ymateb Ellis oedd, 'Wel! dyma hi! Udgorn rhyddid yn cyhoeddi ar gan ddyfodiad aer i'm hen gyfaill. Gwynfyd iddo ac i'w rieni ydyw ewllys dyfnder calon hen lanc.' Trafoda Ellis ymateb O.M. Edwards i enedigaeth mab i'w cyfaill yn ogystal, 'Cefais air oddiwrtho – doniol iawn – ar ol clywed am ail-ddyfodiad Peredur, neu os mynwch ddyfodiad Peredur yr Ail.'[514] Dyma ddyfyniadau sy'n datgelu llawenydd Tom Ellis ar enedigaeth mab i D.R. Daniel a bod y brwdfrydedd wedi ei rannu gyda'r cyfaill arall o gyfnod plentyndod, O.M. Edwards, a wnaeth sylwadau ar yr enw Peredur. Er hyn, diddorol yw nodi mai darllen y wybodaeth ym mhapur newydd *Udgorn Rhyddid* wnaeth Ellis yn hytrach na derbyn llythyr gan D.R. Daniel – o bosibl oherwydd dyma oedd y modd mwyaf hwylus o rannu'r newyddion gyda nifer o bobl. Datgelodd Tom Ellis yr un balchder gwirioneddol ar eni merch i O.M. Edwards yn 1898 yn dilyn marwolaeth ei fab. Ysgrifennodd at Daniel, 'Mae gan Owen ferch er ys yn agos i fis, y nos Sul y mellt ar taranau mawr. Ei henw yw Hâf Owen.'[515] Gwelir balchder Ellis yn hapusrwydd ei ddau gyfaill ysgol wrth iddynt ddod yn dadau, ond yn fwy na hyn gwelir yr angen ganddo i drafod y newyddion da gydag

---

[512] Tom Ellis at Annie Davies, 30 Mai 1898 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 181.
[513] LlGC Daniel 2421, D.R. Daniel at Jane Daniel, dydd Sadwrn (1889).
[514] LlGC Daniel 355, Tom Ellis at D.R. Daniel, 11 Mai 1889.
[515] LlGC Daniel 488, Tom Ellis at D.R. Daniel, 16 Medi 1898.

aelodau eraill y triawd. Dyma drafodaeth bwriadol ac agored felly o ddigwyddiadau pwysicaf y cyfeillion ar lefel bersonol.

Yn ddiweddarach, ymatebodd Ellis i enedigaeth Gwenllian, merch Daniel, yn 1897 yn yr un modd. Ysgrifennodd at ei ffrind gyda brwdfrydedd, 'Hawddamor i'r llances fach!'[516] Ond y tro hwn, mae modd darganfod trafodaeth am eni'r ferch fach yn llythyrau Tom Ellis at ei ddarpar wraig, Annie Davies, gan iddo ysgrifennu, 'Mae David Daniel eisiau i mi fyned ato i Fourcrosses i weled ei lances fach (Gwenllian mae am roddi yn enw iddi) ac i ymgomio am a fu ag a fydd a dyna fuaswn yn ddymuno wneud'.[517] Gwelir yn amlwg felly yr oedd D.R. Daniel eisiau rhannu ei lawenydd gyda'i gyfaill pennaf. Ond, gwelir hefyd effaith y digwyddiad mawr hwn yn mywyd personol ei ffrind gorau ar gynnwys llythyrau Ellis a'i ddarpar wraig. Mewn llythyr hynod bersonol ati, disgrifia Tom Ellis Gwilym Lloyd George, mab David Lloyd George, yn cwrdd â Gwenllian Daniel. Dyma weld ochr dyner i Ellis wrth deimlo'r angen i nodi'r digwyddiad ac wrth wneud hynny'n cyplysu teuluoedd Daniel a Lloyd George â'i brofiad yntau:

> Yr oedd eich cyfaill bach Gwilym (ir hwn y rhoddais eich neges aml waith drosodd) yn ddoniol iawn. Yr oedd arno eisiau myned a'r 'ddoli fach' (Gwenllian, geneth fach David Daniel, mis oed) gydag ef i Griccieth yn y car![518]

Adlewyrchir y modd y bu i'r newidiadau pwysig hyn ym mywydau'r dynion ymddangos yn nhrafodaethau eu cyfeillion gyda'u gwragedd hwythau. Yn wir, yn dilyn ei farwolaeth yn 1899, croniclwyd y ffaith bod gwraig Ellis yn feichiog mewn llythyr oddi wrth Elin Edwards at ei gŵr, 'mae sicrwydd y bydd ganddi hithe [Annie Ellis] fab neu ferch cyn hir. Fe ddigwyddodd y peth yn Cannes. Rhyfedd iawn ynte?'[519]

---

[516] LlGC Daniel 474, Tom Ellis at D.R. Daniel, 3 Hydref 1897.
[517] Tom Ellis at Annie Ellis, 8 Hydref 1897 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 105.
[518] Tom Ellis at Annie Ellis, 11 Hydref 1897 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 108.
[519] Elin Edwards at O.M. Edwards, 13 Gorffennaf 1899 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*, t. 329.

Yn gyson gyda chynnwys yr hanesyddiaeth a amlinellwyd eisoes, dengys yn glir yn y llythyrau rhwng O.M. Edwards, Lloyd George a Tom Ellis a'u darpar wragedd y pwysigrwydd a roddai'r tri i briodi, a sicrhau cartref cysurus cyn gwneud cynnig i briodi. Tystir unigrwydd Tom Ellis wrth weld D.R. Daniel ac O.M. Edwards yn priodi ond atgyfnerthid ei awydd a'i ddisgwyliadau ei hun yn y mater hwn. Yn fwy na hyn, gellir awgrymu bod clywed am ddatblygiadau cyffrous yn mywydau personol D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards, wrth iddynt briodi a dod yn dadau, wedi denu ymateb cadarnhaol iawn gan y cyfeillion ysgol. Roeddent yr un mor falch o glywed am y newidiadau arwyddocaol hyn ym mywydau personol ei gilydd ag yr oeddent o dystio i gynnydd proffesiynol ac academaidd ei gilydd. Ymhellach, mae'r modd yr oedd Daniel a'i ffrindiau yn rhannu'r newyddion gyda'i gilydd, a'u gwragedd eu hunain, yn cadarnhau unwaith yn rhagor bod y dynion hyn wedi cynnal eu cyfeillgarwch a phlethu'r bydoedd personol a chyhoeddus trwy wahodd ei gilydd i rannu profiadau pwysig.

I gloi felly, gwelir yn glir y modd y mae'r ohebiaeth rhwng Daniel a'i gyfeillion yn cefnogi'r hanesyddiaeth ddiweddar sydd yn beirniadu'r cysyniad o sfferau ar wahân. Mae'r ffaith i Tom Ellis, D.R. Daniel ac O.M. Edwards sefydlu eu cyfeillgarwch mor gynnar yn eu bywydau yn esbonio'n glir y modd y bu iddynt bontio'u profiadau teuluol, academaidd a gyrfaol. O ganlyniad, wrth dyfu'n ddynion sicrhawyd eu bod yn rhannu profiadau cyhoeddus a phersonol er mwyn cynnal eu cyfeillgarwch.

Mae cynnwys y bennod hon hefyd yn arddangos pwysigrwydd cyrraedd cerrig milltir mewn bywyd wrth lunio hunaniaeth gwrywaidd. Rhoddwyd gwerth ar ddatblygiad addysgol ac felly pan aeth Ellis i ffwrdd i'r brifysgol, ysgrifennodd at Daniel ac Edwards yn eu hannog i ddatblygu'n academaidd, sicrhau eu bod yn dod yn rhan o'u brofiadau newydd a dangos balchder gwirioneddol yn llwyddiannau academaidd Edwards. Yn yr un modd, byddai Daniel yn darparu newyddion lleol gan sicrhau bod cysylltiad Ellis gyda Chymru yn parhau. Dyma arddangos y modd roedd eu bydoedd wedi eu cyd-blethu. Ochr yn ochr gyda thrafodaethau academaidd felly byddai'r

ddau yn rhannu eu teimladau am ferched lleol Cefnddwysarn a phan ddechreuodd D.R. Daniel garwriaeth gyda Sarah Jones, daeth Tom Ellis yn gyfeillgar gyda hi yn ogystal. Wrth rannu'r profiadau academaidd a charwrol hyn, roedd Daniel ac Ellis, ac Edwards i raddau llai, yn cynnal ac yn dyfnhau'r berthynas.

Pan yn hŷn, ceir enghreifftiau o hapusrwydd dros lwyddiannau gyrfaol cyfeillion a chefnogaeth ymarferol er mwyn sicrhau swyddi i D.R. Daniel. Yn ogystal, gwelwyd cydweithio hynod effeithiol rhwng Daniel a'i gyfeillion er lles chwarelwyr y Penrhyn a datblygiadau addysg yng Nghymru. Ymhellach, pan wynebodd Ellis, Daniel ac Edwards heriau yn eu gyrfaoedd, at ei gilydd y byddant yn troi am anogaeth a chydymdeimlad. Dengys hyn bod cefnogaeth lefel bersonol yn cael ei gynnig mewn cyd-destun gyrfaol a cheir awgrym o'r ddibyniaeth emosiynol rhyngddynt sydd yn cael ei drafod ymhellach yn y bennod nesaf.

Ymhellach, gwelir hefyd y gwerth a roddai'r dynion hyn ar briodi a darparu ar gyfer eu gwragedd a theuluoedd. Mae'r hapusrwydd a welir yng nghynnwys llongyfarchion y cyfeillion yn arddangos y modd yr oeddent yn profi ac yn rhannu llawenydd ei gilydd. Yn yr un modd, mae iselder Tom Ellis wrth weld ei gyfeillion yn priodi, ac yntau'n sengl, yn cadarnhau'r pwyslais a roddwyd ar briodi. Dengys felly bod D.R. Daniel a'i gyfeillion wedi pasio sawl trothwy mewn bywyd gan rannu eu profiadau ar hyd y daith. Ond, effaith y rhannu hyn sydd yn dechrau dod i'r golwg bellach. Wrth sicrhau bod eu cyfeillion yn cael mynediad at eu profiadau, dyfnhawyd y berthynas rhwng Daniel a'i gyfeillion wrth iddynt blethu'r bydoedd cyhoeddus a phreifat.

# PENNOD 3

## ‘Mae’m calon yn brifo drosoch’: Yr ymlyniad emosiynol mewn cyfnodau heriol.

Mewn llythyr at D.R. Daniel, dyddiedig 3 Awst 1887, ysgrifennodd Tom Ellis:

> *Many times have I felt a keen longing to see you and to have a long chat as of yore. When twice at home I have gone by myself to Cefn Cynlas and wept bitter tears when you did not come. I felt as if you would come, if I only waited a little longer.*[520]

Trafodwyd eisoes fel y bu i berthynas Daniel gyda’i gyfeillion gryfhau a datblygu wrth rannu profiadau allweddol bywyd gyda’i gilydd. Cafwyd awgrym yn y bennod ddiwethaf o ddibyniaeth a chefnogaeth mewn cyfnodau gyrfaol anodd a’r modd y bu i Daniel, Ellis ac Edwards ymdrechu i gynnal eu cyfeillgarwch pan fyddent ar wahân. Ond, mae’r dyfyniad uchod yn awgrymu cysylltiad llawer mwy emosiynol rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis. Awgryma Ellis ei fod yn hiraethu am ei gyfaill ac yn dyheu am ei weld. Bwriad y bennod hon, felly, yw darganfod graddau’r cysylltiad emosiynol rhwng Daniel a’i gyfeillion ysgol er mwyn cyfrannu at y feirniadaeth o sfferau ar wahân a’r trafodaethau ynghylch natur gwrywdod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed.

Dechreuir trwy ystyried y modd yr oedd y dynion hyn yn cyfarch ei gilydd yn eu llythyrau a’r modd y mae’r cyfeiriadau hyn yn darparu mewnwelediad i’w teimladau a’u dealltwriaeth o’u perthynas gyda’i gilydd. Gwelir hiraeth, consyrn ac hoffter yn eu geiriau. Ond, craidd y drafodaeth yw cynnwys llythyrau Daniel a’i gyfeillion at ei gilydd pan fyddent yn wynebu cyfnodau mwyaf heriol eu bywydau personol. Profodd O.M. Edwards, D.R. Daniel a Lloyd George y chwerwder o golli plentyn yn ifanc. Beth felly oedd rôl eu cyfeillion wrth gynnig cysur iddynt yn ystod cyfnod mor dywyll? Mewn

[520] LlGC Daniel 341, Tom Ellis at D.R. Daniel, 3 Awst (1887).

cyfnodau o alar a phoen meddwl, a gafwyd datganiadau o emosiwn yn y llythyrau rhyngddynt? Dengys yn glir yn y bennod hon bod y perthnasau rhwng Daniel a'i ffrindiau ar eu cryfaf a mwyaf gonest yn y cyfnodau hyn. Ymhellach, pan fu farw Tom Ellis yn ŵr deugain oed yn 1899, ystyrir yma beth oedd ymateb Daniel i golli cyfaill a oedd fel brawd iddo, a beth oedd effaith hyn ar ei berthynas gydag O.M. Edwards – y trydydd yn y grŵp o gyfeillion. Sut y bu i'r ddau drafod eu colled a chynnig geiriau o gysur i'w gilydd ac a ddyfnhaodd eu cyfeillgarwch mewn unrhyw fodd? Wrth ddadansoddi coffadwriaethau i Ellis ac Edwards, trafodir sut y gwnaed y teimladau personol hyn yn faterion cyhoeddus wrth i'r cyfeillion ysgol ddisgrifio'n agored eu cyfeillgarwch â'i gilydd ar yr adegau anodd hyn. O ganlyniad, mae'r bennod hon yn atgyfnerthu'r hyn a drafodwyd yn y bennod flaenorol, nad oedd y fath beth â bwlch cadarn yn bodoli rhwng bywydau cyhoeddus a phersonol y dynion hyn. Ymhellach, dyma gyfle i ystyried yr ymlyniad emosiynol sydd yn esbonio pam fod y dynion hyn yn dewis plethu eu profiadau.

Er hyn, nid yw'n fwriad awgrymu bod y berthynas rhwng Daniel a'i ffrindiau yn beth statig na fyddai'n addasu ac yn newid yn ôl sefyllfaoedd ac wrth wynebu heriau gwahanol. O ganlyniad, ystyrir effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar y berthynas rhwng D.R. Daniel, a oedd yn heddychwr, ac O.M. Edwards a oedd yn was sifil a thirfeddiannwr; a chymherir hyn gyda'i gyfeillgarwch gyda D. Lloyd George a ddaeth yn Brif Weinidog yn ystod y rhyfel. Ymhellach, trafodir lefel y cysylltiad emosiynol rhyngddynt yn dilyn y rhyfel; beth oedd lefel yr agosatrwydd, ac a oroesodd y cyfeillgarwch gyfnod mor heriol?

Mae haneswyr modern wedi cynnig gweithiau ar y cysyniad traddodiadol o wrywdod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyflwynir delwedd o ddynion cryf yn darparu ar gyfer, ac yn arwain, eraill. Fel y dywed Graham Dawson, *'Masculinities are lived out in the flesh, but fashioned in the*

*imagination.*'[521] Ffocysa ar y cysyniad o filwr arwrol mewn cyd-destunau gwahanol yn ei lyfr, ond mae'r dyfyniad hwn yn werthfawr. Awgryma'r angen i ystyried beth oedd y cysyniadau o wrywdod a oedd yn cael eu hybu a'u meithrin yn nynion y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae John Tosh, er enghraifft, wedi ymdrin â'r cysylltiad rhwng gwrywdod ac imperialaeth. Pwysleisia'r syniad o feithrin dynion cryf fel unigolion, yn filwyr, helwyr, masnachwyr neu'n weinyddwyr o fewn yr ymerodraeth; nid fel aelodau o deulu neu gwpl cenhadol yn gadael y byd domestaidd ar ôl.[522] Atgyfnerthir y syniad o ddominyddiaeth imperialaeth wrth feithrin gwrywdod yng ngwaith Jonathan Rutherford a diffinir gwrywdod yng nghyd-destun gwleidyddiaeth, rhyfel a chenedlaetholdeb mewn sawl astudiaeth fanwl yn *Masculinities in Politics and War.*[523] O ganlyniad, pwysleisir y syniad o sffêr gwrywaidd a'r modd yr oedd y cynnig o antur a chyffro yn achosi dynion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i droi eu cefnau ar fywyd yn y cartref ac ymuno gyda'r fyddin neu gynrychioli Prydain dramor. Yn yr un modd, mae Matthew McCormack wedi canolbwyntio ar y cysyniad o ŵr cyhoeddus a phwysigrwydd gwleidyddiaeth i syniadau o wrywdod yn ystod yr un cyfnod. Dywed:

> *Victorians associated 'public' with a range of highly emotive moral values that were conventionally gendered in the masculine, such as openness, selflessness and civic duty. Specific formulations such as 'public spirit', 'public virtue' and 'public service' placed political action firmly within nineteenth-century expectations of what it meant to be a man; some of these cultural associations have persisted to this day.*[524]

---

[521] Graham Dawson, *Soldier Heroes: British Adventure, Empire and the Imagining of Masculinity* (Llundain, 1994), t. 1.
[522] John Tosh, 'Imperial Masculinity and the Flight from Domesticity in Britain 1880-1914' yn Timothy P. Foley, Lionel Pilkington, Sean Ryder & Elizabeth Tilley (goln.), *Gender and Colonialism* (Galway, 1995), t. 73.
[523] Gweler pennod gyntaf Jonathan Rutherford, *Forever England: Reflections on Masculinity and Empire* (Llundain, 1997), tt. 11-38 & Stefan Dudink, Karen Hagemann & John Tosh (goln.), *Masculinities in Politics and War: Gendering Modern History* (Manceinion & Efrog Newydd, 2004).
[524] Matthew McCormack, 'Introduction', yn ei (gol.), *Public Men: Masculinity and Politics in Modern Britain* (Basingstoke & Efrog Newydd, 2007), tt. 2-3.

Nid yw McCormack yn awgrymu bod y syniad o bersonoliaeth gwleidyddol dyn yn beth cyhoeddus yn unig, mwy nag y mae'n awgrymu bod y cysyniad o wrywdod yn rhywbeth personol.[525] Er hyn, mae'r gyfrol dan sylw yn pwysleisio'r modd yr oedd gwleidyddiaeth yn cynnig y gwerthoedd oedd yn creu ac yn llunio'r cysyniad cymdeithasol o wrywdod. Bwriad y gweithiau hyn oll yw ceisio esbonio'r delweddau o wrywdod a sut yr oedd disgwyliadau am ddynion yn cael eu datblygu a'u llunio. Wrth gwrs, mae lle i ddadansoddi beth oedd dylanwad imperialaeth a gwleidyddiaeth ar y cysyniad o wrywdod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan eu bod yn ddelweddau mor gryf i esbonio'r ymddygiad oedd yn ddisgwyliedig gan ddynion yn ystod y cyfnod hwn. Yn wir, trafodwyd rhywfaint ar syniadaeth ymerodraethol Ellis ac Edwards yn mhennod gyntaf y traethawd hwn.

Ond, bellach, mae angen ystyried lle emosiwn ym mhrofiadau dynion ac, yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, y berthynas rhwng cyfeillion gwrywaidd.[526] Mae haneswyr wedi ymateb i'r gofyn hwn yn ddiweddar wrth drafod y berthynas emosiynol pwysig rhwng milwyr a'u mamau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae Michael Roper, yn 'Maternal Relations', yn ystyried y ddibyniaeth emosiynol ar y mamau sy'n cael ei datgelu yn y llythyrau adref gan filwyr di-briod, dosbarth canol. Craidd y ddadl yw bod y mamau yn cynnal y meibion a'r ohebiaeth rhyngddynt yn pontio dau fyd o'r cartref i'r llinell flaen gyda'r angen am lythyr yn fwy amlwg mewn cyfnod o alar neu ansicrwydd. Yn wir, egyr yr erthygl gyda dyfyniad o lythyr gan *Lance-Corporal* David Fenton yn ysgrifennu at fam ei ffrind gan ddisgrifio'r modd y bu iddo farw yn ei freichiau ac iddo ei gusanu ddwywaith ar ei ael – unwaith ar ei ran ef, ac unwaith ar ran ei fam. Ceisiodd gael darn o'i wallt cyn ei gladdu er mwyn anfon at ei fam. Ymhellach, gofynnodd iddi hi sbario eitem oedd yn eiddo i'r mab er mwyn iddo yntau gael ei wisgo.[527] Ceir trafodaeth bellach a manylach o'r thema

[525] Ibid., t. 4.

[526] Am ystyriaeth mwy cymdeithasegol ynghylch emosiynau dynion fel unigolion, gweler Dariusz Galasiński, *Men and the Language of Emotions* (Basingstoke & Efrog Newydd, 2004).

[527] Michael Roper, 'Maternal Relations: Moral Manliness and Emotional Survival in Letters Home During the First World War', yn Dudink et al., *Masculinities in Politics and War*, tt. 295-315.

hon yn ei lyfr, *The Secret Battle: Emotional Survival in the Great War*, gyda Roper unwaith yn rhagor yn pwysleisio'r modd yr oedd y milwyr mewn cyfnod o bryder yn troi yn bennaf at eu cyfaill cyntaf h.y. eu mamau.[528] Yn wir, mae eraill wedi manteisio ar y llythyrau sydd wedi goroesi gan filwyr y Rhyfel Byd Cyntaf gyda Carol Acton yn disgrifio profiadau milwr a'i gariad o'r rhyfel yn ôl cynnwys eu llythyrau gan ddilyn eu carwriaeth hyd ei farwolaeth yntau.[529] Yn ei hastudiaeth o lythyrau milwyr Seland Newydd ac Awstralia, ystyria Kate Hunter fod y llythyrau'n arddangos y modd roedd y milwyr hyn yn ceisio cynnal eu perthynas emosiynol gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau tra ar wahân, a'r modd yr oeddent yn cyflwyno eu gwrywdod yn y llythyrau yng nghyd-destun y perthnasau hyn.[530] Mae Jason Crouthamel wedi ehangu ar y drafodaeth ymhellach gan ystyried effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gender, a'r modd y gwelai milwyr eu rolau fel dynion, yn ogystal ag effaith y rhyfel ar rywioldeb milwyr Almaenig. Dengys bod llythrau'n galluogi'r milwyr i rannu eu profiadau a chynnal perthynas gyda'u hanwyliaid adref. Ymhellach, bu i filwyr heterorywaidd a hoyw ddod yn fwy agored am eu hemosiynau ac ail ystyried eu rolau o ganlyniad i'r rhyfel.[531] Delio gyda'r berthynas rhwng dynion a menywod, neu effaith y rhyfel ar rywioldeb dynion, yn bennaf mae'r gweithiau hyn. Er hyn, dylid ystyried y defnydd a wnaed o lythyru gan filwyr yn ystod y rhyfel er mwyn sicrhau parhad eu perthynas ac wrth estyn am gynhaliaeth. Er nad oeddent yn delio gyda sefyllfa mor eithafol â rhyfel, byddai Daniel, Ellis ac Edwards yn treulio cyfnodau hir ar wahân ac yn defnyddio llythyrau fel modd o gynnal eu cyfeillgarwch ac fel modd o estyn am gymorth a chynnig cysur mewn cyfnodau heriol. Datblygir cysyniad Roper ac eraill felly yn y bennod hon, ond y berthynas emosiynol rhwng cyfeillion gwrywaidd yw'r ffocws yn y cyd-destun hwn.

---

[528] Michael Roper, *The Secret Battle: Emotional Survival in the Great War* (Manceinion, 2009).
[529] Carol Acton, 'Writing and Waiting: The First World War Correspondence between Vera Brittain and Roland Leighton', *Gender & History*, 11:1 (Ebrill 1999), tt. 54–83.
[530] Kate Hunter, 'More than an Archive of War: Intimacy and Manliness in the Letters of a Great War Soldier to the Woman he Loved, 1915–1919', *Gender & History*, 25: 2 (Awst 2013), t. 339.
[531] Gweler Jason Crouthamel, *An Intimate History of the Front: Masculinity, Sexuality, and German Soldiers in the First World War* (Basingstoke, 2014).

Ystyrir llyfr Joanna Bourke, *Dismembering the Male* i fod yn hynod ddylanwadol wrth iddi drafod effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar y corff gwrywaidd: yn fyw ac yn farw. Dyma felly ystyriaeth o fioleg, profiad a diwylliant. Yn seiliedig ar ddyddiaduron, llythyrau a phapurau'r milwyr, mae hi'n trafod y modd y defnyddiwyd y corff i osgoi ymladd neu ymateb cymdeithas i'r anallu i ymladd. Ystyrir sut yr oedd dynion yn ymddwyn heb bresenoldeb 'yr arall', sef menywod, ac effaith y rhyfel ar y berthynas rhwng y ddau ryw. Mae pwysigrwydd ymddangosiad corfforol cryf ac effaith anafiadau a marwolaeth ar y syniadau o wrywdod oll yn torri tir newydd o fewn yr hanesyddiaeth.[532] Rhoddir pennod i ystyried y modd yr oedd y milwyr yn creu ymlyniad i'w gilydd h.y. y rhwym rhyngddynt. Byddai hwn yn cael ei feithrin er mwyn creu undod o fewn catrawd a byddai dynion yn ymgymryd â rolau benywaidd traddodiadol megis gwnio, cynnig cysur a chofleidio hyd yn oed wrth wynebu marwolaeth. Meithrinwyd y fath gyfeillgarwch mewn mudiadau fel *The League of Health and Strength* a'r *Scouts*. Eto i gyd, mae Bourke yn cydnabod nad oedd ymlyniad gwirioneddol rhwng pawb. Byddai dosbarth a safle milwrol gwahanol yn atal meithrin cyfeillgarwch, byddai dynion yn gorfod pasio cyd-filwyr wedi eu clwyfo heb gynnig cymorth ac, wrth dreulio cymaint o amser gyda'i gilydd, byddent yn anghydweld.[533] Dyma felly gynnig gwedd newydd ar wrywdod mewn sefyllfa cwbl wrywaidd, gan ystyried y berthynas emosiynol a'r ddibyniaeth rhwng milwyr mewn adeg o ryfel, yn ogystal ag effaith rhyfel ar gyrff a gwrywdod dynion. Eto i gyd, mae'r cyfeillgarwch rhwng Daniel, Ellis ac Edwards yn dangos ymlyniad a rhwym cymaint mwy naturiol na dynion yn wynebu rhyfel gyda'i gilydd. Nid meithrin dibyniaeth mewn mudiadau penodol er mwyn creu undod wnaeth y dynion hyn, nac ymateb i greisis neu ryfel, ond dewis tyfu ac aeddfedu ochr yn ochr gyda'i gilydd oherwydd eu magwraeth a'u rhannu profiadau a syniadau. Fel cynnwys llyfr Bourke, er hyn, mae llythyrau Daniel a'i gyfeillion yn arddangos dynion yn ymgymryd â rôl llawer mwy sensitif wrth gynnig cysur i'w gilydd. Datblygir gwaith Bourke ymhellach felly wrth ystyried y

[532] Joanna Bourke, *Dismembering the Male: Men's Bodies, Britain and the Great War* (Llundain, 1999).
[533] Gweler pennod 3 yn Bourke, *Dismembering the Male*, tt. 124-170.

ddibyniaeth naturiol a ddatblygodd rhwng y dynion hyn mewn sefyllfaoedd cyffredin ac heriol.

**Datgan eu teimladau**

Ceir cyfeiriadau cyson at eu teimladau yn yr ohebiaeth rhwng D.R. Daniel, Ellis ac Edwards sydd yn arddangos yn glir bod dibyniaeth emosiynol rhyngddynt. Mae'r cyfeiriadau hyn yn rhai bach sydd wedi eu gwau i drafodaethau ar faterion cyhoeddus a gwleidyddol y dydd. Yn y llythyrau rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis y mae'r cyfeiriadau hyn ar eu hamlycaf a'r datganiadau ar eu dyfnaf. Dyma oedd cyfeillgarwch hynaf Daniel ac roedd rhwym hynod o gryf yn bodoli rhyngddynt. Wrth drafod swydd postfeistr lleol, er enghraifft, ysgrifennodd Daniel, 'Disgwyl gair yn ofnadwy… Yr wyf wedi colli y scent yn lan arnoch ond tybiaf eich bod tua Llundain' ac wrth drafod y defnydd o chwip dwy linell er mwyn pasio'r cyllid, ysgrifennodd Daniel, 'Da chwi Tom brysiwch dori y siop yna i fyny mae arnaf hiraeth calon eisiau eich gweled o resyn na buasem yn cael yr Eisteddfod yma gydan gilydd.'[534] Ymhellach, wrth drafod Gladstone a dadleuon Undeb Rhydychen, yn ogystal â digwyddiadau lleol tra yn y brifysgol, ysgrifennodd Tom Ellis:

> *I hope you will be able to come down to the Station, or if unable, to come down to Cynlas for a quiet preliminary chat…*
>
> *I hope to see your face again.*[535]
>
> *I have been and am still hungering and thirsting for a long long letter from you. Do send me a conscientiously long one to make up for your long neglect.*[536]

---

[534] LlGC Daniel 122, D.R. Daniel at Tom Ellis, 11 Rhagfyr 1894 & LlGC Ellis 3301, D.R. Daniel at Tom Ellis, heb ddyddiad.
[535] LlGC Daniel 272, Tom Ellis at D.R. Daniel, (9 Rhagfyr 1883).
[536] LlGC Daniel 290, Tom Ellis at D.R. Daniel, dydd Mawrth (11 Tachwedd 1884).

Ochr yn ochr felly gyda thrafodaethau ynghylch eu gyrfaoedd prifysgol a'u bywydau cyhoeddus, mae Daniel ac Ellis yn datgan eu hiraeth am ei gilydd. Mae hyn yn cadarnhau'r berthynas agos rhyngddynt sydd yn cael ei chydnabod yn yr hanesyddiaeth arnynt. Disgrifa K.W. Jones-Roberts Tom Ellis fel *'bond-brother, playmate and twin-spirit'* i Daniel a chred T.I. Ellis bod ei dad a Daniel wedi 'canfod y peth prin hwnnw – "hanner fy enaid i" – sydd, mae'n debyg, yn gweddnewid bywyd yn llwyr ac yn ei gyfoethogi i'r eithaf.'[537] Mae disgrifio perthynas y ddau yn y modd hwn yn sicr yn awgrymu'r syniad o ddibyniaeth emosiynol hynod o gryf a rhwym a oedd yn cael ei ystyried yn hanfodol iddynt. Gwerth yr ohebiaeth felly yw ein galluogi i ddatblygu'r cyfeiriadau hyn gan arddangos yn glir y modd yr oedd y dynion yn datgan eu hiraeth a'u hangen am ei gilydd yn gyson, gan gynnig gwedd arall ar wrywdod yng nghyd-destun syniadaeth imperialaidd y cyfnod ar wrywdod. Roedd datganiadau o'r fath yn naturiol ac yn ddidwyll, i'r graddau y bu i Ellis rannu ei hiraeth am Daniel tra roedd yn America gyda'i ddarpar wraig wrth iddo ddychwelyd adre i'r caeau wrth eu cartrefi a ffeindio nad oedd Daniel yno.[538] Yn wir, ar achlysur arall, ysgrifennodd ei fam at Daniel a'i wraig gan ddweud, 'Fe fy Thomas Edwart hydy fan yma ers tipin yn ol ac yr oedd yn dweyd fod arno hireth garw wrth fynd ar hyd y cayay ar ol Te am yr Hen ams[e]r gynt. Bron a chrio'.[539]

Mae geiriad y llythyrau rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis bron fel cariadon. Roeddent yn ysu i gael gweld ei gilydd a chadw mewn cysylltiad. Ar ddechrau ei yrfa seneddol, hiraetha Ellis am Daniel:

> *I have no materials for a letter, and yet seldom have I wished more fervently for a chat – an old-fashioned chat, a Llidiard-y-terfyn chat – with you. Today I have had that experience of a heaviness of heart which one sometimes get, and which only a chat with an old friend effectivally dispels.*[540]

[537] Jones-Roberts, 'D.R. Daniel', t. 61 & T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I*, t. 120.
[538] LlGC Daniel 2421, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 26 Awst 1885.
[539] LlGC Daniel 2416, Jane Daniel at D.R. Daniel a Sarah Daniel, 24 Mehefin.
[540] LlGC Daniel 304, Tom Ellis at D.R. Daniel, 11 Chwefror (1886).

Gwelir yma gyfraniad rhannu cefndir ac ardal, fel ag y trafodwyd yn y bennod gyntaf, i ffurfio'r cyfeillgarwch hwn a'r ddibyniaeth ar ei gilydd pan y byddent yn teimlo'n isel a atgyfnerthir gyda'r geiriau, *'I am hungering to hear from you.'*[541] Yn wir, roedd gan Tom Ellis gymaint o feddwl o D.R. Daniel, cafodd ei gynhyrfu pan gyhuddodd un gŵr ef o droi ei gefn ar ei gyfaill hynaf yn dilyn ei lwyddiant ym mhrifysgolion Aberystwyth a Rhydychen. Dywed 'E.O' bod ei lwyddiant academaidd wedi golygu bod Ellis â meddwl llai o Daniel a bod ganddo yntau ac eraill feddwl llawer uwch ohono bellach. Mae ymateb ymosodol Ellis yn dangos nad oedd yn gwerthfawrogi i unrhyw un gwestiynu ei ffyddlondeb a'i deyrngarwch i D.R. Daniel. Dywed i hyn *'roused my indignation and scorn, and made me pen the sentence about his "feeble attempt to create discord between you and me" which he wants me to apologise for.'*[542] Yn sicr felly gallwn weld cynnwys llythyrau Ellis a Daniel at ei gilydd yn ddatblygiad o'r ddadl yn yr hanesyddiaeth ynghylch y ddibyniaeth emosiynol rhwng milwyr a'u mamau. Ni fyddai Ellis, er enghraifft, yn gweld unrhyw warth mewn cloi llythyr at Daniel gyda'r geiriau *'with love'* sydd yn arddangos datganiad o gariad.[543]

Mae modd ystyried rhywfaint o'r hanesyddiaeth ar fenywod er mwyn cyfoethogi'r drafodaeth ar ddyfnder y berthynas hon. Mae haneswyr wedi delio gyda'r syniadau o gyfeillgarwch rhamantaidd rhwng menywod yn llawer mwy effeithiol a manwl na chyfeillgarwch gwrywaidd.[544] Yn *Surpassing the Love of Men*, trafoda Lillian Faderman bwysigrwydd perthnasau un rhyw rhwng menywod, ar lefel cyfeillgarwch *intense* a hynod ddwfn, yn ogystal ag am resymau mwy corfforol. Mae hi'n cydnabod ei fod yn beth cyffredin gweld y fath berthynas rhwng merched yn America, Lloegr, Ffrainc a'r Almaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dod ar

---

[541] LlGC Daniel 305, Tom Ellis at D.R. Daniel, 8 Chwefror (1886).
[542] LlGC Daniel 307, Tom Ellis at D.R. Daniel, 13 Mawrth 1886.
[543] Ceir sawl enghraifft o gyfarchion o'r fath yn LlGC Daniel 200-502, Tom Ellis at D.R. Daniel, rhwng 1880 a 1886. Mae hwn yn gyson gyda'r modd roedd Tom Ellis yn cloi ei lythyrau at ei chwiorydd. Gweler LlGC Ellis 131-138, Tom Ellis at Jennie Ellis, rhwng 19 Gorffennaf 1885 a 4 Ionawr 1899; LlGC Ellis 2767, Tom Ellis at Mary Ellen Ellis, 13 Rhagfyr 1889 & LlGC Ellis 3201-3211, Tom Ellis at Winifred Ellis, rhwng o ddeutu 1892 a 1898.
[544] Am drafodaeth o gyfeillgarwch rhamantaidd yn llenyddiaeth y cyfnod, gweler Carolyn W. de la L. Oulton. *Romantic Friendship in Victorian Literature* (Burlington, 2007).

draws llythyrau yn dangos *'passionate commitment'* menyw i fenyw arall. Ystyriwyd y fath berthynas rhwng menywod yn nobl a derbyniol. Roedd y syniad o ferch yn syrthio mewn cariad gyda dyn cyn priodi yn annerbyniol, felly byddent yn troi at fenywod eraill. Mae nofelau, dyddiaduron a gohebiaeth o'r cyfnod yn dangos y menywod hyn yn agor eu heneidiau i'w gilydd ac yn defnyddio iaith gariadus, tebyg iawn i gyplau, gan ddatgan ffyddlondeb a'r ffaith eu bod yn meddwl am ei gilydd o hyd.[545] Gellir cysylltu'r cysyniad o gyfeillgarwch rhamantaidd gyda sfferau ar wahân oherwydd wrth i ddynion a menywod symud yn bellach oddi wrth ei gilydd yn gymdeithasol, byddai merched yn troi at berthnasau gyda phobl o'r un rhyw er mwyn derbyn cynhaliaeth emosiynol. Yn wir, '*What romantic friends wanted was to share their lives, to confide in and trust and depend upon each other, to be there always for each other… Almost always they envisioned themselves together forever.*'[546] Mae Carroll Smith-Rosenberg wedi cydnabod bod menywod yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed yn ysgrifennu llythyrau cariad at ei gilydd. Ond, mae'n rhybuddio y dylid ystyried beth oedd ystyr y gair 'cariad' yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu gyda'n dealltwriaeth heddiw gan fod y menywod hyn yn disgrifio cariad, cusanu, cofleidio, nosweithiau gyda'i gilydd, dawnsio a chenfigen. Gan eu bod yn ysgrifennu'n agored ac yn dangos y llythyrau hyn i'w gwŷr, merched a'u ffrindiau, nid oedd unrhyw un yn ystyried y llythyrau yn amhriodol.[547] Mae mynegiant corfforol y cyfeillgarwch rhwng y menywod hyn yn mynd yn bellach na pherthynas Daniel ac Ellis sydd yn awgrymu bod ffiniau i'w cyfeillgarwch nhw er y ddibyniaeth rhyngddynt.[548] Dyma rywbeth sydd yn cael ei gadarnhau yn hwyrach yn y bennod hon wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng eu llythyrau a chynnwys yr ohebiaeth rhwng Daniel a'i ddarpar wraig. Er hyn, mae'n bwysig ystyried os oedd cymdeithas yn derbyn y fath lefel o agosatrwydd rhwng menywod yn ystod y cyfnod,

[545] Lillian Faderman, *Surpassing the Love of Men*: *Romantic Friendship and Love Between Women from the Renaissance to the Present* (Llundain, 1985), t. 16.
[546] Ibid., t. 142.
[547] Carroll Smith-Rosenberg, *Disorderly Conduct: Visions of Gender in Victorian America* (UDA, 1987), tt. 35-36.
[548] Am drafodaeth fanwl o'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn ymddygiad rhywiol derbyniol gan ddynion a'r rhai hynny oedd yn herio'r ymddygiad hwn, gweler Angus McLaren, *The Trials of Masculinity: Policing Sexual Boundaries, 1870-1930* (Chicago, 1997).

mae'n gwbl bosibl bod yr un math o berthynas wedi bodoli rhwng dynion ond heb ei thrafod mewn manylder hyd yma. Yn wir, gellir awgrymu bod cyfaill a chydweithiwr hynod o agos at Tom Ellis yn cydnabod bod ei gyfeillgarwch gyda Daniel ar lefel wahanol i'w gyfeillgarwch yntau gydag Ellis. Roedd galar A.H.D. Acland yn ddwys yn dilyn marwolaeth Tom Ellis, ac eto datgana na fedrai ddechrau ystyried maint colled Daniel mewn llythyr ato dyddiedig 18 Ebrill 1900, blwyddyn ar ôl marwolaeth Ellis:

> *I shouldn't like you even to* <u>*think*</u> *that I forget what you and all we his friends went through just twelve months ago in the irreparable loss of our dear friend … let us talk over the days that are gone & think together of him that we loved.*
>
> *I always think of you – you & his dear wife – besides his parents – when I think of him I think I feel his loss more & more. There is no one I can go to as I did to him.*
>
> *I hardly like to think of what his loss must mean to you…*[549]

Ar ei eithaf, gwelwyd *'Boston Marriages'* sef perthynas ffyddlon hir-dymor rhwng dwy fenyw ddi-briod a oedd ganddynt annibyniaeth ariannol. Perthynas amlwg yn ystod y ddeunawfed ganrif ynghlwm wrth y syniad hwn oedd profiadau *The Ladies of Llangollen*.[550] Dyma gyfeillgarwch rhamantaidd rhwng Eleanor Butler a Sarah Ponsonby a giliodd eu dwy o'r Iwerddon gan ddianc rhag eu teuluoedd er mwyn treulio eu hamser yn byw gyda'i gilydd. Defnyddiwyd y term cyfeillgarwch rhamantaidd i'w disgrifio yn syth wedi iddynt adael cartref. Prynasent fwthyn bach yn Llangollen ble roeddent yn derbyn teithwyr, awduron a beirdd i'w cartref ac 'ymddeol' o'r gymdeithas er mwyn garddio, darllen a dysgu. Ond, mae eu cofiannydd yn ein hatgoffa y dylwn dderbyn y gair rhamantaidd ar sail ei ystyr ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif sef *'anything that was fanciful, whimsical,*

---

[549] LlGC Daniel 611, A.H.D. Acland at D.R. Daniel, 18 Ebrill 1900.

[550] Gweler Elizabeth Mavor, *The Ladies of Llangollen: A Study in Romantic Friendship* (Llundain, 2001).

*impracticable, absurd.'*[551] O ganlyniad, gellir awgrymu bod safonau cymdeithas o'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn arferol ac yn gyffredin rhwng cyfeillion o'r un rhyw yn wahanol i heddiw gydag Ellis yn medru mynegi ei gariad at ei gyfaill yn ddigon agored yn eu llythyrau.

Er hyn, rhaid bod yn ofalus iawn gyda'r defnydd o'r term 'cyfeillgarwch rhamantaidd' ac i ba raddau mae'r term mewn gwirionedd yn cyfeirio at berthnasau un rhyw rhamantaidd, pa un a chaiff ei arddangos mewn dull corfforol neu beidio. Mae Liz Stanley yn dadlau bod y diffiniad o'r term yn ansicr ac yn galw am fwy o ymchwil i mewn i berthnasau agos rhwng menywod a'r cyd-destun cymdeithasol iddynt. Mae hi'n cwestiynu gwaith Faderman yn *Surpassing the Love of Men* gan awgrymu bod ei dynesiad yn rhy ddiniwed a bod nifer o fenywod yn profi perthynas gorfforol gyda'i gilydd, gan gynnwys merched Llangollen.[552] Yn wir, mae erthygl Molly McClain ar lythyrau Mari II at Frances Apsley yn ystod ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg yn atgyfnerthu cymhlethdod y pwnc gyda'r frenhines yn cyfeirio at Apsley fel ei gŵr a'r syniad ei bod yn anffyddlon iddi pan yn feichiog gyda phlentyn ei gŵr ei hun. Ar y pryd, roedd y math hwn o berthynas yn cael ei derbyn os yn breifat a, serch newid y cydbwysedd o bŵer ar ôl i Mari briodi, parhau wnaeth y datganiadau cariadus.[553] Nid bwriad y bennod hon yw dadlau bod y fath beth â chyfeillgarwch rhamantaidd yn bodoli rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis gan fod rhai o'r disgrifiadau o'r cofleidio corfforol rhwng y menywod yn y gweithiau a drafodwyd eisoes yn mynd y tu hwnt i'r datganiadau cariadus ysgrifenedig a welir rhwng Daniel ac Ellis yn y casgliadau hyn o lythyrau. Gwerthfawrogir felly'r perygl o geisio categareiddio'r cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel, Ellis ac Edwards. Er hyn, mae modd gwerthfawrogi bod perthynas a dibyniaeth emosiynol cryf wedi bodoli rhwng aelodau o'r un rhyw ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bod y cariad hwn, beth bynnag ei raddau a'i ddull o fynegiant, yn cael ei ddatgan yn gwbl agored yn y

[551] Ibid., t. 80.
[552] Liz Stanley, 'Romantic Friendship? Some Issues in Researching Lesbian History and Biography', *Women's History Review,* 1:2 (Ionawr 1992), tt. 193-216.
[553] Molly McClain, 'Love, Friendship, and Power: Queen Mary II's Letters to Frances Apsley', *Journal of British Studies,* 47:3 (Gorffennaf 2008), tt. 505-527.

llythyrau rhyngddynt. Dyma felly bwysigrwydd cyd-destun y gweithiau hyn ar gyfeillgarwch rhamantaidd i'r astudiaeth hon. Heb os, gellir addasu'r hyn a welir yn yr hanesyddiaeth ar y thema hon wrth ystyried cynnwys llythyrau Daniel ac Ellis yn benodol gan fod cwlwm mor bersonol yn bodoli rhyngddynt. Adlewyrchir y rhwym agos hwn pan aeth D.R. Daniel i America yn 1885 i weithio i'r *Drych*. Wedi derbyn llythyr gan ei gyfaill, ysgrifennodd Tom Ellis:

> *The thought that his* [Daniel] *sudden and entire separation increased our fondest for and trust in one another strengthened the instinct of faith within my soul, and gave me a peace of mind, and a calm reflectiveness which recalled the memories of the past with its endless associations of pleasure and which made me cast my thoughts into the future of both of us with its possibilities and its suggestions of difficulties and despair and anguish…*
>
> *Ffarwel, anwyl Gyfaill, am ychydig. Anfonwch air pan fedrwch. Byddaf yn meddwl llawer am danch nes y deuwch yn ol, a bydda yn dda genyf am air o brofiad eto.*[554]

Mae ystyried y llythyrau rhwng D.R. Daniel a'i ddarpar wraig yn gosod ei berthynas gyda Tom Ellis yn ei chyd-destun. Trafodwyd yn y bennod ddiwethaf bod Tom Ellis wedi chwarae rhan gefndirol yn nyddiau cynnar eu perthynas a bod Sarah Daniel wedi cydnabod cyfeillgarwch agos ei gŵr a'i gyfaill o'r cychwyn cyntaf. Er hyn, ystyrir yma y modd y mae eu llythyrau hwy yn arddangos agosatrwydd y tu hwnt i lythyrau Ellis a Daniel. Ar adegau trwy gydol eu carwriaeth, a'u priodas, byddai ef a hithau yn cyfeirio at D.R. Daniel fel 'Dav' neu 'Dave' er enghraifft.[555] Ni wnaeth Ellis erioed gwtogi enw ei gyfaill sydd, ynddo'i hun, yn arwydd o agosatrwydd. Yn wir, byddai Ellis yn cyfeirio ato fel 'chi' yn ei lythyrau sydd eto yn arwydd o

[554] LlGC Daniel 300, Tom Ellis at D.R. Daniel, 17 Medi 1885.
[555] Gweler LlGC Daniel 2418, Casgliad llythyrau Sarah Daniel at D.R. Daniel & LlGC Daniel 2419, Casgliad llythyrau D.R. Daniel at Sarah Daniel.

barchusrwydd a bod lefel o fwlch rhyngddynt.[556] Ymhellach, ar ôl priodi, ysgrifennodd Sarah Daniel at ei gŵr gan ddweud, *'I feel awfully gloomy all day and I dont know what will become of me tonight after loosing my bed fellow. I cant put my arms around Maggie. I couldnt think of doing that for it seems quite unnatural.'*[557] Dyma ddyfyniad hynod ddadlennol yng nghyd-destun y trafodaethau ar gyfeillgarwch rhamantaidd. Nid oedd Sarah Daniel yn ystyried cofleidio ei chyfaill yn beth naturiol. Disgwylir y byddai Daniel a'i wraig yn rhannu'r un fath o syniadau am rôl cyfeillion a chyfeillgarwch sydd eto yn awgrymu ei fod yn anhebygol bod Ellis a Daniel wedi cael elfennau mwy corfforol i'w perthynas. Yn wir, mae datganiadau cariadus D.R. Daniel a Sarah Jones tra yr oedd yntau yn America yn 1885, ac yn ceisio cynnal eu perthynas, yn mynd y tu hwnt i'w ddatganiadau cyfeillgar ef ac Ellis:

> *...I had a good cry after I went to bed, I cried until I slept, and this morning when I awoke I thought of you...*[558]

> *with the best love I can think of and a million kisses... I remain still the same one (only very much more so) Your own D.R. 'David'.*[559]

> *With the fondest love, and a million loving kisses (do you keep account) I remain just as usual. Your own boy David So ta ta my dear Sally. Write as often as you can.*[560]

Mae cyfrif eu cusanau yn rhywbeth sydd yn amlwg yn y llythyrau rhyngddynt tra roedd Daniel i ffwrdd a llythyru yn hynod o bwysig i gynnal eu rhamant.[561] Clywir y panig yng ngeiriau Daniel pan nad oedd wedi derbyn llythyr gan Sarah yn ystod y mis cyntaf:

---

[556] Byddai Robert Evans, hanner brawd Daniel, yn cyfeirio ato fel 'ti.'
[557] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, Llun 10fed 87.
[558] LlGC Daniel 2418, Sarah Daniel at D.R. Daniel, 24ain 1885.
[559] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 27 Gorffennaf 1885.
[560] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 4 Medi 1885.
[561] Gweler y llythyrau hyn yn LlGC Daniel 2419, Casgliad llythyrau D.R. Daniel at Sarah Daniel.

> *oh Sally you cannot imagine how miserable I am not getting anything from you. My mind is full of all manner of misgivings. Since I am almost certain you told me that you would write me a weekly letter comencing with my departure from Liverpool. I know you were very long getting my first letter, but that I* <u>*could not possibly help*</u> *Since we did not get in on Tuesday night as I had expected we would. I am now tired of calling at the P.O. where I am always sure to meet an empty box.*[562]

Yn wir, ar achlysur arall ymddiheurodd am y ffaith ei fod yn ysgrifennu ati hi ar bapur busnes a chydnabyddodd mai *'love letter'* yr oedd yn ei anfon ati.[563] Awgryma hyn ei fod yn categareiddio'r llythyrau hyn mewn modd gwahanol i'w lythyrau at Tom Ellis. Roedd cysondeb amlwg i lythyrau D.R. Daniel a Sarah tra roedd ef i ffwrdd a gellir awgrymu nad oedd Daniel wedi teimlo'r un angen i ysgrifennu at ei ffrind gorau gan iddo ysgrifennu at Sarah, '*I found time this week to write to Tom Ellis. I have directed it to Cynlas and have written on the outside of the envelope for them to send it on to his present address.*'[564] Roedd wedi darganfod amser i ysgrifennu at ei gyfaill, ond roedd llythyru gyda'i gariad yn flaenoriaeth iddo. Dyma osod cyfeillgarwch Daniel ac Ellis mewn cyd-destun felly.

Er y cwlwm emosiynol a fodolai rhwng Ellis a Daniel, ni ddylir diystyru lefel y gofal a ddangosai Daniel ac Ellis at Edwards. O safbwynt Daniel, daw hyn i'r amlwg yn ei hiraeth a'i alar pan fu Edwards farw.[565] Ond, o'r tri chyfaill ysgol, Tom Ellis ac O.M. Edwards ddaeth yn arwyr i'r genedl a daw effaith y gorweithio hyn ar eu hiechyd i'r amlwg yn yr ohebiaeth rhwng y cyfeillion. Ceir enghraifft o O.M. Edwards yn ysgrifennu at Daniel yn ymddiheuro'n fawr ei fod wedi anghofio cwblhau tasg ar ei ran. Dyma awgrym felly o ba mor ddifrifol oedd ei bwysau gwaith. Ysgrifennodd y bu iddo ddychryn wrth dderbyn cerdyn gan Daniel gan yr oedd wedi anghofio

---

[562] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 26 Mehefin 1885.
[563] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 29 Gorffennaf 1885.
[564] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 5 Awst 1885.
[565] Trafodir ymateb D.R. Daniel i farwolaeth O.M. Edwards mewn manylder yn hwyrach yn y bennod hon.

ei addewid o gwblhau gwaith ar ei ran. Er yr ymgais i geisio gwneud yn iawn am y '[c]amwedd', methu a wnaeth Edwards 'oherwydd prysurderb ac afiechyd.'[566] Ar achlysur arall, cwynai Edwards am ei iechyd, 'Y mae'm nerth yn pallu hefyd, a byddaf yn cael gwaew erchyll yn fy nghlust, dywed y meddyg ei fod yn arwydd y rhaid i mi wneyd llai neu noswylio.'[567] Gan fod Ellis ac Edwards yn ffigurau dylanwadol a chyhoeddus erbyn diwedd yr 1880au a dechrau'r 1890au, a'r naill yn deall y pwysau oedd ar y llall, mae cynnwys eu llythyrau yn arddangos consyrn gwirioneddol dros gyflwr iechyd ei gilydd. Ar un achlysur, ysgrifennodd Edwards at Ellis gan ddatgan, 'Gofelwch am eich iechyd, y mae arnaf ofn o hyd clywed eich bod wedi tori i lawr' a 'Gan obeithio y cewch dipyn o seibiant yn fuan.'[568] Yn yr un modd, dywed Ellis wrth Edwards, *'I hope your tutoring work will not cripple your energies and opportunities as an author. That would be a crime.'* a 'Cymerwch ofal o'r iechyd. Caled ydyw yma.'[569] Gwelwn felly bryder cyfeillion yma. Yn wir, gellir dadlau i'r ddau farw cyn eu hamser o ganlyniad i orweithio. Roedd y naill yn deall y llall, yn profi'r un heriau gyrfaol ac yn cydymdeimlo'n llwyr gyda'i gilydd. Gwelwn elfen deimladwy felly wrth drafod pryderon dros ganlyniad y gwaith caled hwn. Mae geiriau syml Tom Ellis fel ymateb i lwyddiant Edwards yn Rhydychen yn crisialu hyn wrth iddo ganmol llwyddiant ei gyfaill, ond ei annog i orffwys, 'Llongyfarchiadau fyrdd ar eich llwyddiant ardderchog. Yr wyf yn clywed yn barhaus am danoch gan wyr o Rydychain, ond yn hiraethu yn fawr eich gweled wyneb yn wyneb. I ba le yr ydych am fyned i orphwys?'[570]

Ceir tystiolaeth glir uchod bod cwlwm emosiynol yn bodoli rhwng Daniel a'i ffrindiau, gyda'r rhwym dyfnaf rhyngddo ef a Tom Ellis fel cyfeillion cyntaf i'w gilydd. Er na ellir categareiddio'u perthynas fel cyfeillgarwch rhamantaidd, mae gohebiaeth Daniel ac Ellis yn awgrymu bod dynion yn

[566] LlGC Daniel 999, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 23 Medi 1888 & LlGC Daniel 1001, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 14 Chwefror 1889.
[567] LlGC Daniel 1029, O.M. Edwards at D.R. Daniel, dydd Sul.
[568] LlGC Ellis 3365, O.M. Edwards at Tom Ellis, heb ddyddiad & LlGC Ellis 3369, O.M. Edwards at Tom Ellis, 19 Rhagfyr 1893.
[569] LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/3/2, Tom Ellis at O.M. Edwards, 10 Mai 1888; LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/3/4, Tom Ellis at O.M. Edwards, 18 Rhagfyr 1893.
[570] LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/3/3, Tom Ellis at O.M. Edwards, 7 Gorffennaf (1890).

ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi arddangos ymrwymiad dwfn i aelodau o'r un rhyw. Yn sicr, dyma drywydd i'r hanesyddiaeth y mae lle i'w ddatblygu ymhellach. Datblygir gweithiau haneswyr ar y berthynas rhwng milwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan arddangos bod dynion yn datblygu ymlyniad gwirioneddol rhyngddynt â'i gilydd wrth rannu profiadau o ddydd i ddydd. Mae cyfeillgarwch Tom Ellis gydag O.M. Edwards hefyd yn arddangos gofal a chonsyrn gwirioneddol rhwng cyfeillion, er nad oedd y cwlwm emosiynol rhyngddynt mor agos â'r rhwym rhyngddo ef a Daniel. Nid datblygu rhwym wrth wynebu sefyllfa mor allan o'r cyffredin â rhyfel ble fyddent yn wynebu marwolaeth yn ddyddiol wnaeth Daniel, Ellis ac Edwards. Datblygodd yr ymlyniad rhyngddynt yn naturiol o ddyddiau ysgol sy'n esbonio pam roeddent yn teimlo'r angen i rannu profiadau personol a chyhoeddus gyda'i gilydd fel yr amlinellwyd yn ail bennod y traethawd hwn.

**Colli plant**

Rhwng 1897 a 1907, profodd O.M. Edwards, D.R. Daniel a D. Lloyd George drallod difrifol wrth golli plant. Dyma wynebu cyfnod hynod o boenus ac felly, yng nghyd-destun y traethawd hwn, trafodir o dan amgylchiadau mor heriol, beth oedd lefel y cysur a gynigiwyd gan eu cyfeillion ac i ba raddau yr atgyfnerthwyd a dyfnhawyd y cyfeillgarwch wrth i'r dynion hyn gynnig cefnogaeth a chynhaliaeth i'w gilydd. Yn yr un modd, wrth wynebu cyfnod mor emosiynol, ystyrir yma i ba raddau y bu i'r dynion rannu eu teimladau mwyaf personol wrth wynebu trallod mor ofnadwy.

Pan fu farw mab pum mlwydd oed O.M. Edwards, ab Owen, o'r dicáu yn 1897 gwelwyd gonestrwydd emosiynol ei gyfeillgarwch gyda'i ddau ffrind hynaf. Yn dilyn ei golled, ysgrifennodd Tom Ellis ato gan ddatgan:

> Yr wyf beunydd, beunydd yn meddwl am danoch chwi a Mrs Edwards yn eich trallod mawr. Mae'm calon yn brifo drosoch.

> Rhyw wanwyn garw, ystormus i chwi ydyw hwn ond feallai y daw yr haf a charedigrwydd gydag ef.[571]

Mae'r geiriau hyn yn awgrymu bod Tom Ellis yn teimlo poen ei gyfaill i'r byw ac yn ei annog i edrych i'r dyfodol yn obeithiol. Gellir awgrymu bod y llythyr hwn wedi dod a chryn gysur i Edwards a'i fod wedi ei drysori. Rhyw ddwy flynedd yn dilyn marwolaeth ab Owen, roedd Edwards yn ysgrifennu coffad i'w ffrind yn *Cymru* ac y mae'n dewis argraffu llun o'r llythyr hwn yn y cylchgrawn fel rhan o'i erthygl.[572] Nid yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at ei gynnwys, ond diddorol yw nodi ei fod wedi dewis llythyr mor bersonol i rannu â'i ddarllenwyr. Dewisiodd Edwards, a oedd mewn sefyllfa i wneud hyn fel golygydd cylchgronau mor boblogaidd, ddangos yn gwbl agored i'r genedl yr agosatrwydd a fodolai rhyngddo ef ac Ellis – gwnaeth y personol yn gyhoeddus. Mae ymateb dirdynnol o onest Edwards i lythyr Ellis yn dangos y modd yr oedd y gŵr hynod o swil a sensitif hwn wedi dangos ei ymddiriedaeth yn ei hen gyfaill ysgol. Roedd y rhwym rhyngddynt yn caniatau i Edwards fod yn gwbl agored gydag Ellis gan rannu ei brofiadau mwyaf chwerw a phersonol ag ef:

> Mae colli Ab Owen wedi fy ysigo i'n hollol; ac y mae Elin yn methu ennill dim o'i nerth yn ol. Y mae yr hen awydd at waith, ie, yr hen gariad at Gymru, wedi darfod ynnof. Medraf weithio yma'n eithaf; ond y munud y ceisiaf orffwyso, y mae'r adgof am fy ngholled yn fy llethu'n lân.[573]

Mae'r effaith a gafodd y llythyr hwn, a'r boen amlwg yr oedd ei gyfaill yn ei brofi, ar Tom Ellis yn amlwg. Ysgrifennodd at ei ddarpar wraig gan gopio llythyr Edwards i'w gynnwys a gofyn ei barn am sut i ymateb i'r 'Llythyr trist a thorcalonus' a sut y gallai gynnig cysur i 'un mor glwyfedig'.[574] Mae'r syniad o rannu galar yn sicr yn atgyfnerthu'r ddadl nad oedd bwlch rhwng bywydau personol a chyhoeddus y dynion hyn a bod rhwym lefel

---

[571] LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/3/5, Tom Ellis at O.M. Edwards, heb ddyddiad.
[572] O.M. Edwards, 'Adgofion', t. 246.
[573] LlGC Ellis 499, O.M. Edwards at Tom Ellis, 9 Mai 1897.
[574] Tom Ellis at Annie Ellis, prydnawn Llun (1897) yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 34.

bersonol a hynod emosiynol yn bodoli rhynddynt, o bosibl wedi ei ddyfnhau wrth rannu'r profiad hwn. Roedd Tom Ellis yn tystio i boen ei gyfaill ac roedd ei boen yntau o ganlyniad yn amlwg yn ei lythyrau at ei gariad.[575] Mae gonestrwydd y llythyrau hyn gydag Edwards ar ei fwyaf bregus hefyd yn atgyfnerthu dadl W.J. Gruffydd, 'cafodd Tom Ellis a D.R. Daniel fyned yn nes i gysegr santeiddiolaf Owen na neb arall'.[576]

O fewn blwyddyn, wynebodd D.R. Daniel yr un profiad pan fu farw ei ferch, Gwenllian, yn faban chwe mis oed. Yr un yw'r cysur y mae Tom Ellis yn ei gynnig. Fel adlais o'i eiriau fod ei '[g] alon yn brifo' dros O.M. Edwards a'i wraig, ysgrifennodd Tom Ellis at D.R. Daniel ar farwolaeth Gwenllian, 'Aeth eich nodyn fel saeth i'm calon. Mae'n drist, drist meddwl na chafodd y fechan fyw.'[577] Yn wir, rhannodd ef a'i deulu yng Nghynlas alar Daniel sydd yn awgrym o ddadl sydd i'w pharhau yn y bennod nesaf, bod cyfeillgarwch y ffrindiau wedi mynd y tu hwnt i'r dynion fel unigolion a bod eu teuluoedd yn rhan o'r agosatrwydd hyn. Ysgrifennodd Ellis yn mynegi teimladau ei deulu gyda'r geiriau, '*We were all here yesterday grieving over your loss of the little pearl and much hoping that Mrs Daniel was regaining her health and spirits.*'[578]

Wrth ymateb i 'golli eich mab bychan anwyl Owen ab Owen', ysgrifennodd Daniel at Edwards a'i wraig ar y cyd gan ddweud nad oedd y gair 'cydymdeimlo' yn ddigonol gan nad oedd gair digonol wedi ei greu ar gyfer eu cyflwr hwy. Rhannai eu sioc, 'Y mae yn anhawdd peidio gofyn yn wyneb colli anwylyn mor brydferth mewn oedran ag a wnai bob symudiad o'i eiddo yn rhywbeth i'w garu yn fwy angerddol a glynu ynddo yn dynach - "I ba beth y bu y golled hon?"' Roedd Daniel hefyd yn dad ac mae'r geiriau hyn yn awgrymu ei fod wedi treulio amser yn meddwl am, ac yn cydymdeimlo â, sefyllfa ei gyfaill a'i wraig. Deallai felly'r ergyd oedd y

---

575 Ymatebodd Annie Ellis i erthygl gan Edwards yn *Cymru'r Plant* a ddyfynir yn hwyrach yn y bennod hon, 'Darllenais inne erthygl O.M. Edwards. Yr oedd yn caru Ab Owen yn fawr, onid oedd? Yr wyf yn cyduno a chwi yn y gobaith y daw goleu iddo eto.' Gweler Annie Ellis at Tom Ellis, 29 Awst 1897 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t. 75.
576 W.J. Gruffydd, *O.M. Edwards: Cofiant*, t. 87.
577 LlGC Daniel 480, Tom Ellis at D.R. Daniel, 13 Chwefror 1898.
578 LlGC Daniel 481, Tom Ellis at D.R. Daniel, Llun y Pasg 1898.

brofedigaeth i'r ddau a dyfynnodd waith Renan a Mazzini[579] i geisio dod â chysur iddynt.[580] Ni cheir ymateb Edwards i'r llythyr nac ychwaith ymateb Edwards i farwolaeth Gwenllian, ond yn 1899, ysgrifennodd Edwards at D.R. Daniel, 'Ddwy flynedd i heddyw y bu Ab Owen farw. Gwyddoch am y loes.'[581] Mae'r frawddeg olaf hon yn dweud y cwbl – dyma brofiad yr oedd y ddau wedi ei rannu ac roeddent yn deall teimladau'r naill a'r llall. Doedd dim angen disgrifad manwl na blodeuog, mae'r geiriau syml hyn yn siarad cyfrolau. Yn wir, mewn bwygraffiad byr yn *Y Tyst Dirwestol* yng Ngorffennaf 1899, ysgrifennodd Daniel am Edwards:

> Yn 1897 cyfarfyddodd a thristwch mawr ei fywyd pan gollodd ei gyntaf-anedig, Owen ab Owen, yn bum mlwydd oed. Gadawodd yr ergyd archoll ddofn iawn, dyfnhaodd hefyd a dwyshaodd yr holl gymeriad.[582]

Yn sicr, mae'r dyfyniad hwn yn awgrymu bod Daniel yn adnabod cymeriad ei gyfaill yn llawn ac yn gwerthfawrogi effaith marwolaeth ei fab arno. Mae hyn yn awgrymu bod y profiad wedi dwyshau y cwlwm a'r rhwym emosiynol a fodolai rhyngddynt. Diddorol yw nodi y bu i Daniel gyhoeddi'r geiriau hyn o fewn dwy flynedd i farwolaeth y mab, gydag Edwards ei hun dal yn fyw. Yn wir, disgrifiodd O.M. Edwards farwolaeth ei fab a'i alar ei hun yn *Cymru'r Plant* o fewn mis i golli ab Owen. Ysgrifennodd:

> …gorweddai yn fy mynwes ac yr oedd trem erfyniol ei lygaid hawddgar yn dangos beth gredai, - y gallai tada ei fendio…
>
> Nos Wener, mewn ing anesgrifiadwy wrth wylio ei wely, sylweddolais y gallai y byddai raid i mi ffarwelio âg ef; ac ni freuddwydiais erioed fod ffarwelio ar fin tragwyddoldeb yn beth fel

---

[579] Ceir cyfeiriad at ddylanwad y dynion hyn dros Daniel, Ellis ac Edwards ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon.
[580] LLGC Papurau O.M. Edwards AG1/11/102, D.R. Daniel at O.M. ac Elin Edwards, 19 Mawrth 1897.
[581] LlGC Daniel 1015, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 9 Mawrth 1899.
[582] LlGC Daniel 2742, Llyfr nodiadau yn cynnwys copi o erthygl D.R. Daniel, 'Yr Athraw Owen M. Edwards' yn *Y Tyst Dirwestol* (Gorffennaf 1899), t. 100.

> hyn. Pan syrthiodd gwawr y nawfed dydd o Fawrth ar ei wyneb dros y Berwyn yr oedd ei nerth bach yn darfod. Rhoddais ef ar ei wely; rhoddodd ei ddwylaw wrth ei ochr, gan ddal i edrych arnaf o hyd. Darfyddodd fel y dydd, - fel pe'n syrthio i gwsg. Nis gellaf feddwl am farw ond fel peth prydferth fwy…
>
> Ni chlywaf ei stori fach mwy, ni chaf glywed swn ei droed. Daw'r haf, ond heb hen swyn ei flodau. Hiraeth, hiraeth sydd yn fy llethu, - gweled cap fy mhlentyn, neu ei deganau, neu'r blodau blannodd yn ymddangos wedi i'r llaw fach dlos honno, - un dybiais wnai gymaint o ddaioni yn y byd, - lonyddu am byth.[583]

Yn yr un modd ag y rhannodd Edwards lythyr personol Ellis ynglyn â marwolaeth ab Owen a dewisiodd Daniel rannu ei ddealltwriaeth o ddyddiau tywyllaf bywyd Edwards gyda'r cyhoedd, dyma Edwards yn disgrifio ei alar mewn modd cyhoeddus iawn. Cyniga hyn olau newydd iawn ynglyn â'r modd yr oedd Daniel ac Edwards yn dewis cyflwyno eu cyfeillion, eu perthynas gyda'i gilydd, a'u profiadau personol i'r cyhoedd. Nid oeddent yn swil o drafod materion sensitif a phersonol iawn mewn gweithiau cyhoeddedig. Dyma ddatblygu'r cysyniad o wrywdod traddodiadol imperialaidd a gwleidyddol a drafodwyd ar ddechrau'r bennod hon oedd yn cael eu meithrin yn nynion dosbarth canol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan gyflwyno darlun mwy cyflawn o brofiadau dynion. Nid oedd ffin amlwg rhwng yr hyn byddai Daniel ac Edwards yn trafod yn bersonol ac yn gyhoeddus ac mae hyn yn cymhlethu'r ddadl bod Edwards wedi rhannu ei alar a'i brofiad mwyaf chwerw gyda'i gyfeillion o ganlyniad i'w rhwym emosiynol. O fewn mis, roedd wedi cyhoeddi disgrifiad o funudau olaf ei fab yn *Cymru'r Plant*. Eto i gyd, nid yw O.M. Edwards yn mynd i'r un manylder am effaith marwolaeth ab Owen arno ef, na chwaith yn trafod teimladau ei wraig, yn ei erthygl fel ag y mae yn ei lythyr at Tom Ellis. Mae'n bosibl felly ei fod wedi rhannu rhai elfennau o'i brofiad gyda'i gyfeillion nas rhannodd gyda'r cyhoedd. Gellir awgrymu hefyd ei fod yn

583 O.M. Edwards, 'Urdd y Delyn' yn ei (gol.), *Cymru'r Plant,* 6 (1897), tt. 108-109.

cael rhywfaint o ryddhad wrth gyhoeddi ei brofiadau, ond trodd at Ellis ac, o bosibl, Daniel yn y gobaith y byddai'n derbyn cynhaliaeth a chysur gwirioneddol ar ôl colli ei fab.

Mae llythyrau Lloyd George at Daniel yn atgyfnerthu a chryfhau'r ddadl bod cyfeillion gwrywaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cynnig cynhaliaeth a chysur i'w gilydd mewn cyfnodau o alar. Serch hyd a dyfnder eu cyfeillgarwch, gellir awgrymu nad oedd perthynas Daniel, Ellis ac Edwards yn unigryw yn y cyd-destun hwn. Wrth gysuro Daniel ar farwolaeth Gwenllian, anogodd Lloyd George ef i sicrhau nad oedd ei wraig yn meddwl gormod am y digwyddiad. Awgryma sylwadau mor bersonol ddealltwriaeth Lloyd George o gymeriadau Daniel a'i wraig:

> Ni raid i mi ddyweyd wrthych mor drwm oedd gan fy ngwraig a minnau glywed am eich gofid. Gwn beth ydyw eich teimlad wrth golli yr un fach a hawdd iawn gennyf gredu fod calon Mrs Daniel yn ddrylliog iawn…
>
> Peidiwch gadael y wraig roddi ei meddwl ai hysbryd yn ormod ar y peth. Gwn mai anhawdd peidio er mor hawdd cynghori.[584]

Yr un oedd y gefnogaeth gynigiodd Margaret Lloyd George i Sarah Daniel. Ysgrifennodd ati gan ddweud, *'My husband & myself were very grieved to hear of the death of your little girl. You must feel the loss very much; to loose a little child must be a trial indeed.'*[585] Atgyfnerthir y berthynas rhwng y dynion gan rôl y menywod yn y sefyllfa hon. Cydymdeimla gwraig Lloyd George yn llwyr gyda gwraig Daniel, gan gyfleu y teimladau hynny mewn llythyr ati yn yr un modd ag yr oedd Tom Ellis wedi trafod marwolaeth ab Owen gyda'i ddarpar wraig, ac yr ymatebodd teulu Cynlas i farwolaeth Gwenllian. Yn wir at ei 'gyfeillion' h.y. Edwards a'i wraig yr ysgrifennodd

[584] LlGC Daniel 2780, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 12 Chwefror 1898.
[585] LlGC Daniel 2845, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 17 Chwefror 1898.

Daniel ar farwolaeth ab Owen, nid O.M. Edwards yn unig.[586] Mae hyn ond yn dyfnhau y lefel o gefnogaeth a'r effaith a gafodd y sefyllfaoedd trist hyn ar gyfeillion Edwards a Daniel. Mewn cyfnod heriol, trodd Daniel ac Edwards at eu cyfeillion, a thrwy hyn y rhwydwaith teulol ehangach, a'r un yw'r ddadl pan fo Lloyd George yn wynebu'r un trallod pan gollodd ei ferch hynaf yn 17 oed.[587]

Ar 29 Tachwedd 1907, cofnododd D.R. Daniel farwolaeth Mair Lloyd George yn ei ddyddiadur.[588] Ni cheir tystiolaeth o lythyrau yn nodi teimladau Lloyd George, na chyngor Daniel iddo. Troir felly i gynnwys dyddiaduron a llyfrau nodiadau Daniel am ei ddadansoddiad o ymateb Lloyd George i'r digwyddiad, a'i deimladau personol yntau wrth geisio cysuro ei gyfaill. Ymwelodd Daniel â Lloyd George o fewn tair wythnos i farwolaeth Mair er mwyn ceisio ei gysuro:

> *Called 8.30 and remained 11.20-with. D. Ll. George and Mrs G. now just over the first agony of losing Poor Mair. A long intimate talk with G. who dwelt on the inwardness of his bereavement. Quite a wonderful selfrevelation! He goes to Nice this week. Looks haggard and worn out*.[589]

Yn ei fywgraffiad anghyhoeddedig iddo, noda, 'Yr oedd dirdyniadau ei galon yn arteithiol bron ar ymylon gorphwylledd. Ond nid oedd iddo ef un gronyn o gysur iw gael or ffynhonellau yr yfa cyfangorff ei gydgenedl grediniol o honynt mewn cyfyngderau cyffelyb.' Nid oedd crefydd felly yn dod â chysur iddo, yn hytrach, roedd yn ceisio cadw ei hun yn brysur yn ei swydd gyda'r Bwrdd Masnach ond dywed, ''Pan ddeuaf allan ir awyr yn Whitehall Gardens mae yn dod im cwrdd fel cwmwl fel blizzard ac yn mynd

[586] LLGC Papurau O.M. Edwards AG1/11/102, D.R. Daniel at O.M. ac Elin Edwards, 19 Mawrth 1897.
[587] Am drafodaeth fanwl o golled Lloyd George a manylion am fywyd Mair Eluned, gweler J. Graham Jones, 'Mair Eluned Lloyd George (1890-1907)', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 60 (1999), tt. 33-54.
[588] LlGC Daniel 530, Dyddiadur D.R. Daniel 1907, 29 Tachwedd 1907.
[589] Ibid., 16 Rhagfyr 1907.

am hanadl." 'tybiaf' meddai 'weithiau fod fy mhen yn malurio."[590] Dyma onestrwydd gwirioneddol gan Lloyd George, fel ag y gwelwyd yn llythyr Edwards at Ellis, a mewnwelediad i'r modd yr oedd yn fodlon rhannu ei deimladau dwysaf gan adael Daniel ei weld ar ei isaf a mwyaf emosiynol. Dyma wedd newydd i'r Lloyd George a ddisgrifir yn y bennod gyntaf yn defnyddio ffrindiau er mwyn sicrhau cynnydd gwleidyddol. Blwyddyn i farwolaeth Mair, disgrifia Daniel ei fod wedi meddwl llawer am y teulu ar y diwrnod hwnnw ac wedi ymweld â Lloyd George a'i wraig gan ei ddarganfod yn chwarae gyda Megan, ei blentyn ieuengaf. Nododd Daniel, 'Gwasgodd fy llaw. Eisteddais i siarad gyda Mrs George'.[591] Mae symlder y cyffyrddiad hwn o'r llaw eto'n atgyfnerthu'r agosatrwydd rhwng y ddau, lle nad oedd angen geiriau rhyngddynt er mwyn i D.R. Daniel fedru cysuro ei gyfaill.

Mae'r modd y bu i'r cyfeillion gynnig cysur a chefnogaeth i'w gilydd wrth iddynt wynebu cyfnodau mor heriol yn datblygu ac yn cyfoethogi gwaith haneswyr sydd wedi pwysleisio pwysigrwydd llythyru ar gyfer milwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf er mwyn derbyn cynhaliaeth. Yma, gwelir gonestrwydd arbennig ar ran O.M. Edwards a D. Lloyd George wrth iddynt drafod eu teimladau a'u galar a dadansoddiad Daniel o effaith eu galar arnynt yn dangos ei ddealltwriaeth o'u cymeriadau. Dyma adeiladu ar elfennau o'r cyfeillgarwch rhamantiadd o ran dyfnder yr agosatrwydd rhwng aelodau o'r un rhyw. Yn wir, mae'r modd y bu i Edwards a Daniel gydnabod y cyfnod tywyll hwn ym mywyd O.M. mewn gweithiau cyhoeddedig yn arddangos y modd y bu iddynt rannu pwysigrwydd ac arwyddocâd dylanwad y digwyddiad hynod o bersonol hwn arno gyda'r cyhoedd. O safbwynt Daniel, gwnaed hyn ddwy flynedd ar ôl y digwyddiad sy'n awgrymu effaith hir dymor ar y cyfeillgarwch rhwng y dynion. Yn wir, blwyddyn ar ôl marwolaeth Mair, trafoda Daniel y modd y bu i feddyliau Lloyd George droi at ei ferch yn dilyn cyflwyno ei araith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin fel Canghellor y Trysorlys:

---

590 LlGC Daniel 2912, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol I, tt. 12-13.
591 Ibid., tt. 63-64.

> *Told me how he felt his loss (Mair) more than ever these days. We looked into a florist window and discussed a wreath for her grave – he likes a cross – we both deplored the awful sadness of this strange world.*[592]

Parhaodd y rhannu flwyddyn ar ôl y digwyddiad felly wrth i Daniel gynorthwyo Lloyd George i chwilio am groes flodau i roi ar fedd ei ferch. Disgrifia fel y bu i Lloyd George ddatgan ei fod yn 'cael pangfeydd o hiraeth am fy ngeneth fach' a'i gred y byddai hi wedi mwynhau ei weld yn llwyddo yn ei swydd newydd. Roedd ar fin mynd adref i Griccieth ac at fedd Mair a chred Daniel bod hyn yn esbonio trymder ei galon a oedd yn taflu '[g]wawd ar bob anrhydedd bydol.'[593] Adewyrchir gonestrwydd rhannu'r profiad felly a'r ffaith bod hwn yn rhywbeth a barhaodd y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun.

**Effaith marwolaeth Tom Ellis**

Yn 1899, bu farw Tom Ellis yn ddeugain oed ac felly daeth cyfeillgarwch y tri chyfaill ysgol i ben yn annisgwyl. Gan gofio lefel y cwlwm cyfeillgarwch rhyngddo ef a Daniel, ac Edwards i raddau gwahanol, dyma ddigwyddiad hynod arwyddocaol a phersonol i O.M. Edwards a D.R. Daniel. Ystyrir dwy elfen yn yr adran hon felly. Yn gyntaf, beth oedd ymateb Daniel ac Edwards i farwolaeth eu cyfaill a beth oedd hyn yn ei ddatgelu am y gogwydd emosiynol oedd i'r cyfeillgarwch dwfn rhyngddynt. Yn ail, beth oedd effaith y digwyddiad hwn ar y berthynas rhwng Edwards a Daniel fel y ddau aelod o'r triawd oedd yn weddill.

Barn T.I. Ellis oedd bod colli Tom Ellis yn ergyd ofnadwy i Daniel, ac o ganlyniad cred y bu iddo 'golli ei angor.'[594] Mae'r modd y cofnodir y digwyddiad yn nyddiadur Daniel yn sicr yn awmgrymu effaith ddirdynnol y digwyddiad arno. Ym mlaen ei ddyddiadur yn syml, ceir croes wrth 25

[592] LlGC Daniel  532, Dyddiadur D.R. Daniel 1908, 14 Ebrill 1908.
[593] LlGC Daniel 2912, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol I, tt. 17-18.
[594] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II*, t. 87.

Mawrth a'r geiriau *'Election Left to France'* a chroes wrth 5 Ebrill ynghyd ag un gair, *'Dead!'* Ar gyfer 11 Ebrill, ysgrifennwyd, *'Buried.'*[595] Yng nghynnwys ei ddyddiadur, wrth focs gydag enw 'Tom' ynddo, ar 5 Ebrill noda'r amser union y derbyniodd gerdyn gan J.H. Davies a phryd gyrhaeddodd y telegram i hysbysu teulu gwraig Tom Ellis o'i farwolaeth.[596] Mae'r symlder hwn yn tynnu sylw'r darllenydd a'r manylion penodol yn awgrymu'r loes a deimlodd Daniel gan ei fod yn teimlo'r angen i'w nodi a'u cofio. Ymhellach, yng nghefn ei ddyddiadur, ysgrifennodd ei feddyliau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

> *Last 20 years, I have wondered whether I should live to write the year 1900 over my letters. It is now within 10 minutues of XII o clock. Dec 31. 1899! How sad to think that my best and lifelong friend Tom dropped only 9 months before reaching this historic date! Alas his like I do not expect to meet during the remaining years of my pilgrimage. But I feel thankful that it has been my lot to live so near and to know so well such a character. To think of him, often dispelled the fears of a total wreck of my faith in humanity*.[597]

Gwelir unigrwydd yma ar ran Daniel wrth iddo wynebu bywyd heb ei ffrind, ond diolchgarwch a gwerthfawrogiad yn ogystal gan gofio dylanwad Ellis arno a llwyr edmygedd Daniel o gymeriad ei gyfaill. Atgyfnerthir y golled a deimlai wrth ddathlu blwyddyn newydd hebddo mewn llythyr a ysgrifennodd Daniel at ei fam ar ddiwrnod cyntaf 1900. Trawiadol yw'r ddelwedd y mae'n creu ohono'i hun yn unig wrth y tân yn aros am y flwyddyn newydd ar ôl cynllunio i fod gyda Tom Ellis i'w dathlu.[598] Rhannodd D.R. Daniel ei farn am ei gyfaill fis yn union i ddiwrnod ei farwolaeth mewn cyfarfod Cymdeithas Ddadleuol Ganoleg Lerpwl a chawn fewnwelediad cyhoeddus i ddealltwriaeth Daniel o bersonoliaeth y ffrind roedd wedi ei adnabod am 37 o flynyddoedd:

---

[595] LlGC Daniel 519, Dyddiadur D.R. Daniel 1899, y calendr ym mlaen y dyddiadur.
[596] Ibid., 5 Ebrill 1899.
[597] Ibid., 'Memoranda'.
[598] LlGC Daniel 2421, D.R. Daniel at Jane Daniel, 1 Ionawr 1900.

> Gwyliais ef yn fanwl gydol ei oes, ac ni chefais ddiffyg yn ei gymeriad. Llywodraethid ei holl weithredoedd gan yr amcanion uchaf, ac nid oedd gronyn o hunangais ynddo. Anaml, hyd yn nod yn oes cenedl, y ceir cymeriadau teilwng i'w dal yn esiamplau i genedl, ond yr oedd Mr. Ellis yn un o honynt. Nodwedd amlwg ynddo oedd ei symlrwydd. Nid oedd rhith na geudeb ynddo – yr oedd ei gymeriad yn drwyadl hollol – yn dryloew i'r gwaelod a'r un peth oedd o'r golwg ag ar y wyneb.[599]

Unwaith yn rhagor, gwelir y weithred o rannu profiadau personol yma wrth i Daniel wneud yn gyhoeddus y meddwl uchel iawn yr oedd ganddo o'i hen gyfaill.

Roedd effaith marwolaeth Tom Ellis yn enfawr ar O.M. Edwards yn ogystal â Daniel. Cred J. Graham Jones bod ei farwolaeth wedi achosi iselder dwfn yn Edwards a deimlai flinder a sioc, ac a oedd yn dioddef o orweithio yn ogystal â bod yn gymeriad nerfus.[600] Mae'r golled hon yn rhywbeth y bu i chwaer Tom Ellis gydnabod mewn llythyr ato gan ddatgan, 'mae colli cyfaill mynwesol er pan yn blant yn agosaf peth i golli perthynas anwyl a hoff, a gwyddoch chwi chwerwder y naill ar llall.'[601] Mae'r ffaith y bu i Winifred Ellis gydymdeimlo gydag Edwards yng nghanol ei galar ei hun yn arddangos dyfnder y berthynas emosiynol rhyngddynt.

O ganlyniad i'w alar, egyr y coffad a draethodd Edwards yn angladd Ellis gyda datganiad ei fod yn ei chael yn anodd iawn i ddweud unrhyw beth ar y diwrnod hwnnw ac yr oedd eu diwrnodau cynnar yn y Bala, dros 25 mlynedd ynghynt yn fyw iawn iddo ar y pryd. Trafododd eu cyfnod yn yr ysgol a chymeriad hoffus a charedig ei ffrind. Disgrifiodd ddylanwad Ellis dros wleidyddiaeth Cymru, a'r modd na fyddai ei amcanion yn marw. Ond, yn dilyn cydymdeimlo gyda chydweithwyr Tom Ellis yn y byd addysg a llenyddol a'i anwyliaid, mae'n cloi gyda'r geiriau syml a gonest, 'Fu yr un

---

599 Daniel, 'Adgof', t. 18.
600 J. Graham Jones, 'The Littérateur as Politician', tt. 576-577.
601 LlGC Papurau O.M. Edwards AG/1/14/72, Winifred Ellis at O.M. Edwards, 25 Ebrill 1899.

diwrnod tywyll yn fy hanes i na chlywais ei lais yn sibrwd gobaith. Yr wyf yn teimlo heddyw yn fwy nag erioed y bydd ein cyfaill byw yn Hanes Cymru.'[602] Mae ei ffydd yn nylanwad Tom Ellis ar hanes yn dangos ei hoffter ohono, ond mae'r frawddeg flaenorol yn disgrifio'n agored ac yn drawiadol ddylanwad Ellis ar O.M. Edwards. Atgyfnerthir y syniad bod Ellis wedi medru cysuro Edwards yn ystod ei gyfnodau mwyaf heriol gan arddangos felly maint ei golled. Ni chafodd y ffaith ei fod yn siarad mewn man cyhoeddus yn mynegi teimladau a fyddai'n cael eu hargraffu ym phapurau newydd Cymru effaith ar ei eiriau. Dyma arddangos gogwydd sensitif ac agored i wrywdod y cyfnod gan ehangu ar y syniadau traddodiadol o wrywdod imperialaidd neu wleidyddol diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, dyfynna T.I. Ellis atgofion cydweithwyr yn ei gofiant i'w dad gydag O.M. Edwards yn dweud, *'I loved him… His place can never be filled; there can be but one Tom Ellis… God is very good to those he wounds.*'[603] Nid oes cyfeiriad at ble y dywedwyd neu yr ysgrifennwyd y geiriau hyn; mewn sefyllfa gyhoeddus neu mewn llythyr personol at deulu Ellis. Unwaith eto, er hyn, mae'r datganiad o gariad yn gwbl agored a gonest.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, ar ddadorchuddio cofgolofn Tom Ellis yn y Bala yn 1903, ceir awgrym eto bod O.M. Edwards yn ei chael hi'n anodd i drafod marwolaeth ei ffrind. Roedd R. Evans o'r farn mai 'O orfod y bu raid i Mr. Edwards godi i fyny' ac mai ei neges ar y diwrnod hwnnw oedd pwysleisio y byddai plant Cymru yn cael cyfle i holi am wasanaeth mawr Ellis i'w genedl wrth weld y gofgolofn.[604] Yn wir, dewisiodd O.M. Edwards ddefnyddio ei gylchgronau ei hun fel cyfrwng i rannu ei ddealltwriaeth uniongyrchol a phersonol o gyfraniad a phersonoliaeth Tom Ellis gyda'r genedl:

[602] R. Evans, 'Yr Angladd Cenedlaethol', yn ei (gol.), *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion,* t. 98.
[603] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II,* t. 299.
[604] R. Evans, 'Dadorchuddio'r Gofgolofn yn y Bala', yn ei (gol.), *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion,* t. 136.

> Y mae heddyw uwchlaw plaid, y mae gyda Llywelyn ac Owen Glyn Dŵr, a chaiff barch a serch pob Cymro trwy'r byd. Nid ym merw gwleidyddiaeth y mae Tom Ellis heddyw; ond yn hanes Cymru. Gyfaill calon gynnes, wladgarwr difefl, gorffwysed dy ysbryd pur ymysg y bryniau geraist mor angerddol. Y mae dy waith wedi ei wneyd, mae llu yn cerdded ar dy ol.[605]

> …gosododd ei amcanion yn uchel, cadwodd ei gydwybod yn glir, credodd yng Nghymru, a chredodd yn Nuw.[606]

Gweler yn y geiriau uchod ei falchder llwyr yng ngwaith caled Tom Ellis a'i lwyr edmygedd o gymeriad a llafur ei 'gyfaill calon gynnes'. Yn wir, clodd ei erthygl yn *Cymru* gyda cherdd sy'n arddangos ei hiraeth am ei ffrind:

> Pe bai tywallt dagrau'n tycio
> Er cael eto weld dy wedd,
> Ni chaet aros, gallaf dystio,
> Hanner munud yn dy fedd. [607]

Mae'r sioc a'r ergyd bersonol o golli ffrind gwerthfawr yn cael eu hadlewyrchu orau yn y llythyrau rhwng D.R. Daniel ac O.M. Edwards yn dilyn marwolaeth Tom Ellis. Dychwelwn yma at y trafodaethau yn yr hanesyddiaeth am agosatrwydd y tri chyfaill ysgol. O ganlyniad, felly, mae'n naturiol mai at ei gilydd y trodd D.R. Daniel ac O.M. Edwards am gysur yn ystod amser mor dywyll ac mor heriol yn eu bywydau. Ysgrifennodd Daniel at Edwards ddiwrnod ar ôl marwolaeth Tom Ellis gan ddweud, 'Atoch chwi y rhaid i mi ysgrifenu gynta' ar ól clywed am farwolaeth yr hen gyfaill anwyl Tom… Teimlaf fel un o dan y parlys. Ymruthia yr hen amserodd ger bron fy llygaid ac o greulawn yw brathiadau y fron.' Mae'r galar yn cael ei gyfleu yn gwbl onest a didwyll yn y geiriau

[605] O.M. Edwards, 'Adgofion', t. 247. Yn ymyl yr erthygl hon yr ymddangosodd y llun o lythyr Tom Ellis ato yn dilyn marwolaeth ei fab.
[606] Idem., 'Thomas Edward Ellis' yn ei (gol.), *Cymru'r Plant,* 8 (1899), t. 164.
[607] Idem., 'Adgofion', t. 247.

hyn gyda theimlad Daniel eu bod wedi colli 'cyfaill na welwn ei fath.'[608] Ymatebodd O.M. Edwards gyda'r geiriau:

> Dyna'm teimlad innau. Yr wyf megis un mewn breuddwyd. Collasom ein cyfaill goreu. Collodd Cymru y gŵr wnaeth fwyaf drosti o neb yn y dyddiau diweddaf hyn. Yn tydi ffyrdd Rhagluniaeth yn dywyll?
>
> O'r hen dri ohonom nid oes ond dau yn aros,- mae'n rhyfedd meddwl.[609]

Mae'r syniad o sioc ac o boen yn eglur yn y geiriau uchod. Rhaid nodi mai ysgrifennu at Edwards a wnaeth Daniel yn syth ar ôl clywed y newydd, sydd yn awgrymu y credai y byddai'n medru cael rhywfaint o gysur wrth rannu'r profiad gyda'r person arall a fyddai'n deall ei golled yn llwyr. Yn yr un modd ag y gwelwyd O.M. Edwards yn cyflwyno ei deimladau'n gwbl onest gydag Ellis ar farwolaeth ab Owen, rhannai Edwards a Daniel eu sioc a'u hemosiynau yn agored â'i gilydd wrth golli cyfaill hynod o agos. Dyma ddau ŵr yn ymestyn at ei gilydd wrth geisio ymgyfarwyddo gyda cholli cyfaill oedd mor ddylanwadol iddynt.[610] Dylid nodi yma'r defnydd o'r Gymraeg yn llythyrau D.R. Daniel, Tom Ellis, O.M. Edwards a Lloyd George yn ystod cyfnodau o alar am Tom Ellis, a'u plant a fu farw'n ifanc. Ymddengys pan yw'r dynion hyn yn disgrifio eu teimladau ac yn gwneud datganiadau mwy emosiynol, yn y Gymraeg y byddent yn dewis mynegi eu hunain. Yn sicr, mae lle i ystyried y defnydd o iaith wrth i ddynion fynegi eu hunain mewn astudiaethau yn y dyfodol.

Ni ellir dweud bod colli Tom Ellis o reidrwydd wedi golygu bod D.R. Daniel ac O.M. Edwards wedi agosau at ei gilydd na chwaith wedi treulio mwy o amser gyda'i gilydd cyn marw Edwards yn 1920. Ond yr hyn sydd yn eglur yn y llythyrau rhwng y ddau yn dilyn marwolaeth Ellis yw'r modd

[608] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/38, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 6 Ebrill 1899.
[609] LlGC Daniel 1016, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 8 Ebrill 1899.
[610] Datganodd Lloyd George ei sioc a'i alar yntau mewn llythyr at Daniel, 'Yr wyf fel wedi'm parlysu', LlGC Daniel 2784, D. Lloyd George at D.R. Daniel, dydd Gwener.

y bu iddynt ymroi i geisio cynnal ei freuddwydion a'i amcanion gan gadw'r atgof ohono'n fyw. Dyna oedd yr her a wynebodd dau gyfaill ysgol Tom Ellis ar ei farwolaeth, a gwelir dibyniaeth emosiynol ac ymarferol ar ei gilydd unwaith yn rhagor wrth iddynt geisio cyflawni hyn.

Mae'r ffaith i O.M. Edwards fynd yn Aelod Seneddol yn lle Tom Ellis, gyrfa nad oedd yn gweddu i'w bersonoliaeth mewn gwirionedd, yn adlewyrchu dyfnder ei alar a maint ei edmygedd a'i deyrngarwch i Ellis a'i syniadaeth. Am ei benderfyniad, dywed Edwards ei fod wedi teimlo ei alw i gymryd swydd Ellis, 'Ni feiddiwn wrthod, er mwyn y cof amdano. Teimlwn ei law ar fy ysgwydd, megis yn yr amser gynt.'[611] Ellis oedd y dyn a'i hanogodd, ac a gyd-freuddwydiodd a chyd-frwydrodd gydag Edwards a Daniel am ddeng mlynedd ar hugain ac a oedd yn rhan o'r grŵp mewnol hwnnw oedd mor agos ato. Aeth mor bell felly a chymryd swydd Tom Ellis er mwyn amddiffyn a hybu amcanion y tri ohonynt. Camodd i'r byd gwleidyddol cyhoeddus er mwyn cyflawni hynny. Er hyn, achosodd y sefyllfa hwn gryn bryder i Edwards. Yn naturiol felly, trodd at D.R. Daniel am gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Ysgrifennodd ato mewn llythyr dyddiedig 17 Ebrill 1899 gan ddatgan:

> Am y gynrychiolaeth, ni fu erioed, tan ddydd angladd Tom Ellis, ddim pellach o'm meddwl. Nid wyf yn ieuanc, ac yr wyf yn teimlo yn hŷn nag wyf. Nid oes gennyf uchelgais, - dim ond cariad Hafaidd at waith. Nid oeddwn wedi breuddwydio am fynd i'r Senedd erioed. Yr wyf wedi pryderu a phryderu nes y mae cwsg bron a chilio. Gwell gennyf beidio: ond hyn oedd yn erlid fy meddwl o hyd, - <u>Os oes dy eisiau,</u> gwae di am <u>anufuddhau</u>. Yr wyf, o'r diwedd, wedi addaw sefyll os bydd eisiau; ond gwell gennyf o lawer os mai ar arall y syrth y coelbren…

[611] O.M. Edwards, 'Adgofion', t. 246.

> Dylai ef [Osmond Williams[612]] a chwithau a minnau fod yn barod i gario gwaith Tom Ellis ymlaen os dywed sir Ferionnydd fod yn rhaid i ni wneyd.
>
> Gadewch i'ch enw fynd o flaen yr etholwyr. Arnynt hwy y mae y cyfrifoldeb. Gwell gennyf o lawer fuasai gweled eich ethol na'm hethol fy hun.
>
> Yr wyf yn bryderus ac yn brysur, maddeuwch aflerwch y nodyn hwn.[613]

Gwelir pryder Edwards yn amlwg wrth iddo gyfeirio at y swydd fel 'coelbren'. Trafoda'n gwbl agored ei amheuon a'i deimladau gyda'i ffrind. Gellir teimlo'r panig yn ei eiriau. Anogaeth a chefnogaeth lwyr a gafodd Edwards gan Daniel. Dywed Daniel mai'r peth gorau a allai ddigwydd yn dilyn marwolaeth Tom Ellis fyddai iddo gymryd ei le. Nododd na fyddai'n breuddwydio sefyll yn erbyn Edwards gan eu bod wedi bod yn 'ormod o gyfeillion'. Dywed, 'Y mae yn adeg dywyll yn hanes Meirion. Beth yw baich eich Cenadwri gwn y caf genych chwi fel gan Tom eich goreu mewn argyfwng fel hyn.'[614] Dyma deyrngarwch a dibyniaeth emosiynol felly - Daniel yn cefnogi O.M. Edwards ac Edwards yn teimlo dyletswydd i barhau â gwaith Ellis.[615] Troi at gyfaill gydol oes a rannai wreiddiau gydag ef a wnaeth Edwards, a oedd dal yn methu â chredu bod Tom Ellis yn ei fedd, a'i feddyliau'n troi nôl at sicrwydd eu plentyndod yn y Bala am gynhaliaeth, 'O'r holl ofidiau hyn! Gwyn fyd na fuasem yn y Bala eto, lle nad oedd eisiau ond breuddwydio.'[616] Cefnogodd Daniel yrfa seneddol Edwards yn gyhoeddus yn ogystal gan ddatgan:

---

612 Roedd Osmond Williams yn Ryddfrydwr o Sir Feirionnydd. Gwrthododd sefyll yn erbyn O.M. Edwards ond fe'i etholwyd i gynrychioli'r sir yn 1900 yn dilyn cyfnod Edwards yn y Senedd.

613 LlGC Daniel 1017, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 17 Ebrill 1899.

614 LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/48, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 15 Ebrill 1899.

615 Ysgrifennodd gweddw Ellis a'i chwaer, Winifred Ellis, at Edwards yn datgan eu cefnogaeth yn ogystal. Gweler LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/72, Annie Ellis at O.M. Edwards, 22 Ebrill 1899 & LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/77, Winifred Ellis at O.M. Edwards, 25 Ebrill 1899.

616 LlGC Daniel 1018, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 24 Ebrill 1899.

> A phan gwympodd arwr ac arweinydd mawr gwleidyddol Cymru – Thomas Ellis – nis gallasai Meirionydd wneyd yn well na dewis ei hen gyd-ysgolor fel ei olynydd. Er wedi bod yn gweithio drwy ei oes i wasanaethu ei wlad mewn cylch gwahanol i'w flaenorydd, eto yr oedd baich prophwydoliaeth y ddau yr un – cael Cymru Fydd i estyn yn mlaen yn ddiorphwys tuag at y goreu mewn llenyddiaeth a gwleid-ddysg, gan gadw yn wastadol ei llygad ar ei llwybr a'i chymwynaswyr yn yr amseroedd a fu.[617]

Er hyn, ar farwolaeth O.M. Edwards, gwelir barn wirioneddol D.R. Daniel am yrfa wleidyddol ei gyfaill yn cael ei datgelu gan ei fod yn credu mai camgymeriad mwyaf Edwards oedd mynd i'r Senedd gan iddo wneud y golled ar ôl Ellis yn fwy amlwg gan nad oedd yn gymwys.[618] Dyma rywbeth a ddatganodd D.R. Daniel mewn llyfr nodiadau personol. Yn 'O Waled Atgo' (ei erthygl goffa i O.M. Edwards yn *Cymru*), pwysleisia ddiffyg diddordeb Edwards mewn gwleidyddiaeth yn hytrach na'r ffaith bod y golled ar ôl Ellis yn fwy amlwg gydag Edwards yn y swydd. Dywed 'Llusgo ewig i efail a rhoi bronfraith gyda'r brain fu ei anfon erioed i'r Senedd.'[619] Dyma ddangos bod bwlch yn bodoli rhwng yr hyn a deimlai Daniel a'r hyn a rannai gyda'r cyhoedd. O ran penderfyniad Edwards i dderbyn ei enwebiad yn Aelod Seneddol, gellir awgrymu bod ei galon wedi arwain ei benderfyniad, ac am flwyddyn yn unig y parhaodd yn y swydd gan roi'r gorau i'w sedd yn 1900. Adlewyrchir hyn yng ngweithiau rhai haneswyr diweddar gyda R. Gwynedd Parry yn datgan mai dyma:

> *…a job that he hated, and which he agreed to do only out of respect to the memory of his old school friend, T.E. Ellis, who had been the Liberal member for the constituency since 1886, and who had*

---

[617] LlGC Daniel 2742, Llyfr nodiadau yn cynnwys copi o erthygl D.R. Daniel, 'Yr Athraw Owen M. Edwards', t. 99

[618] LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards. Nododd yn yr un ysgrif bod Ellis cyn ei farwolaeth hefyd wedi troi ei law at lenyddiaeth trwy olygu gwaith Morgan Llwyd, ond heb fiwsig Edwards, 'Dau ŵr digymor yn eu lle, a phob un yn ei le ei hun.'

[619] Daniel, 'O Waled Atgo V', t. 161.

> *suddenly died at the age of forty in 1899. Whereas T.E. Ellis was a scion of the Home Rule for Wales campaign in Gladstone's era, O.M. had little appetite for radical politics. O.M.'s patriotism was confined to romantic culturalism.*[620]

Cydweithiodd D.R. Daniel ac O.M. Edwards mewn sawl ffordd arall er mwyn ceisio sicrhau y byddai Tom Ellis yn cael ei gydnabod a'i gofio mewn modd haeddiannol. Un ffordd o wneud hyn oedd wrth drafod paratoi cofiant iddo. Dyma gywaith a gymerwyd o ddifrif ac a drafodwyd mewn manylder gan y ddau yn y cyfnod yn syth ar ôl ei farwolaeth. Roedd yn bryder mawr gan O.M. Edwards y byddai rhywun yn cyhoeddi cofiant a fyddai'n anheilwng o'i ffrind neu pe byddai pwyllgor, yn hytrach nag unigolyn, yn cwblhau'r gwaith. Cred teulu Cynlas mai gŵr o'r enw John Owen ddylai ysgrifennu'r gyfrol Saesneg a chred Edwards mai Daniel ddylai ysgrifennu'r Gymraeg am dri rheswm:

1. Y mae gennych fwy o amser. A dweyd y gwir, yr wyf fi bron a'm llethu; a phe digwyddai i'm hiechyd dorri i lawr eto, nis gwn beth ddeuai ohonof.
2. Yr oeddych yn adnabod Ellis yn well. Buoch chwi <u>in touch</u> ag ef trwy'r amser. Ychydig iawn, - y nesaf peth i ddim, - wn i am ei gynlluniau gwleidyddol.
3. Gwnaech well gwaith. Yr wyf fi, ar hyn o bryd beth bynnag, yn <u>worked out.</u> Darllennais eich araeth yn Lerpwl yn llyfr y Bala, - "Er Cof". Tybiwn fod honno yn wir ardderchog. Nid oes eisiau ond ei llenwi, i wneyd cyfrol deilwng o goffadwriaeth anwyl ein cyfaill...[621]

Gwelwn felly fwriad Edwards i wneud yr hyn a allai er mwyn sicrhau bod hanes a chymeriad ei gyfaill yn cael eu cyflwyno yn y modd gorau posibl. Mae'n cydnabod y ffaith bod Daniel ac Ellis yn agosach a'u bod mewn cysylltiad llawer mwy cyson sydd yn cadarnhau'r trafodaethau ar ddechrau'r bennod hon wrth ystyried dyfnder y rhwym oedd rhwng y ddau. Er hyn,

[620] R. Gwynedd Parry, *David Hughes Parry: A Jurist in Society* (Caerdydd, 2010), t. 13.
[621] LlGC Daniel 1023, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 15 Awst 1899.

ymateb Daniel i gais Edwards oedd nodi na fyddai modd cyhoeddi'r llyfr heb ei fod wedi 'ei berffeithio' gan y 'llenor Cymreig Cyntaf yn ei oes' ym marn Daniel ac Ellis. Roedd Daniel felly'n awyddus i Edwards i ymgymryd â'r gwaith a byddai yntau yn ei gefnogi. Credai hefyd mai un o ffrindiau seneddol Ellis ddylai ysgrifennu'r fersiwn Saesneg.[622] Ceir sawl cyfeiriad arall at y gyfrol yn yr ohebiaeth gydag Edwards yn hwyrach yn annog Daniel i ysgrifennu ac yn addo y byddai yntau hefyd.[623] Ar adegau eraill mae Edwards yn holi ble roedd Daniel wedi cyrraedd ac yna'n sôn bod gwraig Tom Ellis yn dechrau poeni nad oedd y cofiant wedi ei gwblhau.[624]

Fel y gwyddys, ni chyhoeddwyd cofiant i Ellis gan D.R. Daniel nac O.M. Edwards, ffaith y mae T.I. Ellis wedi esbonio i raddau gan y credai nad oedd Daniel yn medru ymrwymo yn ddigonol i gwblhau'r gwaith o ganlyniad i ddiffyg disgyblaeth. Paratodd ddrafft manwl ar hanes bywyd Tom Ellis hyd yr 1880au cynnar, ond ni pharhaodd i ysgrifennu ar ôl 1905.[625] Er hyn, awgryma T. Huws Davies mewn coffadwriaeth i Daniel yn dilyn ei farwolaeth yn 1931 mai rhy '*pious'* oedd Daniel i gyhoeddi'r gwaith a oedd yn orffenedig – er nad oes tystiolaeth o gofiant cyflawn yn ei gasgliad o bapurau. Dywed Huws Davies hefyd ei fod yn dioddef o hunan-feirniadaeth a sensitifrwydd, sy'n cydfynd â'r drafodaeth yn y bennod gyntaf, a all esbonio ei resymau dros beidio ysgrifennu'r cofiant.[626] Efallai nad oedd ganddo'r hyder i wneud cyfiawnder â thestun y gyfrol neu ofn gwneud cam â choffadwriaeth Ellis gan gofio maint ei edmygedd ohono. Pwysau gwaith, mae'n debyg, oedd yn gyfrifol nad oedd O.M. Edwards wedi cwblhau'r dasg. Beth bynnag y rhesymau, roedd yn fwriad gan Daniel ac Edwards i sicrhau bod eu ffrind yn cael ei gofio yn y modd gorau posibl sydd yn arddangos eu hoffter ohono a'u rhwym emosiynol ag ef. Yn wir, daeth gwaith Daniel ar fywyd cynnar Ellis yn sylfaen i ddwy gyfrol T.I. Ellis ar ei dad a darparodd fewnwelediad unigryw i fywyd cynnar Tom Ellis i haneswyr y dyfodol. Yn y pen draw, cytunwyd i geisio creu cyfrol o

[622] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/15/19, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 17 Awst 1899.
[623] LlGC Daniel 1024, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 12 Hydref 1899.
[624] LlGC Daniel 1025, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 1 Rhagfyr 1899 & LlGC Daniel 1027, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 28 Mawrth 1901.
[625] T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant II,* t. 87.
[626] Huws Davies, 'David R. Daniel', t. 283.

areithiau ac ysgrifau Tom Ellis, ac yn 1903, mae Daniel yn anfon rhestr posibl at O.M. Edwards ar gyfer y cynnwys.[627] Yn anffodus, ni pharatowyd y fath gyfrol tan 1912, a hynny o ganlyniad i waith gweddw Tom Ellis.[628]

Yn yr un modd, roedd sicrhau cofgolofn deilwng i Tom Ellis yn destun trafodaeth yn llythyrau D.R. Daniel ac O.M. Edwards.[629] Ysgrifennodd Edwards at ei gyfaill yn Awst 1900 yn gofyn ei farn am yr hyn yr oedd gan y pwyllgor trefnu mewn golwg, sef ‘<u>bust</u> yng Nghefnddwysarn, a rhyw gardod o <u>exhibition?’</u> Cred Edwards byddai un gofeb gampus yn llawer gwell ffordd o wario’r £1,600 a gasglwyd. Yn wir, gan fod y pwyllgor wedi gwneud ei benderfyniad, ysgrifennodd Edwards at Lloyd George i ddweud na fyddai’n ymyrryd mwy.[630] Bwriad Edwards yn syml oedd ‘cael rhywbeth cain i ddal Tom Ellis o flaen meddwl oesoedd i ddod.’[631] Mewn llythyr heb ddyddiad at Daniel, mae Edwards yn disgrifio mynd i Birmingham i gasglu arian ar gyfer y gofeb a’i fwriad i beidio gadael llonydd i’r pwyllgor tan sicrhau, ‘Bydd i’n cyfaill y gofadail harddaf yng Nghymru, a hynny ger y llecyn lle y cyfarfyddais i ef a chwithau gannoedd o weithiau, - ar stryd y Bala, yr harddaf yng Nghymru.’[632] Mae ymateb Daniel yr un mor benderfynol. Ysgrifennodd lythyr hir iawn at O.M. Edwards yn amlinellu yr hyn a gredai y dylai’r gofgolofn fod, gyda braslun o gofeb a disgrifiadau hynod fanwl ynglyn â dwylo’r cerflun sydd yn dangos y pwyslais a roddai ar bwysigrwydd creu cofgolofn haeddiannol. Cynigai fanylion ychwanegol yn ogystal. Roedd ef o’r farn ‘y mae yn cael <u>ei rhoddi yn y llanerch olaf a ddewisasai ym Meirionydd.’</u> Ymhellach, dangosai Daniel ei wybodaeth fanwl o fywyd Ellis gan nodi nad yn y Cynlas a welwyd ar y pryd y ganed

[627] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/21/28, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 11 Chwefror 1903.
[628] Gweler Annie Ellis, *Speeches and Addresses.*
[629] Am drafodaeth bellach, gweler J. Graham Jones, ‘A Monument to Thomas Edward Ellis (1859-99)’, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 16:3 (2012), tt. 293-303.
[630] LlGC Daniel 1026, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 31 Awst 1900. Ysgrifennodd O.M. Edwards ddwywaith at Lloyd George yn amlinellu pryderon teulu Tom Ellis, ei gyfeillion a phobl sir Feirionnydd ynghylch y modd yr oedd y pwyllgor am wario’r arian ar gyfer cofeb i Ellis. Gweler LlGC William George 4352 & 4353, O.M. Edwards at D. Lloyd George, 22 Awst 1900 a 30 Awst 1900.
[631] LlGC Daniel 1029, O.M. Edwards at D.R. Daniel, dydd Sul.
[632] LlGC Daniel 1028, O.M. Edwards at D.R. Daniel, heb ddyddiad.

Ellis ond yn yr hen dŷ a chynigiodd greu braslun ohono.[633] Gofynnwyd felly i Daniel anfon ei fraslun at Goscombe John[634] oedd am ei roi ar fedal i'w anfon at y rhai hynny a gasglodd dros £5 at y gofeb.[635] Gofynnodd Edwards hefyd i Daniel am hoff arwyddair i Ellis i gael rhoi ar y fedal.[636] Roedd sicrhau bod gwaddol Tom Ellis, eu cyfaill hoff, yn cael ei amddiffyn a bod ei gyfraniad i fywyd Cymru yn cael ei gofio mewn modd haeddiannol yn hynod bwysig iddynt.

Mae marwolaeth cynamserol Tom Ellis yn datgelu dwyster y sioc a'r galar y bu i D.R Daniel ac O.M. Edwards eu teimlo. Yn wir, dewisodd Daniel ac Edwards rannu eu profiadau o'u cyfeillgarwch gydag Ellis gyda'r cyhoedd, a'u geiriau'n arddangos eu colled.  Mae'r ergyd o golli cyfaill mor agos yn atgyfnerthu'n llwyr y syniad o rwym a dibyniaeth emosiynol ac mae'r modd y mae a Daniel ac Edwards yn troi at ei gilydd mewn cyfnod mor heriol yn cyfoethogi dadl y bennod hon. Mae marwolaeth Tom Ellis, a'r cwlwm emosiynol a fodolai rhyngddynt ag ef, yn golygu bod O.M. Edwards a D.R. Daniel wedi gwneud yr hyn a fedrent i gynnal gwerthoedd a gobeithion eu cyfaill a'u cadw'n fyw. Yr enghraifft orau o hyn yw O.M. Edwards, gŵr nad oedd â'i fryd ar wleidyddiaeth, a dyn oedd yn gorweithio eisoes, yn dod yn Aelod Seneddol dros Feirionydd er mwyn ceisio parhau â gwaith ei gyfaill – a chefnogaeth lwyr Daniel i ymdrechion Edwards. Er nad yw marwolaeth Tom Ellis o reidrwydd yn golygu bod O.M. Edwards a D.R. Daniel yn treulio mwy o amser gyda'i gilydd, bu i'r profiad hwn ddyfnhau'r cwlwm rhyngddyn nhw wrth iddynt gydweithio er mwyn sicrhau bod cofgolofn addas yn cael ei lunio ar gyfer eu cyfaill ac yr oedd yn fwriad ganddynt lunio cofiant iddo, er na ddaeth hwn i fod.

[633] LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/2/2, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 6 Chwefror 1902.
[634] Roedd Goscombe John (1860-1952) yn gerflunydd Cymreig nodedig. Ef oedd yn gyfrifol am greu'r gofeb i Tom Ellis sydd i'w weld ar brif stryd y Bala. Fe'i dadorchuddiwyd yn 1903.
[635] LlGC Daniel 1029, O.M. Edwards at D.R. Daniel, dydd Sul.
[636] LlGC Daniel 1031, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 27 Mawrth 1902.

**Y Rhyfel Byd Cyntaf a'i heriau**

Er maint ei alar dros ei gyfaill bore oes, daeth y Rhyfel Byd Cyntaf o bosibl a'r her fwyaf a wynebodd Daniel o ran ei gyfeillgarwch gyda'i ffrindiau. Amlinella T. Huws Davies deimladau cryf Daniel yn erbyn rhyfel yn ei goffad iddo:

> *He hated war above all things- because he greatly loved civilisation – and all his friends will agree that there was no unhappier or more troubled mind in Europe than Daniel's during the war years. He left no one in doubt where he stood*.[637]

Roedd D.R. Daniel yn heddychwr mawr ac O.M. Edwards bellach yn was sifil a thirfeddiannwr a anogai ddynion ifainc Meirionnydd i ymrestru.[638] Am y tro cyntaf mewn gwirionedd, wynebodd eu perthynas fygythiad sylweddol. Ystyrir felly beth oedd ymateb Daniel i weithredoedd ei ffrind ac effaith uniongyrchol y rhyfel ar ei berthynas gydag Edwards. Yn yr un modd, gan fod David Lloyd George yn Weinidog Arfau ac yna'n Brif Weinidog yn ystod y rhyfel, dyma gyfle hefyd i gyfoethogi'r drafodaeth gan gynnig gwrthgyferbyniad rhwng ei berthynas ef gyda Daniel a chyfeillgarwch Edwards a Daniel. Y cwestiwn allweddol felly yw i ba raddau y parhaodd cyfeillgarwch rhwng Daniel a'r ddau unigolyn yn dilyn y rhyfel, a beth oedd natur y berthynas rhyngddynt?

Ni cheir unrhyw dystiolaeth o ymateb Daniel i gefnogaeth Edwards i'r rhyfel, nac amddiffyniad gan Edwards o'i safbwynt, mewn gohebiaeth rhyngddynt gan nad oes llythyr rhyngddynt wedi goroesi ar ôl 1910. Troir felly at ddyddiaduron a llyfrau nodiadau personol Daniel sy'n datgelu ei siom enbyd yn ymateb ei hen gyfaill i'r rhyfel. Gellir awgrymu bod Daniel ac Edwards wedi pellhau oddi wrth ei gilydd tuag at ddiwedd eu hoes, yn wahanol iawn i Ellis a Daniel a oeddynt yn rhan allweddol o fywydau'i gilydd hyd y diwedd. Roedd hyn o ganlyniad i gyfrifoldebau a gor-weithio Edwards i raddau, ac o bosibl i'w natur fewnblyg. Er hyn, ni fyddai agwedd

[637] Huws Davies, 'David R. Daniel', t. 284.
[638] Hazel Davies, 'Divisions', t. 77.

Edwards at y rhyfel wedi annog Daniel i gryfhau ei ymlyniad at ei hen gyfaill. Ar 28 Mai 1918, nododd Daniel yn ei ddyddiadur fod J.H. Davies, brawd yng nghyfraith Tom Ellis, wedi anfon copi o *Cymru*, cylchgrawn O.M. Edwards, ato. Ei ymateb oedd:

> Wel Wel, mae'n hen gyfaill ers mwy na deugain mlynedd yn fwy gwallco na gafr ar daranau. Fe yrodd yr helynt yma yr gwr mwyn yn gath wyllt yn poeni. Maen sgrifenu dwli a gwaeth rai pethau nad ydynt yn wir. Owen Edwards yn diystyru cydwybod!! Y maen wael ei iechyd[639] ac ofnaf na cha fyw yn ddigon hyd i weled ffoled yr ysgrifena.[640]

Er y siom a deimlodd am gefnogaeth Edwards o rôl Prydain yn y rhyfel, mae'r cyfeillgarwch clos a hir dymor a sefydlwyd rhyngddynt yn peri i Daniel geisio amddiffyn Edwards yn ei feddwl ei hun gan gydnabod ei salwch, a'i boen meddwl, ac effaith posibl hyn ar ei farn. Yn y dyfyniad uchod, ceisia gloriannu a chyfiawnhau'r hyn a wna Edwards sydd yn atgyfnerthu ei feddwl amlwg ohono a'r teyrngarwch a deimlai tuag ato. Mae'r hyn a ysgrifennodd Daniel yn ei lyfr nodiadau ar farwolaeth Edwards yn cydfynd â hyn. Datganodd mai Owen Edwards a'i siomodd fwyaf yn ei ymateb i'r rhyfel trwy droi 'ei gefn ar holl <u>ideals</u> ei fywyd, ar bopeth ddysgodd ar hyd ei yrfa… Un a gondemniodd ryfel ar hyd ei oes fel hanesydd gan ei galw yn felldith ac yn rheg digymysg'. Ond, cred Daniel ei fod wedi deall ei gamgymeriad wrth weld effaith y rhyfel ar Gymru.[641]

Mae'n amlwg i'r rhyfel effeithio ar berthynas Edwards a Daniel gan iddo achosi i Daniel golli rhywfaint o'i edmygedd o Edwards. Ond, roedd eu perthynas yn gyfeillgarwch bwysig i Daniel ers plentyndod ac felly fe oroesodd yr her a'r bygythiad difrifol hwn. Awgryma hyn bod ei ffydd sylfaenol yng nghymeriad ei gyfaill yn parhau. Disgrifiodd ymweld â'r

---

[639] Erbyn dechrau 1920, nododd *'Sara writes from Crynierth* [cartref hanner brawd D.R. Daniel] *that poor OME has had another stroke. He fell on the fire & burnt his face. Sad. Very.'* Gweler LlGC Daniel 540, Dyddiadur D.R. Daniel 1918, 31 Ionawr 1918.
[640] Ibid., 28 Mai 1918.
[641] LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards.

Neuadd Wen, cartref O.M. Edwards, ar 29 Mai 1917, dair blynedd cyn marwolaeth Edwards. Dyma oedd y tro olaf iddo ei weld:

> Daethum o hyd iddo ar ei ffordd or stesion wedi bod gydar wraig yn anfon ei fab Ifan a gychwynai yn ol i Ffraingc. Mae OM. ers tro wedi bod adre yn wael ei iechyd a tharawodd yr olwg gynta gefais arno fi ei fod wedi heneiddio yn rhyfedd. Edrychai yn ei got ucha yn fain, yn wargrymedig ac yn hên. Cefais Elin yn y ty ai llygaid ag ol wylo arnynt wedi ffarwelio ai mab hoff. Daeth Owen i hebrwng tipyn arnaf… O.E yn ddyddorol fel arfer. dangosai y darluniau o Gymru oedd ganddo hyd y muriau a siaradem gryn lawer am lyfrau Cymraeg &. Eithr y mae'r hen asbri i raddau wedi diflannu ond rhaid cofio mai diwrnod ffarwelio ag Ifan ydoedd y dydd - a deallaf fod Ifan yn bryder mawr iddo - canys fel y dywedodd wrthyf yn Llundain, 'Wn i beth ddaw o Elin os digwydd rhywbeth i Ifan" felly maer pryder iddo ef yn ddeublyg.
>
> Ni soniais air am y rhyfel canys mae ef am ryw reswm neu gilydd yn ei nodiadau yn y "Nghymru" &c yn fwy gwallco nag odid unrhyw un om hen gyfeithum. Wedi llyncu yr holl egwyddorion geisiodd ddysgu i blant Cymru drwy Urdd y Delynyn ai gyhoeddiadau. Yr oedd wrth gwrs yn was y Llywodraeth pan dorrodd yr helynt allan. Eithr digon prin y credaf y buasai hynny yn ddigon i esbonio y cyfnewidiad mawr hwn ynddo; Er na feddyliais erioed am O.E fod defnydd merthyr ynddo. Ysgrifennu <u>hanes</u> merthyron ydyw ei ddawn ef ac y mae wedi gwneud hynny yn aml yn swynol dros ben.[642]

Eto, mae'r nodiadau hyn yn cynnig mewnwelediad i'r modd y gwelai Daniel Edwards. Gwelodd y loes yr oedd y rhyfel wedi ei achosi i O.M. Edwards a'i wraig, a chadwodd yn glir o drafod y mater hwn oedd yn eu gwahanu o ran barn. Yn ogystal, mae'r ffaith y bu i Edwards drafod ei boen meddwl dros Ifan ac effaith bosibl ei golli ar ei wraig gyda Daniel unwaith yn rhagor

---

[642] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 44.

yn profi, ar ôl dros ddeugain mlynedd o gyfeillgarwch, roedd y cwlwm rhyngddynt wedi parhau ac Edwards yn ymddiried pryderon personol iawn yn Daniel.[643] Er y gwahaniaeth barn enbyd a'r ffaith nad oedden nhw'n gweld ei gilydd yn aml, dychwelodd O.M. Edwards yn ôl i'r hen gyfeillgarwch am gysur a'r cyfle i rannu pryder. Cadarnha gynnwys llythyr Daniel at Ifan ab Owen yn dilyn marwolaeth Edwards ei feddwl o'i ffrind yn ystod y blynyddoedd olaf gan awgrymu nad y gwahaniaeth barn am y rhyfel oedd yn gyfrifol am iddynt golli rhywfaint o'u hagosatrwydd. Wrth ymateb i gais y mab i ddarparu erthygl am y tad, nododd:

> Pur ychydig welais o'ch tad yn ystod y blynyddau diweddaf yma; llai o lawer na fuaswn yn hoffi ond fe geisiwn gofio bob amser mai gwr prysur iawn ydoedd ai amser yn werthfawr yn ngolwg cenedl gyfan. Ni chefais ei gwrdd unwaith ar ol ei brofedigaeth fawr.[644] Anfonais air ato o gydymdeimlad ddechreu'r haf diweddaf o Galifornia ond nis gwn a dderbyniodd ef neu beidio. Bydd yn ofid i mi hyd fy medd nad oeddwn yn ei hebrwng iw orphwysfan.[645]

Angladd breifat a gafodd O.M. Edwards ac felly roedd y ffaith nad oedd Daniel yn medru bod yn bresennol wedi bod yn ofid iddo. Er y gwahaniaeth barn am y rhyfel, ac er i Daniel golli rhywfaint o'i edmygedd o Edwards, parhaodd ei ffydd ynddo. Roedd seiliau cadarn iawn a hir dymor i'w cyfeillgarwch a oedd y peri bod y cwlwm rhyngddynt yn ddigon cryf i oroesi her eu gwahaniaeth barn am y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn wir, mae'r ddadl hon yn mynd y tu hwnt i'r gweithiau yn yr hanesyddiaeth sydd yn arddangos y ddibyniaeth rhwng milwyr a'u mamau, a rhyngddynt a'i gilydd, yn ystod y rhyfel. Nid oedd Daniel yn medru derbyn barn O.M. Edwards am y rhyfel a chafodd ei siomi'n enbyd gan agwedd ei gyfaill. Ond, ceisiodd

---

643 Cadarnhaodd David Hughes Parry, a briododd merch O.M. Edwards, ei fod yn amlwg bod rhieni Ifan ab Owen yn 'bryderus iawn yn ei gylch' pan welodd hwynt yn ystod y rhyfel. Gweler David Hughes Parry, *O Bentref Llanaelhaearn i Ddinas Llundain: Atgofion Syr David Hughes Parry* (Caernarfon, 1972), t. 77.

644 Mae'r 'brofedigaeth fawr' yn cyfeirio at farwolaeth Elin Edwards yn 1919. Am drafodaeth bellach o berthynas O.M. ac Elin Edwards, a'r modd y bu Elin farw, gweler pedwaredd bennod yr astudiaeth hon.

645 LlGC Papurau O.M. Edwards CJ2/2/37, D.R. Daniel at Ifan ab Owen Edwards, 7 Gorffennaf 1920.

wneud esgusodion drosto a pharhaodd eu cyfeillgarwch hyd y diwedd. O ganlyniad i'r ymlyniad emosiynol dwfn rhyngddynt, ymdrechodd i sicrhau parhad eu perthynas – er bygythiad eu gwahaniaeth barn dros y rhyfel. Mae ystyried barn Leonore Davidoff am y cysylltiad rhwng brodyr a chwiorydd o gymorth i ddeall yr ymlyniad hwn:

> *In adult life they may never be in contact but they cannot be formally divorced. In a sense, brothers and sisters are* life's longest relationships. *Even if siblings have taken very different trajectories they usually remain connected by an invisible link that transcends time and distance.*[646]

Yn achos Daniel ac Edwards, fel cyfeillion oes, gellir dadlau bod y rhwym rhyngddynt wedi sicrhau bod eu perthynas wedi goresgyn amser, pellter a gwahaniaeth barn.

Mae perthynas Daniel gyda Lloyd George yn cynnig gwrthgyferbyniad, oherwydd, yn wahanol i'w berthynas gydag Edwards, ni oroesodd eu cyfeillgarwch y rhyfel. Mae hyn wedi cael ei amlinellu'n glir yn yr hanesyddiaeth gan gofio dadl K.W. Jones-Roberts a John Graham Jones y bu i Daniel golli pob ffydd yn Lloyd George a chredir na fu i'r ddau gyfarfod eto ar ôl 1919.[647] Eto, dibynnir ar gynnwys dyddiaduron Daniel a'i fywgraffiad anghyhoeddedig o Lloyd George i ddadansoddi diwedd eu cyfeillgarwch. Ar 18 Medi 1914, ysgrifennodd Daniel iddo gael sgwrs gyda Lloyd George yn lobi Tŷ'r Cyffredin pan oedd y ddau yn cytuno mai amseroedd rhyfedd oedd yn eu hwynebu a nododd bod Lloyd George wedi dweud wrtho y byddai'n *'terribly against it* [y rhyfel]' os nad oedd angen i Brydain amddiffyn Gwlad Belg.[648] Ar ddechrau'r rhyfel felly, roedd Lloyd George a D.R. Daniel yn trafod y rhyfel mewn sgwrs weddol gyfeillgar. Ond, wrth i Lloyd George ddod yn Weinidog Arfau ac yna'n Brif Weinidog,

---

[646] Leonore Davidoff, *Thicker than Water: Siblings and their Relations 1780-1920* (Rhydychen, 2013), t. 2.
[647] Jones-Roberts, 'D.R. Daniel', t. 71 & J. Graham Jones, 'David Lloyd George and D.R. Daniel', tt. 127-129.
[648] LlGC Daniel 538, Dyddiadur D.R. Daniel 1914, 18 Medi 1914.

mae agwedd Daniel at ei gyfaill yn newid yn llwyr. Credai fod Lloyd George yn erbyn y rhyfel ond roedd wedi gweithio i lunio gyrfa lwyddiannus iddo'i hun fel Canghellor gyda'i lygad ar fod yn Brif Weinidog. Nid oedd felly'n barod i ddychwelyd i'r ymylon o ran pŵer gwleidyddol wrth frwydro dros heddwch.[649] Dyma a ddigwyddodd iddo pan wrthwynebodd Rhyfel y Boer (1899-1902) yn ffyrnig.

Daeth cyfarfyddiadau Daniel gyda Lloyd George yn llawer llai aml oherwydd roedd 'cymylau a niwl gwahaniaeth barn ar beth mwya byd wedi ymdaenu rhyngof ac ef. Nid ydwyf wedi ei gwrdd ond teirgwaith rwyn meddwl er y pryd hwnnw.'[650] Gwelir agwedd Daniel at Lloyd George yn mynd yn llawer mwy chwerw wrth iddo ysgrifennu am Lloyd George yn areithio mewn cyfarfod ymrestru *'a version of history to suit his own convenience'* a oedd 'bron yn ormod i mi barhau i eistedd ar fy nghader.'[651] Ond, y cyfarfyddiad rhyngddynt ar 4 Tachwedd 1915 sydd wedi cael y mwyaf o sylw gan haneswyr megis J. Graham Jones.[652] Gofynnodd Lloyd George os oedd gan Daniel olwg ar swydd gan ei fod yn edrych yn debygol y byddai ei gomisiwn yn dirwyn i ben. Dywedodd Lloyd George bod ganddo ef waith iddo, ond yn ymwneud â'r 'powdwr'. Ymateb Daniel oedd:

> 'Diolch i chwi' a chan bwyntio am bys at y ffôs yn ochr yr heol meddwn 'buasai'n well genyf farw yn y fan yna'
> 'Mi wn i hynny' meddai
>
> 'Bu adeg pan fyddai genych chwi gryn lawer o barch i gydwybod,' meddwn.
>
> Trodd ataf yn sydyn a gafaelodd neu dododd ei law ar fy mraich chwith ac meddai "Mae genyf fi etto, rwy'n eich parchu chwi a Ramsay (Macdonald maen debyg olygai) ond nid oes genyf ronyn o

[649] LlGC Daniel 2914, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol III, tt. 22-25.
[650] Ibid., t. 29.
[651] Ibid., tt. 32-34.
[652] J. Graham Jones, 'David Lloyd George and D.R. Daniel', tt. 127-128.

> barch ir aelodau seneddol yma sydd yn erbyn y rhyfel ac yn rhy lwfr i ddweud hynny gan of ei hetholwyr…[653]

Yn ôl disgrifiad D.R. Daniel, dywedodd wrth Lloyd George y dylai fod wedi gadael y cabinet cyn cyhoeddi'r rhyfel gan fod ganddo gryn ddylanwad pe bai'n ceisio ei atal. Ceisiodd Lloyd George wadu hyn ond cred Daniel iddo edrych nôl ar y dyddiau hynny mewn hiraeth.[654] Serch swildod ei gymeriad, roedd Daniel yn gadarn ei farn ac mae ei ddisgrifiad o'r cyfarfyddiad yn dod i ben gyda'r geiriau:

> Edrychais ym myw ei lygaid ac meddwn George. We have worn Belgium loudly on our sleeve (gan daraw fy mraich) yet,- first and foremost in falsehood and hypocrisy'! Nid allaf byth anghofio ei edrychiad ai ymddygiad. Nid attebod fi ni chondemniodd fi eithr trodd ei ben draw dros ei ysgwydd ai lygad ynghau gan siglo ei ben a chodi ei ddwy law au hysgwyd. fel gwr wedi cael brath gan saeth yn ei fron. Gwyddai fy mod yn rhy agos i fy lle im hateb a chredaf y gwyddai yn eitha da fod y geiriau yn onest berffaith i mi. Credaf na welais ef yn ymddwyn yn fwy hynod yn ystod holl flynyddau'n hadnabyddiaeth a chredaf hyd fy medd i mi weled mewn un fflachiad beth mewn gwirionedd ydoedd ei farn am wir achosion Cychwynol yr helynt ar galanas - mawr.[655]

Mae'r disgrifad manwl uchod o'r digwyddiad holl bwysig hwn yn arddangos llawer am gymeriadau'r ddau gan ystyried y modd y glynodd Daniel at ei gydwybod a'r modd y bu hyn o leiaf sicrhau parch ac edmygedd ei gyfaill. Ceir awgrym hefyd o ba mor benderfynol yr oedd Lloyd George i sicrhau ei gynnydd ei hun, ac eto nid oedd yn gwbl gyfforddus gyda'i benderfyniad i gefnogi'r rhyfel. Wrth gwrs, dyma ddealltwriaeth Daniel yn unig o'r sefyllfa. Ar un llaw, dyma sylwadau ar gymeriad Lloyd George oedd yn deillio o 30 mlynedd o gyfeillgarwch. Ond, yn ogystal, gellir

---

[653] LlGC Daniel 2914, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol III, tt. 43-44.
[654] Ibid., tt. 45-46.
[655] Ibid., tt. 46-47.

awgrymu unwaith yn rhagor bod Daniel yn gobeithio darganfod rhywfath o ansicrwydd yn ei gyfaill o ran ei syniadau am y rhyfel. Fel ag yn ei ddisgrifiad o weithredoedd O.M. Edwards, roedd y teyrngarwch a'r hoffter a deimlai Daniel at Lloyd George yn golygu ei fod yn ceisio cyfiawnhau ei gredoau i raddau.

Er hyn, ceir awgrymiadau ym mhapurau Daniel o ddyfnder ei atgasedd at agwedd Lloyd George at y rhyfel. Ar 15 Mawrth 1915, disgrifia'i hun yn gwrando ar Lloyd George yn ymosod ar yr aelodau Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Toriaid yn ei gefnogi, *'Painful The tragedy of a nation. He is poisoned by the virus of the war. Much talk & regret amongst his friends'.* Yn y disgrifiad hwn, parha Daniel i amlinellu ei gred y bu i Lloyd George dorri'r cysylltiad oedd rhyngddo ef a'i genedl ei hun gan ymosod ar gynrychiolwyr y bobl a oedd yn amddiffyn y delfrydau yr oedd ef ei hun wedi eu cyflwyno.[656] Yn wir, cyfeiriodd at ddatgysylltiad fel *'petty sectarian squabble'* ac ystyriodd Daniel a oedd meddwl ei gyfaill wedi colli ei gydbwysedd ac yr oedd W. Llewelyn Williams o'r farn bod 'ei nerves wedi eu malurio ai farn wedi ei llwyr ddinystrio.'[657] Yn dilyn y rhyfel a thrafodaeth gyda W. Llewelyn Williams, nododd, *'I find that the P.M. idol has crumbled to dust in his mind.'*[658] Gellir awgrymu bod Daniel yn rhannu'r gred hon oherwydd pan glywodd fod Llewelyn Williams ar ei wely angau, nododd yn ei ddyddiadur, *'Poor Llew. If we lose him the last of the real Welsh patriots will have gone. I am much concerned.'*[659] Nid ystyriai Lloyd George yn wladgarwr go iawn bellach. Yn wir, gwelir teimladau D.R. Daniel ar eu cryfaf pan ymddiswyddodd Lloyd George yn 1922. Cred Daniel mai dyma oedd y peth gorau ar gyfer y wlad gan adlewyrchu maint ei siom yn ei gyfaill, cyfaill yr oedd wedi proffwydo y byddai'n cyflawni

---

656 Ibid., t. 38.
657 Ibid., t. 39.
658 LlGC Daniel 544, Dyddiadur D.R. Daniel, 23 Mai 1921.
659 LlGC Daniel 545, Dyddiadur D.R. Daniel, 28 Mawrth 1922. Am drafodaeth fanwl ynghylch y dirywiad ym mherthynas D. Lloyd George a W. Llewelyn Williams, gweler J. Graham Jones, 'Lloyd George, W. Llewelyn Williams and the 1916 Conscription Bill', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 31:2 (Gaeaf 1999), tt. 173-187 & J. Graham Jones, 'W. Llewelyn Williams, M.P. (1867-1922) and the First World War', *The Carmarthen Antiquary*, 17 (2006), tt. 84-103.

pethau mawr tri deg a phedair o flynyddodd ynghynt.[660] Ystyriodd bod penderfyniadau Lloyd George a'i lywodraeth wedi bod yn ragrithiol ac yn llwgr:

> *But 1922 was not without its blessings. It saw about the worst, most hypocritical & corrupt (I am afraid) political junta of a government swept away. Praise the Lord!... It will be good for the country. It cannot be otherwise & good for my old friend DLlG its leader… The 'Big Four' of Versailles were four big fools who managed between them to muddle the world.*[661]

Trist iawn yw'r disgrifiad hwn o Lloyd George sy'n dangos pa mor negyddol oedd agwedd Daniel at ei gyfaill bellach. Ond diddorol, er hyn, yw bod Daniel yn parhau i gyfeirio at Lloyd George fel cyfaill a bron y ceir naws o obaith yn y geiriau uchod y byddai'r ymddiswyddiad yn beth da iddo, fel pe bai'n cael y cyfle i ddychwelyd i ymddygiad mwy rhesymegol a heddychlon.

Heb os, felly, wynebu rhyfel byd oedd yr her fwyaf a wynebodd Daniel yng nghyd-destun ei gyfeillgarwch gydag O.M. Edwards a Lloyd George. Fel heddychwr cadarn, mae ei siom a'i loes wrth brofi gwahaniaeth barn gyda chyfeillion agos yn boenus o eglur yn ei bapurau personol. Eto i gyd, mae awgrym cryf bod D.R. Daniel wedi cadw rhywfaint o ffydd yn ei gyfeillion gan geisio gwneud synnwyr, ac hyd yn oed gyfiawnhau, eu dynesiad hwy. Dengys hyn y cysylltiad emosiynol a deimlai gyda Lloyd George yn ogystal ag Edwards. Er hyn, dim ond ei gyfeillgarwch gydag O.M. Edwards oroesodd y rhyfel. Unwaith yn rhagor felly, mae perthynas Daniel gyda Lloyd George yn cynnig gwrthgyferbyniad gyda'i gyfeillgarwch â'i ffrindiau ysgol. O bosibl, gellir esbonio'r ffaith nad oroesodd y berthynas hon oherwydd bod Lloyd George yn Brif Weinidog ac felly'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a effeithiodd yn uniongyrchol ar barhad Prydain yn y rhyfel, ac effaith Cytundeb Versailles ar wleidyddiaeth byd-eang. Ond, gan

[660] LlGC Daniel 545, Dyddiadur D.R. Daniel 1922, 19 Hydref 1922.
[661] Ibid., 'Memorandum'.

gofio'r awgrym a drafodwyd yn y bennod gyntaf nad oedd Lloyd George mor ddidwyll ag eraill yn y modd yr oedd yn cynnal ei gyfeillgarwch, efallai gwelodd Daniel ochr arall i gymeriad ei gyfaill yn ystod y rhyfel. Mae'n bosibl bod seiliau mwy cadarn i berthynas D.R. Daniel ac O.M. Edwards a'i galluogodd i oroesi her y rhyfel. Roeddent wedi ffurfio rhwym arbennig yn ystod dyddiau ysgol ac wedi tyfu'n ddynion gyda'i gilydd. Er ei siom yn ei gyfaill, nid oes unrhyw awgrym bod Daniel wedi ystyried y dylai eu cyfeillgarwch ddod i ben sy'n dangos dyfnder yr ymlyniad emosiynol a deimlai at O.M. Edwards. Ymdrechodd i gynnal y berthynas a sicrhau parhad y cyfeillgarwch yn wyneb bygythiad y gwhaniaeth barn rhyngddynt dros y rhyfel.

Er i gyfeillgarwch Daniel a Lloyd George ddod i ben o ganlyniad i faterion gwleidyddol a chyhoeddus, mae lle i ystyried beth oedd effaith y rhyfel ar eu bywyd personol.[662] Roedd eu gwragedd a'u teuluoedd bellach yn ffrindiau a gellir awgrymu er i gefnogaeth broffesiynol Daniel i'w gyfaill ddod i ben, parhaodd math o berthynas ar lefel bersonol dipyn yn hirach. Yn wir, nododd Daniel yn ei fywgraffiad i Lloyd George:

> Ond drwyr cyfan y mae iddo le lled gynes yn fy mynwes, Y mae hen gyfeillgarwch ffurfiwyd yn agos i ddeng mlynedd ar hugain yn ol yn dwf gwydn. Ac yr wyf wedi cael prawf fel y dangoswyd yn barod fwy nac unwaith fod ganddo galon dyner yn llawn cydymdeimlad. Cyfaill rhyfedd iawn ydyw ar lawer cyfrif.[663]

Yn ei eiriau ei hun felly, mae Daniel yn nodi bod cwlwm emosiynol wedi bodoli rhyngddynt nad oedd yn hawdd ei anghofio. Dyma eto ddatblygu ychydig ar y cysyniad o gyfeillgarwch rhamantaidd, beth bynnag ei wendidau. Daeth y cyfeillgarwch i ben, ond roedd yr ymlyniad emosiynol yn parhau. Yn wir, wrth weld ei hen gyfaill yn cyrraedd y brig yn 1916 drwy

---

[662] Goroesodd cyfeillgarwch Lloyd George a J. Herbert Lewis, Aelod Seneddol Cymreig arall, hyd farwolaeth Lewis yn y 1930au. Am drafodaeth o'u perthynas, gweler J. Graham Jones, 'Advice from a Friend: D. Lloyd George, Sir John Herbert Lewis and the Aftermath of the Political Crisis of 1931', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 30:3 (Haf 1998), tt. 323-339.

[663] LlGC Daniel 2914, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys': Cyfrol III, tt. 70-71.

gael ei apwyntio yn Brif Weinidog, dyrchafiad yr oedd Daniel wedi edrych ymlaen ato ers blynyddoedd, ysgrifennodd ato:

> …nid gwiw ceisio ymwingo yn erbyn pethau nas gellir eu syflyd. Fe wyddoch fy safle, a theimlaf gadarnach ynddi o ddydd i ddydd. Eithr nid yw hynny mewn un modd yn rhwystr i mi ar y dydd mawr hwn yn eich hanes a hanes y wladwriaeth – o waelod calon ddymuno i chwi yn bersonol – yn iaith gynhwysfawr yr hen bobl – bob bendith 'dymhorol ac ysprydol' y chwi eich priod ach plant…
>
> Gyda chofion caredig atoch o fynwes yn llawn hen adgofion heddyw.[664]

Dengys y llythyr hwn y cymysgedd teimladau a wynebai Daniel ar y pryd – y ffaith nad oedd ei gydwybod yn ei alluogi i gefnogi safbwynt Lloyd George ar y rhyfel ac eto i gyd, roedd ei gyfeillgarwch dwfn gydag ef yn peri iddo'i longyfarch o waelod calon ar ei lwyddiant. Ymhellach, ceir cyfeiriadau gweddol gyson at deulu Lloyd George yn nyddiadur Daniel yn ystod ac yn dilyn y rhyfel, er nid hanner cymaint ag y bu yn flaenorol. Gellir awgrymu i raddau felly bod ymlyniad Daniel at Lloyd George wedi parhau ar ffurf y cysylltiadau rhwng y ddau deulu, yn hytrach nag ar ffurf cyfeillgarwch uniongyrchol. Ceir sawl cyfeiriad at Margaret Lloyd George yn bresennol yng nghartref D.R. Daniel yn cyfarfod gyda'i wraig neu'n cysylltu gyda D.R. a Sarah Daniel ar y ffôn.[665] Yn wir, pan aeth Daniel a'i wraig i America yn 1919, ysgrifennodd Mrs Lloyd George ar ei ran i'w gyflwyno i'r Arlywydd Wilson, *'This is to introduce one of Mr Lloyd George's oldest friends. He has come over to America & is anxious to have the honour of shaking your hand.'*[666] Er y tensiwn rhwng y gwŷr, roedd Margaret Lloyd George yn parhau i chwarae rôl eithaf arwyddocaol ym mywyd D.R. Daniel a'i deulu. Parhaodd i ysgrifennu at Sarah Daniel yn

---

[664] Ibid., tt. 72-73.

[665] LlGC Daniel 540, Dyddiadur D.R. Daniel 1918, 7 Mawrth 1918; LlGC Daniel 541, Dyddiadur D.R. Daniel 1919, 14 Mawrth 1919; LlGC Daniel 543, Dyddiadur D.R. Daniel 1920. 26 a 27 Awst 1920 & LlGC Daniel 545, Dyddiadur D.R. Daniel 1922, 15 Mehefin 1922.

[666] LlGC Daniel 2838, Margaret Lloyd George at yr Arlywydd Wilson, 11 Ebrill 1919.

ogystal. Yn 1916, anfonodd gerdyn post gyda llun milwyr Cymreig arno ati er mwyn trefnu cwrdd tra roeddent nôl yng Ngogledd Cymru ac yn 1918, ysgrifennodd yn disgrifo mynd i gyngerdd er budd arwyr milwrol Gogledd Cymru a'r ffaith ei bod am geisio mynd draw i weld Mrs Daniel.[667] Roedd perthynas y gwragedd yn parhau er y pellter rhwng eu gwŷr sydd yn dangos cryfder y cysylltiad personol rhwng y ddau deulu.[668]

Yn yr un modd, parhau wnaeth perthynas teulu Daniel gyda phlant y Prif Weinidog. Ysgrifennodd Olwen Lloyd George at Sarah Daniel yn ystod y rhyfel gan ddweud, '*If I do not hear to the contrary I will come to see you on Wed. Mother will be goin down to Criccieth with Gwilym who is home on sick leave.*'[669] Yn wir, ar 19 Mehefin 1917, roedd D.R. Daniel a'i deulu yn bresennol yn ei phriodas.[670] Mis yn ddiweddarach, aeth Daniel i 10 Stryd Downing i weld Gwilym a'r cwpwl priod newydd, er nid yw'n glir a oedd Lloyd George yno.[671] Ceir cyfeiriadau at Richard Lloyd George a Peredur yn cyfarfod ac yntau yn dod i ymweld â theulu Daniel. Ar achlysur arall, yn 1920, aeth Daniel i 10 Stryd Downing a chael te gyda'r plentyn ieuengaf, Megan Lloyd George.[672] Ceir y cyfeiriad olaf yn ei ddyddiadur at Mrs Lloyd George, Gwilym a'i wraig yn galw i'w gweld ar 18 Medi 1924. [673] Er hyn, yn 1930, ysgrifennodd Megan Lloyd George at D.R. Daniel yn diolch iddo am ei '[l]ythyr caredig' a'i '[l]ongyfarchiadau a'r geiriau caredig' wedi iddi draethu ei haraith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin.[674] Awgryma hyn yn glir y parhaodd math o gyfeillgarwch rhwng y teuluoedd yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf gan wrth-brofi'r hanesyddiaeth sy'n awgrymu y daeth y berthynas rhwng Daniel a Lloyd George i ben yn llwyr yn ystod y rhyfel. Nid yw'r

[667]LlGC Daniel 2878, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, marc post 17 Medi 1916 & Daniel 2879, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, marc post 6 Mawrth 1918.

[668] Dylid ystyried yn ogystal nad oedd priodas Lloyd George a'i wraig cyn gryfed ag yr oedd a'u bod erbyn hyn yn byw eu bywydau ar wahân. Anodd yw gwybod i ba raddau roedd Lloyd George yn ymwybodol o barhad cyfeillgarwch ei wraig gyda theulu D.R. Daniel.

[669] LlGC Daniel 2894, Olwen Lloyd George at Sarah Daniel, marc post 17 Gorffennaf 1916.

[670] LlGC Daniel 539, Dyddiadur D.R. Daniel 1917, 19 Mehefin 1917.

[671] Ibid., 18 Gorffennaf 1917.

[672] LlGC Daniel 541, Dyddiadur D.R. Daniel 1919, 17 Ionawr 1919 & LlGC Daniel 543, Dyddiadur D.R. Daniel 1920, 7 Medi 1920 a 19 Tachwedd 1920.

[673] LlGC Daniel 547, Dyddiadur D.R. Daniel 1924, 18 Medi 1924.

[674] LlGC Daniel 2831, Megan Lloyd George at D.R. Daniel, 22 Mai 1930.

cyfeiriadau at y cyfarfodydd hanner mor gyson ag yr oeddent yn anterth y cyfeillgarwch ac ni cheir unrhyw dystiolaeth bod Lloyd George yn bresennol wrth iddynt gyfarfod. Ond, datblygodd y cyfeillgarwch rhwng Daniel a Lloyd George yn ymlyniad lefel deuluol – a'r elfen bersonol i'w perthynas a oroesodd y rhyfel mewn gwirionedd.[675]

Collodd Daniel rywfaint o'i edmygedd o O.M. Edwards yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ond cydymdeimlodd ag ef a goroesodd eu perthynas. Mae perthynas D.R. Daniel a Lloyd George yn ystod y cyfnod hwn yn cyfoethogi'r drafodaeth hon ymhellach. Er na oroesodd eu cyfeillgarwch fygythiad y rhyfel, roedd y cysylltiad emosiynol rhyngddynt wedi datblygu i gynnwys eu teuloedd a thrwy hyn wedi sicrhau bod math o berthynas bersonol wedi goroesi yn dilyn hyn. Roedd y cyfeillgarwch rhwng y teuluoedd yn gyfrwng i bontio byd Daniel gyda byd Lloyd George gan fod y cwlwm rhyngddynt wedi mynd y tu hwnt i gyfeillgarwch yr unigolion a chydweithio proffesiynol. Ond, anodd iawn yw mesur beth oedd gwerth y cysylltiad teulol hwn i Lloyd George. Yn wir, erbyn y cyfnod hwn nid oedd perthynas agos iawn yn bodoli rhwng Lloyd George a'i wraig ei hun felly nid yw'n glir a fyddai Lloyd George hyd yn oed yn ymwybodol o'r cysylltiad oedd yn parhau i fodoli gyda D.R. Daniel a'i deulu. Er na fu i Daniel dreulio amser yng nghwmni Lloyd George yn dilyn y rhyfel, a'r ffaith nad oroesoedd eu cyfeillgarwch fel perthynas Daniel ac Edwards, ni allodd Daniel ryddhau ei hun yn llwyr o'r cysylltiadau oedd yn eu clymu at ei gilydd. Daeth y cyfeillgarwch i ben, ond parhaodd y rhwym rhyngddynt. Dyma gyflwyno thema y gellir ehangu arni yn y dyfodol. Mae haneswyr eisoes wedi ystyried y modd y bu i'r rhyfel greu rhwym agos rhwng dynion, ond, mae'r dystiolaeth a gynigir yn awgrymu bod lle nawr i ystyried mewn mwy o fanylder effaith negyddol y rhyfel ar gyfeillgarwch rhwng dynion.

[675] Datblygir y drafodaeth ar raddfa'r ymlyniad lefel deuluol hwn ym mhedwaredd bennod yr astudiaeth hon.

**Marwolaeth O.M. Edwards**

Yn 1920, bu farw O.M. Edwards, yr ail o'r tri chyfaill ysgol. Dyma sefyllfa ychydig yn fwy cymhleth na phan fu farw Tom Ellis. Roedd Daniel ac Ellis wedi parhau yn gyfeillion hynod agos hyd y diwedd, ond roedd Daniel ac Edwards wedi pellhau oddi wrth ei gilydd wedi tyfu'n ddynion. Achosodd eu gwahaniaeth barn ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf densiwn rhynddynt ac nid oeddent yn treulio llawer o amser yng nghwmni ei gilydd o ganlyniad i brysurdeb gwaith. Dyma gyfle felly i ystyried beth oedd ymateb Daniel i golli O.M. Edwards a beth mewn gwirionedd oedd lefel y rhwym rhyngddynt erbyn diwedd eu cyfeillgarwch.

Ar 15 Mai 1920, ysgrifennodd Daniel y teitl, 'OME' wedi ei danlinellu mewn creon coch yn ei ddyddiadur ac, eto mewn coch, y geiriau *'Owen M. Edwards dead!'* Mae'n werth dyfynnu'r nodyn am y dyddiad hwn yn ei gyfanrwydd:

> *On my way home about (7pm) in the train car JR. reading the Star said 'Bad news for you Owen M. Edwards dead.' He died today. Poor Owen my old friend. I knew him from 1873 – 47 years at B.G. School. Here goes the second of the trio of us who were always together. Bosom friends, Tom died 21 years ago last month, I feel particularly lonesome tonight. Old times that are far in the past come to ones mind vividly. Owen had great charm. Upon the whole he was the most interesting character I ever met. There was a uniqueness about him. He worked hard and did greater service for Wales than any man in his generation. He however lost his way and his head completely over the war. The world without Owen will be much emptier.*[676]

Dychwelwn felly at y berthynas arbennig hon a sefydlwyd rhwng y tri yn ystod dyddiau ysgol ac unigrwydd ingol Daniel wrth iddo droi at ei atgofion fel yr aelod olaf o'r triawd hwnnw. Dyma adlais o'r modd yr 'Ymruthia

[676] LlGC Daniel 543, Dyddiadur D.R. Daniel 1920, 15 Mai 1920.

atgofion' at Daniel yn dilyn marwolaeth Ellis ac y bu i Edwards ddatgan mai 'O'r hen dri ohonom nid oes ond dau yn aros'.[677] Yn ei alar ar ôl O.M. Edwards, cadarnhaodd Daniel ei siom yng nghefnogaeth Edwards o'r Rhyfel Byd Cyntaf, ond golygai ei farwolaeth golli rhan greiddiol o'i wreiddiau, ac hyd yn oed ei hunaniaeth. Parha Daniel i nodi'r fath deimladau yn ei ddyddiadur yn y dyddiau yn dilyn marwolaeth ei ffrind wrth geisio gwneud synnwyr o'i golled, *'His departure does make a blank in my life at one time I hardly admired anyone more. His views on the war saddened me much. We remained good friends.'*[678] Ar achlysuron eraill nododd, *'There is a certain sadness'* a *'I do feel pangs of longing for days that are no more.'*[679] Dyma felly ddiwedd cyfnod a cholli'r cwlwm olaf i gyfnod hapus a gobeithiol pan oedd y tri yn cyd-astudio a chyd-freuddwydio yn y Bala. Mae hiraeth Daniel am y cyfnod hwn yn amlwg. Nid oedd D.R. Daniel yn rhannu syniadau crefyddol Ellis ac Edwards fel blaenoriaid Anghydffurfiol, fel ag y trafodwyd yn y bennod gyntaf. Er hyn, ceir awgrym o obaith am fyd arall ac aduniad gyda'i gyfeillion hynaf yn ystod cyfnod o alar i D.R. Daniel:

> Rhaid mynd ar eu holau yn fuan. Teimlaf awydd brysio y dyddiau hyn. Mae fy mywyd ai ddyddordeb yn y gorffennol yn awr. Os gwn i os ydynt yn chware ar y Green? 'yn ieuangc yn oes oesoedd' o am awr ou cwmni! Mi obeithiaf fod yr hyn ddysgwyd i mi yn blentyn yn wir. pe dim ond i gael cwrdd am dau hen gyfaill yma. Y ddau hoffaf fu genyf erioed maen debyg. Pan yn ieuangc y medrir hoffi yn iawn.[680]

Cariad a galar a welir yn y geiriau hyn a'r syniad ei fod yn ysu am gael gweld ei gyfeillion eto. Roedd maint ei golled yn aruthrol a'r disgrifiad o fyw bywyd yn y gorffennol yn hynod ddramatig sydd yn dangos dyfnder ei alar. Dyma feddyliau mwyaf personol Daniel, fel pe bai'n ysgrifennu er

[677] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/38, D.R. Daniel at O.M. Edwards, 6 Ebrill 1899 & LlGC Daniel 1016, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 8 Ebrill 1899.
[678] LlGC Daniel 543, Dyddiadur D.R. Daniel 1920, 16 Mai 1920.
[679] Ibid., 18 Mai, 1920 a 19 Mai 1920.
[680] LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards. Mae'r nodiadau hyn yn ymddangos o dan ddyddiad 18 Mai 1920.

mwyn deall ei deimladau ei hun. Gwelir felly effaith colli Edwards ar Daniel mewn geiriau didwyll. Nid oeddent wedi cadw mewn cysylltiad agos na gweld ei gilydd yn rheolaidd yn ystod blynyddoedd olaf bywyd Edwards. Ond, roedd y rhwym wedi ei sefydlu ers 47 mlynedd, ac roedd ei farwolaeth yn ergyd i Daniel. Gellir awgrymu yn ogystal bod colli O.M. Edwards wedi dod â hiraeth am Tom Ellis yn ei sgil gan fod galar am Edwards yn atgoffa Daniel o'r cysylltiad a'r cwlwm emosiynol cryf a fodolai rhwng y tri. Dyma atgyfnerthu'r ddibyniaeth ar y bechgyn a dyfodd yn ddynion gydag ef.

Rhaid cofio mai yn ei ddyddiaduron a'i lyfr nodiadau personol y mae dyfyniadau Daniel yn ymddangos. Dyma droi felly at yr erthyglau am eu dyddiau cynnar ysgrifennodd Daniel ar dudalennau *Cymru* ar farwolaeth Edwards. Unwaith yn rhagor, gwelir y defnydd o'r cyhoeddus i rannu profiadau personol a'i gyfeillgarwch gydag Ellis ac Edwards. Yn erthygl gyntaf y gyfres y mae'n datgan ei ddiolchgarwch i Ragluniaeth am sicrhau ei fod wedi eu hadnabod a derbyn eu 'cyfeillach bur a dyrchafedig. Trysor fu hyn yn fy ngolwg nas gallaf ei gymharu i unrhyw gyfoeth gwerthfawr.'[681] Cloir y gyfres gyda'r geiriau isod sydd yn cyfleu'r berthynas arbennig hon mewn modd hynod ddirdynnol a thrawiadol. Gwelir dyfnder galar Daniel wrth golli cyfeillion agos a dengys ei falchder yn yr hyn a gyflawnasant:

> Wele, erbyn hyn, ddau gyfaill serchocaf fy maboed wedi huno! Tra'r un mor hoff a'i gilydd, yr oeddynt yn dra gwahanol eu nodweddion.
>
> Serchogrwydd byrlymiol oedd yn Nhomos Ellis. Dengarwch hudol oedd yn Owen Edwards. Ynni heintus yr arweinydd oedd yn y naill tra mai breuddwydion swynol y gweledydd oedd gan y llall.
>
> Brwdfrydedd Tom, swyngyfaredd Owen.

681 D.R. Daniel, 'O Waled Atgo I' yn Ifan ab Owen Edwards, *Cymru,* 60, t. 55.

> Gwynt nerthol yn ysgwyd cangau'r goedwig oedd y naill. Su'r awel dyner ym mrig y morwydd oedd y llall. Utgorn oedd un, telyn oedd y llall.
>
> Megis hoffter yr heulwen lachar ganol dydd ar drumau grisial yr Alpau ydoedd Ellis, a chyffelyb i hudol swyn yr hwyrddydd a'r machlud yng Nghaliffornia oedd Owen Edwards. Eithr toriad gwawr a chodiad haul i'w gwlad fu ymddangosiad y ddau. Eu hysprydoedd hwy ynghyd, yn bennaf, wnaethant y Gymru newydd ddiweddaraf flodeuai hyd y pryd yr agorwyd ffynhonnau'r dyfnder ac y cuddiwyd hi gan ddyfroedd y diluw.[682]

Dyma uchafbwynt y ddadl nad oedd bwlch cadarn a phendant rhwng bywyd cyhoeddus a bywyd personol y dynion hyn. Rhaid ystyried erthyglau O.M. Edwards ar farwolaeth Tom Ellis ac ab Owen a thrafodaeth Daniel o alar Edwards ar golli ei fab yma yn ogystal. Mae'r erthyglau hyn oll yn gwneud teimladau a phrofiadau personol Daniel ac Edwards yn gyhoeddus. Rhannent â'r cyhoedd eu profiadau mwyaf personol sydd yn awgrymu nad oedd dynion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif o reidrwydd yn teimlo'r angen i guddio eu hemosiynau yn ôl y syniadau mwyaf traddodiadol am wrywdod. Nid oedd gwarth ganddynt mewn trafod eu profiadau a'u cyfeillgarwch personol yn gyhoeddus. Eto i gyd, diddorol yw nodi i Daniel gyfeirio at ei wahaniaeth barn gydag Edwards o ran y Rhyfel Byd Cyntaf yn ei ddrafft o 'O Waled Adgof', ond, wrth olygu ei nodiadau mae'n dewis peidio cynnwys agwedd Edwards at y rhyfel yn yr erthyglau gorffenedig.[683] Parha yn gwbl deyrngar i atgof ei gyfaill, ac nid mewn teyrnged gyhoeddus y disgwylwyd gweld dadansoddiad o ran Edwards yn annog dynion ifainc Cymru i ymuno gyda'r fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y cyhoeddus a'r personol wedi eu pontio wrth gydnabod y cwlwm oedd rhwng y cyfeillion. Ond, roedd Daniel yn dewis yr hyn roedd yn ei rannu gyda'r cyhoedd a'r modd yr oedd

---

[682] D.R. Daniel, 'O Waled Atgo VI' yn Ifan ab Owen Edwards, *Cymru*, 60, t. 213.

[683] Gweler LlGC Daniel 553, 'Gwaled Adgo' & Daniel, 'O Waled Atgo I-VI', yn Ifan ab Owen Edwards, *Cymru*, 60.

yn cyflwyno Edwards – ac ar ei orau y penderfynodd wneud hyn. Yn yr un modd, wrth ddisgrifio marwolaeth ab Owen yn *Cymru'r Plant*, ceir awgrym o hiraeth a galar Edwards, ond nid yw'n trafod ei effaith ar y teulu mewn manylder e.e. ymateb ei wraig i'r digwyddiad fel ag y mae yn ei lythyr at Tom Ellis. Heb os, mae'r erthyglau cyhoeddedig hyn yn arddangos y modd y bu i'r dynion hyn blethu'r cyhoeddus a'r personol wrth ymateb i heriau mwyaf emosiynol bywyd. Eto i gyd, roeddent yn rheoli'r wybodaeth y byddai'r cyhoedd yn ei derbyn am y profiadau preifat hyn. Dyma agor trywydd newydd posibl ar gyfer gweithiau eraill yn y dyfodol. Ffocysir ar y modd roedd Daniel ac Edwards yn fodlon rhannu eu profiadau personol gyda'r cyhoedd. Mae egin astudiaeth bellach yma felly – i ba raddau mae'r datganiadau hyn yn gyson gyda'r modd roedd dynion eraill yn ysgrifennu mewn gweithiau cyhoeddedig yn ystod yr un cyfnod.

I gloi, mae'r bennod hon yn cynnig gwedd newydd ar yr hanesyddiaeth sy'n bodoli am syniadau yn ymwneud â gwrywdod. Datblygir gwaith haneswyr ar y llythyru rhwng milwyr a'u mamau, eu cariadon a'u teuluoedd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yma wrth drafod y ddibyniaeth emosiynol a fodolai rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion. Cyfoethogir yr hanesyddiaeth ar wrywdod wrth ehangu ar y delweddau o ddynion mewn gwleidyddiaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig er mwyn cynnig darlun mwy cyflawn. Daw hyn i'r amlwg yn yr ymlyniad hynod emosiynol a fodolai rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis fel y ddau gyfaill hynaf yn y triawd o dan ystyriaeth. Roeddent yn ysu i weld ei gilydd ac yn hiraethu am gael treulio amser yng nghwmni ei gilydd. Gellir tynnu rhywfaint o gymariaethau gyda gweithiau haneswyr ar y cysyniad o gyfeillgarwch rhamantaidd. Mae'r syniad o fwynhau agosatrwydd gydag aelod o'r un rhyw a bod hyn yn cael ei dderbyn gan gymdeithas yn beth diddorol yng nghyd-destun y gwaith hwn.

Mae'r modd y mae Edwards a Daniel yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth emosiynol gan Tom Ellis, a'i gilydd, wedi marwolaethau plant iddynt yn arddangos dyfnder y berthynas deimladol rhwng y dynion dan sylw. Mae hyn yn gyson gyda phrofiad Lloyd George wrth i D.R. Daniel ei gefnogi yn

dilyn marwolaeth ei ferch, Mair Eluned. Yn yr un modd, mae ymateb D.R. Daniel ac O.M. Edwards i farwolaeth cynamserol Tom Ellis yn arddangos eu cariad gwirioneddol ato, a'r modd y maent yn troi at ei gilydd yn atgyfnerthu dyfnder y berthynas rhwng y tri a ddechreuodd yn ystod dyddiau ysgol ac a barhaodd hyd farwolaeth.

Heb os, y bygythiad mwyaf wynebodd Daniel yn ei berthynas gydag O.M. Edwards a'i gyfeillgarwch gyda Lloyd George oedd eu gwahaniaeth barn ynghych y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd siom a loes Daniel yn amlwg. Ond goroesodd ei gyfeillgarwch gydag Edwards, o ganlyniad o bosibl i ddyfnder y cwlwm rhyngddynt. Ni oroesodd ei gyfeillgarwch gyda Lloyd George. Yn ddiddorol, goroesodd y cysylltiad gyda theulu Lloyd George y tu hwnt i gyfeillgarwch y ddau ddyn sy'n awgrymu bod Daniel wedi darganfod ei fod yn llawer anoddach rhoi'r gorau i'r cysylltiad personol na'r cydweithio proffesiynol.

Ar farwolaeth O.M. Edwards, gweler dyfnder galar Daniel unwaith yn rhagor a phwysigrwydd creiddiol ei blentyndod gydag Edwards ac Ellis iddo. Ond yr hyn sydd yn cynnig y wedd mwyaf diddorol ar ymateb Daniel i farwolaeth yr ail gyfaill o'r tri yw'r modd y bu iddo rannu ei brofiadau personol, gan awgrymu dyfnder y cwlwm emosiynol rhynddynt, yn y wasg Gymraeg. Gwnaeth Edwards yr un peth ar farwolaeth Ellis, yn ogystal a'i fab, ab Owen. Rhaid cofio i Daniel ac Edwards ddewis y modd y bu iddynt gyflwyno eu profiadau i'r cyhoedd. Er hyn, mae'r erthyglau yn dangos nid yn unig bod y cwlwm cyfeillgarwch rhwng Daniel, Ellis ac Edwards yn bodoli o fewn eu profiadau personol, ond hefyd gwnaethpwyd y teimladau hyn yn agored ar dudalennau *Cymru* a *Cymru'r Plant* gyda phobl Cymru yn dod yn rhan o'r profiad hwnnw. Dyma ddatblygu dadl ail bennod yr astudiaeth hon gan fod dyfnder yr ymlyniad rhwng y cyfeillion yn esbonio pam eu bod yn teimlo'r angen i rannu eu profiadau cyhoeddus a phersonol gyda'i gilydd a'r erthyglau hyn yn y wasg yn cadarnhau'r plethu amlwg rhwng y ddau fyd.

# PENNOD 4

## ‘A hwythau bob amser mor “fond” och cwmpeini’: Rhwydweithiau teuluol ehangach.

Cyfoethoga’r astudiaeth hon yr hanesyddiaeth ehangach mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, mae’n cyfrannu at feirniadaeth haneswyr o’r cysyniad o sfferau ar wahân. Roedd D.R. Daniel a’i gyfeillion yn gwahodd ei gilydd i rannu profiadau ym mhob elfen o’u bywydau – boed yn lwyddiant neu’n gefnogaeth yrfaol neu yn longyfarchion ar briodi neu enedigaeth plentyn. Ymhellach, mae dyfnder y cwlwm emosiynol a fodolai rhyngddynt, a rhwng Ellis a Daniel yn enwedig, yn esbonio pam yr oedden nhw’n chwarae rhan mor ddylanwadol ym mywydau ei gilydd a phwysigrwydd y berthynas i’w hunaniaeth. Yn wir, pan ddaeth cyfeillgarwch Daniel gyda Lloyd George i ben, parhaodd math o ymlyniad emosiynol rhyngddynt. Ymhellach, wrth i D.R. Daniel ac O.M. Edwards rannu eu profiadau gyda’r cyhoedd wrth goffáu eu cyfeillion, gwelir unwaith yn rhagor y modd y pontiwyd y personol gyda’r byd cyhoeddus. Y cam naturiol nesaf felly yw mesur i ba raddau y bu i’r cyfeillgarwch rhwng y dynion ledu y tu hwnt iddynt hwy fel unigolion i gynnwys eu teuluoedd. Dyma fwriad y bennod hon.

Dywed yr haneswyr dylanwadol John Tosh a Michael Roper, ‘*masculinity (like femininity) is a* relational *construct, incomprehensible apart from the totality of gender relations; and that is shaped in relation to man’s social power.*’[684] Cyfeiriwyd eisoes yn y gwaith hwn at bwysigrwydd gwragedd Daniel a’i gyfeillion i gynnal eu perthynas. Ond, byddai darlun anghytbwys yn cael ei greu yma pe na byddai’r astudiaeth hon yn cynnwys ystyriaeth ddyfnach o’r berthynas rhwng Daniel, ei gyfeillion, eu gwragedd a’u teuluoedd. Wedi’r cyfan, mae’r traethawd hwn yn cyfrannu at drafodaethau ar wrywdod, ac felly gender, sef y modd y mae cymdeithas yn diffinio’r hyn sydd yn ddisgwyliedig gan y ddau ryw a’r modd y maent yn ymwneud â’i gilydd. Mae’r bennod hon felly yn adeiladu ar yr ystyriaeth o’r berthynas

[684] Roper & Tosh, *Manful Assertions*, t. 2.

rhwng dynion a menywod oherwydd yma, trafodir y modd y bu i rwydweithiau gael eu sefydlu o ganlyniad i'r cyfeillgarwch rhwng Daniel a'i ffrindiau, ac mae'r rhwydweithiau hyn yn darparu gwedd newydd ar y berthynas rhwng y cyfeillion ac aelodau o deuluoedd ei gilydd, gan gynnwys gwragedd a chwiorydd. Ymhellach, mae gwreiddio'r teuloedd, a'r menywod, yn y cyfeillgarwch rhwng y dynion yn atgyfnerthu'r ddadl nad oedd y fath beth â ffin bendant a chadarn rhwng y bydoedd cyhoeddus a phersonol yn ôl eu profiad hwy.

Yn yr un modd, mae'r bennod hon yn cynnig cyfle i ystyried y cysyniad o'r teulu. Dyma syniad sydd yn dechrau ei amlygu ei hun yng ngweithiau haneswyr modern yn ogystal, gyda mwy o ystyriaeth yn cael ei roi i rôl y gŵr o fewn y cartref. Mae *The Secret History of Domesticity* er enghraifft yn astudiaeth hynod fanwl sydd yn cynnig trafodaeth eang ar bob elfen ar y cyhoeddus a phersonol o'r bywyd domestaidd yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed gan gynnwys rôl y cabinet brenhinol.[685] Ymhellach, wrth ffocysu ar astudiaeth achos Edward White Benson, mae John Tosh wedi ystyried rôl y dyn o fewn y cartref a'r gwerth yr oedd ef yn ei roi ar ei sefyllfa yno, ei berthynas gyda'i wraig a chyda'i blant. Dyma ddechrau cynnig mewnweledriad i brofiad dynion o fewn yr uned deuluol felly.[686] Yn wir, yn *A Man's Place* mae Tosh yn ystyried pwysigrwydd rôl dynion yn y cartref, a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ohonynt yn y sffêr hwn. Ystyrir rhan y dyn fel pennaeth y teulu, fel gŵr ac fel tad, ond nid yw Tosh yn cyffredinoli ynghylch profiadau gwrywaidd a theimladau dynion at y cartref gan ystyried bydoedd y tu hwnt i'r teulu yn ogystal megis clybiau a sefydliadau cymdeithasol.[687] Ond, efallai mai *Family Fortunes* yw'r llyfr amlycaf sy'n ystyried y cartref, ac felly'r teulu. Ynddo, mae Leonore Davidoff a Catherine Hall yn canolbwyntio ar gartrefi yn y wlad a'r dref gan ystyried teuluoedd dosbarth canol yn Birmingham ac yn Essex. Maent yn seilio eu gwaith ar doreth o ffynonellau a thystiolaeth gan ystyried rôl

[685] Michael McKeon, *The Secret History of Domesticity: Public, Private, and the Division of Knowledge* (Baltimore, 2007).
[686] John Tosh, 'Domesticity and Manliness in the Victorian Middle Class: The Family of Edward White Benson', yn Roper & Tosh, *Manful Assertions,* tt. 44-73.
[687] Gweler Tosh, *A Man's Place*.

menywod a dynion ochr yn ochr er mwyn creu darlun cyflawn o'r cartref. Cydnabyddir lle aelodau'r teulu yn y byd cyhoeddus ar ffurf profiadau proffesiynol, gyrfaol, hamdden ac elusennol, ond eto i gyd nid oes pontio amlwg rhwng y byd cyhoeddus a'r personol.[688] Yn fwy diweddar, mae Leonore Davidoff wedi ystyried y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd, yn ogystal ag aelodau o'r teulu ehangach gan gynnwys ewyrthod, modrabedd, cefndryd a chyfneitherod.[689] Dyma gyfle felly i adeiladu ar gynnwys y gweithiau defnyddiol hyn wrth fesur y graddau y bu i Daniel a'i gyfeillion hepgor y ffiniau awgrymiedig rhwng y cyhoeddus a'r personol gan rannu profiadau gydag aelodau o deuluoedd ei gilydd.

Yn wir, mae rhai o'r gweithiau a geir ar Daniel, Ellis, Edwards a Lloyd George yn datgelu bod haneswyr yn dechrau ystyried pwysigrwydd eu cyd-destun teuluol er mwyn cyflwyno darlun cyflawn o'r enwogion hyn. Er enghraifft, mae J. Graham Jones wedi cyhoeddi erthyglau ar chwaer a merch Lloyd George a'i berthynas gyda hwy, yn ogystal â'i berthynas gyda'i wraig.[690] Mae e hefyd wedi cyhoeddi atgofion swyddogol Margaret Lloyd George am ei gŵr a'i rôl hithau fel ei wraig, erthygl am Gwilym Lloyd-George a dathliadau priodas Tom Ellis ac Annie Davies.[691] Ymhellach, mae Hazel Walford Davies wedi ysgrifennu am briodas a bywyd personol O.M. Edwards a'i wraig.[692]

Gan gofio cyd-destun yr astudiaeth hon a'r ffocws ar y cyfeillgarwch rhwng Daniel a'i ffrindiau, bwriad y bennod hon yw i adeiladu ar y gweithiau hyn

---

[688] Gweler Davidoff & Hall, *Family Fortunes*.
[689] Gweler Davidoff, *Thicker than Water*.
[690] Gweler J. Graham Jones, ''Auntie Pollie': Mrs Mary Ellen Davies (1861-1909), Sister of Lloyd George', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 65 (2004), tt. 111-131; Idem., 'Mair Eluned Lloyd George', tt. 33-54; Idem., 'Lloyd George and Dame Margaret 1921-41, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 67 (2006), tt. 98-127 & Idem., 'The Golden Wedding of Lloyd George and Dame Margaret 1938', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 68 (2010), tt. 132-148.
[691] Idem., 'The Reminiscences of Dame Margaret Lloyd George' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 34:1 (2006), tt. 100-128; Idem., 'Major Gwilym Lloyd-George, First Viscount Tenby (1894-1967), *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 32:2 (Gaeaf 2001), tt. 177-204 & Idem., 'The Marriage of Thomas Edward Ellis, MP and Annie Jane Davies of Cwrt Mawr, Llangeitho, in 1898', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 16:2 (2011), tt. 190-199.
[692] Hazel Davies, 'Divisions', tt. 76-81 & Hywel Teifi Edwards, 'Arwr Trasig y Ddinas ar Fryn', tt. 22-23.

gan ystyried y rhwydweithiau ehangach a fyddai wedi datblygu rhwng teuluoedd D.R. Daniel a'i ffrindiau. Dyma gyfle i fynd y tu hwnt i ystyriaeth o uned deuluol niwclear gan drafod y modd yr oedd Daniel yn chware rhan ym mywydau teuluol Ellis ac Edwards, yn ogystal â Lloyd George, gan ffurfio rhwydwaith estynedig a phlethu eu profiadau teuluol at ei gilydd. Ceir cyfeiriadau at fath o rwydweithiau teuluol ehangach yn y gweithiau hanesyddol sydd yn bodoli eisoes. Mae'r llyfr *Family Fortunes* yn crybwyll pwysigrwydd rhwydweithiau o fewn teulu ac o fewn cymdogaeth wrth drafod cydweithio rhwng dynion a dibyniaeth ar y bobl o'u hamgylch er mwyn sicrhau cynnydd o fewn byd busnes.[693] Ymhellach, mae Naomi Tadmor yn dadlau:

> *Indeed the study of historical concepts of the family, I argue, must inevitably branch from relationships of blood and marriage to other social ties. This is not because relationships of blood and marriage were extremely significant in early modern society and culture, but also because the boundaries between familial and non-familial ties, as we shall see, were different then and now. Such different boundaries were also manifested in linguistic terms, and the study of keywords such as 'family', 'friend', and 'connexion' will enable us to trace them. We will thus be able to re-locate historical family forms within rich webs of kinship, friendship, patronage, economic ties, neighbourhood ties, and not least, political ties*.[694]

Ystyria Tadmor bwysigrwydd iaith a chysyniadau cymdeithasol wrth ystyried y modd y byddai'r term 'tylwyth' (*'households*') yn cynnwys gweision yn ogystal â'r teulu gwaed yn y ddeuawfed ganrif a bod 'llinach' a *'kin'* yn dermau sydd yn ehangu'r syniadau o deulu y tu hwnt i'r cysyniad o deulu niwclear.[695] Mae Lawrence Stone hefyd yn cydnabod bod ffocws ar y teulu niwclear yn y cyfnod 1600-1800 ond bod lle hefyd i rwydweithiau

---

[693] Gweler Davidoff & Hall, *Family Fortunes*.
[694] Naomi Tadmor, *Family and Friends in Eighteenth-Century England: Household, Kinship, and Patronage* (Caergrawnt, 2001), tt. 10-11.
[695] Gweler Ibid., & Lawrence Stone, *The Family, Sex and Marriage in England 1500-1800* (Llundain, 1977).

effeithiol o'r *kin* gan gysylltu cyfeillion busnes neu alwedigaethol, perthnasau agos a phell, a ffrindiau gan dderbyn bod y defnydd o'r geiriau *kin* a ffrindiau yn dermau eang.[696] Dyma weithiau hynod werthfawr felly fel seiliau i drafodaethau'r bennod hon ynghylch dyfnder a gwerth y rhwydweithiau teuluol ehangach a fodolai rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion.

Mae'r bennod hon yn cyfrannu at drafodaethau haesyddiaethol ar ddwy lefel felly. Yn sicr, ystyrir natur gender yn y cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel a chwiorydd a gwragedd ei ffrindiau. Ond, y prif thema yw'r modd y mae'r cysylltiadau rhwng Daniel a theuluoedd ei gyfeillion yn cefnogi'r syniad o rwydwaith teuluol ehangach ac yn cyfoethogi'r ddadl bod eu profiadau wedi eu plethu wrth gynnwys eu gwragedd a'u teuluoedd yn eu perthynas ar lefel bersonol a chyhoeddus. Yn gyntaf oll, astudir y berthynas a fodolai rhwng Daniel a'i deulu ei hun er mwyn rhoddi'r rhwydweithiau hyn yn eu cyd-destun. Nid bwriad y bennod hon yw dadlau bod perthynas D.R. Daniel gyda theuluoedd ei gyfeillion wedi disodli'r cysur a'r gefnogaeth a gawsai gan ei deulu ei hun.

Pwysleisir tro ar ôl tro yn y gwaith hwn ddyfnder y cwlwm emosiynol a fodolai rhwng D.R. Daniel a Tom Ellis fel cyfeillion cynnar. O ganlyniad, ystyrir beth yn union oedd natur y berthynas rhwng Daniel a rhieni a chwiorydd Tom Ellis ac felly y cyfeillgarwch rhwng aelodau o deulu Daniel a theulu Cynlas. Ymhellach, ystyrir yma y graddau y bu i D.R. Daniel ac O.M. Edwards gynnal perthynas gyda theulu Ellis wrth rannu eu galar yn dilyn ei farwolaeth, ac i ba raddau y bu i'r berthynas barhau heb Ellis fel dolen gyswllt rhyngddynt.

Trafodwyd yn yr ail bennod y modd y daeth cyfeiriadau at deuluoedd yn fwy amlwg yn eu gohebiaeth wrth i'r cyfeillion dyfu'n ddynion a chyrraedd cerrig milltir pwysig yn eu bywydau. Yma, datgelir y modd y bu i'r menywod gael eu cynnwys yn y cyfeillgarwch rhwng Daniel a'i gyfeillion gan gyfoethogi'r berthynas rhyngddynt ac ehangu ar y rhwydweithiau

[696] Gweler Stone, *The Family, Sex and Marriage in England.*

teuluol. Ymhellach, ystyrir graddau'r berthynas emosiynol rhwng D.R. Daniel ac O.M. Edwards a gwraig Tom Ellis yn dilyn ei farwolaeth. Yn wir, ymestynir y rhwydweithiau teuluol hyn ymhellach gan ddadansoddi'r berthynas a ddatblygodd rhwng D.R. Daniel a phlant ei gyfeillion. Mesur dyfnder a gwerth y rhwydweithiau hyn yw'r bwriad – yn enwedig heb bresenoldeb y cyfeillion gwrywaidd e.e. beth oedd dyfnder y cwlwm rhwng Daniel a gweddw a mab Tom Ellis ac effaith y ffaith y bu i Edwards ddod yn fwy ynysig wrth fynd yn hŷn ar berthynas Daniel gyda'i wraig a'i deulu?

Er mwyn cyflwyno dadl gyflawn parthed y rhwydweithiau teuluol hyn, ystyrir y berthynas a feithrinwyd rhwng gwraig Daniel a gwragedd ei gyfeillion. Roedd Sarah Daniel a Margaret Lloyd George wedi byw yn Llundain ar yr un pryd ac felly wedi cael y cyfle i feithrin cyfeillgarwch a rhannu profiadau. Ond, yn dilyn marwolaeth Ellis a chan gofio pellter O.M. Edwards, diddorol yw asesu natur y cysylltiad rhwng Sarah Daniel, Annie Ellis ac Elin Edwards gan gofio'r ymlyniad gwirioneddol rhwng eu gwŷr. Wrth ddatgelu dyfnder y rhywdweithiau teuluol hyn, unwaith yn rhagor mae'r astudiaeth hon yn cynnig beirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân yn y modd na ellid ysgaru'r cylchoedd personol gwahanol y byddai'r dynion hyn wedi eu profi.

**Daniel a'i deulu**

Cyn ystyried y rhwydweithiau ehangach felly, dyma gyfle i fraslunio perthynas Daniel a'i deulu agosaf. Awgrymir bod ganddo berthynas agos gyda'i fam, Jane Daniel, ac mae ei hoffter ohoni'n cael ei adlewyrchu mewn llawysgrif a ysgrifennodd yn amlienllu ei chefndir a'i chymeriad. Gweler balchder yn ei ddisgrifiad ohoni:

> Po bellaf y teithiaf oddiwrth fy mam rwyn tybio y gwelaf yn eglurach nodweddion ei chymeriad a neillduolion ei meddwl ai barn ac er pob gofal i wylio y teimlad ac i ffrwyno'r serch mwy y mae yn mynd yn fy ngolwg.

> Tua blwyddyn neu ychydig yn fwy yn ol daeth Canghellor y Trysorlys (D. Ll George) ar ei hynt gyda'i wreigdda i ymweled a ni yn Four Crosses. Cerddodd im llyfrgell fechan ar ei union yn ol ei arfer a syllodd ar unwaith ar ddarlun o fy mam. 'Eich mam', meddai 'Look Maggie at this portrait, what an intellectual face it is a charming a likness" Meddyliwn i yr un peth wrth gwrs or blaen eithr yr oedd clywed gwr oi farn ai graffder ef yn peri i mi yn fwy i feddwl fod rhywbeth yn y gwynepryd a dystiai i nerth y meddwl fu yn trigo yn y babell yr oedd cysgod o honi wedi aros yn y photograph.[697]

Dyma glymu cyfaill i'r byd teuluol wrth i Lloyd George awgrymu ei fod wedi cwrdd â'r fam a bod y llun yn debyg iawn iddi. Materion dydd i ddydd yn bennaf sydd yn llythyrau D.R. Daniel at ei fam yn trafod gwaith ar y fferm, digwyddiadau lleol, symudiadau dyddiol a hanes teuluol.[698] Ond mae ei ymateb i'w marwolaeth yn 1903 yn ategu'r cwlwm emosiynol a deimlai â hi. Yn ei ddyddiadur, ysgrifennodd, *'I could not help weeping'* a *'I completely broke down.'* Credai ei fod wedi cael mam nobl a doeth a wnaeth feithrin ynddo *'love of reason and respect for truth.'*[699] Ymhellach, roedd gan Daniel chwaer o'r enw Catherine a oedd ddwy flynedd yn hŷn nag ef a dau hanner brawd o briodas gyntaf ei fam â Meredith Evans a oedd yn byw yn Tynybryn. Ganwyd pedwar o blant iddi o'r briodas hon, ond bu farw dwy ferch yn ifanc. Yn 21 oed cafodd yr hynaf, Evan, y ddarfodedigaeth a bu farw yntau o fewn blwyddyn yn Ionawr 1869, a Daniel oddeutu 10 oed.[700] Robert oedd enw'r hanner brawd arall ac erbyn marwolaeth tad Daniel yn 1871 yr oedd 'wedi troi allan ir byd masnachol iw ddysgu yn siopwr ryw flwyddyn neu ddwy yn gynt.'[701]

---

697 LlGC Daniel 559, 'Fy Mam', tt. 4-5.
698 Gweler LlGC Daniel 2421, Casgliad llythyrau D.R. Daniel a Sarah Daniel at Jane Daniel a'r llythyrau Jane Daniel at D.R. Daniel yn LlGC 2416, Casgliad llythyrau aelodau o'i deulu at D.R. Daniel.
699 LlGC Daniel 526, Dyddiadur D.R. Daniel 1903, 1 Mawrth 1903.
700 Am ddisgrifiad o'r hanner brawd hynaf a marwolaeth y chwiorydd, gweler LlGC Daniel 559, 'Fy Mam', tt. 52-54.
701 Ibid., t. 64.

Mae cynnwys yr ohebiaeth at Daniel oddi wrth ei chwaer unwaith eto yn awgrymu bod cwlwm rhyngddynt, er nid oes tystiolaeth ddigonol i geisio mesur y rhwym hwn. Ceir awgrym o ofal ohoni ar ran Daniel oherwydd ar ddau achlysur, a hithau bellach yn briod, ysgrifennodd at ei brawd yn diolch am gael benthyg arian.[702] Ymhellach, tra roedd hi yn ymweld â Chefnddwysarn yn 1910 yn dilyn ei symud i America, disgrifa gwrdd â Peredur, mab Daniel, yng nghartref eu hanner brawd gyda brwdfrydedd gan ddweud, 'Fe ddigwyddodd yn lwcus i mi gael gweled Peredur. Y mae yn fachgen neis iawn. Ac y mae yn hawdd deall ei fod yn meddwl yn fawr oi fam fel pob bachgen da.'[703] Roedd Sarah Daniel yn Llundain yn dilyn llawdriniaeth sy'n esbonio'r cyfeiriad at gariad Peredur at ei fam. Eto i gyd, mae'r llythyr yn awgrymu iddi ddychwelyd i America heb weld ei brawd sydd, o bosibl, yn fodd o gwestiynu dyfnder y cysylltiad rhyngddynt. Priododd Catherine a'r Parch M.O. Evans a datblygodd cyfeillgarwch rhwng Daniel a'i frawd yng nghyfraith gydag Evans yn cyfeirio ato fel brawd. Ar enedigaeth Peredur ysgrifennodd at Daniel i gynnig ei longyfarchiadau mwyaf calonnog. [704] Ar achlysur arall, gwahoddodd Daniel ar drip i'r Alban gydag ef ac mae ei gyffro yn amlwg wrth glywed bod Daniel a'i deulu yn America yn 1919, ddwy flynedd ar ôl marwolaeth Catherine, gan ddweud, 'Llawenydd mawr i mi oedd cael gair oddiwrthych a deall eich bod yn y wlad hon. Byddwn yn disgwyl yn aiddgar am danoch yr wythnos nesaf.'[705] Gellir awgrymu felly bod math o ymlyniad wedi bodoli rhwng Daniel a'i chwaer a'i frawd yng nghyfraith.

Ond, yng nghyd-destun yr astudiaeth hon ar gyfeillgarwch Daniel gyda'i ffrindiau gwrywaidd, perthynas Daniel gyda'i hanner brawd yw'r ffocws pennaf yma. Er y gellir ystyried bod rhwym dwfn rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards, mae'r ohebiaeth rhyngddynt yn arddangos cwlwm agos rhwng Daniel a Robert Evans (1851-1926). Nid oedd Ellis nac Edwards yn llenwi bwlch yn nheulu Daniel, ond yn hytrach yn cyfoethogi ei

[702] LlGC Daniel 2416, Catherine Daniel at D.R. Daniel, 10 Tachwedd 1901 a 3 Ionawr 1903.
[703] LlGC Daniel 2416, Catherine Daniel at D.R. Daniel, 1 Medi 1910.
[704] LlGC Daniel 2416, M.O. Evans at D.R. Daniel, 2 Mai 1889.
[705] LlGC 2416, M.O. Evans at D.R. Daniel, 10 Gorffennaf 1889 a 9 Mai 1919.

rwydwaith teuluol. Roedd Robert Evans yn aelod o Gyngor Sir Meirion, Pwyllgor yr Heddlu, Pwyllgor Addysg, yn Lywodrathwr Ysgolion Sir ac Ysgolion Elfennol Penllyn ac yn 1914 daeth yn ynad. Roedd yn brisiwr tir a ffermydd ac yn flaenor yng Nghapel Cefnddwysarn.[706] Gwelir felly wasanaeth cyhoeddus, ar lefel mwy lleol, ganddo - yn yr un modd ag a welwyd yng ngyrfaoedd D.R. Daniel a'i gyfeillion. Roedd yn byw yn Crynierth Mawr, Llandderfel gyda'i wraig a'i ferch, Edith, a daw i'r amlwg bod perthynas agos wedi ei sefydlu rhwng y brodyr, a'r teuloedd. Ar ôl i D.R. Daniel gyrraedd America yn 1885, ysgrifennodd Robert at ei frawd iau yn ei annog i wneud y mwyaf o'r cyfle, 'yr wyf yn teimlo yn falch dy fod yn cael y fath chance i weled y wlad fawr yna. nid oedd dim possibl i thi gael gwell chance a bydd yn fantais fawr iawn i ti pa un bynag ai aros yna y byddi ai dyfod yn ol.' Ei gyngor oedd y byddai Daniel yn cynefino gyda bywyd teithiwr er ei fod yn teimlo'n chwithig ar y pryd.[707] Ymellach, roedd Robert Evans yn awyddus i gael gweld ei frawd ar ôl iddo ddychwelyd i Gymru a symud o ardal Cefnddwysarn. Yn 1903, ysgrifennodd 'da oedd genym glywed yn llythur Mrs Daniel ei bod yn disgwyl gallu dyfod ffordd yma yn lle fuan brysia dithe byddwn yn falch iawn o dy weled.'[708] Ar achlysur arall, ysgrifennodd ei chwaer yng nghyfraith at wraig Daniel, 'cofiwch ddyfod reit fuan mae Robert yn peri i chwi frysio dyfod.'[709]

Ond, pan wynebodd Sarah Daniel salwch difrifol y gwelwyd cefnogaeth Robert Evans i'w frawd ar ei orau. Ysgrifennodd ato gan ddweud:

> Yr wyf yn cydymdeimlo y llwyr a thi yn dy brofedigaeth Yr oeddym wedi ei taraw a syndod pan ddarllenasom dy llythur. a Mrs Daniel more gefnog pan oeddwn yna gobeithio y daw trwy yr operation yn iawn ac y caiff wellhad llwyr a buan. anfon air mor ffynych ag y

[706] Dwysan Rowlands (gol.), *Ardal y Pethe: Hanes y Sarnau mewn Darluniau* (Llanrwst, 1994), t. 79.
[707] LlGC Daniel 2416, Robert Evans at D.R. Daniel, 5 Awst 1885.
[708] LlGC Daniel 2416, Robert Evans at D.R. Daniel, 24 Tachwedd 1903.
[709] LlGC Daniel 2420, Jane Evans at Sarah Daniel, 11 Mai 1906.

> gelli i ddweud sut y bydd yn dyfod yn mlaen... Disgwyliwn weled Peredur yforu…[710]

Ysgrifennodd Jane Evans, gwraig Robert, at Daniel hefyd:

> …mae fy meddwl gyda chwi o hyd ar bron ni feddyliais erioed gymaint am neb y sal nag wyf wedi ei wneud ers wythnos am Mrs Daniel druan bach mae yn ofid calon drosti bychan y gwyddom beth sydd o'n blaen… gobeithiaf eich bod chwi yn gwneud eich goreu i gadw eich iechyd i fynu mae yn hawdd iawn ymollwng mewn amser pryderus fel y mae hi arnoch chwi…[711]

Dyma arddangos gofid gwirioneddol Robert Evans, a'i wraig, am ei chwaer yn nghyfraith a'i frawd iau. Ymhellach, gwelir ei ofal ef a'i wraig dros eu nai, Peredur, gan ei fod yntau wedi mynd i gartref ei ewythr sawl gwaith am gysur gan na fedrai ddychwelyd i Lundain at ei rieni a'i fam mor wael.[712] Yn ogystal, datgela'r ohebiaeth bod Sarah Daniel wedi treulio llawer o amser yn aros yng Nghrynierth, cartref Robert, wrth adfer ei hiechyd.[713] Yn wir, ysgrifennodd Jane Evans ati gan ddweud y byddai'n gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau y byddai Sarah Daniel yn gysurus.[714] Gan gofio effaith marwolaeth Ellis ac Edwards ar Daniel, diddorol yw ystyried ei ymateb i farwolaeth ei frawd ar 29 Mai 1926. Cofnododd yn ei ddyddiadur ei fod wedi deall gan Peredur bod Robert yn wael ac yn dechrau darfod – rhywbeth yr oedd Daniel wedi ei ofni. Wrth ddisgrifio derbyn yr alwad ffôn i'w hysbysu o farwolaeth ei frawd, nododd yn syml, '*The Best of brothers.'* Ni cheir disgrifiadau hir o hiraeth a cholled, er y mae'n nodi '*Thinking much about my loss and of them at Crynierth.'* Roedd Daniel ei hun yn wael ei iechyd[715] erbyn hyn ac felly nid oedd wedi medru ymweld â'i frawd na

[710] LlGC Daniel 2416, Robert Evans at D.R. Daniel, 27 Awst 1910.
[711] LlGC Daniel 2416, Jane Evans at D.R. Daniel, 2 Medi 1910.
[712] Ibid.
[713] Gweler LlGC 2418, Casgliad llythyrau Sarah Daniel at D.R. Daniel.
[714] LlGC Daniel 2420, Jane Evans at Sarah Daniel, 28 Medi 1910.
[715] Noda Daniel yng nghefn ei ddyddiadur ei fod wedi cael sawl llawdriniaeth yn ystod 1926 ac wedi mynd o dan anesthetig bedair neu bump o weithiau. LlGC Daniel 549, Dyddiadur D.R. Daniel 1926, 'Memorandum'.

mynychu ei angladd. Nid yw'n syndod felly nad yw wedi cynnig trafodaeth hynod fanwl am y digwyddiad. Er hyn, fel yn achos marwolaeth Tom Ellis, mae'n cofnodi manylion penodol iawn yn ei ddyddiadur sy'n dangos pwysigrwydd ac arwyddocâd y digwyddiad iddo. Nododd mai am 7.30pm bu farw ei frawd ac ar dderbyn hanes yr angladd gan Peredur, cofnododd ei fod yn seremoni brydferth gyda nifer o bobl (2/3 ohonynt) tu allan i'r capel a 64 modur yn teithio yno.[716]

Mae llythyrau Robert Evans at D.R. Daniel, ac ymateb Daniel i farwolaeth ei frawd, felly yn cadarnhau bod perthynas agos wedi bodoli rhyngddynt fel brodyr. Yn wir, gan ystyried y trafodaethau am ddiffiniadau ehangach o deulu, cyfoethogi'r astudiaeth o'r cyfeillion y mae'r drafodaeth hon o'r berthynas rhwng Daniel a'i deulu. Roedd yn mwynhau cyfeillgarwch agos gyda'i frawd yn ogystal â'i ffrindiau gwrywaidd. Nid oedd y berthynas rhwng Daniel a'i gyfeillion yn disodli ei berthynas gyda'i frawd sydd yn cadarnhau'r syniad o uned deuluol ehangach.

**Teulu Cynlas**

Mae T.I. Ellis wedi ceisio dadansoddi ychydig ar bethynas ei dad a D.R. Daniel gan nodi ei fod yn debyg i aelod o deulu Ellis. Teimlai eu bod fel dau frawd. Yn wir, dywed T.I. Ellis bod y gyfathrach gyda Daniel yn fwy clos na gyda rhieni Ellis gan yn anaml iawn y byddai ei dad yn ysgrifennu ato.[717] Nid yw hyn yn syndod gan i'r ddau gael eu geni o fewn misoedd i'w gilydd a'u magu ar ffermydd agosaf i'w gilydd. Ond, ni ddylid chwaith anghofio barn W.J. Gruffydd am berthynas O.M. Edwards gyda'r ddau gan y cred y bu i'r ddau ŵr hyn fynd yn nes at 'gysegr santeiddiolaf' Edwards na neb arall.[718] Dyma gyfle i ystyried perthynas Daniel a'i gymdogion yng Nghynlas, yn ogystal â lle O.M. Edwards yn rhwydwaith teuluol ehangach.

---

716 Am hanes marwolaeth ac angladd Robert Evans, gweler LlGC Daniel 549, Dyddiadur D.R. Daniel 1926, rhwng 29 Mai 1926 a 2 Gorffennaf 1926.
717 T.I. Ellis, *Thomas Edward Ellis: Cofiant I*, t. 146.
718 Gruffydd, *Owen Morgan Edwards: Cofiant*, t. 87.

Yn sicr, mae'r ohebiaeth rhwng Daniel ac Ellis yn arddangos perthynas mwy na rhwydwaith. Derbyniodd teulu Cynlas Daniel yn aelod o'u huned deuluol a'u byd hwy, yn yr un modd ag yr oedd mam D.R. Daniel yn rhan o brofiad Tom Ellis o ddydd i ddydd. Datgelir hyn, er enghraifft, yn y modd y mae cyfnodau o salwch o fewn y teuluoedd yn thema sydd yn codi yn eu llythyrau. Tra yn y brifysgol yn Aberystwyth, a mam Daniel yn sâl, ysgrifennodd Ellis ato gan ddweud *'I remain in giving my kindest regards to you all. I hope your mother is getting better.'*[719] Ar achlysuron eraill, ysgrifennodd Ellis at D.R. Daniel, '*I am sorry to tell you that the latest news from Brynbwlan is that my uncle was rather worse this afternoon than this morning'* ac *'I am sorry to say father has been very ill – but is now, I think, much better.'*[720] Mae'r ffaith bod Ellis yn credu y byddai salwch ei ewythr a'i dad yn peri gofid i Daniel yn atgyfnerthu'r syniad o fydoedd personol wedi eu plethu. Yn wir, ar ôl claddu ei ewythr, ysgrifennodd Ellis am ei dristwch ar ei golli, ond hefyd y modd y bu ei lyfrgell yn olau arweiniol pan yr oedd y ddau ohonynt yn llunio eu bywydau.[721] Yn yr un modd, yn dilyn colli ei chwaer, Kate, yn 1888 ac er mwyn cydymdeimlo gyda Daniel ar golli ei dad yng nghyfraith, ysgrifennodd Tom Ellis:

> *Your kind letter after our great grief at Cynlas consoled us much. But grief is deeper than any consolation, and I can only offer to the sorrowing family there the deepest and heartfely sympathy of one who always greatly admired Mr. Jones and who himself is fresh from a great sorrow.*[722]

Rhanent yr un cefndir ac felly roedd aelodau o'u teuluoedd wedi dylanwadu ar y ddau ohonynt.

Gwelir effaith digwyddiadau teuluol Tom Ellis ar gynnwys llythyrau O.M. Edwards yn ogystal. Pan fu farw Kate, chwaer Tom Ellis, yn 1888

---

[719] LlGC Daniel 182, Tom Ellis at D.R. Daniel, Chwefror 1874.
[720] LlGC Daniel 197, Tom Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad (1876) & LlGC Daniel 461, Tom Ellis at D.R. Daniel, dydd Sadwrn.
[721] LlGC Daniel 336a, Tom Ellis at D.R. Daniel, 5 Tachwedd 1887.
[722] LlGC Daniel 347, Tom Ellis at D.R. Daniel, 12 Mehefin 1888.

trafodwyd y mater ganddo ef a'i ddarpar wraig. Disgrifia Elin y modd yr oedd ei chwaer hithau wedi bod yn siarad gyda Kate a Mary Ellen (chwaer arall i Tom Ellis) mewn ffair gan eu gwahodd atynt i fferm Y Prys. Y noson wedyn, roedd Kate wedi marw.[723] Yn yr un modd, mewn llythyr at Daniel, ysgrifennodd Edwards yn syml, 'Onid ydyw'n rhyfedd meddwl fod Kate Cynlas yn ei bedd?'[724] Dyma awgrym felly o rwydwaith teulol - byddai digwyddiad mor bwysig a cholli chwaer yn ifanc ar ran Ellis, wedi cael effaith ar D.R. Daniel ac O.M. Edwards sydd yn cael ei arddangos yng nghynnwys eu gohebiaeth.

Gwelwyd eisoes yn yr ail bennod bod Ellis wedi hiraethu am Daniel tra roedd yntau yn America yn 1885 yn teithio ac yn gweithio i'r *Drych*. Ond, wrth geisio penderfynu a ddylai dderbyn y gwahoddiad i fynd yno, anogodd Tom Ellis Daniel i ofyn cyngor ei dad ef. Dywed Ellis bod ei dad, Thomas Ellis, wedi dod i'r casgliad mai newyddiaduraeth oedd dyfodol Daniel a'i fod hefyd yn cydymdeimlo gydag unigrwydd ei fywyd. Gellir awgrymu bod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod ffrindiau Daniel, megis Ellis ac Edwards, bellach wedi mynd i'r brifysgol a bod yntau wedi parhau yng Nghefnddwysarn. *'Have a chat with him at your leisure'* oedd neges Ellis.[725] Dyma sefyllfa arbennig gan y bu farw tad D.R. Daniel yn 1871 ac felly mae Tom Ellis yn ei annog i drafod penderfyniad arwyddocaol iawn yn ei fywyd cyhoeddus gyda'i dad yntau. Ond, yn bwysicach, mae ymateb tad Tom Ellis yn arddangos ei fod wedi deall a dadansoddi sefyllfa Daniel yn llwyr ac mae hynny'n awgrymu'r agosatrwydd gwirioneddol oedd yn bodoli rhwng Daniel a theulu Cynlas.

Mae modd cyfoethogi'r drafodaeth o berthynas Daniel a theulu Cynlas ymhellach gan ystyried y cyfeillgarwch rhwng ei hanner brawd, Robert Evans a Tom Ellis a'i deulu. Nid oes gohebiaeth wedi goroesi rhyngddynt, ond eto i gyd mae'r dystiolaeth yn awgrymu cwlwm digon cryf. Ar farwolaeth Robert yn 1926 fe'i ddisgrifiwyd fel, '*a staunch Liberal and an*

[723] Elin Edwards at O.M. Edwards, 22 Mai 1888 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*, tt. 62-63.
[724]LlGC Daniel 997, O.M. Edwards at D.R. Daniel, 6 Mehefin 1888.
[725] LlGC Daniel 298, Tom Ellis at D.R. Daniel, (21 Ebrill 1885).

*intimate friend of the late Mr. Tom Ellis.*'[726] Ond, marwolaeth Tom Ellis sydd yn arddangos y lefel o agosatrwydd rhwng Robert Evans a theulu Cynlas orau. Ysgrifennodd Robert at ei frawd ar 6 Ebrill 1899, diwrnod ar ôl marwolaeth Ellis. Yr oedd Daniel wedi anfon telegram at ei frawd yn cynnig cymorth i deulu Cynlas:

> Derbyniais dy delegram yr oeddwn yn ynghynlas a danghosais ef iddynt. nid oeddynt yn gwybod am ddim neullduol y gallet fod o help iddynt. Ond credaf pe bait yn dyfod yma ddydd Sadwrn y buasai yn dda ganddynt gael dy gwmni y Sul, Y maent y brofedigaethus iawn Y wraig yn ei gwely – ond y mae Thos Ellis yn meddianu ei hun yn dda…
>
> Syn yw meddwl na chawn weld Tom mwy ar dir y byw tarawodd bawb a braw gan mor ddisymwyth y daeth y newydd... Cei chwaneg or manylion pan ddowch yma. os yn bossibl bydd yn dda genym i Sarah dyfod gyda thi disgwyliaf air oddi wrthyt.[727]

Ar achlysur arall, misoedd ar ôl angladd Ellis, mae Daniel yn disgrifio ymweld â Chynlas a'i frawd yn bresennol yno. Nododd ei frawd fod ei ymweliad wedi dod â thristwch i'r teulu, fel pe bai ef yn codi hiraeth arnynt am eu mab.[728] Mae presenoldeb Robert yng Nghynlas ar y ddau achlysur hwn ynddo'i hun yn awgrymu ei fod wedi rhannu rhywfaint o brofiad a galar teulu Tom Ellis. Yn wir, nid yn unig y ceisiodd Robert gynnig cysur i deulu Cynlas, fel cyd-flaenor i Tom Ellis yng Nghapel Cefnddwysarn, cyflwynodd un o'r teyrngedau iddo ar ddiwrnod ei angladd. Canolbwyntiodd ar gryfder ei gred Gristnogol a'i ddawn fel gweddiwr, fel ag y trafodir ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon. Ond y modd y mae diwedd ei deyrnged wedi cael ei gofnodi sydd yn drawiadol. Clodd gyda'r geiriau:

[726] 'Merioneth Alderman's Death', *Daily Post* (31 Mai 1926) wedi ei ludo yn LlGC Daniel 559, 'Fy Mam', t. 105.
[727] LlGC Daniel 2416, Robert Evans at D.R. Daniel, 6 Ebrill 1889.
[728] LlGC Ellis 3011, D.R. Daniel at Annie Ellis, 9 Tachwedd 1899.

> Y darluniad goreu i mi o Mr. Ellis ydyw yr adnod hono: ‘‘Y ddoethineb oddiuchod yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychlawn, boneddigaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ______”, yna torodd y siaradwr i lawr gan fethu myned ymhellach.[729]

Dyma adlais o’r ddadl yn y bennod flaenorol bod teimladau ac emosiynau personol D.R. Daniel ac O.M. Edwards wedi eu rhannu mewn modd cyhoeddus iawn yn y wasg. Yn y cyd-destun hwn, mae’r ffaith i frawd D.R. Daniel dorri i lawr yn gyhoeddus yn angladd Tom Ellis yn dangos dyfnder ei alar. Er bod Robert rhyw wyth mlynedd yn hŷn nag Ellis, roedd wedi ei adnabod ar hyd ei oes ac felly roedd, ynghyd â theulu Cynlas, yn rhan o’r uned deuluol ehangach. Yn wir, ceir awgrym o gysylltiad rhwng Robert Evans ac O.M. Edwards hefyd. Yn dilyn marwolaeth ei wraig yn 1919, ysgifennodd gwraig Robert, Jane, at Sarah Daniel gan ddweud nad oedd yn credu bod O.M. Edwards wedi gadael ei dŷ gan fod Robert wedi ei weld ar y tren ac roedd yn ‘cwyno fod yn gas iawn ganddo fyned adre.’[730] Nid yw hwn yn awgrymu ymlyniad mor emosiynol â pherthynas Robert Evans a Tom Ellis, ond yn sicr roedd cysylltiad rhyngddo ef ag Edwards hefyd. Gan gofio’r awgrym nad oedd gan Edwards ffrindiau agos ar ddiwedd ei oes, mae’n trafod ei deimladau’n ddigon agored gyda brawd D.R. Daniel.

Gan ystyried pa mor agos oedd cyfeillgarwch Daniel ac Ellis a’r drafodaeth uchod am ofal tad Tom Ellllis dros Daniel, a’r cysylltiad rhwng Robert Evans a theulu Ellis, mae’n naturiol bod perthynas wedi datblygu rhwng Daniel a chwiorydd Tom Ellis. Byddai Daniel yn llythyru gydag Winifred Ellis, y chwaer ieuengaf, am bethau digon cyffredin. Yn ystod ei chyfnod yn y coleg yn Aberystwyth, byddent yn gohebu am ddosbarthiadau coginio yn sir Gaerfyrddin a’r coleg a’i chwrs yno.[731] Yma, fel mewn sawl agwedd arall yn y traethawd hwn, ceir trafodaethau bychain am gynnwys dyddiol eu bywydau sydd yn awgrymu’r agosatrwydd oedd yn bodoli. Teimlai Winifred ei fod yn ddigon naturiol i gyfathrebu gyda D.R. Daniel. Mae’r

---

[729] R. Evans, *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion*, tt. 96-97.
[730] LlGC Daniel 2420, Jane Evans at Sarah Daniel, 22 Gorffennaf 1919.
[731] LlGC Daniel 1056, Winifred Ellis at D.R. Daniel, 9 Tachwedd 1893 & LlGC Daniel 1057, Winifred Ellis at D.R. Daniel, 22 Tachwedd 1893.

llythyrau ganddi hefyd yn cadarnhau bod gan Daniel berthynas agos gyda thad Ellis yn ogystal wrth i Winifred ysgrifennu ar ei ran yn diolch yn fawr iddo am anfon mêl at yr hen ŵr a'i gofio 'mewn ffordd mor 'felus.' I gadarnhau'r rhwym teuluol hwn, ychwanegodd Tom Ellis nodyn at y llythyr hwn gan ganmol y mêl, *'Father is very proud of it, and very thankful to y wraig dda and yourself.'*[732] Mae'r berthynas agos gyda'r tad yn parhau gyda Mary Ellen, chwaer arall i Ellis, yn ysgrifennu i ddiolch i Daniel ar ei ran am wahoddiad ato i'r Sasiwn[733] ond ei fod yn ei ffeindio'n anodd i adael cartref ar y pryd achos y cynhaeaf.[734]

Yn naturiol felly, cynigodd Daniel gysur i chwiorydd Ellis, ac i Winifred yn benodol, yn dilyn ei farwolaeth. Yn wir, yn yr orymdaith angladdol, mae Daniel yn cael ei enwi yn teithio mewn car gydag Winifred, yn dilyn gweddw Tom Ellis, ei dad a'i deulu agosaf ac ar y blaen i fam a theulu agosaf Annie Ellis.[735] Ymhellach, trodd Winifred Ellis ato gan ddisgrifio ei thorcalon a'i hiraeth am ei brawd:

> Wel! mae yn mwy anhawdd sylweddoli ddydd ar ol dydd fod Tom wedi mynd iw hir gartref. O mae yn galed darllen am hyn ar llall yn digwydd yn Nhy y Cyffredin, a meddwl fod ei lais yntau wedi distewi am byth. Weithiau mae yr hiraeth am dano, am weld – pe ddim ond am foment – ei wyneb anwyl bron am gorchfygu. Er gwybod ei fod yn berfaith hapus mae yn anhawdd peidio dymuno iddo fod yma, nis gallaf feddwl o gwbl am dano wedi marw. Os cawn fyw daw llawer Sulgwyn, Nadolig a Phasg heibio, ond ow! Ni ddaw Tom byth i Gynlas mwy. Ag eto ryw fodd teimlwyf fel pe bai yn ein mysg…

---

[732] LlGC Daniel 1055, Winifred Ellis at D.R. Daniel, 20 Hydref 1892.
[733] Llys eglwysig rhanbarthol y Methodistaid Calfinaidd yw'r sasiwn.
[734] LLGC Daniel 1053, Mary Ellen Ellis at D.R. Daniel, 20 Awst (1894).
[735] R. Evans, 'Yr Orymdaith i'r Gladdfa' yn ei, *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion*, t. 105.

> Mae llawer iw ddweud ond nid yw yr un blâs ar bapur. Ond os gallwch spario ychydig bach o amser i anfon nodyn attaf yrwan ac yn y man, bydd yn llawenydd mawr genyf ei dderbyn.[736]

Roedd Winifred Ellis nid yn unig yn rhannu ei galar gyda Daniel, roedd yn hynod eiddgar i barhau mewn cysylltiad gyda chyfaill agosaf ei brawd fel modd o gael cysur ar ôl ei golli. Ceir adlais i eiriau D.R. Daniel ac O.M. Edwards ar farwolaeth Tom Ellis yn y dyfyniad uchod – y sioc, yr hiraeth a'r galar – a thrafododd Winifred Ellis ei theimladau'n gwbl agored gyda Daniel. Yn wir, er na cheir tystiolaeth o lythyru cyson rhyngddynt, ysgrifennodd lythyr teimladwy at O.M. Edwards yn ogystal sydd yn cefnogi'r syniad bod rhannu ei galar yn agored gyda chyfeillion gydol oes ei brawd yn dod a chysur i Winfred Ellis. Ar ôl cydymdeimlo gydag Edwards ar ei golled ef, disgrifiodd ei hiraeth ei hun:

> …daeth y newydd torcalonus arnom heb eiliad o rybudd, ac O! y fath fôr o nerth oedd yn angenrheidiol i'n galluogi ni i ymgynal tan y cwmwl du. Fodd bynag trwy gynhaliaeth dirion ein Tad nefol daethom trwy yr ystorm, ac nid oes dim yn ein llethu yrwan ond yr hiraeth dwys am ein hanwyl Tom.[737]

Dyma arddangos nad oedd bwlch pendant rhwng galar teulu Ellis a phrofiadau ei gyfeillion ysgol. Rhannodd Winifred Ellis ei theimladau hi a'i theulu mewn modd cwbl ddidwyll â D.R. Daniel ac O.M. Edwards. Mae'r rhannu hiraeth ar ran Daniel, Edwards, Robert Evans a theulu Cynlas yn awgrymu math o undod yn eu galar ac awgrym bod uned deuluol ehangach, yn hytrach na rhwydwaith personol, wedi bodoli yn ystod y cyfnod hwn. Dyma gyfoethogi'n dealltwriaeth o ddyfnder yr ymlyniad rhwng y tri chyfaill ysgol ymhellach gan fod galar a hiraeth Daniel ac Edwards wedi eu plethu â phrofiadau teulu Cynlas. Atgyfnerthir y ddadl hon yng nghynnwys

[736] LlGC Daniel 1058, Winifred Ellis at D.R. Daniel, 12 Mai 1899.
[737] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/77, Winifred Ellis at O.M. Edwards, 25 Ebrill 1899.

llythyr O.M. Edwards at dad Ellis wrth iddo geisio ei gysuro gan rannu ei deimladau a'i brofiad fel tad yn colli plentyn ag ef:

> Bob dydd yr wyf wedi meddwl ysgrifennu; ac yn methu yn lân. Y mae hiraeth yn gwasgu'n drwm arnaf finnau, ac yr wyf yn gweled y golled yn fwy bob dydd…
>
> Gwn drwy brofiad beth yw ing hiraeth. Daw'n well arnoch. Cyn hir medrwch feddwl am dano heb ddim poen. Ond beth yr wyf yn son; collasoch Kate o'r blaen, a gwyddoch…
>
> Nodded y nef fyddo drostoch eich dau,- yr wyf yn meddwl am danoch bob dydd.[738]

Gellir awgrymu bod geiriau Edwards wedi dod â pheth cysur i deulu Cynlas gan i Winifred Ellis ysgrifennu ato yn diolch am ei lythyr 'tyner a theimladwy'.[739]

Mae'n amlwg felly bod rhwym yn bodoli rhwng Daniel, ac Edwards i raddau, a theulu Cynlas, ond i ba raddau y parhaodd yr ymlyniad rhyngddynt a Daniel yn dilyn marwolaeth Tom Ellis? Yn sicr, roedd ei berthynas gyda hwy wedi ei sefydlu o ganlyniad i'w gyfeillgarwch gydag Ellis, ond yr oedd wedi gwreiddio cymaint o fewn eu byd teuluol fel y bu i'r cyfeillgarwch barhau wedi marwolaeth Tom Ellis yn 1899. Yn wir, wedi marwolaeth Ellis, aeth y tad i aros gyda Daniel ac ysgrifennodd Winifred ato, *'He is loud in his praises of his visit to you, he seems to have enjoyed it all thoroughly, it suited his taste to a nicety – Sassiwn, & the company of such old friends. We wish to thank you both <u>very much</u> for your great kindness to him.'*[740] Diolchai hefyd i Daniel am baratoi cyfarwyddiadau i chwaer arall i Ellis, Jennie, cyn iddi fynd i'r Swistir gan y gwyddai Winifred

---

738 LlGC Ellis 4884, O.M. Edwards at Thomas Ellis, Cynlas, 15 Ebrill 1899.
739 LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/77, Winifred Ellis at O.M. Edwards, 25 Ebrill 1899.
740 LlGC Daniel 1059, Winifred Ellis at D.R. Daniel, 30 Awst 1900.

byddai Tom hefyd wedi ysgrifennu tudalennau o gyfarwyddiadau.[741] Ymhellach, ysgrifennodd ar ran y teulu ar faterion busnes. Ym Mai 1904, ysgrifennodd Jennie ato yn diolch iddo am geisio trefnu cael lluniau yn ôl gan y *Welsh Leader* a gofynnai iddo ysgrifennu ar eu rhan at Tudwal Davies i gael arian oedd yn ddyledus iddynt. Ymhellach, dymunai gael ei weld i orffen darn o waith roeddent yn cwblhau ar y cyd gan ddweud bod y teulu'n gadael Cynlas ac yn symud i fferm lawer llai yn Bryn-y-groes.[742]

Mae'n amlwg y gwnaed ymdrech ar ran teulu Cynlas i gynnal y berthynas gyda Daniel ar ôl marwolaeth Tom Ellis. Ysgrifennodd Jennie ato ar un achlysur i'w wahodd i dreulio'r Sul gyda nhw gan fod ei chwaer yn aros yno gyda'i merch. Disgrifia'r ffaith bod ei rhieni yn dathlu pen-blwydd priodas aur ond eu bod wedi methu â dathlu oherwydd salwch y fam.[743] Yn wir, yn 1903, nododd Daniel yn ei ddyddiadur y bu iddo gynnig y llwncdestun ym mhriodas Winifred Ellis sydd eto yn dangos ei le o fewn yr uned deuluol ehangach.[744] Er hyn, efallai yn anorfod, ni pharhaodd yr agosatrwydd rhwng Daniel a theulu Cynlas i'r un graddau. Erbyn 1912, roedd mam Daniel wedi marw ac yntau'n byw yn Llundain ac nid oedd rhieni Ellis wedi ei weld ers saith mlynedd. Eto, mae hoffter yng ngeiriau Winifred wrth iddi alw Daniel wrth ei enw cyntaf gan ei ystyried yn gyfaill iddi, 'Byddaf fi yn ei gymryd yn garedig iawn ar fy ffrindiau wneyd hyny a rywfodd mae yn gwneyd i mi deimlo llawer ieuengach ac nid peth bach yw hyny!' Diolchai am ei lythyr caredig at ei rhieni, 'a hwythau bob amser mor 'fond' och cwmpeini.' Noda'r llythyr eu bod yn awyddus iawn i'w weld.[745] Yn sicr felly, roedd yr hoffter o Daniel wedi parhau, a gellid awgrymu ei fod yn parhau yn aelod o uned ehangach teulu Cynlas. Er hyn, rhaid derbyn bod y cwlwm cyfeillgarwch rhwng Daniel a theulu Cynlas yn llawer mwy bregus na'r rhwym oedd rhyngddo ef a'i gyfaill ers yn blentyn gan nad oedd yr un bwriad yno i ymweld â'r fferm heb bresenoldeb Tom Ellis yno. Daw'r

[741] Ibid.
[742] LlGC Daniel 1049, Jennie Ellis at D.R. Daniel, 16 Mai 1904.
[743] LlGC Daniel 1051, Jennie Ellis at D.R. Daniel, 15 Mawrth 1905.
[744] LlGC Daniel 526, Dyddiadur D.R. Daniel 1903, 22 Ebrill 1903.
[745] LlGC Daniel 1052, Winifred Ellis at D.R. Daniel, 12 Ionawr 1912.

ymlyniad parhaol hyn i'r amlwg gyda'r syniad o golled â deimlodd Daniel ar farwolaeth mam Tom Ellis yn 1917, yn 90 oed. Ysgrifennodd:

> *A woman of wonderful power and resource. Here was the true source of Tom's aspiring energy. She was 'uneducated' as they say, but widely read in the literature of methodism. Had a marvellous memory which she retained to the last in its pristine strength. A pang of longing for old times came over me… Tom thought much of his mother!*
>
> *I do regret she did not see my grandson...*[746]

Yn wir, mae llythyr Winifred Ellis at weddw Daniel yn dilyn ei farwolaeth yn 1931 yn ategu'r rhwym hir dymor hwn. Cydymdeimlodd â hi gan ddweud*, 'I can assure you I share it in tears at the thought of another precious old friend gone.*'[747] Parhaodd math o ymlyniad emosiynol gyda theulu Tom Ellis hyd y diwedd felly.[748]

Gan gofio'r ymlyniad a fodolai rhwng Daniel a theulu Cynlas, mae'n naturiol bod perthynas wedi datblygu rhwng D.R. Daniel ac aelodau o deulu O.M. Edwards yn ogystal. Ceir tystiolaeth bod D.R. Daniel yn llythyru gyda'i frawd, Edward Edwards. Mewn llythyr at Daniel yn 1889, gwelir nid yn unig ddireidi Edward Edwards with iddo ddisgrifio ei wyliau Nadolig, ond hefyd y modd yr oedd yn disgrifio ei uned deuluol gan ddweud ei fod am fwynhau gwneud dim, 'ond scwrsio hefo fy mam, canu carole nadolig hefo nhad, a gwneyd fy ngore i boeni Owen fy mrawd ym mhob dull a modd y medr meddwl direidus ddyfeisio.'[749] Yn yr un modd, yn 1891, datgelir agwedd mwy cyhoeddus i'r cyfeillgarwch personol wrth i Edward Edwards ysgrifennu at Daniel gan gynnig ei gefnogaeth wrth iddo ymgeisio am swydd fel Cofrestrydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor:

---

[746] LlGC Daniel 539, Dyddiadur D.R. Daniel 1917, 27 Mehefin 1917.
[747] LlGC Daniel 2449, Winifred Ellis at Sarah Daniel, 21 Medi 1931.
[748] Ni cheir unrhyw dystiolaeth o lythyru hir-dymor rhwng O.M. Edwards a theulu Cynlas i awgrymu ei fod wedi cadw mewn cysylltiad cyson gyda hwy yn dilyn marwolaeth ei gyfaill.
[749] LlGC Daniel 972, Edward Edwards at D.R. Daniel, 19 Rhagfyr 1889.

> Bydd yn dda gen i wneyd a allaf drosoch ym mhob modd, ond, cofiwch yng ngeirie y seiat, na dydi y ngallu i ddim yn fawr. Yr hyn a allaf, myfi ai gwnaf… Mae nhad yn Llan yn talu y rhent, mam wrth tân yn twmo ei dwylo ac yn llithrig ddeyd y drefn am bawb, a dacw ben Owen ag Elin yn pasio y ffenest i ddwad i mewn i futa "asen frân."… Cofion lawer at dy fwyn anwyles,- piti ei bod gymaint yn well na thi. Ydi hi yn cael grâs i chwerthin yn iachus o hyd? Disgwiliaf fod y mab yn tebygu iddi.[750]

Prin yw'r llythyrau rhwng D.R. Daniel ac Edward Edwards, ond mae'r rhai sydd wedi goroesi yn sicr yn awgrymu cyfeillgarwch a rhwydwaith teuluol estynedig, er nad oes tystiolaeth o ymlyniad dwfn o reidrwydd. Cyniga gefnogaeth yrfaol i Daniel ac mae arddull chwareus ac hoffus Edwards, ynghyd â'r cyfeiriadau teuluol, yn awgrymu bod cyfeillgarwch wedi ei hen sefydlu rhyngddynt.[751]

Yn wir, gellir cyfoethogi'r ddadl hon gan nodi bod y cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel a Lloyd George wedi lledu i gynnwys ei frawd yntau. Mae cynnwys llythyrau Daniel a William George yn arddangos cyfeillgarwch yn deillio o rannu profiadau cyhoeddus. Er enghraifft, mewn un llythyr trafoda George gynnig gwaith i Daniel ar ran pwyllgor roedd yn aelod ohono ac yn hwyrach, trafododd sefyllfa wleidyddol y bwrdeistrefi yng Nghaernarfon yn 1890, y flwyddyn yr etholwyd ei frawd yn Aelod Senddol drostynt, '*I am not much of a Politician as you know, but the present situation is enough to make one feel a <u>personal</u> interest in politics is it not?*'[752] Arweiniodd y cydweithio at gyfeillgarwch personol, er enghraifft anfonodd D.R. Daniel gerdyn bach at William George yn nodi trefniadau i gyfarfod a diolch iddo am ei letygarwch ac anfonodd George ei longyfarchiadau pan benodwyd

---

[750] LlGC Daniel 973, Edward Edwards at D.R. Daniel, 17 Rhagfyr 1891.
[751] Ceir tystiolaeth bod Edward Edwards yn llythyru gyda Tom Ellis hefyd. Gweler LlGC Ellis 467-469, Edwards Edwards at Tom Ellis, rhwng 13 Ionawr 1894 a 15 Hydref 1894.
[752] LlGC Daniel 1159, William George at D.R. Daniel, 24 Mawrth 1890.

Daniel yn Drefnydd Undeb y Chwarelwyr.[753] Yn wir, mae llythyrau wedi goroesi gan Mary Ellen, chwaer Lloyd George, at D.R. Daniel a'i wraig yn holi am iechyd Sarah Daniel sydd yn atgyfnerthu'r modd y sefydlwyd math o rwydwaith ehangach.[754] Ni cheir tystiolaeth o ymlyniad emosiynol dwfn rhwng Daniel a theulu Lloyd George. Ond, yn sicr, mae'r llythyrau rhwng D.R. Daniel a theulu Lloyd George yn profi bod modd datblygu rhwydwaith teulol ehangach heb i'r cyfeillion rannu plentyndod.

Mae cynnwys yr ohebiaeth rhwng D.R. Daniel a theulu Cynlas felly'n arddangos bod uned deuluol ehangach wedi ei sefydlu mewn modd cwbl naturiol rhyngddynt. Roeddent yn gymdogion a fyddai'n rhannu profiadau'n ddyddiol gan arddangos bod Daniel wedi ei dderbyn i fyd personol Ellis. Mae'r awgrym bod Robert Evans yn gyfeillgar gyda Tom Ellis a'r modd y bu i Daniel, Evans ac Edwards rannu galar teulu Cynlas yn dilyn marwolaeth Ellis yn ategu hyn. Yn wir, ymdrechodd Daniel a theulu Cynlas i gynnal eu cyfeillgarwch yn dilyn marwolaeth Tom Ellis, er bod y cwlwm rhyngddynt, yn anorfod, wedi llacio. Ymhellach, mae llythyrau cyfeillgar a chwareus Edward Edwards a'r ohebiaeth rhwng Daniel a theulu Lloyd George yn atgyfnerthu'r syniad o rwydweithiau teuluol ehangach – er na ellir cyffredinoli ynghylch dyfnder yr ymlyniad rhyngddynt. Dyma felly gadarnhau'r dadleuon a gynigir yn yr hanesyddiaeth am yr angen am ddiffiniadau ehangach o'r term 'teulu'.

**Cynnwys y gwragedd yn y cyfeillgarwch**

Ni ellir cynnal trafodaeth ar unrhyw elfen o gender heb ystyried erthygl ddylanwadol Joan Wallach Scott, arbenigwraig ar hanes gender, sydd yn ystyried defnyddioldeb y catgerori hwn fel dull o ddadansoddi hanesyddol.[755] Beirniada gynnwys yr hanesyddiaeth sydd yn tueddu

[753] LlGC William George 6512, D.R. Daniel at William George, heb ddyddiad & LlGC Daniel 1162, William George at D.R. Daniel, 24 Ionawr 1896.

[754] LlGC Daniel 2834, Mary Ellen George at D.R. Daniel, 25 Ionawr 1888 & LlGC Daniel 2890, Mary Ellen George at Sarah Daniel, 11 Ebrill 1888.

[755] Joan Wallach Scott,'Gender: A Useful Category of Historical Analysis', *American Historical Review*¸91:5 (Rhagfyr 1986), tt. 1053-1075. Am drafodaeth o ymateb haneswyr

defnyddio'r term 'gender' i gyfeirio at hanes menywod gan awgrymu bod modd dysgu mwy am ddynion trwy astudio profiadau menywod yn ogystal. Ym marn Scott, mae dwy ran i ddiffinio gender, '*gender is a constitutive element of social relationships based on perceived differences between the sexes, and gender is a primary way of signifying relationships of power.'*[756] Ystyria'r ffyrdd gwahanol mae'r gwahaniaethau cymdeithasol hyn yn cael eu meithrin. Mae'r cysyniad o bŵer yn un pwysig yn y cyd-destun hwn yn ogystal gyda R.W. Connell yn diffinio '*hegemonic masculinity'* fel, *'the configuration of gender practice which embodies the currently accepted answer to the problem of legitimacy of patriarchy, which guarantees (or is taken to guarantee) the dominant position of men and the subordination of women.'*[757] Mae John Tosh wedi dadansoddi ychydig mwy ar y term hwn gan nodi bod y dominyddiaeth a gysylltir gyda syniadau Marcsaidd Gramsci o*'hegemony'* yn un sydd yn mynd y tu hwnt i rym a chryfder, neu bŵer gwleidyddol, gan ei fod wedi dod yn rhan o ddiwylliant.[758] O ganlyniad mae'n dod yn rhan o brofiad a realiti pobl ac felly, yn gyffredinol, yn cael ei dderbyn. Ymhelaetha Tosh ar y defnydd o *'hegemonic masculinity'* fel y normau gwrywaidd oedd yn cael eu gwerthfawrogi gan y dosbarth gwleidyddol er mwyn cadw ei awdurodod ac, yng nghyd-destun gwaith Connell, *'The attributes which it prescribes are those which confirm the power and prestige of men at the expense of the opposite sex: typically strength, self-reliance, bread-winning capacity and sexual performance.'*[759] Dyma gyflwyno damcaniaethau clir ynghylch y defnydd o bŵer gan ddynion dros fenywod. Bwriad y gwaith hwn yw ystyried y modd yr oedd menywod yn cael eu gwahodd, a'u cynnwys, ym mhrofiadau Daniel a'i ffrindiau – ond graddau'r rhannu hwn yw'r nod mewn gwirionedd. Nid bwriad y gwaith yw ystyried mewn manylder os oedd y dynion hyn yn arddangos eu pŵer dros fenywod, ond yn sicr trafodir beth yn union oedd

i'r erthygl ddylanwadol hon, gweler y bedwaredd bennod yn Johanna Alberti, *Gender and the Historian* (Llundain, 2002), tt. 61-81.
756 Scott,'Gender: A Useful Category of Historical Analysis', t. 1067.
757 R.W. Connell, *Masculinities* (Caergrawnt, 2005), t. 77.
758 John Tosh, 'Hegemonic Masculinity and Gender History' yn Dudink et al., *Masculinities in Politics and War*, t. 43.
759 Ibid., tt. 48 & 51.

natur y berthynas rhwng Daniel, ei gyfeillion a'u gwragedd yng nghyd-destun y disgwyliadau mwy traddodiadol o'r ddau ryw.

Yn sicr, ceir diffyg amlwg o ddeunydd yn yr hanesyddiaeth ehangach sydd yn delio gyda'r cyfeillgarwch rhwng dynion a menywod. Mae Cassandra A. Good wedi ymchwilio i'r pwnc hwn yn ystod cyfnod cynnar gweriniaeth America, yng nghyd-destun yr elitiaid. Byddai Abigail Adams, gwraig yr Arlywydd John Adams, er enghraifft, yn mwynhau perthynas gariadus gyda'i gŵr a chyfeillgarwch agos gyda dynion megis Thomas Jefferson gan ddangos ffiniau mwy aneglur rhwng y ddau ryw. Pwysleisia'r awdures bwysigrwydd gwreiddio'r fath berthynas, er hyn, mewn cyswllt grŵp cymdeithasol ehangach h.y. lluniwyd perthynas rhwng John ac Abigail Adams a Thomas Jefferson fel triawd.[760] Roedd yn rhaid sicrhau bod y ddealltwriaeth gyhoeddus o'r cyfeillgarwch yn dderbyniol ac felly roedd cefndir priodasol yn aml i gyfeillgarwch rhwng dynion a menywod.

Trafodwyd yn yr ail bennod bwysigrwydd priodi i'r syniad o wrywdod ac effaith priodi ar y cyfeillgarwch a fodolai rhwng D.R. Daniel a'i ffrindiau. Ymhellach, ystyriwyd bywyd carwriaethol D.R. Daniel a Sarah Jones, merch Siop Isa, Llandderfel, yn ail bennod yr astudiaeth hon. Priodon nhw yn 1887 a chawsant ddau o blant – Peredur Llwyd a anwyd yn 1889 a Gwenllian a anwyd, a bu farw, yn 1898. Mae'r llythyrau rhwng y ddau tra roedd Daniel yn America yn rhan sylweddol o'r casgliad rhyngddynt ac yn arddangos pâr ifanc mewn cariad ac yn hiraethu am ei gilydd. Wedi iddynt briodi, mae cynnwys eu gohebiaeth yn ymwneud â materion teuluol a lleol yn bennaf.[761] Gan gofio eu bod yn briod hyd ei farwolaeth yn 1931, does dim hanner cymaint o lythyrau wedi goroesi oddi wrth Sarah Daniel at D.R. Daniel, o gymharu â nifer y llythyrau oddi wrth Tom Ellis. Awgryma hyn eu bod wedi treulio rhan helaeth o'u bywyd priodasol gyda'i gilydd sydd yn awgrym o berthynas gref. Yn wir, mae poen D.R. Daniel adeg ei salwch hi

[760] Cassandra A. Good, 'Friendly Relations: Situating Friendships Between Men and Women in the Early American Republic, 1780–1830', *Gender & History,* 24:1 (Ebrill 2012), tt. 18-19.
[761] Gweler LlGC Daniel 2418, Casgliad llythyrau Sarah Daniel at D.R. Daniel & LlGC Daniel 2419, Casgliad llythyrau D.R. Daniel at Sarah Daniel.

yn 1910 a'r cysur roddodd ei frawd, fel ag a drafodwyd ar ddechrau'r bennod hon, yn atgyfnerthu'r syniad o briodas hapus a chryf.

Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, ystyried natur y cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel a gwragedd ei ffrindiau, ac yn yr un modd, perthynas ei gyfeillion gyda Sarah Daniel yw canolbwynt yr adran hon. I ba raddau felly yr oedd y dynion hyn yn chwarae rhan ym mywydau priodasol ei gilydd? Gan mai D.R. Daniel briododd gyntaf, dechreuir trwy ystyried perthynas Tom Ellis gyda gwraig ei gyfaill hynaf cyn ystyried perthynas Daniel gydag Annie Ellis, Elin Edwards a Margaret Lloyd George. Dyma gyfle i ystyried y rhwydweithiau teuluol ehangach yng nghyd-destun profiadau'r ddau ryw.

Mewn gwirionedd digon ymarferol yw cynnwys y llythyrau oddi wrth Tom Ellis at Sarah Daniel. Er enghraifft, ysgrifennodd ati yn gofyn iddi anfon bag Daniel i orsaf Llandderfel gyda thren penodol, siwr o fod i'w galluogi i dreulio mwy o amser gyda'i gilydd yn eu bro enedigol. Llofnododd y llythyr, 'Cofion cynes Thomas E. Ellis'.[762] Ar adeg arall, ysgrifennodd ati ar ran Daniel gan ddweud wrthi i beidio ei ddisgwyl yn ôl o Lundain gan ei fod yn blasu'r bywyd gwleidyddol yno. Clo'r llythyr gyda'r geiriau, *'Heaps of love from David a chofion caredig oddiwrth Tom Ellis.'*[763] Ceir awgrym yn y cyfarchion o fath o hoffter ar ran Ellis tuag at wraig ei ffrind gorau. Eto i gyd, gellir awgrymu bod Ellis wedi cael rhywfaint o ddylanwad ym mywyd priodasol ei gyfaill wrth ystyried ei fod ef yn ddibriod ac felly roedd yn parhau i dreulio amser gyda Daniel. O bosibl roedd tensiwn wedi bodoli rhwng bywyd priodasol Daniel a'i deyrngarwch i'w gyfaill. Ar un achlysur, ysgrifennodd Daniel at ei wraig o Gynlas gan ddweud ei fod wedi trafod dychwelyd adref oddi yno gyda Tom ac yr oedd yntau wedi dweud mai gwell fyddai anfon am ei wraig a'i fab i ymuno gyda nhw yno. Yr oedd Ellis hefyd wedi sôn am drefniadau adeg y Nadolig. Yn ddiddorol, dywed Daniel, *'You see how I am placed.'*[764] Yn yr un llythyr, ysgrifennodd Daniel:

[762] LlGC Daniel 506, Tom Ellis at Sarah Daniel, heb ddyddiad.
[763] LlGC Daniel 505, Tom Ellis at Sarah Daniel, 16 Ebrill 1888.
[764] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, heb ddyddiad.

> *Tom says you had better come now over for your holidays say tomorrow, or wait if you like till Friday when we will be at Barmouth. I think you better come at once. Of course he doesn't mean for me to go away with them for he never uttered a word about that but that I shall have a holiday, till the 10th when he leaves.*[765]

Wrth ystyried dadl haneswyr ynghylch pŵer a'r cysyniad o *'hegemonic masculinity'* felly, gellir awgrymu i raddau bod cyfeillgarwch Daniel a Tom Ellis wedi cael effaith ar ei fywyd priodasol gan iddo drefnu eu gwyliau yng Nghefnddwysarn o amgylch amser rhydd Ellis. O ganlyniad felly, byddai Sarah Daniel ar adegau gartref ei hun yn gofalu am eu mab neu'n ymateb i ofynion ei gŵr a'i gyfaill. Yn wir, byddai D.R. Daniel a Tom Ellis yn teithio'r cyfandir gyda'i gilydd neu gyda grŵp o ffrindiau, a Sarah adref gyda Peredur. Mae'r casgliad o lythyrau oddi wrth Daniel at ei wraig yn dangos y bu iddo deithio ar draws Ewrop gydag Ellis ac yna Lloyd George, gan gynnwys y Pyranees, y Swistir, yr Eidal a'r Almaen.[766] Byddai Daniel yn atgyfnerthu'r perthnasau gyda'i gyfeillion yn ystod y cyfnodau hyn o deithio'r cyfandir. Bwriad yr astudiaeth hon yw arddangos nad oedd ffiniau cadarn yn bodoli rhwng profiadau personol a chyhoeddus Daniel, Ellis ac Edwards a mesur i ba raddau yr oedd ymlyniad emosiynol gwirioneddol rhyngddynt a ymledodd i greu math o rwydwaith teulol ehangach. Er bod Sarah Daniel yn sicr yn rhan o brofiadau'r dynion, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oeddent wedi cadw at gonfensiynau'r oes o ran rôl y fenyw yn cynnal ei theulu a'i chartref. Ceir enghreifftiau yn yr hanesyddiaeth ehangach o fenywod annibynnol a oedd yn mynnu eu lle eu hunain yn y byd cyhoeddus ochr yn ochr gyda dynion, ac yn cwestiynu'r ystrydeb o'r fenyw yn y cartref.[767] Yn seiliedig ar yr ohebiaeth rhwng Tom Ellis a Sarah Daniel, ac yng nghyd-destun cyfeillgarwch Ellis a'i gŵr, ni ellir awgrymu ei bod hi'n disgyn i'r categori hwn.

---

765 LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, heb ddyddiad.

766 LlGC Daniel 2419, Casgliad llythyrau D.R. Daniel at Sarah Daniel.

767 Er enghraifft, gweler Ursula Masson, ''Hand in Hand with the Women, Forward We Will Go': Welsh Nationalism and Feminism in the 1890s, *Women's History Review,* 12:3 (Medi 2003), tt. 357-386 & Lindy Moore, ''A Notable Personality': Isabella Fyvie Mayo in the Public and Private Spheres of Aberdeen', *Women's History Review,* 22:2 (Ebrill 2013), tt. 239-252.

Er hyn, gellir awgrymu bod hoffter gwirioneddol gan Tom Ellis at wraig Daniel. Er enghraifft, tra roedd Daniel yn wynebu anhawsterau gyrfaol gyda'r mudiad dirwestol yn 1894, ysgrifennodd Ellis at ei wraig yn arddangos ei gydymdeimlad a'i fwriad i weithio ar eu rhan:

> *I need not say how grieved and astonished I was to hear of it. I am especially sorry for you, and feel that it is very hard that you should lose him for a time just as this came…*
>
> *One thing I can say now. I shall see that the letter is withdrawn and that the matter will be put right long before Christmas. I have often to deal with more difficult matters than that, and you may rest assured that I shall leave no stone unturned to see that the matter is settled satisfactorily…*
>
> *With my love to Peredur and – at least – my respectful remembrances to you.*[768]

Mae'r ffaith ei fod yn ceisio cysuro Sarah Daniel ynddi ei hun yn awgrymu gofal ohoni fel aelod o rwydwaith teuluol ehangach iddo. Ond, eto, cyfeirir at y ffaith ei fod ef a Daniel ar fin mynd i ffwrdd i deithio gan adael hithau ar ôl i ofalu am Peredur. Dyma atgyfnerthu'r syniad o bŵer felly gyda Tom Ellis yn defnyddio ei ddylanwad i gysuro Sarah Daniel ac yna yn mynd ar ei wyliau gyda'i gŵr tra roedd y cwpl yn amlwg yn wynebu cyfnod heriol. Ni cheir unrhyw dystiolaeth o Sarah Daniel a Tom Ellis yn cwrdd heb bresenoldeb Daniel ac felly, yn sicr, roedd eu cyfeillgarwch yn seiliedig ar berthynas Ellis a Daniel. Dengys llythyrau Tom Ellis hoffter a pharch at wraig ei gyfaill gan gyd-blethu profiadau bywyd, ond ni cheir awgrym o reidrwydd ei bod hi yn cael mynediad llawn i'w bywyd cyhoeddus a'u cyfeillgarwch.[769]

---

[768] LlGC Daniel 504, Tom Ellis at Sarah Daniel, 29 Awst 1894.

[769] Yn anffodus, nid oes llythyrau wedi goroesi oddi wrth Sarah Daniel at Tom Ellis, na chwaith rhyngddi hi ac O.M. Edwards, i ehangu ar y drafodaeth hon.

Prin iawn yw'r llythyrau rhwng Tom Ellis ac Annie Ellis yn ystod eu priodas, ond mae Mari Ellis wedi golygu llythyrau Ellis at ei wraig o gyfnod cyfeillgarwch a chariad i'w dyweddiad a dyddiau cynnar eu priodas, rhwng 1897 ac 1898. Yn anffodus llosgodd Annie Ellis ei dyddiadur a'r llythyrau ysgrifennodd hi at Ellis yn dilyn ei farwolaeth.[770] Mae'r casgliad hwn o lythyrau a olygwyd gan Mari Ellis yn dangos y modd y datblygodd eu perthynas gan ddatgelu Tom Ellis fel dyn ifanc mewn cariad, yn edrych ymlaen i briodi a sefydlu cartref. Mae llythyrau torcalonus Annie yn dilyn marwolaeth ei gŵr (a drafodir yn hwyrach yn y bennod) yn cadarnhau eu bod yn gwpl ifanc mewn cariad a oedd wedi edrych ymlaen at eu dyfodol a bod marwolaeth cynamserol Tom Ellis wedi llorio ei wraig. Mae'r ohebiaeth hefyd yn dangos i gyfeillgarwch ddatblygu rhwng gwraig Ellis a D.R. Daniel yn ystod cyfnod byr eu priodas rhwng 1898 a 1899.

Pan yw Ellis yn cael ei daro'n wael ar ei fis mêl yn 1898, mae Daniel yn llythyru gyda'r ddau fel cwpwl gyda'r gred y byddai gofal ei wraig yn hybu gwellhad i'w gyfaill ac yn gwneud eu priodas yn gryfach. Dywed, 'Bydd i ni yma wylio yn ddyfal am bob sill a welwn am danoch hyd nes y cawn bob sicrwydd eich bod eto wedi llwyr adfeddianu eich nerth. Gyda'r adgofion melusaf am Fehefin y 1af yn Aberystwyth [diwrnod eu priodas] an cofion serchoccaf attoch eich dau.'[771] Mae'r llythyr nesaf gan Daniel eto yn dangos ei gariad at ei gyfaill hynaf gan iddo ddatgan ei eiddigedd at Annie Ellis wrth wely ei gŵr yn medru treulio amser gydag ef:

> *We were extremely glad to get your letter containing reliable, 'authorised' information as to the true condition of dear Tom…He has always been a one who could face the inevitable with splendid courage and I am sure he will submit within medical penance… Sometimes – indeed often – I almost envy Mrs Ellis' place at the bedside Tom a prisoner between the blankets yet with sufficient*

[770] Mari Ellis, *Y Golau Gwan,* t. 8.
[771] LlGC Daniel 125, D.R. Daniel at Tom Ellis ac Annie Ellis, 16 Mehefin 1898.

*strength to talk – what a world of reminiscences, projects, gossip and stories we should cover in a week*![772]

Wrth i Ellis gryfhau, byddai ei wraig yn ysgrifennu at Daniel ar ei ran gydag yntau yn ychwanegu sylwadau sydd yn dangos y berthynas oedd yn datblygu rhwng y tri, e.e. gwraig Ellis ddim eisiau iddo wella yn rhy gyflym gan ei fod yn 'fy modloni fel y mae yn awr, gan fy mod yn gallu awdurdodi ychydig arno.' Ymateb Tom Ellis, oedd 'Druan ohonof!' Wrth i Tom Ellis gryfhau byddai'n meddwl yn unig 'of beef steaks and chops' yn ôl ei wraig ac ychwanegodd Ellis at y llythyr, 'Does dim 'gwir' fel 'gwir' merch!'[773] Yma eto, felly, fel yn achos perthynas Sarah Daniel a Tom Ellis am resymau ymarferol i raddau y sefydlwyd cyfeillgarwch rhwng y dynion a gwragedd ei gilydd. Yn y cyd-destun hwn, nid oedd Ellis yn medru ysgrifennu ato gan ei fod yn sâl ac felly cafodd ei wraig newydd ei thynnu i'r berthynas. Yn sgil hyn, datblygodd hoffter rhwng Daniel ac Annie Ellis ac ymhen misoedd, ysgrifennodd hithau ato yn gofyn iddo ysgrifennu anerchiad dirwestol ar ei rhan. Tynnodd ei goes gan ddatgan, '*It is unbounded cheek, I know but when a girl's husband leaves her in the lurch, what in the world has she to do, but appeal to his nearest friend*'.[774]

Anodd yw cynnig dadansoddiad manylach o'r berthynas rhwng Sarah Daniel a Tom Ellis, a D.R. Daniel ac Annie Ellis tra roedd Ellis yn fyw oherwydd prinder llythyrau. Gellir awgrymu er hyn eu bod wedi sefydlu perthynas yn seiliedig i raddau ar yr ymarferol wrth i Sarah Daniel sicrhau bod ei gŵr yn medru treulio amser gyda'i gyfaill ac Annie Ellis yn ysgrifennu ar ran Ellis pan ei fod yn sâl. Yn sicr, datblygodd hoffter rhyngddynt yn ogystal wrth i Ellis gynnig cefnogaeth i Sarah Daniel mewn cyfnod o bryder a Daniel wneud cymwynas ag Annie Ellis. Heb os felly, pan briododd Daniel ac Ellis daeth eu gwragedd yn rhan o'u cyfeillgarwch. Nid oedd bwlch pendant rhwng eu perthynas gyda'i gilydd a chyda'u gwragedd. Er hyn, mae'r ffaith bod y menywod wedi chwarae rôl mwy cefnogol yn y

[772] LlGC Daniel 126, D.R. Daniel at Tom Ellis, 28 Mehefin 1898.
[773] LlGC Daniel 491, Tom Ellis at D.R. Daniel, 6 Gorffennaf 1898.
[774] Annie Ellis at D.R. Daniel, dyddiedig 30 Ionawr 1899 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, t.206.

berthynas – yn galluogi'r ddau ddyn i dreulio amser gyda'i gilydd neu yn ysgrifennu ar eu rhan – yn atgyfnerthu'r syniad o bŵer y gwryw. O bosibl, byddai cyfeillgarwch D.R. Daniel gydag Ellis wedi creu tensiwn rhyngddo ef a'i wraig gan iddo roi blaenoriaeth iddo ar adegau.

Beth felly am y berthynas rhwng D.R. Daniel ac Elin Edwards, fel gwraig i gyfaill gydol oes iddo? Prin iawn, iawn yw'r dystiolaeth bod unrhyw gyfeillgarwch wedi ei feithrin rhyngddynt. Ond, er mwyn deall natur y berthynas rhwng Daniel, a Tom Ellis, ag Elin Edwards, rhaid dechrau drwy ystyried ei phriodas gydag O.M. Edwards. Bu iddynt briodi yn 1891 ar ôl canlyn am bedair blynedd a ganwyd Owen ab Owen yn 1892 (bu farw yn 1897), Ifan ab Owen yn 1895 a Haf yn 1898. Yn ddiweddar, mae haneswyr wedi dechrau cwestiynu pa mor ddelfrydol oedd eu perthynas mewn gwirionedd. Mae Hazel Walford Davies yn pwysleisio'r modd y bu i orweithio ac ymrwymiad Edwards i gyflawni ei uchelgeisiau arwain ato'n esgeuluso ei wraig a'i hunan-laddiad hi yn 1919. Ymhellach, awgryma bod euogrwydd Edwards yn dilyn marwolaeth ei wraig wedi arwain at ei farwolaeth ei hun, *'The violence of her suicide in 1919, and her husband's consequent silent grief and overwhelming guilt, put an end to that service* [i Gymru] *with O.M.'s death in 1920.*'[775] Yn ôl G. Arthur Jones, 'Llesgaodd [O.M. Edwards] a heneiddio'n gyflym' yn dilyn marwolaeth ei wraig.[776] Mae'r llythyrau rhwng y cwpl a olygwyd gan Davies wedi eu trefnu fel y gwnaeth O.M. Edwards wrth eu darllen yn dilyn marwolaeth Elin ac y mae hynny'n rhoi mewnwelediad i ni o'r modd y bu i natur eu perthynas newid yn ystod cyfnod eu priodas. Am 1887, blwyddyn gyntaf eu carwriaeth, ysgrifennodd Edwards 'Llythyrau at Elin ac oddiwrthi. (Cefais hwy er dirfawr lawenydd i mi).'[777] Ond, gwelir Edwards yn dechrau deall unigrwydd Elin wrth ailddarllen y llythyrau a chwestiynu ei rôl ei hun yn ei marwolaeth. Am lythyrau 1892, ysgrifennodd, 'A esgeulusais hi'n ormodol?' ac 1908 'Unigedd a hiraeth Elin. A fu'n ferthyr i'm gwaith?'[778]

[775] Hazel Davies, 'Divisions', t. 80.
[776] Arthur Jones, *Bywyd a Gwaith Owen Morgan Edwards*, t. 89.
[777] Gweler Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*.
[778] Ibid., t. 183 & t.389.

Am y casgliad o lythyrau o 1919, blwyddyn ei marwolaeth, ysgrifennodd, 'Y llythyrau olaf. Dyddiau'r Ing. Ffarwel Elin. Gwae fi!'[779]

Mae D.R. Daniel yn cyfeirio at briodas O.M. Edwards ac Elin Edwards yn ei lawysgrif, 'Gwaled Adgo.'[780] Dyma'r modd y disgrifiodd eu perthynas:

> …does dim amheuaeth genyf nad tegwch Elin ddeffrodd serch Owen. Fe allasai ef yn ddiau erbyn yr adeg yr oedd yn awr wedi ei gyrhaedd ar ei yrfa, gael gwraig gyfoethog. Eithr dewisodd degwch ei fro ei hunan. Yr oedd raid i mi meddai gael rhywun allai 'Siarad gyda mam' ac yn sicr fe drodd yr uniad yn un happus iawn ym mhob gwedd.[781]

Ymhellach disgrifiodd Daniel fynd gyda'i wraig ef a ffrindiau eraill i weld O.M. ac Elin yn dilyn eu priodas, 'Prydnawn difyr a llawn afiaeth bore ein bywyd priodasol ein dau… Y mae Elin wedi profi yn wraig dda i Owen au bywyd priodasol wedi bod yn neillduol o happus.'[782] Dyma gyfeiriad at eu priodas a ysgrifennwyd cyn marwolaeth Elin a gwelir Daniel yn cyflwyno delwedd gadarnhaol iawn o'u perthynas mewn llyfr nodiadau personol. Awgryma hyn nad oedd yn ymwybodol o'r straen oedd ar berthynas O.M. ac Elin Edwards sydd yn cael ei ddatgelu yn eu gohebiaeth hwy. Yn wir, gan gofio bod gorweithio Edwards wedi golygu iddo esgeuluso ei wraig ei hun, nid yw'n syndod nad oedd wedi cadw mewn cysylltiad cyson gyda Daniel ac Ellis wrth fynd yn hŷn. Ni fyddent hwythau wedi gweld effaith gyrfa Edwards ar Elin na chwaith wedi cael y cyfle i feithrin cyfeillgarwch gyda hi. Er hyn, roeddent yn adnabod ei gilydd. Ar un achlysur, tra roedd Owen ac Elin yn canlyn, disgrifia hi weld Tom Ellis a Daniel yn Llandderfel gydag Ellis yn mwynhau darllen gwaith Edwards a Daniel 'wrth ei fodd yn cael son am danoch'.[783] Ymhellach, o fewn wythnosau i farwolaeth Ellis, ysgrifennodd ei weddw at Edwards gan anfon llun ato a gymerodd Tom

---

[779] Ibid., t. 511.
[780] LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', t. 42.
[781] Ibid., t. 43.
[782] Ibid., t. 43.
[783] Elin Edwards at O.M. Edwards, 30 Hydref 1890 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards*, tt. 136-137.

Ellis o D.R. Daniel a mab ifanc Edwards, Ifan ab Owen.[784] Cyfeiriadau yn unig yw'r rhain sydd yn awgrymu bod math o berthynas wedi cael ei meithrin rhwng Elin Edwards, D.R. Daniel, a Tom Ellis a hynny i'w ddisgwyl gan gofio'r ymlyniad rhwng y dynion. Mae modd cyfeirio at rwydwaith estynedig rhyngddynt felly ond, yn sicr, ni ellir ei ddisgrifio fel uned deuluol ehangach.[785]

Yn wir, mae ystyried perthynas D.R. Daniel a Margaret Lloyd George yn cyfoethogi'r ystyriaeth o berthynas Daniel gyda gwragedd ei ffrindiau. Datgela gynnwys llythyrau Daniel at ei wraig bod cyfeillgarwch gwirioneddol wedi datblygu rhyngddo ef a Margaret Lloyd George, yn benodol tra roedden nhw'n byw yn Llundain. Yn wir, ceir enghreifftiau o achlysuron pan y byddai'r ddau yn treulio amser yng nghwmni ei gilydd heb bresenoldeb Lloyd George a Sarah Daniel. Eto i gyd, er y ffaith bod Margaret Lloyd George wedi chwarae rôl amlwg yn mywyd cyhoeddus Cymru a Phrydain, i raddau, yn annibynnol ar ei gŵr, gan ei dyrchafu'n *Dame* yn 1920, mae cynnwys yr ohebiaeth yn awgrymu bod ei thrafodaethau gyda Daniel yn bennaf yn ymwneud gyda'r teulu a'r cartref. Mewn un llythyr, disgrifia Daniel y modd yr oedd Margaret Lloyd George wedi rhoi cymorth iddo ffeindio boa i'w wraig gan gynnig mynd gydag ef i'r siop a rhoi cyngor iddo ar brisiau.[786]

Ar achlysur arall, disgrifia Daniel bod Margaret Lloyd George wedi chwerthin 'yn enbyd' wedi iddo ddweud bod ei wraig wedi 'trymhau 21 pound' yn dilyn llawdriniaeth ddifrifiol yn 1910. Ymhellach, dywed bod Margaret Lloyd George eisiau gwybod yn union pryd fyddai hi'n cyrraedd adref gan ei bod eisiau ei gweld.[787] Yn yr un modd, disgrifia sgwrs ffôn rhyngddo ef a Margaret mewn manylder a cheir yr argraff ei fod yn pontio profiadau ei wraig ef a gwraig ei gyfaill wrth gymryd diddordeb, a rhannu

---

[784] LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/72, Annie Ellis at O.M. Edwards, 22 Ebrill 1899.
[785] Nid oes gohebiaeth wedi goroesi rhwng D.R. Daniel na Tom Ellis ac Elin Edwards, ac felly ni ellir cynnig unrhyw sylwadau manwl am eu perthynas.
[786] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 19 Chwefror.
[787] Ibid., 24 Tachwedd 1910.

eu newyddion, fel ag y gwnaeth Annie Ellis yn ystod salwch ei gŵr. Dywed Daniel:

> *Mrs G. said that she had grown quite uneasy about you thro all this silence but how delighted she was when I told her how I found you and of the letter I get from you every day. She would like to have from you the hanes of Cefnddwysarn and how the great event went off there. She is I said with the one who made the luncheon. She knew well of course. She wants Peredur to go there on Friday night with the catalogue and she has something to pay him also.*[788]

Yn sicr, roedd y cyfeillgarwch hwn yn annibynnol ar berthynas Daniel a Lloyd George. Erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd Margaret Lloyd George wedi pellhau oddi wrth ei gŵr yn ogystal. Mae eu llythyrau hwy yn arddangos y modd y bu iddynt ddechrau eu priodas yn gariadus yn 1888 ac y bu iddynt gael pump o blant. Ond, wrth dreulio cymaint o amser ar wahân a natur odinebus Lloyd George, daethant i fyw bywydau annibynnol ar ei gilydd gydag ef mewn perrthynas hir dymor gyda'i ysgrifenyddes, Frances Stevenson.[789] Diddorol felly yw'r ffaith y bu i gyfeillgarwch rhwng Margaret Lloyd George a'r teulu Daniel barhau ar ryw lefel hyd yn oed pan oedd y cwlwm rhyngddi hi, a rhwng Daniel, a'i gŵr wedi llacio. Eto i gyd, mae'r cyfeiriadau at y berthynas rhwng D.R. Daniel a Margaret Lloyd George yn awgrymu'r pwyslais ar y teulu a'r cartef ac felly rôl traddodiadol y wraig yn hytrach na thrafodaethau am wleidyddiaeth a materion cyhoeddus. Mae hyn yn gyson gyda chynnwys yr hanesyddiaeth ar gender a phŵer. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oeddent o bosibl wedi trafod y fath bethau ar lafar ar adegau. Ond, yn gyffredinol, o amgylch y teulu roedd y ffocws yng nghyd-destun y traethawd hwn. Yn wir, un llythyr sydd wedi goroesi oddi wrth Lloyd George at Sarah Daniel a hwnnw'n gofyn am ei hiechyd pan yr oedd yn sâl a hynny'n cadarnhau'r ddadl hon.[790]

---

[788] Ibid., nos Fawrth 6pm.
[789] Gweler Kenneth O. Morgan, *Lloyd George Family Letters*.
[790] Gweler LlGC Daniel 2892, D. Lloyd George at Sarah Daniel, p'nawn Sul.

Mae astudio'r berthynas rhwng D.R. Daniel a gwragedd ei gyfeillion, yn ogystal â'r berthynas rhwng Tom Ellis a Sarah Daniel yn datgelu na ellir cyffredinoli ynghylch y cyfeillgarwch rhwng y ddau ryw yng nghyd-destun y traethawd hwn. Gellir datgan gyda pheth sicrwydd bod mathau o rwydweithiau ehangach wedi bodoli a chysylltiad cadarn rhwng Daniel a gwragedd ei gyfeillion. Er hyn, roedd y cyfeillgarwch rhwng y dynion yn allweddol er mwyn meithrin perthynas rhyngddynt hwy a gwragedd ei gilydd. Wrth i O.M. Edwards bellhau oddi wrth D.R. Daniel a Tom Ellis, er enghraifft, nid yw'n syndod na ddatblygwyd perthynas agos rhyngddynt hwy ac Elin Edwards. Yn wir, am resymau ymarferol y byddai Tom Ellis a D.R. Daniel yn llythyru gyda gwragedd ei gilydd, er y gellid dweud i hoffter gwirioneddol ddatblygu rhyngddynt. Mae ystyried perthynas Daniel a Margaret Lloyd George yn cynnig math o gyferbyniad. Roedd hi'n fenyw annibynnol gyda gyrfa gyhoeddus amlwg. Byddai hi'n treulio rhywfaint o amser ar ei phen ei hun yng nghwmni Daniel a pharhaodd eu cyfeillgarwch y tu hwnt i'w berthynas ef gyda'i gŵr. Eto i gyd, tueddu trafod materion teuluol a wnant yng nghwmni ei gilydd. Er cymhlethdod y pwnc hwn, mae'r cysylltiadau rhwng Daniel a'i ffrindiau, a gwragedd ei gilydd yn datgelu pwysigrwydd yr ymlyniad rhyngddynt. Oherwydd y cwlwm cyfeillgarwch rhwng y dynion, datblygodd rhwydwaith cyfeillgarwch rhyngddynt a gwragedd ei gilydd – er i raddau gwahanol.

**Cynnal perthynas gyda gweddw Ellis**

Trafodwyd eisoes y modd y bu i'r galar a deimlwyd yn dilyn marwolaeth Tom Ellis gynnig mewnwelediad unigryw i'r cwlwm a fodolai rhwng Daniel, ac Edwards i raddau, a theulu eu cyfaill. Mae cynnwys yr ohebiaeth rhwng D.R. Daniel, ac O.M. Edwards, a gweddw Tom Ellis yn adeiladu ar gynnwys llythyrau Winifred Ellis atynt gan fod gonestrwydd y llythyrau hyn yn drawiadol. Yma felly, ystyrir y modd y bu i berthynas Annie Ellis gyda D.R. Daniel ac O.M. Edwards newid yn dilyn marwolaeth Tom Ellis. Astudir yr ohebiaeth rhyngddynt i ystyried a symudodd eu cyfeillgarwch o'r ymarferol i'r dwys wrth rannu eu galar. Ymhellach, a ddyfnhawyd y

cysylltiad rhyngddynt yn dilyn profiad mor ddirdynnol, neu ai pellhau wnaethant yn y pen draw?

Mae'r cysyniadau hanesyddol ynghylch arddangos pŵer dros fenywod yn cael eu beirniadu yma gan y torrwyd unrhyw ddisgwyliadau a chonfensiynau ynglyn â'r modd y dylai menywod gweddw neu ddi-briod gyfathrebu gyda dynion priod. Yn yr un modd, cwestiynir y syniad bod angen presenoldeb gŵr er mwyn llunio cyfeillgarwch rhwng dyn a menyw gan i rannu emosiynol fodoli rhwng chwaer a gwraig Ellis gyda'i gyfeillion, heb ei bresenoldeb ef yn y cyfeillgarwch.

Mae'r rhannu hiraeth a'r angen i gadw mewn cysylltiad ar ei amlycaf yn llythyrau Annie Ellis at D.R. Daniel yn syth ar ôl marwolaeth Tom Ellis. Mae torcalon y wraig weddw a'r modd y teimlai y byddai Daniel yn rhannu'r boen hon yn amlwg. Cydnabydda ran Daniel ym mywyd Tom Ellis fel ei gyfaill gorau ac ysgrifenna ato gyda diffuantrwydd llwyr yn trafod ei theimladau yn ogystal â chydymdeimlo gydag ef. Mewn un llythyr, ysgrifenna Annie Ellis gan ddatgan ei bod yn teimlo'r angen i alw Daniel wrth ei enw cyntaf ac i yntau ei galw hi'n Annie, fel ag y dymunodd Tom Ellis. Yr oedd hi hefyd yn awyddus iawn i Daniel fynd i Lundain i weld eu cartref priodasol cyn iddi ei adael a dychwelyd i Aberystwyth gan ei bod hi ac Ellis wedi bod mor hapus yno. Gorffenna gyda'r geiriau gonest, 'Oh! David mae hi yn galed i weld y goleuni trwy'r cwmwl du yma, ond rhaid distewi.'[791] Yn y llythyr nesaf ato, teimlai Annie Ellis ei bod yn agosau at ffrindiau ei gŵr gan fawr obeithio y byddai eu cyfeillgarwch hwy yn parhau hyd y diwedd. Mae'r llythyr yn cynnwys datganiadau tra emosiynol:

> Mae'r *blank* ofnadwy yn fy mywyd yn myned yn fwyfwy bob dydd, rwyf weithiau bron a methu byw un awr yn hwy – ond mae nerth yn dod i mi a rwyn gallu mynd yn mlaen ac yn gallu feddwl, a bod yn ddiolchgar am y ddwy flynedd diweddaf hyn, yn enwedig y flwyddyn olaf. Mor llawn mae hi wedi bod o'r melus â'r brudd!!...

[791] Annie Ellis at D.R. Daniel, heb ddyddiad yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, tt. 212-213.

> Oh! mae hi yn galed yma weithiau, rwyf yn teimlo fy nghalon ar dori gan feddwl nad oes dim gwellhâd i glwyf mor ddwfn. Golli yr agosaf o bawb, a'r fath un; un oedd bob amser mor dyner a chariadus! Ar amserau rwyf bron a meddwl nas gallaf byw wrthyf fy hun heb Tom …
>
> Rwyf wedi meddwl llawer iawn amdanoch. Cymaint roedd Tom wedi siarad amdanoch a cymaint roedd y meddwl ohonoch. O bawb o'i gyfeillion ychi oedd yr agosaf. Felly gallaf gwybod mesur eich hiraeth a'ch galar, a rwyf yn cydymdeimlo a chwi o'm calon.[792]

Yn wir, ysgrifennodd Annie at O.M. Edwards o fewn wythnosau i farwolaeth Ellis yn disgrifio ei thristwch yn ogystal:

> *…one does feel hopelessly lonely at times, and one wonders* <u>*why*</u> *it should be* <u>*so soon.*</u>
>
> *But I feel he has left me very much, and I am thankful that I was privileged to be with him for these last ten months for these months are more precious to me that the rest of my life.*[793]

Ceir adlais i eiriau Winifred Ellis yn ei llythyr at O.M. Edwards wrth i Annie Ellis gydymdeimlo gyda Daniel. Ymhellach, fel Winifred, gellir awgrymu bod Annie Ellis wedi cael rhywfaint o gysur wrth rannu ei hiraeth a'i galar gyda chyfeillion hynaf ei gŵr. Yn sicr felly, gellir awgrymu bod y ddwy fenyw wedi croesi'r ffiniau anweledig rhwng y ddau ryw wrth ddatgan eu teimladau mewn modd mor onest ac agored. Nid oedd confensiynau'r oes wedi effeithio ar eu dull o gyfathrebu gyda dynion priod yn ystod y cyfnod. Wrth gwrs, ni ellir gorgyffredinoli yma. Roedd Winifred ac Annie Ellis yn ddwy fenyw addysgedig, a gellir dadlau eu bod yn aelodau o'r dosbarth canol oblegid hyn. O ganlyniad, roedden nhw'n medru mynegi eu hunain ar bapur yn effeithiol wrth wynebu cyfnod hynod o heriol a

792 Annie Ellis at D.R. Daniel, 15 Mai 1899 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, tt. 213-214.
793 LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/14/72, Annie Ellis at O.M. Edwards, 22 Ebrill 1899.

rhannu eu hemosiynau gyda dynion yr oeddent eisoes yn eu hadnabod yn sgil perthynas Daniel ac Edwards gyda Tom Ellis. Ni ellir ystyried y byddai pob menyw yn cyfathrebu mewn ffordd mor agored gyda chyfeillion gwrywaidd yn y cyfnod.

Ni ellir gor-bwysleisio'r modd y bu i Daniel ac Edwards rannu'r profiad o golli Tom Ellis gydag Winifred ac Annie Ellis ychwaith. Ni cheir unrhyw dystiolaeth eu bod wedi gwneud datganiadau emosiynol am eu hiraeth wrth gyfathrebu gyda'r merched. Yn wir, at dad Tom Ellis yr ysgrifennodd Edwards yn mynegi ei hiraeth amdano yn dilyn ei farwolaeth. Nid yw hynny i ddweud nad ysgrifennwyd y fath lythyr at Annie Ellis, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth o'i fodolaeth. Yn sicr, gwelir lefel o onestrwydd mewn llythyr gan D.R. Daniel at Annie Ellis wrth iddo ddisgrifio dychwelyd i Gefnddwysarn am y tro cyntaf ar ôl angladd Ellis ac effaith ei weld ar deulu Cynlas, 'Wrth gwrs yr oedd fy ymweliad i yn dwyn tón o dristwch drostynt a dywedai Robert [ei frawd] wrthyf drannoeth iw gwedd gyfnewid ar unwaith.' Disgrifia fynd at y bedd, 'Hiraeth trwm oedd arnaf tra yno ond yr oedd ei goffadwriaeth yn sancteiddio yr holl fro. Bum ddwywaith wrthyf fy hunan wrth ei orweddfan ac y mae yno ol gofal tyner ohono ac arwyddnod och serch chwithau.'[794] Eto i gyd, nid yw'r dyfyniadau hyn yn cymharu gyda'r datganiadau emosiynol rhwng Daniel ac Edwards yn eu gohebiaeth yn dilyn marwolaeth Ellis. Heb os nac oni bai, bu i Annie Ellis, D.R. Daniel ac O.M. Edwards rannu profiad hynod chwerw wrth golli Tom Ellis. Daw i'r amlwg yn y bennod hon y bu i'r rhannu hwn ddyfnhau'r cwlwm rhyngddynt yn yr hir dymor. Plethwyd eu profiadau'n sicr a datblygwyd ymrwymiad clir rhyngddynt, ond ni ellir datgan eu bod wedi torri pob confensiwn disgwyliedig o ran gender.

Mae gohebiaeth D.R. Daniel ac Annie Ellis yn ogystal â chynnwys ei ddyddiadur yn awgrymu bod y ddau wedi ymdrechu i gynnal eu cyfeillgarwch yn dilyn marwolaeth Ellis. Roedd Annie wedi bod yn awyddus i Daniel weld mab Ellis gan iddi hi ysgrifennu ato yn nodi ei bod

[794] LlGC Ellis 3011, D.R. Daniel at Annie Ellis, 9 Tachwedd 1899.

hi a'i chwaer yn aros yn agos at ei gartref ac roedd hi eisiau iddo weld Tom bach.[795] Yn ei dro, disgrifia Daniel ei gyfarfod â Thomas Iorwerth Ellis am y tro cyntaf mewn nodyn ym mlaen ei ddyddiadur, a hynny ynddo'i hun yn awgrymu pwysigrwydd y digwyddiad ar 19 Mai 1902:

> *For the first time Ths Iowerth. Dear Toms little boy was brought here for the first time by his mother. This was the first day for him to wear* <u>*kilts*</u> *a bony boy. Strong and healthy looking full of resolution. I enjoyed his childish prattle much. The Cardigan dialect was very funny and interesting he bears a strong resemblance to the Brynbwlan* [cartref ewythr Tom Ellis]. *He got hold of the salt cellar on the table and helped himself to a spoonful! Did not cry His hands and nails are like Tom's. He is 2 ½ years today. I overheard him saying while kicking a leaf "Dalen yn Fourcrosses". How glad his dear father would have been to bring his son to my house for the first time. I felt a great longing for one who for 30 years was more to me than a brother.*[796]

Gwelir cyfeiriad clir felly at y rhwym hynny rhwng Daniel ac Ellis, a chymaint yr oedd wedi golygu iddo gael cwrdd â mab ei hen gyfaill. Cadarnhawyd hyn yng nghorff y dyddiadur gan yr ysgrifennodd, *'To day* <u>*Thomas Iorwerth*</u> *the son of my dear old friend Tom was brought here by his mother – what thougts.'*[797] Dyma gymysgedd teimladau felly, balchder llwyr i gwrdd â mab Tom Ellis, ond hiraeth am ffrind yr oedd ei hun yn ei ddisgrifio yn fwy na brawd iddo.

Ceir cyfeiriadau eraill gan D.R. Daniel at gyfarfod â mab a gwraig Ellis a disgrifiadau digon gonest o Thomas Iorwerth. Disgrifia'r bachgen yn ymddwyn yn '*rather outrageously in chapel today!!'* yn ystod priodas Winifred Ellis[798] yn 1903 ac yn 14 oed yn mynd i Lundain at y deintydd,

---

[795] LlGC Daniel 1047, Annie Ellis at D.R. Daniel, 13 Mehefin 1902.
[796] LlGC Daniel 524, Dyddiadur D.R.Daniel 1902, 'Memoranda.'
[797] Ibid., 19 Mehefin 1902.
[798] Priododd Winifred Ellis â Harry Davies, Ustus Heddwch, yng Nghefnddwysarn gyda'r brecwast yng Nghynlas.

pan yr ystyriodd Daniel ef i fod yn *'talented but peculiar in his ways.'*[799] Wrth iddo dyfu'n hŷn, ysgrifennodd Daniel at Annie ar ei lwyddiant mewn arholiadau yn 13 oed gan ddweud, 'Llawenydd digymysg oedd darllen eich cerdyn a deall fod Tom wedi gwneud mor dra-rhagorol.'[800] Roedd y cwlwm annatod o ran cyfeillgarwch wedi parhau y tu hwnt i farwolaeth gyda Daniel yn chwarae rhyw ran yn uned deuluol ehangach Ellis wrth iddo ddangos diddordeb yn natblygiad ei fab. Yn wir, pan ddaeth Daniel yn daid yn 1916, anfonodd gweddw Ellis, a oedd bellach yn briod â'r Parch Peter Hughes Griffiths,[801] gwpan arian gydag enw 'Dafydd' arno yn rhodd i'r baban – *'once the wife of my dearest friend Tom. She says I know so well what his wishes would have been in this matter.'*[802] Ysgrifennwyd y llythyr olaf sydd wedi goroesi gan Daniel at weddw ei ffrind oddi ar fwrdd yr *Aquitania* yn 1919 wrth i Daniel a'i deulu hwylio i America. Roedd Annie bellach yn briod gyda'i hail-ŵr ac mae'r ffaith yr egyr gyda'r geiriau 'Anwyl gyfeillion' yn awgrymu bod eu cyfeillgarwch wedi ymestyn i gynnwys y gŵr newydd. Yn wir, mae Daniel yn cloi'r llythyr gyda, 'Gobeithio y cewch bob happusrwydd a llawer lés.'[803]

Ceir awgrym o lefel o agosatrwydd yn ogystal rhwng O.M. Edwards a gwraig Tom Ellis yn dilyn ei farwolaeth yn ogystal. Ysgrifennodd ef ati yn 1913 yn nodi ei siom nad oedd modd iddynt gwrdd oherwydd ei waith. Ymhellach, ceir mewnwelediad gonest iawn i'w berthynas gyda'i fam, a oedd newydd farw, wrth iddo ddweud, 'gwna colli mam lawer o wahaniaeth, - mae y dyfodol, rywsut, yn mynd yn llawnach o swn ystormydd. Rhyfedd fel yr edrychir ar fam fel cysgod ac amddiffynfa hyd yn oed pan fo hi'n hen ac yn wan.'[804] Ymhellach, ymatebodd gyda brwdfrydedd i ddyweddiad a phriodas Annie Ellis a Peter Hughes Griffiths yn 1916. Dywedodd ei fod 'yn teimlo'n llawen iawn.' Ond y geiriau nesaf

---

799 LlGC Daniel 526, Dyddiadur D.R. Daniel 1903, 22 Ebrill 1903 & Daniel 537, Dyddiadur D.R. Daniel 1913, 1 Mai 1913.

800 LlGC T.I. Ellis A212, D.R. Daniel at Annie Ellis, 1 Gorffennaf 1913.

801 Roedd y Parch Peter Hughes Griffiths (1871-1937) yn weinidog gyda'r Methodistaid Calfinaidd yn Charing Cross, Llundain.

802 LlGC Daniel 539, Dyddiadur D.R. Daniel 1917, 29 Ionawr 1917.

803 LlGC T.I. Ellis A213, D.R. Daniel at Annie Ellis a Peter Hughes Griffiths, 17 Ebrill 1919.

804 LlGC T.I. Ellis A242, O.M. Edwards at Annie Ellis, 20 Chwefror 1913.

sydd yn awgrymu bod perthynas ddyfnach wedi goroesi rhyngddynt a'u bod wedi trafod ei phryderon ar rai adegau:

> Gwn yn dda am eich unigrwydd a'ch pryder am ddadblygiad Tom ar y llinellau goreu. Dywedasoch am danynt wrthyf flynyddoedd yn ol; a rhaid fod yr unigrwydd a'r gofal yn mynd yn fwy o hyd.
>
> Yn awr dyma chi wedi cael un yn eich ymyl i gymeryd rhan o'r baich, er cymorth a chysur i chwi eich dau.[805]

Mae'r llythyrau rhwng D.R. Daniel ac Annie Ellis yn arddangos yn glir bod y ddau wedi ymdrechu i gynnal perthynas gyda'i gilydd yn dilyn marwolaeth Tom Ellis. Byddai hi'n mynd â'i mab i ymweld ag ef er mwyn sicrhau parhad math o uned deuluol ehangach. Ymhellach, mae'r ddau lythyr sydd wedi goroesi oddi wrth O.M. Edwards at Annie Ellis yn awgrymu dyfnder posibl y berthynas rhyngddynt hwythau hefyd. Gan gofio swildod ei gymeriad yntau, mae gonestrwydd eu cynnwys yn awgrymu bod cwlwm cyfeillgarwch wedi ei sefydlu yma, er nad oedden nhw o reidrwydd yn cwrdd yn aml. Parhaodd y berthynas rhwng D.R. Daniel, O.M. Edwards ac Annie Ellis yn dilyn marwolaeth Tom Ellis yn 1899 felly. Roedd yr ymlyniad rhyngddynt wedi datblygu o ganlyniad i'w cariad hwy at, a'u perthynas gyda, Tom Ellis. Ond, gellir awgrymu bod yr ymlyniad hwnnw wedi dwyshau yn dilyn rhannu'r sioc a'r galar ar ei farwolaeth.

Er hyn, ni ellir dadlau bod y cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel ac Annie Ellis wedi parhau yn un cadarnhaol ar hyd y cyfnod. Thema amlwg yn y llythyrau rhyngddynt yw'r pwnc o baratoi cofiant i Tom Ellis, rhywbeth sydd hefyd yn gyffredin yn llythyrau Daniel ac Edwards ac wedi cael ei drafod yn fanylach yn y bennod flaenorol. Daw elfen o gydweithio i'r golwg wrth i Annie Ellis rannu rhestr o areithiau Ellis roedd hi'n bwriadu eu cyhoeddi a rhoddodd Daniel gyngor iddi:

---

[805] LlGC T.I. Ellis A243, O.M. Edwards at Annie Ellis, 6 Tachwedd 1916.

> *…I think it most excellent. I believe you have got hold of the heart of the best work he did in the way of public adresses. I am not quite sure you ought not add his memorandum or proof of Evidence before the Welsh Land Commission. That was a very carefully prepared document and has much historic and economic value.* [806]

Wrth ymateb i awgrym Annie o ofyn i'r Arglwydd Rendel[807] i ysgrifennu cyflwyniad, dywed Daniel, *'Personally I believe the volume should be introduced to the public by a brief introduction by* you alone. *I don't want anyone to think for a moment that it is necessary in the case of Tom to base his fame as a public speaker on the performance of anybody besides himself.'*[808] Gwelir y bu i Mrs Ellis wrando ar gyngor Daniel gan iddi gynnwys tystiolaeth Ellis i gomisiwn y tir yn ei chyfrol a hi yn unig ysgrifennodd y rhagair i'r llyfr.[809] Ymhellach, cynigiodd Daniel gefnogaeth bellach wedi i'r llyfr gael ei gyhoeddi gan sicrhau ei fod yn cael ei adolygu a bod cyfeiriadau ato yn ymddangos mewn papurau newydd.[810]

Ond, gweler hefyd y bu i'r ffaith eu bod mor awyddus i amddiffyn y cof am Tom Ellis arwain at densiwn rhwng D.R. Daniel ac Annie Ellis, a theulu Cynlas, ar adegau. Mewn llythyr arall at Annie Ellis yn 1909, nododd Daniel ei fod yn siomedig nad oedd teulu Cynlas wedi dweud wrtho eu bod wedi gwahodd gŵr o'r enw Prys Jones i ysgrifennu cofiant i Ellis:

> *From several points of view I can very easily explain the action of the Cynlas family and I do not complain. No doubt the delay* [mewn paratoi cofiant i Ellis] *– on some considerations unfortunate perhaps – was to them most galling and annoying I can well appreciate their attitude and am therefore perfectly free from any feeling of*

---

806 LLGC T.I. Ellis A211, D.R. Daniel at Annie Ellis, 10 Chwefror 1911.
807 Roedd yr Arglwydd Stuart Rendel (1834-1913) yn ddiwydiannwr a rhyddfrydwr ac yn Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn rhwng 1880 a 1894. Ystyriwyd ef yn arweinydd y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru ar y pryd.
808 LLGC T.I. Ellis A211, D.R. Daniel at Annie Ellis, 10 Chwefror 1911.
809 Gweler Annie Ellis, *Speeches and Addresses.*
810 Gweler LlGC T.I. Ellis 5013-5014, D.R. Daniel at Annie Ellis, rhwng 28 Mawrth 1912 a 30 Mawrth 1912.

*indignation. They might perhaps have informed me of their new plan but one cannot always expect to be treated with polished courtesy; in any case the move has made me now perfectly free from any degree of responsibility to them. I have still remaining a higher responsibility viz to the memory of my old friend.* [811]

Trodd pethau'n ddigon sarrug yn ogystal rhwng D.R. Daniel ac Annie Ellis wrth ystyried y cofiant.[812] Ysgrifennodd Annie Ellis lythyr at J. Herbert Lewis yn 1929 gan ddatgan bod D.R. Daniel yn anodd iawn ei ddeall. Disgrifia ofyn iddo pe byddai'n barod i gydweithio gyda rhywun arall i baratoi'r cofiant, dywedodd y byddai ond yn gwneud hynny ar ei amodau ei hun. Aeth ymlaen i ddweud y bu i'w mab ddweud y byddai R.T. Jenkins[813] fel hanesydd yn ysgrifennu gwell cofiant na D.R. Daniel a oedd bennaf yn newyddiadurwr ac atebodd Daniel, ''Don't talk to me as if I were a schoolboy.''[814] Awgryma hyn fod gweddw Tom Ellis a'i fab wedi siarad lawr at Daniel ac nad oedd ef wedi gwerthfawrogi hyn. Yn dilyn marwolaeth Daniel yn 1931, ceisiodd E. Morgan Humphreys[815] ysgrifennu'r cofiant a chynghorodd J. Glyn Davies ef i gynnig ei enw yntau, ac nid enw gwraig a mab Ellis, wrth geisio cael papurau Daniel gan ei fab, Peredur, 'Ond peidiwch ag enwi Mrs Peter [Hughes] Griffiths. Cerpyn coch i darw i bawb o honom, a'i mab hefyd.' Dyma awgrym o ddrwgdeimlad gwirioedd ar ran Daniel a'i deulu. Roedd Davies wedi awgrymu wrth Annie y dylai hi ysgrifennu at Peredur Daniel i ofyn am y papurau, ond:

> Gwyddai yn eithaf da nad gwiw hyny. Yr oedd hi wedi bod, hi a'i mab, ar ymweliad a DRD ac yn ymbil am yr ysgrifau ar TEE. Ni chafodd mohonynt. Yr oedd DRD yn ei deall. Ac ni fydd dichon newid barn Peredur iddo roddi menthyg yr ysgrifau i neb sydd yn

---

[811] LlGC Ellis 3002, D.R. Daniel at Annie Ellis, 24 Mai 1909.

[812] Gweler J. Graham Jones, 'A Biography for Thomas Edward Ellis', tt. 42-56

[813] Roedd Robert Thomas Jenkins (1881-1969) yn hanesydd Cymreig nodedig a golygydd *Y Bywgraffiadur Cymreig.*

[814] Gweler y dyfyniad yn J. Graham Jones, 'A Biography for Thomas Edward Ellis', t. 46.

[815] Roedd Edward Morgan Humphreys (1882-1955) yn newyddiadurwr rhyddfrydol ac yn awdur Cymreig.

> gweithredu dros Mrs G. Mrs DRD a biau'r ysgrifau ac y mae hithau yn gyndyn.[816]

Yn sicr, mae pwnc y cofiant hwn yn arddangos tensiwn gwirioneddol rhwng gweddw, a theulu Tom Ellis i raddau, a D.R. Daniel blynyddoedd ar ôl ei farwolaeth.

Sut y gellir esbonio'r agwedd hon ar ran Daniel felly? Ddeuddeng mlynedd ar ôl marwolaeth Tom Ellis, yn 1911, gwelwyd cefnogaeth ar ran Daniel i fwriad ei weddw i gyhoeddi llyfr o'i areithiau, ond yn hwyrach, gwelwyd tensiwn gwirioneddol rhyngddynt. Gellir esbonio'r rhwyg hwn yn rhannol gyda'u cariad at Tom Ellis. Roedd y ffaith nad oedd Daniel wedi ysgrifennu cofiant i'w gŵr yn achosi rhwystredigaeth i Annie Ellis gan ei bod am sicrhau bod ei gŵr yn cael ei gofio mewn modd pwrpasol. Ar y llaw arall, rydym eisoes wedi sefydlu bod Daniel yn swil, ac efallai yn brin o'r hyder a'r disgyblaeth i orffen gwaith mor bwysig. Er hyn, roedd ei gariad at ei gyfaill yn golygu nad oedd eisiau trosglwyddo ei weithiau ef i rywun arall gael eu defnyddio. Beth bynnag y rhesymau, roedd yr anghydweld hwn yn fygythiad enfawr i uned deuluol ehangach Annie Ellis a D.R. Daniel.

Er y tensiwn a'r drwgdeimlad posibl, roedd cwlwm dwfn wedi parhau rhwng y ddau, o bosibl yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi rhannu rhwym mor agos gyda'r un dyn – ac wedi rhannu'r galar o'i golli'n ddyn ifanc. Pan fu farw D.R. Daniel yn 1931, ysgrifennodd Annie at Sarah a Peredur Daniel gan ddweud, *'I want you to know how very deeply & sincerely I grieve with you, and for you. I feel that another link with the long ago has snapped – and it was a very strong link too.'* Mae hi'n parhau i ddisgrifio personoliaeth *'arresting and attractive'* D.R. Daniel ac yn dychmygu aduniad yn y bywyd nesaf a'r croeso y byddai Daniel yn ei dderbyn gan Tom Ellis, Thomas Ellis (ei dad), ei brawd hi a nifer o ffrindiau eraill.[817] Dyma lythyr hynod ddiddorol sy'n datgelu'r modd yr oedd Daniel yn parhau yn bwysig iddi

[816] Gweler y dyfyniadiadau yn J. Graham Jones, 'A Biography for Thomas Edward Ellis', tt. 50-51.
[817] LlGC Daniel 2449, Annie Ellis at Sarah a Peredur Daniel, 15 Medi 1931.

oherwydd ei gysylltiad gyda'i gorffennol. Er yr anghydweld rhyngddynt, teimlai hi ymlyniad dwfn iawn gyda Daniel a oroesodd hyd ei farwolaeth. Ymhellach, mae'r modd y mae'n disgrifio Tom Ellis, ei dad a'i brawd hithau'n aros amdano'n ychwanegu at y ddadl o rwydwaith ehangach. Mae cymhlethdod y berthynas rhwng teulu D.R. Daniel a gweddw Tom Ellis yn parhau wrth ystyried y berthynas rhwng y gwragedd yn dilyn marwolaeth D.R. Daniel. Gellir awgrymu bod Annie Ellis wedi dangos diddordeb gwirioneddol yn lles ac iechyd Sarah Daniel. Mae dau lythyr wedi goroesi ati hi gan Mrs Arthian Davies[818] yn 1941 a atodai lythyrau gan y cyfreithiwr J.L.C. Cecil-Williams. Mae Sarah Daniel bellach mewn ysbyty a cheir awgrym cryf nad oedd Peredur yn cefnogi ei fam tuag at ddiwedd ei hoes. Ar 3 Awst 1941, gofynna Mrs Davies a ddylen nhw roi cyfraniadau eraill i gronfa Daniel i helpu talu am ei lle gan fod arian yn mynd yn brin, neu roedd hi'n hapus trosglwyddo'r arian oedd yn weddill i Sarah Daniel a gadael i Peredur gymryd cyfrifoldeb dros ei fam.[819] Dyma fater roedd Annie eisoes wedi trafod gyda'r cyfreithiwr, Cecil-Williams a gadarnhaodd nad oedd Peredur yn ymweld â'i fam, ond roedd ei wraig.[820] Erbyn Awst 1941, credid bod Sarah Daniel ar fin marw ac addawodd Mrs Arthian Davies rannu unrhyw wybodaeth gydag Annie Ellis cyn gynted ag y byddai'n clywed.[821] Yn ôl ei charreg fedd ym mynwent Cefnddwysarn, bu farw Sarah Daniel ar 9 Mai 1945 ond ni wyddwn beth ddigwyddodd iddi wedi 1941. Bu farw Annie Ellis yn 1942. Heb lythyr o'i safbwynt hi, anodd iawn yw deall rôl Annie Ellis yn y gofal dros Sarah Daniel. Ond, yn sicr, gellir awgrymu ei bod wedi dangos diddordeb a chonsyrn ati hyd y diwedd.

Trodd Annie Ellis at D.R. Daniel ac O.M. Edwards gan rannu ei galar yn agored gyda hwy ar ôl marwolaeth Tom Ellis. Bu i'r tri rannu profiad a gafodd effaith hir dymor a phellgyrhaeddiol iddynt oll. Cryfhawyd yr ymlyniad rhyngddynt o ganlyniad i hyn. Er y cwlwm hwn, ceir tystiolaeth i

818 Roedd Mrs C. Arthian Davies yn wraig i William Arthian Davies (1901-1979). Roedd ef yn gyfreithiwr ac yn farnwr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ohebiaeth yn awgrymu bod ganddi ofal dros gronfa ariannol Sarah Daniel.
819 LlGC T.I. Ellis A369, C. Arthian Davies at Annie Ellis, 3 Awst (1941).
820 LlGC T.I. Ellis A369, J.L.C. Cecil-Williams at C. Arthian Davies, 10 Mawrth 1941 & LlGC T.I. Ellis A269, J.L.C. Cecil-Williams at C. Arthian Davies, 28 Gorffennaf 1941.
821 LlGC T.I. Ellis A369, C. Arthian Davies at Annie Ellis, 30 Awst (1941).

awgrymu bod perthynas Annie a D.R. Daniel wedi troi'n sarrug wrth geisio paratoi cofiant i Tom Ellis gyda'r naill ochr yn gwneud sylwadau negyddol am y llall. O bosibl, gellir esbonio hyn gan fod D.R. Daniel ac Annie Ellis wedi ymrwymo i gynnal y cof am Tom Ellis, ond eu bod wedi anghytuno ar sut i wneud hyn. Un peth sy'n sicr, parhaodd y cwlwm rhwng gweddw Ellis a D.R. Daniel hyd y diwedd, gan iddi hi ddatgan ei galar ar ei farwolaeth a chymryd diddordeb yn iechyd ei wraig yn dilyn hynny. Llaciodd y rhwym, ond parhaodd yr ymlyniad.

**D.R. Daniel a phlant ei gyfeillion**

Mae rhai haneswyr bellach wedi dechrau cyflwyno gweithiau sydd yn ffocysu'n llwyr ar rôl dynion fel tadau. Er enghraifft, amlinella Stephanie Olsen ddyletswyddau tadau mewn cyd-destun Cristnogol. Lle y tad dosbarth canol oedd ymddwyn yn dduwiol gan sicrhau datblygiad moesol ei blant. Wrth wneud hyn, mae Olsen yn cwestiynu'r syniad o sfferau ar wahân a'r syniad o dad oedd yn absennol o'r cartref yn gorfforol neu'n emosiynol.[822] Yn ei erthygl, 'Putting Dad in the Picture', mae Johnny Bell yn ystyried y modd yr oedd y cysyniad o'r tad yn cael ei gyflwyno yng nghylchgronau menywod yn ystod y 1950au yn Awstralia gyda'r ffocws yn glir ar y tad fel darparwr. Ond, erbyn diwedd y ddegawd, daw i'r amlwg bod disgwyl i'r tad gynnig llawer mwy na darpariaeth faterol yn unig gan ei fod yn cymryd rhan mwy ymarferol yn y bywyd teuluol.[823] Ymhellach, mae Lynn M. Alexander wedi cydnabod pwysigrwydd ystyried y tad yng nghyd-destun y teulu gan astudio llenyddiaeth a chelf er mwyn darganfod y modd y portreadwyd tadau'r dosbarthiadau gweithiol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[824]

---

[822] Stephanie Olsen, 'The Authority of Motherhood in Question: Fatherhood and the Moral Education of Boys in Victorian England', *Women's History Review,* 18:5 (Rhagfyr 2009), tt. 765-780.

[823] Johnny Bell, 'Putting Dad in the Picture: Fatherhood in the Popular Women's Magazines of 1950s Australia', *Women's History Review,* 22:6 (Rhagfyr 2013), tt. 904-929.

[824] Lynn M. Alexander, 'Labouring Fathers: Parenthood, Class and Gender', *Nineteenth-Century Gender Studies,* 4.3 (Gaeaf 2008), www.ncgsjournal.com.

Yn wir, mae eu gweithiau yn adeiladu ar waith ehangach John Tosh yn *A Man's Place* a Davidoff a Hall yn *Family Fortune*, ar y dyn yn y cartref.[825] Ond, mae lle i ddatblygu'r maes hwn ymhellach. Mae Megan Doolittle wedi galw am astudiaethau pellach o'r teulu a'r angen i gysylltu hanes y teulu gyda hanes gender.[826] Ymhellach, mae Karen Harvey, er enghraifft, wedi galw am fwy o astudiaethau o'r rhan y chwaraeodd dynion o fewn y teulu yn ystod y ddeunawfed ganrif gan fod rôl y dyn yn y cartref wedi ei anwybyddu.[827] Mae'r bennod hon felly yn ymateb i ofynion yr haneswyr hyn gan mai'r cam naturiol nesaf yw ystyried natur perthynas D.R. Daniel gyda phlant ei gyfeillion. Wrth ystyried y gweithiau uchod ar bwysigrwydd moesol y tad a'i bresenoldeb o fewn y cartref, gellir awgrymu bod llythyrau D.R. Daniel a'i gyfeillion yn fodd o ddatgelu bod yr elfen mwy ymarferol a chariadus i rôl y tad yn bodoli ymhell cyn y 1950au. Mae llythyrau Peredur at ei rieni yn cynnig mewnwelediad i'w berthynas gyda Daniel. Byddai'r ddau yn treulio amser yn Llundain gyda'i gilydd tra roedd Sarah Daniel yng Nghymru, byddai Daniel a'i wraig yn cefnogi Peredur yn ariannol wrth iddo deithio'r cyfandir ac roedd Daniel yn hynod o falch pan anwyd mab a merch i Peredur a daeth yntau'n daid i Dafydd a Catrin.[828] Ond, ffocws y bennod yw ystyried y gofal y mae'r dynion hyn yn ei ddangos at blant ei gilydd. Ystyrir beth oedd natur y berthynas rhwng Daniel a phlant Tom Ellis ac O.M. Edwards, yn ogystal â phlant D. Lloyd George. Ymhellach, dyma gyfle i fesur a oedd y dylanwad y byddai Daniel wedi cael drostynt yn beth hir dymor. Beth oedd effaith marwolaeth Tom Ellis a gorweithio O.M. Edwards ar y berthynas rhwng Daniel a'i blant? Ymhellach, a newidiodd y cyfeillgarwch rhwng Daniel a phlant Lloyd George yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf?

Trafodwyd eisoes y modd y bu i Annie Ellis ymdrechu i sicrhau bod ei mab, T.I. Ellis yn cadw mewn cysylltiad gyda chyfaill hynaf ei dad (a fu farw wyth mis cyn ei eni) a'r diddordeb y byddai yntau yn ei ddangos yn

[825] Gweler Tosh, *A Man's Place &* Davidoff & Hall, *Family Fortunes*.
[826] Megan Doolittle, 'Close Relations? Bringing Together Gender and Family in English History', *Gender & History*, 11:3 (Tachwedd 1999), tt. 542–554.
[827] Karen Harvey, 'Men Making Home: Masculinity and Domesticity in Eighteenth-Century Britain', *Gender & History*, 21:3 (Tachwedd 2009), tt. 520–540.
[828] Gweler LlGC 2423, Casgliad llythyrau Peredur Daniel at D.R. Daniel a Sarah Daniel.

natblygiad Thomas Iorwerth. Ymdrechodd Daniel ac Annie Ellis i sicrhau bod rhwydwaith ehangach yn cael ei sefydlu rhyngddynt. Ond, gan gofio nad oedd Daniel wedi meithrin perthynas agos gydag Elin Edwards, nid yw'n syndod na cheir unrhyw dystiolaeth bod cwlwm agos wedi bodoli rhyngddo ef a phlant O.M. Edwards. Yn wir, treuliodd ef ei amser yn Fourcrosses a Llundain tra roedd O.M. Edwards yn Rhydychen a Llanuwchllyn tra roedd y plant yn ifanc. Er hyn, ceir rhai cyfeiriadau at blant O.M. Edwards yn nyddiadur Daniel yn 1921, blwyddyn ar ôl marwolaeth ei ffrind. Disgrifia'r modd y daeth Ifan ab Owen i'r drws ac nad oedd wedi ei adnabod. Bu iddynt dreulio'r noswaith yn trafod ei dad a'i gynlluniau llenyddol i'r dyfodol.[829] Y diwrnod canlynol, galwodd Ifan ab Owen eto a chawsant fwyd. Disgrifia ei fab ef a mab ei hen gyfaill ysgol yn siarad â'i gilydd, '*It took me back 47 years!*'[830] Yn dilyn colli O.M. Edwards, gwerthfawrogodd Daniel y cyfle i ddod i adnabod y mab. Mae'r ffaith bod Ifan ab Owen wedi mynd ato i ofyn iddo ysgrifennu erthygl ar gyfnod plentyndod ei dad yn awgrymu ei fod yn ymwybodol o bwysigrwydd D.R. Daniel fel hen gyfaill i O.M. Edwards ac mai ef fyddai'r person gorau i gwblhau'r dasg hon. Nid oedd perthynas agos wedi bodoli rhwng Ifan ab Owen a D.R. Daniel, ond roedd lefel yr ymlyniad rhyngddo ef ac O.M. Edwards yn golygu ei fod yn amhosibl i Ifan ab Owen beidio â gwerthfawrogi pwysigrwydd y berthynas i'w dad.

Yn yr un modd, ceir cyfeiriad yn nyddiadur Daniel at fynd i dŷ David Hughes Parry,[831] a'i wraig, Haf, merch O.M. Edwards yn 1925 pan y disgrifiodd y sefyllfa od o gael ei ddiddanu gan ferch ei ffrind ysgol bum mlynedd ar ôl ei farwolaeth.[832] Er nad oedd Daniel yn agos at blant ei gyfaill, mae'r cyfeiriadau hyn yn dangos gwerthfawrogiad o gael ffurfio math o berthynas gyda hwy. Trafod *Cymru* a'r erthyglau a ysgrifennodd Daniel am ei dad wna Ifan ab Owen Edwards yn y llythyrau sydd wedi

---

[829] LlGC Daniel 544, Dyddiadur D.R. Daniel 1921, 10 Ionawr 1921.
[830] Ibid., 11 Ionawr 1921.
[831] Roedd Syr David Hughes Parry (1893-1873) yn fargyfreithiwr a darlithydd yn y gyfraith. Cymerodd ddiddordeb mawr mewn materion Cymreig ac roedd yn gefnogol iawn i'w frawd yng nghyfraith, Ifan ab Owen, a'i waith gyda'r Urdd.
[832] LlGC Daniel 548, Dyddiadur D.R. Daniel 1925, 19 Gorffennaf 1925.

goroesi ganddo ef at Daniel. [833] Anogaeth llwyr a dderbyniodd gan D.R. Daniel a nododd, ‘Fel y cyfeiriwch yn gynil y mae’r gorchwyl yn awr yn llawer anhawddach nag y bu i’ch tad erioed. Y mae’n dda genyf ganfod fod ynoch ddigon o wroldeb i wynebu hyn oll’.[834] Gellir awgrymu bod rhwydwaith ehangach, er llac, wedi datblygu yn ogystal gan yr oedd D.R. Daniel a’i wraig wedi sefydlu cyfeillgarwch gyda gŵr Haf, Syr David Hughes Parry tra yr oedd yn byw yn Llundain yn hyfforddi gyda’r Gwasanaeth Sifil. Ysgrifennodd Parry yn ei hunangofiant ei fod yn aml yn galw ar Mr a Mrs Daniel ar nos Sadwrn a ‘Cefais aml i sgwrs a stori ddiddorol a charedigrwydd mawr gan Mr. a Mrs. Daniel.’[835] O ganlyniad, ceir llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 1929 oddi wrth Haf at D.R. Daniel, naw mlynedd ar ôl marwolaeth ei thad. Awgrymir bod hoffter ganddi at Daniel a’i wraig. Ar ôl clywed am ei salwch hi, ysgrifennodd Haf, ‘Yr oeddym wedi clywed o Deullwyn am waeledd Mrs Daniel ac yn poeni yn arw drosti hi a chwithau… Cofiwch fi a Dafydd yn garedig iawn at Mrs Daniel a boed iddi wellhad buan, a gyda phob cofion gore atoch chwithau’.[836] Nid oedd Ifan a Haf wedi rhannu profiadau gyda D.R. Daniel yn ystod eu plentyndod ac felly ni ellir trafod uned deuluol ehangach yn yr un modd ag y gwelwyd rhwng Daniel a theulu Cynlas. Ni fyddai D.R. Daniel wedi cael dylanwad hir dymor ar blant Edwards. Eto i gyd, mae’r parch roedd gan Ifan ab Owen at D.R. Daniel fel hen gyfaill i’w dad, y cyfeillgarwch ddatblygodd rhwng Haf a Daniel a’i falchder ef yn cael dod i adnabod plant ei ffrind yn awgrymu bod math o rwym llac rhyngddynt.

Unwaith yn rhagor, mae troi at yr ohebiaeth a’r papurau’n ymwneud â pherthynas D.R. Daniel a Lloyd George yn cyfoethogi’r astudiaeth hon. Serch y rhwym cryf a fodolai rhwng Daniel, Ellis ac Edwards, ac a ymledodd i raddau i gynnwys eu gwragedd, ni ellir dweud yn glir ei fod wedi cyrraedd y plant, er yr ymdrech ar ran Annie Ellis i sicrhau hyn yn ystod plentyndod Thomas Iorwerth. Gan fod Daniel a Lloyd George wedi eu

---

[833] Gweler LlGC Daniel, 981-984, Ifan ab Owen Edwards at D.R. Daniel, rhwng 6 Gorffennaf 1920 a 19 Mai 1921.
[834] LlGC Papurau O.M. Edwards CJ2/2/37, D.R. Daniel at Ifan ab Owen Edwards, 7 Gorffennaf 1920.
[835] David Hughes Parry, *O Bentref Llanaelhaearn i Ddinas Llundain*, t. 67.
[836] LlGC Daniel 2415, Haf Edwards at D.R. Daniel, 1 Tachwedd 1929.

lleoli yn Llundain ar yr un pryd, gwelir tystiolaeth gref bod eu rhwydwaith teuluol hwy wedi ymestyn i gynnwys y plant ar lefel ddyfnach tra roeddent yn ifanc. Pan yn trefnu taith i'r Swistir, roedd Lloyd George yn ymddiried yn Daniel i ddychwelyd adref yn gynt nag ef gyda'i ferch, Mair, yn ei ofal.[837] Ar adegau gwahanol, disgrifia Daniel yn ei ddyddiadur Gwilym Lloyd George yn dod i de, Margaret Lloyd George a Richard yn galw a gadael Megan a ffrind iddi yno am y prynhawn a chael bwyd a sgwrs hir gydag Olwen Lloyd George.[838] Gyda Megan, y plentyn ieuengaf oedd yr ymlyniad amlycaf o'r hyn sy'n ymddangos yn nyddiaduron D.R. Daniel. Disgrifia Olwen a Megan yn dychwelyd i Lundain o Gymru gydag ef ar y tren a Megan fach yn hynod ddoniol wrth fynd i'r cerbyd cinio.[839] Disgrifia'r teulu George yn symud i 11 Stryd Downing a Margaret Lloyd George, Olwen a Megan yn ymweld ag ef yn ei swyddfa, *'Mrs G. says that Megan's chief point in coming to No 11. Downing St is that she can from there 'go herself' to Mr Daniel's office'.*[840] Roedd Megan o ddeutu tair oed ar y pryd. Ar adegau eraill, disgrifia *'little Megan'* yn rhedeg draw ato gyda gwas i ddweud bod crempog ar gael a'i fod wedi mynd i Stryd Downing ati i gael cinio, yn ferch chwe oed, tra roedd ei rhieni yng Nghymru. Roedd wedyn wedi mynd â hi adref gydag ef. Dywedodd ei bod yn mynd yn fwy clyfar pob dydd.[841] Ymddangosa'r dyfyniadau hyn yn ystod yr un flwyddyn sy'n dangos bod Daniel wedi chwarae rhan ym mywyd dyddiol merch fach ei ffrind tra roedd hi'n ifanc. Nid yw'r cyfeiriadau mor gyson wrth iddi dyfu'n hŷn ond, dyma ddisgrifiadau hynod sy'n atgyfnerthu'r syniad bod Daniel yn rhan wirioneddol o fywyd teuluol Lloyd George. Gellir awgrymu bod Lloyd George yn annog ac yn gwerthfawrogi hyn. Mewn llythyr at ei wraig yn 1910, disgrifia Daniel ofalu am Megan gan fynd â hi am dro gyda'i morwyn i weld cerflun gan Goscombe John. Wrth gasglu Megan, a oedd yn bum oed, roedd y Canghellor wedi dweud, 'Yr ydych yn mynd i gymeryd gofal y <u>pwt</u> bach yma rwyn deall mae yn dda genyf eich bod yn mynd yr

[837] LlGC Daniel 530, Dyddiadur D.R. Daniel 1907, 23 Mehefin, 1907.
[838] LlGC Daniel 533, Dyddiadur D.R. Daniel 1909, 21 Tachwedd 1909; LlGC Daniel 534, Dyddiadur D.R. Daniel 1910, 14 Ionawr 1910 & LlGC Daniel 536, Dyddiadur D.R. Daniel 1912, 24 Medi, 1912.
[839] LlGC Daniel 532, Dyddiadur D.R. Daniel 1908, 28 Ionawr 1908.
[840] Ibid., 11 Mai 1908.
[841] Ibid., 15 Hydref 1908 & 14 Tachwedd 1908.

ydych yn garedig iawn'.[842] Dyma awgrym o berthynas arbennig rhwng D.R. Daniel a Megan Lloyd George sydd yn sicr yn cyfoethogi'r gweithiau hanesyddol ar rôl y tad yn y cartref. Dyma awgrym o ofal tadol ar ran D.R. Daniel tuag at blentyn ei gyfaill.

Mae'r ohebiaeth rhwng Daniel a phlant ei gyfeillion, a'r cyfeiriadau atynt yn ei ddyddiadur yn atgyfnerthu'r angen am ddealltwriaeth ehangach o'r syniad o deulu fel ag y nodir yn yr hanesyddiaeth. Yn sicr, ni ellir cyffredinoli ynghylch y berthynas rhwng D.R. Daniel a phlant ei gyfeillion – gydag amgylchiadau'r tadau'n effeithio'n fawr ar natur y berthynas rhwng Daniel a'r plant. Gan gofio dyfnder yr ymlyniad rhwng Daniel ac Ellis, sicrhaodd Annie Ellis bod D.R. Daniel yn cael mynediad at brofiadau Thomas Iorwerth wrth iddi ei fagu ar ei phen ei hun yn dilyn marwolaeth ei gŵr. Ond, yn naturiol, nid oedd rhwym rhwng Daniel a mab ei ffrind mor ddwfn â phe bai Ellis wedi byw. Ymellach, mae llawenydd Daniel ar gael y cyfle i ddod i adnabod plant O.M. Edwards yn dilyn ei farwolaeth yn arddangos y modd yr oedd yn gwerthfawrogi sefydlu'r rhwydweithiau ehangach hyn. Ni fyddai wedi dylanwadu arnynt yn yr hir dymor ond roedd hoffter yn bodoli ar y ddwy ochr yn seiledig ar ddyfnder y rhwym rhwng D.R. Daniel ac O.M. Edwards. Dylanwad uniongyrchol Daniel ar fywyd dyddiol Megan Lloyd George, a'i brodyr a'i chwiorydd, sydd mewn gwirionedd yn cyfoethogi dadl y bennod hon. Byddai'n gofalu amdanynt, a Megan yn benodol, am gyfnodau heb bresenoldeb eu rhieni. Yn wir, cymaint oedd dyfnder y cysylltiad rhyngddynt, parhaodd eu perthynas y tu hwnt i gyfeillgarwch Daniel gyda'u tad fel ag y trafodwyd yn y bennod flaenorol.

Mae lle i fesur beth oedd dylanwad hir dymor Daniel ar blant ei gyfeillion mewn mwy o fanylder. Trafodwyd eisoes na fyddai wedi cael dylanwad uniongyrchol ar blant O.M. Edwards, ond, diddorol yw nodi nad yw Olwen na Richard Lloyd George yn cydnabod cyfeillgarwch Daniel a'r teulu yn eu bywgraffiadau o'u tad.[843] Cyfaill i'w rhieni ydoedd, ac er i'w perthynas

---

[842] LlGC Daniel 2419, D.R. Daniel at Sarah Daniel, 12 Hydref 1910.
[843] Gweler Carey Evans, *Lloyd George was my Father* & Richard Lloyd George, *Lloyd George*.

barhau y tu hwnt i'r Rhyfel Byd Cyntaf, ni oroesodd yn yr hir dymor. Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer ei herthygl fywgraffyddol ar Daniel, ysgrifennodd K.W. Jones–Roberts at Megan Lloyd George yn gofyn iddi am ei hatgofion o D.R. Daniel. Ei hymateb oedd ei bod â diddordeb mawr i glywed bod K.W. Jones-Roberts yn ysgrifennu am Daniel:

> *He was, of course, as you say, a very old friend of my father's, and I shall be very glad to have an opportunity of talking to you about him. Quite frankly, however, I only remember him from my childhood, and I am afraid that my recollections are very hazy and would not contribute much. On the other hand, perhaps my sister, Olwen would be able to tell you more about him.*[844]

Er y disgrifiadau o Daniel yn treulio amser gyda hi tra'n ifanc, ni chafodd ddylanwad hir dymor arni. Deg oed fyddai Megan yn 1915 pan y credir daeth cyfeillgarwch Daniel a Lloyd George i ben ac er i'r berthynas rhwng Margaret Lloyd George, ei phant a'r teulu Daniel barhau, nid oedd y cwlwm mor glos fel y mae geiriau Megan yn ei awgrymu. Ateb digon gonest gafodd K.W. Jones- Roberts i'w hymholiadau gan T.I. Ellis a ddywedodd 'Y mae arnaf ofn nad oes gennyf fawr o atgofion personol am D.R. Daniel. A bod yn gwbl onest, nid oedd gennyf gymaint â hynny o feddwl ohono. Dichon fod plentyn yn gallu mesur cymeriad; fodd bynnag, ni chynhesais ato erioed. Dywedaf hynny ar y cychwyn!'[845] Awgryma hyn nad oedd Daniel wedi dylanwadu ar fab ei ffrind gorau. Dyma atgyfnerthu cymhlethdod y pwnc. Yn sicr, roedd math o rwym rhwng plant ei gyfeillion a D.R. Daniel oherwydd dyfnder yr ymlyniad rhwng y tadau. Gellir trafod rhwydweithiau ehangach gan fod math o berthynas wedi ei meithrin rhwng Daniel a phlant ei dri chyfaill. Eto i gyd, ni ellir cyfeirio at uned deuluol ehangach, fel ag y gwelwyd rhwng Daniel a theulu Cynlas. Heb barhad perthynas agos rhwng Daniel a'r tadau, ni fyddai wedi rhannu profiadau gyda'r plant ac roedd hyn yn allweddol er mwyn sicrhau dylanwad hir dymor Daniel dros blant Ellis, Edwards a Lloyd George.

---

844 ASF Z/DCS/239, Megan Lloyd George at K.W. Jones-Roberts, 12 Mawrth 1965.
845 ASF Z/DCS/226, T.I. Ellis at K.W. Jones-Roberts, 5 Ebrill 1960.

**Perthynas y gwragedd**

Er mwyn cynnig dadansoddiad cyflawn o'r modd y bu i gyfeillgarwch Daniel a'i gyfeillion ddylanwadu ar eu teuluoedd, trown nawr i ystyried yn fras y math o berthynas a ddatblygodd rhwng gwraig Daniel a gwragedd ei ffrindiau. Mae rhai haneswyr wedi dechrau ystyried rhwydweithiau benywaidd, a chryfder y rhwym rhyngddynt. Mae Sue Atkinson a Shurlee Swain wedi ystyried pwysigrwydd rhwydweithiau benywaidd y teulu ehangach yng nghymunedau Koorie Victoria, Awstralia. Maent yn disgrifio'r modd yr oedd y menywod wedi cymryd rôl mamau i blant ei gilydd wrth i Ewropeaid fygwth eu traddodiadau a cheisio lledu'r gred Gristnogol. Goroesodd y gymuned hon felly o ganlyniad i gryfder y gymuned deuluol ehangach.[846] Fel y dywedasant, *'A web of interconnections runs from the individual through the extended family to the wider community with the result that a high percentage of the local community is considered as kin.'*[847] Yn yr un modd, mae Ellen Ross wedi ystyried y rhwydweithiau cadarn rhwng cymdogion dosbarth gweithiol benywaidd yn Llundain cyn y Rhyfel Byd Cyntaf ble byddent yn gofalu am blant ei gilydd, yn sicrhau safonau o fewn y cartrefi, yn estyn cymorth i'w gilydd ac yn cadw golwg ar ymddygiad y dynion o fewn y gymdeithas.[848] Y rhwym rhwng menywod yw ffocws erthygl Sandra Stanley Holton yn ogystal wrth iddi ystyried mudiad benywaidd o fewn cymuned y Crynwyr wrth iddynt ddechrau ymgyrchu am hawliau menywod ym Mhrydain yn ystod y 1860au. Ystyria'r erthygl y rhwydweithiau gwleidyddol a domestaidd a'r modd y byddai'r menywod hyn yn cynnal y rhwydweithiau rhyngddynt trwy lythyru.[849]

---

846 Sue Atkinson & Shurlee Swain, 'A Network of Support: Mothering Across the Koorie Community in Victoria, Australia', *Women's History Review,* 8:2 (Rhagfyr 1999), tt. 219-230.

847 Ibid., t. 224.

848 Ellen Ross, 'Survival Networks: Women's Neighbourhood Sharing in London Before World War I History', *Workshop Journal,* 15 (Gwanwyn 1983), tt. 4-27.

849 Sandra Stanley Holton, 'Kinship and Friendship: Quaker Women's Networks and the Women's Movement', *Women's History Review,* 14:3&4 (Gorffennaf 2005), tt. 365-384.

Yn yr un modd, mae haneswyr wedi ystyried pwysigrwydd llythyru rhwng menywod er mwyn cadw eu cyfeillgarwch yn fyw. Disgrifia Simon Hodson bwysigrwydd llythyru cyson er mwyn cynnal rhwydweithiau benywaidd ar lefel deuluol. Canolbwyntia ar y llythyru rhwng Louise de Coligny, tywysoges Orange a'i llys ferched gan arddangos dylanwad Louise yn dilyn eu priodasau gwleidyddol.[850] Dyma thema sy'n gyffredin yn erthygl Charmian Cannon ar y llythyrau rhwng ei nain a'i brodyr a'i chwiorydd rhwng 1902 a 1943. Datgela'r modd y bu'n rhaid i Peg (ei nain) a'i merched ddelio gyda'r newidiadau anferthol ddaeth yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf a cholli aelodau gwrywaidd o'r teulu. Gwelir y modd yr oedd y llythyru cyson yn cynnal y teulu a'r modd y bu i'r menywod hyn uno er mwyn sicrhau parhad yr uned deulol.[851] Adeiladu ar gynnwys y gweithiau hyn a wneir yma gan ystyried y modd y bu i'r cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards, yn ogystal â D. Lloyd George, arwain at gyfathrebu rhwng y gwragedd. Dyfnder a natur y berthynas rhyngddynt yw ffocws y ddadl yma. Cwestiwn allweddol yw i ba raddau yr oedd eu cyfeillgarwch yn ddibynnol ar berthynas y dynion? Ymhellach, ystyrir a oedd modd gwahaniaethu rhwng y perthnasau gwahanol. Er enghraifft, roedd Sarah Daniel wedi treulio cyfnod yn byw yn Llundain yn agos i Margaret Lloyd George, ond ni fyddai wedi gweld Elin Edwards yn gyson yn ystod eu bywydau priodasol er dyfnder yr ymlyniad rhwng eu gwŷr.

Gan gofio'r drafodaeth ynghylch perthynas D.R. Daniel ag Elin Edwards, nid yw'n syndod na feithrinwyd cyfeillgarwch agos rhwng ei wraig, na chwaith Annie Ellis, ag Elin Edwards. Yn wir, ceir awgrym mewn llythyr at ei darpar ŵr nad oedd Elin Edwards yn rhy hoff o Sarah Daniel. Roedd hi o'r farn bod Mrs Daniel 'yn un reit garedig, ond go arw am feddwl ei hunan uwchlaw pawb ydi hi, a dim rhyw air da i neb ond ei ffrindie, a ddim i'r rhai hyny os na fyddant yn gwneyd digon o honi.'[852] Er hyn, mae'r unig lythyr

[850] Simon Hodson, 'The Power of Female Dynastic Networks: A Brief Study of Louise de Coligny, Princess of Orange, and her Stepdaughters', *Women's History Review,* 16:3 (Gorffennaf 2007), tt. 335-351.
[851] Charmian Cannon, 'Peg's War: A Story Told Through Letters', *Women's History Review,* 22:4 (Awst 2013), tt. 591-606.
[852] Elin Edwards at O.M. Edwards, 30 Hydref1890 yn Hazel Walford Davies, *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards,* t. 137.

sydd wedi goroesi oddi wrth Elin Edwards at Sarah Daniel yn dilyn marwolaeth ei merch, Gwenllian, yn dangos lefel o ofal a chonsyrn:

> Yr oedd yn ddrwg iawn iawn gennym weled yn y "Seren" yr wythnos ddiweddaf eich bod wedi colli eich geneth bach chwe mis oed. Gwaith anhawdd ydyw dioddef colli plentyn ym mha oedran bynnag y bo onide, cawsom ninnau fel y gwyddoch brofiad chwerw o hono flwyddyn i fis Mawrth yma, fel nad anghofiwn o byth. Gallwn felly yn hawdd gydymdeimlo â chwi sydd yn yr un brofedigaeth a ninnau.

Parha gan ysgrifennu eu bod yn bwriadu dychwelyd i Lanuwchllyn adeg y Pasg ac yr hoffai weld Sarah, D.R. Daniel a Peredur pe byddent yn mynd i Landderfel. Gorffenna gyda'r geiriau 'Mae Ifan gennym ninnau eto a diolch am dano. Ein cofion serchog atoch eich tri, a'n cydymdeimlad dyfnaf.'[853] Golyga ddiffyg ffynonellau pellach nad oes modd cynnig trafodaethau ehangach ar berthynas y ddwy. Ond, gellir awgrymu mewn cyfnod o alar a phoen bod Elin Edwards yn teimlo'r angen i estyn allan at wraig hen gyfaill ei gŵr er mwyn ceisio ei chysuro wrth iddi brofi'r un profiad chwerw a hithau.

Thema tebyg sydd yn yr unig lythyr sydd wedi goroesi gan Elin Edwards at Annie Ellis ar enedigaeth ei mab wyth mis ar ôl marwolaeth ei gŵr:

> *We were so glad to hear that you have a little son. We know from experience how the company of a little one drives away all anxieties and sorrow, - & so we were doubly glad to hear the good news yesterday.*

[853] LlGC Daniel 2420, Elin Edwards at Sarah Daniel, 13 Chwefror 1898.

> *I cannot tell you how delighted all in the neighbourhood of Bala are. We wish him a long life, & we know how well loved he will be for his father's sake.*[854]

Er na ellir datgan bod cyfeillgarwch dwfn rhwng Elin Edwards ac Annie Ellis, gellir awgrymu bod rhannu profiadau dwys o alar ac yna geni plentyn wedi dod â hwy ynghyd wrth i Elin estyn allan at Annie. Un llythyr pellach sydd wedi goroesi oddi wrth Annie Ellis at Elin yn 1903 yn diolch iddi am, ond yn gwrthod, ei gwahoddiad iddi hi a'i mab aros gyda nhw.[855] Atgyfnertha hyn felly'r awgrym o rywdwaith llac rhwng y menywod, a'r teuluoedd, yn dilyn marwolaeth Tom Ellis. Yn sicr y dynion oedd y rhwym rhwng y menywod. Mewn cyfnod o alar, a llawenydd ar ôl galar, ni fedrai Elin Edwards anwybyddu dioddefaint Sarah Daniel ac Annie Ellis. Ni cheir tystiolaeth o lythyru rhwng Sarah Daniel ac Annie Ellis a cheir awgrym o densiwn rhyngddynt dros gofiant i Tom Ellis. Eto i gyd, dangosodd Annie Ellis gonsyrn gwirionedd at Sarah Daniel yn dilyn marwolaeth ei gŵr sydd yn cryfhau'r ddadl bod math o deyrngarwch a chwlwm rhwng y tair menyw.

Mae ystyried cyfeillgarwch Sarah Daniel a Margaret Lloyd George yn ehangu ar ddadl y traethawd hwn. Datblygodd cyfeillgarwch gwrioneddol rhyngddynt. Yn wreiddiol, daethant i adnabod ei gilydd yn sgil cyfeillgarwch eu gwŷr, ond yn sicr datblygwyd perthynas annibynnol rhyngddynt a oroesodd cyfeillgarwch y dynion fel ag a drafodwyd yn y bennod flaenorol. Ystyrir yma beth yn union oedd natur y cyfeillgarwch rhwng y ddwy a'r modd y lledodd hwn i gynnwys cylch ehangach o fenywod yn ogystal â'u plant.

Yn yr un modd ag y sefydlwyd y cyfeillgarwch rhwng eu gwŷr ar gydweithio cyhoeddus, felly hefyd daeth y ddwy wraig i adnabod ei gilydd yn wreiddiol trwy drafod materion ymarferol yn ymwneud â'u gwŷr. Bwriad Margaret Lloyd George wrth ysgrifennu'r llythyr cyntaf sydd wedi goroesi yw diolch am longyfarchion Sarah Daniel ar enedigaeth ei mab, Richard, yn

[854] LlGC Ellis 4813, Elin Edwards at Annie Ellis, 20 Rhagfyr 1899.
[855] LlGC Papurau O.M. Edwards CE4/1/50, Annie Ellis at Elin Edwards, 28 Medi 1903.

1889. Diolchai am yr anrheg a anfonwyd at y plentyn a cheir yr argraff eu bod wedi sefydlu eu perthynas ar ffurf llythyru, *'I thought I should have had the pleasure of knowing you long ago, but something always prevented my coming over there to be introduced to you, but I trust when the fine weather comes I will avail myself of that pleasure.'*[856] I ddechrau, byddai Margaret Lloyd George yn aml yn ysgrifennu i lunio trefniadau ar ran ei gŵr a D.R. Daniel e.e. yn gofyn iddo aros yn yr un lle a Lloyd George tra ym Manceinion neu'n gofyn i Sarah Daniel ysgrifennu at Lloyd George gyda symudiadau ei gŵr er mwyn iddynt aros gyda'i gilydd yn ystod cyfarfod undebau llafur.[857] Roedd y gwŷr hefyd yn rhan o'r cynlluniau i sicrhau bod y teuluoedd yn treulio amser gyda'i gilydd gyda Lloyd George yn gwahodd Daniel a'i deulu atynt i ddathlu Calan â nodyn syml, *'My wife is writing Mrs. Daniel. Tuesday would be a far better day for her to travel up then Wednesday, as the trains will be very crowded on the latter day'* sy'n awgrymu sgwrsio rhwng y cyplau am y trefniadau.[858] Yn yr un modd, ceir enghraifft o D.R. Daniel yn ysgrifennu at Margaret Lloyd George er mwyn trefnu iddi hi a'i theulu i ymweld ag ef a'i wraig yn eu cartref dros Ŵyl y Banc.[859]

Gwelir y modd yr aeddfedodd y berthynas rhwng y ddwy wraig ar hyd y blynyddoedd wrth iddynt lunio eu cyfeillgarwch personol a gwirioneddol eu hunain. Symudodd y ffocws o gefnogi perthynas gyhoeddus, ac yna phersonol eu gwŷr i ofal a gwerthfawrogiad o'i gilydd. Ymatebodd Margaret Lloyd George i salwch difrifol a llawdriniaeth Mrs Daniel yn 1910 gan lythyru gyda hi yn gyson. Yn fwy na hyn, mae hi'n cynnig anfon car neu goets gaëedig i Chwilog i hebrwng Sarah Daniel adref sydd yn dangos ei gofal ohoni.[860] Anfonwyd car i'w chyfarfod o'r tren gyda Margaret Lloyd George yn bwriadu ei chyfarfod yno yn bersonol.[861] Ar achlysur arall, mae

---

[856] LlGC Daniel 2843, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 6 Mawrth 1889.
[857] LlGC Daniel 2844, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 17 Hydref 1895 & LlGC Daniel 2847, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, marc post 1902.
[858] LlGC Daniel 2786a, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 'Saboth.' & LlGC Daniel 2797, D. Lloyd George at D.R. Daniel, 21 Mehefin 1902.
[859] LlGC Brynawelon 20471c (2964), D.R. Daniel at Margaret Lloyd George, dydd Sadwrn (1896).
[860] LlGC Daniel 2866, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 30 Awst 1910.
[861] LlGC Daniel 2868, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 10 Medi 1910.

Margaret Lloyd George yn cydymdeimlo'n uniongyrchol gyda Sarah Daniel ar farwolaeth ei mam ac yn rhannu ei hunigrwydd gan fod ei gŵr i ffwrdd a Megan yn codi ei chalon.[862] Dyma egin awgrym o ofal a rhannu ar lefel mwy emosiynol gan y menywod. Roedd eu perthynas yn datblygu'n annibynnol ar gyfeillgarwch eu gwŷr ac roedd cysylltiad gwirioneddol rhyngddynt oherwydd eu bod yn treulio amser gyda'i gilydd ac yn rhannu profiadau.

Gan gadw mewn cof y gweithiau hanesyddol ar rwydweithiau rhwng menywod, a'r modd y defnyddiwyd llythyrau i gynnal y cysylltiadau hyn, gellir awgrymu bod Sarah Daniel a Margaret Lloyd George wedi ffurfio math o rwydwaith ehangach gyda gwragedd Cymreig eraill yn Llundain. Mae enw Mrs Llewelyn Williams, er enghraifft, yn codi ar achlysuron yn eu gohebiaeth. Anfonodd Margaret Lloyd George at Sarah Daniel ar ran Mrs Llewelyn Williams yn cynnig tocyn sbar i galeri'r merched er mwyn iddi gael mynd gyda hi i Dŷ'r Cyffredin.[863] Ceir enghreifftiau eraill o Margaret Lloyd George yn ysgrifennu cardiau byr yn gwneud trefniadau e.e. bod hi a Mrs Llewelyn Williams am ymweld gyda'i merched, Olwen a Megan Lloyd George.[864] Gellir awgrymu y manteisiwyd ar y rhwydwaith ehanagach hwn er mwyn sicrhau swyddi i ferched o Gymru fel morwynion.[865] Ceir cyfres o lythyrau yn dangos i Sarah Daniel ysgrifennu at Margaret Lloyd George yn disgrifio merch leol a oedd yn chwilio am waith. Ymatebodd Margaret gan ddweud bod menyw o'r enw Mrs Llewelyn Edwards yn chwilio am forwyn ac y byddai'n ei dysgu sut i goginio. Ymhellach, cynigiodd i'r ferch fynd ati hi am rai misoedd er mwyn cael profiad ac er mwyn dysgu Saesneg. I barhau gyda'r thema hon, ceir enghraifft o lythyr gan Annie Ellis at wraig D.R. Daniel, ac felly awgrym o gyfeillgarwch llac, pan yn ysgrifennu i ofyn

[862] LlGC Daniel 2848, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 7 Hydref 1903.
[863] LlGC Daniel 2874, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, stamp 5 Chwefror 1913.
[864] LlGC Daniel 2882, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, (marc post 1906).
[865] Am drafodaeth o brofiadau merched ifainc fel gweision domestaidd Cymreig yn Llundain yn ystod y cyfnod hwn, gweler Mari Williams, ''The New London Welsh': Domestic Servants 1918-1939', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 9 y gyfres newydd 2002 (2003), tt. 135-151.

ei barn ar y forwyn Mary Griffith gan fod Tom Ellis wedi credu ei bod wedi gweithio i'r Daniels.[866]

Heb os, sefydlwyd y berthynas rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George o ganlyniad i'r cydweithio a'r cyfeillgarwch rhwng eu gwŷr a cheir elfennau ymarferol i'w perthynas wrth drafod trefniadau ar ran eu gwŷr. Er hyn, gellir dadlau bod cyfeillgarwch a hoffter gwirioneddol wedi datblygu wrth i Margaret Lloyd George ddangos gofal o'i chyfaill pan yr oedd yn wael yn 1910. Mae'r ffaith bod y menywod hyn yn treulio amser gyda'i gilydd, a phrofi profiadau o ddydd i ddydd gyda'i gilydd, heb eu gwŷr yn awgrymu eu bod wedi creu perthnasau annibynnol ar y dynion. Er hyn, mae cynnwys y llythyrau a'r cyfeiriadau at y byd domestaidd, gan gynnwys apwyntio morynion, yn awgrymu, er yr annibyniaeth yn y berthynas rhyngddynt a'r prawf o rwydweithio ehangach, nad oes modd anwybyddu'r syniadau traddodiadol o rôl menywod y cyfnod hwn.[867] Ni ellir chwaith gyffredinoli ynghylch y berthynas rhwng y gwragedd hyn, gyda'r dystiolaeth yn awgrymu bod Elin Edwards ond wedi estyn at Sarah Daniel ac Annie Ellis i rannu profiadau dwys. Yn sicr roedd ymlyniad rhwng Elin, Sarah ac Annie, ond rhannu profiadau a arweiniodd at y cyfeillgarwch gwirioneddol fu rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George.

**Sarah Daniel, Margaret Lloyd George a'u plant**

Gellir dadlau bod y cwlwm cyfeillgarwch rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George wedi ymestyn i gynnwys eu plant. Dychwelwn at erthygl Sue Atkinson a Shurlee Swain yn benodol nawr gan eu bod yn canolbwyntio ar bwysigrwydd y teulu ehangach er mwyn cynorthwyo i fagu plant a chynnal

---

866 Annie Ellis at Sarah Daniel, 1 Mawrth 1899 yn Mari Ellis, *Y Golau Gwan*, tt. 208-209. Gweler ymateb Annie Ellis yn diolch i Sarah Daniel am ei chymorth yn LlGC Daniel 2420, Annie Ellis at Sarah Daniel, 24 Mawrth 1899.

867 Datblygwyd cyfeillgarwch rhwng Annie Ellis a Margaret Lloyd George yn ogystal. Anodd iawn yw mesur beth oedd dylanwad eu gwŷr yn meithrin y berthynas hon gan fod yr ohebiaeth sydd wedi goroesi rhyngddynt wedi ei ysgrifennu tra roedd Annie Ellis yn briod gyda'i hail ŵr, ond yn sicr roedd mwy o drafodaethau ynghylch gwleidyddiaeth a materion cyhoeddus rhyngddynt nag a welwyd yn llythyrau Sarah Daniel a Margaret Lloyd George. Am drafodaeth fras o'r berthynas hon, gweler John Graham Jones, 'A Letter from Dame Margaret', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 68 (2007), tt. 93-101.

diwylliant.[868] Dyma gysyniad diddorol yng nghyd-destun yr astudiaeth hon. Ni cheir tystiolaeth o berthynas rhwng Sarah Daniel a phlant Tom Ellis ac O.M. Edwards. Unwaith yn rhagor, troir at bapurau D.R. Daniel a Lloyd George i gyfoethogi'r ddadl. Ystyrir y berthynas rhwng plant Lloyd George a Sarah Daniel, a Margaret Lloyd George a Peredur Daniel, er mwyn cyfoethogi'r ddadl hon gan fod y teuluoedd wedi byw yn Llundain yn ystod yr un cyfnod ac felly wedi gweld ei gilydd yn fwy rheolaidd.

Yn 1901 ysgrifennodd Margaret Lloyd George am ei bwriad hi a'i phlant, Mair a Richard i ymweld â Sarah Daniel os oedd y tywydd yn dderbyniol.[869] Ar achlysur arall, sonnir y byddai Margaret Lloyd George yn ymweld â Sarah Daniel gyda Mrs W.G. [ei chwaer yng nghyfraith], Megan ac efallai Olwen gan eu bod eisiau casglu mwyar duon.[870] Yn wir, mewn llythyr o 11 Stryd Downing, ceir awgrym bod Mrs Daniel yn mynd â Megan am dro heb ei mam, 'Yr wyf wedi gwneud camgymeriad. Mae Megan yn engaged ddydd Iau, felly os gellwch ddod iw nhol ddydd Mercher a daw Sarah iw nol adref.'[871] Dyma awgrym felly bod Sarah Daniel wedi meithrin cysylltiad cryf gyda phlant ei ffrind gan awgrymu uned deuluol ehangach am gyfnod o leiaf. Yn wir, byddai plant Lloyd George yn ysgrifennu'n uniongyrchol at Sarah Daniel, e.e.:

> *If I do not hear to the contrary I will come to see you on Wed. Mother may be going down to Criccieth with Gwilym who is home on sick leave.*[872]

> *Many thanks for letter. Yes I think we had better put it off until next Wednesday if you could have us then. I had forgotten all about the dinner too. Hope to see you tomorrow night. Much love. Olwen*.[873]

---

[868] Gweler Atkinson & Swain, 'A Network of Support'.
[869] LlGC Daniel 2846, Margaret Lloyd Goerge at Sarah Daniel, marc post 24 Awst 1901.
[870] LlGC Daniel 2871, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, marc post 11 Medi 1911.
[871] LlGC Daniel 2862, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, dydd Iau, marc post 7 Mawrth 1910.
[872] LlGC Daniel 2894, Olwen Lloyd George at Sarah Daniel, marc post 17 Gorffennaf 1916.
[873] LlGC Daniel 2895, Olwen Lloyd George at Sarah Daniel, dydd Iau, marc post 1925.

Dyma'r bobl ifanc bellach yn gohebu'n ddigon naturiol gyda chyfaill eu mam, gydag Olwen hyd yn oed yn cloi nodyn gyda'r geiriau *'Much love.'* Ceir awgrym o gysylltiad rhwng y teuloedd felly.

Perthynas Margaret Lloyd George gyda Peredur Daniel sydd yn arddangos y syniad o ddylanwad gwragedd dros blant cyfeillion orau ac felly sy'n dwyn cymhariaeth gyda'r gweithiau hanesyddol sy'n disgrifio'r cyd-weithio rhwng menywod o fewn cymunedau gwahanol. Ceir sawl cyfeiriad at gysylltiad Peredur gyda theulu Lloyd George yn y llythyrau oddi wrth Margaret Lloyd George at Sarah Daniel. Roedd Margaret Lloyd George fel pe bai'n sicrhau tawelwch meddwl iddi gan fod Peredur yn Llundain a hithau yng Nghymru:

> *Peredur comes to Clapham Junction almost every Sunday night the children saw him last night & I believe Gwilym has arranged for Peredur & his friend to visit the House this week, I believe that they have tickets for tonight or tomorrow. He is quite happy I think & looks well they tell me.*[874]

Mae llythyrau Peredur at ei rieni yn cyfeirio at dreulio amser gyda Margaret Lloyd George yn Stryd Downing. Ar adegau, byddai'n cyfeirio at leoliad Margaret Lloyd George fel pe bai hynny'n newyddion pwysig iddo ef a'i rieni. Ar un achlysur nododd ei fod yn meddwl ei bod yng Nghriccieth, ond yna cywirodd ei hun gyda nodyn arall gan ddweud ei fod wedi gweld Gwilym, ei mab, oedd wedi dweud wrtho ei bod yn Boscombe.[875] Mewn llythyr at ei rieni yn 1905, disgrifia'r modd y bu iddo glywed bod Margaret Lloyd George yn sâl. Mae manylder y disgrifiad o symudiadau'r teulu Lloyd George yn awgrymu bod ei salwch yn cael math o effaith ar fywyd Peredur:

---

[874] LlGC Daniel 2851, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, nos Lun.
[875] LlGC Daniel 2423, Peredur Daniel at D.R. a Sarah Daniel, heb ddyddiad & LlGC Daniel 2423, Peredur Daniel at Sarah Daniel, 19 Mawrth 1906.

*Mrs Lloyd George was in bed ill & that all the lot of them had been Mr Wm George had been sleeping there on Friday night on his way back from Italy & Gwilym had gone home to Criccieth with him. Mrs George & Mrs Owen had also thought of going but Mrs George became ill. Her temperature last Saturday was not quite 101. Mrs George wanted Mair to tell me to tell you that she had received your letter but illness had prevented her to answer*.[876]

Roedd elfen ymarferol i'r berthynas hefyd gyda Margaret Lloyd Goege yn ymddiried rhai tasgau i Peredur i'w gwneud ar ei rhan. Ar un achlysur, disgifia Peredur y modd yr oedd yn mynd i nôl defnydd i greu llenni ar gyfer Brynawelon, ei chartref yng Nghriccieth. Roedd am fynd â phatrymau draw ati.[877] Mewn llythyr arall, roedd i brisio a dewis cyllyll a ffyrc addas a'u hanfon at ddyn o'r enw Arthur Rhys Roberts a phrisio ac archebu deunydd ar gyfer trim i'w llenni.[878] Roedd hyn i weld yn drefniant eithaf cadarn yn 1910, gyda Peredur yn 21 oed, gan i Margaret Lloyd George hefyd ofyn i Sarah Daniel roi manylion i Peredur am Salver i'w phlant ei roi yn anheg i ewythr ei gŵr ac ysgrifennodd yntau at ei fam, *'I am going to 11 Downing St tonight for Mrs Ll. wants me to call as she wants some more things.'*[879] Dyma awgrymu perthynas rhwng Margaret Lloyd George a Peredur Daniel a oedd yn annibynnol ar y cyfeillgarwch rhyngddi hi a'i fam a'i bod hithau yn manteisio ar gymorth Peredur wrth gyflawni tasgau.

Gwelir gofal Margaret Lloyd George dros Peredur ar ei orau yn y modd y bu iddi hyrwyddo ei yrfa gan brofi unwaith yn rhagor y modd y plethwyd y bydoedd cyhoeddus a phersonol, yn ogystal â'i dylanwad hi yn y sffêr cyhoeddus. Mewn llythyr ato yng Ngorffennaf 1910, mae hi'n sôn ei bod wedi ysgrifennu at Mr C.S. Henry yn trafod ei fod wedi gwneud cais am swydd gyda'i gwmni. Er nad oedd wedi gofyn am gyfweliad iddo, cynghorodd Peredur i ysgrifennu eto os nad oedd yn clywed ganddo yn

---

[876] LlGC Daniel 2423, Peredur Daniel at D.R. & Sarah Daniel, 3 Rhagfyr 1905.
[877] LlGC Daniel, 2423, Peredur Daniel at Sarah Daniel, heb ddyddiad.
[878] LlGC Daniel 2839-2842, Margaret Lloyd George at Peredur Daniel, rhwng 26 Gorffennaf 1910 a diwedd y flwyddyn honno mae'n debyg.
[879] LlGC Daniel 2864, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 29 Mehefin 1910 & LlGC Daniel 2423, Peredur Daniel at Sarah Daniel, 11 Tachwedd 1910.

gofyn am gyfweliad a thynnu sylw at lythyr Mrs Lloyd George.[880] Ymhellach, ysgrifennodd ei gŵr at Syr William Dunn, banciwr nodedig, yn argymell Peredur am swydd pe bai un yn codi.[881] At David Lloyd George ddaeth yr ymateb, sydd yn cynnwys y geiriau:

> *…I note that your friend Mr. D.R. Daniel, of Fourcrosses is anxious to get his son into my London Office. I need not say I have a great number of applicants, but there is no one I would like more to oblige than your good self…*
>
> *I have recorded Mr. Daniel's wish, and when I recover, and return to London I will see what the prospects are of a vacancy, & I will do my very best to make an appointment in favour of Mr. Daniel's Son…*[882]

Dengys y dystiolaeth yn glir felly y modd yr oedd y cyfeillgarwch rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George wedi ffurfio uned deuluol ehangach am gyfnod, a chofleidio Peredur Daniel a phlant Margaret Lloyd George. Byddai'r plant yn dod yn rhan o drefniadau'r mamau a cheir awgrym o rywfaint o annibynniaeth yn y berthynas rhwng y plant a Sarah Daniel gan eu bod yn llythyru gyda hi ac yn trefnu cwrdd. Ond, perthynas Margaret Lloyd George a Peredur Daniel sydd yn arddangos y rhwydwaith teuluol ehangach ar ei orau. Wrth i Margaret a David Lloyd George hybu gyrfa Peredur, gwelir y bydoedd cyhoeddus a phersonol yn plethu unwaith yn rhagor. Yn sicr felly, mae ystyried y cyfeillgarwch rhwng Sarah Daniel, Margaret Lloyd George a'r plant yn cyfoethogi'r ddadl bod rhwydwaith teuluol ehangach wedi bodoli y tu hwnt i gyfeillgarwch D.R. Daniel a Lloyd George. Er hyn, ni ellir gorgyffredinoli. Rhaid cofio nad oedd dylanwad Daniel dros blant ei gyfeillion wedi bod yn beth parhaol ac ni cheir tystiolaeth i awgrymu bod ei wraig wedi cael mwy o ddylanwad.

---

[880] LlGC Daniel 2839, Margaret Lloyd George at Peredur Daniel, 26 Gorffennaf 1910.
[881] LlGC Daniel 2850, Margaret Lloyd George at Sarah Daniel, 12 Medi 1905.
[882] LlGC Daniel 2417, William Dunn at D. Lloyd George, 9 Medi 1905.

Dengys y bennod hon yn glir yr angen i arddangos dealltwriaeth lawer ehangach o'r term 'teulu' er mwyn ystyried unedau a rhwydweithiau ehangach o ffrindiau a theulu. Cyfoethogir y cysyniad hwn o uned ymhellach gan ystyried nad oedd y cysylltiadau rhwng Daniel a theuluoedd ei ffrindiau yn disodli'r ymlyniad a deimlai Daniel at ei deulu ei hun. Yn sicr, mae casgliadau'r bennod hon yn cymhlethu ychydig ar y bydoedd personol gan arddangos nad oedd ffiniau cadarn rhwng profiadau'r dynion wrth i'w rhieni, brodyr a chwiorydd, gwragedd a phlant ddod i chwarae rhan ym mywydau'i gilydd. Eto i gyd, ni ellir cyffredinol yma oherwydd roedd dyfnder yr ymlyniad rhwng unigolion o fewn y rhwydweithiau ehangach yn ddibynnol ar y graddau y bu iddynt rannu profiadau.

Mae'r ohebiaeth rhwng aelodau o deulu Cynlas a D.R. Daniel yn arddangos y modd y bu iddynt ei dderbyn i'w huned deuluol. Yn wir, y rhannu galar sydd yn arddangos dyfnder yr ymlyniad emosiynol rhwng D.R. Daniel, yn ogystal â Robert Evans ac O.M. Edwards, a theulu Cynlas ar ei orau. Ond, er i'r rhwym emosiynol hwn barhau hyd y diwedd, rhaid derbyn mai llacio wnaeth y cwlwm rhyngddynt wrth i Daniel weld llai a llai ar y teulu heb bresenoldeb Ellis. Datblygodd cyfeillgarwch rhwng D.R. Daniel a gwragedd ei gyfeillion yn ogystal. Ond, er bod y perthnasau hyn yn cadarnhau bod y gwragedd wedi dod yn rhan o'u cyfeillgarwch i raddau amrywiol, gwnaed hyn yng nghyd-destun rôl traddodiadol y fenyw yn y cartref yn cefnogi ei gŵr. Y rhannu galar yn dilyn marwolaeth Tom Ellis sydd yn cynnig gwedd newydd ar y llythyru rhwng cyfeillion gwrywaidd a benywaidd orau gydag Annie Ellis yn ysgrifennu'n ddirdynnol o onest at Daniel ac Edwards, a'r berthynas rhyngddynt hwy a hithau yn parhau am flynyddoedd ar ôl rhannu'r profiad hwn. Er y tensiwn rhwng D.R. Daniel ac Annie Ellis dros gofiant Ellis, ac er y pellter rhyngddi ac Edwards, parhaodd yr ymlyniad rhyngddynt ar ryw lefel hyd y diwedd.

Ni ellir cyffredinoli ynghylch dylanwad D.R. Daniel dros blant ei gyfeillion wrth ystyried y rhwydweithiau teuluol ehangach. Ni wnaeth Daniel a phlant Ellis ac Edwards rannu profiadau'n gyson er mwyn meithrin perthynas agos.

Felly, perthynas Daniel gyda phlant Lloyd George, a Megan yn benodol, sydd yn datgelu'r mwyaf am y rhan chwaraeodd Daniel ym mhrofiadau'r plant fel cyfaill i'r teulu. Ond, nid oedd ei ddylanwad ar Megan yn beth hir dymor chwaith gan fod y cysylltiad â hi yn ddibynnol ar ei gyfeillgarwch gyda'i thad. Amhosibl yw cyffredinoli ynghylch y rhwydweithiau rhwng y gwragedd yn ogystal. Nid oedd Elin Edwards mewn cysylltiad cyson gyda gwragedd Ellis a Daniel, ond byddai'n estyn allan atynt mewn cyfnodau pwysig. Yn yr un modd, mae consyrn Annie Ellis dros iechyd Sarah Daniel yn atgyfnerthu'r syniad bod rhwym llac yn bodoli rhwng y tair menyw o ganlyniad i'r ymlyniad dwfn rhwng eu gwŷr. Datblygodd cyfeillgarwch gwirioneddol rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George yn annibynnol ar gyfeillgarwch y dynion ac mae perthynas Margaret Lloyd George a Peredur Daniel yn atgyfnerthu'r syniad hwn o uned deuluol ehangach wrth iddynt dreulio amser yng nghwmni ei gilydd a sicrhaodd hi a Lloyd George ei gynnydd gyrfaol. Dyma ddychwelyd at bwysigrwydd rhannu profiadau er mwyn cynnal y perthnasau hyn. Ni ellir cyffredinoli am y cysylltiadau teuluol rhwng Daniel, Ellis, Edwards a Lloyd George. Ond, yn sicr plethwyd profiadau a chrewyd rhwydweithiau ehangach rhwng y teuluoedd, er fod y rhwymau rhyngddynt yn llac ar adegau.

## CASGLIAD

Mae'r dadansoddiad estynedig hwn o'r ohebiaeth rhwng D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards wedi ehangu'n dealltwriaeth, nid yn unig o brofiadau dynion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed, ond o'u perthynas gyda'i gilydd yn ogystal. Roedd y tri gŵr yn rhan o brofiadau personol a chyhoeddus ei gilydd a'u gohebiaeth yn dystiolaeth o'r cwlwm cyfeillgarwch annatod a oedd rhyngddynt. Gwnaethant ymdrechu i gynnal eu cyfeillgarwch er mwyn sicrhau ei barhad gan droi at ei gilydd am gynhaliaeth emosiynol yn ystod cyfnodau heriol yn eu gyrfaoedd ac yn eu bywydau personol. Cyfoethogir y ddibyniaeth hon gyda'r ffaith bod rhwydweithiau teuluol wedi eu sefydlu, er ar raddfeydd gwahanol, sydd yn atgyfnerthu lefel y cysylltiad rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion ac yn esbonio dyfnder y rhwym a'r ddibyniaeth rhyngddynt. Yn wir, datblygir y gwaith hwn ymhellach gan ystyried perthynas D.R. Daniel a D. Lloyd George. Daethant yn gyfeillion wrth rannu gweledigaeth a chydweithio ar lefel broffesiynol, ond datblygodd y berthynas rhyngddynt yn un hynod bersonol. Eto i gyd, ni oroesodd y cyfeillgarwch hwn o ganlyniad i her y Rhyfel Byd Cyntaf – gyda'r ymlyniad emosiynol yn parhau yn llawer hirach na'r cydweithio proffesiynol.

Mae cyflwyno mewnwelediad i berthnasau gwahanol yn ein galluogi i dynnu casgliadau cyffredinol ynghylch profiadau dynion o gefndir Daniel a'i gyfeillion gan y gellir gwahaniaethu rhwng y cyfeillgarwch yr oedd Daniel wedi ei fwynhau gyda'i gyfeillion ysgol a'i berthynas â Lloyd George. O ganlyniad, cyfranna'r gwaith hwn at yr hanesyddiaeth ehangach ar sawl cyfrif. Down i adnabod rhai o enwogion amlycaf hanes Cymru ar lefel llawer mwy personol drwy ystyried eu gohebiaeth gan ddarganfod beth oedd eu cryfderau a'u gwendidau, a chyflwyno Daniel, Ellis, Edwards, yn ogystal â Lloyd George, mewn modd llawer mwy dynol. Ymhellach, cynigir beirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân yn y modd yr oedd eu profiadau personol a chyhoeddus fel cyfeillion gwrywaidd wedi eu plethu a'u bod yn dewis rhannu ystod eang o brofiadau gyda'i gilydd. Yn bwysicach, gellir esbonio'r rhesymau dros y rhannu hwn gyda dyfnder yr

ymlyniad emosiynol oedd rhwng Daniel a'i ffrindiau, sydd yn datgelu trywyddau newydd o ran yr astudiaeth o wrywdod, a'r modd yr estynwyd eu cyfeillgarwch er mwyn cynnwys eu teuluoedd ehangach.

Mae'r ohebiaeth rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion, a'r llawysgrifau a baratodd arnynt, yn cyflwyno gwedd newydd, mwy dynol a phersonol ar bersonoliaethau arweinwyr mwyaf blaenllaw Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma fewnwelediad i'w cymeriadau o safbwynt dealltwriaeth eu cyfeillion ohonynt a'r modd yr oeddent yn dewis cyflwyno eu hunain i'w gilydd. Mae'r cymeradawyaethau y mae ei gyfeillion yn eu cynnig i D.R. Daniel yn ei ystyried yn ŵr galluog a oedd yn areithiwr talentog, yn drefnydd effeithiol ac yn lenor uchel ei barch. Deallir ei fod yn ddyn hoffus tu hwnt ond ei fod hefyd yn swil iawn ac nid oedd yn hoff o wthio'i hun am swyddi cyhoeddus, nac yn cael ei ysgogi i gyrraedd y brig mewn modd academaidd a phroffesiynol. Ceir awgrym ei fod yn fwy galluog nag Ellis, ond nad oedd ganddo'r hyder, na'r bwriad o bosibl, i gyrraedd ei botensial. Dyma ddatgelu cymeriad dyn a oedd yn ddigon adnabyddus yn ei gyfnod ei hun, ond sydd wedi bod yn gudd, i raddau, yn hanes Cymru. Ar adegau, roedd yn ddibynnol iawn ar gyngor a chefnogaeth ei ffrindiau, a Tom Ellis yn benodol. Mae cynnwys yr ohebiaeth hefyd yn datgelu'r modd yr oedd Ellis yn benderfynol o sicrhau trywydd academaidd a gyrfaol amlwg. Dyma ŵr a wnaeth gynnydd gyrfaol ac a weithiodd yn hynod galed er mwyn cyrraedd ei nod gan ddod yn arweinydd cenedl, ond eto i gyd yn hynod ofalus o D.R. Daniel ac O.M. Edwards. Byddai'n eu harwain ac yn eu tywys gan ddangos brwdfrydedd dros hapusrwydd personol ac anogaeth i sicrhau llwyddiannau cyhoeddus. Gellir awgrymu ei fod yn ddyn annwyl a diffuant a oedd yn agos at ei deulu ac yn gefnogol iawn o'i ffrindiau.

Disgrifir yn ogystal y modd y daeth Edwards yn gyfaill ysgol i D.R. Daniel a Tom Ellis tra yn y Bala. Ei ddawn fel adroddwr straeon a'i ddychymyg rhamantaidd oedd yn taro Daniel ac Ellis. Roedd rhywbeth yn unigryw a swynol amdano. Ond, mae Edwards a Daniel yn agored iawn am y swildod a deimlai O.M. – y swildod a wnaeth ei gyfeillgarwch gyda Daniel ac Ellis

yn fwy gwerthfawr iddo. Yn wir, y swildod hwn a berodd i D. Lloyd George ei ystyried yn ddyn anghymdeithasol nad oedd am ei gefnogi ar gyfer ei swydd fel Prif Arolygwr Ysgolion. Yn wir, personoliaeth Lloyd George sydd yn cynnig y mwyaf o gymhlethdod yn y trafodaethau o gymeriadau'r dynion hyn. I ddechrau, roedd yn ddibynnol ar Daniel a chyfeillion eraill er mwyn sicrhau llwyddiant yn y byd gwleidyddol. Yn y cyswllt hwn, roedd Daniel yn ei dywys ef. Cydnebydd Daniel ei ddawn areithio a cheir awgrym o'i werthfawrogiad o'i gyfeillion. Ond, dyma ddyn penderfynol o gyrraedd y brig ac erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, cred Daniel bod Lloyd George yn tueddu defnyddio ei gyfeillion i'w amcanion ei hun. Dyma'r gwrthgyferbyniad cyntaf y mae'r astudiaeth o'r ohebiaeth rhwng D.R. Daniel a Lloyd George yn ei gynnig i'r traethawd hwn. Siomodd Lloyd George Daniel a chollodd ef ffydd yn ei gyfaill. Daeth eu cyfeillgarwch i ben o ganlyniad, ond parhaodd ymlyniad Daniel, Ellis ac Edwards ar hyd eu hoes.

Mae gwreiddio D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards yng nghyd-destun Cymru eu cyfnod yn rhoi cymorth i ddeall nid yn unig eu hamcanion yn eu gyrfaoedd cyhoeddus, ond hefyd yn esbonio dyfnder eu cyfeillgarwch. Bu iddynt brofi'r un dylanwadau ar yr un pryd wrth dyfu'n ddynion ochr yn ochr â'i gilydd. Gwelir pwysigrwydd y wasg Gymraeg a Chymreig i ledu syniadau radical y dydd, a'r modd y daeth yn fodd o rannu eu syniadau hwythau wedi tyfu'n oedolion. Daeth Tom Ellis o dan ddylanwad uniongyrchol Thomas Gee a lluniodd O.M. Edwards yrfa hynod lwyddiannus iddo'i hun fel awdur, golygydd a chyhoeddwr. Ymhellach, daw dylanwad Anghydffurfiaeth ar y tri i'r amlwg – er am resymau ac i raddau gwahanol - fel rhan annatod o gymdeithas Cymru'r cyfnod gydag Ellis yn Gristion pybyr ond ceir awgrym bod dylanwad crefydd yn fwy diwylliannol a chenedlaetholgar ar Daniel, ac Edwards o bosibl. Ymhellach, roedd y tri yn rhan o'r datblygiadau addysgol, gwleidyddol a diwylliannol a welwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r tri, ynghyd â Lloyd George, yn aelodau o fudiad Cymru Fydd. Fel plant i denantiaid, gwelir dylanwad eu cefndir yn ymgyrchoedd gwleidyddol Ellis a syniadau Edwards am y werin yn ogystal. Wrth gwrs, nid oedd y dylanwadau hyn yn unigryw i

Daniel, Ellis ac Edwards, ond mae'r ffaith eu bod yn gyfeillion ers plentyndod yn awgrymu y byddent wedi profi'r dylanwadau hyn gyda'i gilydd pan oeddent yn llunio'u cymeriadau. Byddai'r rhannu profiadau hyn wedi dwyshau'r ymlyniad rhyngddynt ac felly mae gosod y cyfeillion hyn yng nghyd-destun eu cyfnod yn werthfawr i'r astudiaeth hon. Yn yr un modd, ceir awgrym cryf o bwysigrwydd eu magwraeth yn y Bala, gan i'r tri, er i raddau gwahanol, gael eu dylanwadu gan fawrion eu cenedl tra'n ifanc. Ceir tystiolaeth o ddylanwad Michael D. Jones, Lewis Edwards a Thomas Charles Edwards ar syniadau cenedlaetholgar a phrofiadau academaidd Daniel a'i gyfeillion ysgol.

Ymhellach, mae dilyn taith bywyd D.R. Daniel, Tom Ellis ac O.M. Edwards yn fodd o adeiladu ar erthygl Stephanie Ward a'r llyfr *Making Men* sydd yn ystyried trothwyon amrywiol ar gyfer dynion.[883] Mae canfod sut yr oeddent yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i rai o brif gerrig milltir bywyd a'r ffaith yr oedden nhw mor barod i rannu eu profiadau â'i gilydd yn hanfodol er mwyn deall y modd yr oedd eu cyfeillgarwch yn pontio'r cyhoeddus a'r personol. Drwy ymdrechu i gynnal eu cyfeillgarwch, roeddent yn rhannu ac yn cyd-blethu ystod o brofiadau ac felly'n cynnig beirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân o berspectif ffrindiau gwrywaidd. Dyma ddatblygu dadleuon John Tosh a Paul O'Leary a'r galw am astudiaethau pellach o brofiadau dynion ar draws bydoedd cyhoeddus a phersonol.[884] Mae llythyrau cynnar D.R. Daniel yn arddangos y modd yr oedd ef ac Ellis yn ymddiddori yn y byd o'u hamgylch ac yn profi anturiaethau gyda'i gilydd. Roeddent yn gyfeillion cyntaf i'w gilydd a gwelir y modd yr oedd Tom Ellis yn teimlo'r angen i rannu ei brofiadau o ddydd i ddydd, pan yn iau, gyda'i gyfaill. Croesawyd O.M. Edwards i'w cyfeillgarwch gan i'r tri ffurfio perthynas gadarn, datblygu eu meddyliau ac ehangu eu gorwelion trwy ddysg a darllen. Sefydlwyd y berthynas rhwng y tri mewn modd naturiol ac

[883] Ward, 'Drifting into Manhood and Womanhood' & Rothery & French, *Making Men*.
[884] Tosh, ''What Should Historians do with Masculinity?' & O' Leary, 'Masculine Histories'.

organig a dyma'r sail i gyfeillgarwch, ac ymrwymiad emosiynol, a barhaodd hyd farwolaeth.

Wedi i Tom Ellis adael Cefnddwysarn a mynd i'r brifysgol, sicrhaodd bod Daniel yn cael ei gynnwys yn ei fyd newydd wrth iddo drafod ei brofiadau yn Aberystwyth ac yn Rhydychen, a'r llyfrau oedd ar gael iddo yno, yn eu llythyrau. Yn wir, gwelir themâu tebyg yn nghasgliad llythyrau Edwards ble y derbyniodd sawl gair o anogaeth gan Ellis wrth iddo lunio gyrfa academaidd hynod lwyddiannus iddo'i hun. Gwelir felly werth addysg wrth iddynt dyfu'n ddynion, a'r modd y bu i Ellis, ac Edwards i raddau, sicrhau bod Daniel yn profi'r byd hwn trwy eu profiadau hwy. Ond, roedd gan Daniel rôl hefyd yn cadw'r ardal enedigol yn fyw i Ellis gan adrodd straeon lleol, gan gynnwys datblygiadau o fewn eu cymdeithas *'Hill and Vale'* ac hanes menywod ifainc, deniadol yr ardal gan awgrymu bod syrthio mewn cariad yn garreg filltir arall yn eu bywydau. Byddai Ellis yn trafod merched fel '*Pretty Jane'* a oedd wedi dal ei lygad a datgela'r llythyrau bod Tom Ellis wedi dod i adnabod darpar wraig Daniel tra yr oeddent yn canlyn ei gilydd. Gwnaed ymdrech amlwg ar ran Daniel ac Ellis i sicrhau bod y naill a'r llall yn rhan o brofiadau dyddiol ei gilydd. O ganlyniad, plethwyd dau fyd – y byd personol a'r gymdogaeth leol a'r byd academaidd cyhoeddus a chyffrous – trwy'r llythyrau hyn.

Parhau wnaeth y llythyru cyson a'r rhannu wrth i Tom Ellis, a David Lloyd George (a oedd bellach yn gyfaill agos i Daniel), lunio gyrfaoedd fel Aelodau Seneddol Cymreig uchel iawn eu parch. Byddai Daniel yn mynychu Tŷ'r Cyffredin ar adegau ac yn dilyn eu gyrfaoedd yn y papurau newydd. Ymhellach, roedd Daniel ac Ellis yn hynod falch o lwyddiannau O.M. Edwards yn y byd cyhoeddi, ac Edwards o'r farn mai eu dyddiau cynnar hwy yn y Bala oedd ganddo mewn golwg wrth iddo ysgrifennu ei erthyglau. Ond, yn fwy na rhannu profiadau o fewn eu bywydau cyhoeddus, byddai'r cyfeillion yn cynnig cefnogaeth ymarferol i'w gilydd wrth ymgeisio am swyddi gyda Daniel yn gwneud cynnydd gyrfaol o ganlyniad i'w berthynas gyda Tom Ellis a Lloyd George yn benodol. Roedd y cydweithio hwn yn fanteisiol i bobl Cymru yn ogystal wrth i D.R. Daniel

droi at Tom Ellis, ac yn hwyrach Lloyd George, wrth iddo arwain y dynion yn streiciau Chwarel y Penrhyn, ac wrth i Tom Ellis ac O.M. Edwards gydweithio i ddiwygio'r system addysg yng Nghymru. Ond yn bwysicach oll, ceir awgrym o gefnogaeth lefel bersonol yn ystod cyfnodau gyrfaol a oedd yn heriol. Bu i Ellis ysgrifennu at wraig Daniel i'w chysuro pan wynebai Daniel broblemau tra'n gweithio i'r undeb dirwestol ac at Daniel y trodd Edwards yn 1910 pan wynebodd ymateb ffyrnig i'w adroddiad ar gyflwr ysgolion yng Nghymru. Roedd cefnogaeth bersonol i'w weld felly i fywydau cyhoeddus y cyfeillion. Yn wir, yr un yw'r brwdfrydedd a welir yn llwyddiannau academaidd a gyrfaol y cyfeillion ag a geir yn natblygiadau'u bywydau personol. Ystyriwyd priodi yn drothwy pwysig i'r dynion hyn ac mae priodasau Daniel, Lloyd George, O.M. Edwards a Tom Ellis oll yn cael eu trafod yng nghynnwys y llythyrau rhyngddynt. Yn yr un modd, datgenir llawenydd aruthrol pan yw Lloyd George, Edwards a Daniel yn dod yn dadau. Ochr yn ochr felly y gwelir trafodaethau o brofiadau cyhoeddus a hynod bersonol rhwng y dynion hyn sydd yn beirniadu'n llwyr y syniad o sfferau ar wahân. Ymhellach, mae'r ymrwymiad i rannu profiadau gyda'i gilydd ar hyd eu bywydau yn golygu bod y rhwym a'r ymlyniad rhwng Daniel a'i gyfeillion wedi dyfnhau gydag amser gan gyfoethogi'r cyfeillgarwch rhyngddynt.

Efallai mai cyfraniad pwysicaf y traethawd hwn yw datgelu'r trafodaethau emosiynol a welwyd rhwng y cyfeillion gan gynnig gwedd newydd ar y syniad o wrywdod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Mae gweithiau haneswyr megis Matthew McCormack a John Tosh ynghylch dynion cyhoeddus a dylanwad imperialaeth yn weithiau hynod ddefnyddiol i ddeall yr hyn oedd yn ddisgwyliedig gan ddynion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[885] Ond, mae'r traethawd hwn yn cynnig deimensiwn newydd gan adeiladu ar waith haneswyr megis Michael Roper sydd wedi ystyried yr ymlyniad emosiynol rhwng milwyr a'u mamau

[885] McCormack, *Public Men* & Tosh, 'Imperial Masculinity and the Flight from Domesticity'.

yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.[886] Y cwlwm emosiynol rhwng dynion yw'r canolbwynt yma sydd yn esbonio pam eu bod yn teimlo'r angen i rannu profiadau ar hyd taith bywyd. Hiraetha Daniel ac Ellis am ei gilydd yn ystod cyfnodau ar wahân ac roddent yn agored iawn yn eu llythyrau ynghylch y gwir angen a deimlent am weld ei gilydd yn gyson. Yn wir, mae'r datganiadau cariadus hyn yn peri tynnu cymariaethau gyda'r cyfeillgarwch rhamantaidd a drafodir yn yr hanesyddiaeth ehangach.[887] Er nad oedd lefel y berthynas mor ddwys, nac mor gorfforol, â'r berthynas rhwng y merched mewn cyfeillgarwch rhamantaidd, rhaid cydnabod y ddibyniaeth emosiynol oedd yn bodoli rhwng y ddau fel cyfeillion bore oes. Er nad oedd y datganiadau cariadus mor amlwg yn y llythyrau rhwng Daniel ac Ellis ac O.M. Edwards, mae'r gofal a ddangosant am iechyd ei gilydd yn atgyfnerthu bod consyrn gwirioneddol ganddynt am ei gilydd ac yn gwarantu trafodaeth bellach ynghylch natur dyfnder y cyfeillgarwch rhwng aelodau o'r un rhyw yn ôl yr hyn oedd yn dderbyniol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gwelir yr elfen emosiynol hon ar ei chryfaf rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion yn ystod cyfnod o alar. Pan fu farw plant i Edwards, Daniel a Lloyd George, mae ymateb eu cyfeillion yn arddangos gofal mawr o'i gilydd a chydymdeimlad hynod o ddwys. Mae gonestrwydd O.M. Edwards a Lloyd George wrth ddisgrifio eu galar llethol dros golli plant yn ddirdynnol. Teimlent y medrent droi at eu cyfeillion agos am air o gysur mewn cyfnod torcalonnus, ac y medrent ddatgan eu teimladau ar bapur gan wybod y byddent yn cael cydymdeimlad llwyr gan y darllenydd. Yn wir, mae'r dewis o rannu'r teimladau dwys hyn trwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn cynnig maes astudio newydd ynghylch y defnydd o'r iaith i gyfleu mynegiant mewn cyfnodau emosiynol. Mae'r ddealltwriaeth hon o lefel y cwlwm cyfeillgarwch a fodolai rhwng y dynion hyn yn cryfhau'r ddadl sydd yn cwmpasu'r gwaith hwn i gyd sef fod y rhwym a'r ymlyniad emosiynol a fodolai rhwng D.R. Daniel a'i ffrindiau yn esbonio pam eu bod yn teimlo'r

[886] Gweler Roper, 'Maternal Relations' & Roper, *The Secret Battle*.
[887] Am ystyriaeth bellach o'r cysyniad o 'gyfeillgarwch rhamantaidd', gweler trydedd bennod yr astudiaeth hon.

angen i gynnwys ei gilydd yn eu profiadau personol a chyhoeddus gan gyd-blethu'r ddau fyd. Dengys y ddibyniaeth emosiynol hon ar ei gorau yn ymateb D.R. Daniel ac O.M. Edwards i farwolaeth Tom Ellis a'r awgrym bod ei golli wedi eu llorio yn llwyr ac ar farwolaeth Edwards, er nad oeddent mewn cyswllt agos erbyn hynny, hiraetha Daniel am y cyfeillgarwch unigryw yr oedd y tri wedi ei ffurfio. Brwydrodd Daniel ac Edwards er mwyn sicrhau bod Tom Ellis yn cael ei gofio gan eu cyd-Gymry ac aeth O.M. Edwards cyn belled â chael ei ethol yn Aelod Seneddol er cof am ei gyfaill agos. Ond, wrth i Edwards a Daniel gyflwyno coffadwriaethau i Ellis a Daniel gyhoeddi erthyglau ar fywyd cynnar Edwards, gwelir y dynion yn rhannu eu profiadau a lefel eu cyfeillgarwch gyda'r cyhoedd. Dyma uchafbwynt y ddadl nad oedd ffiniau cadarn a phendant yn bodoli rhwng y bydoedd cyhoeddus a phersonol yng nghyd-destun perthynas Daniel a'i gyfeillion ysgol, ac awgrym o bwysigrwydd astudiaethau pellach. Roedd y rhwym emosiynol dwfn rhwng Daniel a'i gyfeillion yn cael ei amlygu mewn modd agored a chyhoeddus, er bod elfen o ddewis a dethol yngylch yr union fanylion y byddent yn fodlon eu rhannu gyda'r cyhoedd.

Mae effaith ddirfawr y Rhyfel Byd Cyntaf ar berthynas Daniel gydag O.M. Edwards a Lloyd George hefyd yn datgelu llawer am ddyfnder y ddibyniaeth emosiynol rhyngddynt. Fel heddychwr, siomwyd Daniel yn fawr gan agwedd ei hen gyfaill ysgol at y rhyfel. Eto i gyd, goroesodd y cyfeillgarwch y bygythiad hwn, o bosibl oherwydd ei seiliau cadarn yng nghyfnod eu plentyndod, ac hefyd y ffaith y credai Daniel bod Edwards wedi gweld ei gamgymeriad wrth gefnogi'r rhyfel. Ond, gyda Lloyd George yn chwarae rhan llawer mwy blaenllaw yn y rhyfel, daeth ei gyfeillgarwch agos ef gyda Daniel i ben. Ni fedrai Daniel dderbyn swyddi yr oedd yn eu cynnig iddo yn ymwneud â'r rhyfel a chollodd ei ffydd yn llwyr yn ei gyfaill. Eto i gyd, ceir awgrym bod Lloyd George wedi parchu cadernid barn Daniel a pharhaodd cyfeillgarch rhwng Daniel a theulu Lloyd George yn dilyn y rhyfel, er nad oedd yn berthynas mor agos. Dyma gyflwyno trywydd newydd i'r hanesyddiaeth gan arddangos effaith negyddol y rhyfel ar gyfeillgarwch gwrywaidd. Goroesodd yr ymlyniad personol a theuluol lawer yn hwy na'r cyfeillgarwch a'r cydweithio

cyhoeddus a hynny unwaith yn rhagor yn awgrymu pwysigrwydd yr ymlyniad emosiynol i ddeall dyfnder y cwlwm cyfeillgarwch.

Yn olaf, mae'r gwaith hwn yn cynnig dadl ynghylch y modd y bu i'r cyfeillgarwch cryf rhwng D.R. Daniel a'i gyfeillion arwain at blethu aelodau o'u teuluoedd i mewn i'r berthynas rhyngddynt. Dychwelir felly at ddyfyniad Claire Taylor am werth ystyried rhwydweithiau cymdeithasol, *'examining social networks is useful because by doing so it is possible to transverse the line that is usually drawn between public and private.'*[888] Dyma gyfraniad amserol felly i'r trafodaethau sydd yn bodoli yng nghylch hanes a rôl y teulu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiledir ar waith Naomi Tadmor a Lawrence Stone wrth iddynt ystyried cymhlethdod y defnydd o'r term 'teulu' a'r modd y gellir dehongli'r gair mewn modd llawer ehangach.[889] Gwelir bod Daniel yn hoff iawn o'i fam a'i fod wedi meithrin perthynas agos gyda'i hanner brawd, Robert Evans a'i deulu. Ni ddylid diystyrru'r ymlyniad a deimlai D.R. Daniel at ei deulu ei hun, ond cyfoethogir y cysyniad o deulu ehangach wrth ystyried perthynas Daniel, a Robert Evans, gyda theulu Cynlas. Derbyniwyd D.R. Daniel bron fel aelod o deulu Ellis ac argymhellodd Ellis bod Daniel yn troi at ei dad ef am gyngor wrth geisio penderfynu a ddylai fynd i America am gyfnod yn 1885. Yn wir, mae'r ffaith bod Robert Evans yn bresennol yng Nghynlas o fewn oriau i farwolaeth Ellis ac wedi cyflwyno teyrnged emosiynol iddo yn ei angladd yn atgyfnerthu'r syniad o uned deulol ehangach. Gellir awgrymu hefyd bod D.R. Daniel wedi ffurfio cyfeillgarwch naturiol a gwirioneddol gydag Edward Edwards, brawd i O.M. Edwards, ac adwaenai frawd a chwaer Lloyd George. Dyma awgrym bod profiadau personol y dynion hyn wedi eu cyd-blethu a bod y syniad o rwydweithiau teuluol ehangach yn cyfoethogi'r esboniad i'r cwestiwn pam eu bod yn dewis rhannu elfennau o'u bywydau cyhoeddus a phreifat. Yn wir, parhaodd cysylltiad Daniel gyda theulu Cynlas am flynyddoedd yn dilyn marwolaeth Ellis. Ymhellach,

[888] Taylor,'Women's Social Networks and Female Friendship in the Ancient Greek City.'
[889] Tadmor, *Family and Friends in Eighteenth-Century England* & Stone, *The Family, Sex and Marriage in England.*

cynigiodd Daniel, ac Edwards, gysur i rieni a chwiorydd Ellis yn dilyn ei farwolaeth a bu i Winifred Ellis rannu ei galar gyda hwy mewn ffordd hynod onest. Dengys hyn ddyfnder y berthynas rhwng Daniel, ac Edwards i raddau, a theulu Cynlas gan ei bod wedi goroesi yn annibynnol ar bresenoldeb Ellis ei hun, er i'r cwlwm rhyngddynt lacio o ganlyniad i'w farwolaeth.

Mae haneswyr gender megis Joan Wallach Scott wedi pwysleisio pwysigrwydd astudio profiadau dynion a menywod ochr yn ochr wrth ystyried gender.[890] Cyniga'r traethawd hwn ddynesiad ychydig yn wahanol, gan adeiladu ar waith Cassandra Good, wrth ystyried y cyfeillgarwch rhwng dynion a menywod nad oeddent mewn perthynas ramantaidd gyda'i gilydd.[891] Gan gofio lefel yr agosatrwydd rhyngddynt, mae'n naturiol bod Daniel ac Ellis wedi meithrin perthynas gyda gwragedd ei gilydd. I ddechrau, materion ymarferol sydd yn cael eu trafod yn y llythyrau; yn wir, gellir awgrymu bod Tom Ellis wedi amharu ychydig ar drefniadau teuluol Daniel wrth iddo drefnu ei wyliau gydag ef. Gellir awgrymu bod hwn yn atgyfnerthu'r syniad o *'hegemonic masculinity'* ar adegau wrth i Daniel flaenoriaethu ei gyfeillgarwch gydag Ellis gan deithio'r cyfandir gydag ef a gadael ei wraig gartref yn magu eu plentyn. Ond, sefydlwyd cyfeillgarwch rhwng Sarah Daniel a Tom Ellis, yn yr un modd ag y meithrinwyd perthynas rhwng D.R. Daniel ac Annie Ellis. Yn wir, bu i Daniel feithrin perthynas gyda gwraig Lloyd George gan arddangos cyfeillgarwch oedd yn annibynnol ar y gŵr a barhaodd y tu hwnt i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Er hyn, nid oes modd gorgyffredinoli am y berthynas rhwng y cyfeillion a gwragedd ei gilydd. Wrth i O.M. Edwards bellhau oddi wrth Daniel ac Ellis wedi tyfu'n oedolion, nid yw'n syndod na wnaeth cyfeillgarwch agos ddatblygu rhwng Elin Edwards, D.R. Daniel a Tom Ellis. Er yr hoffter oedd yn bodoli rhwng y tri, ac er fod Tom Ellis, D.R. Daniel a'u gwragedd yn adnabod Elin, nid oedd amgylchiadau wedi peri i gyfeillgarwch Daniel, Ellis ac Edwards ledu i gynnwys y gwragedd mewn gwironedd.

890 Scott, 'Gender: A Useful Category of Historical Analysis.'
891 Good, 'Friendly Relations.'

Y galar a deimlai D.R. Daniel ac Annie Ellis yn dilyn marwolaeth ei gŵr sydd yn datgelu rhywfaint o ymlyniad emosiynol rhwng cyfeillion gwrywaidd a benywaidd. Ceir enghreifftiau o lythyrau dirdynnol o onest ganddi hi ato ef ac O.M. Edwards ac awgrymir ei bod wedi derbyn rhywfaint o gysur wrth gynnal cyfeillgarwch gyda ffrindiau agosaf ei gŵr. Eto i gyd, ni ellir dweud i Daniel ac Edwards rannu eu galar a'u hiraeth gyda hi yn yr un modd. Er hyn, parhaodd eu cyfeillgarwch gydag Annie Ellis y tu hwnt i farwolaeth ei gŵr. Ceir awgrym bod O.M. Edwards wedi cael rhai trafodaethau dwys gyda hi ymhell ar ôl marwolaeth Ellis, yn benodol ynghylch ei hail briodas, a sicrhaodd Annie Ellis bod Daniel yn dod i adnabod eu mab, Thomas Iorwerth. Er hyn, nid oedd y berthynas rhwng Annie Ellis a D.R. Daniel heb densiwn wrth i'r ddau geisio sicrhau bod Tom Ellis yn aros yn fyw yng nghof eu cyd-Gymry. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y berthynas rhyngddynt wedi suro wrth ystyried y bwriad o lunio cofiant i Ellis. Roedd Annie yn benderfynol y byddai'r gyfrol yn cael ei hysgrifennu a Daniel yn ofalus iawn o bwy fyddai'n cael gwneud y gwaith ac yn gyndyn i rannu ei bapurau personol gydag unrhywun. Er hyn, parhaodd y rhwym rhyngddynt hyd farwolaeth Daniel ac mae galar Annie Ellis yn awgrymu bod ei hoffter o D.R. Daniel wedi parhau hyd y diwedd gan ei fod yn gyswllt gyda'i gorffennol a chydag Ellis. Ymhellach, mae'r awgrym o'i phryder dros Sarah Daniel yn dilyn marwolaeth Daniel yn atgyfnerthu'r syniad bod cwlwm rhyngddynt na thorrwyd. Roedd Annie Ellis, D.R. Daniel, ac O.M. Edwards, wedi rhannu'r profiad o garu a galaru am yr un gŵr ac roedd hynny'n rhwym rhyngddynt.

Cyfoethogir y ddadl hon drwy ystyried y berthynas rhwng D.R. Daniel a phlant ei gyfeillion. Sefydlwyd eisoes bod Annie Ellis wedi ymdrechu i sicrhau bod Daniel wedi cael cyfle i ddod i adnabod Thomas Iorwerth. Ymhellach, er nad oedd Daniel wedi meithrin cyfeillgarwch agos gyda phlant O.M. Edwards, roedd yn hynod falch o gael dod i'w hadnabod yn dilyn marwolaeth ei gyfaill a cheir elfen o falchder ynddo o weld Ifan ab Owen yn parhau gyda gweledigaeth ei dad. Ond, cyfeillgarwch Daniel gyda phlant Lloyd George, a Megan yn benodol, sydd yn dangos dyfnder y rhwydwaith teuluol a fodolai yma. O bosibl, o ganlyniad i'w sefyllfa

ymarferol yr oedd hyn gyda theulu Daniel a Lloyd George yn byw yn Llundain ac yn Fourcrosses a Chriccieth yn ystod yr un cyfnod a'r plant yn ifanc. Byddai D.R. Daniel yn gofalu am Megan, yn ferch fach pump oed, ac yn treulio amser gyda hi pan oedd ei rhieni i ffwrdd o adref. Yn sicr mae hyn yn awgrymu uned deuluol ehangach, ond gellir dadlau bod hyn yn bennaf o ganlyniad i berthynas Daniel gyda'r rhieni. Ceir tystiolaeth i awgrymu na chafodd Daniel ddylanwad hir dymor ar Megan Lloyd George ac, yn wir, awgryma T.I. Ellis nad oedd yn rhy hoff o gyfaill pennaf ei dad.[892] Roedd rhannu profiadau hir dymor, a pharhad cyfeillgarwch Daniel gyda'u tadau, yn hanfodol er mwyn sicrhau dylanwad gwirioneddol dros blant ei gyfeillion.

Fel ag ym mhrofiadau'r dynion, ni ellir gor-gyffredinoli wrth ystyried y cyfeillgarwch a fodolai rhwng gwragedd Daniel a gwragedd ei gyfeillion. Gellir ystyried nad oedd perthynas agos rhwng Elin Edwards, Sarah Daniel ac Annie Ellis, er pwysiced cyfeillgarwch eu gwŷr. Wedi dweud hyn, pan fu farw Gwenllian Daniel a phan anwyd Thomas Iorwerth Ellis, teimlai Elin Edwards yr angen i estyn at y menywod hyn a rhannu ei phrofiadau mewn cyfnodau mor allweddol yn eu bywydau. Ni cheir tystiolaeth o gyfeillgarwch gwirioneddol agos rhwng Sarah Daniel ac Annie Ellis chwaith. Er hyn, sefydlwyd cyfeillgarwch cadarn rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George gan eu bod y byw yn agos at ei gilydd yn Llundain. Byddent yn cwrdd yn rheolaidd a ffurfiwyd rhwydwaith gyda gwragedd Cymry nodedig eraill, a pharhaodd eu cyfeillgarwch yn hirach na'r berthynas rhwng eu gwŷr. Byddai plant Lloyd George yn llythyru gyda Sarah Daniel ac roedd agosatrwydd amlwg rhwng Peredur Daniel a Margaret Lloyd George gan iddi hi estyn cymorth iddo wrth iddo geisio llunio gyrfa. Atgyfnerthir felly'r syniad o rwydwaith rhwng y gwragedd, er na ellir cyffredinoli ar y cwlwm agosatrwydd rhyngddynt. Nid oedd modd i D.R. Daniel fod wedi meithrin cyfeillgarwch mor agos gydag Ellis, Edwards a Lloyd George heb fod y gwragedd wedi rhannu rhywfaint o'u profiadau

[892] ASF Z/DCS/226, T.I. Ellis at K.W. Jones-Roberts, 5 Ebrill 1960.

gyda'i gilydd. Dyma wau profiadau teuluol ehangach at ei gilydd felly – er i raddau amrywiol.

I gloi, gwelir y modd y mae'r astudiaeth hon wedi ehangu ein dealltwriaeth o rai o arweinwyr mwyaf blaenllaw Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth gyflwyno manylion personol am eu cymeriadau yn ogystal â'u gyrfaoedd. Ymhellach, mae cynnwys y llythyrau rhwng Daniel, Ellis ac Edwards yn cyfrannu at y feirniadaeth o'r syniad o sfferau ar wahân. Roedd y berthynas rhwng y dynion hyn, a ddatblygodd mewn ffordd mor naturiol ac organig o gyfnod plentyndod, yn plethu â'i gilydd brofiadau cyhoeddus a phersonol ac yn gefnogaeth i gynnydd gyrfaol a datblygiadau carwrol a theuluol. Yn bwysicach fyth, mae'r elfennau teimladol yng nghynnwys y llythyrau, yn enwedig yn ymwneud â galar, yn arddangos dibyniaeth emosiynol llwyr rhwng Daniel a'i gyfeillion, gan gynnwys Lloyd George. Byddent yn mynegi eu teimladau yn agored i'w gilydd gan dderbyn cysur yn eu cyfeillgarwch sy'n esbonio pam felly eu bod yn teimlo'r angen i rannu profiadau personol a chyhoeddus gyda'i gilydd. Yn olaf, arweiniodd y cyfeillgarwch rhwng Daniel a'i ffrindiau at rwydweithio ehangach ar lefel teuluol. Roedd cysylltiadau teuluol cryf rhwng Daniel a'i frawd a theulu Cynlas, ynghyd â phrawf o ohebu rhwng Daniel a brodyr a chwiorydd O.M. Edwards a D. Lloyd George. Yn yr un modd, sefydlwyd cyfeillgarwch rhwng Daniel a gwragedd Ellis a Lloyd George, yn ogystal â phlant ei gyfeillion, er i raddau amrywiol. Mae ystyried rhwydweithiau ac uned deuluol ehangach unwaith yn rhagor felly yn awgrymu'r modd yr oedd bywydau'r dynion hyn wedi eu plethu i'w gilydd ac nad oedd ffiniau pendant a chadarn rhwng eu profiadau lefel bersonol – er nad oes modd cyffredinoli.

Mae ystod eu casgliadau o bapurau personol sy'n ymestyn dros gyfnod o hanner canrif yn darparu mewnwelediad hynod gyfoethog i'r cyfeillgarwch rhwng Daniel, Ellis ac Edwards, yn ogystal â D.R. Daniel a Lloyd George. Wrth ddadansoddi'r cwlwm gwirioneddol a fodolai rhyngddynt mewn cymaint o fanylder felly, gellir tynnu casgliadau sydd yn datblygu ac yn

cyfoethogi'r hanesyddiaeth ehangach. Cynigir gwedd newydd ar y feirniadaeth o'r cysyniad o sfferau ar wahân gan ystyried y ddibyniaeth wirioneddol a fodolai rhwng cyfeillion gwrywaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Nid yw hyn i ddweud nad oedd rhai elfennau personol yn cael eu cadw rhwng pâr priod er enghraifft, ond yn hytrach dadleuir na ellir datgan bod ffiniau cadarn rhwng profiadau'r dynion hyn ar lefel bersonol a chyhoeddus. Roedd Daniel, Ellis ac Edwards yn dibynnu ar ei gilydd yn emosiynol, yn cynnal eu perthynas ac yn gwahodd ei gilydd i rannu ystod o brofiadau pwysig gan sefydlu rhwydweithiau teuluol ehangach. Gan gofio cyfeillgarwch Daniel a Lloyd George, ystyrir tair perthynas wahanol o safbwynt D.R. Daniel yma, yn ogystal â'r perthnasau rhwng y gwragedd a'r teuluoedd, a daw i'r amlwg na ellir cyffredinoli am lefel yr agosatrwydd rhwng y dynion hyn. Roedd y cwlwm cyfeillgarwch rhwng Daniel ac Ellis er enghraifft yn dylanwadu ar eu bywydau o ddydd i ddydd yn llawer mwy na'u perthynas gydag Edwards, ac eto at ei gilydd y trodd Daniel ac Edwards am gysur ar farwolaeth Ellis. Yn yr un modd, goroesodd perthynas Daniel ac Edwards y rhyfel, yn wahanol iawn i berthynas Daniel a Lloyd George. Ni ellir cyffredinoli ynghylch y cyfeillgarwch rhwng y menywod chwaith. Nid oedd Elin Edwards yn gyfaill agos i Sarah Daniel ac Annie Ellis, ond teimlai'r angen i estyn allan atynt mewn cyfnodau heriol. Ar y llaw arall, meithrinwyd cyfeillgarwch rhwng Sarah Daniel a Margaret Lloyd George a oedd yn annibynnol ar y berthynas rhwng eu gwŷr.

Mae dod i adnabod rhai o gewri Cymru Oes Fictoria ar lefel llawer mwy dynol yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o gymdeithas Gymreig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth gyflwyno dyfnder y ddibyniaeth wirioneddol a fodolai rhwng Daniel, Ellis ac Edwards yn benodol, gwreiddir syniadaeth ehangach am wrywdod yn gadarn ym mhrofiadau rhai o ddynion amlycaf y cyfnod yng Nghymru. Ond, mae lle i ehangu ar yr astudiaeth hon. Wrth gynnig dadansoddiad mor fanwl o berthynas D.R. Daniel gyda Tom Ellis, O.M. Edwards, ac i raddau Lloyd George, yn ogystal â'u rhwydweithiau teuluol ehangach, ni cheir ystod eang o brofiadau gwrywaidd i'w hystyried yn y traethawd hwn. Yn sicr, pe byddai ffiniau'r traethawd

hwn wedi caniatau, byddai lle i ymestyn ar yr astudiaeth hon gan ystyried profiadau dynion eraill o'r un cyfnod er mwyn ehangu ar, a dyfnhau ein dealltwriaeth o'r agweddau ar gyfeillgarwch gwrywaidd yng Nghymru'r cyfnod sy'n cael eu hamlinellu yng nghorff y traethawd hwn. Mae astudiaeth raddfa fechan ar y cyfeillgarwch rhwng O.M. Edwards a'i gyfaill prifysgol John Morris-Jones, er enghraifft, yn sicr yn awgrymu bod enghreifftiau pellach o ohebiaeth ar gael er mwyn arddangos y modd yr oedd cyfeillgarwch rhwng dynion yn plethu profiadau personol a chyhoeddus.[893] Yn ogystal, byddai astudiaeth o gronfa ehangach o ohebiaeth yn rhoi'r cyfle i gynnig ystyriaeth llawer manylach o'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr ohebiaeth rhwng cyfeillion gwrywaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Datgelir yma bod cyfeillgarwch a dibyniaeth emosiynol yn bwysig i ddynion, ond mae sawl cyfeiriad y gellir datblygu'r themâu hyn ymhellach. Ffocysir ar grŵp penodol o ddynion dysgedig yma, ond mae lle i ehangu ar ein dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillgarwch trwy ystyried profiadau dynion o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol yn ystod yr un cyfnod er mwyn darganfod dylanwadau cyffredin a dwyn cymariaethau. Yn yr un modd, byddai astudiaethau'n cymharu'r ymlyniad rhwng cyfeillion gwrywaidd, cyfeillion benywaidd, yn ogystal â rhwng cyfeillion o'r ddau ryw unwaith eto yn ehangu ac yn dyfnhau ein dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillgarwch i brofiadau unigolion yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Drwy gyfoethogi ein dehongliad o brofiadau amryw o bobl o fewn yr un cyfnod, gellir yna ystyried natur cyfeillgarwch, a chyfeillgarwch gwrywaidd yn benodol, ar hyd cyfnodau gwahanol er mwyn adnabod patrymau cyffredin rhwng profiadau Cymry ar draws canrifoedd. Megis cychwyn felly yw'r gwaith o ddadansoddi pwysigrwydd a dyfnder cyfeillgarwch rhwng unigolion. Ond, i gloi'r astudiaeth hon, dychelwn at D.R. Daniel, cyfaill gwirioneddol i rai o arweinwyr amlycaf ei ddydd, a ysbrydolodd yr ymchwil hwn, *'His*

[893] Manon Jones, 'Annwyl Gyfaill…'.

*sympathy, his understanding, his loyalty and devotion in friendship were sometimes almost startling.'*[894]

[894] Huws Davies, 'David R. Daniel', t. 284.

# LLYFRYDDIAETH

**A) Llawysgrifau**

**B) Papurau Newydd a Chylchgronau**

**C) Gweithiau Cyfoes**

**Ch) Ffynonellau Eilaidd**
- **i) Llyfrau**
- **ii) Erthyglau**

**D) Traethodau Ymchwil Anghyhoeddedig**

## Ffynonellau Gwreiddiol

## A) Llawysgrifau

### Archifdy Sir Feirionnydd (ASF)

### Casgliad Kate Winifred Jones-Roberts

ASF Z/DCS/217, Nodiadau ar D.R. Daniel ar gyfer erthygl K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/226, Llythyr oddi wrth T.I. Ellis at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/228, Llythyr oddi wrth Alice Huws Davies at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/229, Llythyr oddi wrth John Cecil-Williams at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/230, Llythyr oddi wrth J.E. Owen Jones at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/238, Nodiadau ar D.R. Daniel ar gyfer erthygl K.W. Jones-Roberts arno.

ASF Z/DCS/239, Llythyr oddi wrth Megan Lloyd George at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/240, Llythyr oddi wrth T.I. Ellis at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/245, Llythyr oddi wrth Alice Huws Davies at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/249, Llythyr oddi wrth David Hughes Parry at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/252, Llythyr oddi wrth Neville Masterman at K.W. Jones-Roberts.

ASF Z/DCS/256, Llythyr oddi wrth Neville Masterman at K.W. Jones-Roberts.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC)**

**Casgliad D.R. Daniel**

**Deunyddiau parthed Thomas Edward Ellis**

LlGC Daniel 1a-c, 'Nodiadau Tuag at Hanes Bywyd a Gwaith Thomas E. Ellis', tair cyfrol.

LlGC Daniel 6a-c, Dyddiaduron Tom Ellis 1875, 1876, 1879.

LlGC Daniel 7, Llyfr nodiadau yn cynnwys copiau o ddyddiaduron Tom Ellis ar gyfer
1889 ac 1890.

LlGC Daniel 9, Tystiolaeth Thomas Ellis, Cynlas gerbron Pwyllgor yr Arglwydd Aberdâr, 2 Tachwedd 1980.

LlGC Daniel 30, Llyfr nodiadau yn cynnwys copi o lythyr hir oddi wrth A.H.D. Acland at Annie Ellis yn disgrifio ei gyfeillgarwch gyda'i gŵr.

LLGC Daniel 44, Trefn gwasanaeth angladdol Tom Ellis.

LlGC Daniel 48, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau D.R. Daniel ar farwolaeth O.M. Edwards.

LlGC Daniel 49-59, Telegramau oddi wrth Tom Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 60, Telgram oddi wrth John Brunner at D.R. Daniel parthed marwolaeth Tom Ellis.

LlGC Daniel 62-78, Llythyrau at Tom Ellis oddi wrth amryw o bobl.

LlGC Daniel 79-110, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at Tom Ellis hyd at ddiwedd ei gyfnod ym Mhrifysgol Rhydychen.

LlGC Daniel 111-126, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at Tom Ellis, 1887-1898.

LlGC Daniel 127-150, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at amryw o bobl.

LlGC Daniel 154-167, Llythyrau bachgendod oddi wrth Tom Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 168-199, Llythyrau, cardiau a nodiadau oddi wrth Tom Ellis at D.R. Daniel, 1873-1877.

LlGC Daniel 200-286, Llythyrau a chardiau oddi wrth Tom Ellis at D.R. Daniel, 1880 -1884.

LlGC Daniel 287-502, Llythyrau a chardiau oddi wrth Tom Ellis at D.R. Daniel, 1884-1898.

LlGC Daniel 503-506, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 508, Telegram oddi wrth J.H. Davies at D.R. Daniel yn ei hysbysu o farwolaeth Tom Ellis.

**Deunyddiau parthed D.R. Daniel**

LlGC Daniel 509-552, Dyddiaduron D.R. Daniel 1871-1930.

LlGC Daniel 553, 'Gwaled Atgo', gan gynnwys nodyn ar Dr. Lewis Edwards.

LlGC Daniel 554, 'Y Pregethwyr Cymreig Gofiaf.'

LlGC Daniel 556, 'Adgofion Cymysg am Bersonau a Phethau' (1913-1916).

LlGC Daniel 559, 'Fy Mam: Jane Daniel Tyn y Bryn 1817-1903' (1912).

LlGC Daniel 592, 'Cyflafareddiad Gorfodol rhwng Meistr a Gwas' & 'Diwygiad 1904-5.'

LlGC Daniel 602-608, Llythyrau oddi wrth Alice Acland at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 609-624, Llythyrau oddi wrth A.H.D. Acland at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 823-895a – Llythyrau oddi wrth J.H. Davies, Cwrt Mawr, Llangeithio at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 968-976, Llythyrau oddi wrth Edward Edwards at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 981-984, Llythyrau oddi wrth Ifan ab Owen Edwards at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 988-1041, Llythyrau oddi wrth O.M. Edwards at D.R. Daniel, gan gynnwys un llythyr oddi wrth O.M. Edwards at Tom Ellis.

LlGC Daniel 1046-1048, Llythyrau oddi wrth Annie Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1049-1052, Llythyrau oddi wrth Jennie Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1053, Llythyr oddi wrth Mary Ellen Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1054-1061, Llythyrau oddi wrth Winifred Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1154, Llythyr oddi wrth Thomas Gee at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1155-1157, Llythyrau oddi wrth John Rowlands at D.R. Daniel, ar ran D. Lloyd George.

LlGC Daniel 1158-1167, Llythyrau oddi wrth William George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1522, Llythyr oddi wrth W. Goscombe John at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 1633-1634, Llythyrau oddi wrth Michael D. Jones at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2415, Llythyrau cymysg at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2416, Llythyrau oddi wrth aelodau o'r teulu at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2417, Llythyrau cymysg oddi wrth D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2418, Llythyrau oddi wrth Sarah Daniel at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2419, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2420, Llythyrau cymysg at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2421, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel a Sarah Daniel at Jane Daniel.

LlGC Daniel 2422, Telegramau at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2423, Llythyrau oddi wrth Peredur Daniel at D.R. Daniel a Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2442, Llyfr nodiadau yn cynnwys nodiadau gan Daniel am ei deulu.

LlGC Daniel 2448, Llythyr geirda gan O.M. Edwards ar ran D.R. Daniel i swydd
Cofrestrydd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru.

LlGC Daniel 2449, Llythyrau coffadwriaethol i D.R. Daniel yn dilyn ei farwolaeth.

LlGC Daniel 2450, Llythyrau cymysg at Mr a Mrs Peredur Llwyd Daniel.

LlGC Daniel 2451, 'Y Club, Newyddiadur Anghyhoedd', rhifynnau 3 a 4.

LlGC Daniel 2461, Copi o *Er Mwyn Iesu* gan O.M. Edwards gyda nodyn am Tom Ellis ynddo.

LlGC Daniel 2742, Cyfrol o doriadau papur newydd parthed Tom Ellis, O.M. Edwards ac eraill.

**Deunyddiau parthed Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru a Streiciau Chwarel y Penrhyn**

LlGC Daniel 2462, Llythyrau yn cymeradwyo D.R. Daniel i'r swydd o Drefnydd Undeb y Chwarelwyr.

LlGC Daniel 2615, Llythyr oddi wrth D. Lloyd George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2636, Llythyr oddi wrth Lloyd George & George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2641, Llythyr oddi wrth Lloyd George, Roberts and co. at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2651, Llythyr oddi wrth Lloyd George, Roberts and co. at D.R. Daniel.

**Deunyddiau parthed David Lloyd George**

LlGC Daniel 2743-2808, Llythyrau oddi wrth D. Lloyd George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2831, Llythyr oddi wrth Olwen Lloyd George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2832, Llythyr oddi wrth Megan Lloyd George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2834, Llythyr oddi wrth Mary Ellen George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2835, Tystlythyr oddi wrth D. Lloyd George at Undeb y Chwarelwyr.

LlGC Daniel 2838, Llythyr oddi wrth Margaret Lloyd George yn cyflwyno D.R.
Daniel i'r Arlywydd Wilson.

LlGC Daniel 2839-2842, Llythyrau oddi wrth Margaret Lloyd George at Peredur Daniel.

LlGC Daniel 2843-2890, Llythyrau oddi wrth Margaret Lloyd George at Sarah
Daniel.

LlGC Daniel 2890, Llythyr oddi wrth Mary Ellen George at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2891, Llythyr oddi wrth J.T. Davies at Sarah Daniel ar ran D. Lloyd George.

LlGC Daniel 2892, Llythyr oddi wrth D. Lloyd George at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2893-2895, Llythyrau oddi wrth Olwen Lloyd George at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2896, Llythyr oddi wrth Gwilym Lloyd George at Sarah Daniel.

LlGC Daniel 2897-2911, Telegramau oddi wrth D. Lloyd George at D.R. Daniel.

LlGC Daniel 2912-2915, 'D. Lloyd George: Canghellawr y Trysorlys', pedair cyfrol.

**Casgliad Thomas Edward Ellis**

LlGC Ellis 387-459, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at Tom Ellis.

LlGC Ellis 467-470, Llythyrau oddi wrth Edward Edwards at Tom Ellis.

LlGC Ellis 492-501, Llythyrau oddi wrth O.M. Edwards at Tom Ellis.

LlGC Ellis 665, Llythyr oddi wrth S. Gee at Tom Ellis yn dilyn marwolaeth ei gŵr.

LlGC Ellis 678-692, Llythyrau oddi wrth D. Lloyd George at Tom Ellis.

LlGC Ellis 504-506, Llythyrau oddi wrth Thomas Charles Edwards at Tom Ellis.

LlGC Ellis 519-525, Llythyrau oddi wrth Mary Ellen Ellis at Tom Ellis.

LlGC Ellis 532-535, Llythyrau oddi wrth Thomas Edwards, Cynlas at Tom Ellis.

LlGC Ellis 536-539, Llythyrau oddi wrth Winifred Ellis at Tom Ellis.

LlGC Ellis 666-677, Llythyrau oddi wrth Thomas Gee at Tom Ellis.

LlGC Ellis 678-692, Llythyrau oddi wrth D. Lloyd George at Tom Ellis.

LlGC Ellis 1164-1165, Llythyrau oddi wrth Michael D. Jones at Tom Ellis.

LlGC Ellis 2451-2459, Llythyrau llongyfarch ar ddod yn is-chwip, 1892.

LlGC Ellis 2460-2617, Llythyrau llongyfarch ar ddod yn brif chwip, 1894.

LlGC Ellis 2618-2690, Llythyrau a dderbyniwyd ynghyd ag anrhegion priodas, 1898.

LlGC Ellis 2761, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D.R. Daniel.

LlGC Ellis 2762, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at Annie Ellis.

LlGC Ellis 2763-2766, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at O.M. Edwards.

LlGC Ellis 2767-2744, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at Mary Ellen Ellis.

LlGC Ellis 2979-2983, Dyddiaduron Tom Ellis 1889-1897.

LlGC Ellis 2996-3011, Llythyrau parthed cofiant i Tom Ellis.

LlGC Ellis 3003, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at Annie Ellis.

LlGC Ellis 3012-3013, Llythyrau parthed cofeb i Tom Ellis.

LlGC Ellis 3041, Rhestr o anrhegion priodas a rhoddwyr.

LlGC Ellis 3200, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at Elizabeth Ellis.

LlGC Ellis 3201-3210, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at Winifred Ellis.

LlGC Ellis 3211, Llythyr oddi wrth Annie Ellis at Winifred Ellis.

LlGC Ellis 3212, Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Rosebery at Thomas Ellis, Cynlas.

LlGC Ellis 3295-3314, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at Tom Ellis.

LlGC Ellis 3365-3372, Llythyrau oddi wrth O.M. Edwards at Tom Ellis.

LlGC Ellis 3375, Llythyr oddi wrth Thomas Charles Edwards at Tom Ellis.

LlGC Ellis 3403, Llythyr oddi wrth Thomas Gee at Tom Ellis.

LlGC Ellis 3412-3413, Llythyrau oddi wrth D. Lloyd George at Tom Ellis.

LlGC Ellis 3850-3970, Llythyrau'n llongyfarch Tom Ellis ar ei ddyweddiad.

LlGC Ellis 3993, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC Ellis 3994, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at Thomas Gee.

LlGC Ellis 3995-3996, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC Ellis 4738-4787, Llythyrau at Annie Ellis yn ei llongyfarch ar ei dyweddiad.

LlGC Ellis 4788- 4794, Llythyrau at Mrs J. Davies, Cwrtmawr ar ddyweddiad Annie Ellis.

LlGC Ellis 4799, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at Annie Ellis.

LlGC Ellis 4813, Llythyr oddi wrth Elin Edwards at Annie Ellis.

LlGC Ellis 4815, Llythyr oddi wrth O.M. Edwards at Annie Ellis.

LlGC Ellis 4823, Llythyr oddi wrth Thomas Gee at Annie Ellis.

LlGC Ellis 4877-4917, Llythyrau cydymdeimlad at rieni Tom Ellis yn dilyn ei farwolaeth.

LlGC Ellis 5009-5036, Llythyrau at Annie Ellis yn canmol y llyfr o areithiau Tom Ellis.

**Papurau T.I. Ellis**

LlGC T.I. Ellis A210-A213, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at Annie Ellis.

LlGC T.I. Ellis A242-A243, Llythyrau oddi wrth O.M. Edwards at Annie Ellis.

LlGC T.I. Ellis A253, Llythyr oddi wrth D. Lloyd George at Annie Ellis.

LlGC T.I. Ellis A254-A275, Llythyrau oddi wrth Margaret Lloyd George at Annie Ellis.

LlGC T.I. Ellis A276-A278, Llythyrau oddi wrth Olwen Lloyd George at Annie Ellis.

LlGC T.I. Ellis A349, Llythyrau cyffredinol a theuluol at Annie Ellis, 1898-1938.

LlGC T.I. Ellis A351, Llythyrau oddi wrth ffrindiau a chydnabod Annie Ellis 1906-1929.

LlGC T.I. Ellis A352, Llythyrau oddi wrth ffrindiau a chydnabod Annie Ellis 1930-
1942.

LlGC T.I. Ellis A369, Llythyrau ynghylch iechyd Sarah Daniel, 1941.

**Papurau O.M. Edwards**

LlGC Papurau O.M. Edwards AD/1/1-38, Dyddiaduron O.M. Edwards 1874-1920.

LlGC Papurau O.M. Edwards AF1/1-3, Llythyrau O.M. Edwards at ei rieni.

LlGC Papurau O.M. Edwards AF2/1, Llythyrau O.M. Edwards at Edward Edwards a John Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards AG1/1-38, Casgliadau llythyrau cyffredinol at O.M. Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/2/1-6, Llythyrau oddi wrth D.R. Daniel at O.M. Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards AG4/3/1-7, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at O.M. Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards AG6/4/51, Llythyr oddi wrth Annie Ellis at O.M. Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards CE4/1, Llythyrau cyffredinol at Elin Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards CE4/2, Llythyrau at Elin Edwards oddi wrth ffrindiau.

LlGC Papurau O.M. Edwards CJ2/1, Llythyrau at Ifan ab Owen Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards CJ2/2, Llythyrau at Ifan ab Owen Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards CM/1 Llythyrau Owen ac Elizabeth Edwards at O.M. Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards CM/2, Llythyrau Edward Edwards at O.M. Edwards a rhai aelodau eraill o'u teulu.

LlGC Papurau O.M. Edwards CM/3, Llythyrau John Edwards at O.M. Edwards.

LlGC Papurau O.M. Edwards CM/5, Llythyrau cymysg oddi wrth teulu Edwards.

**Papurau William George**

LlGC William George 1-9a, Dyddiaduron David Lloyd George 1878-1888, 1892.

LlGC William George 3542, Llythyr oddi wrth D. Lloyd George at D.R. Daniel.

LlGC William George 3569, Llythyr oddi wrth D. Lloyd George at Tom Ellis.

LlGC William George 3618, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 3624, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 3633, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 3641, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 3649, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 3733, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 3740, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 3756, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 3780, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 3948, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 3961, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4005, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4050, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4054, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4058, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4064, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4074, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4075, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 4079, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4088, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4099, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4103, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4105, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 4110, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4127, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4133, Telegram oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4136, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4154, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4235, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4236, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4246, Llythyr oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC William George 4353, Llythyr oddi wrth O.M. Edwards at D. Lloyd George.

LlGC William George 4419, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 4451, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 4477, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 4828, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at D. Lloyd George.

LlGC William George 6512, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at William George.

LlGC William George 6306 – 6836, Llythyrau at William George.

**Llawysgrifau Lloyd George (Casgliad Brynawelon)**

LlGC Brynawelon 20462c 2309-2313, Llythyrau oddi wrth Tom Ellis at D. Lloyd George.

LlGC Brynawelon 20469c 2814, Llythyr oddi wrth Peredur Daniel at Margaret Lloyd
George.

LlGC Brynawelon 20471c 2964, Llythyr oddi wrth D.R. Daniel at Margaret Lloyd George.

## B) Papurau Newydd a Chylchgronau

*Baner ac Amserau Cymru.*
*Cymru.*
*Cymru'r Plant.*
*Y Cymro.*
*Y Goleuad.*
*Wales.*

**C) Gweithiau Cyfoes**


'Welsh Personalities: Owen M. Edwards', *The Welsh Review,* 2:3 (Mawrth 1907), tt. 49-51.

Cross, Colin (gol.), *Life with Lloyd George: The Diary of A.J. Sylvester 1931-45* (Llundain, 1975).

Davies, Hazel Walford (gol.), *Llythyrau Syr O.M. Edwards ac Elin Edwards 1887 – 1920* (Llandysul, 1991).

Davies, Jason Walford (gol.), *R.S. Thomas: Letters to Raymond Garlick 1951-1999* (Llandysul, 2009).

Davies, T. Huws, 'David R. Daniel', *Welsh Outlook*, 18:11 (Tachwedd 1931), tt. 282-284.

Edwards, O.M., *Clych Adgof* (Wrecsam, 1921).

Edwards, O.M., *Hanes Cymru I Hyd 1063* (Caernarfon, 1911).

Edwards, O.M., *Ystraeon o Hanes Cymru* (Wrecsam, 1918).

Ellis, Annie (gol.), *Speeches and Addresses by Thomas E. Ellis* (Wrecsam, 1912).

Ellis, Mari (gol.), *Y Golau Gwan: Llythyrau Tom Ellis AS at Annie Davies* (Caernarfon, 1999).

Ellis, Thomas E. (gol.), *Gweithiau Morgan Llwyd* (Llundain, 1899).

Emlyn, Mari (gol.), *Llythyrau'r Wladfa: Cyfrol I (1865-1945)* (Llanrwst, 2009).

Emlyn, Mari (gol.), *Llythyrau'r Wladfa: Cyfrol II (1945-2010)* (Llanrwst, 2010).

Evans, R. (gol.), *Thomas Edward Ellis, Marchog Meirion: Er Cof* (Y Bala, 1909).

Huws, Bleddyn Owen (gol.), *Diflanedig Fyd: Gohebiaeth Carneddog a Gwallter Llyfni, 1926-1932* (Barddas, 2010).

Hywel, Emyr (gol.), *Annwyl D.J.: Llythyrau D.J., Saunders & Kate* (Talybont, 2007).

Ifans, Dafydd (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923-1983* (Aberystwyth, 1992).

Ifans, Dafydd (gol.), *Tyred Drosodd: Gohebiaeth Eluned Morgan a Nantlais* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1977).

Jones, John Puleston, 'Syr O.M. Edwards' yn Jones, R.W. (gol.), *Ysgrifau Puleston* (Y Bala, 1926), tt. 32-57.

Lloyd, John Edward, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest I & II* (Llundain, 1911 & 1913).

Morgan, Kenneth O. (gol.), *Lloyd George Family Letters 1885-1936* (Caerdydd & Rhydychen, 1973).

Price, J. Arthur, 'Thomas Edward Ellis MP' yn Morgan, J. Vyrnwy (gol.), *Welsh Political and Religious Leaders in the Victorian Era* (Llundain, 1908), tt. 373-405.

Taylor, A.J.P. (gol.), *Lloyd George: A Diary by Frances Stevenson* (Llundain, 1973).

Taylor, A.J.P., *My Darling Pussy: The Letteres of Lloyd George and Frances Stevenson 1913-41* (Llundain, 1975).

Watkins, Vernon (gol.), *Dylan Thomas: Letters to Vernon Watkins* (Llundain, 1957).

Williams, W. Llewelyn, 'Representative Welshmen: Owen Morgan Edwards', *Wales* (Ebrill 1912), tt.199-201.

## Ch) Ffynonellau Eilaidd

### (i) Llyfrau

Aaron, Jane et al., *Our Sisters' Land: The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994).

Adams, Rufus, *Lloyd George: The Formative Years 1865 – 1890* (Yr Wyddgrug, 1990).

Alberti, Johanna, *Gender and the Historian* (Harlow & Efrog Newydd, 2002).

Arnold, John H. & Brady, Sean (goln.), *What is Masculinity? Historical Dynamics from Antiquity to the Contemporary World* (Llundain, 2013).

Berger, Stefan, Donovan, Mark & Passmore, Kevin (goln.), *Writing National Histories* (Llundain, 1999).

Bourke, Joanna, *Dismembering the Male: Male's Bodies and the Great War* (Llundain, 1999).

Brady, Sean, *Masculinity and Male Homosexuality in Britain, 1861-1913* (Basingstoke, 2009).

Campbell, John, *Lloyd George: The Goat in the Wilderness, 1922 – 1931* (Llundain, 1977).

Carter, Philip, *Men and the Emergence of Polite Society: 1660-1800* (Harlow, 2001).

Chapman, T. Robin, *Un Bywyd o Blith Nifer: Cofiant Saunders Lewis* (Llandysul, 2006).

Cohen, Michéle, *Fashioning Masculinity: National Identity and Language in the Eighteenth Century* (Llundain & Efrog Newydd, 1996).

Connell, R.W., *Masculinities* (Caergrawnt, 2005).

Connell, R.W., *The Men and the Boys* (Rhydychen, 2000).

Crieger, Don M., *Bounder from Wales: Lloyd George's Career Before the First World War* (Columbia & Lludain, 1976).

Crouthamel, Jason, *An Intimate History of the Front: Masculinity, Sexuality, and German Soldiers in the First World War* (Basingstoke, 2014).

Davidoff, Leonore, *Thicker than Water: Siblings and their Relations 1780-1920* (Rhydychen, 2013).

Davidoff, Leonore & Hall, Catherine, *Family Fortunes: Men and Women of the English Middle Class, 1780-1850* (Llundain, 2002).

Davies, Alfred T. (gol.), *O.M.: A Memoir* (Caerdydd & Wrecsam, 1946).

Davies, Hazel, *O.M. Edwards* (Caerdydd, 1988).

Davies, Hazel, *Bro a Bywyd: Syr O.M. Edwards 1858-1920* (Caerdydd, 1988).

Davies, John, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990).

Davies, Russell, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire, 1870-1920* (Cardiff, 1996).

Davies, W. Beynon, *Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1970).

Dawson, Graham, *Soldier Heroes: British Adventure, Empire and the Imagining of Masculinity* (Llundain, 1994).

de la L. Oulton, Carolyn W., *Romantic Friendship in Victorian Literature* (Burlington, 2007).

Downs, Laura Lee, *Writing Gender History* (Llundain & Efrog Newydd, 2010).

Dudink, Stefan, Hagerman, Karen & Tosh, John (goln.), *Masculinities in Politics and War: Gendering Modern History* (Manceinion, 2004).

Edley, Nigel & Wetherell, Margaret, *Men in Perspective: Practice, Power and Identity* (Llundain, 1995).

Edwards, J. Hugh, *Life of David Lloyd George: Cyfrol I-IV* (Llundain, 1913).

Edwards, Thomas Charles, *Bywyd a Llythyrau y Parchedig Lewis Edwards D.D.* (Lerpwl, 1901).

Ellis, T.I., *John Humphrey Davies (1871-1926)* (Lerpwl, 1963).

Ellis, T.I., *Thomas Edward Ellis: Cofiant I & II* (Lerpwl, 1944 & 1948).

Evans D. Ellis & Jones R. Brynley (goln.), *Cofio'r Dafydd: Cymdeithas Dafydd ap Gwilym 1886-1986* (Abertawe, 1987).

Evans, D. Gareth, *A History of Wales 1815-1906* (Caerdydd, 1989).

Evans, Leslie Wynne, *Studies in Welsh Education 1880-1925* (Caerdydd, 1974).

Evans, Olwen Carey, *Lloyd George was my Father* (Llandysul, 1985).

Evans, Rhys, *Gwynfor: Rhag Pob Brad* (Talybont, 2005).

Faderman, Lillian, *Surpassing the Love of Men*: *Romantic Friendship and Love Between Women from the Renaissance to the Present* (Llundain, 1985).

Foley, Timothy P. et al (goln.), *Gender and Colonialism* (Galway, 1995).

Galasiński, Dariusz, *Men and the Language of Emotions* (Basingstoke & Efrog Newydd, 2004).

George, W.R.P., *Lloyd George: Backbencher* (Llandysul, 1983).

George, W.R.P., *The Making of Lloyd George* (Llundain, 1976).

George, William, *Cymru Fydd: Hanes y Mudiad Cenedlaethol Cyntaf* (Lerpwl, 1945).

George, William, *My Brother and I* (Llundain, 1958).

Gilbert, Bentley Brinkerhoff, *David Lloyd George: A Political Life* (Llundain, 1987).

Gilbert, Martin, *Lloyd George* (New Jersey, 1968).

Griffith, Wyn, *Thomas Edward Ellis 1859-1899* (Llandybie, 1959).

Grigg, John, *Lloyd George: The People's Champion 1902 – 1911* (Llundain, 1978).

Grigg, John, *Lloyd George: From Peace to War 1912 - 1916* (Llundain, 2002).

Grigg, John, *Lloyd George: War Leader 1916 - 1918* (Llundain, 2002).

Grigg, John, *Lloyd George and Wales* (Aberystwyth, 1988).

Grigg, John, *The Young Lloyd George* (Llundain, 1973).

Gruffydd, W.J., *Owen Morgan Edwards: Cofiant* (Aberystwyth, 1937).

Gunn, Simon, *The Public Culture of the Victorian Middle Class* (Manceinion, 2007).

Gunn, Simon & Bell, Rachel, *Middle Classes: Their Rise and Sprawl* (Llundain, 2002).

Hague, Ffion, *The Pain and the Privilege: The Women in Lloyd George's Life* (Llundain, 2008).

Hitchcock, Tim & Cohen, Michèle (goln.), *English Masculinities 1660-1800* (Llundain & Efrog Newydd, 1999).

Hughes, Dewi Rowland, *Cymru Fydd 1886-1896* (Caerdydd, 2006).

Hughes Parry, David, *O Bentref Llanaelhaearn i Ddinas Llundain: Atgofion Syr David Hughes Parry* (Caernarfon, 1972).

Humphreys, E. Morgan, *David Lloyd George* (Caerfyrddin, 1943).

Hywel, Emyr, *Y Cawr o Rydcymerau: Cofiant D.J. Williams* (Talybont, 2009).

Jackson, David, *Unmasking Masculinity: A Critical Autobiography* (Llundain, 1990).

James, Allan, *John Morris-Jones* (Caerdydd, 2011).

James, E. Wyn & Jones, Bill (goln.), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst,
2009).

Jenkins, Gwyn, *Prifweinidog Answyddogol Cymru: Cofiant Huw T. Edwards* (Talybont, 2007).

John, Angela V. (gol.) *Our Mothers' Land: Chapters in Welsh Women's History 1830 – 1939* (Caerdydd, 1991).

John, Angela V. & Eustance, Claire (goln.), *The Men's Share? : Masculinities, Male Support and Women's Suffrage in Britain 1890-1920* (Llundain & Efrog Newydd, 1997).

Jones, G. Arthur, *Bywyd a Gwaith Owen Morgan Edwards* (Aberystwyth, 1958).

Jones, Aled, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff, 1993).

Jones, Gareth Elwyn, *Controls and Conflicts in Welsh Secondary Education 1889-1994* (Caerdydd, 1982).

Jones, Ieuan Wyn, *Y Llinyn Arian: Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee (1815-1898)* (Dinbych, 1998).

Jones, J. Graham, *David Lloyd George and Welsh Liberalism* (Llandysul, 2010).

Jones, Merfyn, *A Radical Life: The Biography of Megan Lloyd George 1902-66* (Llundain, 1991).

Jones, R. Gerallt, *Owen M. Edwards* (Llandybie, 1962).

Jones, R.M., *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Barddas, 1987).

Jones, R. Merfyn, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd, 1981).

Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristionogaeth a Diwylliant yng Nghymru 1890-1914* (Abertawe, 1981- 1982).

Jones, T. Gwynn, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913).

Jones, Thomas, *Lloyd George* (Llundain, 1951).

Jones, Thomas, *Welsh Broth* (Llundain, 1951).

Jones, Wyn, *Thomas Edward Ellis 1859-1899,* (Caerdydd, 1986).

Katz, Jonathan, *Gay American History* (UDA, 1973).

Kinnear, Michael, *The Fall of Lloyd George: The Political Crises of 1922* (Llundain, 1973).

Lindsay, Jean, *The Great Strike: A History of the Penrhyn Quarry Dispute of 1900 – 1903* (Newton Abbot, 1987).

Laqueur, Thomas, *Making Sex: Body and Gender from the Greeks to Freud* (Cambridge, Massachussetts, 1990).

Lloyd, J.E. & Jenkins, R.T. (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940* (Llundain, 1953).

Lloyd George, Owen, *A Tale of Two Grandfathers* (Llundain, 1999).

Lloyd George, Richard, *Dame Margaret* (Llundain, 1948).

Lloyd George, Richard, *Lloyd George* (Llundain, 1960).

Llwyd, Alan, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985* (Talybont, 2011).

Llwyd, Alan, *Bob: Cofiant R. Williams Parry, 1884-1956* (Llandysul, 2013).

Llwyd Alan, *Hedd Wyn: Bardd y Gadair Ddu* (Barddas, 2009).

Llwyd, Alan, *Stori Waldo Williams: Bardd Heddwch* (Barddas, 2010).

Mac an Ghaill, Máirtín (gol.), *Understanding Masculinities: Social Relations and Cultural Arenas* (Philadelphia, 1996).

Martino, Wayne & Pallota-Chiarolli, Maria, *So What's a Boy?: Addressing Issues of Masculinity and Schooling* (Berkshire, 2003).

Masterman, Neville, *The Forerunner* (Abertawe, 1976).

Matthew, H.C.G. & Harrison, Brian (goln.), *Oxford Dictionary of National Biography: From the Earliest Times to the Year 2000* (Rhydychen & Efrog Newydd, 2004).

Mavor, Elizabeth, *The Ladies of Llangollen: A Study in Romantic Friendship*
(Llundain, 2001).

McCormack, Matthew, *Public Men: Masculinity and Politics in Modern Britain*
(Basingstoke, 2007).

McKeon, Michael, *The Secret History of Domesticity: Public, Private, and the Division of Knowledge* (Baltimore, 2007).

McLaren, Angus, *The Trials of Masculinity: Policing Sexual Boundaries, 1870-1930* (Chicago, 1997).

Morgan, D. Densil, *Lewis Edwards* (Caerdydd, 2009).

Morgan, J.J., *Hanes Dafydd Morgan Ysbyty a Diwygiad 59* (Yr Wyddgrug, 1906).

Morgan, Kenneth O., *David Lloyd George: 1863 – 1945* (Caerdydd, 1971).

Morgan, Kenneth O., *Lloyd George* (Llundain, 1974).

Morgan, Kenneth O., *Modern Wales* (Caerdydd, 1995).

Morgan, Kenneth O., *Rebirth of a Nation* (Rhydychen, 1982).

Morgan, Kenneth O., *The Age of Lloyd George* (Llundain, 1971).

Morgan, Kenneth O., *Wales in British Politics 1868-1922* (Caerdydd, 1993).

Mosse, George, *Image of a Man: The Creation of Modern Masculinity* (Efrog Newydd, 1996).

Nardi, Peter M. (gol.) *Men's Friendships* (Newbury Park & Llundain, 1992).

Packer, Ian, *Lloyd George* (Basingstoke, 1998).

Parry, Cyril, *David Lloyd Georg*e (Dinbych, 1984).

Parry, R. Gwynedd, *David Hughes Parry: A Jurist in Society* (Caerdydd, 2010).

Parry Thomas, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd, 1944).

Parry-Williams, T.H., *John Rhŷs 1840 – 1915* (Caerdydd, 1954).

Price, Emyr, *David Lloyd George* (Caerdydd, 2006).

Price, Emyr, *Lloyd George y Cenedlaetholwr Cymreig: Arwr ynteu Bradwr* (Llandysul, 1999).

Price, Emyr, *Megan Lloyd George* (Caernarfon, 1993).

Price, Emyr, *Prentisiaeth Wleidyddol Lloyd George a Phwllheli* (Pwllheli, 1979).

Pryce, Huw, *J.E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Caerdydd, 2011).

Pugh, Martin, *Lloyd George* (Singapore, 1988).

Quinn, Michael & Williams, Gwyn A. (goln.), *Fountains of Praise, University College Cardiff, 1883-1983* (Caerdydd, 1983).

Raynor, John, *The Middle Class* (Harlow, 1969).

Rendall, Jane, (gol.), *Equal or Different : Women's Politics 1800-1914* (Rhydychen, 1987).

Rendall, Jane (gol.), *Writing Women's History, International Perspectives* (Basingstoke, 1991), tt. 45-58.

Roper, Michael, *Masculinity and the British Organization Man since 1945* (Rhydychen, 1994).

Roper, Michael, *The Secret Battle: Emotional Survival in the Great War* (Manceinion, 2009).

Roper, Michael & Tosh, John, *Manful Assertions: Masculinities in Britain Since 1800* (Llundain, 1991).

Rothery, Mark & French, Henry (goln.), *Making Men: The Formation of Elite Male Identities in England, c. 1660-1900* (Basingstoke, 2012).

Rowbotham, Sheila, *Hidden From History: 300 Years of Women's Oppression and the Fight Against it* (Llundain, 1977).

Rowland, Peter, *Lloyd George* (Llundain, 1975).

Rowlands, Dwysan (gol.), *Ardal y Pethe: Hanes y Sarnau mewn Darluniau* (Llanrwst, 1994).

Rutherford, Jonathan, *Forever England: Reflections on Masculinity and Empire* (Llundain, 1997).

Shepard, Alexandra & Walker, Garthine (goln.), *Gender and Change: Agency, Chronology and Periodisation* (Rhydychen, 2009).

Smith, Dai, *A Question for History* (Cymru, 1999).

Smith, Robert, *Schools, Politics and Society: Elementary Education in Wales, 1870-1902* (Caerdydd, 1999).

Smith-Rosenberg, Carroll, *Disorderly Conduct: Visions of Gender in Victorian America*, (UDA, 1987).

Stevenson, Frances, *The Years that are Past* (Llundain, 1967).

Stone, Lawrence, *The Family, Sex and Marriage in England 1500-1800* (Harmondsworth, 1979).

Tadmor, Naomi, *Family and Friends in Eighteenth-Century England: Household, Kinship and Patronage* (Caergrawnt, 2001).

Taylor, A.J.P., *Lloyd George: Twelve Essays* (Llundain, 1971).

Tosh, John, *A Man's Place: Masculinity and the Middle-Class Home in Victorian England* (New Haven & Llundain, 2007).

Tosh, John, *Manliness and Masculinities in Nineteenth Century Britain* (Efrog Newydd, 2005).

Vittle, Arwel, *Valentine: Cofiant i Lewis Valentine* (Talybont, 2006).

Wallace, Ryland, *The Women's Suffrage Movement in Wales 1866-1928* (Caerdydd, 2009).

Whitaker, Jarrod, *Strong Arms and Drinking Strength: Masculinity, Violence, and the Body in Ancient India* (Rhydychen, 2001).

Williams, Gwyn A., *When Was Wales?* (Llundain, 1985).

Williams, J. Gwynn, *The University Movement in Wales* (Cardiff, 1993).

Williams, Jac L., *Owen Morgan Edwards 1858-1920* (Aberystwyth, 1959).

Williams, Jac L. & Hughes, Gwilym Rees, *The History of Education in Wales* (Abertawe, 1978).

Wrigley, Chris, *David Lloyd George and the British Labour Movement: Peace and War* (Efrog Newydd, 1976).

Wrigley, Chris, *Lloyd George* (Prydain Fawr, 1992).

**(ii) Erthyglau**

Acton, Carol, 'Writing and Waiting: The First World War Correspondence Between Vera Brittain and Roland Leighton,' *Gender & History,* 11:1 (Ebrill 1999), tt. 54-83.

Alexander, Lynne M., 'Labouring Fathers: Parenthood, Class and Gender', *Nineteenth-Century Gender Studies,* 4.3 (Gaeaf 2008), http://www.ncgsjournal.com/.

Atkinson, Sue & Swain, Shurlee, 'A Network of Support: Mothering across the Koori Community in Victoria, Australia', *Women's History Review,* 8:2 (Mehefin 1999), tt. 219-230.

Baltzer-Lovato, Jennifer, 'Walls of Smoke: Gender, Boundaries and Tobacco in the Sensation Decade', *Nineteenth-Century Gender Studies,* 9:1 (Gwanwyn 2013), http://www.ncgsjournal.com/.

Beddoe, Deidre, 'Images of Welsh Women' yn Curtis, Tony (gol.), *Wales: The Imagined Nation, Studies in Cultural and National Identity* (Penybont, 1986), tt. 227-238.

Bell, Johnny, 'Putting Dad in the Picture: Fatherhood in the Popular Women's Magazines of 1950s Australia', *Women's History Review,* 22:6 (Rhagfyr 2013), tt. 904-929.

Boydstone, Jeanne, 'Gender as a Question of Historical Analysis', *Gender & History,* 20:3 (Tachwedd 2008), tt. 558-583.

Cancian, Sonia, 'The Language of Gender in Lovers' Correspondence, 1946–1949', *Gender & History,* 24:3 (Tachwedd 2012), tt. 755–765.

Cannon, Charmian, 'Peg's War: A Story Told Through Letters', *Women's History Review,* 22:4 (Awst 2013), tt. 591-606.

Connell, R.W., 'The Big Picture: Masculinities in Recent World History', *Theory and Society,* 22:5 (Hydref 1993), tt. 597-623.

Connell, R.W. & Messerschmidt, James W., 'Hegemonic Masculinity: Rethinking the Concept', *Gender & Society,* 19:6 (Rhagfyr 2005), tt. 829-859.

Cowen, Brian, 'What Was Masculine about the Public Sphere? Gender and the Coffeehouse Milieu in Post-Restoration England', *History Workshop Journal,* 51 (Gwanwyn 2001), tt. 127-157.

Damousi, Joy, ‘Private Loss, Public Mourning: Motherhood, Memory and Grief in Australia During the Inter-war Years’, *Women’s History Review,* 8:2 (Mehefin 1999), tt. 365-378.

Daunton. M.J., ‘Public Space and Private Space: The Victorian City and Working Class Household’ yn Fraser, Derek & Sutcliffe, Anthony (goln.) *The Pursuit of Urban History* (Llundain, 1993), tt. 213-232.

Davidoff, Leonore, ‘Gender and the “Great Divide”: Public and Private in British Gender History, *Journal of Women's History,* 15.1 (Gwanwyn 2003), tt. 11-27.

Davidoff, Leonore & Hall, Catherine, ‘The Architecture of Public and Private Life: English Middle Class Society in a Provincial Town 1780-1850’ yn Fraser, Derek & Sutcliffe, Anthony (goln.), *The Pursuit of Urban History* (Llundain, 1983), tt. 327-345.

Davidoff, Leonore, McClelland, Keith & Varikas, Eleni, ‘Introduction: Gender and History – Retrospect and Prospect’, *Gender & History,* 11:3 (Tachwedd 1999), tt. 415-418.

Davies, Hazel, ‘Boundaries: The Early Travel Books and Periodicals of O.M. Edwards’, yn Edwards, Hywel Teifi (gol.), *A Guide to Welsh Literature c. 1800-1900* (Caerdydd, 2000), tt. 186-209.

Davies, Hazel, ‘Divisions: The Private and Public Lives of O.M. Edwards’, *Planet,* 76 (Awst/Medi 1989), tt. 76-81.

Davies, John, ‘O.M. Edwards’, *Welsh Historian* (Gwanwyn 1987), tt. 26-27.

Davies, John, ‘Victoria and Victorian Wales’ yn Jenkins, Gareth H. & Smith, Beverley (goln.), *Politics and Society in Wales, 1840-1922* (Caerdydd, 1988), tt.7-28.

Day, Graham & Suggett, Richard, ‘Conceptions of Wales and Welshness: Aspects of Nationalism in Nineteenth-Century Wales’ yn Rees, Gareth et al (goln.), *Political Action and Social Identity: Class, Locality and Ideology* (Basingstoke, 1985), tt. 91-115.

Doolittle, Megan, ‘Close Relations? Bringing Together Gender and Family in English History’, *Gender & History,* 11:3 (Tachwedd 1999), tt. 542-554.

Edwards, W.J., ‘O.M. Edwards a’i Hen Gyfaill ‘Nodwr’’, *Y Casglwr,* 46 (Mawrth 1992), t. 3.

Edwards, Hywel Teifi, ‘Arwr Trasig y Ddinas ar Fryn’, *Golwg* (14 Mawrth 1991), tt. 22-23.

Edwards, Hywel Teifi, 'Victorian Stocktaking' yn ei (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1800 – 1900* (Caerdydd, 2000), tt. 210-231.

Edwards, Hywel Teifi, 'Victorian Wales Seeks Reinstatement', *Planet,* 52 (Awst/Medi 1985), tt. 12-24.

Edwards, J. Goronwy, 'Hanesyddiaeth Gymreig yn yr Ugeinfed Ganrif', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1953), tt. 21-31.

Ellis, Mari, 'T.E. Ellis a Cheredigion', *Ceredigion: Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Ceredigion,* 14:2 (2002), tt. 24-37.

Ellis, T.I., 'T.E.: Letters from South Africa, 1890', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 11:2 (Gaeaf 1959), tt. 167-171.

Evans, Gwynfor, 'O.M. Edwards' yn ei *Seiri Cenedl* (Llandysul, 1986), tt. 242-247.

Evans, Neil, 'Finding a New Story: The Search for a Useable Past in Wales, 1869-1930', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,*10 y gyfres newydd 2003 (2004), tt.144-162.

Evans, Neil, 'Internal Colonialism? Colonization, Economic Development and Political Mobilization in Wales, Scotland and Ireland' yn Day, Graham & Rees, Gareth (goln.), *Regions, Nations and European Integration* (Caerdydd, 1991), tt. 235-264.

Evans, Neil, '''When Men and Mountains Meet'': Historians' Explanations of the History of Wales, 1890 -1970', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 22:2 (Rhagfyr 2004), tt. 222-251.

Evans, Neil, 'Writing the Social History of Modern Wales: Approaches, Achievements and Problems', *Social History,* 17:3 (Mai 1992), tt. 479-492**.**

Evans, W.G., '"Organise the Training of Welsh Teachers and Liberalise their Education": Tom Ellis and the Reform of Teaching,' *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 19:4 (Rhagfyr 1999), tt. 713-739.

Evans, W.G., 'T.E. Ellis M.P. and the Free Elementary Education Act, 1891', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 11(1990-1993), tt. 446–458.

Evans, W. Gareth, 'Canmlwyddiant T.E. Ellis A.S., a Helynt Ysgol Cynwyd 1886-89', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 10 (1986-1989), tt. 142-156.

Evans, W. Gareth, 'T.E. Ellis, M.P. and the Welsh Intermediate and Technical Education Act 1889 in Merioneth', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 11 (1990-1993), tt. 98-121.

Francis, Michael, ‘The Domestication of the Male? Recent Research on Nineteenth and Twentieth Century British Masculinity’, *The Historical Journal,* 45:3 (Medi 2002), tt. 637-652.

Gleadle, Kathryn, ‘Revisiting *Family Fortunes*: Reflections on the Twentieth Anniversary of the Publication of L. Davidoff & C. Hall (1987) *Family Fortunes: Men and Women of the English Middle Class, 1780–1850* (London: Hutchinson)’, *Women’s History Review,* 16: 5 (Tachwedd 2007), tt. 773-782.

Good, Cassandra A., ‘Friendly Relations: Situating Friendships Between Men and Women in the Early American Republic, 1780-1830’, *Gender & History,* 24:1 (Ebrill 2012), tt. 18-34.

Gruffudd, Pyrs, ‘Remaking Wales: Nation-building and the Geographical Imagination, 1925-1950’, *Political Geography,* 14:3 (Ebrill 1995), tt. 219-239.

Gruffudd, Pyrs, ‘The Countryside as Educator: Schools, Rurality and Citizenship in Inter-War Wales’, *Journal of Historical Geography,* 22: 4 (Hydref 1996), tt. 412-423.

Hall, Catherine, ‘Gender Divisions and Class Formation in the Birmingham Middle Class, 1780-1850’, yn Raphael, Samuel (gol.), *People’s History and Socialist Theory* (Llundain, 1981), tt. 164-175.

Hall, Catherine, ‘Men and their Histories: Civilizing Subjects’, *History Workshop Journal,* 52 (Hydref 1991), tt. 49-66

Hall Catherine, ‘Private Persons Versus Public Someones: Class, Gender and Politics in England, 1780-1850’, yn Steadman, Carolyn, Unwin, Cathy & Walkerdine, Valerie (goln.) *Language, Gender and Childhood* (Llundain, 1985), tt. 10-33.

Hammerton, A. James, ‘Pooterism or Partnership? Marriage and Masculine Identity in the Lower Middle Class, 1870-1920’, *Journal of British Studies,* 38:3 (Gorffennaf 1999), tt. 291-321.

Hannan, Leonie, ‘Making Space: English Women, Letter-Writing, and the Life of the Mind, c.1650–1750’, *Women’s History Review,* 21:4 (Medi 2012), tt. 589–604.

Harvey, Karen, ‘Men Making Home: Masculinity and Domesticity in Eighteenth Century Britain’, *Gender & History,* 21:3 (Tachwedd 2009), tt. 520-540.

Harvey, Karen, ‘The History of Masculinity, circa 1650-1800’, *Journal of British Studies,* 44:2 (Ebrill 2005), tt. 296-311.

Harvey, Karen and Shepard, Alexandra, 'What have Historians done with Masculinity? Reflections of Five Centuries of British History, Circa 1500-1950', *Journal of British Studies,* 44:2 (Ebrill 2005), tt. 274-280.

Harvie, Christopher, 'The Folk and the *Gwerin*: The Myth and the Reality of Popular Culture in 19th-Century Scotland and Wales', *Proceedings of the British Academy,* 80 (1991), tt. 19-48.

Hodson, Simon, 'The Power of Female Dynastic Network: A Brief Study of Louise de Coligny, Princess of Orange, and her Stepdaughters', *Women's History Review,* 16:3 (Gorffennaf 2007), tt. 335-351.

Holton, Sandra Stanley, 'Kinship and Friendship: Quaker Women's Network and the Women's Movement' *Women's History Review,* 14:3-4 (Gorffennaf 2005), tt. 365-384.

Hughes, D.R., 'O'r Bala I Dde Affrica: Taith Wleidyddol Tom Ellis', *Y Traethodydd,* CLII, 643 (1997), tt. 206-222.

Hunter, Kate, 'More than an Archive of War: Intimacy and Manliness in the Letters of a Great War Soldier to the Woman he Loved, 1915-1919', *Gender & History,* 25:2 (Awst 2013), tt. 339-354.

Jenkins, R.T., 'Owen Edwards', *Y Llenor,* 9:1 (1930), tt. 6-21.

Jones, Aled & Jones, Bill, 'Empire and the Welsh Press' yn Potter, Simon (goln.), *Newspapers and Empire in Ireland and Britain* (Dublin, 2004), tt.75-91.

Jones, Bobi, 'Dau Werinwr I: O.M. Edwards' yn ei *I'r Arch* (Llandybie, 1959), tt. 121-126.

Jones, Frank Price, 'Tom Ellis 1859-99', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1960) tt. 53-64.

Jones, Gareth Elwyn, 'Those Who Can, Teach: The Achievement of O.M. Edwards', *Planet,* 76 (Awst/Medi 1989), tt. 82-87.

Jones, Gwilym A., 'O.M. Edwards' yn Jones, Mairwen & Jones, Gwynn (goln.), *Dewiniaid Difyr* (Llandysul, 1983), tt. 87-96.

Jones, J. Graham, 'A Biography for Thomas Edward Ellis (1859-1899)', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 16:1 (2010), tt. 42-56.

Jones, J. Graham, 'A Monument to Thomas Edward Ellis (1859-99)', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 16:3 (2012), tt. 293-303.

Jones, J. Graham, ‘A Letter from Dame Margaret’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 68 (2007), tt. 93-101.

Jones, J. Graham, ‘A Letter from Lloyd George’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 64 (2003), tt. 87-93.

Jones, J. Graham, ‘A Lloyd George Letter’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 32:1 (Haf, 2001), tt. 95-101.

Jones, J. Graham, ‘A Letter from Lloyd George’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 33:4 (2005), tt. 481-489.

Jones, J. Graham, ‘Advice from a Friend: D. Lloyd George, Sir J. Herbert Lewis and the Aftermath of the Political Crisis of 1931’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 30:3 (Haf 1998), tt. 323-339.

Jones, J. Graham, ‘‘Auntie Pollie’: Mrs Mary Elen Davies (1861-1909), sister of Lloyd George’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 65 (2004), tt. 111-131.

Jones, J. Graham, ‘Biographies: Thomas Edward Ellis (1869-1899), *Journal of Liberal Democrat History,* 24 (Hydref 1999), tt. 30-31.

Jones, J. Graham, ‘Dame Margaret Lloyd George, The Norway Debate and the fall of Neville Chamberlain’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 31:4 (Gaeaf 2000), tt. 423-432.

Jones, J. Graham, ‘David Lloyd George and D.R. Daniel,’ *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 70 (2009), tt. 107-131.

Jones, J. Graham, ‘David Lloyd George and Thomas Edward Ellis’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 34 (2006), tt. 253-291.

Jones, J. Graham, ‘Earl Lloyd George of Dwyfor, A.J. Sylvester and the Caernarfon Boroughs Vacancy of 1945’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 61 (2000), tt. 111-133.

Jones, J. Graham, ‘Framing the People’s Budget’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1991), tt. 285-298.

Jones, J. Graham, ‘Keeper of Secrets: Albert James Sylvester CBE (1889-1989)’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol,* 33:2 (Gaeaf 2003), tt. 169-199.

Jones, J. Graham, ‘Letters from Margot Asquith’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 29:1 (Haf 1995), tt. 101-108.

Jones, J. Graham, ‘Letters from Winston Churchill’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 31:1 (Haf 1999), tt. 107-111.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George and the Abdication of Edward VIII', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 30:1 (Haf 1997), tt. 89-105.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George and Dame Margaret 1921-1941', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 67 (2006), tt. 98-127.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George and the Caernarfon Boroughs Election of 1892', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 52-53 (1991-1992), tt. 31-50.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, the Caernarfon Boroughs and 1931', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 69 (2008), tt. 81-104.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George and the National Government: Some Footnotes', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 32:4 (Gaeaf 2002), tt. 479-490.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George and the Suffragettes', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 33:1 (Haf 2003), tt. 1-34.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George at Paris, 1938', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 17 y gyfres newydd 2010 (2011), tt. 86-96.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George at Eighty', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 16 y gyfres newydd 2009 (2010), tt. 61-81.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, Asquith and 'the Conspiracy Myth': New Evidence', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 28:2 (Gaeaf 1993), tt. 219-228.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, Cymru Fydd and the Newport Meeting of January 1896', *Cylchgrawn Llyfrgell Gendlaethol Cymru,* 29:4 (Gaeaf 1996), tt. 435-453.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, Caernarfon Boroughs and Manchester East', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 59 (1998), tt. 117-134.

Jones, J. Graham Jones, 'Lloyd George, Edward VII and a 'Minister for Wales', *Buletin Board of Celtic Studies,* 37 (1990), tt. 208-214.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, Welsh Liberalism and the Political Crisis of 1931', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 19:1 (Mehefin 1998), tt. 68-102.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George's Diary for 1885', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 69 (2008), tt. 37-60.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George's Diary for 1886', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 70 (2009), tt. 66-84.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George's Diary for 1887', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 71* (2010), tt. 47-62.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George's Diary for 1888', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 72 (2011), tt. 87-95.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, the 'New Deal' and the Council of Action for Peace and Reconstruction, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* y gyfres newydd cyfrol 5 1998 (1999), tt. 80-109.

Jones, J. Graham, 'Lloyd George, W. Llewelyn Williams and the 1916 Conscription Bill', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 31:2 (Gaeaf 1999), tt. 173-187.

Jones, J. Graham, 'Mair Eluned Lloyd George (1890-1907)', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 60 (1999), tt. 33-54.

Jones, J. Graham, 'Major Gwilym Lloyd-George, First Viscount Tenby (1894-1967), *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 32:2 (Gaeaf 2001), tt. 177-204.

Jones, J. Graham, 'Michael Davitt, David Lloyd George and T.E. Ellis: The Welsh Experience, 1886', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 18:3 (Mehefin 1997), tt. 450-482.

Jones, J. Graham, ''Quietly I Hope to Push on Welsh Questions Substantially': Thomas Edward Ellis as a Second Whip', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 14:3 (2004), tt. 230-239.

Jones, J. Graham, 'Sir Arthur Acland and Thomas Edward Ellis: Parliamentary Colleagues', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 14:4 (2005), tt. 356-375.

Jones, J. Graham, 'Sir J. Herbert Lewis and Thomas Edward Ellis: Political Friends', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 15:1 (2006), tt. 70-87.

Jones J. Graham, 'Sir Robert Hudson and Thomas Edward Ellis: Servants of the Liberal Party', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 15:4 (2009), tt. 435-351.

Jones, J. Graham, 'The Golden Wedding of Lloyd George and Dame Margaret 1938', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 71 (2010), tt. 132-148.

Jones, J. Graham, 'The Last Months of David Lloyd George, September 1944 - March 1945', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 66 (2005), tt. 168-190.

Jones, J. Graham, 'The Littérateur as Politician: Owen M. Edwards M.P.', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 17:4 (Rhagfyr 1995), tt. 571-589.

Jones, J. Graham, 'The Lloyd George '*War Memoirs'*, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 14 y gyfres newydd 2007 (2008), tt. 127-143.

Jones, J. Graham, 'The Marriage of Thomas Edward Ellis, MP and Annie Jane Davies of Cwrt Mawr, Llangeithio, in 1898', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,*16:2 (2011), tt. 190-199.

Jones, J. Graham, 'The Political Baptism of Thomas Edward Ellis', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 12:4 (1997), tt. 366-383.

Jones, J. Graham, 'The Reminiscences of Dame Margaret Lloyd George', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 34:1 (2006), tt. 100-128.

Jones, J. Graham, 'Thomas Edward Ellis and the Temperance Campaign', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chonfodion Sir Feirionnydd,* 14:2 (2003), tt. 175-184.

Jones, J. Graham, 'Thomas Edward Ellis (1859-99): Roseberyite?', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 13:1 (1998), tt. 53-72.

Jones, J. Graham, 'W. Llewelyn Williams, M.P. (1867-1922) and the First World War', *The Carmarthen Antiquary,* 17 (2006), tt. 84-103.

Jones, J. Graham, 'Welsh Politicians and their Papers', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 4 y gyfres newydd 1997 (1998), tt. 153-167.

Jones, Manon, 'Annwyl Gyfaill…': Yr Ohebiaeth Rhwng John Morris-Jones ac O.M. Edwards', *Y Traethodydd,* CLXIX, 709 (Ebrill 2014), tt. 114-139.

Jones, Manon, 'Owen Morgan Edwards: Hanesydd Cymreig', *Y Traethodydd,* CLXV, 695 (Hydref 2010), tt. 207-231.

Jones, Philip Henry, '*Yr Amserau:* The First Decade 1843-52' yn Brake, Laurel, Jones, Aled & Madden, Lionel (goln.), *Investigating Victorian Journalism* (Llundain, 1990), tt. 85-103.

Jones, Rosemary, 'The Welsh Language and its Social Domains: 'Separate Spheres?'' yn Jenkins, Geraint (gol.), *The Welsh Language and its Social Domains* (Caerdydd, 2000), tt. 177-213.

Jones, Thomas, ‘Dyddiadau Cyhoeddi “O’r Bala i Geneva”, “Tro yn yr Eidal” a “Tro yn Llydaw”’, *Journal of the Welsh Bibliographical Society,* 9:2 (Gorffennaf 1959), tt. 78-82.

Jones-Roberts, K.W., ‘D.R. Daniel, 1859-1931’, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd,* 5:1 (1965), tt. 57-77.

Kerber, Linda K., ‘Separate Spheres, Female World, Woman’s Place: The Rhetoric of Women’s History’, *The Journal of American History,* 75:1 (Mehefin 1998), tt. 9-39.

Lewis, Saunders, ‘O.M. Edwards’ yn Gruffydd, R. Geraint (gol.), *Meistri’r Canrifoedd gan Saunders Lewis* (Caerdydd, 1973), tt. 387-394.

Light, Julie, ‘The Middle Classes as Urban Elites in Nineteenth Century South Wales’, *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 24:3 (Gorffennaf 2009), tt. 29-55.

Lloyd, D. Tecwyn, ‘Hanes Masnachol Rhai o Gyhoeddiadau Syr O.M. Edwards’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 15:1 (Haf 1967), tt. 55-71.

Lloyd, D. Tecwyn, ‘Nodyn ar y Cymru Coch’, *Journal of the Welsh Bibliographical Society,* 10:1 (Rhagfyr 1966), tt. 27-28.

Lloyd, Wynne L., ‘Owen M. Edwards’ yn Charles Gittens (gol.), *Pioneers of Welsh Education* (Abertawe, (1964)), tt. 83-100.

Llywelyn-Williams, Alun, ‘Owen M. Edwards: Hanesydd a Llenor’, *Y Traethodydd,* CXIV, 490 (1959), tt. 1-16.

Masson, Ursula, ‘‘Hand in Hand with the Women, Forward We Will Go’: Welsh Nationalism and Feminism in the 1890s’, *Women’s History Review,* 12:3 (Medi 2003), tt. 357-386.

Milne-Smith, Amy, ‘A Flight to Domesticity? Making a Home in the Gentlemen’s Clubs of London, 1880-1914’, *Journal of British Studies,* 45:4 (Hydref 2006), tt. 796-818.

Moreton, Emma,‘Profiling the Female Emigrant: A Method of Linguistic Inquiry for Examining Correspondence Collections’, *Gender & History,* 24:3 (Tachwedd 2012), tt. 617–646.

McClain, Molly, ‘Love, Friendship, and Power: Queen Mary II’s Letters to Frances Apsley,’ *Journal of British Studies,* 47:3 (Gorffennaf 2008), tt. 505-527.

Millward, E.G., ‘Gwaith Cynnar O.M. Edwards’ yn ei *Cenedl o Bobl Ddewrion* (Llandysul, 1991), tt. 166-182.

Millward, E.G., 'O.M. Edwards', yn Bowen, Geraint (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul, 1976), tt. 37-54.

Millward, E.G., 'O.M. Edwards a Michael D. Jones' yn Williams, J.E. Caerwyn (gol.) *Ysgrifau Beirniadol* 5 (Dinbych, 1970), tt. 163-166.

Moore, Lindy, ''A Notable Personality': Isabella Fyvie Mayo in the Public and Private Spheres of Aberdeen', *Women's History Review,* 22:2 (Ebrill 2013), tt. 239-252.

Moore, Stephen, ' "A Nation of Harelquins"? Politics and Masculinity in Mid-Eighteenth-Century England', *Journal of British Studies,* 49:3 (Gorffennaf 2010), tt. 514-539.

Morgan, Catrin Puw, 'Athro ar Daith', *Yr Arloeswr,* 5 (Gaeaf 1959), tt. 5-12.

Morgan, Kenneth O., 'Lloyd George and the Historians', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* Sesiwn 1971: Rhan 1 (1972), tt. 65-85.

Morgan, Kenneth O., 'Tom Ellis versus Lloyd George & the Fractued Consciousness of Fin-de-siėcle Wales', yn Jenkins, G.H. & Smith, J.B. (goln.), *Politics and Society in Wales, 1840 – 1922* (Caerdydd, 1988), tt. 93-112.

Morgan, Kenneth O., 'The New Liberalism and the Challenge of Labour: The Welsh Experience, 1885 – 1929', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 6:3 (Mehefin 1973), tt. 288-312.

Morgan, Kenneth O., 'Twf Cenedlaetholdeb Fodern yng Nghymru' yn Jenkins, Geraint H. (gol.) *Cof Cenedl IX* (Llandysul, 1994), tt. 147-177.

Morgan, Kenneth O., 'Welsh Nationalism: The Historical Background', *Journal of Contemporary History,* 6:1 (Ionawr 1971), tt. 153-172.

Morgan, Prys, 'From a Death to a View: The Hunt for the Welsh Past in the Romantic Period' yn Hobsbawm, Eric & Ranger, Terence (goln.), *The Invention of Tradition* (Caergrawnt, 1992), tt. 43-100.

Morgan, Prys, 'Keeping the Legends Alive' yn Curtis, Tony (gol.) *Wales, The Imagined Nation: Essays in Cultural and National Identity* (Penybont, 1986), tt. 19-41.

Morgan, Prys, 'The *Gwerin* of Wales – Myth and Reality' yn Hume, Ian & Pryce, W.T.R. (goln.), *The Welsh and their Country* (Llandysul, 1986), tt. 134-152.

Morgan, T.J., 'Owen M. Edwards', yn Williams, J.E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol* 3 (Dinbych, 1967), tt. 86-100.

Novikova, Irina, ‘Renaming Men: the Politics of Memory and the Commemoration of War at the Baltic–Russian Crossroads’, *Women’s History Review,* 20:4 (Medi 2011), tt. 589–597.

O’Leary, Paul, ‘Masculine Histories: Gender and the Social History of Modern Wales, *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 22:2 (Rhagfyr 2004), tt. 252-277.

O’ Leary, Paul, ‘Networking Respectability: Class and Gender among the Irish in South Wales, 1845-1914, *Immigrants and Minorities,* 23:2-3 (2005), tt. 255-275.

Olsen, Stephanie, ‘The Authority of Motherhood in Question: Fatherhood and the Moral Education of Boys in Victorian England, c. 1870-1900’, *Women’s History Review,* 18:5 (Rhagfyr 2009), tt. 765-780.

Packer, Ian, ‘Lloyd George and Land Reform: The Welsh Context’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 15 y gyfres newydd 2008 (2009), tt. 127-145.

Pierce, G. O., ‘Nonconformity and Politics’ yn Roderick, A.J. (gol.), *Wales Through The Ages: Volume II* (Llundain, 1965), tt. 168-176.

Price, Emyr, ‘David Lloyd George: Y Bachgen Henadur a’r Cenedlaetholwr Cymreig’, Jenkins, Geraint H. (gol.), *Cof Cenedl XIII* (Llandysul, 1998), tt. 135-164.

Price, Emyr, ‘Lloyd George a “Rhyfel y Degwm” yn Llŷn ac Eifionnydd’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 39 **(**1978), tt. 150-169.

Price, Emyr ‘Lloyd George and the By-Election in the Caernarfon Boroughs 1890’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 36 (1975), tt. 136-172.

Price, R. Emyr, ‘Lloyd George and Merioneth Politics 1885, 1886 – A Failure to Effect a Breakthrough’, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Ferionnydd,* 7:3 (1975), tt. 292-307.

Randall, Peter J., ‘The Origins and Establishment of The Welsh Department of Education’, *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 7:4 (Rhagfyr 1975), tt. 450-471.

Rendall, Jane, ‘ “Uneven Developments”: Women’s History, Feminist History and Gender History in Great Britain’, yn Offen, Karen, Roach Pierson, Ruth & Rendall,
Jane, ‘Women and the Public Sphere’, *Gender & History,* 11:3 (Tachwedd 1999), tt. 475-488.

Rees, J.F., ‘Of Welsh Nationality and Historians’, yn ei *The Problem of Wales and other Essays* (Caerdydd, 1963), tt. 27-39.

Roberts, Brynley F., ‘Welsh Periodicals: A Survey’ yn Brake, Laurel, Jones, Aled & Madden, Lionel (goln.) *Investigating Victorian Journalism* (Llundain, 1990), tt. 71-84.

Roper, Michael, ‘Between Manliness and Masculinity: The “War Generation” and the Psychology of Fear in Britain, 1941-1950’, *Journal of British Studies,* 44:2 (Ebrill 2005), tt. 342-362.

Ross, Ellen ‘Survival Networks: Women's Neighbourhood Sharing in London Before World War I’, *History Workshop Journal,* 15 (Gwanwyn 1983), tt. 4-27.

Scott, Joan Wallach, ‘Gender: A Useful Category of Historical Analysis’, *American Historical Review,* 91:5 (Rhagfyr 1986), tt. 1053-1075.

Scott, Joan Wallach, ‘Unanswered Questions’, *American Historical Review,* 113:5 (2008), tt. 1422-1430.

Shepard, Alexandra, ‘From Anxious Patriarchs to Refined Gentlemen? Manhood in Britain, circa 1500-1700’, *Journal of British Studies,* 44:2 (Ebrill 2005), tt. 281-
295.

Sherrington, Emlyn, ‘O.M. Edwards, Culture and the Industrial Classes’, *Llafur* 6:1 (1992), tt. 28-41.

Simon-Martin, Meritxell, ‘Barbara Leigh Smith Bodichon’s Travel Letters: Performative Identity Formation in Epistolary Narratives’, *Women’s History Review,* 22:2 (Ebrill 2013), tt. 225–238.

Stanley, Liz, ‘Romantic Friendship? Some Issues in Researching Lesbian History and Biography,’ *Women’s History Review,* 1:2 (Ionawr 1992), tt. 193-216.

Stanley Holton, Sandra, ‘Challenging Masculinism: Personal History and Microhistory in Feminist Studies of the Women’s Suffrage Movement’, *Women’s History Review,* 20:5 (Tachwedd 2011), tt. 829–841.

Taylor, Claire, ‘Women’s Social Networks and Female Friendship in the Ancient Greek City’, *Gender & History,* 23:3 (Tachwedd 2011), tt. 703-720.

Tosh, John, ‘Masculinities in an Industrializing Society: Britain 1800-1914’, *Journal of British Studies,* 44:2 (Ebrill 2005), tt. 330-342.

Tosh, John, ‘What Should Historians do with Masculinity?’, *History Workshop Journal,* 38 (Hydref 1994), tt. 179-201.

Vickery, Amanda, ‘Golden Age to Separate Spheres? A Review of the Categories and Chronology of English Women’s History’, *The Historical Journal*, 36:2 (Mehefin 1993), tt. 383-414.

Walters, Huw, ‘The Periodical Press to 1914’ yn Jones, P.H. & Rees, E (goln.), *A Nation and its Books: A History of the Book in Wales* (Aberystwyth, 1998), tt.197-207.

Ward, Stephanie, ‘Drifting into Manhood and Womanhood: Courtship, Marriage and Gender among Young Adults in South Wales and the North-east of England in the 1930s’, *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 26:4 (Rhagfyr 2013), tt. 623-648.

Warren, Kim, ‘Separate Spheres: Analytical Persistence in United States Women’s History, *History Compass,* 5:1 (Ionawr 2007), tt. 262-277.

Webster, J.R., ‘The First Reports of Owen M. Edwards on Welsh Intermediate Schools’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 10:1 (Gaeaf 1958), tt. 390-394.

Wicklen, Stan, ‘O.M. Edwards a Chyfres y Fil’, *Y Casglwr,* 42 (Nadolig 1990), t. 15.

Williams, Emyr W., ‘Tom Ellis a Mudiad Cymru Fydd 1886-90’, *Taliesin,* 59 (Mai 1987), tt. 87-98.

Williams, H.G., ‘Arthur Acland, Tom Ellis and Welsh Education: A Study in the Politics of Idealism’, *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 17:3 (Mehefin 1995), tt. 387-410.

Williams, Gwyn A., ‘When Was Wales?’ yn ei *The Welsh in their History* (Llundain, 1982),tt. 189-201.

Williams, J.E. Caerwyn, ‘Cenedlaetholdeb Haneswyr Cymru Gynnar Rhydychen’, *Yr Aradr: Cylchgrawn Cymdeithas Dafydd ap Gwilym,* 7 (1996), tt. 66-83.

Williams, J.E. Caerwyn, ‘Gweledigaeth Owen Morgan Edwards’, *Taliesin,* 4 ((Nadolig 1962)), tt. 5-29.

Williams, Mari, ‘‘The New London Welsh’: Domestic Servants 1918-1939’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 9 y gyfres newydd 2002 (2003), tt. 135-151.

## D) Traethodau Ymchwil Anghyhoeddedig

Tudur, Dafydd, ‘The Life, Thought and Work of Michael Daniel Jones (1822–1898)’, (thesis PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru [Bangor], 2006).

Wright, Martin, ‘Wales and Socialism: Political Culture and National Identity’ (thesis PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Caerdydd, 2011).